

BREUDDWYDION MAXINE

NOFEL

BOBI JONES

I  
BETI

Dychmygol yw holl gymeriadau'r nofel hon.

Dychmygol yw hyd yn oed yr awdur.

RHAN I

Roedd Maxine Pearse yn weddol argyhoeddedig ei bod wedi syrthio mewn cariad. Ond un o'r menywod hynny oedd hi, ar ôl amau'i bod yn meddu ar y fath gyflwr anghyfforddus, a ffwdanai'n od o gydwybodol ynghylch pa un o'r cerrig ar draws wyneb ei llyn y dylai'i chydabod yn awdur i'r crych y tro hwn.

Digon i rywrai yw bod mewn cariad. Myn eraill blymio'n drafferthus i ddod o hyd i wrthrych yr anesmwythyd.

'Fyset ti byth yn credu,' meddai hi yn ei Chymraeg safonol gyda gwyriad deuseiniaid Awstralia yn damsang arno, a chan rollo diffyg ystyr ei llygaid yr un pryd. 'Na. Fyset ti ddim.'

'O! byswn,' meddai Mair yn araul o hyderus. 'Dyw hynny ddim yn astrus chwaith. Un pen moel. Beth arall?...O! a smicyn o freuddwyd.'

Hedai gwên fach ddistaw wybodus ychydig uwch wyneb y lawnt gan eu cylchu. Ni laniai ar yr un o'u hwynebau.

Troliai Maxine ei llygaid drachefn yng nghasino'i phenglog. Roedd arni gywilydd fod tudalennau'i hymennydd yn chwythu'n bur agored ar y cwthwm lleiaf o anadl wrywaidd. Ac eto ...

'Merchetaidd,' bu bron i Mair feddwl amdani'n garedig.

'Iâr-fach-yr-haf,' meddyliai Maxine hithau amdani'i hun yn fwy na charedig. 'Glas, melyn, coch, fflip-fflop, o ardd i ardd.'

Ymhinoni a wnâi'r ddwy gyfeilles hyn ym mwynder eu canol-oed diweddar ac yng nghysur eu cadeiriau brwyn ar y lawnt ddi-don a oedd heddiw yn fath o estyniad mwyn i lolfa Mair. Yn wir, cludasai Mair beth broc o'r lolfa honno — bord fechan addurniedig, basgedaid o lyfrau ac albymau, powlen a'i llond o afalau gwlanog a grawnwin. A rhwyd fechan i ddal ieir-bach-yr-haf. Arfaethai sefydlu ymerodraeth wâr lolfaog ar lannau'r glesni y tu allan.

Cyfeillesau cynganeddus oedd y ddwy. Mair yn afon dangnefeddus, Maxine yn ffrwd gymedrol drochionog. Dwy fwyn. Ond cuddiai Mair rywbeth mwy na mwynderau o dan

ddiogelwch ei chroen.

‘Sinema’r dyn tlawd yw breuddwydion,’ sylwai Mair yn bryfoclyd.

‘Wyt ti *eisiau* clywed neu ...?’ holai’r fwyaf breuddwydiol o’r ddwy wedyn yn obeithiol ac yn heriol ... ‘neu ...’ er mwyn i’r llall gael cyfle i golli gemau pe gallai fforddio hynny. ‘Neu ...?’

‘Neu! Ie, neu!’ atebai Mair yn bendant. ‘Mae ‘na reswm ym mhopeth.’

‘Ond Mair.’

‘Bob yn ail fore, iawn. Bob bore ambell waith, wel ... Ond bore a phrynhawn, prin.’ Pwdai Maxine gyda pheth arddeliad; a suddai hi’n ôl i’w phensyndod.

‘Aros funud,’ meddai Mair ymhellach, a’r ffeminydd hunanfeiriadol ganddi fel pe bai’n brigo i’r goleuni. ‘Oes... oes ’na gelanedd gwrywaidd ynddi te?’

‘Oes,’ petrusai Maxine er mwyn swnio’n atyniadol. ‘Efallai,’ lond y lle.

‘Menywod hardd yn eu hatynnu-nhw fel fflamau?’

‘Oes.’

‘Dim dianc, a’r dynion ymhobman yn mynd i’w hateb?’

Wrth i Mair gynhesu ychydig yn goeg, dechreuai Maxine swnio’n bryderus. ‘Aros funud,’ meddai mewn ffug fraw sydyn wedi mynd yn rhy bell efallai.. ‘Pwylla.’

Cafwyd pum eiliad o bwyll. Bron.

‘Yn dy flaen, ‘te,’ meddai Mair, ‘Mae pwyll yn swnio’n addawol.’

‘Wel, fel hyn roedd hi ...’ meddai Maxine gan eistedd yn ôl... ac yn ôl. ‘Cerddetian rown i tu fa’s i brif orsaf rheilffordd Sydney. Dyma ŵr tal, Indiaidd ei olwg, eithaf hawddgar, hawddgar iawn ddwedwn i, yn gwthio llythyr i’n llaw-i.’ Swniai'n rhesymol.

‘Rown i’n pendroni pryd roedd India am ddod i’r golwg.’

‘Agorais i’r amlen, a’r cwbl oedd ar y nodyn tlawd y tu mewn oedd ...’; a gostyngai’i llais: ‘Tu fa’s i Swyddfa’r Post.’ Symudai Maxine drigain mlwydd ei dwylo wrth siarad. Rholiai’i dychymyg yn y gwair fel merch bymtheg oed.

Codai Mair ei haeliau’n ofalus fel clwydi croesfa reilffordd. Chwibanai’r trêen heibio. ‘Dyna’r cwbl?’

‘Dim sill arall.’

‘Yr IRA! Maxine.’

‘Sut?’

‘Dy gyfenw Pearse, dyna sy’n gwneud hi iti o hyd.’

‘A Swyddfa’r Post y tro hwn?’

‘Beth arall? Prif euogfan Iwerddon. Beth wnest ti?’ Gwenu a wnâi Mair. Roedd ganddi ffordd o wenu’n amwys fel pe dwedai na wnâi’r tro i neb edrych ar ei hwyneb os nad oedd yn barod i’w ddehongli.

‘Dim ond edrych.’

‘Fel llo?’

‘Fel llygaid.’

‘Beth oet ti’n *feddwl*?’

‘Fel rwyf ti’n gweld, doedd ei eiriau ddim yn anodd.’

‘Ond yr IRA? Un o’u celloedd Asiaidd efallai?’ holai Mair yn amheus gyffrous o hyd.

‘Roedd y ffilm yn dadrolio’n lliwgar o ’mhen ar y pryd. A’r cwbl heb dâl mynedfa.’

Byddai cryn gywilydd ar Mair gyfaddef wrth neb byw bedyddiol beth oedd ei hoff freuddwyd. Roedd hi bron bob amser — wyth waith allan o naw — yn golchi llestri. Mynydd didrugaredd o lestri yn byrlymu i mewn drwy ffenest y gegin, yn treiglo’n ymwasgedig drwy gil y drws, yn llamu fel lloi wrth gyrraedd y golchwr, llestri tragwyddol tra chywilyddus.

‘Wedyn,’ meddai Maxine yn gryptig gan hogi’i llygaid ar y gorwel, ‘y digwyddodd y trychineb ...’

Canodd cloch drws y ffrynt. Dyrchafodd clustiau Maxine fel goleudai. Curwyd eto ar y drws o ran cerydd. Ymsythodd Maxine a sgwaro. Roedd ganddi hawl i balu breuddwyd. Ac os oedd y freuddwyd honno (yng ngolwg annychymyg Mair) yn ei harwain allan yn rhy bell drwy ddrws y gegin ambell dro i gapswl gofod — a bant â hi i Ynys Afallon, — ei busnes hi a neb arall oedd hynny.

‘Wedyn,’ meddai’r freuddwydreg hirseflyn, ‘digwyddodd rhywbeth mor faldodus ...’ a dyma’r gloch yn codi’i llais eilwaith drwy’r gymdogaeth. ‘Rhywbeth mor anfeidrol o drychinebus ...’ Yna, heb ddisgwyl am nac ateb na chwestiwn, sgrechodd cloch y ffrynt atalfa drachefn yn llai hirfelyn ... Suddai gweddillion Maxine. ‘Oet ti’n dis- ...?’

‘Neb,’ meddai Mair. Ond roedd hi bob amser yn disgwyl rhyw gyflafan.

‘Menna sy ’na te. Dwi’n nabod ei hamseru hi. Dwi’n ei heglu hi. Galwa-i ’to.’

Protestiai Mair. ‘Neb.’

Gwrthbrotestiai Maxine. Codai.

Cyd-brotestiasant. Symudai Maxine.

Roedd Maxine bob amser yn byw fel pe bai'n darllen nofel ramantaidd. Ac yr oedd cyffro ysgafn fel gwyfyn bob amser yn rhan o gyfrodedd felly.

Ymlwybrai Mair o flaen Maxine, serch hynny, allan i'r cyntedd yn anfoddog.

Gwisgai Maxine ei siaced fraith, 'Cei'r hanes 'to.'

Glaswenai Mair yn garedig tuag at y bygythiad.

A daeth Menna Wilfall i'r tŷ. Roedd gwên feicrosgopig drosti fel clecs echdoe. 'O, paid â sgrialu o 'ma,' erfyniai'n braf.

'Mae'n rhaid. Rown i ar fynd, ta beth. Sut wyt ti, Menna fach?'

'Oes gen ti hanner awr?' meddai honno. Cilwenai. Pan agorai Menna'i gwefusau a dangos ei dannedd, roedd fel pe bai'n tynnu'i bra.

'Ond yn gyffredinol?' holai Maxine ymhellach.

'Yn gyffredinol ... cyffredin.'

'A! addawol te.'

'Mae'n achub rhywun rhag clywed y breuddwydion o leiaf,' brathai Menna gan godi'i llais.

'Os oes ar rywun *eisiau* cael ei hachub?'

Gwenai Menna yn surfelys. 'Ddoi di byth i fod yn freuddwydreg o ddifri, Maxine. Rwyd ti'n darllen gormod o lyfrau.' Roedd ar Menna newyn am realiti. Ceisiai Maxine beidio â'i llofruddio wrth fynd heibio. Ymwthiai Menna ymlaen drwy'r cyntedd. Datblygasai'i gwên bellach nes ei bod fel pe bai'n hysbysebu persawr. Dôi i mewn yn stiletos i gyd fel pe baen nhw'n yn chwilio am fys bawd Maxine i lanio arno. Troes am y tro olaf at Maxine a'i hysgithrau'n fflachio. Poerodd: 'Ddoi di byth yn ferch fawr ti'n gwbod Maxine nes dy fod di'n taflu'r broc breuddwydiol yna'n ôl i'r môr.'

Crinodd Maxine yn fewnol. Parhaodd Menna gan geisio ymddangos yn ysgafn: 'Does gen i ond dirmyg llwyr tuag at ...' Ac oedai ei barcud fel llais yn yr awyr gan chwilio am y gair islaw yn llechu yn y borfa. Gwelai mai 'dychymyg' oedd y gair hwnnw, ond math o ysglyfaeth waharddedig oedd hwnnw hefyd i'w thrachwant beirniadol. Chwiliai mewn mannau eraill am enw llai canmoliaethus. 'Fwyd?' mentrodd Maxine. Rhodiai'i mwynder heibio i Menna tuag at y drws. Yna, stopiodd. Cilsyllodd Maxine ar gornel wyneb Menna heb edrych arni. Syllodd, tan brotestio'r tu mewn gywilydd. Yna, trodd Maxine tuag yn ôl i ffarwelio â'r tŷ. Yr eiliad yna cafodd saeth freuddwyd. Llygoden Ffrengig wedi ymrithio'n



sydyn oedd Menna. Dymunodd Maxine frysio rhagddi. Troes fel pe bai wedi anghofio'i hymennydd. Ac eto, gwnaeth gam neu ddau yn eu hôl. Yna'n ddisymwth, heb iddi'i hun ei sylweddoli, estynnodd o berfedd ei mwynder glatsien fechan at foch Menna, yn chwareus, bron. A throes drachefn i ailgydio yn yr ymadael. Châi'r anhunwraig sarhau'i breuddwyd hi.

Roedd Menna a Mair yn ddistaw syfrdan. Parlyswyd cymaint o lygaid ag a oedd ganddynt. Safai'r lipstig ar eu gwefusau'n stond. A gwibiodd Maxine rhagddi i'r gofod.

## 2

Ymadawsai Maxine â'r tŷ gan deimlo gollyngdod fel awyr drwy dwll mewn teiar a oedd wedi gyrru y ffordd honno lawer tro o'r blaen. Wrth y drws, cyd-ffarweliodd y ddwy, Mair a Maxine, â'i gilydd, eithr nid cyn i Maxine grybwyll yn gynnwl ei hoed hirhoedlog gyda Pascolini. Wedi'r ymadawiad enfawr, ymsefydlodd Mair a Menna yn anochel uwch-Facsinaidd ar gyfer eu post-mortem coffiaidd. Ond mewn sioc wedi'r glatsien.

'Own i wedi dweud rhywbeth?' gofynnai Menna.

Nid oedd Mair yn gwybod ble'r oedd hi. Yr oedd ar goll yn ei chartref ei hun.

'Wnes i ddim ceisio'i lladd hi, naddo?'

Fel eira annhymig ond penderfynol, disgynnodd yr anghysur mwyaf ar gynhesrwydd lawnt Mair.

'Tipyn o gadnôes wyt ti, Menna Wilfall. Dwi'n credu y gallet ti fod wedi anelu mymryn o syberwyd i'w chyfeiriad,' ceryddai Mair mewn diymadferthedd cydymdeimladus. Ni hoffai'r tyndra hwn rhwng y ddwy. Ond roedd Maxine wedi mynd dros ben llestri.

'Byddai syberwyd wedi awgrymu goddefgarwch,' mynnai Menna.

'Mae pawb yn goddef pob peth y dyddiau hyn.'

'Ac eithrio cicio cŵn a chathod. A doedd y gath hon ddim yn barod i gael ei chicio.'

Buont yn ddistaw, a Mair yn ceisio hwylio coffi i'r ddwy. 'Anfaddeuol,' sibryddai dan ei hanadl. Eithr nid oedd ei gwên am gymryd ochr. Daeth Mair yn ei hôl, a syllu ar foch Menna. Doedd dim y gallent ei wneud na dim y gallent ei ddweud.

'Chlywaist ti ddim o'r un ddiweddaraf ganddi?' meddai llais Mair o'r diwedd, fel pe bai am ailgydio mewn bywyd.

'Does 'na'r un, does neb ar ôl Pascolini does bosib?' gofynnai llais Menna'n

chwilfrydig, a hithau wedi'i llethu gan synnwyr cyffredin.

'Nac oes am wn i. Ti wnaeth f'arbed i,' atebai llais Mair yn hynawsach dipyn, 'rhag dôs digon annwyl efallai o'n hen gydnabod Pascolini.'

'Ych â hi.'

'O! dwi'n hoff ei gwala ohoni beth bynnag,' mynnai'r hynaf o'r ddwy yn nannedd pob synnwyr cyffredin.

'Byswn i'n tybied y dylai'r un yna ddydd Llun diwethaf bara am fis,' meddai Menna'n llai mwyn.

'Ychydig rwy'ti'n wybod am adnoddau Maxine.'

'Lwlwto! Wyt ti'n gallu credu goruwch-enw fel 'na?'

'Mae yn bosib,' mentrai Mair.

'Ond Cuthbert Lwlwto! Brensiach Mair! Allai neb ...' Yr oedd Menna'n casáu Maxine. 'Ble mae dy Sosialaeth di?'

'Yr union ecsentreg yna sy'n ei wneud yn fwy tebygol.'

'Tebygol!'

'Feiddiai neb ddyfeisio enw mor anfwytadwy.' Gwenai Mair.

'A beth oedd enw'r llwythdir gartref dywed?'

'Camanda.'

'A! Camanda. Mae'n swnio fel swyddog ym myddin gudd America. Y penadur Cuthbert Lwlwto o Gamanda! Dyna fe. Cyfenw allan o *Gymerwch chi Sigarét* 'ddwedwn i' ddwedai Menna.

'Ond dim ond cyrchu i Ganberra 'wnaeth hi i bwyllgor canolog y Cymdeithasau Cymraeg.'

Roedd yn amlwg, ym mryd Menna, i Maxine adael sbaner rywle mewn un o olwynion y Cosmos. Ac felly y troes pennau Mair a Menna yn araf tua sobrwydd i adolygu'r hanes a glywsent gan Maxine rai dyddiau ynghynt, er gwaethaf pob storm, ac er gwaethaf pob embaras. Yn ôl yr hanes hwnnw bu iddi hi, Maxine, fynd drot-drot yn ddiniwed braf i bwyllgor Cymdeithasau Cymraeg Awstralia yn Canberra un dydd pendramwnwgl o des dwys, ac ar y diwedd roedd Wil Evans o bawb, neb llai, a oedd yn ysgrifennydd preifat i'r Prif Weinidog, ac yn bennaeth ar Daffia Cymraeg Canberra ('un o'm canberris,' meddai Maxine), ac yn wŷr gweddw anaddawol tost, wedi'i gwahodd hi i fod yn 'gydymaith' iddo (glywaist ti'r fath derm uchelgeisiol erioed?) mewn cinio croeso i'r Penadur Lwlwto o

Gamanda.

Un o'r llwythau bach mwyaf ffasgaidd ym mrithwaith llwythol De Affrica oedd Camanda. Roedd y pennaeth wedi dod i Awstralia, meddai Wil wrthi, i geisio cael cefnogaeth a phwysau o du llywodraeth Awstralia a phobloedd yr hemisffêr deheuol i'w gynllun ar gyfer dyfodol De Affrica. Yn ôl Lwlwto, roedd yr ANC a'r mudiadau rhyddid cyfnerthol eisiau canoli popeth, ac yn debyg o'i wneud ar ôl ennill ymreolaeth. Tybiai Lwlwto y gallai pwysau masnachol o'r tu allan ddwyn perswâd o blaid ei syniadau ef... ac yn y fan yna, daliodd Maxine ei hanadl am eiliad.

Ar ddiwedd y ginio cawsai Maxine, o leiaf yn ôl ei hadroddiad hanesyddol hi, ei gwahodd draw i'r ystafelloedd a oedd gan y Penadur Lwlwto yn y gwesty. Fan yna câi hi gyfarfod â'i fyddin o wragedd. Canfyddai mor hyfryd hapus helaeth oeddent oll. A mynnai'r Penadur esbonio manteision pêr amlwreictod. O safbwynt merched a'u cysur, yr oedd yn gryn gaffaeliad gan fod gwth rhywiol y ferch, at ei gilydd, yn ei farn anymwrthiol ef, yn eiddilach. Caed hyd yn oed un awgrym ganddo, gan chwerthin, y gallai fod lle i un wraig arall pe gellid dod o hyd i'r hyd iawn o drwyn. Felly y caed yr hanes gan Maxine. 'Byth!' Symudai Maxine, mewn ebychiad, o'i breuddwyd i realedd, fel yr hedai'r frân.

'O! Maxine!' ffrwydrodd y frân gan Menna, gan grynu. 'Alla-i ddim o'i diodde hi. Mae hi'n dân ar 'y nghroen i.'

Edrychai Mair arni'n syn. Oedd, yr oedd Menna'n genfigennus. 'Dim ond Maxine yw hi! Ust, Menna. Am greadures fwyn! Does ganddi hi mo'r rhith lleiaf o dân. Na chroen.'

'Mae yna dân ar 'y 'moch i o hyd.' Synnwyr cyffredin a mwynder Mair a ddenai Maxine ati. Ym mryd Maxine roedd cael y diffyg anturiaeth fan yna ar drothwy'i drws yn elfen sbreiddiol, bron yn ecsotig. Mwynder Mair a ddenai Menna hefyd.

'Yn y tân mae eisiau doddi'i chwedlau 'te,' ebychai honno'n frathlyd o hyd.

'Roedd Lwlwto'n stori ddethol ar ei ben ei hun.'

'Nac oedd. Paid â choelio dim. Roedd y peth mor yfflon o nodweddiadol ohoni. Mae hi'n prancio â'i dychmygion aton ni, yn arbennig aton ni Gymryesau bach naïf Sydney, ac yn ymbincio fel paragón.' (Chwarddai Mair yn fwyn.) 'A breuddwydion annhebygol gwallgof yw'r cwbl lot. Dw-i'n credu ...'

'Ti'n *credu!*' ebychai Mair.

'Dwi'n credu dim ohonyn nhw.'

(Arferai Menna ysmygu pib yn y cyfnod hwnnw. A cheisiai gynnu mwgyn bach yn

awr, ond methodd y cyneuydd â gweithio.)

‘Dyw hi’n bwriadu dim drwg,’ meddai Mair.

‘Ei dangos ei hun mae hi,’ meddai Menna.

Gwenai Mair yn oddefgar. Gan amlaf, allai hi ddim goddef merched fyddai’n rhaffu celwyddau ac yn preblan am ryw ffansiön yn eu gorffennol neu yn eu dyfodol. Roen nhw’n eich cornelu i fregliach wrthyh chi’n fanwl am freuddwyd a gawsant y noson cynt, am wryw tebygol hollol amhosibl, yn hofran fel cudyll gerfydd y cwmwl.

A breuddwydion o’r fath yn gyson fyddai danteithion Maxine hithau. Gwrandawai bob dydd, gyda chynildeb rhywiol cwningod, glychau priodasol yn tincial yn dost. Meddai’i breuddwydion ar diriondeb lagŵn lleuadaidd. Ac eto, ym mryd goddefgar Mair ni ellid llai na chydabod fod lagŵn tesog Maxine hefyd yn fodd i hwylio fyw. Y fath areuledd!

Yn hyn o beth gwylltia i Menna. Gwrthdystiai. Casâi Maxine heddiw, heddiw’n fwy nag erioed. Ac nid hi oedd yr unig feirniad. Roedd yna amryw byd na allent ddiodeff crwydradau breuddwydion Maxine Pearse a’i hurddas operatig. Bob amser pe digwyddai i Menna weld, mewn pryd, lunieidd-dra Maxine yn nesu dros y gorwel, dôi o hyd yn ddiymdroi i ddargyfeiriad. ‘Dwi’n methu anadlu.’ Cyffelyb, rhaid cyfaddef, oedd peth o ymateb Maxine hithau i Menna. Y gwir digwafers, dyna oedd delfryd sobr honno bob tro. Byddai celwyddau lleiaf golau Maxine yn ei gyrru’n wallgof hollol. Yr oedd chwaeth Maxine mewn menig er enghraifft yn hollol anghyfrifol. Yr oedd hi hefyd yn meddu ar hanner-stôn ar yr ochr anghywir i’r dafol; ac yn fwy eithafol byth, os yw hynny’n bosibl, doedd hi ddim yn lliwio ewinedd bysedd ei thraed.

Llwyddai eraill, i faddau, er nad Menna. Ymgynefinai Mair er hynny. Gwyrai Maxine at freuddwydion yn hytrach nag at gelwyddau, roedd hynny’n rhywbeth. Dwedai rhai fod ganddi dueddiadau newyddiadurol. Gwyddai Mair mai math o ebychiadau ar y pryd oeddent oll heb falais. Plentyn breuddwyd, ebychiad.

‘Wyddost ti,’ meddai Maxine ambell dro, gyda rhyw olwg ddieithr a dod-allan-o’r-eigion yn ei llygaid. A’r funud yna gwyddech yn burion eich bod wedi dal awyren draws-eigion tuag at ryw ffansi fwy anghyfrifol na’i gilydd ... Bodlonai Mair yn athronyddol.

‘Un tro gwylltiais i’n gacwn,’ meddai Menna, a dechrau poethi.

‘Un tro!’

‘Yn gacen.’

‘Druan ohonot ti. Dwi’n gwybod pa bryd hefyd,’ meddai Mair, gan ei rhag-weld. ‘Y

tro pan oedd hi'n sôn amdani'i hun yn nhîm rygbi merched Cymru.'

'Ie.'

'Rown i'n amau mai dyna fyddai d'enghraifft.'

'Dwi ddim yn credu iddi erioed fod ar fainc y tîm.'

'Na,' cytunai Mair.

'Heb sôn am sgorio pedwar cais mewn gêm yn erbyn yr Ariannin. Hi!'

'A thri yn erbyn Seland Newydd.'

'Na. Allwn i ddim llai ...'

'Dwi'n cofio,' meddai Mair gan chwethin. Chwarddai Menna hithau'n annodweddiadol oddefgar. 'Roedd dy wep di'n biws braf,' parhâi Mair. 'Codaist ti ar dy draed fel tŵr Pisa a thafu'r holl grows te oedd gyda thi ar ôl yn dy gwpan i'w hwyneb, a gweiddi — "Tir na n-Og i'r domen!" Dyw hi byth wedi anghofio.'

'Cwilydd arna-i o hyd. ..Nac oes: does dim. Dial am hynny oedd y bonclust gynnau.'

Ond cilio rhag Menna mwyach a wnâi Maxine pan ddeuent at ei gilydd — megis damwain yng Nghymdeithas Gymraeg Sydney, — neu fel pegynau gwrthwynebol maged. Ciliai'n wridog, wedi'i threchu hyd at ostyngeddwydd.

'Difrifoldeb, dyna dy ddigrifwch di,' meddai Mair wrth Menna. Ond 'cenfigen' oedd y gair union roedd Mair am ei yngan. Cenfigen ambell waith oedd y peth a oedd yn ei hanwylo hi'n ddolurus yng ngolwg Mair. Druan ohoni.

'Ond allwn i ddim derbyn un sill yn fwy... Y dosbarth canol!' rhogodd.

'Gall ambell un ohonon ni fod yn rhy ganol, Menna ... Mae 'nillad isaf i'n teimlo'n wlyb o hyd. Ond sbort yw peth felly.'

### 3

Drwy gydol y sgwrs hon gyrrai Maxine ei char mochaidd o foethus, gorfawr o freuddwydiol, i lawr y rhiw o gartref Mair drwy Chatswood a gogledd Sydney a Kirribilli, dros Bont yr Harbwr. Cyfeiriai'i swch wedyn tua'r ddinas a'r siopau. Hei ho! O'i chyferbynnu â'r car, roedd peiriant ei chalon yn trochioni ychydig. Parhâi ymddangosiad Menna ei methiant rhwystredig i adrodd ei breuddwyd ddiweddaraf. A'r glatsien yna! Wel, beth oedd hynny? Cariai Maxine yr olygfa yng nghartref Mair gyda hi fel gwên wedi ymddeol. Gweithredasai Menna yn ôl ei harfer fel swits ar dalcen Maxine. Ac eto, ni fu

hynny'n ddigon o rwystr i wro'i hymennydd yn ormodol oddi ar ffordd breuddwydion eraill. Hei ho!

Pan ddaethai'r caniad cloch gynnew fach, ac aeliau-gwneud Menna o'r tu ôl i ymyl y drws, enynnodd Maxine ei harferiad llai na diplomataidd. Diffoddodd ei mymryn callineb. Cofiai am drefniant sydyn mewn dosbarth dawnsio — 'y bachgen neisia welsoch chi erioed yn eich byw. Rhyw ddeg ar hugain oed. Eidalwr o ran tarddiad dybiwn i: Pascolini, neu ryw enw neis fel yna.'

'Ifan Iâ?' holai Menna'n ddrygonus.

Breuddwydiai Maxine yn awr am ei hateb posibl gyda pheth cywilydd: 'Ia,' meddai hi ar y pryd. A phlygai'i phen gyda chywilydd erbyn hyn.

Adolygai'n awr yn y car — megis mewn breuddwyd — ddrylliau eraill o'r ymddiddan a gawsai cyn ymadael, neu y gallasai fod wedi'u cael: 'Cwrddais i ag e ar draeth Bondi ddeufis yn ôl. Ia. Ar bwys stondin hufen-iâ, roedd hi hefyd,' meddai Maxine, 'rwy'ti'n iawn. Mae'n dechrau dysgu'r Gymraeg, ... fel yr ast acw. Mae'n gwybod "dere". Fe sy'n hyfforddi'r dawnsio, a finnew'n dysgu ymddiddan iddo-fe wedyn — bargaen. Ac yna,' meddai hi, fel pe na bai un celwydd yn ddigon cyhyrog heb bartner i'w gyfnerthu. 'Heddiw dwi'n ciniawa gyda Lwlwto. Dych chi'n cofio Lwlwto 'sbosib?' Roedd hi'n parablu'n garlamus ddiymatal.

'Ydyn,' cyhoeddai Menna yn ddiymnedd.

'Ydyn,' adleisiai Mair yr un pryd yn amyneddgar reit.

'Dych chi'n deall yn burion te,' meddai Maxine gan agor y drws yn ei meddwl led y pen. Roedd hi'n dal i freuddwydio ar y ffordd am y ffordd na ddylasai, a'r ffordd y dylai, fod wedi trin y merched.

'Ydyn,' canasai'r ddwy yn unsain hyfryd, wrth i Maxine bendroni am yr ymddiddan.

Yn ôl yng nghartref Mair edrychai'r ddwy arall ar ei gilydd o hyd fel pe baent ar goll. Heddiw felly, ar ôl i Maxine ymadael, gwasgent gymaint ag y gallent allan o'u *post mortem* eneiniedig, Mair yn felys, Menna'n falais. Yr ystum olaf yn ymddygiad Maxine fu siglad ei dwylo wrth iddi raffu un celwydd ffarweliog mwy blodeuog ar ôl y llall yn yr awyr lwyd uwch ei phen; a pheidodd â bod.

'Aros imi newid 'y nghardigan,' meddai Mair gan frysio i'r gegin. Ond heb yn ddisgwyl i Mair, dilynai Menna hi'n ddiolfal araf. A daliodd hi ei ffrind yn ddiarwybod yn

fraich-noeth yn y gegin. Canfyddai dyllau coch ar groen honno.

‘Ond Mair!’ ebychai’n rhyddieithol. ‘Beth yw’r rhain?’

‘Dim. Dim ond chwannen.’

‘Mair, dwyt ti byth... D’oedran di.. Beth yw’r rheswm, ferch, dros ddechrau peth fel hyn?’

‘Paid â sylwi....’

‘Ond Mair! Mae’n rhaid iti roi’r gorau iddi ar un waith. Wyt ti’n poeni am rywbeth?’

‘Paid ag edrych. Paid â dweud dim wrth neb.’

‘Cyn iddi fynd yn rhy bell, ..neu fe gwympi di i mewn i un o’r tyllau ’na.’

‘Mae arna-i g’wilydd. Ond dwyt ti ddim yn deall.’

‘Rho dy law i mi nawr. Mi ei di at y meddyg rhag blaen, a rhoi stop ar y dwli ’ma ar unwaith.’

‘Does neb yn deall.’

‘Ond ti! Mae eisiau help arnat ti.’

‘Mae gen i reswm.’

‘Does gan neb ddigon o reswm i fod yn ffŵl. D’oedran di, Mair. Dy gymeriad di. Ti! Rhaid iti wrando. Wyt ti’n teimlo’n ddigalon?’

‘Mi wna-i rywbeth ynghylch y peth. Dere. Gwnaf. Fe awn ni allan.’

‘Addo?’

‘Addo.’

‘Ond Mair!’ Roedd hi’n syfrdan fel pe bai hi wedi cyrraedd planed mewn parth o’r nen lle na ddisgwyliai hyd yn oed meteorid.

‘Paid ag yngan dim.’

Ac yna, aeth y Menna oer arferol yn ostyngedig at Mair, a’i chofleidio’n dirion â’i dwy fraich.

Ymryddhaodd Mair. ‘Gwranda. Dŷn ni’n rhy hen i bendroni fan hyn. Allan â ni!’ Roedd yr ystafell wedi mynd yn od o gynnes.

‘Cawn ninnau bryd bach llai ecsotig na Maxine, yn y bwyty Cantonaidd lleol,’ ochneidiai Menna’n amyneddgar. ‘Does dim pwynt inni din-droi fan hyn, i ymdroi gyda Maxine. Cawn bryd.’

‘Cawn. Mwy cydweddol â’n statws fel Cymryesau bach arch-feirniadol... Aros am funud fach imi ymarfogi,’ meddai Mair. ‘Ac anghofia beth ’welaist ti.’

A buont am bum munud ar hugain yn sgysio'n hynod o synhwyrol ynghylch lol Lwlwto ac agweddau eraill ar bost-mortem Maxine — neu bu Menna'n sgysio'n ddi-lol efallai am bum munud ar hugain — tra oedd Mair yn ymbincio'n gydwybodol ar gyfer y cyrch. Eto, yn y bwyty wedyn, rywfodd neu'i gilydd, arweiniwyd eu meddyliau yn rhyfedd yn ôl gan bwyll i ymdroi o gwmpas Maxine drachefn. A chatalyst oedd hi yn ôl ei harfer, onid ysbrydoliaeth.

'Diolch i'r drefn am ffansiön Maxine ddweda-i,' meddai'r dawelaf o'r ddwy gan wenu. 'Ble bydden ni hebdi?'

'Trefn?' sgrechodd gwg Menna, a synnwyr cyffredin fel deddfau trafndiaeth o'i chwmpas. 'Pa fath o beth yw peth felly yn hanes y fenyw honno?'

'Fyddi di'n meddwl ei bod hi ... efallai ... Menna ... ychydig yn llai na'r pwysau gofynnol mewn synnwyr cyffredin?'

'Mae'n torri ma's dros ei thrwyn i gyd.'

'Ond ble bydden ni'r gynulleidfa y bore 'ma heb ei pherfformiad hi? Yn fudanesau dan barlys.'

'Neu'n lleianod amddifad, dan lw o ddistawrwydd am weddill y pryd,' gwawdiai Menna.

'Ti yn lleian, a fi yn lleiaf efallai.'

'Fan yna byddet ti *heb* agor dy geg,' gwenai Menna. 'Meddylia!'

'Yfwn de 'te, yn iechyd — i Maxine, — gyda chymedroldeb,' datganai Mair yn nannedd Menna. 'Te 'te.'

'O! ust, does dim eisiau mynd dros ben llestri. Llwnc i ddistawrwydd, ddwedwn i.'

Aethant yn eu blaenau am ychydig o funudau annodweddiadol o freuddwydiol i yfed. Yr oedd fel pe bai'r awgrym o ddistawrwydd di-Faxine wedi apelio am ryw ysbaid at eu hisymwybod. Gellid llyncu'r hyn a ddywedai Maxine bellach, gyda pheth ymdrech, ond ni ellid ei dreulio. Pendronent wedyn, a hwythau yn gymharol ddifreuddwyd. Gwenai Menna hithau ychydig ynnddi'i hun. Yn eu bryd ill dwy, er hynny, rhedai pob pwnc y bore 'ma fel nant yn ôl i'r un môr. Ac o'r braidd fod angen dadansoddi'r dŵr rhwng eu dannedd. Dŵr o darddell clatsien oedd.

Y math o ffeminydd a Sosialydd oedd Menna a gâi gathod bach pe baech yn agor drws iddi. Amason oedd hi a allai brofi y tu hwnt i bob amheuaeth mai ar wrywod yr oedd y bai am bob tywydd diflas yn y byd — ar sail ystadegau dihybyddol wrth gwrs. Ond yr oedd



ganddi ei daliadau wrth reswm. Un o gefnogwyr mawr y cyfandir oedd hi i ‘semenu artifisial’. Felly yr hepgorid y dyn yn y canol, meddai hi er ei bod hi ei hun o’r golwg fel petai yn hapus ddigon gartref. Angel pen ffrog, cythraul pen trowsus. Eithr heddiw, roedd hi’n bryderus am ei ffrind. ‘Sylwch chi,’ meddai hi ymhen egwyl wrth Mair. ‘Mae gwrywod wedi cyrraedd cyfnod o adfeiliaeth. Beth bynnag yw’n barn ni am grefydd, sylwch chi pwy sy’n arwain yr achosion crefyddol a dyngarol fel ei gilydd erbyn hyn. Menywod hefyd sy’n cynnal y mwyafrif o’r celfyddydau.’

‘Y mannau di-rym,’ meddai Mair gan wenu’n fwyn.

‘Lle bynnag bo gwerthoedd, lle bynnag bo prydferthwch, fan yna y fenyw sy ben. Maen nhw’n ennill y blaen wrth farddoni bellach, wrth nofela. Maen nhw fel cenedl gudd ar i fyny mewn gwleidyddiaeth a gwyddoniaeth. Ar i fyny mae ffrwythlondeb eu gwythiennau i gyd, eu gwythiennau a’u crothau, tra bo gwrywod yn dadfeilio nerth eu sodlau ar bob llaw. Mae hynny’n dweud rhywbeth hyd yn oed wrth rywun fel ti, Mair.’

‘Mae’n dweud — dyma’r tywydd y mae’n rhaid ei ddiodef ar ôl y gwresogi global! Dyna’r cwbl.’

Plygodd Menna uwch ei phen, ‘Mae’n dweud wrthot ti fod yn rhaid iti fynd i weld y meddyg ynghylch pigiadau’r chwannen, heddiw yn ddiymdroi. Addo? Adfail neu beidio.’

Ffeminydd wrth-addurniadol oedd Menna hyd flaenau’i haeliau; ond yn baradocsaid, hi oedd yr unig un o’r tair a oedd yn wir ddiddig, os yn ddiddig afreolaidd, yn ei phriodas.

Gyda’r un post fel petai, yr un pryd ag yr oedd y sgwrs hon yn cerdded ymlaen mor lluddedig, ymdrôi meddyliau Maxine hithau yn ffansiol o gylch ei dwy ffrind.

Roedd ganddi hithau ei mwynder. Fe’i sylweddolai yn arbennig mewn rhai breuddwydion. Drwy’i breuddwydion wrth gwrs y casglai Maxine gariadon. Ni allai lai na synied ei bod wedi cyrraedd ei hunigedd presennol drwy fwy o ramant ac ychydig mwy o sbort na Mair. O leiaf, gadawsai ar ei hól res o gelanedd gwrywaidd rhamantus led y caeau, hyd yn oed os mai oddi tan lwybrau maith ei chrebwyll (at ei gilydd) yr oedd y caeau hynny.

Un gelain yn unig a adawsai Mair erioed, yn un man. Un gelain gél. Len. Ac roedd yr un gwelw yna yn dal i orwedd yn y parlwr, fan yna yn ei thŷ, yn disgwyl angladd ar ôl y sgwrs gyda Maxine. Roedd yn dal i orwedd yn ei bola. Ni allai Maxine lai nag ymwybod â hyn bellach, heb sylweddoli’n ddiriaethol, bob tro yr ymwelai â’i ffrind. Beth oedd yna? Pwy?

Len. Neb arall. Ef oedd cyfrinach ddu Mair. Y disgwylidig. Syrthiai ef yn llen bron bob dydd ar ddiwedd pob dyhead yn isymwybod cartref unig Mair, yn arbennig pan bendronai Maxine am ei sboners dychmyglon. A bellach, oherwydd ffolinebau chwanennog ei braich, pedronai Menna hithau hefyd ychydig am y broblem gudd.

4

Disgyrchasai Maxine yn fusneslyd yn ôl i lolfa Mair fore trannoeth, ac ymsefydlu yn ei chadair neilltuedig, a thynnu'i hanadl yn weddol benderfynol. A lled-freuddwydai.

Yn y gegin fach roedd Mair ar y pryd. Gosodai Maxine yr albwm lluniau gydag ochenaid ar lawr. Siglai'i hadenydd gwenynen ryw ychydig.

'Ces i un arall,' meddai Maxine yn freuddwydiol, tan godi'i llais.

'Naddo!' meddai'i chyfeilles yn flinderus, heb ofyn beth, ond yn barod i ffoi. Ceisiai ddyfalu sut y gallai anwybyddu'r sylw.

'Siomedig tost fyddai *fe*.'

'Pwy yw'r *fe* y tro hwn?' gwaeddai honno o'r gegin fach, gan ofni'r gwaethaf.

'Sigmwnd ...'

'O! hwnnw 'to.'

'Byddai *fe*'n yn hala-i'n ôl i wneud 'y ngwaith cartre.'

'Dyna'r cwbl mae pawb yn 'wneud,' meddai Mair, 'yn y tipyn ugeinfed ganrif — gwaith cartref i'r libidoaidd yna.'

'Cer yn d'ôl 'to, ddwedai *fe* wrtho i. I ben draw'r ffwrn. Mae eisiau dy bobi yr ochr arall.'

'Beth wnest ti?' holai Mair gan hwpo'i phen o gylch cornel. Wrthi'n gosod y llestri yn y golchwr yr oedd hi.

Ac yna, dechreuai Maxine lyfnhau'i barf anweledig. Dynwardai yn Almaenig yddfol, 'Gallwch wneud yn well na 'na, Frau Pearse. Dych chi ddim yn trio ... Ac roedd e yn llygad ei le ddwedwn i.'

'Nid dy freuddwyd di does bosib fyddai'n ei siomi *fe*?'

'Sneb yn cael breuddwydion mwy anniddorol na'm rhai i,' addefai Maxine.

'Fi 'fallai!'

'O! wel.' Roedd ymateb amwys Maxine yn golygu'i bod yn cymryd anniddordeb

Mair yn ganiataol. ‘*Fe* oedd yr ugeinfed ganrif, mae’n debyg.’

Ciliodd Mair drachefn at ddiogelwch ei llestri. Teimlai Maxine ar hyd ei hesgeiriau enciliad diddordeb ei ffrind.

‘Drwg ’da fi. Fe ddylwn i ymddiheuro, Mair, ’mod i’n cymryd ’y mreuddwydion gymaint o ddifri.’

‘Popeth yn iawn. Petasai’r rhan fwya ohonon ni’n breuddwydio gyda’r fath arddeliad, bydden ni ...’

‘Ond dwi’n cytuno. Mae sipian breuddwydion ail-dwym rhywun arall ... mor ddiflas â chlywed rhywun yn adrodd am ei salwch.’

‘Wel, yn sicr, un o ddifyrion lleiaf ysbrydoledig pob ysbyty yw eistedd ar erchwyn cymdogion i adrodd am glefyd.’

‘Beth bynnag, Mair, chafodd y glaf yma ddim cyfle i’th lethu di ddoe â’i breuddwyd ddiweddar. Achos yr hen afon Menna ’na.’

‘O! ’sdim ots am honno, na’i gorlif na’i hisafonydd,’ meddai Mair gan ganiatáu i’w phen ddychwelyd o’r gegin.

‘Paid â becsan, down i ddim yn meddwl ei hadrodd wrthot ti ta beth ...’

Ac yna ymsefydlodd Maxine yn ddiiddig o fewn erwau o freuddwyd frau, a thrwch baddon o’r gors wlybyrog. Roedd anturio i mewn i ambell freuddwyd, iddi hi, megis sengi i doreth o goedwig lle’r oedd pob cainc yn ymwau’n Geltaidd drosodd a thrwodd am ei gilydd, a’u brigau’n caneitio mewn ffrwythlondeb ar hyd llinell ddiderfyn. A’r cwbl yn disgwyl am gael ei roi ar dân. Ymlusgai hi drwy’r dringedyddion fel drwy seiniau cerddorfa jaz. Roedd yna gymaint o ddrysfa iddi bicio’i ffordd weithiau drwy ambell freuddwyd nes iddi deimlo mai’r unig waredigaeth fyddai llosgi llwybr drwy’r canol... Roedd eisiau tân.

‘Ildio! Ildio!’ meddai Mair, a dychwelodd i’r gegin yn ei hôl.

‘Fan yna rown i mewn awyren, ti’n gwybod, ar y ffordd yn ôl o Gymru i Awstralia gyda’r dyn Indiaidd ’na, yr un tal golygus,’ meddai Maxine.

‘A! hwnnw!’

‘Ac rown i *mor* falch.’

‘Gobeithio hynny’n wir.’

‘Allwn i byth fod yn falchach. Allwn i ddim ar y pryd gyrraedd yn ôl ’ma yn ddigon clau. A’r fan yna rown i, yn yr awyren, yn teimlo’n braf bob munud ’mod i’n pellhau’n gyson oddi wrth bob cyfrifoldeb Cymreig, pob ymrwymiad pais-a-betgwn, a’r dyn Indiaidd

neis 'na yn dal fy llaw, pan sylwais-i ar y ferch ...' cynhesai Maxine.

'Beth? Wyt ti'n dechrau sylwi ar ferched!'

'Ar y ferch oedd yn eistedd yn nesa ata-i, menyw ifanc heb freichiau.'

'A!'

'Dwn i ddim, ond mi ges i'r argraff ei bod hi newydd ymrithio yn ei sedd fan yna wrth yn ochr. Triais i beidio â sbecian yn rhy uniongyrchol. Ond allwn i ddim peidio. Roedd rhyw awra afiach o'i chwmpas. Ac yna, sylwais i.'

'Yn dy freuddwyd o hyd Frau Pearse?' gwaeddai Mair o'r gegin. 'Neu realiti?'

'Do, sylwais i. Doedd ganddi hi ddim llygaid chwaith.'

'A!' o syndod ... a pheth syrffed.

'Nid ei bod hi'n ddall, na bod rhyw niwed wedi cael ei wneud iddyn nhw. Ond doedd yna ddim bwllch, ddim tyllau, Mair, ar gyfer y llygaid rhwng ei thalcen a'i bochau.'

'Gwn i,' meddai Mair yn brofiadol o bell. 'Dwi'n nabod nhw.'

'Dim ond croen di-feffl a phur ... Rwtsh fel 'na yw 'mreuddwydion. Ac roedd hi'n gwenu, Mair.' Daeth Mair i mewn â dau goffi ac ychydig o fisgedi amrywiol prin eu calorïau ar hambwrdd. 'Yn *gwenu*,' meddai Maxine drachefn... Gwenodd Mair.

'Dwi'n gwybod beth yw gwên pan wela-i un. Dwi'n cofio gweld un pan own i'n blentyn.' Yn y bôn roedd hi'n rhyw amau fod Maxine hithau yn byw bywyd anghenus, a bod y ferch yna yn yr awyren yn ceisio dweud rhywbeth wrthi.

'Dere, wnaiff y rhain di'n well.' Estynnai'r bisgedi.

'Edrych ar y llun yna ohonot ti rown i,' cododd Maxine yr albwm drachefn, 'yn sefyll wrth draed y grisiau i fyny i'r awyren hon, a rhyw gysgod o wên fan hyn ar draws dy swch fel mwstásh. Ac yna, mi gofiais.'

'Roedd cau llygaid yn ddefod 'da fi bob tro y gwelwn i gamra'n nesáu.'

'Nid cau llygaid wyt ti'n wneud fan hyn. Cysgod sy wedi dileu dy lygaid di am y tro.'

Closiodd Mair i syllu ar y llun. 'O! mynd i Dasmania yr own i fan 'na am wyliau gyda rhai o ferched y Gymdeithas Gymraeg. Mae'n rhaid bod yn ddilygad os wyt ti'n mynd gyda rhai o'r merched yna.'

'I Dasmania ta beth. Beth bynnag, mi edrychais ar yr eneth ddilygad ddifreichiau yna yn yr awyren.'

'Wyt ti gyda dy freuddwyd o hyd Frau Pearse?'

'Roedd hi fel tasen i'n 'nabod hi erioed.'

'Gwn i.'

'Ac eto ddim.'

'Mi wn i'r teimlad. Cloffyn dw i yn y drych bob tro pan fydda-i'n syllu'n ôl ar y blynyddoedd.'

'A throdd hi ata-i'n sydyn chwip fel 'na, a dod â'i hwyneb yn agos agos, fel hyn, mor agos ag y gallai at fy wyneb i, ac yna agor ei cheg, fel hyn. Roedd honno'n llawn o ddannedd pwdr glas. A fi oedd hi. Neb llai. Mi drois i mewn dychryn ... fi..., a chodi, a cheisio dianc.'

'Yn dy freuddwyd?' Nesâi Maxine â'i hwyneb fel pe bai am ddychryn Mair.

'Do. Sylweddolais ei bod hi'n ceisio cymryd yn sedd i, yn ceisio cymryd 'y nghorff i.'

'Cymryd dy freuddwyd 'fallai.'

'Diawch ferch: beth sy'n waeth? Beth wnelwn i? Wrth imi geisio ffoi a rhoi 'nhroed... allan ar y gangwe rhwng y seddau, meddylia, doedd 'na ddim byd oll y delyn yno. Dim llawr. Meddylia. Dim rhyngon ni a'r ddaear.'

'Wastad, mae hynny'n digwydd 'wastad mewn breuddwydion. Gelli di ddibynnu ar y ddaear hefyd i beidio â bod 'na. Nietzsche ddwedodd hynny? Does dim rhyngon ni a dim bob amser, yn yr oes hon. Dyna pam dw-i'n gosod breuddwydion gyda'r ffilmiau arswyd mwya comon.'

'Yr ail dro i mi mewn awyren ar 'mhen fy hun ...'

'Rhyfedd, a chofio dy febyd anturus, Maxine.'

'Y tro cynta o leia gyda merch heb lygaid.'

'Wnest ti syrthio? Deimlaist ti dy fod di'n disgyn drwy waelod yr awyren i'r ddaear?'

'Na. Dim ond dihuo.'

'A!'

'A rhoi cic i'r dyn nesa ata-i.'

Ceisiai Mair chwerthin, ond methu. 'Wrth gwrs. Indiad?'

Gwenai Maxine: 'Dyna oedd y ciw mae'n siŵr ar gyfer brecwast.' A dyma Maxine yn ailadrodd yn Almaenig ei haceniad, 'Gallwch wneud yn well na 'na, Frau Pearse.'

Ailgydiodd hi yn yr albwm, a phori ymhellach. Ymlwybrodd Mair hithau allan o'r

lolfa i'r gegin i geisio rhagor o fisgedi disiocled o'r Siop Iechyd.

Roedd y tŷ i gyd mor llonydd â'r lawnt. A'r lluniau yn yr albwm hwythau mor dangnefedddus. Pob ffigur wedi ennill distawrwydd. Pob ymatal fel ton ar lyn cyn chwyddo'n dyner dyner at y lan, fel y bydd tawelwch yn gallu cyrraedd traed ac yna symud i fyny yn chwithig dros y penliniau a'r wasg ... bron heb sylwi. Cododd Maxine ei llygaid i'w gwylid o'r diwedd ar gil, ac yna syllu'n araf ond yn gariadus o gwmpas y lolfa hon ei hun.

Roedd Mair wedi cyfansoddi'r tŷ yn ofalus gyda dychymyg oedolyn. Ac nid mater o fatsio lliwiau oedd hyn. Iddi hi, doedd prynu'r papur wal, er mor ddistadl y weithred, ddim yn annibynnol ar ei gweledigaeth foesol. Roedd ei dodrefn yn cydlynu, nid yn unig o ran lliw, ond oherwydd tŷon llais, oherwydd y gogwydd cyfunol yn y modd y defnyddid cysgodion, ac yng nghydbwysedd a chyferbyniad y meintiau a osodai yn eu lleoedd mewn patrwm anymwrthiol o ystafell i ystafell yn olynol. Gweld cyflawn oedd yr hyn y ceisiai Mair ei ddarparu i'r llygaid. Dichon fod y cwbl yn rhywbeth i'w wneud rhag syllu tuag i mewn yn ormodol. Ffordd allanol ydoedd o edrych i mewn. Sosialydd 'wir!

Ni cheid gan Mair erioed — na byth — gyfoeth cartref Maxine. Ond sicrhâi fod didwylledd y symlder yn ysgogi mwynhad beunyddiol. Fel y bydd gwarineb yn llenwi rhai pobl hyd y fŷl nes ymwasgu allan o'u llygaid, felly gyda rhai tai — fel hwn — yr oedd yn goferu allan o'r ffenestri; ond yn gynnig ddisgybledig. Roedd Maxine ychydig bach yn genfigennus.

'Ti'n gwybod, Mair, dwi'n credu ambell waith fod Awstralia'n dweud un celwydd mawr. A hyn yw'r realiti i Gymraes ar wasgar, mewn gwirionedd. Mae'n cogio bod yn wrywaidd i gyd, ac 'welais ddim gwryw ers blynyddoedd ... Mewn lluniau, draw dros y don, y cafodd y fro wirion wrywaidd ddosbarth-gweithiol hon ei sefydlu mewn gwirionedd.'

'Pam wyt ti'n dweud hyn wrtho-i?'

'Adeiladwyd y wlad hon yma ar yr addewid o alltudiaeth, a'r gwir pell hwnnw yw'r hyn rŷn ni'n hiraethu amdano yn y diwedd heb ei gyrraedd byth.'

Dechreuai Mair chwerthin am ben Maxine, yn bytiog. Yna chwaddai bron yn aflywodraethus, er nad oedd dim digrif yn yr hyn a ddywedasai. Chwerthin am ben bodolaeth Maxine yr oedd hi. 'Athronyddu dy freuddwydion rwyd ti'n 'wneud.'

Mynnai Maxine fynd yn ei blaen, 'Mae Awstralia, po fwyaf y meddyliwn amdani, yn ysgogi mwy o gelwyddau na physgota. A phawb ohonon ni'n eu dala nhw bob dydd. Ond y

gwir wir hwnnw rwy'n hiraethu amdano.'

'Rown i bob amser wedi coelio mai'r "gwir" wir fel y cyfryw oedd yr hyn roet ti'n diflasu arno.'

'Fe fydda i'n meddwl weithiau mai'r ffordd gyflymaf i gyrraedd Awstralia fyddai cyrchu oddi yma mewn awyren. Awn ni'n ôl i'r hemisffêr arall ar draws y byd nes cyrraedd Old South Wales. Fan yna y mae gwreiddyn y carcharorion a'r celwyddau i gyd. Ddylen ni byth fod wedi ymadael. Dyna ran gyntaf gwir hanes Awstralia.'

'Pam stopio fan yna, Maxine, yn Olde Southe Wales. Paid â siomi'r North.'

Yna, bu ysbaid o dawelwch breuddwydiol; a throdd Maxine yn ôl at yr albwm.

Heddiw, lladd amser oedd eu diléit ill dwy, ond lladd yr amser yng nghwmni'i gilydd oedd craidd yr atyniad. Cyd-ffitient. Dylai Mair fod wedi hen flino ar Maxine a'i ffansiön. Ond roedd ar y naill eisiau'r llall. Fel synnwyr yn chwenychu diffyg synnwyr. Bu clais a hiraeth yn deulu o efeilliaid yn hanes y ddwy fel ei gilydd. Ond yng ngwenau'i gilydd caent gyfle i ollwng y trafferthion. Ni wnaent hynny gyda ffrind arall Mair, sef Menna, gan fod honno'n briod sefydlog ac yn synhwyrol tost ym mreichiau'i chymar. I'r ddwy hyn, ar y llaw arall, doedd dim ots beth yn union a ddôl i flaenau'u tafodau yng ngwŷydd ei gilydd. Ymlaen ac ymlaen. Bywyd diddirwyn diddarfod.

Yna, digwyddodd. Do.

Safodd gwallt Maxine uwchben yr albwm.

Safodd ei thrwyn. Hwn oedd yr un iddi hi. Hwn.

Y llanc amhosibl hwn.

'Mair!'

Cododd ar ei thraed — cododd ar ei gwallt — fel pe bai'n mynd i ganu. 'Mair! Cywilydd.'

Nid oedd dim a'i rhwystrai bellach rhag ei gael. Ni welsai o'r blaen y fath gyfuniad union â hwn.

'Ond Mair!' Suddai'n ôl i'w sedd annhebygol.

Teimlasai ers tro rywsut mai alltud oedd hithau. Erioed yn fwy nag yn awr. Ond wedi'i halltudio rhag beth? Bellach, fe'i sylweddolai. Rhag hwn! Hwn oedd y tir coll.

Mair!

Rhaid fyddai i Maxine ei geisio'n ddiymdroi. Cyn hyn bu hi'n baglu yn rhy hir ar draws tonnau afrealedd. 'Na!' Hwn, y rhyfeddod hwn, oedd yr un diriaethol solet cyntaf

bellach. Dim sicrach. Curai, curai dabwrdd; siglai, siglai gastanedau wrth i fand byddin yr iachawdwriaeth orymdeithio ar draws ei chalon. ‘Mair! Hwn!’ Gwenai Mair am ben ei maldod. Hwn!

Fe fynnai Maxine ystyr y tro hwn yn ddi-os, doed a ddelo. Anadlai o’i llengig yn angerddol hyfryd. Ymdeithiai’r paragón y funud hon o gylch ei gwegil a’i chefn. Codai fel mynydd yn ei bryst taclus wrth lyncu bisgïen. Nid da gan lawenydd ohirio. Chwyddai chwyddai, wrth yfed coffi. Roedd yn ei llenwi bellach. ‘Pwy, pwy Mair, ar wyneb hyn o annibendod, pwy yw’r rhyfeddod gwreichionog hwn? Os caf ofyn cwestiwn academaidd.’ Holai gan godi’i llais yn ddisymwth i gyfeiriad y gegin hedegog gerllaw.

‘Hen fflam wedi’i thampio,’ atebai Mair tan ddychwelyd o’r neilltufan honno a sbecian. ‘Hen, hen, hen farwor.’ Roedd Menna wedi’i hamau eisoes: dyma Maxine ar ei thrywydd yn awr.

‘Coelcerth ddwedwn i! Tân drwy goedwig dy wallt.’ Safodd Maxine ar ei thraed.

‘Nac oedd ddim. Pam?’ yn dawel wedi’i hanhuddo. Yn sobr tost.

‘Does dim diffodd ar y boi bach hwn. Dudalen ar ôl tudalen ohono.’

‘Sut?’ Arhosai Mair, ond yn ddidrydan o hyd.

‘Mae e ym mhob man, Mair. Fan hyn. Fan hyn. Wow! Arswyd y byd. Roeddet ti wedi’i dala hi’n dwll, ferch.’

‘Prin.’

‘Fe losgodd e wagle go fawr. Mair fach, mae rheswm ym mhopeth. Mwy eto. Wow! Tudalennau — erwau ohono. Bobol bach, ferch, beth ddaeth drosot ti?’ Eisteddai drachefn.

‘Llencyndod!’

‘Ond y fath lencyndod eneiniedig. A chudd! Nid ti oedd hon?’

Chwarddai Mair yn llafurus: ‘Gormodieithu rhyw fymryn ... yn ôl dy hwyliau arferol.’ Ond doedd hi ddim.

‘Edrycha,’ ychwanegai Maxine. ‘Doedd dim diffodd. Llond dy fforest.’

‘Nac oedd,... am ysbaid efallai,’ addefai Mair. ‘Cymer un o’r rhain,’ cynigiodd un o’r bisgedi disiocled. ‘Bydd y rhain yn garedicach aton-ni’n dwy. Gelli di fwyta faint fynni di o’r rhain heb ddifaru.’ Ond nid âi’r peryg ymaith.

Bu’r ddwy am sbel yn ymbalfalu gyda’i gilydd yn weddol ddiddrwyg yn eu hoff gadeiriau. Yn lolfa Mair yn Hornsby, mewn un o faesdrefi gogleddol Sydney, ymatebent yn eu ffyrdd gwahanol i ddalen ar ôl dalen serenog o hen albymau mebyd a chanol-oed Mair.



Ond mewn chwarter eiliad roedd y cwbl wedi troi'n drydan Cymreig. Maxine yn llosgi'n hyderus araul, a Mair yn benderfynol i fod yn ddiadanen. Ond hi heddiw yn fwriadol a oedd wedi dod â'r albwm hwn i'r golwg. I brofi'i ffrind sbo.

'Pwy? Pwy yn y byd?' holai Maxine wedyn yn araf syfrdan.

'Erbyn hyn, tŵr twt bach o ludw llwyd...'

'Lludw!'

'Llwyd yng ngwaelod ymennydd.'

'Lludw hyfryd chwythadwy llwyd, wedwn i.'

'Cysgod mân llychlyd ar bapur ... y pryd hynny...Len Llwyd.'

'Ond beth ddigwyddodd?'

'Rhywbeth 'dag e yn absennol.'

'Sut oedd hynny?'

'Rhyw ffordd o beidio â gwneud pethau. Fel y lleuad yn methu â bod yn haul. Cas ei eni'n farw.'

'Pwy te? Briododd e un o'r Tylwyth Teg?'

'Ffrind coleg oedd e. Neu fethiant i fod yn ffrind. Dim ond Len. O'r un ardal.'

'O'n hardal ni! 'Rargoel! Dyw'n hardal ni ddim yn esgor ar ryfeddodau fel hyn bob dydd.'

'Wel! Yn weddol agos i Gaerafon ta beth.'

'Len Llwyd,' malai Maxine yr enw fel hufen-iâ siocled rhwng ei dannedd. 'O la! la!' meddyliai wedyn fel y bydd hufen-iâ. Cododd drachefn a nofio o gwmpas yr ystafell fel alarch meddw rhwng y brwyn sigledig.

'Cred di neu beidio, aeth e'n weinidog.'

'Yn beth!' Crinodd Maxine. 'Beth ddwedaist ti, y freuddwydreg wirion?'

'Yn weinidog yr efengyl. Math o farwolaeth ar gerdded.'

'Dy ffrind paragonaid di!' Baglai Maxine yn ôl i'w sedd. 'Yn ...' Eisteddai mewn sioc. 'Ecsentrig hefyd te. Chwarae teg iddo.'

'Oedd.'

'Ond sut gadwast ti i'r fath fargen i ddianc o'r fasedg?'

'Ei fam.'

'A! Gwn i. Modron y ddaear.'

'Neu'r methiant i fod yn fam. Doedd honno ddim am ildio'i lle i neb. Nid ei

harferiad hi bob dydd oedd trengi oherwydd tipyn bach o salwch. Hi oedd y seren hirhoedlog ar y cawl. Seren ddi-sigl y gogledd.'

'Hawdd fyddai ailgynnau tân o galibr hwn serch hynny.'

'Tân dan gawl twymo?'

'Pam lai?'

'Byth!' ffrwydrodd Mair yn gynnil. Ac yn y fan, am foment beryglus, yn y fan yna, am eiliad gythryblus tost, yr oedd yna beth cynnau petrus yn ei marwor mwyn llwyd.

'Dim ond awgrym gwyrach yn ôl ei hewyllys,' meddai Maxine tan gyrwydu'n ôl yn ymddiheurol.

'Dwi'n wahanol i ti, Maxine ... Dwi'n digio,' meddai Mair yn fwyn. 'Dwi ddim yn amgyffred sut rwyd ti'n gallu bod mor ddawnus o ddisgarmes. Dwi'n mynd yn grac reit.' Ond doedd hi ddim. Roedd hi'n gadarn ei hargyhoeddiadau, ond roedd y cwbl o dan reolaeth fwyn.

'Fysai neb yn amau dim.' Ac am funud neu ddwy gyd-fwyn, cystadlu a wnâi'r ddwy, yn nhwrnamaint beunyddiol mwynder.

'Ac yn aros yn grac,' meddai Mair yn fwy mwyn byth. Mae pob dim gyffyrddais i ag e erioed ar hyd f'oes wedi'i losgi'n ulw.' Ond gwenodd yn ffenedig fwyn; ac roedd hi'n ôl mor ddi-grac ag y gallai neb go aeddfed fod.

'Twt!'

'Dwi'n deall dim ohonot *ti*, Maxine. Rwyd ti'n mopio dy ben mewn eiliad. A'r eiliad nesaf ... Sut yn y byd mawr roet *ti*'n gallu anghofio Charles?' Roedd Mair am droi'r drol. 'Sut oet *ti*'n gallu bod mor anfeidrol ddihidans am rywun real fel 'na? Dy wr crwn croyw call dy hun.' Roedd Mair am newid y pwnc. Ond o ddifri, methai ag amgyffred diffyg crafter ei ffrind ar rai materion.

'Ddim yn ddihidans,' meddai Maxine yn gyffesol. 'Cogio bod yn ddihidans. Roedd *e*'n rhy real, yn rhy gall. Rown-i'n esgus mai breuddwyd sâl oedd Charles, druan. Mae'n fath o dric acrobatig. Lleddfu yw gwaith swyddogol breuddwydion. Ond weithiodd hi ddim. Dyw rhai pobl ddim wedi'u geni i briodi.'

'Gwyn dy fyd di, te.'

'Ond mae e 'ma o hyd, dwi'n ofni,' meddai gan gyffwrdd â'i thalcen. 'Ei osod e yn y ffeiliau gyda'r breuddwydion twp eraill, dyna bydda-i'n ceisio'i wneud. Dyw hi byth yn gweithio.'

‘Dan y pentwr dirifedi? Ac rwyf tithau’n medru byw fel ’na yn Llanfair ym Mreuddwyd bob dydd?’

‘Pam lai?’

‘Ar ôl deng mlynedd ar hugain gyda dy Charles call!’

‘Mae’n hawdd imi gymryd arna-i mai twyll oedd y cwbl.’

‘Ond sut?’ heriai Mair.

‘Dychymyg. Boi oedd Charles oedd yn gallu cyffesu’i *odineb* yn gafalîr braf, ond peidied dweud wrtho’i fod yn *pigo’i drwyn*. Dyna yw realydd.’

‘Deng mlynedd ar hugain hyll fel yna o dwyll real yn yr un tŷ.’

‘Ffansi i gyd. Dwi’n credu dim o’r fath flynyddoedd ... Wyt ti’n credu hwn te? A blynyddoedd hwn?’

Ceisiai Maxine hithau droi’r drol. Gan bwyll, roedd yr ystafell yn cael ei llenwi â throliau.

Edrychai Mair yn ôl eto ar lun Len Llwyd mor farwaidd bŵl ag y gallai. ‘Ydw,’ meddai’n theoretig. ‘Debyg ’mod i, dwi’n cofio pob munud o Len, pob cymal cam, pob carthiad llwnc ysywaeth. Edrycha ... Rywfodd, er ’y ngwaethaf, yn ’y nannedd fel petai, ... ei gofio fe’n rhy fynych. Marwolaeth ar gerdded. Ond fi sy wedi marw erbyn hyn, marw’n fyw. Roedd ’na rywbeth ’dag e oedd yn absennol. Fe ei hun efallai.’

‘Roedd e’n bod serch hynny, rywdro, yn ddigon byw ar y pryd. Fel hyn ... Dyw e ddim yn dal i fod i ti?’

‘Na. Diwedd yw diwedd. Diolch i’r drefn,’ meddai Mair. ‘Dim ond o bell. Cofio academaidd yw’r cofio nawr. Cred di fi. ... Y fath wastraff...Len!’

Cenfigennus oedd Maxine o Mair. Nid cenfigennu a wnâi ynghylch y ffaith i honno unwaith adnabod Len yn benodol, nac iddi ymhoffi yn yr unigolyn hwn hyd ddyfnderoedd bodlonrwydd tawel. Perthynai cenfigen o’r math hwnnw i chwiwiau munud awr. Cenfigennai Maxine yn hytrach wrth holl fywyd mwyn Mair benbwygilydd. Ysai am ei diffyg breuddwydion. Crwydrai’n farus o gylch ei hwyneb mwyn a ffurf ei chorff, ar hyd y cloddiau ogyrch ei thipyn meddwl call hyd yn oed, o gylch y mewnblygrwydd araul ac araf hwnnw a ymddangosai mor urddasol pryd bynnag y trafodai anawsterau cras ac onglog. Chwenychai Maxine fodolaeth Mair. A chwenychai Mair hithau fodolaeth Maxine, — y breuddwydion a’r cwbl. Dwy ffrind, mae'n debyg.

‘Mae e’n sgubol o olygus,’ meddai Maxine yn drist.

‘Golygus? Ble? Fe gei di fe ar blât o’r rhan i.’

‘Ond mae’n greadigaeth ryfeddol. Gweinidog! Cywilydd! A thithau’n anghredadun teidi.’

‘Sosialydd. Gyda chyffyrddiad o’r daearol hwnt a thraw ’fallai.’

‘Arswyd! Roedd e’n wyrth, Mair.’

‘Gyda rhyw rith o’r cyffredin fan hyn a fan acw.’

‘Na, na ... Yr wythfed ryfeddod.’

‘Twt, twt.’

‘Edrycha Mair, ar ei ysgwyddau.’

‘Roedd yna ychydig mwy nag ysgwyddau.’

‘Hon? Ei fam oedd hon sy gydag e fan hyn?’ Daliai Maxine y llun hyd braich oddi wrthi, rhwng dau fys, fel pe bai’n aflan.

‘Paid â sôn sill am y greadures honno os wyt ti am fyw i dreulio bisgïen arall.’

‘Hi oedd ei wraig arall felly?’

‘Ie! A’i ferch. A’i fam-gu. A’i gyfnither. A’i drydedd a’i bedwaredd orchaw. Mae hi’n fyw o hyd, yn sgragen o dylwyth cyflawn iddo, fel archfarchnad.’

‘Ei fam! Methiwsalina. Yn fyw!’

‘Ie, am wn i ... Y fam fythol! Cofgolofn dragwyddol o fenyw, wedi’i phlannu ar glogwyn, ar sgwâr y pentref yn y cwpwrdd, yn drech na phob gwynt; anferthedd bythwyrdd, cyfrwys, gyda sensitifrwydd bresychen ac angerdd malwoden, y math na wŷr ddim oll sut mae trengi’n daclus.’

‘Yn wahanol i ti a fi... Mae ar flaenau’n bysedd ni.’

‘Roedd ganddi hi ddyfais hylaw. Bob tro yr amheuai hi fod yna fymryn o gynhesrwydd yn datblygu rhwng ei mab a fi, un mymryn mân o farworyn, fe âi hi’n sydyn sâl. Yr un peth bob tro — poen yn ei hanfarwol fronnau. A! Mi fynnai hi feddiannu’i amser fel ’na bob eiliad. Ac er mwyn gwneud hynny, fe âi hi’n ddiymadferth yn y fan a’r lle.’ Dynwardai Mair yr hen wraig yn gafael yn ei chalon ei hun. “Len! Len!” ... Surais i. Gormod o gystadleuaeth.’

‘Allwn i byth suro fel yna,’ meddai Maxine.

‘Na?’

A gwyddai Maxine na allai Mair ddim ychwaith. ‘Allwn innau ddim ei heglu hi i ffwrdd i ildio’n ddisgarmes. Nid fel yna! Ddim oherwydd tipyn o hen fenyw genfigennus!’

‘Na; ac eto, casáu Charles rwyt tithau’n wneud o hyd, mae’n siŵr,’ edliwiai Mair, ‘yn dawel bach.’

‘Charles? Fi! Byth.’

‘Roedd y gŵr gest ti ...’

‘Casáu? Beth yw’r pwynt? Un bywyd bach sy ’da ni, Mair fach. Doedd Charles ddim yn gallu preswyllo gyda breuddwyd, dyna’r cwbl.’

‘Dwi’n ei ddeall e’n burion.’

‘Ond suro at fam hwn? Pam? Achos mai hyhi druan oedd ei wejen arall yn nhriawd y buarth?’ holai Maxine, gan graffu ar lun Len yn afresymol. Roedd ei heiddigedd ei hun yn ei mygu am ychydig o eiliadau, a’i myfyr yn anochel glymedig wrth ei gorffennol hi ei hun a Charles. Ond gwyddai hefyd o raid mai bwgan byw mam Len Llwyd a hawntiai Mair ar y funud. Chawsai hi, Maxine, ddim tebyg i fam yng nghyfraith o’r fath i ymgodymu â hi.

‘Ie ... Na; am ei bod hi,’ meddai Mair, ‘mor gythreulig o imperialaidd bob amser. Fan yna roedd hi — dwi’n ei chofio’n burion y funud yma, yr ymerodres anferth — ar ei gorsedd borffor, ac yn craffu pob dim i’w bronnau enwog. Gwaith oedd ... gwaith yw f’ateb i bethau felly erbyn hyn.’ A’r pigladau chwannen, ychwanegai yn ei meddwl gwaelod.

‘Ti sy’n iawn, Mair. Rwyt ti mor gall.’

‘Yr ardd, yr elusennau, y Gymdeithas Gymraeg. Ast ydw i yn rhedeg mewn cylch.’

‘Ydy gwaith yn gweithio?’

‘Mae’n bopeth. Bron.’

Roedd haerriad Mair yn gynhenid reddfól. Wedi’r cyfan, hi oedd ysgrifenyddes Cymdeithas Gymraeg Sydney. Trefnu cyd-ddigwyddiadau cymdeithasol oedd prif swyddogaeth y Gymdeithas honno. Pobl na freuddwydient am gyfarfod â’i gilydd, fe ddoent wyneb yn wyneb yn y fan yna, fel pe baent yn gymdogion wedi cario dernyn o Gymru i’r wlad bell. Byddai cyd-drigolion (heb fod yn rhy agos efallai) o’r un ardal gartref, er na wyddent ond odid ar y dechrau am fodolaeth y naill na’r llall yn Awstralia, yn fynych yn dirwyn tua’r un lle ac yn eu cael eu hun drwy ddamweiniau trefnedig twt yn eistedd yn nesaf at ei gilydd. Ac oherwydd Mair ceid patrymau tyn fan hyn lle y dylai fod yna chwalfa chwil. Yn achos pobl ifainc sengl ‘oddi cartref anedig’ gweithredai’r gymdeithas fel math o asiantaeth cyd-siyntio. Clywai Mair glustiau addawol ym mhob man. Gwlad fechan danddaearol oeddent oll yn nheyrnas Mair. Y Cymry penwan anhysbys hyn o fewn y

cyfandir dihanes, y Gymru gyfrinachol hysbys hon lle y doent ar gyfyl ei gilydd yn wlad oddi cartref.

Pe sylwent ar hyn, tyngai'r gwir Awstraliaid o fewn llawnder eu hanes fod y Cymry braidd yn glawstroffbig. Diddanwch oedd eu bryd i gyd, wrth reswm. Bob blwyddyn trefnai'r gymdeithas hon (sef Mair) ginio Gŵyl Ddewi. Fis yn ôl, bu'r Dr Helen Fulton yn darlithio ar 'Ifor Hael, ffeminydd yn ôl y llawysgrifau hynaf.' Ond digwyddiad pur eithriadol oedd y wedd academaidd honno; nid addysgu oedd amcan yr ymgynnull. Cymdeithasol hollol oedd eu gwir nod yn anad dim. A Chymanfa Ganu oedd priod ystyr Cymdeithas.

Mair, felly, oedd arch-drefnydd 'Cymreictod oddi cartref Awstralia'. Mair hefyd oedd is-drefnydd diwyd siop Oxfam enfawr ynghanol y ddinas. Ar ôl i'w gŵr ymadael â hi, ac i'r plant sleifio dros y nyth, dau i America, un i Seland Newydd, a dwy i Orllewin Awstralia ar ran y llywodraeth ffederal, roedd hi wedi ceisio claddu'i siomedigaethau rhyngwladol mewn amryfal weithgareddau. Iddi hi, chwarae plant diniwed ar brynhawn Sul oedd breuddwydion Maxine. Anghyfrifoldeb mewn byd cyfrifol. Gwaith, nid chwarae oedd yr unig ateb parhaol iddi. Ac eto doedd y fath ymroddi dygn rywfodd ddim wedi bod yn ddigon i atal ei chlwyfusrwydd, er bod Maxine rywfodd yn cenfigennu wrth ei hymroddiad o hyd, hyd yn oed i gyfeiriad ymarferoldeb. 'Ydy. Mae gwaith,' meddai hi'n derfynol gelwyddog, 'yn gweithio'n burion.'

'On'd elet ti ddim yn ôl dros y blynyddoedd at hwn erbyn hyn?' holodd Maxine. 'Meddylia. Pam lai? at hwn?'

'Rargian! At Len!' ebychai Mair gan frawychu wrth y fath syniad. 'Ddim am un eiliad. Na, does dim ail gynnu.' Ond roedd ei thrwyn hi'n gwrido, a chododd ei hysgwyddau drwy'r gwrid gwelw ac ymlwybro'n drugarog i'r gegin yn ei hôl.

'Beth mae e'n wneud erbyn hyn?'

'Gweinidog o hyd medden nhw. Meddylia. Gŵr wedi cael addysg. Yn yr oes hon hen lanc o hyd am wn i. Hen hen lanc. Ac yn yr un hen hen hen wlad o hyd.'

'Gweinidog!'

'Naïf tost. Unplyg ti'n gwybod, fel roedd pobl yn y dyddiau 'ny.'

'Hen lanc! Hwn!' Ni allai Maxine ddychmygu'r fath gyflwr.

'Yn gofalu am ei hen hen hen hen fam. Ac yn byw mewn gwlad lle mae pawb yn Gymry oddi cartref.'

‘Ac yn hen?’

‘Fel pridd dros fedd.’

‘Y fath afradu afraid ddwedwn i.’

‘Pam?’

‘Elli di ddim mynd yn d’ôl *eto*?’

‘At hwn! Mae ETO wedi’i hen ollwng o ’ngeirfa i, diolch byth. Ac o’r Gymraeg am wn i.’

Cododd Maxine. Aeth at y ffenest. Y tu allan yr oedd hi’n tresio bwrw ffenestri eraill erbyn hyn. Ffenestri, ffenestri’r tai eraill, oll yn wag, oll wedi cau amdani. Rhyngddi a’r bydoer a diflas yr oedd yna garthen o wydr trebl tryloyw. Ffenest ar ôl ffenest. Heb neb yno. Y tu mewn arhosai’n glyd afreal. Y tu allan yr oedd yr awelon ... Y tu mewn roedd gan Maxine amryw gyfrinachau troedsych na wyddai Mair ddim oll amdanynt. Bu ganddi hithau ddimensiwn arall. Nid breuddwyd moni yn gyfan gwbl. Bu ganddi hithau gyn-ŵr, wrth reswm, fel y clywsai Mair, ond heb ‘wybod’. Yno, roedd e, heb fod yn bell o’r Appian Way ma’s draw. Charles. A blynyddoedd cyn iddi adnabod Mair, bu gan Maxine swydd a gweithgareddau’n ymestyn i mewn i orffennol yn Awstralia na wyddai Mair ddim oll amdanynt. Ni wyddai Mair chwaith iddi agor, neu ailagor yn hytrach, yr hen ddolen honno gyda Chymru a wnaethai ar ôl dod i gysylltiad â Mair. Haenen y tu ôl i haenen, heb yn wybod.

Tybiai Mair y tu mewn (neu felly y credai Maxine) mai Cymraes oedd ei ffrind o hil gerdd a ymfudasai i Awstralia, o ardal heb fod nepell o’i hardal hi ei hun. Mewn fudwraig felly. Cymraes fach fewnfudol a fu’n gyfleus o anffodus mewn priodas. Yn y fan hon yn awr y tu ôl i’r gwydr yr oedd yn cael ymguddio’n ddiogel mewn breuddwydion, ac yn dechrau’u credu ei hunan. Ailddechreusai’i bywyd mewn hemisffêr newydd. Adeiladasai fuchedd newydd sbon garedig. Ond daliai’i meddwl â chyswllt â gwlad well. Angofiasai lawer. A chelwyddasai beth yn fwy. Dyna o leiaf y tameitiach hanesyddol a adroddasai’n amhenodol o bryd i’w gilydd wrth ei ffrindiau.

Ond nid Cymraes go iawn mohoni, wrth gwrs. Awstraliad oedd. O dras Gymreig, eithr yn Awstraliad crwn cyfan. Ond cuddiasai rhag Mair a rhag ei ffrindiau oll y rhan fwyaf o’r diflastod hwnnw a fu am gyfnod maith yn bresennol yn ei hymadawiad cyntaf ag Awstralia, yn niflastod ei hymweliadau hir â Chymru, ac yn ei dychweliad llai na llwyddiannus wedyn i Awstralia i geisio gŵr. A’r diflastod ar ôl hynny yn ei pherthynas â’r

gŵr hwnnw.

Ond er teneued ei chysylltiad cynnar â Chymru, daethai'r wlad od honno — cyrchfan ei gwyliau hir — yn fath o baradwys iddi, ar ôl iddi ddod yn ei hôl. Am y wlad honno druan, yn anad unlle, y breuddwydiai. Carlamai ar ôl ei breuddwyd yn ddyfal. Oni ddysgasai'i hiaith? Ymgais i gadw neu drosglwyddo Cymru. I realeiddio breuddwyd.

Gwyddai Mair rywfaint am y corddi hwn oll er ei gwaethaf, bron i gyd, er nas dywedasai. Ni welai hi ddim budd mewn brolio i Maxine ei bod yn gwybod ychydig o'i chyfrinachau. Ni chredai Mair chwaith, wedi'r cwbl, mai'i rhan uwchradd hi oedd condemnio ffansigarwch diniwed a gwirion ei ffrind. Beth oedd o'i le ar hedd ffansiö!?

'Mynd yn f'ôl! Fi! Ar ôl deng mlynedd ar hugain o felysbeidio ag adnabod neb!' gwaeddai Mair ymhellach o'r gegin.

'Pa ots sy? Mae marc-post Caerafon ar dy drwyn di.'

'Mynd yn ôl i Gymru hen-lancaidd diffwrwyth! Fi! Byth!'

'Ond byth?' holai Maxine yn brudd fel pe bai'n aberthu plentyn. 'Tyn dy len yn ôl!'

'Dros 'y nghrogi! Na thros 'y mhiclo mewn trydan chwaith. Mae gen i well diddanwch fan hyn.'

'Ailgynnau fflam mewn hen ddiamwnt. Pam lai?'

'Mae'n rhaid dy fod yn breuddwydio. Ailagor bedd mewn hen fynwent! Dyna fysai hi. Diamwnt clwc mewn hen gracer,' ebe Mair yn ddirmygus.

'Mae 'na ambell drysor bach ar goll yng Nghymru o hyd, sw'n i'n meddwl.'

Daeth Mair yn ei hôl o'r gegin drachefn. 'Atgofion y fi fawr hon, yn un. Rwy'ti, Maxine, yn medru ymdawelu gyda phob dim. Digio'n ddi-droi'n-ôl gall wnes i,' meddai'n fwynaid, a'r mwneidd-dra hwnnw'n diferu'n wrth-ddigus am y tro ar ei lleferydd er yn gadarn wyllt dros ei gruddiau. 'Gwlad yw Cymru lle y mae'r difaterwch wedi mynd yn ymosodol.'

'Digio! Pa ddigio 'wnaiff dy siort di, na'm siort i?'

'Wel, ddim oherwydd Len, efallai. Ddim yn unig. Ond digio gyda menywod efallai, digio gyda bywyd. Gyda phawb. Gyda'i fam. Llidio a doddi dŵr ar y tân, fy hen dân bach twp fy hun. Llidio ynghylch y ffaith fach fod 'na wrywod i'w cael ar glawr daear o gwbl.'

'Dwi'n credu dim gronyn ohonot ti,' meddai Maxine, a oedd yn llai gwrthwrywaidd na'i ffrind er gwaethaf ei helbulon ei hun. Roedd lluniau Len wedi cynhyrfu ei breuddwydion potensial.



‘Cred di fel y mynnot ti. Does gen i ddim o’r amynedd i faddau, ti’n gwybod.’

‘Ddim amynedd ’wir,’ gwawdiodd Maxine yn gymedrol.

‘Hen wreigen finegr lwyd dwi erbyn hyn.’

‘Llwyd! Ti! Rwyt ti’n chwe mis yn iau na’m corpws i. Gwraig *ifanc* geintachlyd efallai. Wyt. Ond cyw bach o hyd! Newydd gracio dy gragen. A Len! merch ifanc i! Does ’da ti ddim llefeleth llwyd shwt mae bod yn ganol-oed, heb sôn am yn hen.’

‘Dwi’n hen hen ac yn orfoleddus o chwerw,’ sibrydai Mair.

‘Alla-i byth gredu shwt ddwli. Ond y fath bishyn. Hwn! Mae ’na ddyfodol fan ’na sbosib. Gad imi edrych arno ’to.’ Gwasgai Maxine y llun wrth ei mynwes. Roedd wedi’i chyfareddu. ‘Mae yna ddau ohonyn nhw, dau wryw yn y llun yna ... a’r llun yma eto ... a hwn. Un sbâr, meddylia.’

‘Oes. Rown i’n hoffi’u dyblygu nhw.’

‘A hwn a hwn a hwn. Pwy yw’r llall?’

‘Bill.’

‘Pwy oedd hwnnw pan oedd-e ar ei ben ei hun? Hytrach yn Bill y bol ddwedwn i?’

‘Gŵr solet arall a oedd yntau'n mynd i’r weinidogaeth.’

‘Mair fach, beth oedd arnat ti? Casglu henebion?’

‘Fel ’na roedd hi yn y dyddiau ’ny. Croeso iti gael hwnnw. Mae digon ohono’n sbâr. Neu Len o’r rhan i.’

‘Mair! ti o bawb. Mae ’da ti dalentau cudd.’

‘Offeiriad oedd Bill, cofia, gyda’r Eglwys Anglicanaidd.’

‘A! Mae gobaith amdanat ti te o hyd, Mair fach. Anglican! Dyna iti deitl i chwarae ag ef. Sut un? Hil y peraroglau? Neu ddawnsio yn yr eil?’

‘Dim byd. Rhyddfrydol saff. Yn y canol gwag. Bill, dwi’n feddwl, yn ganol i gyd... Annibynnwr tenau oedd Len o hil gerdd. Un o lewod bach Daniel...J.E.’

‘Cyfareddol!’

‘Rown i’n ymsymud mewn cylchoedd pur arallfydol pryd ’ny, cred di fi.’

‘Rown i’n amau mai tipyn o swanc oedd y baganiaeth bresennol ’na.’

‘Annibynnwr hyd flaenau’i fysedd oedd Len druan. Radical. Clamp o academydd oedd Bill yn y dyddiau gynt. Clamp, o leiaf. Boi mawr gofalus. Dwi-n credu’i fod e wedi cael ei ddyrchafu’n esgob erbyn hyn.’

‘Hoffi ffensys siŵr o fod.’

‘Oedd: fe gâi e ffens ym mhob cae i osod ei ben-ôl sylweddol arni.’

‘Dwi’n nabod ei siort.’

‘Roedd e’n arfer siarad fel y frenhines yn cyflwyno’i haraith Nadolig, yn llawn o wastadeddau didyle di-dwf.’

‘Wel dwi’n gallu dirnad yn burion pam na ffansiaist ti ddim o hwnnw. Ond Len! Seren tan len os bu un erioed. Roedd e’n seren lachar ar y naw, ferch.’

‘Llun ohonon ni yng Nghaer-gaint oedd hwnna. Len a fi, a Bill a’i wejen Joyce.’

‘O flaen yr eglwys gadeiriol?’

‘Ie. Aethon-ni i wasanaeth yr hwyr. Y complin. Ac mi wnaeth Len heclo.’

‘Heclo?’

‘Do.’

‘Heclo! Chwarae teg — i’r Anni-byns,’ meddai Maxine yn edmygus.

‘Cynulleidfa fechan. Ymwelwyr bron i gyd. Ar ymweliad roedd y pregethwr yntau, don o Rydychen, yn ystod gwyliau’r haf. Yn pregethu rhyw ffansiön hollol Hindwaid, ti’n gwybod, fel y bydd y rhyddfrydwyr ’ma.’

‘Gwn i.’

‘Dim Iawn, wrth gwrs. Dim math o edifeirwch. Dim credu. Dim goruwchnaturiol. Dim mor uchel-ael â Duw. Dim yw dim.’

‘Gwn i.’

‘Rown i’n cytuno â’r cwbl wrth gwrs. Ar y pryd. Ac mi dorrodd Len ar ei draws, a stampian allan.’

‘Na.’

‘Do.’

‘Yn anoddefgar felly!’ gwenai Maxine, gan adnabod ei chyfaill. ‘Hunan-gyfiawn medden nhw. Yn well na phawb arall!’

‘Ond aros wnaeth Bill wrth reswm gyda’i fol. A’i wejen, Joyce.’

‘A thi?’

‘Arhosais innau yn llyweth reit am foment, ac yna ymlusgo hyd y llawr allan ar ôl Len. A’r fan yna yr oedd e y tu allan i’r porth deheuol, a dagrau’n ystyfnigo y tu ôl i’w lygaid. Ac wedi colli un esgid wrth redeg allan o’r eglwys.’

‘Dagrau! Be’ wnest ti?’

‘Mi dynnais ei goes e. Beth arall... cynnig hosan?’ Gwenodd Maxine. ‘A cheisio’i

bryfocio. Mi ddwedais i mor braf oedd gweld y fath unplygrwydd mewn cyw. Ond roedd e wedi cymryd ati. Yr holl eglwys, meddai fe, yn ymddatod. Cymrodeddu. Troi cefn. Eistedd ar y ffens. Neb o ddifri. Ac yntau'i hun yn waeth na neb. Dim ond ysbrydoedd meirwon yn hepian oedd yn fyw ... Anghofia'i byth mo Gaer-gaint.'

'Chwarae teg iddo,' cymeradwyai Maxine.

'O! mi fyddet-ti'n cytuno ag e, y gythreules fach. Doedd 'da fi ... does 'da fi ... ddim amynedd at y math yna o beth. Roedd ef ar blaned arall. Allwn i byth gyrraedd honno.'

'Ond mae e'n baragón, Mair.'

Protestiai annidwylledd Mair, 'Tisht!'

'O ddifri.'

'Ydy te, fe gafodd ar un adeg ei gyfran gynnil o olygusrwydd. Yn dipyn o seren tan gwmwl, efallai. O leia, fel 'na *roedd* e. Ond dwi'n ei drosglwyddo fe i ti. Len...ar blât.'

'*Hwn* yw'r un i *mi*.' Gwyddai Maxine mai hwn y byddai hi'n ei garu mwyach, tan ddiwedd Oes yr Iâ. 'Gyda hwn y gallwn i fyw. Fe ddown i'n rhan o'i dŷ,' meddai hi.

'Pa dŷ?'

'Dwi'n credu y gallwn i freuddwydio am hwn am byth.'

'Beth?'

'Y gwir. Ta beth rwyf ti'n meddwl am nwydd felly.'

'Mae'r cwbl yn relatif.'

'Breuddwydion o fath hwn fu 'mara menyf i erioed. Mae'r breuddwydion yn dipyn o gartref-henoed ifi. Mewn un breuddwyd y ces i 'ngeni a'm magu siŵr o fod.' Estynnai Maxine ei choesau'n gysurus. 'Dwyt ti ddim yn cytuno fod breuddwyd yn gwneud preswylfa addas i bobl fel hwn? Mae tŷ fel hwn yn debyg i blasty mawr y gallwn i, y gallet ti fwrw gwreiddiau ynddo fe, gyda llinach llawenydd.'

'Mae arna-i ofn, petai e'n gartre i fi, Maxine, y byddai'n rhaid i fi gyweirio'r drysau o hyd a'r traeniau a'r to. Ti'n *gwybod* sut mae hi gyda thŷ.'

Ac ar y gair 'gwybod' disgynnodd llygaid Maxine yn ôl ar yr albwm.

'Y Fair ymarferol gall! ... Alla-i ddim tynnu fy llygaid oddi ar hwn.'

'Ond bymtheng mlynedd hen ar hugain yn ôl oedd hynny. Cyn Napoleon.'

'Fyswn i byth wedi gadael i fam o fath yn y byd sefyll rhyngddo-i a hwn.'

'Nid sefyll, eistedd: eistedd ar 'y nhrwyn i. Llond trwyn o Fam.'

'Treigladr trwynol o fenyw felly. Ac mae'n dal yn fyw!' rhyfeddai Maxine.

‘Yn barlysog fyw. Debyg iawn. Dyw hi ddim eisiau dim o’r dwli marw di-drwyn  
'na.’

‘Mae’n eithaf gwydn.’

‘Wel, ydy, fel chwyn, hi a phob hi arall debyg.’

‘Ond *fe* dwi’n feddwl hefyd. Mae e’n wydn ei wala, mae’n siŵr,’ meddai Maxine.

‘Nac ’dy, ddim i fi. Yng ngolwg ei ardal yn Llanbiblig, o bosib, yn lled fyw. Heb fod ymhellach na phedair milltir o gartre’i febyd, am wn i, ar bwys Caerafon, fe all ei fod e, fan ’na yn llond ei groen o hyd. Yn weinidog, druan, am byth. Mae e siŵr o fod wedi tyfu’n fugail glân ei wala erbyn hyn. Ond yn y fan hyn, ...dyw e ddim yn bod.’

‘Ddim i ti.’

‘Na! Ddim byth i fi. Ddim yma, dros y gwrych.’

‘Ti yw’r ddafad golledig gall.’

Yna, suddodd Mair hithau i fath o freuddwyd, er nad breuddwyd mohoni, ond gwrthglawdd rhag breuddwyd. ‘Ymadewais i â’r hen gorlan yn y diwedd. Mae ’mreuddwydion yn wagle. Mae popeth arall ar ôl hynny wedi hen ddarfod y tu mewn.’

‘Dwed hynny wrth Oxfam.’ Codai Maxine ei llygaid tua’r nenfwd. Daliai’r albwm-lluniau yn ei dwylo fel trysor. ‘A!’ meddai hi gydag ochenaid o fodlonrwydd helaeth. ‘Does dim hanner digon o barch ’da ti at freuddwydion.’

‘Roedd ei fam yn stond rhyngon ni,’ meddai Mair. ‘Dyna’r gwir, fel cyfandiroedd a moroedd mwys. Pellter hemisffêr.’

‘Peth od yw mamau,’ meddai Maxine fel pe gwyddai.

‘Roedd hi’n sefyll yn garegog rhyngon ni fel mynwent hapus. Nid f’arferiad i yw marw, mynte hi.’

‘Dwi’n deall. Dwi’n gwybod.’

‘Roedd honno’n “gwybod” hefyd. Ac mi ddiffoddodd hi bopeth yno-i. Pob pentewyn bach llwyd lleiaf.’

‘Dwed hynny wrth Gymdeithas Gymraeg Sydney.’

‘Mae deng mlynedd ar hugain o farwolaeth hirhoedlog, Maxine, mor fanwl effeithiol â deng mil ar hugain.’

‘Ust ferch.’

‘Ydy. Dwi’n neanderthal,’ ochneidiai Mair.

‘Hyba o’r fan yna, ferch. Llances las wyt ti o hyd. Gwraig ifanc geintachlyd iach ei

gwala fel fi.'

'Ac wedi blino, wedi diffygio'n deg.'

'Tisht! gwraig ifanc. Hiraethu am Gymru rwyd ti.'

'Wrth gwrs, mae'n eitha posib fod y ddaear hon yn gyffrous i rywun o hyd.'

'Eitha posib ... o chwilio,' meddai Maxine gan wenu.

'Ond dw-innau wedi syrffedu. Dwi wedi cael llond f'arffed, hyd at y ffroenau, ddwedwn i. Wedi diffodd.'

'Tisht!'

'Y fam. A Len. Dyw'r bydysawd i fi erbyn hyn ddim yn cuddio dim un dirgelwch.'

'Am ofergoel anghrediniol te.' Protestiai Maxine at y fath ribidirês o geintach ysgafn.

'Roedd yna un amser pryd y gallwn i fod wedi dwlu hiraethu'n ddigon del am rywbeth glew fel hyn. Ond nawr, wedi heneiddio mae'r cwbl lot... Rown i bob amser yn amau bod hwn yn dŵr eglwys heb glychau, neu'n wydraid gwag o win cymundeb heb gic ynddo. Ac yn y man, ymhen mil o flynyddoedd glas, pan giliwn i'w wâl gydag e yn fy meddwl, byddwn i'n gwybod yn o saff beth oedd y profiad o orwedd yn gariadus yn nesaf at fwcedaid o gyflog oer.'

Yna, fel cloch baffio rhwng rowndiau wele ar draws pob diddanwch canodd y ffôn. Cododd Mair yn flinderus i'w hateb. 'A! *Menna* fach. Ti sy 'na?' Winciai ar Maxine.

Cododd Maxine yn reddfól: 'Eto! Hon! O hyd! Mae hi ym mhob man, yn y cnawd, ar y ffôn. Fel Aids. Dwi'n mynd ...' ebychai. 'Pascolini ... Lwlwto ...,' esboniai, 'y ddau ... yr un pryd ...' Yng nghornel ei llygad, canfyddai'r llygoden Ffrengig yn ei meddwl yn troi'n wyneb Menna mewn cywilydd.

'*Ddim* yn dod? Dwyd ti ...' holodd Mair er mwyn bod yn fanwl bendant, 'ddim *heddiw*.' Siglai'i phen i gyfeiriad Maxine ac arwyddo â'i llaw iddi eistedd; 'gwn i,' siglai'i bysedd.

'Welaist ti'r meddyg?' sibrydai Menna drwy'r ffôn.

'Ynglŷn â beth?

'Y chwannen. Mae'n beryg bywyd.'

'Do.'

'Siglai Mair ei bys yn ôl tuag at Maxine a'i chyfeirio i'w sedd drachefn.

'Ydy popeth yn iawn? Wyt ti'n cael triniaeth?' holai Menna.

‘Synnet ti. Boi tal ifanc golygus o’r enw Pascolini.’

‘Ust dy faw.’

Paid â sôn mwy am y peth,’ meddai Mair.

‘Welaist ti fe?’

‘Do. Addo. Anghofia’r cwbl. Dwyt ti ddim yn deall. Na fi.’

Siglai Mair ei llaw tua Maxine.

Ond roedd Maxine eisoes wedi ymrwymo i ymadael. Cyfeiriai’i deinameg isymwybodol tua’r drws â’i bryd a’i chorff wedi’u hanelu eisoes, ar ôl ei greddfau, tuag amgenach porfeydd. Roedd croen Menna yn amlwg wedi’i sgrifennu ar ei thalcen hi. Roedd cysgod Menna ar draws ei disgwyliadau. Roedd bwgan Menna a bygythiad bwriad Menna yn ffwrn tu fewn i’r ffôn.

‘Yn y trêrn y des i heddiw, ti’n gweld,’ meddai Maxine yn esboniol i Mair.

‘Does dim angen iti fynd nawr.’ Ond agorai Maxine ei dwylo’n ddiymadferth.

‘Dwi’n gwybod. Y car yn cael ei gyweirio.’ Er nad oedd Menna’n mynd i ddod, nac yn dod i fynd, roedd cysgod y llygoden Ffrengig fethedig wedi dychryn Maxine a bellach yn hofran dros yr ystafell. Teimlai’r awgrym yn yr awyr er ei gwaethaf.

‘Anwydwst sy ar Menna.’

‘Druan druan,’ meddai Maxine yn anghrediniol wedi’i siglo i’w gwraidd. ‘Gwnawn ni gasgliad iddi. Halwn ni flodau. A-i i’w prynu nhw. Cynhaliwn wasanaeth coffa. Ond rhaid imi gychwyn yn ôl ta beth.’ Roedd hi wedi’i chyffroi gan yr awgrym seithug swrth o bresenoldeb posibl Menna. Roedd y cysyniad o Menna fel hunllef anllad. Ac roedd ei ffarwél â Mair unwaith eto wedi’i phenderfynu gan ddychryn y fath bosibilrwydd breuddwydiol diymwrthod â honno.

Diflannodd Maxine yn bwylllog i’r tywod gyda delwedd anniffiniedig. Diflannodd a gwneud yr holl le’n wag. Wedi cael ei chefn, eisteddai Mair.

Eistedd a wnâi heb wneud dim am foment. Eisteddai fel diwedd amser.

Eisteddai ac estynnai yn flinedig ac yn filain am yr albwm lluniau trwm a oedd ar ôl, ond heb ei agor. Rhoddai ei phen yn ei dwylo. Eisteddai yno’n hir ac yn unig. A heb ddagrau, wylai. Wylai enw ‘Len’. Wylai yn anghall ei henw gwirion hi ei hun. Wylai am wlad na fynnai byth ei chyrraedd mwyach. Na Len. Na neb.

A Maxine gynnau — o bawb — oedd yr un a genfigennai ati hi!... ‘Len!’

Maen nhw yno o hyd, ym mhob parth o Gymru. Gŵyr pobl fel Alwyn, er nad oes braidd dim yn y golwg, fod yr olion yno. Efallai nad oes llawer o esgyrn penodol yn eglur mewn unlle; eithr ar gefn creigiau, o dan y llaid, ceir ôl eu ffurf yn fygythiol. Felly y ceid Len Llwyd. ‘Dere mewn Alwyn bach. Fan ’na ti’n sefyllian, a’th wyneb fel ffrynt y capel ... gyda’r drws ynghau. Croeso fachgen.’

Hanner awr wedyn rhedai Alwyn nerth ei unigedd soffistigedig i lawr Rhiw Siôn Wilias.

‘Y bastard gorsanctaid. Wedi colli’r plot,’ gwaeddai i’r tywyllwch gwybodus. ‘Na! Na! All-e ddim bod yn iawn.’ Ar hyd lôn Cae’r Ebol, chwiliai yn ddyfal y nen â’i lygaid llac: chwiliai’r llawr. Yna, feidr Ty Ponc. ‘Alla-i ddim credu dyn fel ’na. Mae’n perthyn i oes yr îâ. Awn i byth ar gyfyl y lle ’na eto.’

Heibio i Dyddyn Siarllyn ar garlam ulw.

Ambell flaen asgell pterodactyl yma, bys bawd deinosawr acw, fan yna maen nhw o hyd yn anhygoel o echreiddig. A phe gallasai gwyn llygaid Alwyn ysgyrnygu dannedd y funud yna, fe’i gwnâi ... ‘Alla-i ddim credu hyn. Ugeinfed ganrif.’ Ac fe’i hun, Alwyn Brown oedd wedi dod i godi’r mater dwl gyda’r gweinidog. Fe, gan ddisgwyl cydymdeimlad perthnasol i’r oes. Brolio elfennol fu ei amcan, yn dawel bach. Wedi’r cwbl, nid bob dydd y cynigid gêm brawf yn nhîm ieuenctid Cymru. A mynd at y dyn Piwritanaidd tost gwaethaf yn y deyrnas oll i ymffrostio ’wnaethai Alwyn. Y twpsyn. Roedd-hi hefyd, i raddau helaeth, yn ddiwedd ar yr ugeinfed ganrif iddynt ill dau; a rhaid oedd i’r naill a’r llall ymateb rywfodd.

‘Ti’n gwybod am yr hen wendid. Egwyddorion a phethau felly,’ murmurasai’r hen ffwl amhosibl. (Allai Alwyn ddim credu’i glustiau.) ‘Bobol bach! Oes rhaid ateb cwestiwn fel hyn?’ holasai’r gweinidog wedyn.

‘Dwi am ichi’i ddweud heb flewyn.’

‘Dweud fel ffosil, wyt ti’n feddwl. Gyda chredoau a rhyw hen ddiplastod o’r fath.’ Gwenai’i holl waed yn dosturiol tuag at y gŵr ifanc.

‘Ma’s â hi. Beth sy o’i le?’

‘Wel sefydliad od yw’r Sul, ti’n gwybod. Od a dirgel.’

‘Yn y byd real?’

‘Ni, bobl yr eglwysi, ni a sefydlodd Wyl Nadolig, Gŵyl Ddewi, ac yn y blaen. Y Bod

Mawr ei hun 'bennodd hyn. Ddwy waith.' Fel hyn yn gwmws y buasai ffosiliau'n llefaru. Hyn oedd eu tafodiaith fwyn. Doedd dim syndod bod crefydd yn trengi.

'Dwi ddim eisiau clywed mwy.'

'Do. I bawb. Yn gyntaf yn y drefn greedig. I orffwys.'

Ochneidiodd y gŵr ifanc. 'Arallfydol. Cerwch i grafu.'

'Ac yna, o'r newydd, i rywrai gofio gwaredigaeth.'

'Ddim mwy ddwedais i.'

'Dyna'r ateb roet ti'n 'wybod eisoes? Roet ti'n gwybod nad oedd gan y byd ddim clem am y Sul.'

'Alla-i ddim credu'r peth.'

'Na.'

'Dyw 'nghlustiau ddim yn dweud y gwir. Yr hyn dwi eisiau'i wybod yw beth yw beth.'

'Beth sy'n digwydd yn niwedd yr ugeinfed ganrif am un funud wedi canol-nos ar drothwy'r Sul, iefe? Ydy'r cloc yn gwisgo dillad parch y bedwaredd ganrif ar bymtheg?'

'Ydyn ni'n sefyll ar ein pennau? Dyna dwi eisiau 'wybod.'

'Ydyn,' meddai Len Llwyd gyda mwy o sylnder nag yr hawliai'r cwestiwn.

'Y pryd hynny rŷn ni'n rhoi pob llawenydd dan glo, felly.' Gwenu yr oedd, fel sarff.

'Gosodwn farrau ar draws cegau'r plant. Bolliw'n y chwerthin yn eu llygaid. Dyna'r syniad.' Ceisiai Len fod yn smala ynghylch sobrwydd. Rhegodd yr hogyn gwledig. 'A-i ddim ymlaen os nad wyt ti'n 'ddymuno.' Teimlai Len Llwyd hoffter anferthol at y crwt. Doluriai amdano.

'Chwarae dros Gymru, dych chi'n ddeall. Ienctid ein tipyn cenedl! Ugeinfed ganrif! Dyna'r cwbl. Ddim lladd neb. Ddim dwgyd. Ddim godinebu hyd yn oed, er cymaint y pwysau.'

'Mae 'na ryw drafferth bach ynghylch imperialaeth dyddiau'r wythnos.'

'Ystyriwch yr anrhydedd, Mr Llwyd, a dim ond taflu pêl fach fach o gwmpas. Mae yna waeth pethau, efallai. Rhyw damaid o lofruddiaeth efallai. Beth am yr anrhydedd?' O! roedd y gŵr ifanc hen wedi clywed digon o hyn. Rargian, roedd unplygrwydd yn burion yn ei le, a didwylledd naif, ond nid mewn stori tylwyth teg fel hon. 'Anrhydeddu *bywyd*,' gwichiai Alwyn yn ansicr. 'On'd oes 'na'r fath beth?' Pam roedd e wedi codi'r mater? Ai er mwyn herio? Ai masocistiaeth? 'Dyw-e ddim yn gwestiwn astrus.'



Parablaï'r gweinidog yn ei flaen yn fyngus o bell fel pe bai mewn breuddwyd — ‘y gweithredu *cadarnhaol* sy'n bwysig’ — a gruddiau Alwyn yn cyfleu’i embaras dros y dyn yn gynyddol bob eiliad. Bu ei rieni yntau’i hun fel hyn ar un adeg. Câi ef chwarae yn y tŷ, ond nid yn gyhoeddus. Yna, un diwrnod teg, mentrai reg. Mentrai gabledd. A hoeliwyd ef byth.

‘A phêl hirgron felly fydd y pechod marwol?’ meddai’r llanc mewn dull mor soffistigedig fel na allai ond treiddgarwch papur-newydd ei ganlyn. ‘A thîm Oes yr Iâ?’ Trodd tua’r drws.

‘Go brin.’ Gwaedai dros y crwt.

‘Peidio â gwneud unrhyw beth te?’

‘Nid *peidio* â gwneud. *Gwneud* pethau astrus fel gorffwys. A neilltuo.’

‘Dyna ni te. Gwneud dim, dyna’r gwneud mawr.’ Ceisiai’r llanc fod yn fuddugol. Roedd am fynd. ‘Peidiwch â dweud gair rhagor ... dim un sill. Sôn am orffwys dw innau. Sôn am hamdden.’

‘Nid am agor amgueddfa... Dwi’n ’ddeall yn burion.’

‘Mae’n wyllt o chwerthinllyd. Dyw hi ddim yn real.’ Roedd rhaid iddo ymadael.

‘Dirgelwch wedais i o’r cychwyn.’

Buasai’n rhaid cario’r ffosil hwn ryw ddiwrnod yn fuan i’w osod yng nghefn tywyllaf rhyw amgueddfa rhag ofn y dôi rhywrai i dybied iddo fodoli go iawn, neu buasai rhywrai’n coelio mai twyll Piltdown arall neu’r ‘Dyn’ o Nebraska oedd hwn hefyd.

Bod mewn byd arall oedd hynny oll i Alwyn. Plygai’i ben mewn dirmyg. Sibrydai rhwng ei ddannedd. ‘Croeso i’r ugeinfed ganrif Mr Llwyd.’ Ond yr hyn a’i poenai oedd sut y gellid catalogio esgyrn gweddillion y dyn hwn, a’u doddi mewn blwch priodol, a’u labelu, a’u cludo mor bell â Chaerdydd heb dynnu gormod o sylw.

‘Rwyt ti’n gwybod yn burion am y petheuach hyn i gyd.’

‘Meddwl rown i y gallai fod peth synnwyr cyffredin rywle ar ôl o hyd, ar waelod ulw’r sach. Rhyw drugaredd hyd yn oed.’

‘Cyn bod yr eglwys yn suddo’n gyfan gwbl o’r golwg yn y mileniwm newydd?’

‘Os yw dyn yn gorffwys rhag ei waith, ac yn cael mymryn o ddiddanwch ysgafn ... yn yr oes anghenus anghyfleus hon ...’ Roedd Alwyn wedi hen flino. Dyma drafodaeth nad oedd yn bosib.

‘Mae a wnelo beth â gormes y corff yn yr ugeinfed ganrif. Dyna’r cwbl.’ Weithiau roedd coegi’n ei fethu.

‘Alla-i ddim credu ’nghlustiau ... ddim heddiw.’ Roedd ef wedi cael ei drawsblannu yn ôl i ddiwedd rhagrithiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. ‘Dwedwch ’mod i’n breuddwydio, ’wnewch chi.’ Roedd gan y ganrif honno lawer i’w ateb drosto.

‘Mae a wnelo â gwneud rhywbeth cadarnhaol,’ murmurai Len yn ddiymadferth.

‘Oes eisiau gwneud tipyn o felin ac eglwys o rywbeth mor gwbl bitw? Doen i ddim am ddechrau trydydd rhyfel byd.’

Doedd dim disgwyl i weinidog llwyd llipa yn un o bentrefi mwyaf llwyd Cymru ar ymyl un o’i hucheldiroedd mwyaf llwyd wybod faint o’r gloch oedd hi. Dalient fan hyn yn Sir Gaerafon i fesur yr amser yn ôl lleoliad y sêr. Doedd dim syndod fod y sioe yn darfod.

Ymsefydlai distawrwydd fel mynydd proffesiynol rhyngddynt.

Ymataliai’r gweinidog yn fusgrell. Cytunai nad oedd dim angen moesega mwy. Yn wir, ni allai ddeall pam roedd y crwt wedi dod ato o gwbl, onid er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb. Er mwyn ateb yn glir, buasai’n rhaid dechrau o fan arall. Safai’r llanc yn awr o’i flaen yn llonydd am foment a’i lygaid fel dwy ffwrn dan gawl ei dipyn ugeinfed ganrif. Mudlosgai’i ystyfnigrwydd yn y cols. Disgynasai bom o lonyddwch naif rhyngddynt. Ac yn ystod y llonyddwch anghysurus hwnnw llithrai gelyniaeth tuag at Len Llwyd yn ddyfnach i gyfansoddiad y crwt diniwed.

‘Fyset ti’n hoffi i mi ... fyset ti’n dymuno i ni’n dau fan hyn weddio gyda’n gilydd?’ murmurai’r gweinidog fel ynfytytyn blinedig.

Os do! Cododd Alwyn Brown ei aeliau fel cloriau oddi ar faril magnel. Roedd y peth yn wyllt o chwerthinllyd, ond ni fedrai chwerthin. ‘Arhoswch funud. Mae’n fater bach o gael fy watsh yn iawn. Maen nhw wedi dyfeisio’r olwyn, on’ d yn nhw?’

‘Mae’r watsh yn iawn, ac mae’n datgan tragwyddoldeb.’

‘Ond mae yna geir on’ d oes ’na?’

Gwenai Len Llwyd. ‘A’r bom niwclear ac Aids ac erthyliad a chynhesu bydeang ac ysgariadau rif y gwllith a threisio plant ... ’

‘A! da iawn, rown i’n dechrau meddwl ’mod i’n gofyn cwestiwn i awdurdodau’r arfaeth hurt.’

‘Neilltuo rhywbeth, dyna rŷn ni’n wneud, Alwyn, ti’n gweld, gosod ar wahân, dod rhwymau o’i gwmpas.’

‘Am ei fod e’n sâl?’

‘Ie yn sicr, am fod yna salwch ac ... anrhydeddu’r tangnefedd.’

‘A! dwi’n deall nawr. Rown i wedi cael rhyw sbec ar eich dillad. Dyna oedd wedi ’mwrw i: gwisgoedd ffansi’r dyfodol pell. Ond diwedd y ddeunawfed ganrif yw hi efallai o hyd. Does dim pelydr-X, dim moddion gwrthfotig, dim teledu. Na. Rŷn ni mewn hinsawdd mwy aruchel o lawer. Syr, maddeuwch i ddyn ar goll.’

Delwent ar ei gilydd. Roedd y ddau’n absennol.

Ac yna, heb ddweud sill yn fwy, ciliodd y crwt i ddiriaethu’r absenoldeb. Safai fel marwolaeth y tu allan i’r drws caeedig. Roedd dychryn llwyd ar ei wyneb. Gwaedd hyd yn oed. O! i’r awyr ddiderfyn. Taflai’i freichiau’r cymylau. Cythrodd allan o’r tŷ neanderthal mor wyllt soffistigedig â dafad golledig ac i lawr Rhiw Siôn Wilias.

‘Ffiaidd! Ffiaidd!’ udai’i draed tawdd.

Yr hyn a’i cystwyai fwyaf oedd y gwyddai mai ymatal a wnâi y tro hwn eto byth — yn wirion bost — ef Alwyn — y llanc modern yn yr ugeinfed ganrif hon — fe — mae’n anhygoel — mewn un o encilion mwyaf enciliedig Cymru. Chwarae parchusrwydd yr oes o’r blaen. Ymatal yn ffyrnig, o bethau’r byd, fe! A hynny yn yr oes arwynebol hon, o deyrngarwch hurt a chariadus i weinidog twp naif gwallgof. Gwrthrych parch a hoffter. Dyna un o’r pethau annealladwy rywsut o hyd i Alwyn. Fe ei hun. Ac yn awr, tan regi a than ei fflangellu’i hun yn feddyliol, corddai’i wrthryfel seithug. Pam roedd e wedi gofyn i’r dyn? Hwnnw o bawb. Ond roedd yr hyn a dderbyniasai eisoes yn ysbrydol drwy’r gweinidog hwnnw’n ormod iddo hyd yn oed i fentro ar gyfyl y tamaid bêl yna bellach, y tro hwn o leiaf. Fe! Y tro olaf. Ni allai anghofio dwyster y ffrind hwn. Y gostyngeiddrwydd. Ildiai’n orffwyll am y tro, ond nid heb i’w du mewn ei ddirdynnu. Allai ddim ei gredu’i hun. ‘Byth eto!’ Roedd un cyfnod ar ei fywyd ar ben.

Ac eto, pam y dylai ildio nawr? On’ d oedd ef wedi ffeindio’r plot?

‘Mae’n ugeinfed ganrif,’ taerai’n anghrediniol dro a thrachefn wrtho’i hun fel pe bai’n casglu canrifoedd. Allai fe ddim ei gredu’i hun. Rhedai rhwng y cloddiau parchus. ‘Beth wŷr yr hulpyn hanner-pan yna?’ Protestiai’i holl gyhyrau’n erbyn y biwritaniaeth gynddilywaidd. Nid oedd am ildio y tro hwn. ‘Fe, a’i bregethau amherthnasol. Fe a’i sancteiddrwydd oes yr arth.’ Os plygu oedd rhaid y tro hwn, roedd yn anfeidrol siŵr y byddai’i agwedd at y gweinidog byth mwyach wedi’i newid o’r brig i’r bôn. Melltithiai ef. Doedd y gŵr od ddim yn ddynol. ‘Byth eto.’ Dyna’r diwedd. Doedd e ddim yn gall. Doedd dim syndod fod y dyn heb briodi erioed. Ofni ‘rhyw’ nes gwlychu’i drowsus. Rhyw’r cwpan wy. Rhyw ar flaen nodwydd. Rhaid ei fod wedi cael ei warchod mewn cocŵn chwiler, wedi

byw ers oesoedd yn gwbl fynachaidd ar wahân i'r hyn a oedd yn naturiol, ac ar wahân i bob peth normal a chytbwys a chall. Byddai'n ceisio llosgi gwrachod yn nesaf.

Ac eto, gŵr ifanc dwys ac ystyriol oedd Alwyn ei hun at ei gilydd, ers blwyddyn gron o leiaf. Hynny yw, gwyddai fymryn am ddimensiwn arall. Mentrasai'i feddwl am foment. Mentrasai'i ewyllys un tro. Ymhell cyn iddo fentro'n hwyrfrydig heddiw, i ŵydd y gweinidog heddiw, bu'r ymwybod o sancteiddio annealladwy o fath, a neilltuo'r seithfed dydd, yn crafu gwraidd ei galon yn bur arw. Ond ni chredai yr arweiniai byth i'r swrealaeth wallt-borffor hon heddiw. Doedd hi ddim fel pe bai ef yn gwbl gaeedig i ystyr bywyd heddiw.

Roedd y crwt un tro wedi ymaflyd mewn difrifwch. Erbyn hyn roedd ganddo rywfodd, hyd undod ei fod, er ei waethaf ei hun, amgenach uchelgais na chwarae fel ffordd o fyw. Gwyddai hyd yn oed ychydig am ddefosiwn; ond caed eithriad weithiau, doedd bosib. Roedd yna achlysur ac achlysur, manau lle na chaniatêid penchwibandod pietistig mewn modd mor gwbl gul a chyfan gwbl orffwyll. On'd oedd 'na ryddid? Ac iechyd? Yn ail hanner yr ugeinfed ganrif!

Os hyn oedd credu ... roedd yn anghredadwy! Yn blentynnaidd! Dw-i ddim yn perthyn i hyn,' murmurai wrth ei galon. 'Mae hynny'n glir ei wala. Dwi ddim yn ceisio lladd neb — eto. Chwarae, dyna'r cwbl. Bois bach, a'r holl odinebu dwi'n golli ar draws holl welyau'r gymdogaeth. Nid fi drefnodd y tipyn gêm felltgedig hon. Nid fi sicrhoedd y byddai'r fath drosedd erchyll a damnedig yn digwydd ar y Sul. Cicio pêl! Nid fi. Pam rhoi'r bai arna i? Y goruchel awdurdodau ar y tipyn daear yma; plygu i'r rheina dw-i'n gorfod 'wneud. Dyw'r dyn ddim hanner call, pla'r clerigwyr darfodedig; melltith ansoffistgedig y cyntefigrwydd gwneud, ffug grefydd Ffariseaidd naïf y cynoesoedd digoegi! A'n gwaredo rhag toriaeth Fictoria! Teulu!'

Ond cyfrwystra mwyn y gweinidog oedd y gwir gythraul bob tro, nid ei ddiniweidrwydd na'i deulu. Cadno main a manwl oedd hwnnw, lawr fan yna yn prowlan drwy funiau'r pentref a'r ugeinfed ganrif. A heddiw, y tro yma eto, wedi gosod yr oedd ef y cyfrifoldeb arno fe, Alwyn Brown. Cyfrifoldeb di-hwyl am helbul hollol amherthnasol.

Sylwai fel yr oedd y dyn llysnafeddol hwn wedi ymatal rhag cynghori dim yn y diwedd. Ef ei hun, Alwyn, oedd wedi gorfod penderfynu fel gordd. Gwthiai'r gweinidog y dewis fel tystysgrif farwolaeth yn gyfan gwbl arno fe, ac eto heb beidio â dangos ei ochr yr un pryd yn aruchel. Roedd y peth mor nodweddiadol gachgŷaidd. A chanoloesol. Ac

anghristnogol. Yn hytrach na dod allan â siars yn lân, roedd wedi gwthio'r dewis llwfr yn ôl ar grwt ifanc gwirion gwyllt gan wybod yn burion sut yr ymddygai hwnnw yn y gornel cyn gynted ag y câi'r sibrydiad awgrymus lleiaf ac alaethus. A'r un ymadrodd gwrthun a than-din ac annirnad yna: 'I wasanaethu hyfrydwch.' Diawch erioed, am naïfder, bois bach, fel pe na bai ef ei hun bellach yn y bôn yn cytuno i'r botwm!

Neu a gytunai ef, mewn gwirionedd felly? Beth oedd y dwli 'ma i gyd? Roedd ef bron yn bedair ar bymtheg oed.

Cofiai Alwyn hefyd yr un pryd am homili fechan arall untro o eiddo'r gweinidog a hawliai fod modd addoli ym mhob man ac ym mhob gweithred. 'Cewch — ewch i'ch gwaith ac fe gewch addoli yn y fan yna; ewch adref at eich gweithgareddau personol, ac addoli yr ych chi; crwydrwch y wlad, pleidleisiwch mewn etholiad, palwch eich gardd-gefn, a chwaraewch,' — ie, dyna'i air — 'ym mhob dim fe ellwch, os yw'ch ysbryd yn ei le, addoli.' Yfflon, beth oedd y gwahaniaeth melltith gyda chwarae ar y bythol-bresennol Sul te? Beth ddiawch sy'n addasach yn yr ugeinfed ganrif? Dwedwch y gwir.' Chwarddodd yn ddi-hwyl.

Ac erbyn hyn, rhoddwyd y gweinidog ar brawf ganddo ef, Alwyn. Fe'i profwyd ar ei gydwbybod bersonol ei hun yn heriol ddigymrodedd. A'i gael yn eithriadol brin. Yn rhagrithiwr mud moesol prin. Yn gwneud melin... ac eglwys ... o dwlc mochyn.

'Wel, eglwys o leiaf.'

Na: ni chwaraeai Alwyn Brown dros ei grogi y tro hwn. Allai fe ddim ei gredu'i hun. Na; ond doedd dim mymryn o reswm call pam na ddylai-fe ddim chwarae, yn sicr y tro nesaf, os nad yn awr, heb ofyn i neb. Un peth a wyddai. Roedd ei barch at y gweinidog wedi'i ddryllio'n jibidêrs. Dim ond codi cwestiwn ychydig yn academiaidd yr oedd ef. Ni faddeuai byth iddo. O leiaf nid yn ail hanner y ganrif fabolgampaidd hon. 'Chwarae? Pa chwarae oedd troi trwyn ar hyn?'

Arafai Alwyn ac edrych o'i amgylch. Roedd e bob amser wedi credu bod yr hen Barch mor amddifad â sgrwm Llanelli chwarter awr cyn colli'r gêm, a'i bregethau mor rhywiol alluog â malwen dan esgid. 'Rhowch fy mywyd yn ôl i mi,' udai'i berfedd.

Stopiai, a chodi talp o bren yn y fan a'r lle a ymdreiglasai o'r clawdd. Gwnaeth gic adlam ag ef dros y gwrych hwn, ac ni bu pen hirgrwn y gweinidog, Len Llwyd, agosach erioed i sgorio gôl.

Ymunodd y crwt yn hiraethus ddiflas â normaliaeth, ac anadlu awyr iach, ac ymuno

drachefn â dyfroedd iach llyn oer hir tywyll. Ac aeddfedrwydd yr oes feddiannol real hon.

6

Yn ôl yn ei dipyn Mans, treiglai'r digalondid i lawr llwnc Len. Wrth fynd yn hŷn, dichon ei fod yn troi'n fwy anghyfrifol o gyfriniol. Âi'n rhy bell oddi wrth realiti, yn rhy neilltuedig. Tybed a adwaenai ef ystyr yr oes hon mwyach? Ai hi oedd wedi'i gleisio? Bob tro y teimlai felly, gwyddai rywsut ei fod yn ei haeddu. Dichon ei fod wedi troi'n dros-benllestri o ddeddfol.

Digalon ddiddychymyg oedd hefyd wrth ymateb mor wanllyd i Alwyn Brown. Ni allai gyfleu i neb arall beth a olygai'r Sul iddo. Golygai *beidio*. Dim llai. 'Peidiwch a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw.' Ers peth amser bellach, yr oedd wedi dod i werthfawrogi fwyfwy rywfaint bach o'r grefft od hon o beidio, nid yn unig ar y Sul, eithr bob amser. Achlysur neilltuedig oedd y Sul pryd roedd y dyddiau a'r wythnosau'n dod at ei gilydd i ymatal. Hyn y dymunai'i wau fwyfwy drwy'i fywyd benbaladr. Cyn codi o'r gwely, peidio. Peidio cyn eillio, peidio o flaen y creision yd. Codi o'r gadair ar ôl peidio. Peidio, a'i wybod gant y cant o'r amser, mai Efô oedd Dduw, yr Un a allai bopeth. Roedd Hwnnw wedi gweithredu'r peidio wrth gwrs ar y Sul cyntaf, wrth amhosibl drechu angau. Efô oedd Duw'r peidio gynt, gant y cant yn oruwchnaturiol bob man. Ymlaciai Len yn y ffaith anferth anghysurus hon, ymorffwys yn wir yn y ffaith orffwyll hon, pwyso am gynhaliaeth uwchben lefel y ddaear ar hon, o bob peth. Ac yna, ar y Sul, dathlu mewn gloddest hirfaith o beidio, peidio.

Doedd hyn mae'n debyg ddim yn eglur i bawb o'r doethion. Sut y gallesid disgwyl iddo esbonio hynny oll wedyn i Alwyn druan? Roedd ef wedi cam-drin y bachgen. Nid dyna oedd y ffordd iddo oleuo'r diniwed.

Pa hawl a oedd ganddo i wthio'i argyhoeddiadau ar fymryn o grwt? Os na chodai hyn o'r tu mewn...

Ac yn ei galon, estynnai Len ar ei orwedd wyneb i waered yn awr, yn fath o fethiant, ar y llawr, llacio croen ei wyneb yn ei galon nes iddo ddiferu dros y llawr, gadael i'w ên ymlacio yn ei galon fel ynfyty yn pentref, gadael i'w draed beidio yn ei galon — a'r ddwy yn syrthio tuag allan yn ei galon ac yntau ar ei fol ac yn cwpanu'i ddwylo tuag i fyny. Yn ei galon waelodol, peidio: Efô o'i gwmpas oedd Dduw. Caeai'i lygaid methodig yn ystafell

welwolau a thawel ei ysbryd. Wedyn, yn araf codai oddi yno, roedd yn barod bellach mewn ffordd anghydfurfiol i ymladd, ond ymladd drwy beidio, heb straen, ymladd drwy ymatal ar ddi-hun, nes bod ymatal a pheidio yn fuddugoliaeth dangnefeddus a pharhaol gytûn o'r tu mewn i ddirgel ystafell ei fodolaeth.

Yn y fan yna, roedd ef ar ei ben gyda'i Greawdwr, wedi peidio'n llwyr.

Chwarae teg i Alwyn Brown yntau druan, Alwyn oedd ef, yntau ar ei ben ei hun, ar y ffordd adref, doedd dim disgwyl i neb arall, nac iddo ef, ufuddhau i'r gofynion heriol hurt piwritanaidd hyn heb hiraeth go arallfydol ac annhebygol. Ond rywfodd, wedi bod gyda'r gweinidog, oherwydd bod wyneb hwnnw wedi'i olchi ac mor anghysurus o lân, canfu gymaint o sothach a geid ar y llawr o'i flaen ar y ffordd, gymaint o annibendod ym mhob man, gymaint o annibendod y tu mewn iddo ef ei hun. Dyma, er na ddwedai mo hyn, 'weddillion araf canrif amddifad.'

Y bore hwn, cyn cyrchu allan, teimlasai Alwyn am y tro cyntaf erioed iddi ddod yn hen bryd iddo ddechrau tacluso'i fywyd. Ac nid mewn capel canoloesol y digwyddai hynny, ond mewn ffordd lawer mwy naturiol. A oedd ef yn mynd i gael dad-dröedigaeth?

Crwydrai Alwyn yn feddyliol, yntau. Clywsai un tro fod rhywrai, gwyddonwyr, wedi sylwi bod 'na lygredd yn y dŵr hanner ffordd ar draws Môr Iwerydd, a hwnnw wedi gwenwyno rhai pysgod. Mewn lle a fu am filoedd lawer o flynyddoedd yn gymharol ddilychwin, yr oedd dyn wedi'i ledu'i hun o'r diwedd. Pam lai? Ganddo ef roedd yr hawl i osod ei argraff bersonol ar y dŵr pell, on'd oedd? Felly y byddai hi hefyd maes o law ar y planedau fesul un pan âi dyn yno. Mentrai dynion gyda'u baw. Cymerent bob gofal wrth gwrs rhag llygru'r dim lleiaf. Byddai dim niwed bwriadol wrth gwrs, na fyddai? Ac eto, dyn a'i fysedd fysai yno. Roedd pethau'n sarnu bob amser, doedd neb yn berffaith. A pham lai? Onid fe oedd y stiward? Darnau o ddyn, wrth gwrs, drylliau bach o'i fynwes a'i ddwylo, gwefusau, a syniadau. Y gollwng mân hwnnw o genhedlaeth i genhedlaeth, yn anfwriad glân diogel, ar ei hyd ef ei hun. Yn rhydd, yn hwyliog. (A pham lai? Dyna 'nghyfraniad i, efallai, meddai Alwyn yn grwt hydeiml wrtho'i hun, a'i synnu'i hun cyn ystyfnigo o'r newydd. 'Onid ydw innau hefyd yn rhan naturiol lawen o'r dadfeiliad anturus? Onid dyna sy'n naturiol? Dyna y mae pawb yn ei wneud.') Y bore 'ma o leiaf, roedd ef wedi dechrau dysgu. A rhywsut gwyddai, erbyn codi o'i wâl drannoeth, ac edrych yn ôl ar y cynfasau, ei bod hi'n hen hen bryd tacluso.

Daliai Maxine o'r diwedd ei thrên adref allan o ganol Sydney. Ni welsai un rhithyn o Bascolini, ysywaeth. Yn rhyfeddach byth ni chanfuasai un dim o'r Penadur Cuthbert Lwlwto chwaith. Onid ffansïon newydd heddiw a'i meddianasai? Yn hytrach, chwifiai o amgylch ei myfyrdodau yn y trên yn awr y paragón pellennig anghysurus arall hwnnw, y Len Cymreig newydd hwnnw y cyfarfuasai ag ef yn y lluniau.

Y Len bach o weinidog cyfrin modern, hwnnw a aethai â bryd Mair gynt. Disgynnai'i len yn awr i lawr dros fyfyrdodau Maxine wrth iddi lwybro yn ei theatr symudol, yn nes tua'r gogledd-orllewin, o orsaf i orsaf, tan gyflymu 'lan i'r faestref lewyrchus gymharol agos, gymharol neilltuedig i'r lle yr ymsefydlasai hi ers tro. Yma y bu hi'n byw ers blynyddoedd yn gyntaf gyda'i gŵr; ac yn awr ar ei phen ei hun, parhâi i drigo'n unig yno heblaw am ei breuddwydion bythol. Oni bai am Len, trên cymharol wag fuasai hwn. Llithrai'n undonog o ddi-stŵr yn ei flaen, ond gan deithio ychydig yn arafach nag arfer oherwydd cario hefyd feichiau ychwanegol breuddwydion Maxine.

Ond roedd ganddi hi hefyd bob amser drên arall, trên preifat mewnol, a'i cariai i'r pellteroedd. Doedd hwnnw ddim mor ddi-stŵr. 'Cymru! M!' mwmiwai wrthi'i hun. Dyna freuddwyd gyfarwydd. Gwlad ei breuddwydion.

A breuddwyd gwbl anghyfrifol oedd hyn, wrth reswm. Roedd y gŵr ifanc hwnnw yn y lluniau siŵr o fod wedi newid yn gyfan-gwbl, wedi hel bola a rhai blew gwynion erbyn hyn. Byddai'n greadur hollol ddieithr bellach. Ond yn y lluniau, ei math hi o ddyn oedd ef. Yn bendant.

Len!

Cynyrfiadau mwyn oedd rhai Maxine. Teimlai'n dawel ddiolchgar nad oedd y cynyrfiadau allanol y soniai Mair amdanynt o hyd odid byth yn ei thrwblu hi — newyniaid Affrica, hawliau brodorion cyntefig Awstralia, cleifion Calcwta. Nid dyna'i lein mewn breuddwydion. Goddrychol a rhamantus oedd buchedd Maxine. Roedd ganddi fywyd ysbrydol hyd yn oed, a'i tynnai rywfaint ar wahân i ddaearoldeb helyntion allanol. Er iddi ymddangos yn fflwffog, efallai, Cristion digon 'diwinyddol' mewn ffordd oedd Maxine, mewn ffordd elfennol. Perthynas Duw a dyn. Pell oedd ei safle oddi wrth ddyn-ganoliaeth Mair. Pagan yr efengyl gymdeithasol oedd Mair; ac yn llances o frwd yn y cyfeiriad hwnnw.



Menyw iach a normal garedig yn ei hanghrediniaeth.

Synfyfyrwraig o hil gerdd oedd Maxine, a hoffai bwyso'n ôl yng nghadair freichiau'i ffansi. Ond roedd y naill a'r llall yn gallu pensynnu a darllen. Os plentyn yn ddiwinyddol oedd Mair, oedolyn yn ei moesoldeb oedd, tra nad oedd cysylltiad Maxine yn neilltuol o lwyddiannus o ran y naill na'r llall.

Manyn cenfigennus hollol amherthnasol oedd Menna ar y llaw arall, yr hen lygoden. Roedd ganddi hithau ei theulu a'i phrysurdeb. Gallai hi siglo unrhyw egwyddor o'i meddwl wrth siglo'i phen. Menyw sicr ei byd oedd hi, o'i chymharu â'r ddwy arall. Prin bod ei meddwl yn ei phoeni, na'i sensitifrwydd. Ei theulu estynedig, dyna oedd pethau Menna er gwaethaf ei ffeministiaeth; ac nid egwyddor mo hynny, ond greddf eithaf caled.

Profai Maxine beth syrffed pryd bynnag y meddyliai am Menna. Honno a'i gŵr llipa ffyddlon! Gorffwysai'n ôl yn ei sedd yn gwbl dangnefeddus yn awr yn y trê. Edrychai i gyfeiriad y môr di-wr draw i'r Dwyrain. Roedd hi ei hun fel pe bai'n fad bach ar ganol y môr di-wynt acw, heb fod dim oll yn y golwg, dim gwylan, dim bad arall; bad heb ysgwyd o gwbl yn y fan yna, dim ond breuddwydion nawf yn rhwyfo'n dawel a ymdebygai i gynnwrf bychan yn dal ei anadl ar ganol ehangder mewdol. A Len. Na. Adawai hi ddim i Menna fennu arni bellach ynglŷn â'i darganfyddiad newydd gwrywaidd dros y cefnfor.

Ni wyddai hi yma yn y trê am ddim oll heddiw ond am yr awyr las drom yn syllu arni, a hithau'n arnofio yn y bad hwn yn awr tuag at Len Llwyd. Croesai lonyddwch anferth, di-don diwrthwynebiad wedi diog-golli'i rhwyfau bellach, yn barod i ddriffio'n dangnefeddus mewn unrhyw ffordd yn ôl fel y deuai'r cerrynt, i'w chludo'n lliwgar tuag at y Llwyd pell.

Yn araf y rhwyfai'r trê dros y tonnau. Cyrhaeddai'r orsaf agosaf at ei chartref. A disgyn yno.

Edrychai acw'n araf, dros yr adeiladau cyfagos tuag at yr orsaf, tuag at y môr agored draw. A throes yn ôl tuag at ei chartref a'i breuddwydion. Diolchai'n isel sut bynnag am ddiffyg terfysg anfeidrol y môr. Diderfysg oedd y gymdogaeth hefyd. Diolchai nad oedd acw ar y dyfroedd ddim cymydog busneslyd ar y pryd a darfa'i arni. Diolchai nad oedd dim badau modur yno yn ysgarthu i'r awyr eu drewdod stwr. Diolchai nad oedd yn y fan yna na ffôn na phost na thystion Jehofa. Diolchai hi hefyd am ymddiried fel hyn o ddydd i ddydd mewn heddwch a chynhaliaeth ddiogel ac mewn breuddwydion. Roedd hyn wedi bod yn ddiwrnod 'defnyddiol'.

Sut un tybed fuasai'r Pascolini yna mewn gwirionedd pe câi hi afael ar y fath un rywbyrd a'i dynnu i arwder realiti allan o feddalwch difyr ei breuddwydio? A sut yr ymdopai hi wedyn gyda Cuthbert Lwlwto? ... Ond heddiw, y Llwyd melys hwn ... Beth a wnâi hi â'i holl freuddwydion wyneb yn wyneb â'r ffaith newydd annisgwyl hon? A! dyna gwestiwn arall iddi, cwestiwn ystyrlon a chlr a chrai ac — a fentra i hi'r gair? — realistig.

Y Len Llwyd diriaethol difreuddwyd. Gwenodd. Lleibiodd yr enw di-liw yn wlybyrog araf i'w thafnod. A'r noson honno breuddwydiodd. Nid unwaith na dwywaith. Am Len. Drwy'r nos. Dihunai dro ar ôl tro, ymlwybro i'r toiled, a cheisio huno'n ôl drachefn bob tro, ac yna breuddwydio o'r newydd, mor araf ailadroddol ag y gallai. Hyn oll, felly, yn ei chartref oedd rhamant iddi. Casglai wybodaeth. Bu'n hir cyn dechrau'i hel, mae'n wir. Ond disgynasai delweddau arni yno mwyach, eira mân eira mawr.

Welodd hi ddim oll o'i ffrind Mair am bythefnos o leia. Ac eto bob nos dychwelyd i freuddwydio am y Llwyd hwnnw fyddai rhan Maxine. Edrychai hi ymlaen rywsut at hwylio i'w gwâl. Ffigur obsesif ydoedd yn awr yn ei hisymwybod, yn Charles yr Ail ansicr ei ben; a ddi ef ati heb aflonyddu arni, yn dangnefeddus gytûn. Chwarddai hi am ei phen ei hun, oherwydd rhaid ei fod wedi newid rhyw fymryn o leia oddi ar ei luniau ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Byddai wedi moeli bellach o bosib, a magu bloneg fan yna ym mlaen ei drwyn; fan yna hefyd uwchben ei fogail. Byddai'r Len hwnnw'n hen bellach, wedi'i barchuso. Byddai nodweddion ei fochgernau wedi ymesgyrnu. Byddai crychau darfordros ei dalcen a'i wddf. Fel cert wrtaith o bosib, tasgent eu baw dros bob crych. Breuddwyd wrth ei hewyllys oedd iddi heb ddim un sylwedd. Gwenai hi drachefn am ben ei synfyfyrion hurt a hael a diansoddair ei hun.

Pan welodd hi Mair maes o law i lawr yn Sydney drachefn, cyffesodd y cyfan mewn rhialtwch o chwerthin byrlymus. Hyrddio chwerthin wnaeth y ddwy, fel dwy ferch ysgol uwchben eu cappacino. 'O! Maxine, rwyt ti'n boncers.'

Yng ngwesty'r teulu Doyle yr oedden nhw wrth yr harbwr, gyferbyn â Bae Watson fel bron bob amser.

'Bob nos! Am bythefnos! Taw!' ebychai Mair yn anghrediniol.

'Do.'

'Tôn gron, coler gron. Y fath sioe!'

'Dim tebyg. Dwi'n ei gymeradwyo,' broliai Maxine mewn peth cywilydd.

'Dirdyniad dafnau Siapaneaidd ar y talcen, ddwedwn i,' mwmiai Mair.

‘Dim ond cysgu, ac rown i’n ei fachu fe bob tro.’

‘Wel, Maxine annwyl, ti sy’n mynd â’r pysgod i gyd.’

‘A’r sglodion.’

‘Rown i’n gwybod yn burion dy fod di’n wirion. Ond rown i’n rhyw led synied yn ’y nychymyg y gallai fod peth synnwyr ynghudd y tu ôl i un o’r clustiau ’na.’

‘Byth.’

‘Rhyw bilcodyn neu ddau?’

‘A’m gwaredo rhag synnwyr rhyddieithol,’ meddai Maxine yn araul.

‘Elet ti’n ôl i Walia yfory nesaf, dwi’n credu,’ meddai Mair.

‘Prin. Ddim i Gymru. Ddim nawr. Ond pe bai’r boi yna’n mentro dod ma’s fan hyn i’r cyfandir gwacsaw hwn, watsha di.’ Diferai’i chalon tuag at Len, nid tuag at Gymru.

‘Dwi’n dy gredu di.’

‘Châi’r llwyd hwnnw ddim cilcyn o lonydd gen i.’

‘Maxine, rwyt ti’n wallgo bost.’

‘Ond drwy freuddwydio, Mair! Cofia hynny. Bob nos wrth gwrs. Mae hynny’n rhywbeth. Lot o beth, yn wir ei wala. Gofyn di i Sigmwnd. A! ’y mreuddwydion parchedig!’

‘Digon i gyrchu i Gymru dwi ddim yn amau.’

‘Yfory nesaf efallai, pe bai’r amgylchiadau ... ’

‘Pa amgylchiadau? Pam lai te? Am wyliau cwta o leia. Yn wir, dyna fyddai’n taro i’th liw haul. Beth sy gen ti ’ma i’th gadw ar y tipyn cyfandir diffaith hwn?’

‘Ti,’ ebychai Maxine drwy’r cappacino. ‘Dim ond ti, a’m ffrindiau. Rhyw fanion felly; a’r syrffed ddisgwyliedig ar Gymru ei hun.’

‘Paid â siarad moron.’

‘Na, paid dithau â chlebran yn wirion chwaith. Elwn i ddim yn ôl i’r henwlad afrad honno ar ’y mhen fy hun byth.’

‘Pam?’

‘Ddim am funudyn coch y delyn.’

‘Pam?’

‘Ges i lond ’y nghopa ar y manion ’na pan own i’n ifanc,’ murmurai Maxine yn ddadrithiedig. Ffred oedd gyda hi mewn golwg, yr hen Ffredric, ond roedd hi fel ’tase hi’n sôn am y tywydd.

‘Ond sut?’

‘Oes rhaid ifi’i sbelian hi?’

‘Oes te. Pam? Beth yw’r bwgan iti fan ’na te?’

‘Y tywydd.’

‘Oes ’na dywydd hefyd yng Nghymru? Mae popeth gyda nhw.’

‘Yr un hen ddiflastod llon: yr un hen londeb; an-ffyddlondeb. Peth felly yw pob tywydd i mi. Does neb yn ffyddlon mewn breuddwydion.’

Cogiasai hi erioed, o ran hwyl yng ngŵydd Mair, mai brodores oedd hi o ardal Caerafon; eithr gwyliau estynedig mewn gwirionedd oedd cymaint ag a fu rhyngddi a Chymru. Gwyliau aml, gwyliau cynhyrfus a hir, a Ffred Williams, — yn ystod ei hieuenctid, yn ystod ei mebyd wedyn gyda pherthnasau pell. Ond gwyliau hir oedden-nhw a fuasai yn y bôn yn ddadrithiol o siomedig. Y gwir oedd bod ei pherthynas hi a’r ‘henwlad’ a’r llinach a Ffred yn eithriadol o amwys. Awstraliad o fath fu hi ac oedd hi ac y byddai hi bob amser yn wryfol alltudiol sownd o’r groth. Breuddwyd gwrach oedd Cymru. Efallai. Celwydd difanion benbwygilydd. Ffred. ‘Wedi’r cwbl. Rhyw fymryn o anffyddlondeb fu’r crwydro hwn tuag at Awstralia, dyna’r cwbl.’

‘Fan acw hefyd?’

‘Anffyddlondeb ’fan acw, anffyddlondeb ’fan yma,’ meddai Maxine. ‘Dwi’n arbenigo. All yr un Cymro ymadael â Chymru y dyddiau hyn heb fod yn anffyddlon.’

‘Pa wahaniaeth te? Onid anffyddlondeb o fath yw pob crwydro?’

‘Gwn i. Mae Awstralia hefyd yn pwngan o’r stwff.’

‘Wel te.’

‘Anffyddlondeb, gad fi’n llonydd... Yr unig ffyddloniaid yn Sydney yw’r cŵn.’

‘A’r ast fach bitw hon o bosib.’ Cydiodd Maxine yn nwylo Mair yn serchog. ‘Fi? A thi, efallai, ambell waith, fy hen ast ddi-grwydr ffyddlon i ... Ac wedyn, mewn realiti ... Ein Stralia ni’n dwy yw’r lle rhyfedd hwn. Diffeithwch teg. Nyts fel Nietzsche. Ac eto, mae’n anodd peidio â hoffi’r hen dwll gwrywaidd mabolgampaidd yma.’

‘Y corff yw ei symbol. Corff, corff. O’r Barriff i Dasmania.’

‘Fel arfer, yn ’y mreuddwydion enwog i, Mair, lle glân o farbaraidd yw Awstralia bob amser rywfodd. A gonest o ffilistaidd.’

‘A thithau ... a fi yma mor farbaraidd ddifrycheulyd â neb.’

‘Ti yn ddi-os.’

‘Wel, mi gei di dipyn bach bach o farbareiddiwch yng Nghymru, cofia, os dyna rwyt

ti'n chwilio amdano,' meddai Mair. 'Hyd yn oed ambell gorff diolch i'r drefn.' Er nad oedd perthynas Mair a Chymru mor gymhleth amwys ag eiddo Maxine, roedd hithau fel pawb arall wedi cael ei siâr o siom.

'Ond Awstralia biau'r corff *tout simple*. Dyna'i thotem unplyg. Mae 'na gysur mewn symlder. Efallai fod pawb yn cael eu dadrithio beth wrth fynd yn hŷn ... ' cyfaddefai Maxine.

'Mynd yn syrffedus ymarferol rŷn ni.'

'Wyddost ti Mair, yn y dyddiau hynny gynt, radical own i, fi ganrifoedd dirifedi'n ôl, chredet ti ddim — rebel ifanc ymroddgar.'

'Ti, yn radical!'

'Fi, fel dy Len di. Radical coch biws o flaen unrhyw deirw oedd i'w cael. Rown i mor ymarferol ag y gallwn fod.'

'Dyna'r fwyaf dethol o'th freuddwydion te.'

'Radical dosbarth-gweithiol crediniol hefyd — a'm gwaredo; ond paid ag yngan modfedd o hyn wrth neb.'

'Ond mae pawb yn radicalaidd yng Nghymru, i fod, hyd yn oed pobol wâr fel ti erbyn hyn. Mae'n ffordd i gydymffurfio 'cw.'

'Ces i 'nadrithio dipyn am y cysur hwinnw ta beth.'

'Yn radicaliaeth Cymru?'

'Do, bobman acw. Ces i'n siomi'n dost.'

'Disgwyl y gwaethaf yw gwerau gyntaf byw.'

'Radical coch own innau. A radical oedd 'y nghariad i 'fyd. Ffred Williams. Radical mor ystrydebol ddienaid â chawl twymo. Radical amdano fe'i hun. Ninnau oedd achos y newyniaid, meddai fe. Bod o blaid y gweiniaid, dyna oedd radicaliaeth i ni'n dau.'

'Be' sy o'i le ar beth felly?'

'Rown i'n credu y dylai gwlad *gynllunio'n* gyntaf oll i *goleddu'i* gweiniaid.'

'O! Maxine. Diolch dy fod wedi gallu bod yn wirion rywbyrd.'

'Rwyt ti'n siarad â phrif awdurdod Sydney ar wiriondeb.'

'Pwy fasai'n meddwl!'

'Pob peth gwan, pob peth tlawd, rown i 'na. Pob peth isradd, ar gyfer y rheina yn gyntaf y credwn i y dylen ni drefnu. Cyn belled ag y caniatâi pres llywodraeth. Ac roedd y pres wrth gwrs yn ddiderfyn ... fel undebau llafur. Yr hen amseroedd. Rown i'n radical reit

elfennol.’

‘Ti yn elfennol, Maxine! Prin!’

‘Wel, efallai nad elfennol yw’r gair ... Unplyg! Ond fe ges i sioc. Fe suddais i mewn i mi fy hun. Fe gododd ’na fath o radicaliaeth newydd yn y wlad. Roedd yr olyniaeth yn naturiol. Dau fys i’r ‘Sefydliad Cymreig’ (sef yr holl oedolion sy wedi darllen llyfr). Cyffuriau, erthylu, godinebu lond y tafarnau, hedonistiaeth lancaidd, y cwbl lot, ac yn anad dim diogi credu. Yn sydyn ymhobman.’

‘Gwn i. Radicaliaeth foethus fodern drefedigaethol. Dyna sydd i fod.’

‘Ie, dyna oedd y radicaliaeth ffasiynol sbon, y radicaliaeth ddaeth yn llywodraethol erbyn y diwedd. Allwn i byth freuddwydio am honno. Dechreuon ni gasáu cymdeithas. Roedd yn rhaid ffoi felly.’

‘Blaen-lencyndod oedd hynny, nid radicaliaeth.’

‘Ffoi oedd raid.’

‘Dyna’r achos? Dyna ymfudo wedyn?’

‘Ar ei ben. Newid gwlad drwy ffoi... Dyna oedd yn rheoli, sut bynnag. Ffois i Awstralia. I wlad y corff. Ffoi rhag yr arwynebol. Radicaliaeth roen nhw’n galw’r peth o hyd, cofia. Hanes fy mywyd.’

‘Syndrom y Mans ddwedwn i wedi mynd yn heintus,’ meddai Mair yn chwerw.

‘I’r dim. Ac eto dan gochl Cymru ym mryd rhywrai.’

‘Oherwydd y *myth* o Gymru?’

‘Felly roedd hi gyda ’nghariad ar y pryd hefyd. Ffred. Esgus gwneud y cwbl yn enw Cymru.’ Eto, nid tuag at Gymru roedd ei chalon wedi diferu, ond tuag at Ffred.

‘Ffred Williams?’ holai Mair yn wenog.

‘Moderneiddio Cymru oedd ei nod yntau, mynte fe. Sbort a hwyl. Ond fe fliniais i ar Gymru o’r fath.’

‘Dyw Sydney fymryn yn well sbosib... Ble mae Ffred nawr?’

‘Mae’n ddiffeithwch gonest o leia, dyna sy ’y nghadw i ’ma. Gonestrwydd barbaraid glân. Os corff, wel dos go sylweddol ohono. Cynghorydd lleol, dwi’n credu. Cei di gadw dy dipyn Cymru a’i glaw. A Ffred a phob Ffred. Barbareiddiwch glân i fi!’

‘Mae’n rhaid iti ddisgwyl anaeddfedrwydd ymhobman,’ meddai Mair.

‘Dyw Sydney erioed wedi hawlio’i bod yn cynnwys mwy na chyrrff athletig a phres. Cyrff gwrywaidd — gan wrywod a benywod — chwarae teg iddi. Yn hynny o beth mae’n

wryfol gydradd. Yn newydd o bwdr.’

‘A’i thŷ opera.’

‘Ust! Gwawdio wyt ti,’ casglodd Maxine. ‘Tatŵ yn llawes ei chrys, dyna Awstralia. Comon iach. Y planhigion dieithr o dan sêr dieithr. Yr anifeiliaid. Y cyrff cyhyrog hyd yn oed mewn erthyliadau. Llond cyfandir ohonyn nhw. A’r carcharorion bythol ... Lluoedd o onestrwydd â’u pennau i waered. Diolcha, ferch, amdanyn nhw.’

‘Ac rwyt ti’n beio Cymru.’

‘Doen i ddim yn gallu ffoi yn ddigon clou. Gwell gen i rywsut barchu’r ddinas ddinod honyma ar dorlannau Parramatta. Gwell gen i wacter iach. A chyrrff corfforol. O ran Cymru, i mi roedd syndrom beiddgar y Mans ynghudd ymhobman, ymysg criw na fuon nhw erioed mewn Mans, yn glawstroffobig. Y peint a’r pwdr. Radicaliaeth y cyffur. Potel o brotest. Protestio am bopeth ond ni ein hun. Myth y Piwritaniaid. Alla i byth fynd yn ôl i gartŵn o le felly. Roedden nhw wedi ymwrthod ag aeddfedrwydd ar egwyddor. Oes rhaid tyfu? hollen nhw. Doedd neb yn ateb.’

‘Ac am Awstralia draw dros y don y breuddwydiaist ti felly, druan ohonot ti. A dechrau o’r newydd. Fan hyn.’

‘Strailia. A’i chyrrff pêr.’

‘Doedd hi ddim yn newydd felly,’ edliwiai Mair.

‘Ces innau beth siom fan hyn eto, ti’n gwybod,’ murmurai Maxine.

‘Beth arall sy i’w gael? Onid dyna’n busnes ni ferched? Casglu siomedigaethau, hel diflastodau, eu sticio nhw yn yr albwm, y naill dan y llall.’

‘Ond gyda Len,’ gwenai Maxine. Dechreuai’i chalon yn awr ddiferu o’r newydd tuag at Len.

‘Eto, dwi’n deall, dwi innau’n dal i radicalaidd freuddwydio gyda thi, ydw, hyd yn oed fan yma. Ydw. Ac am hwn!’

‘Mae’n cadw dy draed ar dir Cymru beniwaered.’

‘Maxine. Clown wyt ti.’

‘Siŵr o fod. Dwi’n gwneud ’y ngorau. Ond breuddwydio yw fy radicaliaeth heddiw. Mae’n fwy dadadeiladol, goelia i.’

A chydiodd Mair amdani yn ddigymell a’i chusanu: ‘Diolch amdanat ti ta beth, yn gymysg i gyd. A’r chwyldro... a’r dwli hollol Gymreig... yn dy gegin. Ymlaen â’r brotest Awstraliaidd, i ti dy hun, er hynny. Ac ymlaen, i fi, â’r fflipin gad.’

Y noson honno wrth iddi ddychwelyd mor araf ag arfer i'w thŷ, sylwai Maxine o bell wrth gerdded i lawr o'r orsaf, a throi i mewn i'w rhodfa, fod yna rywbeth o'i le.

Dadebrai hi'n bwyllog.

Roedd y lleuad yn annodweddiadol o ddistaw.

Beth oedd wedi digwydd? Doedd dim llenni o gwbl ar ei phrif ffenestri. Dim un. Nid bod y llenni wedi'u tynnu'n ôl; ond roedden nhw wedi diflannu o'r golwg. Roedd y ffenestri'n noeth lymun borcyn ac yn sefyll ar lwyfan gwag. Cerddai'r gwydr felly yn ddiddillad tuag ati i gyfarfod â hi. Gallai hi weld yn y gwydr y tân yn y grât ynghynn fel yr oedd Agatha y wreigdda yn y gymdogaeth a ddôi o'r 'tai cyngor' (fel y galwai Maxine hwy) ymhellach i lawr y rhiw i lanhau'r tŷ wedi addo'i osod. Roedd y fflamau'n tasgu adlewyrchu ar y ffenestr. Leibient gorneli tywyll y nenfwd o'r tu fewn. Roedd goleuni'r tân hefyd mewn ambell le fel pe bai wedi dod allan o'r tu ôl i'w lwyni i sbio arni o waelod yr ardd. Ond adlewyrchiad twyllodrus oedd. Doedd yna ddim peryg, wrth reswm. Roedd y tân yn y grât o hyd. Ond roedd ei olau bwystfillaidd wedi sleifio hyd at y ffenest ddilenni ar hyd y nenfwd, a'i gôt yn llyfn, a'i gynffon yn hir, ac wedi trochi'i weflau mewn gwaed. Ac allan.

Roedd rhywbeth wedi digwydd.

Roedd yna rywbeth o'i le. Y llenni a oedd wedi'u rhwygo i lawr. Roedd rhai ohonynt yn hepian yn llipa fudr ar y carped. Roedd lladron wedi torri i mewn. Crynodd Maxine wrth agor y drws.

Nid breuddwyd oedd hyn. Nid adlewyrchiad. Neu os breuddwyd ydoedd, yna breuddwyd oedd i ladd pob breuddwyd. Sylwodd ar annibendod wedi egino drwy'r llawr. Nid lladron. Nid lladrata yn unig 'wnaethon nhw. Roedden nhw wedi torri'r piano'n yfflon. Strailia oedd hyn. Rhwygasant ddarluniau o'r waliau a'u lluchio hyd y llawr gyda'r llenni. Roedd rhyw gorff wedi baeddu'r carped mewn modd ffaidd gwrywaidd. Hemisffêr y De oedd hyn. Nid lladrad syml, ond ymosodiad fandalaid ar gorff y tŷ. Yn ei hystafell wely roedd ei gwely wedi'i faeddu eto. Baw. Roedd marciau gonest ar draws y papur wal. Awstralia Cyrff. Mewn chwinciad, ymgaledai tuag at y cyfandir oll.

(Hyd at y fan yna yn yr hanes yr ydys yn dal o hyd ar diriogaeth weddol ffeithiol.



Hyd at y fan yna yr ydys yn ymsymud o hyd o fewn y rychwant hwnnw sydd at ddant cyfreithwyr, haneswyr a gwyddonwyr allwyddonol o lythrennol. Ond yr oedd yr heddlu'n mynd i glywed ac i dderbyn dehongliad pellach. Dehongliad cywirach, os dychmygol. Dyma hefyd a glywai Mair hithau.

Y dychmyg wedi'r cwbl a draethai'r gwir wir. O'r fan yma ymlaen, rhoddai fwy o sylw i'r lleuad. Cychwynnai'r apocryffa yn hamddenol ar ehediad mwy uchelgeisiol, mwy hydeiml. Lledai Maxine ei hadenydd. Gwnâi hi lygaid bach ar y lleuad wrth iddi esgyn. Caniatâi adnabyddiaeth a greddfau Mair iddi sylweddoli ryw fymryn y gallai'r estyniad pellach hwn fod ychydig yn fwy Macsinaidd nag a oedd yn weddus i'r adroddiad mwyaf didrosiad.

Y peth cyntaf a wnaeth Maxine, meddai wrthi hi'i hun, ar ôl cyrraedd y llofft fu meddwl am ei modrwyau. Rhuthrodd at ei hystafell wely. Acw, mewn drôr fe'u ceid. Roedden nhw'n ymguddio yno y tu ôl mewn adran ychwanegol, poced lle y cadwai rai o'i gemau gwerthfawr. Y foment honno, heb yn wybod iddi hi, sut bynnag, yr oedd dau leidr yn disgwyl amdani, o leiaf yn ei ffansi, efallai. Nid yn yr ystafell honno yr oedden nhw ond yn yr ystafell nesaf ati, cyn iddi'i chyrraedd. Wrth iddi basio'u cuddfan dyma lamsachu arni. Ei sanau hi ei hun oedd dros eu hwynebaw. Eu rhai pinc. Daliwyd hi o'r tu ôl gan y naill a oedd yn llai o ran taldra na hi ei hun. Corrach crebachedig bron oedd ef, a braidd yn dew. Dododd y llall, yr un talaf o'r ddau, dâp llydan brown o gwmpas ei cheg... Daliai hyn oll o hyd o fewn dimensiwn ei dychmyg.

'Nawr te, Misus,' meddai'r un byr mewn llais gwneud-isel a chryg. 'Bant â'r ffrog yna. I lawr hyd at dy fra a'r nicers.'

Gwrthododd Maxine mewn ofn a dychryn. Dirgrynai'i gwefusau.

'Ych chi'n gwybod pwy ydw i?'

'O'r gorau, misus. Os na chawn ni ddefnyddio'r dillad isaf ...'

Cymerodd yr un tal y tâp, ei glymu wrth gornel cadair. Weindiodd y peth o gylch amgylch ei harddyrnau. Fe'i glynodd o gylch cefn cadair nes ei bod yn weddol ddiymadferth. 'Bydd hyn yn fwy diflas.'

Clymwyd ei llygaid.

Wrth iddi gael ei dirwyn yn droellog yn y tâp a'i chlymu mewn cwlwm mor blethog amhosibl ag y gallai fod, yr oedd Maxine yn gwneud mwy na'i rhwymo'i hun yn ei chwarae-twyll cyfarwydd. Teimlai'i bod yn ei chystwyo'i hun. Fe boenydiai'i hysbryd. Yr

oedd yn teimlo cywilydd. O'r braidd ei bod yn haeddu cosb am y dychmygion ffôl a diniwed a'i plagiai o hyd. Ond fe'i gyrrwyd hi gan awydd ei ffansi i'w dirdynnu'i hun yn ddibetrus yn awr, i'w thynnu'i hun i lawr i bwl o gerydd cywir. Yr oedd rhywbeth arall yn ei gyrru hefyd. Dyma'i hanallu llwyr i adael llonydd i'w dychymyg. Os oedd modd addurno rhywfaint ar yr hanes, unrhyw hanes, ni fedrai hi ymatal rhag estyn bysedd drosto a chywreinio peth ar yr adroddiad. Yr oedd hi fel pe bai hi'n ymosod ar foelni difrodwaith. Gwyliai Maxine y lladron hyn yn awr drwy lygaid braw ei chrebwyll. Teimlai fod y lladrad wedi tarfu ar ei phreifatrwydd, fel diwedd byd. Dychmygai'u hwynebaw cystwyedig fel gwawdiau Dürer, fel galluoedd y fall, yn afreal, yn dawnsio erlid, dalient ati i chwilio ym mhobman, dan y gwely, ar ben y wardrob, lluchient jygiau, lluniau, twrient yng nghyprddau'r ystafell ymolchi, clywai hi hwy'n mynd allan o'r ystafell hon ac i'w hystafell wely lle y cedwid y modrwyau. Ond rhegi'r oeddent. Fffroment, doent yn eu hôl, rhwygodd y tew y tâp i ffwrdd o'i cheg yn greulon. Roedd ei gwefusau'n gwaedu.

Roedd ei thŷ moethus yn gwaedu, a'r papur ar y waliau yn gwaedu. Y papur wal trwchus, mor foethus o drwchus, yr oedd y wal fel pe bai wedi'i hadeiladu'n erbyn y papur.

'Ble?' gwaeddai'r un tal, ac roedd ei lygaid yn tanio sawl magnel arni. 'Y cerrig!'

'Dim,' meddai hi. 'Maen nhw yn y banc ers saith wythnos a hanner. Wyth.'

'Y *gwir*,' meddai'r llall gan ei siglo hi nes ei bod yn rhuglo fel ymennydd mewn penglog wag.

Crynodd hi wrth glywed y sillaf. 'Dwi bob amser yn dweud peth felly,' meddai'n hygoelus.

'Y *gwir* croyw clên,' heriodd y tew, yn bur obeithiol, gan syllu ar Maxine drwy'r sanau fel pe bai'n syllu drwy niwl Ynys Afallon. 'Y *gwir*!' ysgyrnygai fel tarw ffwndamentalaid.

Dirgrynai Maxine yn enbyd wrth i'r gair hwnnw o bopeth daro'i chlustiau'n greulon ddirmygus dro a thrachefn yn boenus a bowndio'n ôl ar y pared yr un mor boenus o greulon. Y *Gwir*! Roedd hwnnw bron yn fwy o ymosodiad arni na mygydau'r lladron. Bu bron â dihuno o'i hunllef, meddyliai iddi'i hun.

Hynny hefyd oedd problem fechan yr heddlu llythrennol ychydig yn ddiweddarach. Er bod y lladron hyn wedi cael cryn drafferth ar y pryd i ddod o hyd i drysorau Maxine, ddim mwy nag y cafodd hi ar y pryd i'w dychmygu, nid oedd yn fwy nag a gâi'r heddlu i lynu crebwyll y wraig freuddwydiol hon. Gwyddent rywfaint am ei chyffelyb wrth gwrs.)

Y gwir wir, wrth gwrs, oedd, wrth iddi ganfod y llanastr yn y tŷ, fod y cwbl wedi bod yn gymaint o sioc iddi fel na allai weithredu ar unwaith. Petrusai rhag codi rhybudd. Eisteddai'i hofn yn ei chadair am bum munud gan ddychmygu beth a allai fod wedi digwydd. Disgynnai'r delweddau arni fel eira bawlyd. Doent yn eidetig. Yna, crwydrai o gylch y tŷ ar goll, ffidlan osod y tâp llydan brown arni'i hun, ymrithiai'r lladron gerbron ei chrebwyll er ei gwaethaf ei hun mewn manylder, roedd yn siŵr mai Jake oedd enw un. Chwaraeai'i dychmyg yn y fan yna, a'r fan draw. Jake! Neu Jac. Yn sicr Jac. Gallai drwy'i chrebwyll adlunio'r cwbl. Gwelai hwy fel petaent yn bodoli. Yr oedd hi mewn perlewyg. Beth pe bai hi wedi dod adref ychydig ynghynt?)

Hynyna'n sydyn o frodio mytholegol atodol cynnil felly gan Maxine. Druan o'r heddlu bach diniwed, pan ddaethant, pe daethent, yn ddiymdroi. Clustfeinient ar y manylion carlamus hyn yn weddus o amyneddgar. Brodio oedd hyn, yn ddiau, brodio a oedd wedi hen ymsefydlu yn ei chof a'i chrediniaeth erbyn y deuid i gyflenwi archifau swyddogol parchus ddiiniwed y Sefydliad Cadw Trefn. Gerbron Maxine a hithau megis hyfforddwraig ostyngedig iddynt, teimlai'r heddweision yn bur chwithig, a dig, wedi cyrraedd, nad nhw oedd yr unig gelwyddwyr cyfreithlon a ganiatéid yn y byd hwn.

9

Beth bynnag, wedi ymládd felly gan ei dychmygion yn ogystal a chan y realiti cras, daeth ati'i hun. Ffoniodd Orsaf yr Heddlu, go iawn. Roedd y rheini ar frys oherwydd pwysau'r wasg i gael canlyniadau. Roedd hithau'n barotach bellach ar ôl ei hegwyll o synfyfyrion arallfydol i'w cyflenwi hwy. Eisteddodd yn ôl i'w disgwyl, ac i feddwl am yr hanes gyda manylder corfforol, Awstralaidd. Wedyn, ffoniodd at Mair.

'Mae dy onestrwydd Awstralaidd bondi-grybwyll wedi dod ac wedi mynd,' meddai hi, 'a dwi'n teimlo'n fudr. Wedi cael fy nhreisio mewn ffos. Wele onestrwydd Cyrff Awstralia! Dwi'n fawlyd i gyd ... ym maw didwylledd. Dyna'r gwir glân gonest budr i ti. A dyna dwi'n ei gael yn ddiolch am ddod i'r cyfandir barbaraidd yma.'

Dychrynai Mair, ac yna gwenai er ei gwaethaf: dyma un arall o ffansiön Maxine.

'Faint maen nhw wedi'i ddwgyd?'

'Fawr ddim. Ond ... 'y nglendid, 'y ngobeithion i gyd, Mair, a 'mreuddwydion.

Rhyw addurniadau felly. Doedd dim llawer arall i'w gael gartref. Ymweld 'wnaethan nhw a gadael eu hôl. Ond maen nhw wedi fy llychwino i. Mae'r ugeinfed ganrif yn llond y lle. Deled Gymru: o leiaf, does dim byd ar ôl i'w ddwgyd yn y wlad yna.'

Roedd 'na ryw ddifrifwch diarth o eirwir yn llais Maxine. A sobrai Mair. 'Ond pam Maxine?'

'Yr hen Adda, bown o fod.' Crynai llais Maxine. Doedd y llais yna ddim yn deall.

Edrychai'r heddlu gyda chryn chwilfrydedd ar y tâp yr oedd hi wedi dianc ohono. Gwrandawent fel gwaetgwn ar ei hadroddiad. Gallai'r hanes hwnnw fod yn weddol wir, efallai ... Ond wnaeth y lladron fawr o niwed i neb na dim. Buont yn boenus o gwrtais wrthi mewn gwirionedd. Ond dechreusai hi galedu'n erbyn yr holl fyd.

Yr oedd Maxine bellach yn ei gŵn nos. Roedd hi wedi ymolchi'n drwyadl, fysedd ei thraed a phopeth. Roedd yn amlwg mai peth o gymhelliad y lladron fu ei sarhau a'i darostwng hi, fel y bydd gwrywod. A buasai ceisio'i gorfodi i ymddwyn mewn modd iselfryd yn fodd i'w bychanu a'i ffeiddio. 'Dwi'n mynd o'ma,' meddai hi. 'Dwi wedi cael digon.'

'O'ma? O ble?'

Pan ymsefydlasai Maxine yn wreiddiol yn y tŷ helaeth hwn, yr oedd bron yn wledig. Pranciai gwiwerod i'r ardd yn bwylllog y pryd hynny. Yn y nos gallai hi glywed y sêr. Un noson darganfu ddraenog wedi camu ar draws y llwybr, a'r bore wedyn ddau ddraenog bach newydd sbon danlli grai wedi'u hepilio i anrhydeddu ei gardd hi. Er bod y briffordd ar bwys, achlysurol oedd y tai eraill o'i deutu fel goleudai araf ar hyd arfordir diborthladd. Plannwyd 'coedlan' hynod ffrwythlon a ffrwydrol ar hyd y palmentydd. Ond ddim mwyach. Flwyddyn gymwys yn ôl, creithiwyd y gymdogaeth oll. Codwyd stad o dai dosbarth-gweithiol ymhellach i lawr y rhiw. Yna archfarchnad, a bu'n rhaid adeiladu cylchfa yn union o flaen y tŷ, disgynnodd y syrcau am ben prydau bwyd Maxine, a diddanwyd ei horigau yn yr ardd gan y lorïau yn brecio ar bwys ei chartref, ac yna'n codi stŵr gwatwarus Awstralaidd wrth ailgychwyn drachefn. Lle ydoedd Awstralia, yn dir i gyd heb unlle i'w gyrchu iddo.

Yn rhyfedd iawn os rhyfedd hefyd, nid oedd y prysurdeb wedi gwella fawr ar ddiogelwch y tŷ. Megis y bydd troseddwr profiadol yn ceisio manau poblog os byddant ar ffo er mwyn ymguddio, yn hytrach na dianc i 'unigedd' anhysbys y wlad lle y byddai trigolion y gwacter oll yn eu gweld ac yn holi beth roedden nhw'n 'wneud a phwy oedden nhw a sut roedden nhw'n ennill bywoliaeth, felly yn y faestref hon gellid cyflawni pob math

o anfadwaith lle y ceid trafndiaeth drom a symudiad brysiog heb fod neb oll yn hidio'r un botwm corn. Penderfynasai Maxine ers rhai misoedd bellach mai doethaf po gyntaf y buasai'n mudo o 'ma.

Ond i ble? âi ymhellach i'r wlad, dros dro, er mwyn ceisio o'r newydd osgoi'r stŵr erlidiol? Ynteu i lawr i'r ddinas ei hun yn onest? Ond byddai'n rhaid iddi efallai fod yn fangre neilltuedig yn ne-ddwyrain y ddinas lle'r oedd arddull y bywyd moethus wedi'i sefydlu'n barhaol. Ynteu'n fwy ymgarthiol, — petrusai — tybed, ai allan o'r cyfandir yn grwn? Ie, allan i wlad, unrhyw wlad, un wlad, mangre'r defaid a bara lawr a chyryglau, o bosib. Teimlai, oni bai ei bod yn mudo cyn bo hir, y byddai'r gylchfa newydd hon ar bwys ei thŷ yn ymsefydlu yng nghraidd ei hymennydd. Ddi'r faniau a'r lorïau a'r bysiau oll i gyflymu o'i chwmpas nes ei bod hithau'n dod yn rhan o'r drafnidiaeth, a'r drafnidiaeth yn rhan gynhenid ohoni hi. Gorbetrusai. Ow! Awstralia. Ow! gyrff.

Ac eto, llanwyd ei gardd o hyd â breuddwydion uchel amryliw. Fe'u caed hwy yn y modd y tociwyd y gwrychoedd. Hongient yn y coed. Eginent yng nghyfoeth y blodau a ymledai ar draws ymylon y lawnt mor feiddgar. Yng nghyfosodiad y whilber a'r bwrdd-dŵr, megis yng nghrwybr y llwybr, breuddwydient yno'n hapus braf fel petaent wedi'u lapio mewn cynfasau disgwylgar. 'Dwi'n ffoi,' meddai hi wrth Mair.

'Dere 'lawr i Sydney i aros gyda mi am wythnos,' meddai Mair yn dyner fel bai'n sylweddoli'n sydyn ddifrifoldeb Maxine. 'Ffo ata i. Fe deimli di'n well wedyn.'

'Na.'

'Dri diwrnod.'

'Mi fydda i'n iawn am ychydig o ddiwrnodau fan yma. Peidio â phlygu i'r un gwryw. Na. Taclusa-i ychydig ar y lle ar ôl i'r heddlu ymadael. Wedyn, dwi'n gadael Eden. Ei heglu hi, bobl bach. Mae'n edrych yn syndod o debyg i'r pechod gwreiddiol i mi.'

'Ydy'r heddlu'n gwybod am dai eraill yn y gymdogaeth sy wedi diodde?'

'Dwi wedi gorffen siarad â'r creaduriaid ffansiol 'na. Down i ddim eisiau trafod y peth.'

'Rho wybod imi pryd byddan nhw'n mynd o'na'n derfynol. Ac mi ddoia-i 'lan yn y trê.''

'Na.'

'Gwnaf.'

'Does dim diben, Mair fach.'

‘Oes.’

‘Mae’r cwbl drosodd, lodes. Anghofio sy orau. Anghofio bywyd oll fysai orau.’

Ac eisteddai Maxine, rhoi’r ffôn yn ôl yn gysurus yn ei nyth, gan obeithio na ddodwyai, delwi ar y papur wal, ac wylo’n hael hyd ei sgidiau. Codi, a chrwydro hyd y tŷ briw: dringo i ben y grisiau a gweiddi nerth ei phen. ‘Awstralia! Awstralia druan! Pam yn enw Len Llwyd rwyd ti’n f’erlid i?’

## 10

Celwydda roedd hi hyd yn oed wrth wylo. Un eli a fu bob amser wrth law i Maxine: synfyfrio wylo gyda’i ffansïon, gorwedd yn ôl ym maddon cynnes ei breuddwydion, symud bodiau’i thraed, tasgu ychydig o ddagrau dros yr ymyl, a boddi ... Y pryd hynny byddai hi’n iawn.

Ac eto ei phethau hi a fuasai fan hyn yn y tŷ hwn, ‘pethau’ a fu’n rhan o’i breuddwyd ... Ow! Awstralia, pam? Barbareiddiwch noeth oedd hi ... ac eto’n farbareiddiwch gonest o leia ... budreddi syml unplyg ... Suddai i’w chadair, a’r ffôn yn ei llaw drachefn, fel bwmerang, heb lefain, ond â’i chalon yn gwasgu’i breuddwydion i mewn i’r carped.

Nhw. Nhw oedd wedi byseddu’i ‘pethau’. Nhw. Wedi’u byseddu, â’u cyrff cynnes afradlon, ei ‘pethau’ hi. Ei breuddwydion butraf wedi’i byseddu hi.

Ambell waith teimlai na allai hyd yn oed ei breuddwydion greu gwerthoedd prydfarth allan o’r caos a’i hamgylchai. Dibynasai hi erioed ar ryw fath o weledigaeth a oedd ganddi ynghudd yn ei hesgyrn. A phryd bynnag yr âi’r byd ymarferol yn ormod iddi, ciliai i honno yn oer, megis i ogof er mwyn ysgythru lluniau tywodfaen coch ar y waliau. Dyma oedd adnoddau’i chelfyddyd fewnol. Gweithredai’i breuddwydion fel artistiaid cynfrodorion Awstralaidd i atrefnu’r lliwiau. Paentient freuddwydion yn eiddgar gelfydd ar draws y llwydni ar ei waliau mewnol.

Ond cadwai hi Ffydd o fath o hyd yn hen ogof ei gweledigaeth. Gwyddai fod yna ragluniaeth annealladwy yn garn i’w holl dybiaethau. A’r tu ôl i amhosibilrwydd ei breuddwydion, gwyddai hefyd am lynu wrth bosibilrwydd a realiti absoliwt.

Doedd dim math o amgyffred o hyn oll gan Mair. Pryd bynnag y soniai Maxine am ei gwynfyd dychmyglon wrth Mair, byddai’n embaras. Adweithiai Mair yn chwyrn yn erbyn

unrhyw rithyn o grebwyll. Roedd hynny fel pe bai'n ymosodiad tybiedig ar ei gwrthrycholdeb. Ac felly y bodlonai Maxine ar gadw'i thipyn Ffydd dila yma mewn cornel dywyll o'i thŷ cleisiog clwyfus. Oddi yno, gallai hi wylid Mair a phawb arall o bell. Iddi hi ei hun, gobaith preifat oedd y Ffydd hon. Yr oedd hi, o ddyfnder ei hogof, yn gallu dodi pob dim arall mewn persbectif isradd.

Sut bynnag, fe'i hysigwyd hi'n onest gan y lladrad. Dyna drobwynt digamsyniol iddi. Y ffaith fod rhywrai wedi sarnu ar ei neilltuolrwydd. Rhywun wedi sengi i mewn i ddirgel leoedd ei dychymyg propor, wedi cyffwrdd â'i hannwyl bethau, wedi meddiannu'i breuddwydion am ei chartref delfrydol, heb yn wybod iddi: dyna iddi'r ymosodiad.

Ac eto o'r braidd y buasai neb bellach yn Sydney byth yn ei chredu, fod yna ladrad o unrhyw fath wedi bod! Neb! Dyna Awstralia i chi. Dyna'r sarhad suraf oll. Un arall o freuddwydion seithug Maxine yn galw 'blaidd' fyddai'r cwbl. Doedd dim coel ar fenyw beth bynnag ddwedai.

Go brin bod dosbarth-canol Sydney byth yn gwbl sicr i ba raddau y gellid dilysu Mrs Maxine Pearse. A oedd hi'n un ohonyn nhw? Roedd ganddi orffennol tywyll, presennol niwlog, a dyfodol o arferion amwys; ond anianawd mwyn drwy'r cwbl. Roedd ffordd fytholegol ronc ganddi o ddodi'r cwbl wrth ei gilydd yn amser cydlynol. Ni ellid bod yn siŵr faint o'r gloch oedd hi ar y pryd. Ambell ddiwrnod ymddangosai fel pe llifai holl fywyd Cymraeg ac elusennol Sydney yn fwyn tuag at fflodiart ei breuddwydion fel pe nas bwriadwyd ar gyfer yr un perwyl arall. Ddim mor llewyrchus â Mair efallai, ond efelychiad boddhaol ddigon. Ddiwrnod arall yr oedd straen yr holl fywyd hwnnw wedi gorflino.

'Fyddwch chi'n breuddwydio *bob* nos, Maxine?' Chwilfrydedd yr anneall gan Mair.

'Dwi'n casglu breuddwydion ar ddiwedd ambell noson fel broc môr ar ôl storm drofannol.'

'Ar ba fath o draeth?'

'Na. Nid ar draeth confensiynol. Nid fel gwymon. Nid palmwydd chwaith. Dim ond oddi ar y creigiau crugog llwyd dienaidd, yn hongian. Creigiau miniog anferth glannau Awstralia.'

Mentrai hi gerdded ar flaenau'i thraed ar hyd min rasel rhwng celwydd a gwirionedd fel hyn mor anturus weithiau nes bod pawb yn dymuno gweld cwmp ei dychymyg i'r dŵr dwfn islaw. Ym myd breuddwydion ni ellid cystadlu â hi. Awdurdod oedd hi ar fod yn annhebygol. A'r drwg oedd — mor hoff fyddai hi o gyflwyno adroddiadau am ei champau

nosol, y dweud melys a seliai arddeliad y freuddwyd, doedd dim siampáen meddyliol heb fod mân-swigod y tu mewn.

Y tro hwn, sut bynnag, pan ddigwyddodd rhywbeth erchyll iddi, pan ddisgynnodd y peth hwn arni nawr, gorchuddiwyd hi gan ansicrwydd a oedd yn fwy erchyll na dim. Ceisiai'i siglo'i hun. Bu hyn oll yn drobwynt iddi.

Gadawodd yr ansicrwydd am foment. Cafwyd bwlch cwta. Ac yna, i fwlch yr ansicrwydd hwnnw rhuthrodd sicrwydd dychrynus i mewn. Whap, cafodd ei syfrdanu gan ryfyg ei phendantrwydd annisgwyl ei hun. Trawodd rif ffôn sicr Mair eto gyda phenderfyniad newydd. 'Mair gwranda. Gwranda nawr, ferch. O'r diwedd. Dwi'n ffansio Cymru. Wyt ti'n gwranddo?'

'Cymru! Nawr! Heddiw! Cyn codi!'

'Y bryniau, ti'n gwybod, a'r Eisteddfod. Mae'n rhaid imi fynd.'

'A glaw Stiniog. A bara lawr. Be sy arnat ti?'

'A Sain Ffagan, a'r Wyl Gerdd Dant, y Cnapan. Popeth. Pe baet ti'n barod i ddod gyda mi...'

'Fi! Y funud 'ma?'

'Yn ôl i Gymru yr elen i yfory nesa. Gyda thi. Gwranda. Beth amdani? Ac aros yno am byth.'

'Yng Nghymru. At beth? A gwisgo pais a betgwn? Ust ferch! Byth. Dyw'r lle ddim yn bod. Allwn i byth. Cer yn ôl i gysgu. Beth bynnag, dyw gwisgo du ddim yn fy siwtio i.'

'Ond amgylchfyd newydd syml, meddylia. Yn lle'r cyfandir corfforol hwn.'

'Cysga. Elli di ddim mynd i Gymru Maxine. A dyna'r diwedd.'

'Pam?' (yn ddigalon)

'Dim ond breuddwydio rwyt ti. Ddoet ti byth yn ôl. Paid â mynd mor eithafol.'

'Ydw i'n rhy hen?' miewai Maxine.

'Wyt. Yn hen ac yn unig ac yn llawn breuddwydion.'

'Alla-i ddim?'

'Na. Elli di ddim... Alla-i ddim chwaith. Dŷn ni i gyd yn rhy hen i fynd adre.'

'Ond fe hoffwn i fynd,' (yn fwy digalon) 'a mynd yno a dawnsio dawns y gloesen a chicio breuddwydion dros y llawr.'

'Mae'n rhaid inni ddod yn gyfarwydd ag aros.'

'Dyw hi ddim yn rhy bell.'



‘Hi! Fi sy. Dyma’r lle i ni mwyach. Awstralia, mae arna-i ofn, Maxine.’

‘Mae’n rhy bell, efallai,’ petrusai Maxine. ‘Ac rŷn ni’n hen ac yn unig. A’r sêr dan draed.’

‘Fan hyn,’ yn ddigalon meddai Mair. ‘Ac rwyt ti’n ferch fawr ’nawr.’

‘Ond dwi wedi penderfynu,’ meddai Maxine yn fwy petrusgar byth.

‘Wel, beth yw peth felly?’

‘Caru Cymru. Bod yn solet fel y Barriff.’... Bu bwlch tawel rhyngddynt nawr fel Cefnfor India.

‘O’r gorau te, cer. Cer, ma's o'r ffordd.’

‘Golygfeydd gwahanol a heddychlon. Dim cymhlethdod.’

‘Cer te.’

‘Dim gwrywod go iawn.’ Y fath effaith a gâi realiti ar benderfyniad.

‘Wyt ti’n siŵr fod dy gymhellion sobr yn gwbl bur?’

‘Cant-y-cant,’ daliai’n betrusgar.

‘Ac Awstralaidd o onest... Dim trowsus?’

‘Beth? ... Na! Dim trowsus ar unrhyw gyfri.’

‘Wyt ti’n siŵr mai dim ond er mwyn y diffyg troseddu Cymreig a’r menig gwynion a’r eglwysi’n llawn o bobl ifainc a’r dirwest a dim cyffuriau a phethau corawl felly rwyt ti am gyrchu i’r fath fangre ganoloesol?’

‘Beth arall?’

‘Pwy arall? dwi’n feddwl.’

‘Cwilydd arnat ti, Mair. Dere gyda fi.’

‘Na. Mae’n ddrwg gen i, mae’n iselfryd o ddrwg gen i, alla-i byth ddod, hyd yn oed er mwyn achos mor haeddiannol ... ,’ meddai Mair. ‘Ddim Cymru. Ddim unman. Mae’n rhaid iti f’escusodi i. Beth am Honolwlw?’

‘Dere. Cymdeithas newydd sbon danlli hefyd; dyna fydd ’na,’ meddai Maxine gydag ychydig bach o frwdfrydedd newydd-ei-ddarganfod.

‘Twt! Dim ond pobol ifainc a rhagweladwy gei di ’na, yn canu Anglo-Americaneg. Gwrthryfelwyr i gyd, felly. Mae’r hen Gymru wedi newid. Un rhinwedd sy ganddi: mae’n bell. Dwi’n aros fan hyn.’

‘Bydd yn real, Mair. Bydd yn llawn egni.’

‘Mae hefyd drosodd, fenyw. I mi, Atlanta yw. Mae’n rhith, wedi mynd i lawr y draen

gydag America. Mae dy freuddwydion yn dy gario i ffwrdd.'

'Nid breuddwyd yw hyn, fel rwyt ti'n feddwl am freuddwyd.'

'Byd diflas o newydd yw'r lle, byd sy eisiau bod yn union fel Sydney.'

'Taw, — fel Sydney! Ych! Dere *gyda* fi te. Dwi'n mynd... Bydd. Yno. Ond Sydney *heb* gyrff.'

Sobrai Mair. Siglai'i phen mewn anghrediniaeth. 'Carwn fod yn ffrind i ti mewn angen, Maxine.'

'Ond na, meddi di, 'does dim cyd-deithio mewn cyfeillgarwch ... O.K. te, pydrwn ni fan hyn yn bwdlyd.'

'Cer, dy hun. Rwyt ti'n ferch fawr.'

'Byddai'n fyd arall newydd sbon i fi; ond *gyda thi*, ... dyna fyddai gwir gyfeillgarwch yn f'angen ar hyn o bryd,' plediodd Maxine.

'Ond ces innau 'nghlwyfo unwaith yn rhy ddwfn,' meddai Mair yn araf. 'Yn rhy Gymreig.'

'Yno? Yng Nghymru?'

'Ble arall? Clwyf go iawn, clwyf a blew ar ei fryst a chrys coch cyfan amdano.'

'Does bosib!'

'Do,' ochneidiai Mair.

'Yn waeth na'r clwyf gest ti fan hyn yn Awstralia wedyn?'

'Yn wahanol. Dwi'n *connoisseur* mewn clwyfau.'

'Mae'n digwydd ym mhobman. Dŷn ni i gyd yn glwyfus.'

'Tipyn o amrywiad, dyna'r cwbl. Ac yn gynnar yn 'y mywyd. Yn rhy gynnar.'

'Y parchedig ei hun? Hwnnw? Roedd Maxine am archwilio pob posibilrwydd.'

'Y barchedig fam. Dwi wedi ymgaledu at Gymru.'

Seibiai Maxine yn ei mul. 'Yna, a-innau ddim chwaith.' Sgwarodd yn gyfeillgar derfynol, gyda phendantrwydd gelyn i bob breuddwyd. 'Wna-i ddiodef gyda thi.'

'Ydy hynny'n fanwl resymol dwed? Paid â rhoi'r bai arna i.'

'Na; a-i ddim,' meddai Maxine gyda phenderfyniad ffrind cydwybodol anfreuddwydiol. 'Ddim i gasglu mamau-yng-nghyfraith na thocynnau Steddfod na dim.'

'Ddim am wyliau hyd yn oed? Dere. Rwyt ti'n gosod gormod o gyfrifoldeb arna i.'

'Na: dwi'n nabod neb oll draw 'na bellach.' Mair oedd drechaf.

'A dw innau ddim eisiau nabod neb chwaith.' Dyna gytundeb.

‘Mair!’

‘Caiff dy freuddwydion fynd yno gyda thi’n saff. Cei weld. A dihuno. Cer di. Am dro.’

‘Pa freuddwydion?’ holai Maxine yn hygoelus. ‘Caiff y rheina fynd yno ar eu pennau’u hunain!’

‘Mi gân fynd gyda thi’n agos braf. Maen nhw wedi gwreiddio ynot ti, mae arna-i ofn... Cer gyda nhw. Does gen innau ddim angor o’r fath yn ’y nghwsg i fel sy gyda thi.’

‘Mwg i gyd! Ai dyna dy gasgliad di?’

‘Ond oes; mae gen *ti* angor y tu mewn, cer. Ac mae hi’n debyg o fod yn wlad newydd erbyn hyn. Does dim mwg heb smôc yng Nghymru y dyddiau hyn.’

‘A-i byth ar ’y mhen yn hun, byth bythoedd. Dwy a dimai o wlad yw ’nhipyn breuddwydion. Does gen i ddim diddordeb ynddyn nhw. Mud yn nhw i mi. A sut bynnag, byddwn i byth yn gadael y lle ’ma mewn cawdel. Os na ddoi di gyda fi ...’

Ac felly y gorffennai Maxine. Fel yna. Gallai hithau hefyd lunio penderfyniad. Gorffennodd yn swta. Plygodd yr holl freuddwydion yn dwt. Dododd hwy’n daclus yn ôl mewn blwch. Gorffennodd. A thrawodd y clawr yn ysgafn. Caeodd yn dwt. ‘Dim mwy!’ Arhosai gyda’i ffrind yn ddiflas ffyddlon.

Ond i Mair, bychanfyd chwerw o siom erioed fu Cymru, ac yn ddigyfnewid felly. Planed bell bell bellach na ellid ei chyrraedd. Yma yn Awstralia roedd hi’n ddydd. Pan oedd hi’n olau fan yma yn Awstralia, ac felly roedd hi gan amlaf, roedd hi’n nos bitsh BSC fel bol pob buwch wallgof ar Gymru. Ac yn y tywyllwch acw roedd yna ysbryd aflan, hen rym gwyll y gwrthodiad a estynnwyd gan ei hieuenctid iddi yn corddi mewn dyfnder llwyd.

Hen sarhad llwyd llwyd oedd ’na. Dim arall.

Dododd Mair y ffôn yn ei hôl yn ei nyth. Y ffôn ffals, ffyrnig.

‘Maxine, druan, — druan.’

Meddyliai am foment ddwys uwchben y ffôn. Yna clymodd ei phenderfyniad oer yn un belen gron ar gyfer ei fflipian i’r ymyl. Âi, fe âi hi i fyny heddiw i weld Maxine er mwyn plannu ychydig o synnwyr cyffredin diddwli yng nghopa honno. Doedd dim yn ei hatal hi... Teithiai hi i fyny rhag-blaen felly. Ymwelai â’i chyfeilles yn ei chartref amddifad. Roedd honno bellach erbyn iddi gyrraedd wedi twtio tipyn go lew ar y tŷ, ac wedi ymlâdd ar freuddwydio. Prin oedd olion y gyflafan. Derbyniwyd Mair, yn ôl arfer Maxine, gyda pheth seremoni gynnwl. Y math o foneddiges oedd Maxine fuasai yn eich croesawu i’ch tŷ eich hun

gyda chryn syberwyd. Ond roedd hi'n edrych yn anneniadol o farw.

‘Wyt ti’n fyw, dwed?’

‘Wele fi,’ meddai Maxine, ‘yn ei chanol hi. Byw? Cwestiwn arall yw hwnnw.’

‘Mae’r neges yn amlwg ym mhob man te,’ meddai Mair. ‘Egwyl. Cymru. Ffoi — gwyliau bach. Ar dy ben dy hunan bach. A dod yn ôl.’

‘Ffoi? Fi!’ heriai Maxine.

‘Ffarwel i Awstralia am bum munud... A dod yn ôl. Ti!’

‘Na! O ddifri? Na! Hebddot ti? Byth!’

‘On’ d oes ’na wahoddiad, oddi acw, eisoes ym mhob sillaf o’r annibendod fan hyn?’

‘Ddim ar ôl i ti yn siomi i.’

‘Ei chrafangau’n dirdynnu dy fron, ys dywedai’r hen gymedrolwr mwyn amhenodol proffesiynol hwnnw. Pe digwyddai iti fentro draw, fe gaeai’r fagl gyfrwys amdanat ti chwap.’

‘Does dim cau ynddi hi,’ cyffesai Maxine yn gelwyddog. ‘Ond na! A-i ddim.’

‘Mae’n sisial yn groyw loyw.’ Actiai Mair yn demtres gymedrol arall.

‘Ie, fan hyn yw’r lle ... a’r fan draw y ca-i, na! ... Ust!’ meddai Maxine. ‘Aros-s-s. Dyna mae’n ei sisial erbyn hyn. Aros-s-s. Dyna lais Strailia. I ni’n dwy. A phenyd.’ Pam? Pa fath o ateb yw hynny? Daliai Mair ati i demtio. Pam na allai Maxine roi to ar das unrhyw benderfyniad? Roedd hi mor bendant â Draig Goch yn cwafrio yn y gwynt.

‘Wnelai hi ddim drwg iti ddod, ’te, i ti glywed yr un hen gân honno mewn ail haf gyda fi. Gyda’n gilydd. Aros y mae Awstralia fawr. Wedyn.’

‘Seiren yw Cymru’n galw o’r tu hwnt i’r dwfn ar un person. Seiren wnaethpwyd i ti, heddiw, ar dy ben dy hun, ddwedwn i,’ meddai Mair. ‘Cer!... a sgythru’n ôl.’

‘Mae’n gyrch awyr bach wnaiff y tro i docyn dwbl, efallai.’

Egwyl. Cafwyd yr ysbaid leiaf rhyngddynt. Egwyl. Hedai o gylch eu pennau fel gwylan wedi blino. Caledai Cymru ym mryd Cymry acw, a meddalai yma yr un pryd.

‘Gwrandda, Maxine. Os ei di i din-droi yng Nghymru am dro bach esoterig sylweddol, dw i’n addo y deua-i draw i fwrw pythefnos gyda thi tua’r diwedd ... Mi wnaiff les inni’n dwy. Gwyliau.’ Dechreuai Mair gyfaddawdu yn ei meddwl felly, yn sydyn fel yna. Dechreuai gyflafareddu. ‘Gwlad angof yw hi.’

Cilio annisgwyl oedd hyn. Roedd yn ddigon i ddychrynu Maxine. Ciledrychai ar ei ffrind yn chwithig. Dichon y gallasai ateb y sylwadau yna yn bwylllog reit pe caniatéid tair

cyfrol iddi. Ond pa eisiau i Maxine oedd ymhelaethu mwyach? Na. Doedd hi ddim bellach am ddisgyrchu'n ôl i'r parthau Cymreig di-gorff byth mwy, o leiaf ddim heb Mair yn barhaol drwy'r amser dan ei chesail. Fentrai hi byth i'r henwlad glaf, ddim i alltudfa, ddim i letya dros dro, ddim i ddim, ar ei phen ei hun. Doedd hi ddim am wneud dim aneglur. Fynnai hi ddim suddo i'r fath waelod niwrotig byth. Na. O dan yr wyneb, ac ymhell draw o dan gramen y ddaear yn awr, os oedd yna bresenoldeb dirgel a thywyll a lleisiau tyllog llwyd yn y fan yna, byddai'n well eu gadael fan lle yr oeddent. Roedd hi'n bendant. Pylni meddwl, anghofrwydd, a photensial marw caddugol llwyd, dyna oedd cynhysgaeth Cymru bell iddi hi bellach. Dim rhith o ddim arall. Âi hi ddim i wlychu'i bodiau mewn pwll felly, ddim dros ei chrogi, ddim heb Mair. 'Na...Ond roet ti'n ei garu *fe*?' meddai hi wrth Mair yn gyhuddgar.

'Na.'

'Mae'n rhaid i ti ddod gyda mi. Heb hynny, aros 'wna-i. Yn bendifaddau.'

'I mi, dyw dod ddim mwy nag un o'th freuddwydion mwyaf angofiedig di. I ti, efallai, byddai fe'n realiti.'

'Ond mae e'n gariad i ti,' meddai Maxine gan geisio deall.

'Cariad sy'n gelain gorn. Ti yw'r dienyddiad nesaf ar ei restr.'

'I fi, dyw e'n ddim ond tipyn o lol cwsg. Na: a-i ddim i Gymru mwyach. Yn bendant.'

'Hapusrwydd?' meddai Mair yn dlws ond yr un mor rhethregol.

'Byth!'

Os oedd rhaid wynebu barbareiddiwch pur, meddyliai Maxine, yna Awstralia fan hyn amdani mwyach ysywaeth: baw a lladron Awstralia fan hyn, dyma'r lle, cleisiau ac awyr wag Awstralia, cadwyni gwacter y cyfandir materol garw hwn, gyda charcharorion barbareiddiwch helaeth a gonest Awstralia. A chyrrff. A Mair, fan hyn. 'Mair, mae 'mola'n galw am fod yn ddilys ac yn fyw, fan hyn. Unman arall. Aros, dyna wna-i — aros yn y carchardy digyfnwid hwn. Dyna yw bod yn real. Dedfryd oes? Oes.' Rywfodd byddai hynny'n llafur caled mwy didwyll. Byddai'n her wen fwy parhaol hefyd i gyhyrau clyd y cyfandir o garchar hwn, ac yn gystal ateb ag unlle i'w dyheadau amwys. Ond o leiaf, beth bynnag am ei chymysgedd, fe'i ceid fan hyn, yn aros. Yn ddi-droi'n-ôl.

Mi wnâi hynny fwy o synnwyr caled iddi yn awr heddiw na'r rhith agerog os lluniaidd acw. ... Acw, ef,... a'i oruwch fam fwganus fawr. Acw. Mynd i'r fagl! 'Byth!'

Bu hi farw.

Yn ôl hen draddodiad Cymreig, bu hi farw, mewn gwlad lle nad oedd fawr arall i'w wneud, medd rhai.

Rai dyddiau'n ddiweddarach dychwelai Len adref yn anweddus ac yn sionc o edifeiriol. Roedd ei waed wedi mabwysiadu arddull newydd. Nid yn unig roedd yna alar. Nid yn unig roedd yna ryddhad. Roedd yna gyfrifoldeb newydd hefyd. Cyn hynny, ail genhedlaeth fu ef: caed cenhedlaeth rhyngddo a'r bedd. Bellach, newidiwyd y drefn: fe dynnodd rhywun len ar ei thraws.

Ond rhedai math o euogrwydd hefyd fel trydan blinedig drwy leiniau'i asgwrn cefn. A'r un pryd, marwol o afieithus oedd ei gamre. Cymysg oedd ef o'i sawdl i'w gorun. Ymhlith y cawdel deimladau roedd yna falchder dirmyglon o amhriodol. Amwys oedd ei fuchedd mwyach wrth hwylio allan tua dyfroedd go ddieithr. Roedd dyfnder ei howld yn rhy hwylus o wag heddiw wrth fordwyo'n ôl tua'r Mans llwyd. Yn dawel bach, yn encilion cywilyddus ei feddwl, roedd yna o'r diwedd deimlad y ceisiasai beidio â'i groesawu. Llerciai yno dan donnau'i feddwl fel craig rwystr ddiwahoddiad. Onid oedd ef, am un eiliad goleddus, wedi profi gollyngdod? Onid oedd am ddwy eiliad gywilyddus wedi teimlo'n braf i lawr fan yna yng Nghartre — yng nghwteri euogrwydd — Yr Hen Bobl?

Nac oedd! Erioed. Nac oedd yn bendant. Y ffwl gwirion ffaidd ffals. Ond os nad felly, pam y cywilyddiai? Cywilyddiai'n hyfryd dost. Mi oedd wedi digwydd! Un eiliad wallgof ddu yn unig fu hi. Yr oedd y tu ôl i'w glustiau wedi profi balchder (bron) gynnu, am foment oherwydd i'r hen hen hen wraig ei ollwng ef i'r awyr iach. Twriasai allan ohono. A thwriodd ef gyda hi, allan o'i gylla a'i groen bellach, mewn teimlad annifyr pendant groyw, yn rhydd er mawr gywilydd iddo, roedd ei galon yn rhacs o rydd. Dyna'r gwir wir.

Er ei mwyn hi, yr oedd yn falch, wrth gwrs: o'r diwedd cafwyd gollyngdod i'w heinioes hi.

Ac eto ...

Ust! O'r celwyddgi!

Ac yntau wedi'i hedmygu gymaint! Wedi'i charu am flynyddoedd diddeall hyd at orffwylledd! Ac yntau wedi aberthu hyd yn oed Mair, ei gariadferch gynt, ar ei hallor hi. Câi yn awr ei ryddhau yn euog anniben falch rhag ei fam ddiddarfod. Yr oedd, wedi'r holl

flynyddoedd,... hyhi, ei unig fam wedi ...

Ond rhyddhau rhag pwy, hefyd, yn enw'r byd? Doedd ei fam ers tro byd ddim wedi cyfathrebu ag ef yn go iawn, er bod eiliadau o gallineb wedi turio drwodd o bryd i'w gilydd fel pelydrau tenau o lewyrch annifyr. Y pelydryn miniog diwethaf ganddi oedd: 'Nid f'arferiad i yw marw bob tro y mae tamaid o salweh yn taro heibio.' Pylni balch fu arferiad ei fam at y diwedd. Edrychai hi arno drwy lygaid diddodrefn sefydlog. Prin y mwmiar hi ag ef er iddo ymweld â hi'n feunyddiol. Ond presenoldeb sefydlog oedd hi.

Eto, presenoldeb oedd hynny rywfodd heb odid neb yno. Pe bai'i fam wedi *gallu* siffrwd wrth rywun at y diwedd, nid oedd ganddi neb ond ef y buasai wedi cael siffrwd wrtho. Ni ddô ei frawd hynaf Bertyn ar gyfyl y lle. Arhosai Bertyn yn gaeedig yn ei waith fferm. Gadawyd y fferm iddo ef, wedi gadael y fam yn ddieiddigedd i Len. Roedd y gwahaniad yn rhy ddwfn rhwng y fam a'i mab hynaf, gan fynd yn ôl at ddyddiau'i dad. Ni ddô'r trydydd mab Harold ar ei chyfyl chwaith. Ni allai yntau'i goddef hi, ac ymguddiai ym mhellafoedd Lloegr. Ef, Len, yn y canol, ef, yn unig o blith y triawd crwn, oedd yr un a geisiai ymdopi gyda'r hyn a oedd yn weddill ohoni.

Mae'n wir iddi yn ei gwendid, gartref yn y Mans am gyfnod, fynd yn gorfforol ordwrw iddo. Aeth yn lympiog galed. Ond mor glau yr anghofiasai ef helbulon o'r fath. Am gyfnod hirfaith, hefyd, cyn iddi ymadael â'r tŷ, pur anniodeffgar fu hi i siarad gyda hi. Ond gallai gwiriondeb felly ddigwydd i bawb. Dechreuai Len anghofio am helyntion felly eisoes. Gwelwai'r diflastod. Dinistriai'i feddwl gryn gyfran o'i hanes diweddar gan mai menyw bur estron fu hi erbyn y diwedd. Hi, yn ei chalon-oed, dyna a gofiai ef mwyach.

'Dwi ddim am fynd yn faich,' dyna a gyhoeddai hi'n feichus. 'Dwi wedi byw'n rhy hir, Len. Liciwn i'r Arglwydd 'y nghymryd i. Gwell gen i iti'n rhoi i mewn cartref.'

Chwarae teg iddi. Gallai hi feddwl am feichiau pobl eraill, meddyliai Len. Ac wedi iddo sicrhau ystafell iddi yn y breswylfa anfodlon, roedd pethau'n rhwyddach. Medrai ef hyd yn oed gorffori dyletswyddau bugeiliol o'r newydd yn ei amserlen. Ymwelai â hi yn ffyddlon o hyd wrth gwrs. Ond aeth hi'n llai-lai effro i'w bodolaeth ei hun beunydd.

Lliw nos yn unig yr âi yntau o'r neilltu i baratoi pregethau bellach.

Eto, pan dorrodd Dr Blodwel y newydd terfynol, profodd ... ef, ... na: ond do ... led falchder ynghyd â'r ergyd am foment wag, doedd dim gwadu ... a hithau'n fam iddo! Ei fam ei hun a mam Bertyn a mam Harold. Mam y ddaear i gyd. Âi'r cysgod lleidr hwn o deimlad i lawr yr ale oddi ar y briffordd. A pharai iddo adnabod euogrwydd drachefn wrth ymlwybro

adref. Rhyddhad iddi hi wrth gwrs ... ac wedyn ... O! tybed ai lled — ai sicr — ryddhad iddo yntau hefyd?

Roedd ei galon yn jibidêrs. Suddai. Y fath deimlad annheilwng! Len Llwyd, mor barchedig ddi-barch! A'r meddyliau trofâus hyn gen ti. Yn twrian, twrian drwy'r ale olaf.

'Mi ga-i d'erlid i ffwrdd, y dihiryn bach,' heriai ef ei fyfyr anwedus.

Temtasiynau a wrthodwyd oedd ei deimladau o'r fath. Gwyddai pawb hynny. Fe'i hadwaenai'r byd ef yn well.

Brysiat â'i gamre adref fel pe gallai'r fath gyflymu garthu ei gydwybod. Agorai ddrws y Mans o'r diwedd a'i gau. O'r diwedd, diwedd. Eisteddai yn flinedig ar waelod y grisiau. Yno roedd yna alar newyddeni yn gwichian yn ei gariad colledus.

Cofiai'r sgwrs synhwyrol ddiwethaf gyda hi. Bu ei fam ychydig yn anfodlon fod Len yn ymhel gormod â'r tlodion. Mam feddiannol druan! 'Mae'n rhaid iti gadw parch.'

'Dwi ddim yn aberthu parch. Dwi'n parchu pawb.'

'Nid aberthu dy barch dy hun at eraill, dwi'n feddwl, grwt. Rwy'ti'n aberthu parch eraill atat ti.'

'Does neb yn aberthu parch os nad oes dim parch i'w gael.'

'Da ti, Len Llwyd, mae eisiau iti barchu parch! Ti yw'r parch.'

'Does dim.'

'Ond ti! Yn trafod â'th ddwylo dy hun beth o'r baw di-barch yn y cartrefi!'

'Ond dwi'n ei drafod yn barchus.'

'Os nad wyt ti'n dy barchu dy hun, sut y gelli di ddisgwyl i bobol eraill dy barchu di?'

'Does gen i ddim ffrityn o ddiddordeb mewn disgwyl parch.'

'Mae gen ti statws yn y gymdeithas, does bosib. Cofia Len. Parch wyt ti dy hun. Y Parch. Len Llwyd.'

'Llwyd, cofia.'

'Ond parch, Len.'

'Dwi ddim yn siŵr 'mod i'n dyall beth sy 'da ti mewn golwg.'

'Pobl yn tynnu'u hetiau i ti yn eu calonnau. Eu hymennydd yn adnabod statws. Clustfeinia 'machgen i. Dwyt ti ddim yn rhy hen i ddysgu gan dy fam. Dwi'n gyfarwydd â phobol. Os nad wyt ti'n mynnu parch, dy sathru di wnân nhw. Does dim roddith fwy o archwaeth iddyn-nhw na thanseilio parch.'



Felly y bu'r ymddiddan olaf amser maith yn ôl. Fe'i cofiai'n barchus, a dymuno'n amwys ei anghofio oll yn barchedig.

Tynnai yn awr unigrwydd y Mans i gefn ei lwnc, dunnell ar ôl tunnell dynn. Gwacawyd ei fywyd ryw fesur gan amharch.

Doedd e ddim wedi bwriadu aros fel hyn yn hen lanc, wrth reswm. Hen, hen lanc pur anfodlon. Llusgid ef yno'n ddyfnach i gors. Ond roedd y peth wedi digwydd iddo, yn araf ac yn wahanol hyd yn oed i'w frawd ansyber Bertyn a ddewisai wryfydod o wirfodd. Dyma, serch hynny, ewylllys rhagluniaeth ar ei gyfer ef, yn ddiau. A dyna sut yr âi hi mwyach. Un flwyddyn gron yn cogio bod yn flwyddyn gron arall heb sylwi.

Fu e ddim yn edifar, o leiaf ar y cownt hwnnw. Ambell waith, fel heno, pan ymadawai â'r tŷ, a cherdded linc-di-lonc o dan y lleuad ddi-sawr trwy dom y blynyddoedd, heb fod dim oll yn cyffwrdd ag ef namyn gwllith y cosmos, roedd e dros ben ei glustiau o falch nad oedd yno neb gartref pan ddychwelai. Câi gario'r lleuad a'r sêr yn barchus o gwmpas y tŷ a gwybod mai fe a neb arall oedd piau nhw am foment. Efô oedd biau'r wybren y tu ôl iddynt hefyd.

'Mae'n well heb rwydi,' meddai'n bendant araf wrtho'i hun. Ac eto, ambell eiliad aliwn, gwelai eisiau'r holi pam. Gwelai eisiau ambell funud y breichiau bychain absennol o gwmpas ei wddf, na châi ef byth mohonynt — pam 'nhad? Yr holi eto a'r stilio pam, yr ymddiried peryglus gan y plantos nas cafwyd, y teganau yn gorlenwi annibendod y tŷ ac yn cleisio'r dodrefn, — pam, dad-cu, yna codi'r addurniadau ar y silff-ben-tân, allan o'u cyrraedd, eu hunanoldeb sgrechlyd ddiniwed, a'r cusanau di-rif. Mair! ... Twt! Dwli benbaladr. Pam? Roedd hi wedi mynd yn holi diddianc arno.

Roedd henaint mor gythreulig o brydlon. Roedd yn siom i'r sengl ac yn siglad i'r priod. Does dim syndod ei fod yn teimlo mor ddisyfyd flinedig. Dyma un o'r cyfrinachau mawr a gedwir rhag yr ifainc. Yr anghysur a'r unigrwydd a'r boen.

Dichon mai bendith enfawr fuasai petai wedi ennill Mair gynt, ac felly wedi cael cyfnod o gwmni ebychiadau plantos. Ond rhy hwyr. Roedd wedi ymlâdd.

A dyna'r wyrion oll hwythau nas cawsid. Rhy hwyr. 'Ca-tu! Ca-tu' gyda'r trawsosod cytseiniol annisgwyl 'Stori! ca-tu! Stori Twmi Bach, ca-tu!' Un tro a roddid ar hyd y llwybr brialluog hwnnw. A maldod y mul fuasai ymdroi gyda'r hyn a ddylai fod, a allasai fod, oni bai am ei fam faith.

Eto, wedi'r cwbl, prydferth oedd yr unigrwydd hir ei hun hefyd. Closiai yr

unigrwydd hwnnw amdano yn awr wrth iddo ddychwelyd adref, gan chwythu am ei freichiau ac anwesu'i wddf a'i ffroenau. 'Croeso gartref,' meddai'r tŷ yn ddiargyhoeddiad. Tuchai Len fel ateb diystyr. Byddai'n rhaid iddo fynd i ddweud wrth ei frawd hynaf Bertyn yn ddiymdroi, ac anfon gair at Harold. Ond drysid Len yn awr: roedd ef wedi gwneud rhywbeth arall o'i le. Gwyddai hynny. Ceisiai gofio beth. Roedd ef wedi gwneud rhywbeth erchyll yn ddiweddar. Ac ni allai ailalw'r peth yn glir.

Rhyfedd yw gofidio am rywbeth na wyddoch beth yw ei wrthrych. Daliodd gipolwg ohono'i hun yn y drych. Yr hyn a wêl dyn meddylgar wrth syllu i ddrych yw dihiryn. A dyna'r lle roedd ef, mor wrthun ag erioed fel y'i disgwyliai, ac wedi blino.

Beth roedd ef wedi'i wneud? Neu a oedd i ddod?

Gwenai Len: 'Un gwahaniaeth rhyngddo-i a'r ffigur hurt yna yn y drych: dyw'r boi yna — sut bynnag y mae'n ymddangos — ddim yn gorfod edrych arna i.'

Ffenomen adnewyddol iddo oedd unigrwydd. Ac yr oedd unigrwydd o'r fath, gyda marwolaeth ei fam, wedi dod yn gwmni cynnes sydyn bellach, wedi gorchfygu trefedigaeth newydd yn ei fyd diddig. Dyna fe, yr hen feddwl iselfryd drachefn: marwolaeth ei fam. Dylai'i gosbi'i hun. Ei fam annwyl fu hi wedi'r cwbl. Yr un a fu'n drysorfa ar hyd ei oes. A hithau wedi cael ei hen sarhau hefyd, am resymau crefyddol, gan ei dad a'i frawd hynaf.

Er pan ddechreusai'i salwch diwethaf hi, dechreusai ef fwyta mwy nag arfer. Bwyta cysurwanc ydoedd, fel pe gwnâi hynny 'iawn' am yr anrhydedd nas cyflawnasai. Roedd ei galon nawr yn dew flinedig.

Bu'n ddigon anfodlon arno'i hun ers tro, am y cam a wnaethai ef ei hun yn erbyn ei fam annwyl yn ystod y blynyddoedd diweddar hyn, drwy beidio â'i charu ddigon. Ac ynghynt, y cam hwnnw yn erbyn Mair. Dau gam cymwys yn un. Dwy fenyw feddiannol a ddylai fod wedi dysgu iddo beth oedd cariad a chalon cariad, gostyngeiddrwydd. Delfrydai'i atgof am Mair ambell waith. Felly y bydd serch yn hiraethu am gariad, a hanes yn hiraethu am obaith. Alltudion ŷn ni i gyd ar y tipyn talar yma. Gallai gyd-deimlo nawr â'r mynachod esoterig canoloesol yna a fynnai fod yn ddienaid tuag at eu cyrff. Ceid rhai a ddirdynnai'r arwyneb drwy anwylo drain yn nesaf at eu crwyn o dan grysau danadl, rhai a safai yn eu blew mewn afonydd rhewllyd, rhai a noswyliai ar ystyllod tyllod heb ond gorchudd cyfnas rhyngddynt a'r rhew hir. Oll yn eu nabod eu hunain fel alltudion. Diferai'i ddagrau mewnol tuag at Mair.

Ond ar y pryd, roedd rhyw weithred arall o'i eiddo'n ei boeni. Beth ydoedd? Daethai

rhyw weithred ddieithr ar flaen ei ymennydd. Nid esgeuluso'i fam oedd hyn, nid balchder cudd oherwydd ei darfod. Roedd ef wedi cael ei gyhuddo o rywbeth arall, trosedd sydyn a aethai'n angof yn fwriadol. Beth oedd ef? Pa ffeidd-dra y dywedwyd iddo'i gyflawni ac y mynasai'i wthio o'r neilltu? Beth oedd y bwgan pigog hwn o ddigwyddiad yn ei hanes diweddar nad oedd ei gof yn fodlon i'w arddel? Ynteu ai digwyddiad oedd ef a oedd *ar* ddigwydd yn y dyfodol rywle, ac a hongiai uwch ei gorun? Rhyw ragargoel. Ydy pobl eraill yn teimlo anesmwythyd fel hyn?

O na allai heddiw fod yn fynach canoloesol yn sydyn, ar blât, heb fod neb oll yn gwybod! Cymysgedd hurt fu ei fywyd benbwgilydd.

'Maen nhw yn llygad eu lle,' ebychai. Codai. Rhaid iddo yn ddiymdroi ddweud y newydd trist wrth ei frawd Bertyn beth bynnag fyddai ymateb hwnnw. Ni wyddai sut, ni wyddai pa gywair i'w daenu am y geiriau. Aeth allan i'w gar er mwyn cyrchu i fyny i Lety Gwili gan nad oedd yno ffôn. Llety Gwili fu ei hen gartref, ond yn drymaidd betrus y dychwelai Len yno y tro hwn. Gwyddai nad oedd dim croeso.

Parciai'i gar ar y feidr fach a arweiniai i fyny at y tyddyn o'r briffordd. Herciai mor isel ei ben ag y gallai tua'r buarth. Dechreusai'r ymwahanu hwn o fewn y teulu yn ystod oes ei dad pan feiddiodd ei fam droi at grefydd. Cofiai'i dad bydol, ac am y gorffwylledd chwithig ynddo a godasai yn erbyn honno erbyn y diwedd.

'Fe neu fi!' gwaeddai'i dad.

'Ef te,' atebai'r fam yn annheyrngar, gan lynu wrth ei ffydd.

Cyflymodd y proses hwnnw'n waeth pan droes Len yntau ... a mwy na throi, ymlynu o ddifri wrth grefydd ei fam, yn yr ugeinfed ganrif, o bopeth. Credu — o bethau'r byd! Credodd yr hen beth yn anhygoel o ddi-lol. Ymgyflwynodd yn y pen draw gydag argyhoeddiad a phenderfyniad hollol amhriodol. A glynodd wedyn wrth y weinidogaeth fel llygad maharen. Bu ei frawd ieuengaf Harri mewn cwrdd untro gyda'i fam. A syrffedodd. Synnwyd ei synnwyr! Ond, er bod y fath syrffed wedi bod yn hen ddigon iddo, yr oedd yr *untro hwnnw* yn ddigon i'w dad ei amau fel cynghreiriad i'w fam. Bertyn felly bellach, neb ond Bertyn a etifeddi'r fferm, ac yn ystod ei deyrnasiad hir yno, ymgaledu a wnaeth y diffyg perthynas rhwng y tri brawd, a rhwng y brawd hynaf a'i fam. Aeth y brawd ieuengaf Harold oddi cartref, byth i ddychwelyd, ymhell o glyw cynnen y fro. Beth oedd y ffwdan am yr oes o'r blaen? Pagan! Cristion! Moslem! Heddiw, beth yw'r ots? Relatifaidd yw pob baw. Pawb yn dringo i lawr yr un mynydd, i'r un twll. Ansicrwydd yw'r sefydliad. Lobscows

amdani — a thawelwch. Dim egni i'r ysbryd. Dim cyhyrau i gredu. A!

Petrusai Len heddiw wrth fentro drwy'r adwy i'r buarth i chwilio Bertyn. Syllai ar ei hen gartref. Petrusai'r syllu. Y tyddyn llwyd blêr, Llety Gwili. Agorwyd ffenest ar y llofft. Roedd yna gysgod yno. Clywai lais yno'n gweiddi. Ni wyddai Len beth a ddwedid. Yna'n sydyn, ffrwydrai carreg anferth ar y llawr yn ei ymyl.

Roedd rhywun yn ceisio'i labyddio. Ei dad marw efallai? Gwichiai carreg arall a thasgu ar y wal yn ei ymyl. Beth oedd ar y boi? Clywid drachefn y llais yn udo, yr un mor annealladwy. A sylweddolai na allai fentro un cam ymhellach. Ciliai ar ffrwst. Sgriblai nodyn ar dderbyn o bapur yn ei boced. Fe'i plygai, a'i adael yn garcus ar waelod y feidr tua'r fferm ar y wal rhwng dwy garreg, ac un gornel yn sticio allan. Yna, gwaeddai yn ôl tua'r waedd. A chlywai'r waedd hithau'n gweiddi'n ôl ac yn ôl, ei waedd wag ei hun.

'Mae Mam wedi mynd.'

## 12

Gyrrai Len yn ei ôl wedyn yn syfrdan. Teimlai o'r newydd mai cyrraedd lloches a wnâi wrth gyrraedd gwacter y Mans yn Llanbiblig. Eisteddai yno gan grynu yn ei gadair.

Eithr ni allai aros. Roedd eistedd yno fel y cyfryw yn poeni ei gefn a'i grimogau.

Dôï'r ddelwedd yn ôl o'r mynachod canoloesol hynny yn eu cystwyo'u hunain yn gorfforol am eu camweddau ffôl. 'Gwyn eu byd.' Cododd oddi ar ei eistedd. Ni allai din-droi fan hyn, mewn cysur. Roedd y drws y ffrynt yn hiraethu am iddo'i agor. Llithrodd o'r tŷ i lawr ar hyd y llwybr drwy Gae Melyn i lan yr afon. Diferai tuag at Mair.

Na; doedd e ddim am ei daflu'i hun i'r llif. Dim ond ei araf ddirdynnu'i hun gyda gostyngeddwrwydd carlamus yn ddychmygus yn y dŵr, yn deyrnged i'w ogwyddiadau sagrafennaidd, ac yntau'n dipyn o Annibynnwr anghonfensiynol, llipa, llwyd.

Ond pam roedd hefyd yn teimlo mor llethol o edifeiriol? Ai ei arferoldeb oedd yn ei arteithio?

Ai oherwydd rhyw weithred a wnaethai eisoes? Neu oherwydd rhywbeth yr oedd yn mynd i'w gyflawni? Ond dechreusai bellach synied y gallai'r peth fod ar ddod, o'i flaen, yn hytrach nag ar ei ôl. Ffrystiodd i lan yr afon. Safai yn fud. Pe bai'n fynach canoloesol y funud yma gwyddai y câi ollyngdod pe bai'n ei ddirdynnu'i hun. Byddai difaru noeth ei hun yn ddigon o weithred am bob cam a wnaethai gyda'i fam ac yn feddwl newydd iddo

wynebu camwri'r dyfodol.

Yn oer y safai ger y dŵr oer. Roedd hwnnw'n llepian yno'n ddychmygol dros ei sgidiau. Teimlai'i fod yn byw bellach mewn oes arall. Roedd ei deimladau'n ddi-drefn. Beth oedd yn bod arno? Fel buwch safai a gadael i'r oerfel gwlyb a chreulon dychmygol lepian yn ei feddwl o gylch crothau'i goesau. Ni fentrai i'r dŵr. Byddai'n wirion, ond ddim mor wirion â hynny. Roedd yn orffwyll; ond gallai werthfawrogi cysur sachliain. Dylai aros yno drwy'r nos ddu oer, yn hen lanc niwrotig ar lan y dŵr.

Mae'n rhaid ei fod yn orffwyll. Beth arall? Roedd yn bryd clymu siaced gynnes ei gartref amdano a'i roi dan glo o'r newydd. Pe mentrai i'r dŵr fe fysai'n oeri'r dŵr ymhellach.

Ond na: teimlai'n gydwybodol y dylai aros yn fynachaid yn y lle oer hwn a dioddef yn go iawn. Er bod y dŵr yn rhewllyd, ac yn ei ddychymyg bron hyd at ei gluniau, a'i gorpws yn dechrau dirgrynu, profai yno hefyd ryw areuledd o fewn clyw siffrwd yr afon oer. Yn hurt neu beidio roedd yr hunanboenydio yn dod â distawrwydd mwyn iddo.

Dihunodd yn raddol o'i ddychymyg.

Gall unigedd mynachaid weithiau fod yn gwmni mor felys i'r galon sylwgar nes ei thynnu hi allan ohoni'i hunan.

Mwynhâi unigedd. Mor aml wrth ganfod un o'i gydnabod — un o'i braidd — yn nesu, yr oedd ef wedi ceisio rhyw ffordd i warchod ei unigedd. A'r pryd hynny byddai'n cael cyfarfod ag ef ei hun. Er nad oedd yn hoff o'r hyn a welai ar y dechrau wrth gyfarfod â'r fath greadur anhydrin, wedi ychydig o oriau yng nghwmni'i hen gyd-weithiwr Unigedd, y pryd hynny y ddi'r sgwrs gydag ef ei hun yn iechyd da.

Ond arhoser.

Ie, roedd 'na rywbeth a oedd ar ddigwydd. Ond beth? Digon am y tro oedd yr unigedd. Doent yn eu blaenau ill dau yn hwylus gynganeddus, ef a'i unigedd, fel gwych a gwachul. Pan gâi ef ei glwyfo, ddi Unigedd yn rhad ac am ddim ato i'w hyfforddi sut yr oedd ymneilltuo. A'r boen hyfryd hefyd! A'i hystrydebaeth ddolurus. Ceisiai leoli honno'n fwy manwl yn awr. Fe'i ceid yn ei bumed lymbar, yn nodyn eithaf drygsain yng ngerddoriaeth ei gefn. Rhyfedd fel yr oedd yn gallu saethu o'i gydwybod i'w bumed lymbar mewn milran o eiliad. Dyna hi wrthi 'to. Dwi'n gwybod beth mae hi eisiau. Ei fam! 'Edrych arna i.'... Gwaeth. 'Moesymgryma.'... Gwaeth. 'Yn isel, isel, ddyn isel.' Hi — ei fam, a Mair, Mair. Yn isel. A dacw'r bont.

Cerddai'r bont o'r diwedd ato yn awr lle yr oedasai un tro gyda Mair.

Dacw'r dderwen hithau yn pwysu dros ei phen pellaf uchel. Dacw'r afon yn tin-droi fel awel lugoer drwy ddail.

Ger y lan hon yn yr afon roedd y bryn cyfagos wedi aros, ac adlewyrchid ef ynddi er mwyn parablu wrth y graean. Wrth sefyll yn rhewllyd ac yn ddwl fel hyn ger yr afon, draw syllai pont Mair hithau arno'n syfrdan. Pont yr hen fynd am dro ydoedd. Gydag ef, y mynach bythol. Oedi wnaethan nhw yno, Mair ac yntau, heb gerdded drosodd i'r lan arall: sefyll yno ar y bont yn y canol, pwysu dros y pared gyda'i gilydd a chwilio am bysgod yn y llif, flynyddoedd lawer a phŵl yn ôl. Eithr pan sylweddolai Mair mai dieithryn na chroesai'r bont honno byth oedd Len, fe giliodd hi y tu mewn iddi'i hun. Roedd hi wedi ymadael ag ef, mor bell byth ag y medrai. Ni chyrhaeddwyd erioed mo'r lan arall.

'Mair!' Anwylai'r gair yn ei enau yn awr, fel pe bai am ollwng ffrwyth plop i'w lwnc. Y sillaf harddaf yn yr iaith Gymraeg, meddai Saunders. Ei fam gynt, a chariad ei fam, oedd wedi'i atal rhag ymgyplysu ar y pryd. Meddyliai o'r newydd am y fraint o gael y fath fam. Druan ohoni. Roedd ef wedi dechrau ceisio gollwng llawer o'i gof amdani eisoes ar bwys y cwpan dannedd ger ei gwely yn y cartref henoed gynnu. Mor nodweddiadol ohono.

Ai hi ynteu ef ei hun oedd ar fai?

Heb briodi, 'châi e byth wybod mwyach a fuasai wedi medru ymostwng o fewn amodau priodas. Beth yw priodas wedi'r cwbl? Dau sy'n un a hwythau'n credu'r anhygoel hwnnw, — y cyd-ddibynnu. Tybed oni ddatganodd rhyw athronydd callach na'i gilydd rywdro: 'Yr wyf yn methu, — felly yr wyf'? Felly yn unig yr oedd yntau wedi bodoli erioed. Dyna fuasai orau.

Ar hyd y blynyddoedd mentrai helaethrwydd o ddeuoedd ato am gyngor gweinidog. Clebrent am bethau fel hyn. Yntau ar sail doethineb yr hen apostol a haerai mai'r gyfrinach fawr i bob perthynas oedd — 'gan ymostwng i'ch gilydd yn ofn Duw,' yn feistr a gwas, yn frawd a chwaer, yn ddinesydd a gwladwriaeth. Rhyfeddent oll am y gwirionedd annifyr ond cyrhaeddbell hwn. Cyfeillgarwch a pharch oedd prif gyfrinach cariad mewn dyddiau anaeddfed heddiw pryd yr oedd cyfyngder 'Rhyw' wedi alltudio cyfoeth caredigrwydd i'r wyrws. Popeth arall yn syrthio i'w le fyddai cariad. Ac eto sut y buasai ef yntau byth wedi gallu ymostwng i neb mewn unffordd, ac yntau mor enbyd o annibynnol?

Oedd, roedd wedi hen ymostwng i'w waith, roedd hynny'n siŵr. Bu hynny yn ofn y Mawredd. Ymostyngodd i'w braidd. Caethwas fu hefyd iddynt. Gwyddai'i gynulleidfa y gallent godi ochneidiau ato unrhyw bryd, yn fflangellau dychmygol ar ei gefn, yn hawliau

hallt ar ei gydwybod. Ymostyngasai am flynyddoedd i'w fam. Hyd yn oed pan gerddai drwy Rodfa Plas Piblig o bryd i'w gilydd roedd e'n cael ei lethu gan ddaioni dail a charedigrwydd awel. Ymgrymai i'r adar ceinciog a'r gwiwerod llwyd oll. Ymostyngasai i'w frawd Bertyn hyd yn oed. Ac eto, gwyddai mai seremoni bur oedd hyn i gyd, litwrgi. Gwyddai ei fod, y tu mewn, mor styfnig annibynnol ac mor ddiymostwng â mul. Pe bai her priodas go iawn wedi dod ar ei warthaf fel yna, hei ho, i'r gweledig yr aethai'r cwbl. Dichon mai methu a wnaethai yn hyfedr glau. Dichon y byddai presenoldeb agos bod dynol arall wedi bod yn ormod o straen ar ei barodrwydd llo i wir ymgrymu.

Châi ef byth wybod am bethau felly mwyach.

'Mair!' Ei henw hir sanctaidd hael. Ei hatgof o enw a ruglai i lawr o'i gorun i'w wegil. Y mêl enw hwnnw, byth mwy, — y mis mêl o enw. Fe'i hailadroddai.

Ac eto, diau na fu dim angen arno am briodas. Gwaith: roedd hwnnw ganddo'n ddiogel, ei waith a'i lyfrau. Ei alwedigaeth. Yn feunosol mi âi â chyfrol gydag ef i'r gwely. Ei wely unig wedi'r cwbl oedd y lle gorau iddo gyfathrachu â chyfrol. Yn y fan neilltuedig yna y câi ef ei hanwesu'n ofalus, heb ymyrraeth ar y clustog. Ef a'i gyfrol luniaidd. Hyhi a'r sibrawd tawel deallol. Dyma wrthrych tirion i'w serchiadau. A gwyddai fod dysg yn ddigon o ddiddanwch daearol weddill ei oes. Beth bynnag a geid ym mhersonoliaeth menyw a allai fod yn ddeniadol, onid oedd eisoes ar gael mewn cyfrol? Mewn cyfrol y ceid yr emosiynau a'r cynnwys ymenyddol, y dychymyg a'r sialens. Dyma ddigon byth o gwmpeini i oes. Ildiai i'w gyfrolau.

Ac nid y llyfrau'n unig.

Pawb. Ildio i bawb. I'w fam. Rhaid oedd ei fod wedi byw'n ddiffygiol, iddo ildio cariad Mair a'i gariad ei hun i orthrwm mam. Ai math o ostyngeddwrwydd fu pob ildio? Mae yna ostyngeddwrwydd ar un ochr, ac mae yna waseidd-dra. Gwas oedd ef o ran ysbryd gerbron pawb. O'r herwydd mynnai'i fam lofruddio'i botensial i garu neb. Tybiai rhywrai o blith ei gymdogion yn gyfeiliornus fod ganddo o'r herwydd dueddiadau gwrywgydiol. Ond arall oedd ei gynneddf a'i odrwydd oer. Rhwystrwyd ef rhag ei roi'i hun yn gyfan gwbl i neb oll oherwydd hunan amheuaeth. Tagwyd yr eginyn crin (drwy gymorth ei fam) yn y gwraidd ... A chyda phob parch i serch, roedd ganddo amgenach pethau i'w gwneud bellach â'i amser ar bnawn Sadwrn ...

'Beth sy'n bod, boi? Rwyt ti'n rhy ffaidd i'th ddirmygu.'

Ei fam o hyd. Ac yna'r praid estynedig. Y miliynau newynog. A'r gwacter.

Ubodd i'r afon. Symudai'r cymylau, yn awr, nes i wawl llipa'r lleuad gefnrhwd donni drwy'r hwyr. Roedd yr wybren yn ymsymud heibio'n llesg. Byddai unrhyw un a allasai'i weld ef, yn y munudau hyn ar lan yr afon, yn dod i'r casgliad, ac nid yn gyfeiliornus, ei fod wedi hen wirioni. Brawd gwiriondeb yw galar. Ond fu dim ildio i Mair.

Tynnai Len ei draed gwallgof o laid y lan. Baglai i fyny'r llethr nawr i'r tir synhwyrol. Y ffug fynach methodig, gorffwyll. Dyna ef yn oer bellach o'i salwch i'w sodlau. Methodd â mynd i'r afon heddiw, beth bynnag. Roedd hi fel pe bai'r dŵr llugoer wedi ffrwtian drwyddo heb fynd iddo o gwbl. Rhywbeth tebyg i ddefnyddio cadair drydanol i grafu'r cefn. A dyna'r ofn yna'n codi eto: y digwyddiad anhysbys arall a lechai dros ei ben yn y dyfodol, yn barod i bowndio, beth bynnag ydoedd. Yr hawntio hurt.

Rhaid fyddai iddo bicio heibio i Lisa Wilias, gweddw'r crydd, ar y ffordd adref. Roedd hi wedi gofyn iddo ers wythnos a dorrai ychydig o goed tân iddi, ac yntau wedi gohirio o hyd oherwydd clafychu'i fam. Ond yn awr roedd ei fam wedi diflannu. Roedd hi wedi gorfodi ei hysbryd ei hunan i hedfan fry. Fe'i gadawodd ef felly yma yn stond yn ei ryddid henlancaidd. Methodig hefyd oedd Lisa Wilias hithau. Cripodd ef yn ddiffwdan i'w gardd gefn hi er mwyn rhoi to ar y gwaith cyn gynted ag y gallai. Câi fynd oddi yno chwap heb y math o gydymdeimlad llethol a gâi heno gan bawb.

Yn y llofft gefn caed golau gan Lisa Wilias, ond ddaeth hi ddim i'r fei. Dychwelodd ef i'r Mans wedi darparu pentwr anferth o goed tân iddi, ddigon i bara am chwech wythnos. Gorweddaï blinder drosto fel cwmp glo mewn pwll. Teimlai'r gollyngdod hwnnw yn unionsyth wrth faglu i'r Mans.

Dim ond y waliau syber hyn a adwaenai'r gwir Len. Âi eraill adref at eu gwragedd, a'u cwmni: âi yntau yn wylaidd at y rhain. Dichon i ddynion eraill yn gyntaf jolihioetio'n gyhoeddus hyd y dref. Caent barablu'n uchel a jocian a hyd yn oed chwerthin yn aflywodraethus; ond yna yn y diwedd, adref at bobl fyw ddilys yr aent. Adref, adref blant afradlon. Yn y fan yna, câi eu gwragedd dreiddio i'w cyfrinach â gwenau. Eithr i Len, y waliau oer a hir hyn, a'r rheina'n lluosog unig, dyna oedd ei gymhares farw. Hwyl yn unig a'i gwyliai'n garcus. Hwyl a'i croesawai'n gynnil o'i gwmpas, gan gau amdano. Hwyl'n unig ym mhob man a ymunai gydag ef uwch pryd bwyd. Y waliau hyn oll yn unig a'i chwyliai'n feunyddiol. Doedd dim rhaid ei esbonio'i hun i'r waliau cynnil dygn hyn. Gwrandawent yn amyneddgar gyson fel y gwnaethai Mair o bosib ar ei ubain mewnol.

Rhaid oedd iddo dorri'r newydd am farwolaeth eu mam wrth ei frawd Bertyn wyneb



yn wyneb. Doedd nodyn cudd ddim yn briodol i frawd. Beth bynnag fyddai ymateb hwnnw, ei ddyletswydd oedd yngan wrtho'n bersonol. Nid dynol oedd gadael neges. Haeddu carreg dafl a wnâi peth felly heb ddim arall ... O! ie. A ffonio Harri wedyn, y brawd arall, y cyw melyn olaf pell. Dyna'i ddwy ddyletswydd nesaf. Heb eu hosgoi ... Ond ddim eto.

Hanner awr wedi wyth! Cofiodd yn gyfleus ei fod wedi addo i Twm Bart y byddai'n ffonio'i fab yn ffyddlon bob nos yr amser yna. Ers pythefnos roedd y crwt wedi bod yn ceisio rhoi'r gorau i gyffuriau. Eisiau'i galonogi a'i gynnal oedd arno. Gallai Len ei ffonio'n awr i sôn am ddehol tîm Cymru'n erbyn y Barbariaid. A gaed rhywun digon tal o blith y blaenwyr i fynnu meddiant yn y leiniau? On'd oedd yr hyfforddwr wedi bod yn rhoi gormod o'i sylw i feithrin nerth y chwaraewyr heb roi sylw dyledus i sgiliau? Mewn gwirionedd, roedd eisiau rhaglen wahanol a manylach i bob chwaraewr ynghylch cydlynu. Patrwm gwaith unigolyddol amgenach yn ogystal â chynllunwaith symbiotig i'r tîm. Caent ryw fath o sgwrs o'r fath gyda'i gilydd ar y ffôn i ddangos bod rhywun ar ôl a hoffai gyfathrebu gyda'r crwt.

Cyfathrebu! Ef! Y mewnblygwr cudd cwbl acrobatig hwn.

'Mair.' Cofiai'n ddwys ei hoffter obsesif hi o gyfathrebu. Y gymdeithasreg ddihafal! Fel y gwrandawai ef. 'Mair.' Hyhi o hyd 'ddeuai'n ôl i'w feddwl, oherwydd tranc ei fam, yn ddi-os, oherwydd y bwlch hir, a'r rhwystredigaeth. Oherwydd wynebu cyfnod newydd. Y wraig fwyn na fu. Y waliau gwag.

Cofiai'r bont.

'Beth sy arna-i? Mi weddïais untro — dyro iddi un a ffolai arni hi. Wnes-i erioed weddio — gad imi licio'r un y byddai hi'n ei ddewis. Ac yn sicr, erfyniais i ddim am ei chael hi'n gyfan i mi fy hun. Beth sy arna i, dywed?'

Bellach, yn Awstralia yr oedd honno. Roedd hi'n hapus bell, yn briod braf a phump o blant glandeg ganddi yn ôl y sôn, ac yntau ar ôl yn ddyddodion oer syber fan yma, yn Llanbiblig, yn unig ger ei bont. Yma y bu'n gweini ar bobl ddiymadferth mewn gwlad ddiymadferth, ac yn paratoi ar gyfer angladd ei fam.

Y ffôn. Y bygythiad disgwylidig? Seiniai fel injin dân. Ni chawsai erioed ac ni châi byth — o leiaf roedd hyn yn galondid — na chyfle na llonydd gan y teclyn hwn i gael ei fygu o fewn mewnblygrwydd clyd. Ai hyn, tybed, a ddôl â'r bygythiad hwnnw a goleddid rywsut gan y dyfodol? Y digwyddiad y disgwyliai amdano.

'Len Llwyd, dwi'n darfod.'

‘Felly yr ŷn ni i gyd, Mrs Huws fach.’

‘Ond Len Llwyd, mae hyn yn digwydd heno.’

‘Dych chi ddim wedi gofyn am Dr Blodwel?’

‘Ydw.’

‘Ddaeth e ddim?’

‘Do. A’i sgrialu wedyn.’

‘Dyna’r cwbl?’

‘Y taclau ifainc yma!’

‘Heb eich hebrwng i’r ysbyty?’

‘Fyddwn i ddim yn ffonio tawn i wedi mynd i le fel ’na.’

‘Na fyddech? Beth wedodd e?’... Gwrandawai ar yr hen wraig ag un glust, ond roedd ei feddwl ar berwyl amhriodol.

Roedd Mair wedi’i garu unwaith.

A pheth arall. Rhaid fyddai iddo ef ei hun ffonio’n syth ar ôl rhoi’r ffôn i lawr, i ddweud yn blwmp ac yn fudr wrth ei frawd Harold am farwolaeth eu mam ... A mynnai ddychwelyd at Bertyn i’w weld yn bersonol, oni chodai rhyw alwad hynod arall. (Diau, meddyliai, nad oedd ef wedi caru Mair ddigon, nad oedd, o’i ran ef gynt, ddim o’r difrifoldeb yn ei ymrwymiad wrth Mair, ddim digon o hawlio o’r galon ganddo i ymadael â’i fam er mwyn cariadferch.)

‘Dych chi ddim o ddifri, dych chi, ddim mwy nag e, ddim wedi sylweddoli’r difrifoldeb.’ Hi Jenni Huws, a fynnai barablu o hyd. ‘Welodd e ddim ’bod hi wedi canu arna i.’

‘Na ddo?’ Edrychai Len ar y ffôn yn amheus ac ebychai wrthi’n ddiamynedd. ‘Wel, anfonwch amdano ’to.’

‘Nid Blodwel dw-i eisiau, Len Llwyd, ond chi.’

‘Ond Jenni Huws fach, pwy dw-i?’

‘Mae’n rhy ddifrifol.’

‘Beth galla *i* wneud?’

O’r braidd ei bod ar ben arni. Fe’i hadwaenai’n burion. Pan gythaeddai ef, byddai hi’n achwyn llond y tŷ. ‘Dyna chi’n dyblu’r boblogaeth ’ma beth bynnag.’ Ac roedd yna gloch yn ei llais unig a’i sicrhâi ef, beth bynnag arall oedd ar bwys, nad oedd marwolaeth — o leiaf — ddim ar ei chyfyl y noson gymedrol honno. Math o unigrwydd llwyd oedd yna.

‘Dwedwch eich hanes heddiw, chi yw’r cynta imi’i weld heddiw,’ mynnai hi.

Yn sicr, roedd yntau wedi caru Mair gymaint.

Ceisiai ef wenu. Gwenai Jenni Huws mewn bodlonrwydd llwyr. Ond iddo ef ymddangosai’n wên ymdrechus, mor gartrefol â brechdan bacwn mewn synagog. ‘Pwy welsoch chi?’ holai hi drwy onglau’r wên. Roedd hi wedi cael ganddo ddod. Ni adawai iddo ymadael yn fuan.

‘Dwi cystal â marw, Len Llwyd.’

‘Cystal! Fysai neb yn coelio. Â’r bochau cochion ’na’n goleuo’r gymdogaeth.’

‘Dwi’n gyrru ’niferion gwaed ola o gylch y corpws.’

‘Os felly, Jenni fach, yna mae tragwyddoldeb yn taro’r llygaid pert ’na i’r dim.’

Hiraethai am Mair y funud yma.

‘Dwi’n cyfri dim,’ datganai hi. ‘Wyt ti erioed wedi gweld menyw wirioneddol sâl? Menyw dan ddilyw o salwch digymrodedd dwi’n feddwl. Dyna fydda-i’n ei ofyn i Wat Llaeth. Wyt ti’n nabod tranc pan wyt ti’n cwrdd ag e? Dwi’n holi Shindwell Siwrin wedyn. A! ’chydig sy’n gwybod am iseldiroedd gwir salwch, Mr Llwyd. Mae’n rhaid ichi fynd naill ai i’r Crimea neu i’r cegin i i ddod ar draws angau fintais o ddifri; Betsi Cadwaladr a’r cwbl. Dyw meddygon heddiw ddim yn gwybod dim am y peth. Fan yna maen nhw yn eu meddygfeydd ffansi fel Rolls Royce yn llenwi rhyw bwt o bresgripsiwn ar gyfer rhyw finni o annwyd. A fan hyn dwi: llwyd, llwm, llwfr. A chlychau’r eglwys eisoes yn dechrau canu drosto-i dan y ddaear lom, lwyd.’ Roedd hi wedi pwdu’n steics wrth unigrwydd.

Ofn crai mecaneg marwolaeth ei hun oedd arni, a hwnnw’n ofn huawdl a syrffedasai ar waliau. Ymataliai ef rhag sôn wrthi am farwolaeth ei fam.

‘Tragwyddoldeb,’ poerodd hi ato’n fewnblyg braf. ‘Meddyliwch.’ Sleifiai cornel ei llygad yn awr i fyny at y nenfwd yn bur amheus. Mynnai hi glosio at yr Anfeidrol fel petaent yn ddau ddraenog yn cyfathrachu. ‘Dych chi erioed wedi bod mewn cariad, Mr Llwyd.’

Enbyd o unig oedd hi. Gwyddai yntau fymryn am unigrwydd cyffelyb. Fe’i cyfrifai’i hun yn dipyn o *connoisseur* yn y maes hwnnw, mewn gwirionedd. Ond unigrwydd ar ôl cwmpeini mawr oedd ei hunigrwydd hi. Na. Wyddai ef erioed am beth felly.

Cryf fel caseg wedd oedd hi, roedd yn amlwg. Er bod Jenni’n bum mlynedd yn hŷn na’i fam, a bron yn barod i gyfrif oedran yn ôl canrifoedd, roedd hon wedi cadw’i chynneddfau fel jygiau ar seld, ar hyd oes iachusol. Doedd dim cymhariaeth. Ac eto, ofnai hi unigrwydd mewn modd nas gwnâi’i fam erioed. Yn ogystal, ofnai fygythiad y mwyaf unig

o'r holl elynion hefyd, yr un a ymwisgai mewn gorunigrwydd glas a gwag o hir.

O leiaf, gellid taeru am ei fam, hyd yn oed cyn iddi golli arni'i hun, doedd dim ofn o'r fath ar honno. Er ei misdimanners, roedd gan ei fam ers talwm o leiaf un droed mewn byd arall, llawn cwmnïaeth. Onid hi, ei fam, yn gyntaf erioed er ei holl wendidau, a gyflwynasai Len i'r byd ysbrydol hwnnw? Ac ni allai ef o'r herwydd ddiolch digon iddi. Gwyddai hi beth oedd perthynas amgen. Mae Duw yn dewis pobol ryfedd. Ond am Jenni Huws druan, mor sych â phlygion ei thagellau awdurdodol oedd honno â'i chredo ddibrofiad, a'i hysbryd mor blisgog grimp â chledrau'i dwylo. A'i hofn. Beth bynnag oedd diffygion ei fam, bu gan honno ddimensiwn gweledigaethus.

'Mi alwa-i i'ch gweld nos yfory 'to, Jenni Huws.' Ond meddwl am Mair yr oedd ef. Mae'n rhaid bod marwolaeth ei fam wedi rhithio realedd Mair o'i flaen drachefn, bron fel dichell.

'Wnewch chi'n wir? Wnewch chi ddim anghofio?' Llais Jenni, meddyliau Mair.

(Rhaid oedd iddo gofio mynd i fyny yn ôl at ei frawd hefyd, beth bynnag a wnâi.) 'A pheidiwch da chi ag *ofni*.'

'Mi dria-i.'

'Pan bicith yr hen Gyfaill Du heibio i'ch meddwl, ystyriwch un peth, Jenni Huws, ac un peth yn unig: y Mab.' Peidier â meddwl eiliad am farwolaeth. Doedd dim pwynt sôn am ddim arall, ddim hyd yn oed am Nefoedd. 'Y Mab, dych chi'n clywed?'

Ymlusgodd adref a'i gadael hi mewn pylni unig. Canlynai'r angau yn gi ffyddlon yn awr wrth ei sawdl ef, gan oedi o bostyn i bostyn. Pan gyrhaeddai ef yn ôl i'r Mans byddai wedi ymlâdd. Mor dawel oedd hi yno fel y gallech glywed gwyfyn yn tisian. Ymblygai angau'n gylchyn fel ci ar waelod ei risiau. Yn ei fryd mynnai delwedd aneglur o ryw weithred yr oedd wedi'i chyflawni, neu roedd ar fedr ei chyflawni, ei hawntio o hyd. Roedd rhywbeth yno. Y gofid diwrthrych. Arhosai rhywbeth y tu ôl i'r cornel nesaf. Dirgelwch digwydd y dyfodol. Tynnodd ef y Testament Newydd Groeg o'i silff a darllen ail epistol Ioan. Yna, mor noeth ei ysbryd â'r nos, aeth ar oerni'i liniau i weddïo. Erbyn hynny, ac yntau wedi anghofio'n lân am ei frawd, prin oedd yr egni ar ôl i ddringo grisiau. Dri chwarter ffordd i fyny eisteddai ar risyn er mwyn gorffwys. Rhôl ei drwyn trwm ar gefn ei ddwylo oer. Ond ymsiglai, ac ymlusgo o'r braidd i fyny hyd at ei wâl arferol, â'i isymwybod yn chwilio am fyd amgenach. Yr oedd marwolaeth ei fam wedi ei ddilyn ef fel ci ffyddlon nes gwneud yr oriau hyn yn ansicr. Clywai'i lais ei hun yn atseinio yn awr o'r tu ôl i'r wal

gerrig ar draws buarth Llety Gwili: ‘Bertyn, Bertyn, mae mam wedi’n gadael ni.’

Ysbaid... A oedd rhywbeth mwy sinistr ar ddigwydd?

A dyna lais Bertyn yn ei ôl: ‘Pwy yw honno, liciwn i wybod.’

Dim wedyn. Methai ef yn lân â dihuno tan y bore. Treuliodd noson gyfan o gof gyda Mair.

### 13

Ar ôl y lladrad erchyll ymwelai Maxine â Sydney ac â’i ffrind Mair yn amlach nag arfer. Roedd arni ofn ei chwmmi’i hun. Roedd hi fel pe bai’n chwilenna am gartref arall, am angor arall. Am lawenydd. Ac ysgafnder. Am bellter sefydlog. Roedd y lladrad fel pe bai wedi difwyno aceri llydain ar draws ei meddwl. A’i hansefydlogi.

Ymddangosai popeth bellach yn fwy ansicr nag erioed, er ei bod yn sicrach yn ei meddwl mai cefnu ar Awstralia am y tro fuasai orau a hedfan draw i Gymru, o leiaf am ychydig, a dianc rhag yr holl gyrff.

Bob tro y soniai am hynny, anesmwythai Mair heb allu deall pam. Doedd honno ddim, doedd bosib, doedd hi ddim yn dal i wirioni ar Len Llwyd. Ai hiraeth oedd arni? Neu syrffed?

Ond heddiw, roedd y byd yn wahanol. Dihunai Maxine y bore hwn heb freuddwydio.

Teimlai felly nad oedd hi wedi cael gwerth ei harian. Roedd hi fel pe bai wedi gwrando ar ddrama heb eiriau. Roedd y gynulleidfa wedi ymgynnull, y llen wedi’i hagog, pawb wedi curo dwylo, ac yna tynnwyd y llenni ar draws yn ôl drachefn. Tybed onid breuddwyd o ryw fath — hunllef yn wir — yw *peidio* â breuddwydio hyd yn oed i rywun gyda’i henw da hi? Tybed a oedd ei bywyd hi’n troi’n hunllef ddiramant. Pynciai ynddo’i hun.

*‘Hei! Ho! Anghofio’r ddaear ddu*

*yw uchelgais breuddwyd gu,*

*beth bynnag. Ac eto ...Wi!*

*Onid gwaith yw hwnnw hefyd?’*

Gwedd ar ei chydwybod Biwritanaidd oedd ei thuedd i hel breuddwydion, yn ôl Maxine. Gwaith cydwybodol. Pan âi i’r gwely, ni allai’i psyche oddef y demtasiwn i beidio â gweithio amser ychwanegol. O fewn dim arnofiai tua’r gorwel fel llong hud. Roedd ei

pheiriannau'n tuchian, a'i chriw yn rhuthro fan hyn a fan acw, y baneri'n chwipio, a'i pherchen yn benderfynol nad âi neb byth yn ôl i'r porthladd yn siomedig am nad oeddent wedi cael gwerth eu pres. Etheg gwaith hen oes oedd peth fel hyn. Y tro hwn, serch hynny, siom a gâi ei psyche. Pan gyrhaeddodd Maxine y ddinas y tro hwn, eisteddai Mair yn ei thŷ yn hirwep dawedog mewn cornel wrth y ffenest. Roedd yn amlwg ddi-hwyl. Ond rywfodd, tynnodd ei hwyl o'i chôl pan ganfu Maxine yn cyrchu i fyny'r dreif. Fe'i cyfarchodd yn wresog yn ôl ei harfer. Ond edrychai Mair yn llawn pryder er ei gwaethaf ei hun. Hwylodd bob o gwpanaid o de iddynt, a gosod cwgen frith o flaen ffroenau'i chyfaill. Roedd rhyw gysgod prudd wedi hedfan dros eu tai.

'Dwed te,' meddai Maxine. Ond nid atebodd Mair. 'Gwrywod? Menywod! Beth sy?' holai Maxine. Dim ateb. 'Pwy, te? Fi?' roedd bob amser ryw bryder tawel gan Mair.

'Helen Eston,' meddai Mair. 'Merch yw hi i ffrindiau i mi yn yr hen ardal. Wyt ti'n cofio amdani?'

'Gwn i.'

'Dwi'n becsan amdani.'

Un o aelodau mwyaf diarffordd Cymdeithas Gymraeg Sydney oedd Helen Eston, Cymraes ddiymadferth yn gorfforol, yn fwy ar 'wasgar' na'r rhelyw ac un yr oedd Mair yn ceisio cadw cyswllt â hi drwy ffôn a thrwy lythyr. Yr oedd yn aelod arbennig o werthfawr gan mai pensiynwyr bellach oedd asgwrn-cefn y gymdeithas, a ffrwd y newydd-ddyfodiaid ifainc wedi sychu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond anian Mair oedd becsan am bawb.

'Beth sy arni?' holai Maxine. 'Ydy hi'n wael?'

'Na, nid yn wael. Ddim yn hollol. Os nad yw bod yn barlysedig ...'

'Dwi'n gwybod am hynny.'

'Mae hi'n rhyfedd.'

'On'd ydyn ni i gyd?' Gwyddai Maxine am Helen, ac am ei hanghaffael, er nad oedd wedi ymhel â hi'n bersonol fel y gwnaethai Mair.

'Ces i alwad ar y ffôn gyda hi. Alla-i ddim o'i deall.'

'Ond pam?'

'Wel, ti'n gwybod, mae hi'n aros gyda'r gymuned od 'na. Allan yn y Prysg.'

'Wel? Mae pawb yn od. Beth am ein cymuned od ni'n hun fan yma?'

'Rhyw fath o hipïod gwyrdd yw'r rhai acw. Yn ôl at y brogaod, a phethau felly!'

'Ond pam hel pryderon?' stiliai Maxine. 'Hipi wyt ti hanner dy amser. Dw innau'n

gallu teimlo fel hipi ambell fore Sadwrn. A Sydney fel tipi.’

‘Yr ocwlt. Seremonïau cyntefig a’r dwli ’na. Oes newydd. Mae bob amser yn hala’r jib arna i.’

‘Dy obsesiwn di yw hynny. Pobol ifainc. A’u hystrydebol ugeinfed ganrif. Gad iddyn nhw fod. Hipis taclus yn ninnau: dyna’r unig wahaniaeth.’

‘Ces i lythyr wedyn. Mae hi’n ceisio astudio hud-a-lledrith sipsïaidd,’ meddai Mair.

‘Ond beth yw’r blincin ots?’

‘Ots!’ ebychodd Mair.

‘Pa ots yw hi i *ti*?’

‘Mae’n afiach. Dyna i gyd.’

‘Academaidd!’

‘Mae’n codi gormod o fwganod. I mi o leiaf.’

‘Gorau i gyd ddwedwn i. Ti sy’n od, Mair.’

‘Nage, nid fi ohonon ni’n dwy ddwedwn i y tro hwn. Weli di ddim? Y t’w’llwch.’

‘Prin.’

‘Wel, twll o ryw fath. Dylet ti ddeall. Rwyt *ti’n* gyfarwydd â geriach goruwchnaturiol. Ti — ohonon ni’n dwy — sy’n credu yn y diafol, Maxine. Ti sy’n hidio am y goruwchnaturiol: dwi’n malio dim iot y delyn am y peth fel arfer. Dylet *ti* fod yn ymwybodol o’r peryg.’

‘Dyw hi ddim yn beryg i mi. Dwyt ti erioed wedi sylwi? Chi’r anghredinwyr mwyaf rhonc sy bob amser yn fwyaf nerfus pan faldorddir am y pwerau tywyll.’

‘Twt!’

‘Ydych.’

‘I mi mae’n annaturiol. Gwyll.’

‘Ond dwyt ti’n credu dim yn y peth.’

‘Mae’n sawru o’r pwll.’

‘Byswn i’n meddwl fod Helen Eston yn ferch weddol gytbwys, yn gallu ymdopi drosti’i hunan,’ protestiai Maxine yn ddihyder.

‘Ydy, ond ... ’

‘Wel, ymddirieda ynddi te. Rwyt ti’n mynd yr un ffunud â mam Len, dy fam-yng-nghyfraith amlfethedig... Busnesa.’

‘Mae hi’n chwarae gyda ffieidd-dra.’

‘Dyna’i chenhedlaeth. Anghofia hi. Fe dyfith hi. Goddefa. Edrycha ar ein tipyn tipi ni fan hyn.’

‘Mae’r rheidrwydd i oddef wedi mynd yn ddogma anneallus, yn enwedig gyda rhyw hen fudreddi fel hyn.’

‘Twt, Mair, ti o bawb. Yn anoddefgar!’

‘Parch sydd eisiau. Nid goddefgarwch. Dwi’n teimlo mai gwell fyddai gadael y budreddi ’ma’n llonydd. Ond dyna fe. Dim ond anghredadun bach nerfus dwi.’

‘Gad ifi weld ei llythyr.’

Estynnodd Mair y nodyn, a bwriodd Maxine olwg awdurdodol drosto. ‘Wel, am ddiniweidrwydd!’

Doedd yna fawr ddim yn ei llythyr, heblaw sôn fod criw o grwydriaid, rhai ohonyn nhw’n hen frodorion o’r wlad, wedi treiglo heibio a’i bod hi wedi bod yn casglu’u ryseitiau bwyd, rhai diarhebion, a rhai swynion ar gyfer pethau fel dafadennau ar y croen, hen gasglwyr. Roedd hi wedi ymhoffi ynddyn nhw. Roedd ganddyn nhw rai arferion od o ddefnyddio tân i esgymuno ysbrydion drwg, ac O! buodd hi’n hel wedyn nodiadau ynghylch necromáwns, — galw ar ysbrydion y meirw. Dawnsiau rhywiol efallai. Roedd hi hefyd wedi gwneud nodiadau helaeth ar ddehongli ... beth!

Beth? Am hobi!

‘Hyn! Breuddwydion!’ ebychai Maxine yn sydyn braf. ‘Bobol bach! Dyna synnwyr o’r diwedd ...’ Anadlai’r gair yn hudol lyfn rhwng ei thafod a’i thafod fel pe bai hi’n unig berchen arno: ‘Breu-ddwydion! Mae hon yn gwybod ei phethau.’

‘Y galw ’na ar yr ysbrydion sy’n ’y nychryn i,’ meddai Mair. ‘Chwarae â thân.’

‘Y dehongli breuddwydion ’na, dyna sy’n swyno ’nafadennau i.’

‘Dwi’n nerfus amdany’n nhw’n cripiant o’i beutu. Mae hi mor bell, ac mor unig.’

‘Dim o gwbl.’

Chwarddai Mair o’r diwedd fel sinc a ryddhawyd. ‘Dere! Gwibdaith te! Awn ni’n dwy ’lan i’w gweld hi. Gyda’n gilydd.’ A dechreuai ymlacio. ‘Fi sy. Dwi’n gwybod. Ond dwi’n teimlo peth cyfrifoldeb drosti. Dŷn ni wedi closio yn y misoedd diwethaf, fi a hi. Drwy sgysio bythol ar y ffôn.’

‘Ac mae hi wedi bod yn tyrchu ar ôl breuddwydion?’

‘Peth.’

‘Gallwn innau ddweud wrthi un neu fwy o bethau ... am y maes lledrithiol hwnnw,’



mentrai Maxine. ‘Clyw ...’

‘Paid â dweud mwy.’

‘Pam na ddwedaist ti am ei diddordeb hi ynghynt?’

‘Pam?’

‘Mae gen i rai newydd sbon ffres.’

‘Rhagor ’to!’

‘Newydd eu tynnu o’r ffwrn.’

‘O! ust.’

‘Wel. Un. Breuddwyd fach elfennol. Ychydig yn amaturaidd.’

‘Dwi ddim eisiau clywed.’

‘Gwranda te.’

‘Len Llwyd o hyd?’

‘Na. Breuddwyd hollol wahanol. Newydd sbon danlli neis.’

‘Dwi ddim eisiau’i gwybod.’

‘Chei di ddim. Dyw hi ddim yn gwneud synnwyr beth bynnag.’

‘Sdim ots te,’ meddai Mair, ond bron fel pe bai’n agor ei breichiau. ‘Wel?’ ychwanegai, heb ddylyfu gën, yn lled edifeiriol rhag ei bod wedi siomi’i chyfaill yn rhy chwyrn.

‘*Mae* ots. Doedd dim rhaith na rheswm yn y peth. Roedd yn broblem i gyd.’

‘Byddai’r hen Sigmwnd yn gwneud cig mâl ohoni mewn amrantiad.’

‘Prin bod yna un dim na fysai’r cadno hwnnw’n ei lyncu heb drafferth..’

‘O’r gorau, dwed te. Dwyt ti ddim yn arfer bod mor swil am faterion mor bwysfawr.’

‘Wel, mae’n ddigon diniwed.’

‘Dwed te.’

‘Dim byd. Rhyw fath o ffilm ôl-fodernaidd mewn gwisgoedd canoloesol: dilladach cyfnod. Wedi dyddio.’

‘Dillad!... Da iawn...Roedd hi siŵr o fod yn ddrudfawr i’w llwyfannu.’

‘Dim ond un actor mawr pwysig oedd ynddi, math o ymerawdwr mewn lifrai hardd fawreddog, meddylia, a’r llys i gyd o’i amgylch, ceffylau, eliffantod, a rhwymyn ar draws ei lygaid, yn dal sbienddrych wrth y llygaid yna o bethau’r byd ac yn cyfeirio’r sbienddrych allan tuag at y môr. O! a ffynnon wrth gwrs. Mewn gwlad bell.’

‘Ymerawdwr?’

‘Dim llai.’

‘A!’

‘Pen bandit cyfoethog ta beth, ar ei orsedd, a’i wlad o’i amgylch yn berffaith hardd. Welaist ti ddim o’r fath wlad. Rhyw fath o gyfuniad o Aber afon Mawddach, Pistyll Cain a Dyffryn Gwy. Does dim synnwyr i harddwch felly. Ac wynebaw pawb mor glên.’

‘Dyna drueni mai breuddwyd oedd hi te. Efallai’i bod hi’n real.’

‘Dwi’n gwybod mai breuddwyd oedd hi. Felly mae’n siŵr o fod yn real.’

‘Wnaeth e rywbeth? Ddwedodd yr Ymerawdwr rywbeth te?’

‘Dim oll. Ar y dechrau.’

‘Dim?’

‘Yw dim. Dim ond sefyll ar ei sodlau, rhoi’r sbienddrych ar y llawr fel rhyw fath o Ellis Wynne ail-law, tynnu’r rhwymyn a chyhoeddi i’r holl fyd a betws — Myfi a fynnaf fyned i hela.’

‘Fel ’na. Dim byd arall?’

‘Na; dim smic. Heblaw’r wledd. Fel arfer yn y gwleddoedd yn ’y mreuddwydion i, mae’r sglodion bob amser wedi’u llosgi a’r pysgod oll wedi’u rhewi. Ond ddim y tro ’ma.’

‘Wel Maxine fach annwyl, mae arna-i ofn dy fod di’n dechrau hel rhyw freuddwydion llai na defnyddiol.’

‘Maen nhw’n garcus o barchus ta beth.’

‘Dwi’n gwybod dim oll am ddehongli parchusrwydd. Tria rywun arall.’

‘Mae gen i syniad beth roedd yr hela’n ei gynrychioli.’

‘Oet ti’n nabod wep yr Ymerawdwr te?’

‘Wel ... ’ petrusai hi wrth baratoi’i chelwydd, ‘Na. Allwn ni ddim gweld ei wyneb yn glir. Nabod yr ewig rown i ...’ Trôî’i llygad oddi amgylch fel pe bai’n chwilio am ddihangfa, a symbol ... ‘Fi.’

‘Efallai dy fod di’n mynd i briodi ’to te. Yfory’n sicr. Yfory efallai. Dyna fyddai achos i freuddwydio o’r fath.’

‘Go brin. Mae hynny’n llawer rhy amlwg.’

‘Weithiau yr amlwg a’r synhwyrol yn unig yw’r esboniad iawn.’

Crynai Maxine beth, ond ni sylwai Mair. ‘Byth! Mae gormod o synnwyr cyffredin ’da ti, Mair.’

Ym mryd Maxine, roedd ei breuddwydion yn rhy gysegredig i’w cymryd yn

ysgafala. Cyflwynir breuddwydion i bobl er mwyn inni wybod pwy ydyn ni. Mae'r breuddwydion haelaf yn rhy fonheddig i'n goleuo ni onid ar slent, yn rhy swil i ddweud yn blwmp ac yn blaen wirionedd. Efallai nad oes byth fodd i rithio dim oll yn uniongyrchol lythrennol oherwydd fod gan bopeth ddimensiwn anweledig. Heb ymwybod â hynny does dim gobaith i neb gyrraedd rhyw fath o aeddfedrwydd.

Eto, rhedeg ar ôl y lleisiau yw ein gwaith gonest, codi os oes angen ar ein hadenydd, er mwyn dal y breuddwydion hyn i gyd uchod rhwng ein bysedd. Mae'r hyn a elwir yn realaeth yn fath o ferddwr i'r ymennydd. Mae'n ceisio'n tynnu ni'n ôl. Wiw i'r meddwl gerdded yn ei flaen yn syth. Mae ei anian yn gofyn inni ddawnsio beth, ac nid mewn un cylch uniongyrchol, eithr mewn cylchoedd lawer.

Sut y gellir cyrraedd unman diddorol yn y byd yma heb ddawnsio? Yr oedd ei breuddwydion ambell waith yn gafael ynnddi, yn eu taflu'u hunain o'i deutu fel rhwydi. Roedd hi yn eu calon fel canol corwynt, yn troelli ac yn chwyrlio. Mae gan y freuddwyd ei llywodraeth ei hun. Yn ei breichiau hi, gyda'i hanadl yn brith-gyffwrdd â'i gruddiau a'i thafod, roedd ei breuddwyd bob amser yn cynnau. Roedd yn cynnau'i thraed hyd yn oed, yn tanio'i llwynau. A dawnsio, dawnsio.

Yr oedd hi'n synied rywfodd fod ei breuddwyd weithiau'n dân rhydd yn y Prysg. Roedd yn taflu gwreichionen yma ac acw a honno'n rhuddo'i gwallt. Mae honno'n pendroni wedyn am foment yn yr awyr nes disgyn mewn llwyn disgwylgar. Ymdeifl hi yn ddiymdroi tuag at lwyn arall fel pe na bai'n bosibl i fod yn fyw am foment wrth aros yn yr unfan heb heintio eraill. Yna naid drachefn. A thrachefn. Cydio. Tân yn ceisio cymdeithas. O dân i dân, cwmni braf, ac y mae pob cyrhaeddbwynt yn eithafbwynt. Mae'n chwilio am berthynas.

Syllai Mair yn ôl ar Maxine gan wneud ei gorau i ymddangos yn gwbl amddifad o synnwyr cyffredin; ond methai.

'Mae'n rhaid bod yn aderyn pur swrealiaidd,' meddai Maxine, 'i fod yn normal yn yr hen fyd 'ma. Dyna ti'r lleidr 'na yn y papur yr wythnos diwethaf, 'gafodd iawndal am iddo gwympo o ben ysgol. Roedd e wedi dod i ardd. Daeth o hyd i ysgol yn yr ardd. Ei rhoi yn erbyn wal y tŷ, welaist ti'r hanes ? Dringo, a chwympo wedyn oherwydd nad oedd yr ysgol mewn cyflwr da. Cafodd iawndal gan y llys. *Litigation*. Do. Diwedd yr ugeinfed ganrif i ti. Wir-yr.'

'Ffling olaf. *Fin de siècle*.'

'Cywirdeb gwleidyddol. Torrodd ei goes, — meddylia — a chael niwed i'w gefn. A

bu'n rhaid i berchen y tŷ dalu iddo am iddo gael y fath ddamwain. Dyna'r ffordd i ti merch i. Rhaid iti fod ychydig bach yn nyts, — fel gwleidydd. Byddai'n llesol iti ymlacio ac ymaflyd mewn dimensiwn arall ...'

'Does dim o'r fath beth ag uffern ddiangen,' meddai Mair yn feddylgar. Bu'r ddwy'n dawel am ychydig. Ond corddi ychydig bach yr oedd Mair o hyd, roedd yn amlwg. 'Gwranda Maxine. Beth am ddod gyda fi am dro yn y trê'n yfory?'

'Ble?'

'Lan i weld Helen Eston. Gawn ni ofyn iddi am esboniad ar dy freuddwyd.'

'Esgus yw hyn,' gwenai Maxine. Ond roedd hi eisoes wedi arfaethu'r daith.

'Ddim byth,' chwarddai Mair.

'Y nefnyddio i. Apelio at fy man gwyn. Hoelen fydd 'y mreuddwyd i ... i hongian dy bryderon dy hun, dy fan gwan, arni.'

'Ond meddylia ... y cymorth y gallet ti'i gael ym myd breuddwydion. Gallet ti gyfrannu hefyd. Fe gâi hi ddigon o stoc gen ti am ganrif.'

'Rwyt ti'n ... gwir ofidio amdani?'

'Ydw rywsut, a bod yn onest.'

'Dim ond tipyn o ddwli yr Oes Newydd yw hyn. Chwiw yw hi.'

'Byddai'n dda gen i sicrhau nad yw hi ddim yn cael ei thynnu i ryw arferion dwl.'

'Rwyt ti'n teimlo'n gyfrifol?'

'Ddim hynny, ond ... Cymraes yw hi. Mae'n aelod o'r Gymdeithas gyfrin felly.'

'Twt.'

'Cymraes oddi cartre fel ti a fi.'

'Well!' meddai Maxine gan doddi'n gydweithredol ynghynt nag y disgwyliai'i wneud, 'ta beth yw ei phedigrî, caf innau'r ateb i'm breuddwyd ddiweddaraf o bosib!'

'Cei 'fallai.'

Cododd Maxine fel pe bai am gychwyn ar unwaith. 'Siwrnai weledigaethus amdani te. Yfory nesa. Iawn.'

'Gan ein bod ni'n dwy'n rhydd hyd yr ymylon ... ,' meddai Mair yn foethus wedi hen synhwyro buddugoliaeth: roedd Maxine yn ei phoced. Gwibdaith newydd. Hoe.

Ym mryd Maxine, nid oedd y cytundeb hwn rhwng y ddwy yn ddim ond enghraifft o'r modd y gallai'i breuddwydio rhamantus hi ac ymarferoldeb realaidd Mair gyfathrebu â'i gilydd. Gallai breuddwyd fod yn wasanaeth cymdeithasol.

Nid sicrwydd, serch hynny, oedd *forte* Mair, er cymaint o ymresymwr ydoedd. Amheuwraig dra chonfensiynol oedd. Bu'r gorffennol mor ansicr â'i dyfodol iddi. Yn hyn o beth, cyfeiriai breuddwydion Maxine hi tuag at anghyfrifoldeb a chwiwusrwydd dymunol. Amheuai'r cwbl.

Drannoeth teithiasant yn y trê'n i'r gogledd.

Preswyliai Helen gyda chriw bach o hipïod yn Nyffryn Heliwr, ychydig o ffordd o'r rheilffordd. Gan nad oedd fawr o amser i Mair a Maxine deithio mewn bws o'r orsaf ym Muswellbrook i Ddyffryn Heliwr ei hun a dychwelyd ar ôl hynny ar y trê'n, cytunai Helen ar y ffôn i bicio draw atynt mewn tacsï gwledig i gwrdd â hwy yn yr orsaf. Er bod rhaid iddi hefyd ddod â'i chadair olwynion, mynnai Helen ymddwyn bob amser fel pe na bai hynny'n drafferth yn y byd. Drwy hynny ni byddai'n rhaid iddynt aros tan y trê'n hanner nos. Ond o'r braidd fod angen i Mair bryderu dim. Academiaidd hollol oedd agwedd Helen at y crwydriaid a'r brodorion a ddô'i heibio i Ddyffryn Heliwr. Os derbynïai'u credoau o ddifri, ni ddangosai hynny'r mymryn manaf. O'r hyn lleiaf, er ei bod yn ddifrif ei diddordeb deallol, doedd dim un arwydd ei bod yn colli arni'i hun yn emosiynol. Dim Oes Newydd. Dim diafol.

Rhy barod oedd Mair i bryderu pryd bynnag y clywai am y goruwchnaturiol.

Ac yna, meddai honno wrth Helen: 'dwi am i ti wrando nawr ar rywbeth gan Maxine. Breuddwyd.'

'A! breuddwydion Maxine, dwi'n gwybod pwy ych chi nawr,' meddai Helen. 'Mae Mair wedi sôn ...'

'Mair! Celwyddau te!' ebychai Maxine.

'Na! Mae hi wedi dweud llawer o bethau go neis amdanoch chi.'

'Mae'n rhaid eu bod nhw'n gelwyddau te.'

Sut bynnag, camai Maxine hithau i ganol y llwyfan. Brodiodd ei breuddwyd ramantaidd ei hun iddi, gyda difrifwch gwraig i weinidog botensial. Gwrandawyd yn astud arni.

Wedi iddi adrodd ei phwt, eisteddai Helen yn ôl a chraffu arni'n faith anhygoelus. Craffu a gwenu. Ai tynnu coes yr oedd Maxine? Wedyn, dechreuai ledchwerthin. Chwarddai yn heintus hir, powlio chwerthin yn y man, nes bod y ddwy arall wedi ymuno â hi heb ddirnad o gwbl pam.

Wedi iddynt araf chwythu'u plwc, syllai Maxine yn chwilfrydig ar Helen: 'Wel?'

‘Na! Dych chi byth o ddifri?’ a llygaid Helen yn syn fel telyneg a luniwyd gan gyfrifiadur.

‘Wrth reswm.’

‘Nid pryfocio ...’

‘Feiddiwn i byth.’

‘Wir-yrr?’

‘Yn wir wir, wrth gwrs, beth?...’ meddai Maxine yn barchus gan edrych ar goesau diymadferth Helen. ‘Pam?’

‘Ond llyma Freuddwyd Maxine Wledig!’

‘Pwy? ...’ Codai Maxine ei dwylo am ei harleisiau: ‘Beth? ... O na ... A! gwn i.’ Gwawriai’r peth arni’n gynyddol. ‘Yr hen chwedl hoff o’r *Mabinogion*.’ Y nghytgan arbennig i. Dyna’r lle y ces i’r peth. Wel, ar yn hurtrwydd i!’

‘Dim llai. O nythfa’r oesoedd canol. Beth arall? Atgof, adlais, brithweddilyn yn y myfyr, dyna’r cwbl. Mrs Maxine Pearse, rych chi’n llawysgrif newydd.’

‘Na. A!’

‘Mae’n rhaid eich bod chi eisoes yn gwybod amdani.’

‘Tewch,’ meddai Maxine. ‘Honno oedd ’na. Wrth gwrs mod i’n gwybod amdani. Yn ôl yn yr isymwybod. Rhaid bod ein ffrind yr ymwybod wedi anghofio’i lle am eiliad.’

‘Hen-oed.’

‘Nid Oes Newydd o leiaf. A’n gwaredo.’ Hen atgofion am dameitiach o wybodaeth. Nid oedd iddi felly fwy nag atgofion tlawd am ddyddiau pan fu hi’n lled astudio’r Gymraeg yn academiaidd am y tro cyntaf ar ei phen ei hun, yn ei hugeiniau cynnar, ac yn dynwared y math o gwrs allanol y dychmygai fod myfyrwyr Prifysgol yn ei ddilyn gartref. Dyna’r union chwedl yr oedd hi wedi’i darllen a darllen o’i chwmpas ar ôl hynny a gwneud nodiadau arni, o ran hwyl a chwilfrydedd. Roedd hyd yn oed — ers talwm — wedi rhoi un sgwrs fer amdani o ran sbort i’r Gymdeithas Gymraeg yn Sydney: ‘Macsén Wledig gan Maxine Ddinesig, dyna’i theitl.’

‘Dim byd sicrach,’ cadarnhâi Helen.

‘Fy hen isymwybod clwc bondigrybwyll. Mae’n ddrwg ’da fi. Llyma waith-cartref Ifor Williams.’

A chwaddai’r tair drachefn, gyda’i gilydd.

‘Nodweddiadol,’ meddai Maxine.

‘Dowch yn ôl ’to,’ meddai Helen ymhen awr a hanner wrth ffarwelio drwy fwrlwm chwerthin â’r ddwy arall, ‘hynny yw, os cewch chi eitem am Ludd a Llefelys.’

Ac aeth y ddwy, Mair a Maxine, yn ôl gyda’i gilydd yn y trêen cynnar yn lled chwerthinog ddadrithiedig. Yn ôl i’w dinas gynefin sobr. Yn ôl at ladron yr ysbryd. A Maxine Wledig yn gorymdeithio ar y blaen.

Ni chyfaddefai Maxine wrth neb; ond y noson honno — o bethau’r byd — dychwelai’r freuddwyd dro a thrachefn yn ddidrugaredd — yr ymerawdwr, y byd arall, yr anifeiliaid rhyfeddol, y llynges yn aber yr afon, Len ar y bont o asgwrn morfil — rholiai hi’r freuddwyd i gornel ddiarffordd o gylch amgylch yn ei hymennydd orau y gallai, fel pe bai’n wy. Gallai warchod yr wy fan yna, gallai’i gadw’n gynnes, anadlu’n synhwyrus drosto, rhwbio’n feddal ynddo. Ymfalchïai fod yr wy yno mor ddiogel yn nythfa’i phen, ei deimlo, hyd yn oed, â blaen ei bysedd yn esmwyth grwn i’w chyffyrddiad. Fan yna y cadwai y rhith o îar yn dwym yn y ffroenau nes iddi ddeor, a dod allan o’r diwedd yn lân i fagu adenydd ac i’w hestyn yng nghanol y brwyn a’r rhedyn a theimlo’r gwynt yn treiglo odanynt yn gynhyrfus braf, ac yna’n codi,... megis Concorde. A dod yr holl ffordd i gael y dehongliad hwn! Meddyliai am y pethau mwyaf dwl.

A’r tro hwn gwelai wyneb yr ymerawdwr yn gwenu ar y sioe i gyd. Fe’i hoffai.

14

‘Mr Llwyd bach, beth gebyst oedd yn bod?’

Ymbalfalai’i synnwyr ef am swits i’r golau. Doedd ’na ddim swits. Roedd ei lygaid yn agor, a’i llais bregus hi yn llithro ar hyd ale hir ond tywyll ei feddyliau lle y cillasai. Esther Elias a dywynnai i lawr drosto.

Hon. Ai dyma’r digwyddiad erchyll yr oedd wedi’i synhwyro, yr ofnadwyaeth a ofnasai — ynteu ai rhywbeth echrysach a oedd yn mynd i fod?

‘Mr Llwyd bach, beth ddigwyddodd?’

‘Ble ydw i?’

‘Cario’r llyfrau.’

‘Llyfrau! O! dwi’n cofio.’

‘Beth aeth o’i le? Gawsoch chi ryw frecwast y bore ’ma?’

‘Do! On’ d do?’

‘Na ddo... Beth am ddishgled neis o de nawr te?’

‘Fyddai dim gwrthwynebiad cryf genni i un diferyn gwan.’

‘Llewygu wnaethoch chi, chi’n gwybod.’

‘Mae’n rhaid.’ Ai hyn oedd y gofid diwrthrych?

‘Doen nhw ddim yn drwm?’

‘Nac oedden.’

Ac eto, llewygu wnaethai. Syrthiasai wedi cyrraedd ei hystafell hi, am y tro olaf ond un, ar y trydydd llawr yn y bloc o fflatiau di-liff. Cofiai pam. Doedd ef ddim wedi bwyta. Ddim ers diwrnodau. Stepyn ar ôl stepyn. Edrychai’n anhygoelus ar Esther Elias. Hon oedd wedi ffonio.

Diwrnod angladd ei fam oedd hyn, o ddiwrnodau’r byd. Roedd honno i fod i gael ei chladdu ... am ddau. Ond roedd Esther Elias o bobl y byd wedi ffonio. Cyhoeddodd fod y paentio a’r papuro bellach ar ben. Byddai hi’n odiaeth o falch pe gallai ef ddychwelyd y llyfrau. Llyfrau oedd y rheini, a adawyd gan ei gŵr pan fu farw. Llyfrau oedden-nhw na ddarllenai hi byth bythoedd monyn nhw, mae’n wir, hen bregethau; o bosib y casgliad gorau o bregethau Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd ar gael yng Nghymru. Bu Ednyfed Elias yn llafurio am flynyddoedd ar Hanes y Bregeth Gymraeg. Ond, oherwydd ei ddyletswyddau gyda chwe chapel cynulleidfaol yn yr ardal, pytiog yn unig fu’r cyfleoedd a ddôi i’w ran i fwrw ymlaen. Ddôi ef byth i ben. Roedd ei weddw, Esther, wedi penderfynu papuro a phaentio ystafell helaetha’r fflat lle y cedwid ei lyfrau. Cynigiodd y cwbl ar funud frysio i Len Llwyd ar gyfer stondin Cymorth Cristnogol. Bellach, roedd hi’n difaru.

‘Dowch yn ôl â nhw os byddwch chi’n methu,’ meddai hi wrth eu cyflwyno iddo. ‘Cofiwch. Do chi, mi fuodd ’y niweddar barchedig ŵr yn crynhoi’r rhain. Buodd-e’n llenwi’r bylchau dros gyfnod o ddeugain mlynedd. Roedd e’n gwybod i’r botwm eu gwerth ... os nad eu pris. Peidiwch â gadael iddyn nhw fynd am ddim. Bysai fe am gefnogi’r achos wrth gwrs. Ond dowch yn ôl â nhw os ... ’

A methu a wnaeth Cymorth Cristnogol yn lân, wrth gwrs. Ellid ddim talu i neb fynd â nhw, heb sôn am eu rhoi nhw. Cofgolofnau oeddent i wareiddiad a fu. Doedd neb eisiau gwybod amdanynt. Roedd yn ormod o drafferth i’w llosgi nhw. Mae rheswm ym mhopeth wedi’r cwbl. ‘Dwi’n falch eich bod chi wedi methu,’ meddai Esther Elias ar y ffôn. Mi bwrcasodd Len ei hun ryw hanner dwsin o ran sentimentaliaeth. Ond yr oedd cannoedd



lawer yn weddill, onid miloedd, — yn llyfrau gan unigolion, yn antholegau, yn bamffledi, yn gylchgronau. Neb oll am eu meddu nhw. Neb yn deall dim ohonyn nhw, chwarae teg. Cymru oedd hyn, wedi'r cwbl. A'r bore hwnnw, yr oedd hon am gael y gweddill swmpus a oedd ar ôl, a hynny ar frys. Ac yntau heddiw, heddiw gellid bod wedi'i ladd ef yn farw gorn â llyfrau.

‘Oes brys?’

‘Siŵr iawn fod brys. Mae'r ystafell yn edrych yn enbydus, yn enwedig ar ôl i'r llyfrau gilio. Bysai 'niweddar barchedig ŵr yn cywilyddio. Brys? Oes, does dim munud yn sbâr. Silffoedd, silffoedd, heb boblogaeth. Ond llwch. Does dim mor ugeinfed-ganrif. Oes brys, wir! Pwy all ddarllen llwch ond llwch arall? Ac nid fi yw hwnnw.’

Gwyddai Len y byddai'n edrych o'i gwmpas ymhen pum munud a synnu o'r newydd fod cartref yr hen Elias mor foethus. Mor dew oedd y carped fel y gallech golli eglwys ynddo — hynny yw y llan o leiaf.

‘Dwi'n brysur, braidd, heddiw,’ addefai ef yn wylaidd.

Syrthiodd hi ar ei bai, fel carreg. ‘Dylwn fod wedi meddwl.’

‘Popeth yn iawn ...’

‘Na, does dim brys. Mae'n wir ddrwg 'da fi.’

Roedd hi'n barod i ailfeddwl, roedd hi'n ymddiheuro, — ‘mae'n anfaddeuol’— yn gorymddiheuro, yn ochneidio ymddiheuro, yn cripiant ymddiheuro. Roedd hi wedi anghofio.

‘Wrth gwrs. Naturiol iawn. Bawb â'i drwbl yw hi. Mi driwn i ddod draw.’

‘Rych chi'n ofnadwy o brysur. Does dim brys. Dwi ar fai. Aeth o'm cof yn llwyr.’

‘Na, na, popeth yn iawn. Os yw'r ystafell yn edrych yn sobr ...’

‘Wel, y mae. Ond does dim angen. Dwi mor ddifeddwl. Meddwl rown i am fy niweddar ... Ond ... Chwarae teg.’

‘Na, na. Os oes brys...’

Yn ôl ac ymlaen. I fyny ac i lawr, ar ormod o ffrwst, dringai'r grisiau'n fanwl fel pe bai'n ceisio'u cyfrif a'u hailgyfrif a'u trydydd cyfrif hyd y diwedd hunllefus ulw. Roedden nhw i gyd yno.

‘Dwi'n gwerthfawrogi ...’

‘Peidiwch â sôn.’

‘Llyfrau! A! Maen nhw'n addurniadau amheuthun, on'd yn nhw. Ond mwy nag addurniadau. Beth dych chi'n feddwl, Mr Llwyd? I fi maen nhw'n sefyll fan yna nawr fel

cofgolofnau i'm diweddar barchedig. Dacw resi o gofgolofnau cefnsyth distaw yn cyhoeddi gwlad a fu a syberwyd a fu i'r sawl sy'n pasio drwy f'ystafelloedd. Ond ddim heddiw ... Mae'n ddrwg 'da fi.'

'Popeth yn iawn, Esther fach.'

'Ond mae llyfrau yng nghartre gweinidog tlawd yn briodol er eu bod nhw'n dipyn o ryfeddod on'd yn nhw. Mae 'na ddiwylliant wedi bod 'fan hyn rywdro, diwylliant a chredu. Does dim llawer o'r rheina i'w cael y dyddiau hyn, nac oes. Roedd e'n gwybod ei bethau, rhaid ichi gyfaddef.'

I lawr ac i fyny. Dwy res o risiau yn esgor ar y cofgolofnau. Dyma'r ffordd i baratoi ar gyfer claddedigaeth. Y trydydd. Y trydydd llawr, ie o'r diwedd. Pump a deugain o risiau cofgolofnog ar frys cyn ymwared â'r diwylliant a'r credu a'r anadl ar frig y trydydd.

'Peidiwch â gwylltu. Mae digon o amser,' meddai hi.

'Popeth yn iawn. Roedd eisiau prysuro i ddodi rhywbeth yn ôl ar y silffoedd noethlymun.'

'Beth ych chi'n feddwl am y papur-wal?'

'Coeth.'

'Mae'n fwy hwylus fel yna. Papur y gellwch baentio drosto.'

'Wrth gwrs.'

'Fydd dim eisiau papur arall ar y wal 'na byth eto, o leiaf tra bydda i ar gael. Dim ond cot o baent, a hynny heb symud y silffoedd y tro nesaf.'

Ac yng ngŵydd y papur wal, a'r holl ddiwylliant yn cael ei adeiladu o'i amgylch, a'r cofgolofnau llwyd a'r esgusodion, llewygu 'wnaeth Len. Ni allai lai. Ac eto, gŵr atletig fu ef gynt. Dyma'r tro cyntaf iddo erioed gyflawni'r fath anfad berfformiad. Mae'n wir iddo fod yn eithriadol brysur yn ddiweddar. Mae'n wir ei fod yn hŷn. Ac mae'n sylfaenol wir mai hanner gwydraid o laeth yn unig a gawsai yn lle brecwast y bore hwnnw. Ac wedyn, dyna'r paratodau dryslyd i'r cynhebrwng, y tyndra, y grisiau cras, a'r cwbl yn ychwanegol at ei ymrwymadau arferol. A'r tragwyddoldeb o risiau diwylliedig.

Gorffennodd ei waith gydag Esther mewn gollyngdod. Yr oedd hi yn ôl yn dwt yn ei mawsolëwm. Llechodd Len adref o'r diwedd wedi ymlâdd. Roedd yn rhaid peidio â chysgu.

Ond ni chaed amser i ymlacio. Ei gymydog, Arthur Jones, y gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a weinyddai'r gwasanaeth yn yr angladd. Rhaid oedd cael gair gydag ef wedyn. Gwyddai am ambell un (Cris Ifans, ficer yn y plwyf nesaf er enghraifft) a oedd yn ddigon

dewr ddwy flynedd yn ôl pan gollodd ei fam i wneud y peth ei hun. Tipyn o frafado oedd hynny: ‘Tystiolaeth’, meddai hwnnw. Ond o ran Len, nid oedd neb yn barotach nag ef i gydnabod ei freuder ffôl ei hun. Cyffesu’i wendid a’i ddiymadferthedd llipa ei hun. Addefai’i annigonolrwydd o hyd. Dyma efallai’i brif briodoledd — sef ei wendid. Dyma efallai, ei gymhwyster gorau i fod yn weinidog.

‘Oni bai i Ti lithro ar ’y nhraws-i ambell dro, ble ar glawr daear fyddwn i?’

Gorlawn oedd y capel. Edrychai’n gyflym o’i gylch. Nid oedd Bertyn na Harold i’w gweld yn un man.

Roedd ei gyfaill, Bill, yr esgob, wedi dod â’i fola. Eisteddai lan yn y sêd fawr gyda’r gweinidogion dihierarci a di-fola prin. Symudodd pawb yn ddiethriad allan i’r fynwent wedyn. Gorlawn oedd honno cyn iddynt gyrraedd. Yn sibrydlyd eu gogwydd doent heibio i Len nawr fel bwganod i gydymdeimlo. Gollyngent ambell air o anwyldeb yn ei glust, heb wybod sut i glosio ato’n iawn. Rhaid fod rhyw barch annealladwy ganddynt ato, neu falchder gerbron y gwan hwyrach, nawddogolrwydd gerbron y profedigaethus, neu ynteu garedigrwydd rhwng cyd-weiniaid tlawd. A math o syberwyd tawel diymatal yn ddiau. Ond pam yn y byd, nis gwyddai. Symudent o’i flaen yn niwlog fel pe bai celli o goed ar bwys wedi mynd ar dân a’i fwg wedi chwythu’n bentyrrau drostynt oll.

Yn ôl o’r briffordd, gryn dri chanllath cyn cyrraedd corff y pentref y safai’i gapel ef. Y tu allan iddo, hysbysfwrdd mawr melyn a di-chwaeth yn cyhoeddi i’r byd a’r betws fod rhaid adnewyddu’r to a phethau eraill yn ddiymdroi, fod y pryf yn y pren, a bod eisiau codi £60,000 yn fuan er mwyn ei adfer i’w hen ogoniant. Eisoed casglwyd £43,536.67c. Ond yr oedd yna ffordd bell i fynd, a’r brwdfrydedd wedi chwythu’i blwc.

‘Mae’r capel acw’n mynd â’i ben iddo,’ yn ôl Daniel Daniels o’r plwyf cyfagos, ewythr Twm. Ond yr oedd hynny ymhell o fod yn wir. Fe’i hadeiladwyd yn wreiddiol ar ddelw mawreddogrwydd banc; ac nid ar chwarae bach y difethai Amser ei allanolion cefnog clandredig. Rhag-weld yr oedd Daniels yr un pryd ddyfodol posibl pe byddent yn ofalus. Awgrymai gynllunio o fewn amodau elw. A diau, gydag amynedd ac ychydig o ddychymyg wrth ddyfeisio ‘digwyddiadau’, y doent i ben ag adnewyddu crefydd yn yr hen blwyf a hynny heb gefnu ar yr hen ddull traddodiadol — cwpaneidiau o de, ambell garnifâl, casglu sbwriel.

Ond baich trymach a ogleisiai ysgwyddau Len Llwyd.

Nepell o’r capel, y fynwent.

Ffurfiol fu'r gair ar lan y bedd. Geiryn. Mantais mewn lle felly oedd ffurfioldeb. Roedd ffurfioldeb yn amddiffyniad. Darllenai Bill un o'r salmau. Yn llais undonog Arthur Jones ar weddi ffurfiol, crynhoid rhyfeddod athrawiaeth yr atgyfodiad fel petai'n farblis coch yn cael eu hel i'w rhoi'n ôl yn eu blwch gwreiddiol. Gwrthrychol weddus oedd y gwirionedd wrth gwrs, fe gredai Len hynny, fel craig; ac nid fel carreg bedd. Cydnabyddai'n gynnil felly arwyddocâd y golled, ond tanlinellwyd cyffredinolrwydd ein tynged oll, fod rhaid i bawb sefyll yn atebol i'r cynllun digyfnawid.

Golchai'i feddyliau ar ôl ei lygaid o gylch y beddau cymdogol gerllaw. Roedd ei deimladau'n gymysglyd o hyd, a'i ymennydd yn ddi-drefn.

Er cof annwyl am Ellen Pritchard. Hunodd Tachwedd 8, 1974, yn 65 ml. oed. Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth ... A wnaeth unrhyw un beth tybed? Er parchus gof am Robert Roberts, gynt o Bonterwyd, 1876-1964. Dyna ef wedi'i anghofio'n llawn. Hefyd am Maggie ei briod, 1872-1964. Roedd yna stori fan yna. Un groes fechan flêr ymhellach draw ar gyfer baban i rywun. Potel wag a adawyd gan rywun arall gerllaw a dwr yn ei gwaelod, yn disgwyl. Ac yna'n ddisyfyd — codai'r gwirionedd fel corff o'r beddau i gyd. Codai murmur o Hosanna yn ei galon. Codai buddugoliaeth. Codai diolch a llawenydd egniol yn ei wddf oherwydd y fath Arglwydd annealladwy. Y fath fywyd gorfoleddus.

Rhyfedd hyn oll hefyd yn angladd ei fam.

Daethai cymdogaeth gron gyfa ynghyd i dalu teyrnged nid yn gymaint i'r ymadawedig ag i'w mab, y gŵr duwiol a chymwynasgar a glân hwn, eu gweinidog cariadus, brenin yr ardal, mor ychydig yr oeddent yn ei adnabod. Teimlai ef gariad y fro yno yn tonni o'i gwmpas fel twyni. Druan ohonynt. Safent yn awr rhwng y beddau bach cyfeillgar, yn unswydd i'w gynnal ef. Uwch eu pennau chwibanai'r haul yn yr awyr yn answyddogol denau.

Tuswau o flodau oren a melyn a gwyn cyfeillgar. Ambell fedd heb ei chwynnu. Potiau gwag.

William Richards, crydd: 'Canys Byw i mi yw Crist a marw sydd elw.' Dirgrynodd Len mewn diolch o'r newydd. Diolchai'n rhy rwydd.

Peniwaered oedd y cyfan, o blygu'i ben. Gwelai'n awr wyneb peniwaered ei frawd iau o Sheffield, Harold, wedi cyrraedd yr angladd wedi'r cyfan ac yn hofran ar ymylon y dorf, gogwyddodd hwnnw'i ben ryw fymryn wrth gydnabod Len, gyda moesyngrymiad peniwaered a fradychai'i awydd i ymddangos yn ostyngedig heb y drafferth ewyllysiol o

gyflawni'r ymddangosiad hwnnw. Sylwai Len, er nad oedd ei frawd yn ysmegu ar y pryd, fod yna sigaréd yn ei law dde yn mudlogi. Ond nid oedd y brawd hynaf, Bertyn, ffermwr ac etifedd Llety Gwili, wedi mentro ar gyfyl y lle.

Doedd Len erioed wedi sylweddoli o'r blaen mor uchel oedd cyfartaledd y beddau heb groesau. Roedd hi fel mynwent beniwaered i Undodwyr. Croes a godai yntau i'w fam, beth bynnag, yn arwydd o'i hunig hawl i'r Nefoedd.

Llwyd a du oedd tri-chwarter y beddau diweddar. Chwyn peniwaered yn lleibio fel chwyn. Rhai meini toredig ymhlith yr hen feddau, ambell un yn pwysu ymlaen, rhai'n pwysu'n ôl. Hen bobl o feddau. A chosmeteg cen drostynt oll. Roedd eisiau lladd y gwair beniwaered hefyd.

Am hynny byddwch chwithau'n barod.

Trueni mai amharod fu Bertyn i ddod yno. Ond roedd Len yn falch fod Harri ... eto, roedd hwnnw hefyd wedi ... ble oedd yntau 'nawr? Ei frawd. A oedd ef wedi diflannu? Wedi picio draw i weld y brawd hynaf o bosib? Ai ceisio'i osgoi ef yr oeddent ill dau? Ai cyd-smygu oedd yn eu bryd, a chwythu cylchoedd er cof am eu mam?

Ac yna, dôi awel garedig heibio drachefn, ac ailganu'r Cyfamod yn ei galon. Disgynnai fel gweledigaeth o oleuni annioddefol. Cerddai gair fel gorymdaith rhwng ei glustiau: 'a'r meirw yng Nghrist a gyfodant yn gyntaf'. Gosodiad di-fwg a hyfryd braf a bwysai ar ei gefn yn annisgwyl yno y funud yna.

Ymlusgai o'r diwedd tuag adref. Adref ac adref. Roedd ef wedi ymlâdd. Roedd olion baich ei fam yn aros ar ei gefn. Pan eisteddasai ei fam ar ei gefn yn gyntaf gynt, bu Len yn rhy gwrtais i wrthdystio. Ac yna, bu ei bloneg hi ar ei ben ef mor hir, a'i ffolennau'n suddo ymledu ac yn suddo ddyfnhau dros ei gernau a'i glustiau mor llawn nes bod yr amser wedi dod o'r diwedd pryd nad oedd yn ymarferol iddo mwyach godi gwich yn erbyn unrhyw fath o fygfa, a'r saim dros ei ffroenau, ei aeliau'n boddi, a'i lwnc yn llawn o orlifo araf anwrthodadwy hir. Yn awr o'r diwedd gallai ymlusgo gan bwyll allan oddi tan y fam ddaear honno yn glir, adref, adref blant afradlon. Gallai'i weld ei hun yn picio adref yn awr. Ac eto nis gwelai. Roedd ef mewn nudden beniwaered, ar ei ben ei hun adref.

Fe'i cuddid ef y munudau hyn yn ei ymennydd gan orchudd llwyd; ac yn wir, ansicr oedd y weithred ddirgel nesaf, rhaid ei fod wedi digwydd yn sydyn, y weithred annealladwy beniwaered, y digwyddiad — os digwyddodd — rywle ar y ffordd adref heb ei fod yn gwbl sicr ohoni, hyn efallai yr oedd wedi bod yn ofnus yn ei gylch ers amser. Dyma'r annisgwyl

disgwyliedig ... Meddyliai am y peth, yn ddiweddarach, mor araf fanwl ac mor ansicr hir. Hyn oedd y peth y bu'n hir ddisgwyl amdano.

Ar y ffordd adref, y bygythiad dirgel.

Dyma'r weithred gudd uwch ei ben yn digwydd. Digwyddodd. Er pwysiced fyddai'r cyfwng iddo, ni allai wybod yn awr beth yn union ydoedd. Roedd wedi digwydd efallai, a hynny fel pe bai ef yn edrych ffordd arall. Yn sydyn fe'i cyhuddwyd ef. Cafodd ei gyhuddo gan dri o fechgyn y wlad yn y fan. 'Chi!' Yn ddisymwth wynebodd y tri ef yn y toiled cyhoeddus — toiled newydd, enwog yr ardal — ar ganol y pentref, a'i gyhuddo. Aroglau cyffuriau yno. Crynodd. Ei gyhuddo. 'Chi!' Beth oeddent yn ei falu? 'Chi!' Troes bywyd ben i waered.

Na, doedd e ddim wedi gwneud dim o'i le yno. Roedd yn siŵr o hynny.

'Chi!'

Yn y toiled! roedd ef yn gyfangwbl siŵr. Roedd yn amhosib. Nhw yn unig ar uchaf eu cloch oedd wedi dyfeisio'r stori. Dyna'r oes i chi: fandaliaid moes a gwirionedd. Ef, o bawb annhebygol.

Dichon, meddyliai, dichon nad oedd wedi sefyll yn ddigon agos at yr wrinfa. Wel, beth oedd arno? Yn meddwl y fath beth! Ond ei ddangos ei hun, na! Yn bendant. Nhw, gan ddawnsio o'i amgylch, oedd yn ceisio'i dynnu i lawr. 'Do! Chi!' Dawnsiai'r ugeinfed ganrif fel gwrrachod o'i ddeutu yn y toiled, dawns y goedwig. Roedd yn gyfan gwbl sicr na fu yna ddim temtasiwn i wneud peth mor blentynnaidd. A siarad â nhw mewn modd amheus, na? Ef! Roedd yn gwbl ddiniwed, ond nid yn wirion. Erioed! Ei arddangos ei hun, ceisio deisyf eu sylw: byth! Deisyf! Dyma obsesiwn yr ugeinfed ganrif ynghylch Rhyw amddifad yn hyrddio o'u cwmpas beniwaered, yr anaeddfedrwydd emosiynol a dyfasai oherwydd chwalu fframwaith gwrthrychol moesol. Heb gyfeillgarwch. Heb garedigrwydd. Rhyw, dyna bellach a dreiglai ym mhobman, yn ddisodlydd i grefydd, yn bwrpas i gyrff. Heb gyd-barch. Rhyw yn y pwddin. A Freud. Rhyw yn y canghennau a'r dail. Rhyw y glaw. Rhyw ar hyd a lled canrif anaeddfed. Heb ymddiriedaeth. Beth oedd ar y bechgyn truin? Rhyw yn dawnsio ym mhob man. Roedd y cyhuddiad ansicr yn wallgof.

Ond roedd e mewn tipyn o niwl llwyd hefyd, yn flinedig, yn gymysglyd, yn ei ddiweidrwydd syml, dan straen, byddai'n barod i gyfaddef hynny. Onid oedd yn bryd i bobl mewn oed dyfu i'w llawn hyd?

'Dŷn ni'n mynd at yr heddlu,' cyhoeddasant.

‘Beth sy’n bod arnoch chi fechgyn?’

‘Hen ddyn brwnt. Chi!’

‘Pam? Beth?’

‘Hau ffeidd-dra! Ie, crefydd!’

‘Beth wnes i?’

Ai hyn fu’r weithred beniwaered a fuasai eisoes yn ei hawntio cyhyd? Ie, hon oedd hi yn sicr. Y tu ôl i’r cornel. Y digwyddiad. O’r diwedd. Dan y cynfasau’r nos. Dirwynwyd ei fuchedd yn ofalus dywyll ond yn benodol ragflaenol i’r pwynt tywyll hwn. Hyn oedd y bygythiad cudd. Dyma ddiwedd y byd.

‘Cewch chi glywed am hyn ’to,’ medden nhw gan chwerthin yn rhwth. ‘Chwarae’n fudr gyda bechgyn ifainc difeddwl-drwg, bechgyn bach dibrofiad fel ni.’

Beth oedd hyn? Allai fod unrhyw rith o wirionedd twp rywle yn y cyhuddiad hwn?

‘Do! Chi!’

Ai erlid sbortlyd oedd hyn? Ai cynllwyn? Pam roedden nhw’n gwneud hyn? Oedd ef wedi bod heb yn wybod yn gymysgryw ei feddwl? Fuodd e’n ddigon agos at yr wrinfa? Ei ddangos ei hun fan yna? Cawsai fodd i’w wneud. Byth! Beth oedden nhw’n feddwl? Ef yn ei lendid croyw a syml.

Ddôï dim o’r fath beth yn agos at ei feddwl o gwbl, hyd yn oed mewn munud o wallgofrwydd blinedig. Ac eto, yn ei flinder a’i iselder a’i gymysgfa ddeallol a oedd am beri iddo chwydu fel pe buasai yna ryw fwyd llwyd yn ei fol, a oedd yna elfen chwil o orffwylledd? Pendro hyd yn oed? Mewn munud hurt, heb yn wybod iddo’i hun, mewn toiled cyhoeddus yn yr ugeinfed ganrif, a wnaeth pob rheolaeth drosto’i hun a phob urddas ymadael ag ef am eiliad? A oedd rhywun arall o’r tu mewn iddo wedi’i feddiannu? Byth!

A hyn oedd y digwyddiad tywyll y bu’n disgwyl amdano yng nghorneli’r dyfodol!

Byth, roedd y bechgyn yn ddeмонаidd. Dawns y goedwig. Breuddwyd gwrrach.

Ymlusgasai yn awr ymlaen heibio i’r Talbot tuag adref, a’u lleisiau ar ei ôl. Roedd yn afradlon ei amheuon oherwydd y lleisiau hyn. Nawr, roedd heb gofio’n union beth a wnaethai. Adref, ac adref. Ni welai neb am ychydig. Y peth cyntaf y bydd dieithryn yn gorfod ymgynabod ag ef yn Llanbiblig yw absenoldeb pobl. Pentref oedd hi a fu’n ganolfan fach amaethyddol ar un adeg. Bu chwarel ar waith gerllaw tua’r un pryd. Ond doedd dim ond tawelwch yno mwyach. Dyna a weddillwyd. Neb! Roedd yna foesau ym mhob man, ond dim pobl. Edrychwch acw. Ofer y byddid yn chwilio am gyrff i fwrw yn eu herbyn

heddiw. Afles oedd ceisio lleisau dynol i beidio â gwrando arnynt. Gwacter y pentref. Heb gyrrff byw. Dyma'r lle gorau yn awr i lygoden fynd ar goll. Pe dymunid sefydlu atomfa heb brotest ar y sgwâr, ni ellid dod i amgenach addewid. Yma, cyniweiriai distawrwydd fel gwynt allan o waith, i mewn i encilfeydd, rhwng y tai lle y pentyrrid hen atgofion yn erbyn y waliau i guddio rhag dychryn unigrwydd. Neb i siarad â nhw nawr, neb i glywed ei wylo. Rhaid bod pawb, nad ymfudasant i Tunbridge Wells (pam Tunbridge Wells?), yn preswyllo dan ddaear. Roedden nhw'n byw'u bywydau'n anhysbys fel dyfrgwn dan wyneb y llyn. Llyn Llygad Piblig. Neb! Caed drysau gan y tai, ond nid âi neb i mewn nac allan. Gellid bod wedi ychwanegu sôn hefyd am absenoldeb strydoedd yn y pentref (yn y lluosog o leiaf). Roedd sgwrs yno yn bur amhosibl fel arfer, o leiaf ar lawr stryd. A doedd dim croesi'r bont isaf gan neb bellach. Yr unig bethau a oedd yn dal pen rheswm â'i gilydd oedd y cŵn, ac eithrio ambell funud anynad, a dôi rhywun allan o dŷ haf yn sydyn. Ac ar unwaith dechreuai'r adar nad oeddent yno ganu. Hiraethai am glust i rannu'i bryder â hi. Roedd y cathod nad oeddent yno yn sgythru oddi tan y draeniau ar ôl llygod dychmygol. Roedd fel pe bai diffiniad o drais wedi ymgrisialu'n awr oherwydd bod ffigur beiddgar unig Len Llwyd ei hun wedi anturio allan i'r gofod, ymsymud ar draws y myrddiynau o filltiroedd wybrennog, yn beryglus o unig ar hyd un stryd y pentref, yn fychan, a fflam yn ei gynffon, cyn llosgi allan ohono a diflannu'n llwch melyn mân yn awr i rywle anhysbys pell y tu hwnt i'r bont a'r gorwel.

Yn sydyn, ar draws yr unigrwydd stryd yno, safai tri dyn unig ar ochr yr hewl yn llewys eu crysau. Roedd y tatŵs ar eu breichiau wedi tyfu'n duswau gleision. Dynion nwy. 'Noswaith dda Mr Llwyd,' meddent wrtho gyda'i gilydd mor sobr â the ac mor dawel ag atal-dweud. Roedd yna bobl yno, felly, ar lawr y stryd. Gweithwyr. Gwenent. Ni ddwedodd ef ddim yn ôl. Mae'n siŵr ei fod yn eu nabod nhw.

Nid yn ymyl y capel y ceid y Mans, ond ym mhen arall y pentref, a braidd ar wahân. Swyddfa'r post o siop tships a gaed ar ganol y pentref. Dyma'r unig siop go iawn ar ôl, ag eithrio un sefydliad bach hollol annhebygol yn nes yn ôl, ar bwys y fynwent, lle y gwerthid blodau. Anodd credu — pe bai rhywrai call yn cynllunio pa fath o ail siop a gaent mewn pentref i hen hen bobl yn y wlad — yr awgrymai neb yn bwyllog siop flodau. Ond felly'r oedd hon, a'i baneri petalog yn nesaf at y toiled cyhoeddus, sef balchder dihafal y cyngor lleol.

Dyna hi lôn y gaer wedyn. Nid lôn ydoedd, ond llwybr i gaer dybiedig na allai neb ddod o hyd iddi. Ceid caer gynhanesyddol ar bwys honno yn rhywle, yn ddiamheuol,



medden nhw. Diogelid y cof amdani hefyd gan enw cae — ‘Cae’r Gaer’, er bod Twm Daniels yn honni (ac fe ddylai ef wybod ar ôl iddo wneud ei gyfnod o wasanaeth milwrol yng Nghyprus) mai dyma’r safle mwyaf diamddiffyn o bobun yn y gymdogaeth, ac mai fferm ac atal dweud arni oedd wedi enwi’r lle.

Ar bwys y gaer absennol, ac yn atodiad iddi, yr oedd yna weddillion coedwig yn casglu’r blynyddoedd. Ymestynnai i fyny’r dyffryn am dair milltir. Lle da i ddawnsio o gylch y prennau. Coed derw, yn bennaf. Safent yn arw fel estyniad mwy dynol i’r gaer fwganus ei hun. Drwy’u bylchau carpiog syllai gwiwerod ar bawb yn hyderus. A gwenent. Dawnsient hwythau yn llon ddigon. Yn ystod Ebrill a Mai ymledai clychau’r gog yn llyn tryloyw gan lepiant rhwng y bonau, a throchai’r awel fyseidd ei thraed ynddo’n synhwyrus. Canent hwythau’n brudd, sut bynnag, dros y plwyf glas. Cysgai adlewyrchiad o’r boncyffion a’r canghennau uwchben yn wyneb y llyn gorlas hwn, yn gysgodion o dywyllwch glas yma ac acw. Neu felly y tybid ar y dechrau, nes sylweddoli mai cysgodion treuliedig dynion oedd y rhain hefyd. A gallai hanesydd o bosib adnabod y cysgodion hyn, o graffu, fel John Hanmer, Rhys ap Gethin a Rhys Ddu. Adeiladwyd y derw oll yn ofalus dros flynyddoedd maith nes bod amser wedi hen galedu ynddynt, gan ymgadarnhau yn eu tyrau. Y tu ôl i’w rhagfuriau a’u gorthyrau, diogelid garsiwn o leisiau pluog. Gellid tybied i’r llyn o glychau glas islaw gael ei fwriadu yn unswydd i fod yn ffos amddiffynnol i’r Gymru hon ac i’r oesoedd a ddelai. Gwenent hwythau. Ac felly yr oedd, yn ddiau. Pam lai? Roedd yn dlws o Gymreig, o leiaf.

Dyma’r her a amddiffynnai’r ugeinfed ganrif rhag anlladrwydd a chywilydd oes a anghofiodd ddaioni breuddwydion llanciau ifainc mewn hunllef gynt.

Beth oedd ar yr hogiau yna?

Roedd hi’n dal yn brynhawn o hyd. Roedd yn gymharol gynnar; ond rhwng y cloddiau ar y ffordd adref, yr oedd yna gysgodion colledig fel pe bai’r dydd eisoes yn ymddihatu, y prynhawn wedi hen golli’i ffordd, y llawr yn ymsiglo ychydig bach fel pe na bai’n gyfan gwbl sad na’r amser chwaith yn hollol sicr ohono’i hun; ac yna’r cwbl wedi’i gau o fewn tawelwch annaturiol.

‘Pam sefyll yn y safle yna fel y gwnes i?’ Gallai’i weld ei hun yn awr yn y toiled. Y toiled enwog cenedlaethol. Balchder y pentref, pan adeiladwyd ef. ‘Dwi’n ceisio ymesgusodi. Roedd fy mhen yn llawn. Roedd gwaith wedi fy llethu i. Doedd dim cyfle i feddwl rhwng y pentwr o gnu gwaedlyd oedd yn llanw ’mhen. Esgusodion Llwyd! Ac eto ...

pam hyn? Erfyn? Fi! Y tipyn bachgennyn diniwed hwn. Mae'n rhaid fod rhyw lygredd anaeddfed yn fymennydd eisoes yn hiraethu am gael ei ollwng pe bawn yn trafferthu i ateb y fath gyhuddiad dwl.'

Roedd y toiled yn siabi ac yn afiach, er yn newydd. Doedd neb wedi taflu dŵr sebonllyd dros y llawr na neb wedi ysgubo'r lle er pan fandaleiddiwyd ef. Roedd yna ddyfnder yno, haenen ar ôl haenen, o ddrewdod melys dwfn. Adeilad fwlgar a chyfyng oedd, tywyll ac anghroesawus, wedi'i esgeuluso. Roedd mentro i mewn iddo yn fudr yn y geg ac yn angharedig i'r ffroenau. Adeilad diweddar oedd a chwenychai chwydu, ond a fethai.

Ymlusgai'n araf ac yn chwydlyd tuag adref, gan astudio'r ddaear beniwaered fel pe bai newydd ei darganfod.

Roedd ef wedi drysu, a hynny yn nhoiled cyhoeddus yr ugeinfed ganrif.

Beth 'wnelai'r hogiau 'na, tybed? Gweiddi o bennau'r toi? Cyhuddo. Pa gelwyddau? Eto, hyn y byddai pobl yn ei gofio bob amser. Am hyn y câi ef ei enw. Yr hen ŵr budr. Canolbwyntiai'r bobl oll ar hyn fel dant rhydd. Bob tro pan gyfarfyddent ag ef, dychmygai'r bobl ef yn gwneud hyn. Ar y ffordd adref mewn toiled, a'i feddwl fel syrcais, rhwng y fynwent a'r Mans, yr oedd hyn yn hofran o hyd. Ac o hyn ymlaen, pan ymwelai â chartrefi'i gynulleidfa, gallai'r bobl fod yn glên ac yn groesawgar; cuddient y pennawd yn y papur newydd, siaradai'r bobl am eu plant eu hun yn ceisio am swyddi, am ddywediadau smala'r wyrion; clebrai'r bobl am helyntion y Prifweinidog druan, ond yng nghefn eu meddyliau drwy'r amser hyd ei fedd, hyn yn lleol, ar y ffordd adref a hawntiai'u meddyliau. Dyma'i fathodyn. 'Gweinidog y toiled.' Rhwng y fynwent a'r Mans. Ni châi fynd i unman heb bobl. Byddai'n rhwystredigaeth anymwybodol bob amser arno. Dyma'i label. Bob tro pan gyfarfyddent ag ef, hyn a rôl ffrâm i'w fodolaeth o hyn ymlaen gerbron pobl. Y Parchedig Doiled. Nis anghofient byth. Gallai'i weld ei hun yn awr yn ei henaint amheus. Yn gomom. Munud hurt o syrcais fwlgar y bobl ar y ffordd adref.

A'r bechgyn barbaraid hynny, pam y gwnaethan nhw'r fath gamwri? Pam ei gyhuddo ef mor anwar? A oedd crefydd bellach i'r genhedlaeth hon yn gymaint o elyn? Doedd e ddim wedi gwneud dim o'i le, am hynny roedd yn sicr, os gallai fod yn sicr o ddim, a'i ymennydd mor fyglyd oherwydd pryder yr amseroedd iddo. Mewn byd bach fel Llanbiblig roedd digwyddiad fel hyn yn hafal i rithiau Hanes. Ar ôl i rywbeth ddigwydd mewn adroddiad swyddogol, Hanes yw e. Ie, meddai wrtho'i hun, peth y mae haneswyr yn meddwl sy wedi 'digwydd' yw Hanes, heb ystyr, heb gydbwysedd, druan ohonyn nhw, a ni.

A hongiai'r sefyllfa drosto ym mhobman. Dymunai ef ei heglu hi. Parai iddo nawr encilio i ryw ogof fewnol i dynnu'i lun ei hun ar y pared ar ffurf carw'n cael ei hela. Mi a awn i hela carw. Hyn! Ni allai yngan y peth: yr oedd mor anfeidrol bell o'i gymeriad rywsut, mor bell o'i ystyr. Gymaint o ffŵl fuodd e. Wedi'i ddrysu roedd ef ar y pryd, mae'n rhaid, a'i falchder blonegog yn jibidêrs. Byddai'n rhaid iddo fyw gyda hyn bob amser mwyach, ar air y bechgyn. Hyn fyddai'n cael ei gysylltu ag ef nes ei gladdu. Yn wir, *wedi'i* gladdu; druan ohono medden nhw, dych chi'n ei gofio fe? Dych chi'n cofio beth 'wnaeth y gwirionyn? Hyn fyddai yn eu meddwl. Yr un peth. Y ffŵl gorffwyll. Roedd ef wedi'i gladdu eisoes, a phobl yn siarad ar ei ôl. Beth bynnag arall a wnaethai o'r blaen, ta faint o gymwynasau, beth bynnag fu cywirdeb ei fuchedd ac uniondeb ei athrawiaeth a'i dystiolaeth gariadus, ni phensynnid am ddim arall ond yr hurtrwydd amhosibl hwn ar y ffordd adref. Diau y codent eu sgidiau i'w harchwilio ar ôl iddo basio rhag eu bod wedi sathru ar ei gysgod. Roedd ef wedi bod o'i go'n lân, wedi colli pob rheolaeth drosto'i hun, mae'n rhaid; ac am iddo ymweld â thoiled yr oedd yn euog. Doedd dim mwg ... Rhaid bod rhywbeth gwir ddieflig wedi'i feddiannu ar y ffordd adref.

Beth oedd yn corddi'r bechgyn? Tri!

Mor bwysig oedd hi iddo ddal ati i garu'r llanciau hyn. Cariad, cariad. Y peth cyflawn cyfoethog hwnnw, y peth y ceisiai cynifer o'i gyfoedion ddianc rhag ei fin. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, ymaflwyd ynddo, yn y trysor disgybledig melys hwn, blingwyd ef, tynnwyd cyfeillgarwch allan ohono. Cystwywyd, darniwyd ef, lluchio parch, a'i blisgo, sarhawyd ymostyngiad. Budreddwyd serch hefyd, benbwygilydd, fe daflwyd ei flodeudorch bregus i'r carthffosydd. Mor rhwydd oedd i hoffter gael ei sathru. Mor naturiol i'r llanciau hyn gael eu hamddifadu o'r prydferthwch hwn, a thyfu mewn amgylchfyd heb dynerwch nac aberth ffyddlon na charedigrwydd. Cydiwyd felly yn ysgafn yn yr un peth aruchel unig hwn: cariad. Y peth cysegredig a mawrhydig hwn. A gollyngwyd baw hirfaith arno. Fe'i bychanwyd, a'i ddifrio a'i drosi a'i adael yn amddifadrwydd yr ugeinfed ganrif.

Hunllef ydoedd heddiw, yn ddiau, afrealedd, ffigurau llencynnaidd yn dawnsio fel ellyllon coedwig, celwyddau fel fflamau, gwawdluniau o alluoedd y fall, wynebau Dürer, udfa cŵn, wylofain croch ei wythiennau. Hyn oll oedd gwrthrych ei bryder diwrthrych.

Dechreuai hi lawio.

Nid 'fe': 'hi'. Nid glaw diamwys a fyddai'n hoelio'r llawr yn sicr yn y ddaear, nid glaw taclus yn gyrru i mewn i'r pridd gan wybod ble'r oedd yn mynd. Ond niwl o law tew,

llydan, ansicr a dienaidd fel yr awyr ei hun i'w hanadlu. A 'hi' oedd y fam. Glaw a oedd yn rhan o fywyd. 'Hi' oedd y cyffredinol. Amgylchfyd o law fel gwawn am y mieri yn y gwrychoedd, yn suddo o'r cymylau yn y ffriddoedd, yn hongian am grafat y cyfandir. Atgofion o law heb yr un sŵn. Eto, glaw obsesiynol Cymreig a oedd yn llenwi'r clustiau. Presenoldeb llethol, hylud, ysgrawlingaidd, trwm ohono'i hun, yn y ffroenau, rhwng y dannedd, yn rhedeg i lawr gwegil ac ysgwyddau, o dan geseiliau, yn llaith yn toddi'r bydysawd oll yn ei ddyfalwch chwyslyd.

Beth yfflon oedd y pwynt o lawio ar Lanbiblig? Doedd dim byd yno i'w wlychu a'i lanhau mwyach. O'r braidd bod yna bobl hyd yn oed. O'r braidd bod yna bentref ar ôl, go iawn. Pobl o'r ffermydd cyfagos oedd y rhan fwyaf o aelodau Len. A hen breswylwyr y tai haf gwag. Doedd hi ddim fel pe bai'r lle'n awyddu am dyfu pethau. Saethai'r awyr ei chynnyrch afiach yn fân ac yn fuan tuag at y llawr syrffedus, ond yn gwbl ddbwrpas. Yr oedd diflandod treuliedig y ddaear yn y lle hwn yn goddef y dilyw diliw hwn mewn difaterwch cyfareddol.

'Beth yw'r elyniaeth 'ma tuag ata-i? Beth oedd ar y bechgyn? Beth oedd arna i? Ydy eu rhagfarnau mor orffwyll o eithafol? A pham fi? Pam fywyd?'

O leiaf, ni châi Mair yn Awstralia bell byth glywed am y ffiasgo hwn ... Ac eto ddi Mair yno ato nawr, y funud yma, yn feddyliol. Cerddai hi i mewn i'w galon, yn wyn, yn oleuni. Roedd y profiad gyda'r bechgyn yna yn y toiled, a'r holl ganlyniadau tebygol hysterig, mor ddiraddiol. Fe'i gwnaethpwyd ef yno yn faw. Ni chofiai ef waeth iseldra erioed. Ond hyn, Mair! Dyna wahaniaeth rhwng glendid a bryntni daear. Yn awr, yr oedd ef wedi cerdded i mewn i gylch pefriol o oleuni. Teimlai ef mor aruthr lân yn ei phresenoldeb. Ond, wrth gwrs y'i clywai hi. Roedd ganddi deulu o hyd yng Nghymru, rhywrai heb fod nepell o'r ardal hon. Oni sgrifennen nhw ati? A dyna Jenni Huws wedyn, a glywai hi? ac Esther Elias, fel dwy wefus i'r un amheuaeth, fe'i clywent hwy yn bendifaddau, erbyn heno, a Cris Ifans, a'r Alwyn Brown naif a diniwed yna yn hiraethu am chwarae ar y Sul druan, a'i ffrind Prifysgol ef ei hun, Bill, yr esgob, a'i frawd Bertyn, a phawb bron. Harri bach. Pawb! Yr orymdaith ogoneddus. Na, heb eithriad, doedd dim ymwarded. Mae'n dda o leiaf fod ei fam wedi'i chladdu. Gwelai wynebaw cystwyedig yr erlidwyr, — palff o sgweier wrth gwrs, llawer ysgogyn rhygyngedig, aml goegen gorniog, wedi dod o uffern fel gwawdluniau gydag udfa'r cŵn a'r wylofain croch. Cloffai tuag adref. A phob cam o'r ffordd, cam oedd ymhellach i mewn i goedwig dywyll. Tal a deiliog o dywyll oedd y boncyffion o'i ddeutu.

Estynnent geinciau cramennog i'w amgáu a'i ddala. Oni haeddai hyn? Hyn o dywyllwch oedd ei adeiladwaith ei hun. Ceisiai'i gyfiawnhau'i hun. Ceisiai ystyr i'w fodolaeth. Yn y bôn, ychydig y gallai'i roi i eraill; i'r byd. Ond gallai roi ei gariad, yn nannedd pob casineb. Roedd tipyn go lew o hwnnw ganddo ar ôl. Derbynai yntau gymwynasau ei hun, wrth gwrs. Derbynai wasanaeth a chymorth. A sylweddolai mor brin oedd ei gymwynasau ef yn ôl i eraill. Ond gallent wybod ei gariad ymostyngol ac ymarferol. Roedd hyn yn rhodd werthfawrocach nag a sylweddolai ei hun. A rhoi fyddai'n rhaid iddo ef mwyach, yng nghanol pob lladrad.

Hoffai pawb oll gael eu caru. Ac iddo ef yr oedd hyn o hyd yn bosib. Dyna'i ddawn a'i raid. Gallai ef rannu'i hoffterau ffrwythlon, fe wyddai, gan ei fod yn mwynhau sylwi ar bosibilrwydd yr anghenion a'i hamgylchai. Medrai faddau. A medrai ef yn gymharol hylaw amgylchu'r bobl yr ymwnâi â hwy â'i gariad diwarafun di-hawl ... Ond Mair!

Aroglau absenoldeb llwm oedd lond y tŷ pan gyrhaeddodd adref yn y Mans. Mud a llwm oedd fel pe na bai neb o gwbl yn preswyllo yno. Ail Lyn Llygad Piblig. Roedd yr absenoldeb araul yn y gegin ac yn yr ystafell ymolchi yn taflu cysgod dros y twll-dan-stâr. Neb! Anadlai'r un absenoldeb llwm drachefn yn y llyfrgell. Neb oll! Eisteddai hefyd ar y cadeiriau yn y parlwr gan symud o'r naill i'r llall yn anesmwyth. O'r herwydd canfyddai Len ychydig o smotiau llwch bras drwy drwch y carpedi, fel pe bai hynny wedi gorwedd yno'n ddiymyrraeth ers oesoedd. Y ffŵl! Nid oedd neb yno wedi agor na chau'r llenni erioed, a hongient yn llipa lwm wedi cyrllo ychydig ar y godreon gan gymysgedd o heulwen a thamprwydd. Llwydni blwng a dreiddiai i'r ffroenau wrth symud drwy'r ystafelloedd yno, ac roedd yr awyr lwyd yn llonydd ddigyffro, yn blymaidd hyd yn oed ac yn oer. Neb! Bwriadwyd y tŷ, i'r hen-lanc hwn yn unig, ac i beidio ag anadlu ynddo gan neb arall.

Felly dillad y gweinidog yntau, yn stond yn y wardrob heb neb ynddynt, neb yn eu hanadlu hwythau chwaith. Roedd rhyw sawr hynafol arnynt a rhewllyd. Gallent hwythau, o ysgwyd ychydig ar lynnau'r crebwyll, hefyd fod yn dŷ hawntiedig, yn bentref gwag o breswylwyr. Dillad hen lanc ymadawedig oedd yno, a rhywun newydd eu darganfod. Neb!

Doedd ef erioed wedi sylweddoli hyn oll i'r un graddau o'r blaen.

Beth wnawn ni â'r rhain, te? Druan ohono. Faint gynigiwch chi? Ac am ei sgidiau brownddu, ni welsai'r rheina chwaith na chwyr na brws er pan brynwyd hwy ddeng mlynedd blinderus ynghynt. Ei atgofion? Faint? Pwy fyn y rhain, tybed? Bu'r rhain oll yn eiddo i rywun. Ni byddai'n gwbl anaddas i gyfrif mai gweddillion rhyw weinidog arall o'r

bedwaredd ganrif ar bymtheg oedden nhw, un a fu'n trigo yno rywdro ynghynt, un a ffoes, un nad oedd erioed wedi cael ei eni i'r oes oleuedig hon. Yr oedd yn bryd ymwarded â'i holl weddillion bellach.

Eisteddai'n anghymharus yno. Cerddai. Ac eisteddai drachefn. Cerddai. Ac roedd hi'n nos arno. Âi am dro araf, i fyny tua Chae'r Gaer. Yn araf y baglai. Ond synhwyrar ymhen hanner milltir fod yna fechgyn yn ei ddilyn yn llechwraidd. Tri oedd yno. Cysgodion. Cyflymai'i gamre heb yn wybod iddo. Rhedai i fyny tua'r coed. Troes tua'r dwyrain i mewn i'r goedwig. Rhedai ynghynt. Tybiai eu bod yn ei ganlyn o hyd. Trôi eto. Clywai eu lleisiau. Clywai weiddi hefyd o bell, a chrïo. 'Len, Len.' Llais Mair? Roedd y sŵn fel plant yn cael eu treisio. Sgrechai babanod diymadferth y groth. 'Nage, nage, mam.' Clywai sloganau pornograffaid ar y llwyni. Cerddai. Gwelai ef oleuadau aflan yno. Roedd ef wedi colli'i ffordd, ac yn nesu bellach at Lyn Llygad Piblig. Rhedai, rhedai. Roedd gwragedd yn gadael eu gwŷr heddiw ar bob llaw, er mwyn rhedeg i rywle ac yn llefain o'i amgylch. Roedd gwŷr heb anrhydeddu'u gwragedd. Rhedai rhagddynt. Roedd eu hwylo yn hongian amdano heddiw, yn ddafnau dros ei wegil. Rhedai rhag y rhai a oedd yn hel puteiniaid, a rhag y gwŷr ifainc a ymdrybaeddai mewn mochyndra. Rhedai a rhedai byth nes i'r holl sŵn diflas welwi'r oes megis sibrwd claf yn y pellter.

A stopiai. Suddai. Eisteddai ar garreg fawr. Ei wyneb yn galed. A straen yn cywasgu'i lygaid wrth iddo geisio dod o hyd i ystyr y tipyn ugeinfed ganrif.

Ceisiai feddwl ble y gallai fynd. Gallai fynd at ei frawd ifanc a oedd yn byw yn Lloegr. Ond roedd Lloegr bob amser yn ateb rhy rwydd. Gallai fynd at ei frawd hynaf a oedd yn byw ar fferm gyfagos. Ond doedd dim Cymraeg rhyngddynt yn y fan yna, y dyddiau hyn. Efallai y byddai'i hwnnw'n lleddfdu pe bai yn sylweddoli'i fod yntau yn amharchus ac mewn cywilydd bellach. Neu gallai ffoi ymhell bell, y tu hwnt i bob gwybod, y tu hwnt i ddychymyg. I Ynysoedd Môr y De. Gallai weithio yno fel cenhadwr. Neu Tahiti. Neu Awstralia: roedd mawr angen cenhadu yn y fan yna yn ôl fel y clywai bethau.

Roedd ef fel plentyn ar goll. A chofiai am ddywediad mwyn ei fam pan oedd yn blentyn. 'Os byddi di'n mynd ar goll, aros di lle'r wyt ti. Paid â symud.' A meddyliai ef yn dawel, 'Roedd hi'n ddoeth pan oedd hi'n fyw. Mae'n dal yn ddoeth o hyd yn farw.'

Ac arhosodd. Yn dawel. Aros gyda'i fam.

Heddlu, ffurflenni, datganiadau, y ffôn, ffrindiau, gelynion. Er nad yn y drefn yna.

‘Ffurfioldeb yw hyn, syr. Mae’n rhaid inni fynd drwy’r rigmarôl.’

Ond âi math o rigmarôl drwy’r gymdogaeth oll.

Treiglai tipyn go lew o waed mewn ton ar ôl ton dan ryw bont neu’i gilydd yn ystod dau ddiwrnod hir. Dylif ydoedd, ar ryw olwg — mewn gwniadur.

‘Esgusodwch ni, syr. Dim ond casglu manylion.’

Ddau ddiwrnod wedyn dyma’i brif ofn cnawdol drwy’r drws: Llais y Sais. Dechreuai’r stori, neu’r is-stori, neu’r is-is-stori ar yr ail dudalen â’r pennawd bras ‘Ficer yn ei ddadlennu’i hun?’ Ficer yn wir! Pumdeg pump oed. (Pumdeg saith ydoedd.) Yn y gymdogaeth ers dros bum mlynedd ar hugain. (ugain)

Roedden nhw wedi sillafu’i enw ar gam: Lloyd. Nid pawb sy mor ffodus.

Clywai gilchwerthin plant fel daffodiliau’n sglefrio i lawr llethr. Manylion anghywir eraill! Y tu allan i borth y ffrynt y chwaraeent, ac wedyn hyrddio chwerthin adref wrth iddynt ei heglu hi ar hyd yr heol. Sut y gallai ef wybod nad amdano ef yr oeddent yn chwerthin? Rhuglai’r chwerthin hwnnw nawr fel dannedd epil hyena yn llwnc pentref gwag.

Doedd fawr o sôn mai dod adref o angladd ei fam yr oedd ar y pryd. Doedd fawr o sôn am ei feddwl helbulus a’i deimpladau marw, fawr sôn am y blynyddoedd o wasanaeth i’r gymuned, fawr chwaith amdano’n llewygu’r bore hwnnw, fawr o gwbl am ei hoffter ymarferol o’i braidd ac o’r rhai y tu allan i’r praidd. Ond yn sicr, doedd dim un amheuaeth heddiw am glebr y bechgyn. Y tri fel ei gilydd. Hyn yn unig ac yn benodol ddiamheuaeth mewn toiled cyhoeddus oedd ei ystyr a’i fodolaeth oll bellach. Dyna oedd ef yn awr, yr uchafbwynt, yr unigbwynt yn ei fuchedd a’i crynhôl.

Oedd hyn i gyd yn *wir*? Cyn gwrando’r achos. Onid oedd yn y papurau?

Roedd ei fywyd oll yn y fan yna yn ffradach mewn eiliad, mewn celwydd diymadferth o wallgof, — y cyfan yn rhacs jibidêrs. Mewn toiled cyhoeddus yn anad unlle ceid diffyg arwyddocâd, a’r rhesi o bobl gyfiawn, wedi cribo’u gwallt, yn eistedd yn gyfiawn ar eu seddau yno, ac wedi ymolchi fel nad oedd llychyn o faw y tu ôl i’w clustiau, na baw ar eu cydwybodau a’u llygaid gwag glân fel alwminiwm, yn syllu oll arno yn y toiled dychmygol hwnnw uwchben eu teis a’u hetiau hyd ddiwedd ei oes drwy wreichion

gwenwynlyd cyfiawn yn amllder eu rhesi barn.

‘O! mam. O! Mair.’

A’r parch tuag ato, nad oedd ef wedi malio amdano erioed, yn ymdrybaeddu yn yr wrin. Ei gywirdeb yn wir yn gwaedu’n frown gomon ar hyd y palmant, y boneddigeiddrwydd yn grechwen ac yn watwar melyn yr holl ffordd adref, pob cwrteisi a chyfeillgarwch gwlyb a chywirdeb yn dom, a’r cwbl oll oherwydd bechgyn anwireddus maleisus.

Onid tlws oedd y greadigaeth a glân?

Byddai’i ffrindiau gorau’n ei amau mwyach am byth.

Neithiwr, bu’n rhedeg drwy’i gwsg hyd briffyrdd a cheulannau Llanbiblig, tan chwifio cloch yn ei law a chan weiddi Pla! Pla! Pla! Mor annodweddiadol o ddiurddas! Mor annealladwy o blentynnaidd! Mor ddi-ynganiad! A fyddai rhywrai’n sibrawd y ddeusill ‘hubris’ rywdro? Traha, balchder wedi syrthio. Ac ai gwir hynny amdano?

Ie. Roedd hi yn y papurau. Rhaid ei bod yn wir.

Swil ac encilgar oedd, roedd hynny’n siŵr. Mi gyfrifai pobl hynny’n falchder o bosib — hyd yn oed yn draheustra. Wel, croeso iddynt. Ac eto, mewn ffordd wylaidd bu yntau ar dro ynghynt yn dawel-falch hefyd, yn falch bod ei gyfeillion yn hoff ohono, yn falch ddiolchgar iddo gael ei gynnal i fod yn unplyg mor hir heb ymadael â’r enwad. Roedd yn cyhoeddi’r efengyl yn ddigymrodedd ac yn ddiflwyn ar dafod, ac eto heb ddigio odid neb yn gnawdol, heb dramgwyddo, mewn gwlad a oedd yn gnawdol ddi-gred, yn falch ei fod wedi gallu ymdopi yn barchus heb fawr o gyflog, yn rhy falch hefyd am iddo feithrin ei ddiwylliant er tloted oedd ei fyd ariannol.

Canrif oedd hi a faglwyd gan Ryw amddifad. Fe’i tlodwyd gan gulni corff. Trawsffurfiwyd gwerth pobl. Yn lle amllder cyfoeth eu cyneddfau, fe’u blingwyd hwy, ac yntau bellach wedi’i flingo gyda hwy. A’r hyn a flingwyd yn bennaf oedd yr ymwybod o fod yn berson cyflawn, ac o berthynas ddofn.

‘Fedra-i byth fod yn ŵr cwbl lân. Ond mi fedra-i fod yn ŵr glân methodig.’

Ei lyfrgell recordiau o gerddoriaeth glasurol, fe fu honno’n falchder cnawdol iddo hefyd, nes i’r cryno-ddisgiau feddiannu’r maes. Ac nid y pethau amlwg yn unig. Onid oedd ef wedi ychwanegu ‘Trillo del Diavolo’ gan Giuseppe Tartini yr wythnos diwethaf? A mis yn ôl cafodd ef ‘Cantiones Sacrae’ Sweelinck. Arbenigasai am gyfnod ar Pergolesi, a bu yng Nghaerdydd, hyd yn oed, yn darlithio arno, gydag enghreifftiau o ‘La Serva Padrona’ a



‘L’Olimpiade.’ Dyma’i fyd ef. Dussek, Clementi, Gretry, Lassus, Rameau, hyd y gallai fforddio. Pobl oeddent na wyddai neb o’i braidd amdanynt efallai — neb, yn sicr, o’r ardal hon, — er gwyched oeddent. Ond gwyddai ef yn orfoleddus am eu bywyd a’u cysylltiadau cerddorol, gallai sôn yn ddadansoddol am ddehongliadau amrywiol o’u gwaith, ac yn anad dim câi flas anacademaidd ynddynt, hollol naturiol esthetig wrth eu lleibio i’w grombil.

Swydd gyhoeddus oedd ei eiddo ef serch hynny: swydd gymdeithasol esiamplig ar gyfer pob haenen yn y gymuned. Ac roedd ef felly yn fath o adeilad neilltuedig ar ganol y sgwâr hyd yn oed pan nad oedd yn ymwybodol ei fod yn y golwg. Dôi pobl a’i gylchu, ac edrych i fyny at y cloc uchel a gwyn ar ei dŵr i siecio a oedd yr amser yn gywir neu beidio, yn gyhoeddus. Ef oedd bob amser yn gywir.

Adeilad cyhoeddus felly ydoedd. Yna, llithrai ambell un i mewn iddo i ysgarthu.

Oedd, yr oedd yn llygad ei le ac yr oedd yna beth traha ynndo, yn ddiamau. Y gweinidog teidi diwylliedig, parchedig ac unionsyth wareiddiedig wedi’i chwalu. Yr uchelderau difrifddwys wedi’u llorio. Gymaint o wawd. Gymaint o gelwydd.

Dyna beth o’i gwmp. Gŵr a gefnogai bob achos gweddus, ac a bregethai’r efengyl yn ei phurdeb heb chwaraeyddiaeth o ffdlan dynol. Bu’n sagrafennaidd briodol yn ei bwyslais ar barch at y greadigaeth, eithr yn athrawiaethol ddiwygiedig yr un pryd yn ei olwg ar iachawdwriaeth ddichwarae, yn radicalaidd yn ei gymhwysiad ymarferol. Bu’n garismatig ei serchiadau, ac yn eciwmenaidd addas yn yr ystyr ei fod yn tynnu o hyd oddi ar athrawiaethau clasurol yr oesoedd heb unigolyddiaeth oddrychol i ddryllio’r eglwysi, ond heb gynllwynio gweinyddol chwaith. Hwn yn grwn a oedd wedi disgyn i lawr bellach oddi ar ei uchelderau parchus! Clec! Yn gyhoeddus.

O! Fel y byddai’r gwagfyd hwnnw bellach yn falch! Mymryn o weinidog amherthnasol *passé*. Dyna fêl selog ar fysedd salw. Gwenwyn pur oedd y chwegair newyddiadurol o flêr hyn ac fe’i drylliai’n lân: ‘Ficer yn ei ddadlennu’i hun.’

Medrai am ryw ychydig o funudau gyd-deimlo â’r sawl a ddymunai, ar waelod pwell cul, ei ladd ei hun. Hawdd bellach oedd deall hwnnw wedi’i orthrechu gan yr wybodaeth nad oedd gwella. Nid oedd mewn gwirionedd na ffydd na gobaith na chariad a allai wrthbwysio nerth digyfaddawd ei wendid. Nid arhosai namyn suddo o’i flaen i fraw, fel pe buasai’n ddi-gred, i waddod anobaith ac i seithugrwydd haearnaidd ... Plop! Roedd ef wedi’i ladd ei hun yn ei feddwl. Rhan ydoedd o fyd y papurach.

‘Fedra i byth wynebu’r un enaid byw.’

‘Fi,’ sibrydai llais uwch ei ben, yn ysgafn fel iâr-fach-yr-haf yn ymddihatru o’i chwiler. ‘Fi,’ meddai’r tusw llwch gerllaw mewn cywilydd ar y dodrefn, megis adlais.

Suddodd Len Llwyd ar ei liniau o flaen Hwn. Yn araf, ac yn ôl drosto nawr, llifai popeth, y mynych air annoeth, y methiant i’w roi ei hun i eraill yn ddigon aml, chwantau’i lygaid, y tewi pan *ddylai* siarad, dychmygion annheilwng uchel-eu-cloch pan *na* ddylai siarad, y rhewi yn ei brofiad, y condemnio neu’r amau byrbwyll, y diogi mewnol cyson: dyma’r diffiniad glân gloyw ohono. Ond hyn, dyma'r un peth nas gwnaethai!

‘Fi,’ meddai’r llais hwnnw drachefn.

‘Mewn hawnt a oedd yn ddigon adnabyddus oherwydd gwrywgydwyr: efô!’ Dawnsiai Anwiredd newyddiadurol o’i amgylch gan chwifio’i lun, â’i fawd wrth ei drwyn.

A Thi, fy Iachawdwr! Yr esgeulustod mynych ohonot gennyf, yr hunanddyrchafu a’r diffyg ymddiriedaeth, yr anwybyddu a’r anghofio, y fi llwgr, y segurddod ysbrydol, y pellter, y diffyg gweddi, y gwamalu yn Dy air, yr hunanoldeb aml ynghylch fy chwantau fy hun: dyma ychwaneg iti o ddiffiniad ohono-i — gwenwyn ar led y papurau.

Gan bwyll, fe’i gwelai ei hun yn union fel yr oedd. Roedd yn ddi-nod hunan-ganolog, yn unig, ac yn ffug-bwysig yn ei weithredoedd allanol, heb ymrwymiad unplyg. Roedd wedi rhoi llawer gormod o sylw i’r gorchwyl o ddwrдио’r praidd. Roedd wedi tybied y gallai eu beirniadu’n well nag y gallent hwy ei feirniadu ef. A phwysleisiai fel petai yn brif ddiffyg ar eu buchedd unrhyw amharodrwydd i gefnogi’r cyfarfodydd dieneiniad, hirfaith, anniddorol, llwyd y bu ef yn gyfrifol amdanynt. Er mwyn eu sancteiddio! Dyna’i gyswllt cadarn â’i bobl. Heb ddigon o fawl i’w Arglwydd, beiai ddyn, gan ganoli sylw ar y negyddol. Am fod argyhoeddi wedi mynd yn drech nag addoli, methasai â chyflwyno Crist yn berson dwyfol agos cyson. Ac roedd cyfiawnhad wedi disodli sancteiddhad yn grwn. Popeth o’i le. Gorwedda fel rhecsyn gwlyb ... ar lawr toiled.

Yn awr, câi’r praidd syllu arno ar lawr, yn y biswail, ar ei fol. Roedd y coler ci am ei wddf yn dweud calon y gwir amdano. Ci fu ef, ci fydd ef, mwngrel mwyn, rhywbeth i daflu cerrig ato. Creadur i anrhydeddu postyn.

Plisgwyd Rhyw oll wrth gwrs gan y ganrif. Fe’i hamddifadwyd o’i lawnder. Bellach, fan yna, y mae’r hen beth yn sefyllian yn unig fain ar gornel dywyll. Dan lamp wedi’i diffodd. Mewn carpiâu y mae’n oedi, heb wybod ble i droi. Llefain yw ei *forte* yn hunan dosturiol. Ni wŷr Rhyw sut y gall gyrraedd yr iechyd llawn-dwf sydd i fod yn eiddo i berson aeddfed dynol. Ac ar y gornel y saif o hyd dan y golau coch diffoddedig tan grynu’n oer.

Gwyrddrowyd ei bwysigrwydd oll oherwydd ei unigedd dynol.

Canai'i ymennydd glychau i'w deimladau heb alw neb i'r oedfa.

Y ffôn! Llais isel. 'Beth amdani — heddiw?' Hý! hý! hý! Beth amdani?

Ffoi a hoffai nawr. Nid yn unig ffoi rhag y gymdogaeth, ond ffoi rhagddo'i hun, allan ohono'i hun, i bellterau'r ddaear, byth. Ffoi hefyd rhag y ffoi ei hun. I Awstralia efallai, byddai hynny'n bell o leiaf. Ffoi i lawr y lôn ac ar hyd glan yr afon, gan osgoi pob tŷ a thwlc, ffoi heibio i'r gwartheg, nad oeddent mwyach ond peiriannau llaeth yn pori yn y wlad, i'r trê, ac ymguddio mewn bywydfad ar ryw long swnllyd i'r pellterau, dros y cefnfor i ben draw'r Cread, ffoi, ffoi fel carw o chwedl yn yr Oesoedd Canol.

Ac i gyfandir Mair, efallai.

Canodd y ffôn. Nis atebodd.

Ond yn ddisymwth fel angau bychan daeth carreg fechan hollol ddisylw drwy ffenest y parlwr. Beth oedd ar ei feddwl? Carreg! Beth yw carreg? Yna, yng nghefn y tŷ bron yr un pryd, angau arall efallai, mwy ei faint feddyliai, drwy ffenest y gegin. Beth oedd hyn? Gwallgofrwydd? Roedd rhywrai'n ffyrnig yn ei erbyn. Dychymyg. Na, doedd neb yno. Roedd rhywun dwl yn taflu cerrig yn ei feddwl. Ond pam mor gwbl eithafol? Oedd y byd wedi mynd yn wallgof? Pam y fath fandaliaeth felodramatig? Os erlid, yna roedd yna ryw anghydbwysedd yn hyn, rhywbeth gwirion gormodol, dros ben llestri. Pam? Sut? Ynteu ai dychmygu yr oedd? Hawdd fyddai deall hynny efallai. Ymddiriedaeth. Ef oedd y person hwnnw yn y gymdeithas y dylid ymddiried ynddo, y sant. Dylid disgwyl y byddai'n gyhoeddus lân ac yn hunan-ddisgybledig, ac yn anad dim yn oedolyn. Ni ellid llai na bod yn siomedig ynddo, ac yn fwy na siomedig yn chwerw ac yn ddig.

'Rwyt Ti yn llygad Dy le yn ôl D'arfer,' gwaeddai'i lwnc. 'Roedd eisiau hyn arna i. Roeddwn i wedi mynd yn rhy hunanfodlon o lawer. Roedd mawr angen diberfeddu.' Teimlai'r cerrig mân ar groen y tŷ, fel gwaeddau gan y bobl yna a fyddai'n ymgasglu wrth lysoedd i sgrechain ac i siglo dyrnau ar y cyhuddedig ymhell cyn ei brofi'n euog — neu beidio. Dryllio, dyna oedd orau drwy'i feddwl benbwgilydd. Peidio â gadael i'r hen galon ymbluo ar ei orsedd. I lawr â hi te. I lawr. Tyn y baneri i lawr. I lawr â'r plu hefyd. Dinoetha'r castell. Mor wyllt ffyrnig y mae balchder yn gallu bod yn y perfedd hwn. I lawr, dwi'n ddweud. Tydi sy'n gwybod. Ti sy'n fy nabod. I lawr, i lawr. Beth a wn i byth am y cythraul hunan-bwysig hwnnw? Ti yn unig. Ti bob amser, heddiw a phob amser, Gyfaill. I lawr.'

Yna, dryllio ffenest arall, ar y llofft, yn ysgyrion, yn y tu blaen, ar chwâl. Yn ei feddwl ei hun roedd hyn oll yn digwydd, mae'n rhaid. Un dychmygol arall ar y llofft y tu blaen eto, yn jibidêrs, roedden nhw'n wallgof yn ei ben, yn codi stêm hunan-gyfiawnder yn y clustiau, yn y gegin wedyn eto, yna y llofft y tu ôl, cerrig yn disgyn yn ei ddychymyg ar y tŷ o bob cyfeiriad, ni allai guddio'i gorun. Ar ôl i rywun gydio yn yr hwyl hurt hon, roedd y fandaliaid dychmygol eraill yn ei feddwl wedi ymuno'n ddiystyried. Roeddent yn ei amgylchu.

Ble oedd eu synnwyr? Eu cydbwysedd? Beth, wedyn, am ei ffansiön hurt ef?

Ac eto, roedd yn eu deall nhw. Roedd e'n deall eu camddeall nhw, ac yn dymuno'r gorau iddyn nhw.

'Rhagor eto,' gwaeddai ef gan ostwng ei ben a'i ddychymyg, 'dere â nhw. Rwyf Ti'n iawn. Dere â nhw. Chwala fi. Darostynga'r hen ryfyg. Plisga fi. Tafla.' Pam ei amddiffyn ei hun? Pam gwastraffu amser ynghylch ei olwg yng ngolwg y byd? Balchder oedd ei gywilydd am y papurau. Tafla. Dichon fod golwg cam arno erioed yn dystiolaeth i bobl am yr hyn a gynrychiolai. Ond roedd hunan-amddiffyn yn hawlio balchder ganddo hefyd. Roedd pob ymgais i'w danseilio yn ennyn ynddo yr hen awydd i'w ddarlunio'i hun yn ddifrycheulyd.

Allai fe dim credu fod hyn yn digwydd. A doedd e ddim wrth gwrs. Dychymyg oedd. Roedden nhw'n ei gasáu mewn breuddwyd. Roedd yna ladd yn y cerrig hyn, llysnafedd ac ysgyrnygu dannedd; roedd yna nadroedd, neu daeogion led ei feddwl oll yn y cerrig hyn. Ac eto, yr oedd pob malais yn ennyn math o gariad afreal ynddo hefyd, y math o gariad sy'n cynhesu, yn tosturio, ac yn dymuno'n dda. 'I lawr ag e,' murmurai Len. 'I lawr, dwi'n ddweud ... Fy malchder! I lawr.'

Ac o'i galon ni allai feio neb. Rhaid oedd iddo syrthio ar ei fai. Clywai ragor o gerrig, mae'n rhaid ei fod yn dychmygu'r cwbl, rhai ohonynt yn erbyn waliau'r tŷ. Roedd hyn yn orffwylledd. Cawd cawod ar ôl cawod ddychmygol ohonyn nhw yn ei ben. Faint o bobl a oedd wrthi? Pwy oedden nhw? Onid oedden nhw bob wan jac yn llygad eu lle wrth ei erlid? Plygai'i ben, nid i osgoi'r cerrig nawr a oedd yn ddigon pell i ffwrdd ac yn seremonïol ddiogel, ond i geisio'r Un isel hwnnw a oedd yn agos, yn enbyd o agos, a'r Un y ceisiai'i ysbryd Ei osgoi yr un pryd. Plygai'n is is. Ger y Graig Wen ei hun.

Ffoi amdani! Dros y môr! Rhag y ffôn, rhag y cerrig. Rhag y Graig.

'Fi!'

Ond pa werth fyddai dianc mwyach i ben draw'r ddaear? Doedd dim dianc gwirioneddol i unman. Fyddai ymadael â chymdogaeth ddim yn dileu'r gymdogaeth honno. A doedd dim difodi ar ei gydwylbod ei hun chwaith. Yna, wedi'r cwbl, ar ôl cyrraedd y pen draw, Duw: y Duw presennol, y Duw agos diddianc hwnnw y cawsai gipolwg arno droeon ac y gwyddai seiniau'i lais — y Duw diferserch arswydus-faddeuol, Duw y pen draw, doedd dim ymadael byth â'r Ehedfaen yna. Pa ffoi a geid byth rhag Hwn?

Yr Un a adwaenai'i wacter ef.

Ni allai gofio'n glir o gwbl beth yn union a ddigwyddodd ar y ffordd adref. Rhaid ei fod wedi cerdded adref ac wedi gweithredu fel cymeriad mewn breuddwyd. Nid rôl anghyffredin oedd hyn iddo ef. Ond anghofiasai union eglurder ei weithredoedd, fel cwmpwr tir dros ei deimladau. Pwy yn y byd oedd y bechgyn hynny ar ganol yr hunllef? Ei ofid anhysbys balch.

Beth hefyd yn wir a ddigwyddasai? Dim: heblaw un ganrif anffodus wedi'i thywallt o bocedi Marx, Freud, a Hitler... hyd at hogiau gwirion y toiled? Carlamai'i feddwl yn awr y ffordd hyn a'r ffordd arall. Hen ddiffyg oedd hyn yn ei hanes. Anghofiai hyd yn oed y pethau diddorol os nad oedden-nhw ar ganol ei ymrwymiad ei hun. Angof dethol gofalus. Gallai fod mor iraid ac mor finiog ei gof dadansoddol mewn rhai meysydd fel Cerddoriaeth a Hanes lle ceid bob amser ryw awch i wybod ganddo. Ond mor gul anymarferol! Byddai'i frawd hŷn, Bertyn, pan oeddent yn llafnau gynt, a hwnnw'n meddu ar wybodaeth am adar, yn mynd ag ef am dro yn unswydd er mwyn amlygu'r gwahaniaeth elfennol rhwng teuluoedd y pincod â'r titwod. Syllent gyda'i gilydd ar y môr-wenoliaid a'r gwyllanod. Mynnai gyfeirio â'i fys at rai o fanylion bras-yr-ŷd ac aderyn-y-bwn, at bibydd-y-waun a thelor-y-berllan, a'u henwi'n araf fel yna dro ar ôl tro, — chwarae teg i Bertyn. Ac yna, anghofiai Len y cwbl.

Nis cofiai ef, y darpar-feddyliwr, ddim o hyn o un wythnos i'r llall.

Wedyn gyda Mair hithau, flynyddoedd ar ôl hynny, megis eco. Yr angyles wen, Mair. Os oedd yna un peth a oedd yn wreiddiol ac yn ddifyr mewn tro carwriaethol gwyn gyda Mair drwy'r wlad, dyna ydoedd, a rhan ydoedd o'i meddwl dosbarthol hithau yn ddiaw, sef ei sêl ynghylch patrymau teuluol a nodweddion blodau a'u ffrwythau, y brigerau a'r ofarïau, y calyces a'r corola, y fflurgainc wmbelog a chlystyrog, sbigog a changhennog — mor ysol heintus yn wir oedd eu cyhoeddi ganddi. Dyma olud y wlad yn ei bryd hi. Dyma hefyd weld perthynas mewn patrwm, rhai o'r planhigion yn ewythrod, rhai yn neiaint.

Gymaint ei brwdfrydedd fel na allai ef gerdded heb iddo gael ei amgylchu ganddi o hyd â dail hirgrwn a phicellog, llabedog a danheddog. Mair fwyn wen oedd yn ei fagu ynddynt, rywfodd. Câl ei dynnu ganddi drwy helpa ar eu pedwaroedd — am sepal atblygol ac am ddail cyfansawdd neu ranedig. Byddai hithau'n ei ateb braidd yn fyrbwyll ond yn fanwl gyfewin pan holai am union enw'r blodyn dan sylw am yr ugeinfed tro. Yna ysgythrai hi'n ôl i archwilio'r bract a'r stigma. On'd oedd trefn yn beth prydferth? Gweai'i gariad at Mair ledled y fro ac o gylch Mair drwy'r holl dyfiant mwyn hwn a'r drefn. Ac anghofio a wnâi'r cwbl oll, anghofio yn rhugl syth. Y tyfiannau byw merchetaidd hyn. Hyn oll a fwriai ef mor dlws ac mor huawdl i angof ar y pryd, er na allai lai na hawlio fod ganddo gryn hoffter at dlynsni goludog y cyfan, ac er bod ei gof mewn meysydd eraill fel Cerddoriaeth a Hanes mor effeithiol wydn. Dellid ei ddeall o hyd serch hynny gan dlynsni trefnus ei gariadferch, a natur benbaladr, a'r blodau. Dawnsiai'r drefn honno mor wyn o'i gwmpas.

A dyma ef wedyn yn bwrw eu holl enwau benbwygilydd yn ddiymdroi i angof er bod cof ei gariadferch yn llosgi'n fwyn yn ei gof yntau yn gywir.

Wedyn, yn awr, heddiw, yma, wrth ystyried ei angof dygn gynt am enwau adar a blodau fel ei gilydd, ymdorrai'i gof yn gliriach nag arfer, nid o gwmpas y fath fanylder na diffyg manylder yn ei geisiadau ofer i hel gwybodaeth y digwyddai hyn. Eithr am yr hamddenoldeb amgylchol mwyn gynt a'r awyrgylch cynnes ar y pryd. Ac am y boen a gâi ynghylch yr angof hwnnw am union eiriau ei gariadferch.

Dyddiau diddanus. Dyddiau dolurus tost. Hyn a gofiai'n llachar nawr. Cofiai'r mwynder pwylllog pert a sugnai ef a'i frawd a'i gariadferch. Cofiai'r bodlonrwydd diog a fu ganddynt y pryd hynny wrth beidio â gwneud dim.

Neb heddiw. Doedd neb ar ôl bellach, neb wedi aros. Doedd dim segura. Mair wedi mynd. Bertyn. Pawb. Blodau. Adar. Neb.

Roedd bywyd, a fuasai mor hardd o araf unwaith, yn sydyn ar ei ben ei hun, wedi troi'i ben yn gynddeiriog, a brathu. Doedd dim dal ar brydferthwch allanol.

Cnoc ffyrnig ar y drws, fel carreg, ac eto nid carreg.

Cnoc arall. Dau gnoc dosbarthol a threfnus. Dwy garreg...Na.

Nid sŵn yn y pellter ydoedd. Nid rhywbeth yn cwmpo o'r tu allan. Nid taran o'r ochr arall i'r mynydd. Nid angau bach, ond yn wahanol i bob un arall ... Cnoc, ar gefn noeth ei feddwl. Sleifiodd yr iâ ar hyd ei wegil yn arafaidd. Cnoc confensiynol, cartrefol. Crynodd. Rhaid oedd wynebu pawb a phopeth. A dyma elyniaeth ddiau yn curo yn galed ar ddrws ei

fuchedd yn awr. Syrthiodd teimladau bregus unig dros ddibyn ei ymennydd — am ychydig o eiliadau fesul un, wedyn yn fintai ynghyd — megis cenfaint o foch.

Cnoc. Nid cnoc. Dychymyg. Rhagor o'r hen wlanan.

Pam!

Doedd dim synnwyr yn y peth.

Synhwyrri fod y drws yn ymagor yn araf. O bell. Llifai dychmygion drosto.

Doedd e erioed o'r blaen wedi cael ei yrru gan wyrddodau rhywiol. Roedd y peth mor anghyfaddas amhosibl. Nid ef oedd y gŵr hwn y clebrent amdano. Tosturiai'n dyner wrth y rhai yr oedd anuniongredded rhywiol yn drech na hwy. Roedd ef yn parchu'u potensial bob amser. Doedd ef ei hun erioed drwy drugaredd wedi teimlo'n rhwystredig nac yn wir gorfforol ddidisgyblaeth, ddim i'r eithafion hyn o leiaf. Un o'r pethau a fu'n dân ar ei groen oedd yr awduron Cymraeg canol-oed llancaidd a geisiai ymbluo drwy fentro sôn mor ymwithiol erotig am 'Ryw' yn fanwl ac yn 'feiddgar' anaeddfed, yn ynysig heb hydeimledd oedolyn nac ymostyngiad ... fel pe baent am arddangos i'r genhedlaeth adolescent nesaf eu bod hwythau mor las eu brafado â neb. O'r fath fentro hanner-pob! Beiddgarwch bondigrybwyll! Heb gydnabod neilltuolrwydd dau. Y canol-oed ystrydebol ryddfrydol a hanner-pob, yn hyrwyddo godinebu trist led yr hewlydd. Yr henoed rhigolog ffug radicalaidd, yn pleidio erthylu a chyffuriau ysgafn ac anghydbwysedd emosiynol, fel plant di-dwf o'r wlad yn ceisio siocio mewn dinas fodern newydd ei darganfod. Yr ystrydebwyr modernaidd 'radicalaidd' o'r strydoedd cefn pentrefol politicaidd-gywir a oedd mor rhagweladwy wledig a beiddgar dwp nes eu bod yn difa pob creadigrwydd meddwl a moes ac yn rhofio sefydlogrwydd teuluol o'r pridd. A dyma ef yntau hefyd yn ei dro fel pe bai yn methu ag ymaflyd yn safonau perthynas aeddfed. Pam?

Cnoc. Nid cnoc.

Fi!

Ti, fy Arglwydd gwyn? Edrychai i fyny at y cloc: cnoc.

'Wel, na... Bill! Ti! Dere 'mewn achan ... Esgob, yn hytrach.'

Ei hen gyfaill, Wiliam Ab Einion oedd yno, Esgob Maldwyn, Maesyfed a Swydd Gaerafon. Hen gyfaill Prifysgol; cymar, ond ei fod yn fwy o academydd nag y bu Len Llwyd erioed. Meddai hwn ar gorpws a oedd yn bopeth y dylai corpws Esgob fod pe gwyddai'i bethau. Er na lanwai bob un cornel o'r esgobaeth newydd yn gwbl gyfwin, rhoiai'i stumogau o'i amgylch fel porthladd ar benllanw pryd y ddi afon mewn llif i gyfarfod â llawn

lifeiriant y môr. ‘Yr eglwys eang’ oedd y term technegol am y ffenomen. Tonnai’r twyni dyfrol at ei gilydd ac yna i lawr ar draws ei gluniau a’i benliniau blonegog hyd ei draed. A disgleiriai’i wyneb hefyd yn donnog yr un pryd.

Tyfai diwlipiau coch digon diniwed, llawn a llon, drwy groen eu dannedd, ar lannau harbwr ei ddeurudd. Tiwlipiau hyfryd yn adlewyrchu yn y môr iach hyd y gorwel. Taflent gysgodion tiwlipaidd dros ewyn ei dalcen llon. Gardd lawn a choch oedd ei wefusau tonnog. Ac ym mhobman arall yr oedd yna ffrwythloni cytûn a choch a llawen. Ac felly drachefn hefyd, meddai ar feddwl a oedd yn bopeth y dylai meddwl Esgob fod. Gardd ffrwythlon a chytûn oedd hwnnw hefyd. O ddod i’r fath bresenoldeb â hyn byddai’r ficeriaid bychain oll yn ei esgobaeth yn teimlo persawr cydsyniol ei fyfyrddau tiwlipaidd a’i ddefosiwn cytûn yn chwythu drostynt yn dra llawn ac yn ddylifol bob amser. A chât ddylanwad didramgwydd a thiwlipaidd ar bawb y cyfarfyddai â hwynt ar ganol y ffordd.

‘Bill, bachan, mae hyn yn bur annisgwyl.’

Ymbalfalai’r gŵr esgobaidd, braidd yn orlawn ei olwg, i mewn drwy’r cyntedd yn awr. Ceisiai symboleiddio holl diriogaeth Maesyfed a Maldwyn ac ychydig o Swydd Gaerafon er gwaethaf prinder y boblogaeth. Amlwg oedd ei fod yn ymfalchio’n dawel yn ei wddwg fel goleudy mwy celfydd na’i gilydd a arhosai yno er gwaethaf ei floneg i gyd, ynghyd â’i drwyn a dyfwyd mewn tŷ-gwydr, heb sôn am orchest fabolgampus ei stumogau. Bu ambell ên ymhlith y rhai a addurnai ran uchaf ei fryst yn cipio cyntun pan nad oedd neb arall yn ei wylid.

Clamp o faenordy oedd ei gorff, gyda hysbysfwrdd ysbrydol o’i flaen a gyhoeddai i’r betws a’r betws: Plas yr Esgob.

‘Te?’

Palfalai’r Esgob eto am y sillaf gadarnhaol gyntaf o ateb megis injin car yn mwmial grwnan methu â chychwyn ar fore llwydrew am fod gormod o bobl wedi ymwithio i’r sedd gefn: ‘Dim byd mor gryf yr amther yma ar y dydd, a finnau’n gyrru. Oeth gen ti Guinneth bach?’

‘Oes,’ meddai Len gan frysio at yr oergell, a thynnu dau gan i’r golwg.

Eisteddai’r ddeuawd gyferbyn â’i gilydd yn yr astudfa, Len yn cyfeirio’i olwg at y carped ychydig o flaen traed yr Esgob, a’r Esgob yntau’n ei lygadu’n ôl yn betrus dosturiol ond yn sylweddol. Roedd coler Len yn sticio allan fel tudalen yn dod yn rhydd mewn llyfr-emynau treuliedig.



‘Thut mae-i’r hen gyfaill?’ meddai’r Esgob, a’r geiriau o hyd fel cerrig. Cwestiwn da ac eciwmenaidd, mor eciwmenaidd â Thywysog Cymru, amddiffynnydd ffydd, pen arfaethedig yr Eglwys aml-grefyddol. Cychwyn addawol o ddiramgwydd, heb fod yn rhy chwyldroadol; ac eto’n taro, taro. Cloch o ddyn oedd ef hefyd, a seiniai’i lais ar draws y plwyf. ‘Yn ôl fel dwi’n clywed, mi fuoht ti’n llofruddio pobl ar hyd y lle ’ma.’

Nid atebai Len yr un sill.

‘Yn dy lofruddio dy hunan o leia.’

‘Do,’ mentrodd Len. ‘Efallai ... yr hunan a thi, Bill, a’r cynulleidfa, a’r cydweinidogion o bob enwad. Llofruddio’r cwbl lot.’

‘Llofruddio felly, a godinebu a lladrata,’ tywalltai’r Esgob ei eiriau gan wenu’n gynnil. ‘Record thiwr o fod?’

‘Do. Lladrata enw da. Lladrata safonau ’y mhraidd. Fy lladrata fy hun o leiaf.’

‘A defnyddio dy feddwl — beth yw’r gair? — yn annheilwng am bobl; enllibio.’

‘Do, do.’

‘Tybied na byddai neb yn thefyll gyda thi hwyrach?’

Cododd Len ei olygon fel pwysau mewn gymnasiwm. Tybed a allai’i orffennol rywle yn awr gydorwedd gyda gobaith?

‘Roedd rhaid imi ddod, Len bach, beth bynnag. Ar fy union. Mi wn innau’n burion — yn rhinwedd fy thwydd — am wyll yr anwybod.’

Edrychai Len arno’n syfrdan. Chwarae teg iddo. Hwn! Brensiach y camelod! O bob mellten nid dyna’r frawddeg y gallai fod wedi’i disgwyl rhwng ei wefusau cochion gan Bill.

O’r braidd bod Len erioed wedi cysylltu’r telpyn hwn o radlonrwydd â thywyllwch mewnlol o fath yn y byd, ac yn sicr nid â gwyll amwys unrhyw lun ar anwybod. Boi bach gofalus ar y naw fu Bill erioed. Credai Len mai chwaraewr bach deheuig oedd pob Esgob i fod yn y gêm dragwyddol. Chwaraewr a fedrai gicio’r bêl yn y canol rhwng y pyst eciwmenaidd yn ddirafferth braf, gyda’i holl breiddiau yn ei gymeradwyo oddi ar y ffens wrth ryfeddu’n unol at ddehurwydd ei droedwaith. Methai Bill â bod yn anoddefgar at neb ond at y sawl a gymerai’i gred ormod o ddifri. Mae yna reswm ym mhopeth.

‘Dyma fy lle i, ar dywydd fel hyn, Len. Gobeithio y gwnei di f’ethguthodi am darfu ar dy — betingalw yn Gymraeg? — ddefothiynau.’

Roedd gan ei hen gyfaill ymddiriedaeth ynddo felly.

Llygadai Len yr Esgob gyda pheth petruster, serch hynny. Fan yna yr oedd hwnnw

yn ymdrechu i fod yn eithafol o ostyngedig. Disgwyliai Len y câi weld Bill yn ymlusgo ar y llawr hyd at ei draed unrhyw eiliad. Syllai'r esgob ar esgidiau Len yn fygythiol. Ofnai Len y gallai wrth ymostwng geisio gorwedd a gosod troed-stôl o dan ei wadnau, ac yna gynnig chwilio am win i'w gynnal a maeth i'w ddiiddu, ynghyd â chlustog sicr a thyner y tu ôl i'w gefn mewn môr o ostyngeddrwydd, sef y math cyfarwydd hwnnw o ostyngeddrwydd sy'n bwriadu trechu dyn, y gostyngeddrwydd sy'n gorfoleddu ryw ychydig bach ynddo'i hunan.

'Popeth yn iawn,' murmurai Len. 'Diolch. Dwi'n ddiolchgar. Down i *ddim* yn ei ddisgwyl ... Down i *ddim* yn ei haeddu ...'

Pam roedd hwn wedi dod heddiw? Ai rhyw chwilfrydedd morbid ydoedd? Ai dod yr oedd yno â'i fwcadaid o barchusrwydd i syllu oddi fry? Ai bwrw cwilydd yr oedd ef? Ai dod i'w atgoffa nad ynys oedd yr un gweinidog yn Eglwys Donne a bod i bob gweithred o'i eiddo arwyddocâd i bob gweinidog arall ym mhob enwad arall? Os dyna oedd mewn golwg, doedd dim eisiau iddo gyrchu mor bell. Gwyddai Len yn burion mor gyraeddgar yr adleisiai ffrwydradau'i hurtrwydd ar draws enw da ei gyd-weinidogion. Ynteu ai dod yn syml a wnaethai'r dyn i ymddwyn fel sant? Ai dod fel esiampl lon? Neu o gariad?

'Meddwl rown i mai peth priodol fythai picio draw i gael clonc am Bechod.'

'Wrth gwrs.'

'Dwi wedi dod i'r lle iawn?'

'Unlle gwell.'

Roedd yr esgob braidd yn siŵr ei fod wedi taro wrth bwnc ffrwythlon. Gallai ymledu rhywfaint ac estyn ei law bob hyn a hyn er mwyn tynnu un o'r tiwlipiau, fel gwên o'r ardd ffrwythlon gerllaw a chyflwyno hynny i'w gydymaith. Estynnai ychydig, ac wele un wedd ar y pwnc, ac yna estynnai drachefn tuag at wedd arall. Dôi popeth i'w law mor gytûn a choch a thonnog. A helpfawr.

'Doeth dim angen d'atgoffa am ddim yn y maeth hwnnw, mae'n thiŵr gen i. Fel fi, rwy'ti'n bur — betingalw? — hyddythg yn y pwnc.'

'Pwy'n well?'

Pan soniai'r Esgob am fodolaeth ei wendid ei hun ac am Bechod yn gyffredinol — a doedd e ddim yn siarad yn rhinwedd ei swydd — fe'i broliai fel pe mynnai ichi wybod ei fod yn rhagori yn ôl yr herwydd, yn y cyfeiriad hwnnw hefyd, o leiaf ar bawb yn yr Esgobaeth.

'Dyna pam y thoniaith i am lofruddio. Dylwn i fod wedi dechrau gyda'r pechod

gwaethaf oll o bothib.’

‘Ie?’

‘Calon wag,’ meddai’n gyffredinol.

‘Gwn i.’

‘Doeddet ti ddim yn thynied fod gen ti *waeth* trothedd i’w chynnig?’

‘Na.’

‘Dim byd tebyg i wrthod Duw felly ... ac ar ôl hynny, o’r herwydd yn wir, gwrthod dyn.’

‘Wel, ie.’

‘Dyna wnetht ti?’

‘Ie; ond ddim yn union.’

‘Oeddet ti o bothib yn dychmygu fod gen ti glamp o bechod anfaddeuol arall, pechod difaol efallai?’ meddai wedyn yn ei lais pwdin-Nadolig.

‘Na.’

‘Mae balchder yn gallu bod yn dipyn o boendod hefyd yng Nghymru; a malaith wedyn, a — beth yw’r gair Cymraeg? — hunan-gyfiawnder, yn gyffredinol.’

Cododd Len.

‘Coffi?’

‘Ddim ar thtumog wag.’

‘Smo’r stumog ’na byth yn wag, ’sbosib.’

‘Gwacter yw ei enw.’

‘Cannaid arall te?’

‘O’r gorau. Un pitw bach.’

Eisteddai Len yn ôl wedi’i estyn i’w gyfaill.

‘Gwed Wiliam. Beth yw’r holl ffws ’ma sy ’da ni’r Cristnogion ynghylch Rhyw te? Beth am ei frodyr a’i chwiorydd e, Cenfigen, Casineb, ... Malais?’

‘Achoth bod rhai o’r merched ’ma mor arthwydith o bert.’

‘Mae hynny’n fater o farn.’

‘A phawb ohonom ninnau mor feddiannus. Eithiau mwyfwy o hyd.’

‘Yr hen gyfaill ffyddlon, yr Hunan.’

‘Rhywbeth felly ... Eto. Thmo’r Crithnogion yn ffwthau am Grithnogion eraill thy eithiau cenfigennu mwy. Mae rhai pobl yn joio oth wyt ti’n cenfigennu wrthyn nhw. Ta

beth, bydd y tamaid bach lleiaf o Ryw yn ei chael hi. Mae hi off.'

'Ti'n gwybod, mae a wnelo hyn â'r greadigaeth hefyd yn y bôn. Rhyw sy'n cadw'r hen beth yna ar waith. Mae'r greadigaeth yn golygu'r corff, ac mor amlwg yn sagrafen. Mae popeth gweledig yn gorff.'

'Dyna mae'n debyg, beth thy'n gwneud Crithnogaeth mor gorfforol. Mae'n cylchu'r perthyn i gyd.' Ac roedd ei berson ef y funud yna'n tystio i'w thasg enfawr gylchynol.

'Ydy. Bu'r Pen ar y pegwn uchod yn gorff. Yn rhoi'i gorff. Yn codi'n gorff. A ninnau'r un fath. Yn un. Yn ei gorff e. Cyrff, cyrff, cyrff.'

'Eneidiau mewn cyrff yn ni, mae'n wir,' casglodd yr Esgob wedi darganfod calon y broblem yn ei dyb ei hun.

'Rhywbeth fel 'na. Dyna ran o'r gwirionedd, ta beth. Eitha peth, ddwedwn i.'

Ymataliai'r sgwrs. Am foment yr oedd hi fel pe bai'n procio am le i'w gyrchu. Ac am funud gron doedd 'na unlle i fynd.

Rholiai nodau digon anhyglyw megis organ ar draws treswaith llyfn a bwaog eglwys gadeiriol ymennydd a stumog yr Esgob. Ei feddyliau union cytûn oedd y rheini. Seinient yn urddasol ddistaw yn uchderau'r nenfwd addurniedig a'r cryndo, ac yn fawreddog i lawr drwy'r ffenestri lliw. Cydymunent wedyn mewn anthem gynganeddus.

Hoff ddywediadau'r esgob mewn pwyllgorau oedd: 'Fythwn i ddim yn dweud hynny' a 'Hoffwn i ddim ymrwymo ar fater felly.' Felly'n awr. Edrychai'n oddefgar o deg ar bob gwyriad cyffredinol oddi wrth y gwirionedd.

Gwyriad gofalus stumogau'r Esgob oedd y ffenomen fwyaf disgybledig a hoffus a drawai'r ymwelydd, wrth gwrs, yn llythrennol. Suddai'r gŵr tra pharchedig ynddynt. Eisteddai ynddynt yn garedig fel pe baent yn foroedd tra phleserus, gan gicio'i draed ambell waith. Roedd fel pe bai'i lygaid wedi cael eu cadw rhag y goleuni gan ambell un ohonynt. Labyrinth eciwmenaidd o ddyn stumogaidd ydoedd. Pe byddid yn ei ddisgrifio yn ôl termau strydoedd, gellid synied, ar ôl treiddio iddo ychydig o lathenni, y deuid yn fuan ar draws arwydd 'Dim allanfa.' Nid unwaith na dwywaith yr âi clerigwyr a fyddai'n ymweld â Phlas yr Esgob ar goll wrth ymbalfalu drwy rai o'r stumogau enwog, megis ymbalfalu yn y cysylltiadau diamheuol lydan er nad anodd eu dirnad rhwng delfrydau'r Esgob i uno trefniadaeth yr eglwysi ac unrhyw fath o sylfaen anniddorol i'r cyfaddawdu aml-grediniol melys.

Ambell waith âi ei hun ar goll yn ei stumogau ddiweddd haf, dyweder, megis cleren

las mewn gwe pry-cop.

‘Dwi ar dy ochr di, cofia,’ dyna a ddwedai erioed wrth Len pryd bynnag y trafodid diwinyddiaeth, megis y dwedai wrth bawb arall y trafodai’r cyfryw faes anhydrin gyda hwy.

‘Oes, mae yna ddigon o boenderau,’ addefai Len pan lwyddodd ymhen hir a hwyr i ymryddhau rhag stumogau’r Esgob.

‘A hunan-dothturi.’

‘Ie: hen ffrindiau.’

‘A threwaitht ti wrth un bach go wreiddiol yn ddiweddar, dybiwn i.’

‘Nid yn gyfan gwbl felly.’

‘Ond yn ddifrifol o annithgwyl.’

‘Yn annisgwyl, ie ... efallai. Diolch yn fawr i ti, er hynny, am dy gyfeillgarwch.’

Clec!

Gwingodd Len.

Yr eiliad yna, daeth carreg newydd sbon drwy ffenestr yr astudfa, o leiaf ym meddwl Len. Hyn eto. Oedd eisiau hyn o hyd? Rhyw lefnyn yn mynegi’i ddirmyg a’i ffeidd-dod yn y ffordd fwyaf uniongyrchol bosib, yn ddiau. Dyma ni eto. Ei ddychymyg. Glaniodd y garreg aneciwmenaidd ar y llawr o flaen traed Len, ac fe’i gadawodd i fod lle’r oedd. Safodd yr Esgob, o leiaf ym meddwl Len, plygu’i benliniau cyffredinol gyda pheth ymdrech gan na allai ymgrymu ond prin gentimedr yr amser yma ar y dydd, a chodi’r peth yn ei law chwith.

‘Thwfenîr... Cofrodd?’ Dyma’r erledigaeth yn dechrau o’r newydd efallai. Y cyfiawn a’i pioedd. Fe’i llofiodd gan ei throi y naill ffordd a’r llall gyda chwilfrydedd cenhadol. ‘Dydy hyn efallai ddim ychydig yn rhy frwdfrydig? Tipyn yn rhy thelog?’

‘Mae yna ddisgwyliadau gan bobol. Maen nhw’n synied y gallai arch-sant y sir syrthio oddi ar ei bedestal a chynhyrfu gorffwylledd braidd.’

‘Ond beth thy’n bod arnyn nhw? Pam mynd i’r eithafion hyn? Mae ’na ryw anghydbwythedd, rhywbeth gormodol, doeth dim? — rhyw-rhyw droth-ben-llethtri. Pam?’

‘Ymddiriedaeth. Maen nhw wedi bod yn rhy hir yn yr eithaf arall yna.’

‘Ga-i gadw hon?’

‘Wyt ti’n eu casglu nhw?’

‘Ymborth y merthyron, ti’n gwybod.’ Gwenai’r Esgob yn gyffredinol. ‘Wedi meddwl lawer tro am luchio rhywbeth fel hyn drwy ffenetht ym mhalath yr Ethgob ’cw.’ Fe’i llithrodd i’w boced.

‘Practis ar gyfer yr erledigaeth sydd i ddod?’ meddai Len.

‘A hynny i bawb ohonon ni. Hwyrach byddwn innau’n ormod o gachgi.’

‘Hwyrach llawer ohonon ni.’ Yna dihunodd Len o’i ddychmygion, a sibrydodd: ‘Sut y caethiw-wyd yr ugeinfed ganrif yn ein piced ni fel hyn? Pam y cadwyd hi ar ei hyd mewn cell fechan o Ryw amddifad? Heb glem yn y byd ble oedd cariad wedi mynd?’

Bwriodd yr Esgob gipolwg ar ei wats. Rhagargoelai angen rhyw fath o ateb disgwylidig bendant yn bygwth o bell. Ond ni ddôï’n ddigon manwl. O’r pwlpudd, ystyr edrych ar wats yw nid chwilio faint o’r gloch yw hi, ond dweud wrth y pregethwr, digon yw gormod. Nid oedd yr Esgob am fod yn garreg drom a luchiwyd drwy ffenest. Nid oedd am orwedd bellach ar y llawr o flaen amynedd Len heb fod gan hwnnw na’r galon na’r gobaith i’w symud. Syllai’i drwyn ar Len fel gofynnod.

‘Pam yr amddifadwyd ni o ddynoliaeth?’ holai Len.

Synhwyrail’r Esgob rywfodd fod Len yn fwy difrifddwys: ‘Yng Nghymru? Thychdduwioldeb ’machgen i. Moetholdeb heb ythbryd. Fe anwyd y ganrif mewn thtarth.’

‘Ond yr obsesiwn tshep ddaeth yn ei le! Y cnawd tila! Yr holl ffwdan am yr arwynebol!’

‘Dyna’r gorau y gallai’r werin datwth ei wneud gyda’r hen beth. Ond nyni, lwyth moethuth y pwlpudd, ni a arloethodd y pydredd. Drwy thtarth! Dirweth, gwithg, cywirdeb gwleidyddol, thtarth.’ Dywedai hyn oll gyda’r mymryn lleiaf o ing a’r cruglwyth mwyaf o ddirmyg, fel un a roddai sioc iddo’i hun. Fel rhywun a gadwasai ronyn cudd o hunanfeirniadaeth goeg.

‘Babieidd-dra starts yn cael ei ddisodli gan fabieidd-dra Rhyw amddifad.’

‘Rhywbeth felly,’ meddai’r Esgob yn rhugl ddwys.

‘Un negydd yn lle negydd arall. Gydag un thema gyffredin gloff.’

‘A chariad yn cael ei fygu.’

‘Colli’r braw?’

‘Do. Trueni colli braw,’ meddai’r Esgob yn araf, a braidd yn chwilfrydig. Gwenodd yn anghysurus. Gwyddai’i fod allan o’i ddyfnder bellach. ‘Efallai y dôi ambell beth arall yn ôl ... fel ...’

‘Ambell *Un* efallai,’ meddai Len. Pesychodd yr Esgob yn gytûn.

Cododd felly i ymadael. ‘Pob bendith te — fel y môr,’ meddai gan wasgaru’r cyfryw nwydd fel glaw Stiniog ar draws y tŷ nes i bob carped gael ei drwytho’n steics. ‘Galwa-i ’to.

Paid â digalonni. Daw'r môr yn ôl 'to.'

Ymbalfalent yn gytûn ac yn gyffredinol hyd y coridôr tywyll tua drws y ffrynt.

'Cadd y môr mawr hwnnw ei eni i foddi morwyr fel ti a fi,' meddai Len fel pe bai'n dyfynnu llyfr Jona.

Ar y pryd ni fynnai'r Esgob anwylo'r ddelwedd er ei fod lawer tro, yn wyneb y stumogau enwog, wedi ceisio dychmygu pa fath o brofiad fysai boddi. Edrychai ar draws ac ar led y garreg fechan a godasai o'i boced i'w law gyda chryn falchder. 'Gad iddyn nhw wneud môr a mynydd o hyn, Len. Dyna'u hawl hyfryd. Ond ymddyga di yn ôl d'arfer, oth ca-i ddweud yn rhinwedd fy thwydd ... Mae digon o waith ar ôl. Fel fi, pechadur yw d'enw. Cei ymddwyn fel pechadur edifeiriol digon argyhoeddiadol nawr. Ecthbyrt. A'r itheldiroedd fydd y lle gorau bob amther i ecthbyrt gychwyn tua'r ucheldiroedd. Mae pob machlud yn wawr i rywun.'

'Diolch iti, Bill, hen foesolyn diedifar ohonot ti.' Gwenai.

'Cer ymlaen â dy waith, a hynny yn llygad goleuni. Dy waith arnat dy hun i ddechrau. Dy waith ar ran cloffion eraill wedyn. Obthethiwn y ganrif yw'r peth arall 'na.' Ymbalfalodd yr Esgob am ei draed fel pe bai wedi'u gadael yn ôl yn eu hesgidiau yn y llyfrgell. Ymbalfalodd am y drws. 'A dyma'r broblem fawr.'

'Rhyw?'

'Na, bwlyn y drws ma.'

'Gad i mi'i droi e i ti.'

'Mae'n cau am bawb y dyddiau hyn... Gogwydda di dy feddwl at gyflawnder pethau.'

Cerddai ef gyda'r Esgob yn awr drwy'r porth. Sylweddolai fod Bill, chwarae teg iddo, wedi mynd y tu hwnt i'w ffiniau gofal arferol. Teimlai'n ddiolchgar odiaeth iddo. Ac yna, hebryngai ef i lawr llwybr yr ardd at y lliidiart. Nid oedd yna erlidwyr yn unman i'w gweld. 'Cofia,' meddai Bill wrth ganu'n iach yn rhinwedd ei swydd, 'mewn dilyw mae pob diferyn o ddŵr yn rhoi'r bai ar y lleill ... Mae yna Haul, Len. Cred di fi. Haul. Mi thychith.'

A ffarwelio ag ef yn wirebol fel yna 'wnaeth Len. Trôi yn ei ôl. Canfu mewn paent gwyrdd, ar hyd wal y Mans, graffiti newydd na allai ef edrych arno yr eilwaith, graffiti a grafai waelod sach ei gydwybod dila... Clywai Len lais yr Esgob yn cilio wrth iddo gyrchu'i gar.... 'Mi thychith.'

'Wyt ti, Mair, ar dy lw yn gallu 'ngweld i yn wraig barchus i weinidog, yn bersawr dethol hyd 'y nghlustiau, mewn het binc yn ymdaith drwy'r gymdogaeth?'

'Neb gwell.'

'Gyda gŵr urddasol, tra uchel barchedig,' holai Maxine.

'Beth arall? Pawb yn ei fawrygu.'

'Ond wyt ti'n meddwl o bosib,' heriai Maxine 'y byddai ambell un yn Awstralia yn sbecto y byddwn i braidd yn benysgafn?'

'Neb.'

'Ond fi, ydy peth felly'n taro i fi? Yn mynd gyda'm sgidiau a'r menig? Wyt ti'n meddwl y bydda-i'n gallu cadw wyneb syth wrth drafod dirwest a phethau seriws o'r fath? Y wraig weinidog ddelfrydol.'

'Bydd pawb yn gwbl siŵr na fu neb mor briodol startslyd ar gyfyl Llanbiblig erioed.'

'Fydda-i'n giwt mewn du?'

'Neb ciwtach.'

'Ond ti, Mair, oni fyddi di'n eiddigeddus o'r fath gyflwr? Ambell hwyrnos hyfryd? Meddylia amdana-i fan yna yn 'y ngogoniant du yn lladd ar bornograffiaeth a rhegi a phethau o'r fath.'

'Fu gen erioed ddim i'w ddweud wrth bersawr dethol na hwyrnosau parchus.'

'Wyt ti'n meddwl y bydd e'n licio 'ngwallt?'

'Dyna'r pwynt o'r diwedd. At hynny roeddet ti'n dod. Dere, Maxine fach. Bydd e wedi dod i Heathrow yn unswydd i weld dy wallt di'n llithro 'lawr y gangwe.'

Ac yna, ebychodd Maxine hithau y gwir crwn y bu'n lled chwilmenta amdano.

'Dwed y gwir. Fyddet ti ddim yn hoffi ei wynebu fe dy hun yn fy lle?'

Hyn oedd prif benbleth Maxine: beth oedd y berthynas barhaol isymwybodol rhwng Mair a Len?

'Allwn i byth wneud dim ag e. Er pan own i'n nabod e, dwi wedi mynd yn fwyfwy o bagan. Ac mae yntau wedi dod yn fwyfwy o barchusyn.'

'Ai ei glawstroffobia moeseglyd allet ti ddim ei ddiodde?'

'Dwi'n perthyn i fyd arall, byd is-grefyddol. Byd Freud a Jung, Darwin ac Einstein. Byd hynafol "Dyn yn y canol". Fan hyn yn Awstralia mae pethau'n digwydd yn llythrennol



gorfforol. Fan draw — hynny yw, yn yr Henwlad — mae'r cwbl yn drosiadol o hyd, yn bur, yn Bantycelyn ac yn sol-ffa. Mae 'na ormod o'r anweledig 'na i'm dant i. Mynd wnei di oddi wrth y realiti at y rhith. Dyna dy *forte*, Maxine. Strailia yw'n *forte* i.' Ond gwyddai Mair yn awr nad y gwir a ddwedai. Yr oedd yna beth cenfigen arni. Roedd y syniad bod Maxine yn cyrchu i Gymru i gysgu yn yr un pentref â Len, a hithau ar ôl yn Awstralia, yn ddirdyniad annisgwyl. Dyna her annhymig i'r cariad a goleddai tuag at ei ffrind.

Yn arhosfa'r Maes Awyr safai'r ddwy o'r diwedd, o leiaf ym meddwl un o'r ddwy. Ymestynnai gorffennol Mair yn awr o flaen Maxine fel carped hud tuag at y tarmac. Ond gallai Maxine hithau fod yn freuddwydreg ddigymrodedd ambell waith. Estynnai'i tharmac hi ymhellach tuag at y cymylau. Ac mewn safle ar benrhyn yng Ngwalia rithiol, tybed onid oedd ei gobaith eisoes bron â glanio? Hyd yn oed cyn penderfynu cychwyn?

Gwyliai ffansi Maxine yr awyren fewnol eisoes yn rhwygo allan o'i bryst, yn refio ac yn rhwyfo, ac yn pellhau fel hiraeth drwy'r glesni clinigol. Roedd hi'n ymadael â Charles o'r diwedd, a Menna, a chyrrff Awstralia ... a Mair. Roedd rhan ohoni eisoes ar goll...

'Fyddet ti byth yn credu'r fath angerdd,' meddai Mair wrth Menna, ill dwy ar eu pennau'u hunain, ychydig wedyn yn eu post-mortem uwchben y coffi boreol anochel.

'Angerdd?'

'Maxine a Len,' datganai Mair.

'Na fyddwn.'

'Roedd yna rywbeth ffres, adnewyddol yn ei chwilfrydedd.'

'Twt!'

'Roedd hi wedi codi awydd hollol ifanc wrth freuddwydio am weld hen sboner dychmygol i fi.'

'Actio yw ei *forte*,' ebychai Menna. 'Does byth ond rhyw sioe fawr falerina gyda-hi.'

'Na, na, na. Roedd y peth byw yno. Roedd ar ryw olwg ryfedd yn hardd. Yn ddidwyll o hardd.'

'Ond ffugio roedd hi. Weli di ddim? Ceisio creu argraff ei bod hi'n unigryw.'

'Dere Menna. Dyw'r ffaith fod realiti'n drosiad ddim yn dadwneud yr hanes.'

'Eisiau tynnu sylw ati'i hun. A'r cwbl — iddi hi — wedi'i ordeinio wrth gwrs gan y Goruchaf.'

'Dwyt ti ddim yn ei nabod hi...'

'Sioe yw hi o'i bodiau oer i'w chlustiau plastig. Mae fel rhyw siop drugareddau yn

oleuadau i gyd, lawn o filoedd o liwiau, moethau clec eu cloch yn llamu ar lygaid o'r ffenestri, fflachiau amlwiog yn ôl ac ymlaen yn wallgof.'

'Nid dyna'r Maxine real dwi'n ei nabod.'

'Dyna yw hi. Welaist ti erioed y fath ddilladach am y modelau, lond ei meddwl, a'r modelau diolchgar hynny yn symud eu breichiau a'u coesau platinwm i fyny ac i lawr ar draws y siop, o bum cyfandir, a ... Pob adran o'r siop wedi'i harddangos. Ond neb eisiau prynu. Mor anhygyrch bob dim â'r blaned Mawrth.'

'Ond dwyt ti erioed wedi'i deall hi. Menna fach. Mae byd Maxine yn rhyfeddach o lawer na'n byd pitw ni. Dwi'n credu'i bod hi'n eistedd erioed ar ganol angen mawr, angen aruthr am gael ei charu. Ond angen rhyfeddol yw-e.'

'Hý!' ebychai Menna â dirmyg a ymestynnai o'i sodlau. 'Paid ag yngan dim mwy amdani.' Clodd hi ddrws y siop yn glep.

\* \* \*

Y noson honno, galwad ar y ffôn.

'Hylô! Ffonio i ddiolch am y croetho rown i.'

'Bill! Croeso wir!'

'Anghofiaith i ymholi ynghylch un peth ... *Pam?*... Rown i eithiau'i ofyn, ac anghofiaith. Oet ti'n gwybod pam? Pam y gwnethht ti'r fath beth?'

'Ond wnes i ddim.'

'Na, na, dwi'n deall. Ond yr hogiau? Allai fod ganddyn nhw (neu gen ti) rethwm ... tuedd ... heb yn wybod i ti dy hun ar y pryd? ...'

'Dim. Celwydd oedd y cwbl.'

'A! Ond oedd gen ti ryw — beth yw'r gair Cymraeg? — gymhelliad ithymwybodol? Roedd yn gyhuddiad od, on'd oedd-e?'

'Doedd e ddim yn od. Yn yr ugeinfed ganrif, does 'na ddim cyhuddiad mwy naturiol. Dyna sy ar ganol pob sgwâr.'

'Doeth dim gofyn iti ateb, Len. Bydda-i'n deall yn burion ac yn cydymddwyn oth dwedi di wrtho i am fynd i grafu.'

'Crafa di te.'

'Ond rown i'n thiarad â Joyth heno dwetha 'ma ar ôl cyrraedd adre — ti'n gwybod,

Joyth, meddwn i, dwi'n lled gredu 'mod i wedi anghofio gofyn pam. Efallai 'mod i wedi'i ofyn hefyd. Ynghanol y clebr i gyd. Ac yn thicr, yn thicr doedd dim otth.'

'Wnes i ddim oll yno. Y bechgyn yna oedd yn ddialgar. Eisiau achosi embaras. Sbert oedd hi. Diffyg ystyr.'

'Ie ie, dwi'n deall hynny. Ti'n nabod Joyth.'

'Ddigwyddodd dim. Fan yna rown i. Yn dipyn o weinidog, dyna'r cwbl ... A llafnau. A'r ugeinfed ganrif. Triawd y buarth. Rysâit ar gyfer cawl.'

'Ond *pe baet* ti'n gallu gwneud y fath beth, oeth gen ti thyniad — pam?'

Ymollyngodd Len: ildiodd ei anadl. 'Yn hollol bendant, does 'na ddim sail i'r peth.'

'Ond dychmyga ... '

'Crafa di, Bill. Dychymyg ydw i, i gyd. '

'Ie, ie, ond o ran damcaniaeth.'

'Hosea efallai ... mae'n anodd 'ddweud erbyn hyn.' Ymbalfalai, 'rhyw fath o arwydd, ynghanol 'y nryswch i, fel Hosea, fe allwn i ryw dybied mewn cymysgedd diderfyn yn yr isymwybod y gallwn fod wedi gwneud *arwydd* o argyhoeddiad o bechod ... Wnes i ddim, cofia, yn bendant. Ond o ran damcaniaeth dyna 'allai fod, ar y pryd, yn y bôn dwi'n feddwl, ond doedd hi ddim. Y llanciau oedd. Mae'n swnio'n nyts ei wala nawr. Ac yn wir, ar y pryd roedd hi'n niwlog ddryslyd. Arwydd o'r amseroedd.'

Teimlai ei fod yn rhedeg mewn cylch abred. 'Synied dw i nawr, heb fod yn eglur i neb na dim, pe bawn i'n gwneud y fath beth... — wnes i ddim, yn gwbl bendant — y gallai fod yn syml oherwydd mai dyma un o symbolau'r ugeinfed ganrif. Dyna'r cwbl. Un orchest odidog a gyflawnodd yr ugeinfed ganrif hon erioed, am wn i, sef arddangos ei ffalws mewn toiled cyhoeddus, i blant. Wele wele, dim arall, hyn — dyma'r gyfrinach enfawr gomon.' Cododd ei lais. 'Edrychwch greadigaeth drendi. Diwedd y mileniwm yw hi. I Iwerddon, i Lŷn, i Benfro, wele ddiwedd, ei arddangos ar ben Pendinas ar draws Bae Ceredigion, heb gyfeillgarwch, heb barch, heb ostyngeddwydd, yn anifeilaidd nefolaidd petai anifeiliaid mor orffwyll hurt. Mae'r ganrif hon fel petai wedi datgan wrth y canrifoedd eraill i gyd: edrychwch gyfeillion. Cariad? Pwff! Dyna'r cwbl yw e. Hyn. Edrychwch ffrindiau ar y lot hyn. Edrychwch beth dw-i wedi'i ffeindio. Dim cyd-barch. Dim ymostwng. Dim aeddfedrwydd. Dim harddwch. Fi biau hyn. Yr ugeinfed ganrif. Wele!'

'Felly.'

'Dyna fyddai hi pe bai'r peth yn gallu digwydd, efallai. Rhyw fath o arwydd

proffwydol o'r Hen Destament ar gyfer heddiw. Wele, O fyd, dy ddirgelion oll. Yr aelod tanddaearol coll. Yr arwydd o'r seler ... Mae'r cwbl yn ymddangos yn hollol wirion nawr. Yn wir, felly roedd hi chwep wedyn. Dwi ddim yn deall beth y gallwn i ystyried rown i'n gyflawni, — petawn i wedi gwneud dim. A wnes i ddim. Byddai'n well efallai ddweud gwallgofrwydd munud awr. Ond Hosea ... ie, Hosea. Efallai.' Palfalai Len am eiriau y gallai'u coelio. Roedd y bechgyn yn ennill arno, a chelwydd yn chwalu realiti.

'A! Ie! Dyna ni. Mae'n ddrwg gen i dy boeni, Len.'

'Popeth yn iawn.'

'Ond rown i'n meddwl y dylwn i ofyn yn rhinwedd fy thwydd.'

'Ond dyfalu am gymhelliad yw hynny: nid dyna oedd hi. Cred di fi, Bill. Erledigaeth foel fas oedd 'na. Bechgyn od, o'r wlad, yn eu cyffuriau. Dyna'r cwbl.'

'Ie, ie, ond mewn rhyw amgylchiadau, oni allet ti ... byth?'

'Na! Byth! Gad hi.'

'Pe baet ti'n meddwl ... wedi meddwl ... am rywbeth arall, heb fod yn ythtyried ar y pryd ... '

'Popeth yn iawn. Dwi'n gofyn yr un cwestiwn llyfu-gên fy hun.'

'Dwi'n gweld dy bwynt yn gyffredinol.'

'Os oedd 'na bwynt. Doedd dim.'

'Cynnyrch ei dipyn oeth oedd yr hen Thigmwnd yntau.'

'Cynnyrch ei oes yw pobun,' ategai Len yn bwylllog, 'i raddau. Ond cynnyrch tragwyddoldeb hefyd.'

'Yr unig drafferth aruthr dwi'n gweld,' meddai Bill, 'yw urddath.'

'Dyna'r olaf o'm trafferthion,' meddai Len gan garthu'i lwnc yn urddasol.

'Wrth gwrs, nid ein hurddath ni'n hun. Nid dyna thy gen i mewn golwg, debyg iawn. Ethtyniad yn ni. Cynrychiolwyr bob un, ni'r gweinidogion. Urddath Duw dwi'n thiarad amdani — amdano — amdani.'

'Cardotyn dwi fan yma ta beth. A does gan gardotyn ... '

'Elli di ddim taflu urddath, fachgen, heb frifo pobol, heb frifo Duw.'

'Yn sicr, hoffwn i ddim brifo neb.'

'Ac rwy'ti'n perthyn i urdd, cofia, i gwmpeini, i gatrrawd. Pan fydd un yn cael ei glwyfo mae yna fwlch yn y rhengoedd.'

'Heb glwyfau, heb adnabyddiaeth. Fe allwn-ni wneud rhywbeth â chlwyfau. Ond am

urddas, gweld honno'n dipyn o glown dwi.'

Yna saib ... Wedyn, atebodd yr esgob: 'Diolch am y thgwrth beth bynnag. A phob bendith arnat ti. Noth da 'mrawd.'

Nid atebodd y brawd.

Ac yn ei balas, yng nghanol y cysuron cymedrol, eisteddai'r Esgob wrth y ffôn yn fud am foment go hir. Y sawl sy'n cau'i geg weithiau sy'n traethu'r mwyaf; ond roedd hyd yn oed y tawelwch yn awr yn fud.

Mudandod cyfandir dieithr oedd bywyd. Disgwyliai'r Esgob ar ei eistedd am ateb cyffredinol, ac yntau heb wneud dim o'i le i neb — mor rhinweddol oedd â'r sawl sy'n llwyddo i beidio â bod yn wrthsemitig ym Mhontrhydfendigaid. Ond o leiaf, yr oedd yn gwybod ar ba ochr i'w fara yr oedd ei ffydd wedi'i lledu. Cywirdeb gwleidyddol. Ond beth oedd i'w wneud â phrifddinas meddwl yr ugeinfed ganrif — y toiled — pa beth oedd i'w ddweud yn y fan honno? Beth oedd dirgelion pob budreddi? Rhoddodd Len y ffôn yn ôl yn ei nyth laid a llaca yn dawedog aneciwmnaidd gan gadw cledd ei law arni yn llonydd ddisymud benderfynol. 'Ie, peth priodol yw gelyniaeth.'

Yn Llanbiblig nid rhaid oedd chwilio'n bell i ddod o hyd i weddillion parchusrwydd ymosodol. Mewn ambell bentref nis ceir ysywaeth ond megis eira wedi'i chwythu'n flêr i rai corneli, fel haint, wedi casglu baw sawl wythnos oddi ar dasgion yr hewl, ac wedi dadmer yn fudr bell. Mewn ambell bentref arall rhaid picio y tu ôl i'r tai i'r gerddi o'r golwg a sbio fel y bu'r plantos yn adeiladu rhywbeth tebyg i ddyd eira ohono, ond bod hwnnw hefyd wedi suddo i mewn iddo'i hun. Bydd wedi colli ffug bibell o'i geg, ac yn rhacsog ddigalon fel nad oedd neb yn boddran edrych arno mwy. Ond yn Llanbiblig, fan yna, heddiw, A! arhosai carpiâu'r parchusrwydd gynt yn denau dros *bobman* o hyd ymlaen drwy Fai a Mehefin, yn arwynebol wyn, yn weddillion ar drothwy swyddfa'r post, ar draws y fynwent, a'r eglwys wrth gwrs a thoi'r ddau gapel, ar silffoedd ffenestri'r tai ac yn y caeau am filltiroedd heb olion traed, ac yn gannaid ffres ar bwys... y toiled cyhoeddus.

Eto, nid parchusrwydd dwfn mono yn unman wrth gwrs. Dim namyn toddion tila o barchusrwydd oes arall adfeiliol, ond yn ymosodol.

Diau fod yna amser wedi bod pan oedd parchusrwydd cywir dilyffethair ei hun yn llewyrchu'n groyw, pan oedd yno rywbeth dilys i'w barchu. Anrhydeddai pobl ei gilydd. Anrhydeddent oherwydd gwybod yr ymdrech i gynnal uniondeb buchedd. Roedd parchu cyd-ddyn yn fodd i gadw'n synhwyrol. Meddent o bosib ar safonau amgenach na

chyfleustra. Ond wrth gwrs, darfu am y fath faldod. Ni adawodd namyn y gwehilion dynwardol pitw yn waddod, yn y cwteri. Adwaith yn erbyn y dynwardiad hwnnw fu'r ugeinfed ganrif ar ei hyd.

Ar y Sul canlynol, felly, gallesid tyngu i'r gweddillion parchusrwydd yn Llanbiblig gael eu caboli cyn dod at ei gilydd. Nid bod mwy o bobl efallai yn mynychu tai cwrdd yn Llanbiblig nag yn unman ysbrydol-farw arall. Ond efallai fod mwy o bobl yno yn synied y *dylent* fynychu tai cwrdd ar adeg fel hon. Arferoldeb diderfyn mwyn ydoedd wedi dod adref i ddial. Pan drawai cloch y llan o'r diwedd ei hunsain grawciedig, taniai ambell atgof anesmwyth am fam-gu uniongred. Ac ar draws orig felly, hyd yn oed ar ôl iddi beidio, daliai'r gloch hyll i atseinio'n gyfforddus.

Ymledai'r gwehilion parchusrwydd ar draws ymennydd ymneilltuol Len yntau yn awr, fel cwmwl gaeaf wedi dod i ginio.

Deffrôdd yn sydyn o'i synfyfyr. Yn yr un lle y safai o hyd. Rhaid mai aros yn yr un fan honno a wnaethai ar ôl doddi'r ffôn yn ôl yn ei lle, a'i law yn gorffwys wedi'i rhewi wrth y teclyn. Caeai rhywbeth cyfarwydd amdano, rhywbeth myglyd. Ac yna, sylweddolodd.

Do. Fe'i canfu. Rhyw fod arall a oedd wedi cau amdano am foment. Yn ddiymwybod treiglasai Len tua'r drws, ac allan o'i astudfa i'r cyntedd; allan o'r cyntedd wedyn drwy ddrws y ffrynt i lwybr yr ardd a'r hewl. Oer enbydus oedd y nos. Ond yr oedd ef wedi ymlacio ryw ychydig wrth ddod allan. Gwag a ffres oedd yr hewl. Ymestynnai'n gymharol syth yn awr i lawr drwy'r pentref at y bont. Heblaw bod yn Amser, roedd y llif amryddawn yna o dan y bont yn awr yn ddrych. Roedd mymryn o gysgod gwelw o gwmpas Len hefyd a'i ffolineb yn ddirgryn ar wyneb y drych hwnnw. Fe pitw didla oedd yno, beth bynnag. Trodd i ffwrdd. Wynebai'r hewl o'r newydd. Dyma fan lle y caed ychydig o dro cyn iddi ddringo drachefn i fyny tua'r capel gwledig. Mor lân oedd y tarmac hwnnw benbwygilydd. Mor lân yr oedd tangnefedd yr hwyrnos hefyd yn gallu bod. Drych ydoedd rywsut o gryndod rhedegog yr anghredadwy. Cerddai a cherddai yn awr nes iddo ddod hyd iddo'i hun.

Y Sul hwn, am mai'r Sul ydoedd, nid ymddygai neb yn wahanol iawn tuag at Len i arfer. Eto, caed un amryweb afreolaidd ar y patrwm. Tawelwch erchyll. Wrth i'r gynulleidfa

ymadael ar y diwedd, eithafol o ddistaw oedd pawb fel pe baen nhw newydd glywed iddo drengi. Bu digon o'r gynulleidfa yn mynegi cydymdeimlad ag ef, bid siŵr, am golli'i fam. Siglent ei law fel siglo llaw celain. Traethent eu barn am y tywydd gyda chryn fanylder. Bu i un hyd yn oed ddiolch iddo am ei bregeth. Ond am y scandal, symudent yn y cylch-paffio o'i ddeutu'n araf heb daflu'r un ergyd: ogyrch-amgylch.

Allan o Hosea, y bennod gyntaf, y dewisasai Len bregethu.

Oedent mewn grwpiau a'u pennau'n gwyro i lawr wedyn; a llwybreiddiodd ef heibio iddynt heb darfu ar eu parchedigaeth ... fel hers. Yna, picient hwythau eu ffordd ddisgybledig ar flaenau'u traed i lawr ar ei ôl ar hyd llwybr y capel rhwng beddau'r darfodedigion oll, ac adref adref blant afradlon mewn tawelwch afluniaidd.

Dyma wythnos hanner tymor i'r ysgolion. Trefnasid ers tro iddo fynd â dwsin o fechgyn y tri chapel rhwng deuddeg ac un ar bymtheg oed i babelia ym Mwlch-y-garn, ac iddynt ddringo Pengarnedd ar y diwrnod sych cyntaf. Disgwylasai ef rywsut, bellach, yn ddigon naturiol, y ceid ecsodus go boblog onid unfryd o blith y criw a roddasai'u henwau iddo ynghynt.

Dim o'r fath beth. Roedd pawb, o'r crwtyn lleiaf hyd y llanc praffaf wedi dod yno. Rhyfeddai at yr ymddiriedaeth.

O safbwynt y capeli, taw a deyrnasai, heb yr un awgrym o annheyngarwch. Nid oedd neb yn gyhoeddus am ddechrau lluchio'r belen eira gyntaf weledig. Nid oedd neb am ymarfer ei dafod yn glywedig. Tawelwch anghyfforddus ac annealladwy garedig iddo ef, yn wyn ddifudreddi ar hyd y llawr, oedd y drefn.

Tybed onid oeddent yn derbyn ei fersiwn ef o'r helbul?

Ffôn.

Llais gwryw. Dyma ni o'r diwedd, anadlu trwm, sibrawd ffaidd, sbwriel, 'Beth amdani te? Beth amdani?' A mudandod cyfarwydd tawel.

Ond gadawsai'r geiriau hurt eu hól holocawst ar ymennydd Len. Digiai o'r tu mewn iddo. Beth oedd yn bod ar yr ugeinfed ganrif? Pe buasai rhyw rithyn o wirionedd y tu ôl i'w drosedd, fyddai dim angen mynd i'r eithafion hyn. Clywai rywfaint o *timbre* llais Alwyn Brown ar y sillafau; eithr cywilydd! rhaid ei fod yn camgymryd.

Post cas wedyn: tri llythyr dienw, wedi'u teipio, yr un teipiadur o bosib. Roedd y byd eisiau chwarae gêm. Ond fe allai hwn fod yn rhywun-rywun, yn berson sâl, yn ŵr gwyrdröedig. Yr un 'p' ychydig ar sgiw-wiff oedd ar bob argraff o'r llythyren. Yn berson

sâl, yn sicr, ac yn haeddu tosturi a chymorth. A chariad.

Gwaedai calon Len dros y bobl hyn. Beth oedd y cymhelliad y tu ôl i'r fath erlid? O leiaf, i Len, atgof teg ydoedd fod rhywbeth yn ddilys wedi digwydd iddo. Oni bai am hyn, gallasai fod yn amhriodol o hunanfodlon a chysurus yng nghanol ei braidd fel pe na bai'r hogiau yna erioed wedi taenu anwiredd amdano. Cymorth oedd y ddwyblaid. Caed y gwrthwynebwyd (neu'r gwrthwynebydd) cudd, a'r gynulleidfa betrus a goddefgar ddidramgwydd. Gallai gadw rhywfaint o gydbwysedd drwy'r cwbl. Er hynny, dechreuai amau'i synnwyr ei hun. Doluriai ei fynwes ef drostynt, y ddwy ochr. Pechadur oedd, wrth gwrs. Ac roedd yn meddwl yn ormodol amdano'i hun. Onid ymdroi gydag anghenion pobl eraill fysai ei briod angen?

Treiglai dau fis fel malwod anaemig ar draws ei dalcen. Balch oedd i'w gweld yn darfod. Dau fis cymharol gyfan.

Y cwbl hyn yn arwain yn ddiroi'n ôl at Lys yr Ynadon, Caerafon.

'*Erfyn* ar sail amcanion anfoesol mewn lle cyhoeddus ... Chwarae'n gyhoeddus â'ch rhannau preifat ... Dwi'n gofyn i mi fy hun, pa gymhelliad fuasai gan y bechgyn hyn i ddweud celwydd. Roedden nhw'n unfarn gytûn ... Trosedd gyntaf... gan w'r parchus... record da... Rych chi eisoes, a chofio'ch galwedigaeth, wedi cael eich cosbi dipyn. Fyddwch chi byth, druan ohonoch, yn gallu codi'ch pen yn y gymdeithas eto. Mae eich enw da yn y baw. Dirwy o £90.'

Roedden nhw wedi rhoi coel ar yr hogiau.

Roedd ef yn syfrdan. A'i fyd beniwaered.

Hen ddigon o gosb eisoes, murmurai'r ynad. Ond yn allanol doedd dim oll wedi digwydd. Doedd neb o'i gynulleidfa oedd yn y llys. Naill ai diffyg beirniaid, neu ddiffyg cefnogaeth. Roedd pawb yn ddieithriad yn yr oes oddefgar hon wedi bod yn eithriadol o glên, yn orsyber. A oedd pawb felly yn disgwyl i rywun arall frysio ar y blaen i daflu'r belen eira yna ato yn awr, ac oherwydd y methiant wedi esgor ar adwaith unfryd o faddeuant? Ynteu a oedd diffyg argyhoeddiad ynghylch dim o bwys yn peri bod marweidd-dra yn esgus bod yn oddefgarwch? Ynteu ai ei gredu ef yr oeddid, arswyd y byd, a sylweddoli mai celwydd a cham oedd holl sail y cwbl lot?

Euog!

Cyrhaeddodd Ffred Williams: 'Dw-i wedi dod â dilêwr hen baent. A pheth paent newydd er mwyn ymwardd â'r annibendod ar eich waliau.'



‘Y graffiti, felly?’

‘Ie.’

‘Peidiwch â phoeni.’

‘Sut?’

‘Gadewch e lle y mae-e.’

‘Ond.’

‘Dyna’i le.’

‘Ie. Ond ...’

Druan o Ffred Williams. Bu hwnnw yn radical ystrydebol ar un adeg. Gwrthryfelwr rhamantaidd yn erbyn y drefn barchus, fel pawb diddychymyg. Sosialydd. Bellach, gofal swynol oedd ei gyswynair. Fysai neb o’i ddyddiau mebyd yn ei nabod. Fysai yntau yn ei dro ddim yn nabod neb.

Embaras iddo oedd cyfarfod â Len. Ac ychydig o ofn. Methai â syllu yn llygaid ei weinidog.

Cawsai Len gyfle bellach yn ystod y dyddiau diwethaf i fyfyrion pwt am yr hyn nas gwnaethai, ac am yr hyn nad ydoedd. Ei gelwydd gorgywir ei hun. A’r gwir yw i’w ymwybod o bechod yn erbyn Duw fod erioed yn llawer rhy theoretig. Dechreuai yn awr sylweddoli fwyfwy y farwolaeth a oedd ynddo eisoes bob man, y bwlch a oedd rhyngddo a Bod eithafol o sanctaidd.

Druan o Ffred a’i atal-dweud, a’i chwys, a’i fustachan.

Gan ei fod yn ddiniwed yn hyn o weithred, fel yr oedd yn ddiau, gwyddai Len er hynny beth oedd bod yn elyn naturiol i’r Cread. Doedd ei ddiffyg bai yn y cyfeiriad hwn ddim yn ei ryddhau o’r sylweddoliad o ffeidd-dra. Ymwybyddai — mewn modd cymedrol o leiaf — â’r amharodrwydd i fod yn llawn rwymedig i aruthredd yr efengyl. Cymedroldeb dros-ben-llestri amdani efallai. Dyna fu ei *forte*. Marweidd-dra ysbryd cymedrol. Yr union beth a esgorasai ar wacter mawreddog y capeli. Ond yn awr, dros leiniau’i asgwrn cefn, ddi presenoldeb personol y tywyllwch yn grisial gliriach nag erioed o’r blaen.

Pam yr âi’i fuchedd bob amser dros ben llestri fel hyn? Oni allai fod yn realistig ddof ambell dro? Onid oedd ’na dangnefedd i hen lanc dof di-ffrwt?

Ac yn yr unigrwydd noeth hwnnw gwyddai fod honno yno ar gael, yn bod, y tu mewn iddo, yn y gwaelod, y farwolaeth fedrus, yn ceisio pontio rhyngddo a normalrwydd braf y byd difater a chaled, ac ar waith yno yn nyfnder ei ysbryd yn ddyfal. Y farwolaeth gël

gytbwys... Mair!

Un ohonyn *nhw* oedd ef ei hun, y *nhw* pentrefol, y rhelyw, un o'r cymedrolion croendew. Eu syrffed hwy oedd ei borthiant ef. Beth bynnag am y gynulleidfa allanol arferol, hunanfodlonwyr a rhagrithwyr oedd ei gapelwyr mewnol i gyd bob wan jac. Marw oedd biau pawb ohonynt, y cwbl lot, yn weinidog ac yn bobl fel ei gilydd. Neb yn nabod Duw. Ymhen hir a hwyr, diflannu a wnaent oll. Dôi diwedd i bob oedfa. A chiliodd Ffred.

Ysgyfarnogai meddwl Len bellach o flwyddyn i flwyddyn dros y gorffennol, o ardal i ardal. Eisteddai wrth ei ddesg yn paratoi clo i'w bregeth i oedfa'r hwyr canlynol.

Alltudiwyd ef yn ei dŷ ei hun: meudwy oedd ef yno ynghanol ei gynulleidfa.

Ac yn ddisymwth, eisteddai yno ar uchaf ei ysgwydd crwm presennol gorff arall, corff crwm y myfyriwr hwnnw flynyddoedd ynghynt yng Nghaergrawnt. Ef, a Bill, a chriw o'r lleill, Anturwyr yr ysbryd gwirion. Ieuenctid addawol. Chwarddai ychydig ynddo'i hun. Cofiodd amdano'i hun yn pendroni yn ôl fan yna wrth ei fwrdd-gwaith tan chwarae astudio gynt; ac yna'r curo ar y drws, un bachgen a dwy ferch yn heidio i mewn, poteli, bloeddio, record, emyn, diniweidrwydd. Yn ôl y'i caed ef bellach yn nyddiau'r Brifysgol. Dyddiau'r adar!

Ac allan â *nhw* wedyn fel awel i'r awyr hwyrol.

Canfyddai afon Cam islaw yn awr, a'r bad yn cael ei gipio'n anghyfreithlon ganddynt — 'sylwith neb ar un bad bach...hanner awr' — a'r pedwar ohonynt yn hwylio i lawr gyda'r cerrynt cymedrol. Y sefyll wedyn i ddangos ei hyder ei hun ar ganol y bad — ar ganol y byd. Y chwerthin wrth baredio ar un goes a'i freichiau ar led. Y sblaes flodeuog anochel i'r afon. Y dringo trwsogl, bwriadol ymosodol, yn ôl i'r bad, yn gyflym cyn y byddai'n rhaid tyfu i fyny, gyda'r unig amcan o ddymchwelyd pawb, gan ddowcio'r lleill mewn sobrwydd.

Y dymchwel llwyddiannus felly. A'r chwerthin. Y chwerthin a'r tasgu defodol. Y cydnofio yn eu dillad. A allai ffatri fyfyrwyr gynhyrchu hwyl fwy glaslancaidd?

Canfyddai'n awr y pedwar ifanc drachefn acw yn ymlusgo'n ôl i'w ystafell. Yn eisteddian yn eu dillad isaf. Yn gorweddian ar y llawr yn flinedig hapus. Yn llond y sir o'u diniweidrwydd. Ond yn benderfynol o beidio â gorffen y noson eto.

'Allwn ni byth roi'r ffidl yn y to 'to.'

'Siarada dros y to ifanc, dy do dy hun te Data.'

'Fel disgynnydd i adar-y-to, siarad wnes i dros bob to.'

‘Do? Ditto i fi te, co.’

‘Ac dw-i’n pyncio — do! mi! re! do !— ar ran pob dodo.’ O’r amynedd barfog!

Chwarddent oll yn ddisynnwyr garlamus. Fel twll diddychymyg mewn balŵn llancaidd ar noson olaf Proms Lloegr. Ac allan â nhw drachefn yn eu dillad isaf o hyd â photaid o baent coch, i liwio un o gerfluniau mwyaf Torïaidd y ddinas. Tybed a allai neb fod yn fwy ystrydebol na’r gwrthryfelwr hwnnw gynt, fyth? Neb yn fwy rhagweladwy? Neb yn llai gwreiddiol na radical confensiynol? Clywsai rywbyrd mai degran yn unig o waith cerddor mawr cydnabyddedig a allai feddu ar wreiddioldeb. O wthio pethau ymhellach, yr oeddid yn mentro’n rhy bell i’r anneall. O ymatal yn llai, yr ystrydeb a ddôi i’r orsedd. Ond hi, hon, yr ystrydeb fawreddog gymedrol hon o fywyd yn awr ynghanol afiaith llencyndod, hon yn unig a gyfathrebai mewn unigolyddiaeth newydd gofensiynol o’i gwthio ychydig yn ei blaen heddiw.

Defod ddealladwy? Wel, ie. O na byddai’n hafog o hyd.

Chwalodd fesul un ei atgofion am ieuencid annealladwy fel dŵr o dan olwyn car. Dringodd yn syrffedus i’r llofft unig. Ac yn y fan a’r lle fel mynach dadrithiedig mewn breuddwydion gwallgof am hunan-gosbi drwy foddi, noswylodd. Breuddwydiai mai gweinidog cydymffurfiol o anghydfurfiol oedd ef o’r newydd fel yn y dyddiau gynt, cyn i ddim oll ddigwydd i fywyd. Y dechrau newydd.

Mwyach, ymlwybrai’i fyfyr adref...Byw ar ei ben ei hun a achodai'r ffansiön oll.

A’r Sul canlynol tybiai iddo glywed dwy fenyw’n sibrwd, a’u lleisiau mor esmwyth â morloi. Amdano ef yr oedd y sgwrs. Roedd yn siŵr o hynny; amdano ef. Dyma’r tro cyntaf iddo ymwybod â chlecs o’r fath.

‘Y ffŵl.’ Clywai’r gair yna wrth ddod allan i borth y fynwent. Clywai’r sillafau ‘rhy rwydd’ neu ‘lo blwydd’. Roedd yna gyswllt rhwng y geiriau oll nas clywai. Ond gwyddai mai ffŵl esgymun oedd, o leiaf yng nghalonau rhywrai. ‘Y porcyn parch!’ Roedd ef erioed yn ddiau wedi cael pethau’n llawer rhy esmwyth.

Ac ofn du oedd arno. Ofn ffôl y parchusyn clwyfedig. Nid yn unig cywilydd, nid yn unig edifeirwech; ond ofn. Ofn du yr ansicr. Ofn ei ddiymadferthedd a’i ddiffyg rheolaeth ei hun, ofn y dyfodol cymysglyd ac anhysbys, ofn methu, ofn moethus, ofn amharch, ofn hyd yn oed unigrwydd. Ac ofn y gwir gwyn gwan.

Daethai’r cwbl yn ôl o’r newydd. Sglefriaï dros lysnafedd ei ymennydd. Ffurf toiled. Y plant. Y cyffuriau. Dim byd yn digwydd i neb. Âi’n ôl felly yn ei feddwl dros yr un hen

lwybrau, yr un hen wiriondeb dibwys. A allai'i gof ei bryfocio o hyd? Cerddai adref o'r capel mewn pendro a'r cwbl wedi dod yn ôl iddo. Mor bur oedd y sêr uwch ei ben tan guro arno. Mor eglur oedd yr awyr o'i gwmpas ym mhob man. Yr oedd yr wybren yn fraw distaw wrth iddo ymlusgo adref.

Cyrhaeddai lidiart yr ardd. Edrychai ar y coed afalau yn tin-droi yn Nhachwedd, gyda degau o afalau'n oedi ar y brigau uchaf o hyd, yn rhy uchel iddo'u cyrraedd oddi ar yr ysgol. Flwyddyn ar ôl blwyddyn ymdyngedasai i dorri ar y goeden honno. Addunedasai i'w thocio'n hydrin er mwyn iddi dyfu'n braffach, ac er mwyn gwneud y ffrwyth yn gyraeddadwy. Cnowyd y rhan fwyaf o'r afalau a arhosai, gan frain a drudws ac adar eraill. Er bod eu gwaelodion yn rhosynnog, roedd eu rhannau uchaf yn gnöedig. 'Oes, mae'n rhaid tocio'r hen beth, er ei fwyn ei hun ac er mwyn pawb arall.'

Yr wythnos ganlynol roedd Hanna Meri wedi mynd yn gwbl amhosib i'w thrin. A gorweddai peth o'r cyfrifoldeb am ei hanghysur arni'i hun. Ceidwadreg selog oedd hi: hen gadeirydd i'r Blaid barchus honno yng ngogledd Swydd Gaerafon. Ers tair blynedd roedd hi wedi gwrthod y drefn o ymneilltuo i gartref henoed. Allai hi byth odde'r syniad o fyw ar gefn y wladwriaeth. 'Alla-i byth fforddio lle iawn.' Yn ei thŷ hi ei hun roedd am fod. Y fan yna gyda'i sosbenni y cawsai'i geni, a'i mam o'i blaen. Roedd yn fwy na thŷ o fath arferol iddi. Y fan yna y dychwelodd hi i fyw ar ôl ymadael â'i gŵr, a droes yn ffug Sosialydd cymedrol, fel pob Cymro yn yr ugeinfed ganrif. Oddi yno y claddwyd Dic y ci. Ac yn y fan yna yng nghanol ei chelfi roedd hi am fynd i'w hateb. Doedd dim symud i fod. Pan ymwelai â hi, ceisiai Len Llwyd ei darbwyllo gan bwyll ac yn gynnwl i fod yn gall. Ond dyna'i hawliau hi. 'Anghofiwch am eich tipyn dogma, Hanna Meri. Anghofiwch eich hen falchder, da chi. Rych chi wedi rhoi oes o waith i'r gymdogaeth.'

Am dair blynedd ystyfnig bu cynorthwydd preifat yn galw heibio iddi i lanhau'r tŷ ac i'w golchi. Câl bryd-ar-glud beunydd gan yr awdurdodau yn groes i'r graen. Ddai Len Llwyd i ymweld â hi ddwywaith yr wythnos. Ceisiai'r cynorthwydd hefyd ei pherswadio felly i droi at gysuron cartref proffesiynol. 'Na, wna-i ddim symud. Byth! Byw ar gefn y Wladwriaeth! Dros dy grogi. Mi apelia-i at y Senedd cyn cyrchu oddi yma.'

'Ond mae aros yn amhosib erbyn hyn,' cyngorai Len.

'Fi sy'n amhosib. Bywyd sy'n amhosib. *Wna-i ddim symud.*' Ac roedd ei brawddeg olaf yn Saesneg. Yr oedd honno felly'n swyddogol.

'Ond mae'n rhaid ichi.'

‘Rhaid! Rhaid! Yma mae’n rhaid imi fod.’

‘Ond be wnewch chi?’

‘Ddim symud.’

‘Fedrwch chi ddim gofalu amdanoch eich hunan.’

‘Medra.’

‘Na fedrwch.’

*‘Fan hyn dwi’n mynd i fod,’* meddai hi eto yn Saesneg, *‘yn wyneb y fandaliaid i gyd.’*

Cloes y sgwrs. Roedd ei llygaid yn ddiferion mân sgleiniog, a’i meddwl fel pibonwy di-dawdd. Aethai Len Llwyd draw i’w darbwylllo unwaith eto. Siglai’i phen yn bruddbost.

Roedd y pen caboledig hwnnw gyda’r blynyddoedd wedi mynd yn rhan gadarn sefydlog o’r tŷ, yr oelcloth yn llyfn ac yn hawdd i’w olchi, y silffoedd ar bwys ei gwar yn llawn ond yn daclus, y ffwrn yn gyfleus wrth ei thalcen pan fyddai’n digio ac yn ymateb yn hwylus i bob galwad arni; ynghyd â’r sinc o geg a oedd ganddi lle y gollyngid peth wmbredd o de un ffordd ac ambell ebychiad ffordd arall. A hwnnw’n dŷ mor sefydlog solet. Yma’r oedd hi am fod. Sut ar glawr daear y gallai hi symud?

‘Dwi’n synnu a rhyfeddu, Mr Llwyd. Chi o bawb! Rown i’n erfyn y byddai mwy o glem gyda chi.’

‘Dwi yn deall, Hanna Meri.’

‘Deall? Ddim o gwbl. Dych chi ar yr un ochr â’r Sosialwyr ’na.’

‘Na, na. Dwi ddim ar yr un ochr â neb.’

‘Fandaliaid! Ble a-i? Does unman yn saff. Dyw hi ddim yn saff picio i Swyddfa’r Post. Dyw hi ddim yn saff mynd i dalu am y teledu. Crogi nhw, dyna sy eisiau ...’

‘Byddwch dan ofal agos yn y fan yna.’

‘Dim parch. Nac oes. Mae eisiau crogi’r lot. Peidio â thalu trwydded deledu. Dyna wna-i. Ni sy’n gorfod cynnal y cwbl. Yr hen bensiynïers.’

‘Dowch nawr Hanna.’

‘Dwi’n ’gwylied nhw. Gyrru’n glau drwy’r pentre. Crogi nhw. Dyna wnelai Mrs Thatcher oni bai am yr Heseltine drwg ’na o Bort Talbot. Sosialydd yw e ’run fath â’r Welsh Nashys i gyd. Crogi nhw dyna wnelwn i. Dych chi’n credu mewn crogi Mr Llwyd?’

‘Dwi’n ffansïo’r dull dwyreiniol.’

‘O! a beth yw hynny os ca-i’i ofyn?’

‘Gerfydd eu trwynau.’

‘Y trwynau! Ydy hynny’n para o hyd? Oes ’na ddyfodol i beth felly?’ Edrychai hi arno’n hynod o amheus.

‘Ac wedyn gerfydd y clustiau, ar ôl colli’r trwynau dwi’n feddwl.’

‘Ond rhyw gosb gosmetig yw peth felly, ynte fe?’ Roedd e’n tynnu’i choes, roedd yn amlwg.

‘Y gwallt wedyn.’

‘Nghoes i dych chi’n ei thynnu, neu ’ngwallt?’ Roedd ef yn ceisio peri iddi deimlo’n ansicr.

‘Maen nhw’n dechrau mynd yn brin o atodiadau wedyn, on’d yn nhw?’

‘Nhw! Atodiadau!’

‘Mae yna ambell un ar ôl. Ac wedyn ... A! wedyn, yn y diwedd ulw, y pen.’

‘A!’ Ymunodd hi yn y ddawns yn goegus, gan wenu cytundeb yn awr.

‘O’r diwedd, ar ôl twymo’r aelwyd fel petai ... ’

‘Ie,’ cynhesai hi at yr awgrym gan wenu’n fwy gwybodus byth ar Len.

‘Ar ôl cynnig ac eilio, ar ôl estyn yr adenydd, mae ’na gelfyddyd welwch chi mewn dienyddiad dilys dwyreiniol.’

‘Oes.’ Ymledai’i gwên yn hyderus hyd ei hysgwyddau bellach. Diwedd yw deall.

‘Maen nhw’n gwybod eu pethau. Maen nhw’n gallu dihysbyddu’r pwnc. Nid rhyw daro cis fel chi’r Toriaid, Hanna Meri.’

‘Na ... ’ Ac yna, sobrodd hi, ac ailgydio yn ei difrifwch. ‘Yr Heseltine ’na sy’n ’gwneud hi. Rŷn ni i gyd yn troi mor feddal. Mae’r dyn bron â bod yn gomiwnydd.’ A phe bai’i llygaid hi’n gallu poeri y foment honno, poerent eu poer.

‘Na hidier. Trowch tua’r gwir ddwyrain, Hanna Meri; fan yna mae’r ddisgyblaeth; fan yna mae’r wawr.’

Ond pendronodd ef yn gyfrifol dawel am ei sefyllfa. Byddai’n rhaid iddo dreulio mwy o amser gyda hi o hyn ymlaen. Eto gwyddai fymryn am y perygl o sgandal. Gwyddai hefyd am ei hangen dwfn hi. Gwyddai ei hannibyniaeth.

A dechreuai ef alw ben bore a hwyr. ‘Mae-e wedi symud i mewn ati i fyw,’ meddai ambell un o’r cymdogion o’r diwedd. Ond yr oedd hynny ymhell o’r gwir. Ceisiai ddarparu hyder iddi. Os teimlai hi ei bod yn methu â dygymod â threfniant cartref henoed, yna fe arhosai ef yn gefn iddi. Caent ‘hwy’ — yr hwy diderfyn — ddrwgdybio fel y mynnent.

Caent amau'i holl gymhellion. Caent hel clecs fel hel mwyr. Y fan yma oedd ei fraint. Amgyffredai'n burion gymaint ei hiraeth hi am aros gartref. Amgyffredai'r amhosibilrwydd iddi fyw ar ei phen ei hun. Roedd popeth yn ei herbyn. Methiant oedd hi mwyach, a'i holl urddas wedi chwythu plwc. Nid oedd hi'n ddiogel hyd yn oed ym myd yr offer sylmaf: gallai droi'r nwy ymlaen heb ei sylweddoli. Ac ni allai fforddio cynorthwydd llawn-amser. Eto, ni fynnai dderbyn breintiau'r Wladwriaeth Les.

'Gorau po gynta yr a-i o'r hen fyd, Mr Llwyd bach.'

'Mi gawn weddio gyda'n gilydd.'

'Mae pawb dwi'n garu eisoes wedi cilio.'

'Mae yna amserlen inni i gyd.'

'*Does dim ar ôl imi,*' meddai hi yn Saesneg.

'Oes, mae'n rhaid bod.'

'*Dwi'n teimlo 'mod i'n cael fy nghosbi,*' meddai hi eto yn ei Saesneg Toriaidd diferol cefn gwlad drachefn. 'Dwi'n methu â chysgu.'

'Triwch anghofio popeth. Gwacewch y meddwl bach bishi 'na. Mae gormod o gof gynnoch chi.'

Roedd Hanna Meri wedi meistrolï'r grefft anodd o gyfuno taeogrwydd gydag urddas. Ac o'r diwedd, yn awr cyfarfu â gwendid corfforol. Bygythiad y cysgodion olaf. O flaen y rheini nid oedd ei thaeogrwydd yn ffenomen ddieithr wrth gwrs. Ond fe'i cyfunid o hyd â thipyn o hunan-bwysigrwydd pert. Efallai fod yn rhaid i waseidd-dra ymddwyn fel pe bai'n urddas er mwyn goroesi.

'Na, na,' meddai Len Llwyd yn ei dosturi tuag ati. 'Mi gawn-ni weddio.'

'Yn Saesneg te.'

'Mae E'n dysgu'r Gymraeg, Hanna.'

'Mae'n siŵr 'mod i'n cael 'y nghosbi. Dw i ddim yn ymladd yn ddigon caled drosti.'

'Dros bwy, Hanna Meri?'

'Mrs Thatcher debyg iawn. A'r Cwîn. Dwi ddim am aros yn hyn o wlad mwyach, ddim fel y mae-hi, beth yw'r pwynt? Ac mae bywyd, yr hen geiliog twp undonog hwnnw, yn 'y nihuno i bob bore os cysga-i o gwbl: mae'n dod â rhagor o gosb. Mae'n gosb i'ch gweld chi'n gwastraffu'ch amser gyda fi fan hyn.'

'Na, na. Chi,' taerai ef. 'Rych chi'n gwmni i mi, welwch.'

'Byth!'

‘Ydych, ydych: dwi’n cael anrhydedd wrth wneud y gymwynas leiaf i chi.’

Ac roedd y gymdogaeth i gyd yn ei ddrwgdybio o’r herwydd. Fe’i hadwaenent ef bellach. Roedd y dyn, mae’n rhaid, yn eithafwr rhywiol. Câi ei bardduo ym mhob simnai.

18

Fis cwta wedyn roedd yna gorff newydd yn y capel.

Yn y drydedd res o’r cefn ar y chwith roedd yna ben dieithr. Treiglai math o hisian fel alarch urddasol ar draws llyn ar hyd y seddau o’r cefn tua’r ffrynt. Gwraig hardd, ryw ddwy flynedd yn hŷn na Len Llwyd, gwraig lwydwallt, dal. Sisialai’r tegell pentrefol yn agos i’r berw drwy gydol y cwrdd. Meddai hi ar lygaid tangnefeddus breuddwydiol, a gruddiau esmwyth am esgyrn lluniaidd. Gwisgai gôt las o ddeunydd coeth breuddwydiol, ac yr oedd ei sgidiau gwastad o ledr cain melyn.

Eisteddai’n frenhinol yn ei sedd gan wasgar o’i deutu beraroglau y driniaeth wallt a gawsai’r diwrnod cynt. Eisteddai megis un o fachludoedd Turner yn lledu niwl rhosynnog ar draws y capel oll fel o’r braidd y gallai’r praidd ar ddiwedd y gwasanaeth ymlwybro heibio iddi allan heb longdryllio yn y persawr awyr-iach hwn.

Cynheswyd ati wrth ei phasio.

Dychmygai Twm Teiliwr, sydd bob amser yn synfyfyrion am ei fol, ac yn meddu ar archwaeth arbennig, fod arni ychydig o sawr hyfryd a chynnes cig eidion. Ond roedd y dyn yn wallgof. Ni chafwyd erioed y fath gig mewn cinio dydd-Sul hyd yn oed yn y Conrah. Oedai unigolion, rhai yn fwy ewn na’i gilydd ar ei phwys er mwyn i’r aroglau sipian i’w ffroenau. Gollyngai ambell un ochenaid anhyglyw o foddhad blasus. Edmygid ei chroen. Gwirionid am ei hysgwyddau lleddf a’i thynnerwch caboledig. Beth bynnag oedd y sawr, gwnâi hon yma ei hun ginio ardderchog ar gyfer priodas, meddai Twm. Deuent â’u platiau cynnes heibio iddi yn eu tro er mwyn, meddai Twm, gludo atgof adref i’w rannu ymhlith pechaduriaid na chawsant eto ddod ar gyfyl y fath ddiddanwch cyfoethog. Y gwrthrych yma a laniodd yn eu plith yn unswydd er mwyn i’w hymddiddan fod yn boeth ac yn stumogus ddanteithiol.

Roedd un pâr o lygaid a ddaeth gyferbyn â hi wrth iddynt gyrchu allan drwy’r drws. Rhythent arni’n graffach na’i gilydd. Oedwyd eiliad ar ei phwys. Ond nid adwaenid moni’n hyderus. Nid oedd hi’n ddim iddo mwyach. Nac yntau iddi hi. Ac eto, iddi hi, roedd y



llygaid hynny, a'u perchen parchus Ffred Williams, i'w teimlo arni o hyd. Ychydig yn gystwyedig efallai gan flynyddoedd. Ond yn goglais y tu ôl i draul y machludoedd crin a gafwyd er gwyliau llon llencyndod.

Pwy oedd hi? Tybed ai atgof?

Ond rhwng y ferch ifanc a'r fenyw dra urddasol ddiweddar hon, nid ei chorff eithr y breuddwydion anghyfrifol oedd yr unig ddolen gyswllt.

Bellach cyrhaeddodd hi bont yn ei siwrnai. Hyd yn hyn roedd Maxine wedi breuddwydio megis ar wahân, yn neilltuedig, bron fel practis gan gwmni theatr o freuddwyd. Bellach roedd hi wedi cyrraedd. Ac yno'n llechu hefyd, tan ddisgwyl amdani, fe gaed yr ugeinfed ganrif gan hwn yng Nghymru. Yn awr, byddai'n gorfod gwireddu'r bywyd gorffennol a breswyliai ers tro yn theatr ei hisymwybod. Tynnwyd y llen heddiw yn ôl. Âi hi allan i'r oerfel, ac roedd yr oerfel hwnnw yn brathu. Roedd hi wedi cyrraedd. Roedd hi wyneb yn wyneb â realiti. Bellach byddai'r freuddwyd yn ymuno â'r gymdeithas galed o'i deutu yn yr henwlad.

Eto, mwynhau'r cwbl a wnâi yr un pryd.

Roedd Maxine yn ymwybodol o'r llygaid mân yn y corau. Roeddent wedi goleuo o'i hamgylch a'i gwneud hi'n fwy diddorol nag y'i teimlai'i hunan. Ac yn ebrwydd roedd wedi lled gynhesu at y pentref.

Symudai allan o'r capel yn urddasol freuddwydiol ond heb fod yn berfformiol. Gwenai ar y gweinidog. Estynnai hi'i llaw yn fwynaid ato. Ysgydwai'i law yn dyner eithr heb fod yn faldodus. Ond diflannodd honno wedyn o'i afael fel pilcodyn bychan. Fe'i cyfareddwyd ef ganddi. Cerddai hi'n fân ac yn fuan ar ei sodlau-gwastad, i lawr tua'r llidiart, fel breuddwyd brofiadol, gyda rhyw ddisgyblaeth dangnefeddus yn amgylchu'i rhodiad. Roedd hi wedi cyrraedd.

Pwy oedd y foneddiges hon?

Dyna'r cwestiwn ar wefusau'r tipyn cynulleidfa. Ac roedd un o'i ddiaconiaid, Ffred Williams, yn falch i hysbysu Len ar sail gwybodaeth ddi-sigl ei bod yn aros yn y Talbot. Roedd yntau rywsut wedi'i gweld hi o'r blaen. Ymhle, nis gwyddai. Yn y Steddfod mae'n siŵr. Heblaw am hynny, ni wyddai neb ddim.

Credai Len fod ei phresenoldeb yn y capel fore a hwyr yn ddigon o garn iddo alw i'w gweld ryw ben yn ystod yr wythnos.

Credai o ddifri mewn bugeilio. Erioed yn fwy na'r wythnos hon. Nid yn unig er

mwyn meithrin ei braidd, nid yn unig er mwyn dangos ei hoffter ohonynt a'i warchodaeth drostynt, nid yn unig o ddyletswydd gan ystyried fod hyn yn rhan o'i swydd, er mai eu gwasanaethu a'u caru oedd ei gymhelliad, eithr er mwyn ei adnabod ei hun a'i feirniadu'i hun yn well. Ac efallai o led chwilfrydedd. Bu ymweliadau doeth felly yn fodd iddo wybod pa bregethau yr oedd fwyaf o'u hangen, pa gymorth ysbrydol yr oedd ei eisiau ar ei bobl, sut yr oedd addoli'n ystyrion yn yr oes hon. Tociai yn gydwybodol ar ei bregethau wedi synhwyro hyd sylw ei braidd. Dechreusai â rhai tri-chwarter awr, yn ôl y traddodiad hybarch a ddatblygasid yn anterth y cyfrwng llafar Piwritanaidd pryd yr oedd llyfrau'n ddrud. Ond dysgodd fod graff modern sylw'i gynulleidfa'n pallu bellach ymhell cyn y diwedd. Ers dros gyfnod o chwemis pregethai am hanner awr yn unig. Yr oedd llawer mwy o fin ar ei draddodi, llawer mwy o gyfeirio penodol at faterion a ddygai fryd cyfoes cynulleidfa, llai o ailadrodd, a hunanddisgyblaeth a barai iddo ganolbwyntio'i sylw'i hun ar graidd y pwnc. Roedd y canlyniad yn fwy ystyrion, yn arbennig i'r plant, bron fel petaent yn gwranddo. Dyna'i chwilfrydedd.

Rhoddodd hi groeso boneddigaidd pan alwodd ef i'w gweld yn y Talbot. Estynnodd ei llaw a'i rhoi yn ei law ef. Gallai ef dyngu fod ganddo lygoden fechan flewog yn nythu o fewn ei ddwrn. Gwahoddodd hi ef i lolfa'r gwesty i sgysio.

'Galwch fi'n Maxine.'

Roedd ei hamrannau fel gwe pry cop yn disgwyl amdano. Cymraes oedd hi, gweddw, a fudasai i Awstralia ddeng mlynedd ar hugain, meddai hi, ynghynt o ardal Caerafon, yn briod, drwy gydol yr amser bron, yn Awstralia â pherchen-ffatri cefnog. Bu'n ysgolfeistres am gyfnod am na chawsant blant.

Oedd, yn rhyfedd iawn, oedd, roedd hi'n nabod Mair yn dda.

Y fath gyd-ddigwyddiad! Nabod Mair!

Fel chwirydd! Cyfarfuont â'i gilydd yn gyntaf yn Siop Oxfam, wedyn yn y Gymdeithas Gymraeg yn Sydney. Byddai Cymry o'r ddinas ac o'r wlad o'i chwmpas yn ymgynnull bob mis yn y gaeaf i gymdeithasu, a Mair oedd ysgrifenyddes y gymdeithas.

Ei Fair ef! Na! Ie!

Beth am deulu Mair? Plant Mair?

Ar wasgar un ac oll. Roedd dau ohonyn nhw, y bechgyn, wedi mynd i'r Unol Daleithiau. Un o'r merched wedi priodi gŵr o Seland Newydd, darlithydd yn y Brifysgol yn Auckland, ac wedi symud i fyw i'r wlad honno. A'r ddwy ferch arall yn briod ac wedi

ymsefydlu mewn rhan arall o Awstralia, yn y De Orllewin, yn ddigon agos i'w gilydd, ac eto mor ddifedur bell oddi wrth eu mam fel na waeth iddynt fod mewn gwlad arall ddim.

A Mair ei hun a'i gŵr?

Yna, llithrodd y gwirionedd i'r llawr. 'Mae'n ddrwg gen i,' meddai hi. Cymryd y peth yn ganiataol 'wnaethai'r wraig. Onid oedd pawb yn Llanbiblig a'r cyffiniau'n hyddysg yn yr hanes? Wedi ymadael â hi roedd gŵr Mair, yn gymharol ddiweddar. Wedi marw, meddai Mair ei hun bellach. Ar ôl magu llond tŷ o blant, ac yntau yn ei bumdegau cyfnewidiol fe wnaeth ef rywbeth a fu'n corddi ers meityn. Gadawodd ei briod, codi'i gynffon, a hedfan ymaith gyda thamaid o fflwff gwrywaidd a weithiai mewn banc lleol.

'Gwrywaidd!'

Gadawodd ei wraig, Mair, yn y fan a'r lle yn amddifad, yn ddigyfeiriad. Newydd sylweddoli'i rywioldeb meddai fe. Bellach, safai yn feddyliol ar y sgwâr lleol yn dal baner ysbrydol ac arni'r geiriau, 'Hir Oes i Rywioldeb.' Mynnai ddathlu'r darganfyddiad. Câi beth trafferth i feddwl am ddim mwyach druan ond am orchest ei rywioldeb, a hithau'n ugeinfed ganrif. Dyna'i bwnc, frecwast, ginio, swper. Dyna'r cwbl a oedd yn bod ohono. Chwap wedyn daethai Mair i fyny i'r faesdref i aros am ysbaid gyda Maxine Pearse, sef y wraig weddw hardd hon a ddadlennai'n awr yr hanes oll i Len Llwyd, a hithau hefyd newydd golli'i gŵr. Daeth y ddwy yn dipyn o ffrindiau. Dyna'r pryd y darganfu Maxine y Gymdeithas Gymraeg. Aeth y ddwy, wedi iddynt ddod yn ffrindiau mynwesol, gyda'i gilydd yn anturiaeth arloesol ar gefn ceffylau i grwydro drwy'r diriogaeth.

Roedd gan Mair broblem. Beth wnâi hi mwyach ac ar unwaith yn ysgaredd disymwth ei hunigedd? Ai ceisio aros yn Sydney fysai orau? A âi o bosib at un o'r plant? A âi hi'n ôl i Gymru, tybed? Yn yr anialwch y gwnaethant dreiddio i'w gilydd.

'Go brin. Gofynnais iddi a ddô'i'n ôl i fyw gyda fi fan hyn yn Llanbiblig. Na: yn syth, yn gwta, fel yna oedd yr ateb.'

Ond yn y dyfodol, efallai?

'Go brin. Welais i erioed moni mor gyflym wrth benderfynu. Doedd hi ddim wedi clywed am y fath ffenomen â dyfodol.'

Craffai Len ar y ddirprwy yma i fodolaeth Mair. Yr hyn a fradychai'i Hawstraliaeth ac a barai fod ei Chymreictod dychmyglon yn diflannu o dan ei syberwyd oedd ei bod yn dyfeisio'i hymddygiad wrth fynd yn ei blaen ac yn meddwl am y peth nesaf wrth wneud y peth diwethaf ar y pryd. Roedd ei rhith yn drwm arno ef.

A Mair. Roedd hon yn adnabod Mair. Roedd Mair wedi dychwelyd i'w feddwl a'i ystyriaeth. Syrthiodd hi'n fath o daflegryn i mewn i'w ymwybod. Ai ei ofn ef oedd arni? Ai'r siom a gorddai o hyd? A fagai hi chwerwder? Dim ond chwilfrydedd oedd arno. 'A beth amdanoch chi? Beth ddaeth â *chi* yma?' Mwyn oedd hi fel Mair.

'Rhamant. Delfrydu'r hen wlad. Wyddoch chi am glwyf casglu y Cymry ar wasgar. Hel breuddwydion fel llinyn o selsig.' A'r un pryd ag y cyfaddefai hi hyn, yr oedd hi'n delfrydu'r gwryw hwn hefyd, fel y disgwylasai. Edrychai hi ar ei drwyn a'i geg fel pe bai'n edrych ar damaid o facwn ar bwys wy, yn barod i'w lyncu heb ogordroi. 'Un fel yna ydw i. Mae pawb yn od yn ei ffordd ei hun.'

'A gwledydd? Breuddwydio am yr hen hen fro hon efallai? Goronwy Ddu?'

'O! yn sicr. Llances bell, llances ysgafn bluog yng ngwres ei phosibiliadau yn breuddwydio, cyn ymadael, llances amhosibl. A'i llanc cyhyrog wrth gwrs ... Na, mae'n fwy difrifol na hynny.' A syllai allan i'r awyr yn freuddwydiol fel pe bai'r freuddwyd yn ffenestr.

Doedd Len ddim yn siŵr a fyddai'n ddigon cartrefol pe bai byth yn cael ei dynghedu i fod yn gymeriad mewn breuddwyd i hon. Ond roedd ganddi chwaeth mewn dillad. Arhosai hi'n awr yn forforwyn anesmwythol ar lannau môr ei is-ymwybod er ei waethaf, yn ôl ymlaen ymhlith y llongdrylliadau a'r cregyn, gan siglo'i bodiau yn y dŵr oddi ar un graig. Un peth a wnaethai marwolaeth ei fam fu pwysleisio'r angen a oedd arno am gymar. Rhôl gychwyn ynddo i lawer math o ddychmygion anymarferol. Roedd yntau'n abl i freuddwydio hefyd. Yn wir, prociai hon ef yn awr i synfyfrio'n freuddwydiol ddwl o'r newydd am Mair. A doedd dim yn fwy amhosibl na hynny.

Cododd Maxine yn union anesmwyth, a chymerodd ef hynny'n arwydd ei bod yn bryd iddo ei heglu hi. Gwenai arni, 'Mae'n rhaid i ni gymharu breuddwydion rywbyrd.' Ond llefarai ar ei gyfer am bwnc na wyddai ddim am ei ddifrifoldeb ym mryd yr un a safai o'i flaen. Wrth iddo ymadael â'r Talbot y bore hwnnw, dwedai Maxine bron yn fygythiol ond yn euog: 'Mae'r breuddwydio a'r hunllefau'n mynd mor bell — yn rhy anghysurus o bell — weithiau ... Hoffwn i gael sesiwn therapi gyda chi ryw ddiwrnod.'

'O!' meddai fe mewn embaras.

'Cell gyffes.'

'A!'

'Mae hyn, mae arna-i ofn, yn fath o obsesiwn, chi'n gwybod. Breuddwydio. Nid breuddwydio arferol. Dwi'n cael tipyn o drafferth anghytwys ... nid yn unig wrth gysgu

...Ar ddi-hun hefyd. Breuddwydio, am fröydd diarffordd, gorwelion a hen linellau pell dwl nad ydyn nhw erioed wedi bod felly,' cyffesai Maxine yn feiddgar.

'Pobl?'

'Ambell un. Does gen i ddim math o ddisgyblaeth ar yr hen beth. Heblaw cweir ambell waith.'

'Diriaethu gobeithion, efallai. Claddu siom. Hen helbul Fictoriaidd. Math o optimistiaeth Ramantaidd,' gwenai ef ychydig yn nawddogol.

'Ddim yn hollol. Roen *nhw'n* hoffi'r dwli yna, efallai, yn y dyddiau gynt. Roedd hiraeth yn fath o grefft cefn gwlad. Roedd yn rhan o awra Fictoria.'

'Dych chi'n wahanol?'

'Yn gyfan gwbl wahanol. *Ofni'r* bröydd pell dwi, yn y bôn. Maen nhw'n 'y mhoeni i.'

'A'r bobl? Ofni'r rheini?'

'Rhai.'

'Ych chi'n siŵr?' roedd e'n gwenu arni.

'Hiraethu am realaeth ddiflas dwi, yn fynych. Hiraethu am beidio â bodloni ar freuddwydion. Fan hyn yng Nghymru er enghraifft. Cymru fel y mae hi, dwi'n ei chwilio. Dwi eisiau gwneud rhywbeth i wella'r sefyllfa ... Ond breuddwydion efallai i ddechrau!'

Ceisai Len gladdu'i ymateb nawddogol. 'Ydych chi wedi gweld rhai pethau o'u lle 'ma? A dych chi eisiau bod yn ddiwygiol o bosib?' Yn sydyn, teimlai ef yn naïf. Fel ei dipyn ugeinfed ganrif. Ac fel ei 'weithredu' ffug ef ei hun.

'Ydw. Efallai. Pam? Dych chi'n gyfarwydd â'r cyflwr?'

'Mae yna bobl fel 'na.'

'Beth amdanoch chi 'te?' Gwenai ef arni, yn chwilfrydig. Ond ni ddisgwyliai ateb.

Aeth Len yn ei ôl chwep wedyn i dŷ Hanna Meri i hwylio te. O leiaf, roedd yna synnwyr yn y fan yna. Nid edliwiodd Hanna Meri ddim iddo ei fod yn hwyr na dim. Te oedd te. Nid un am hel rhamant oedd hi. Doedd hi ddim am freuddwydio. Dim ond rhoi pigad o gusan iddo, cusan betrus gwrtais ond diolchgar fel cleren, nid cusan fel trê'n yn mynd i dwnnel.

'Dwedwch y clecs go iawn i gyd nawr te,' meddai hi ar ôl sicrhau ei the. 'Beth yw'r newydd? Y golofn lythyrau gawsoch chi ar dafodau pawb arall.'

Erbyn hyn roedd ei feddwl ef yn gymysgfa anhydrin. Âi ei deimladau ar hyn o bryd

amgylch-ogylch ei ben yn wagaidd braf. Ni allai glebran am a ddigwyddasai nac am yr hyn na ddigwyddasai. Roedd ef rywsut wedi ymhoffi yn y wraig addfwyn fywiog honno o Awstralia, dirprwy Mair. Ond ni allai sôn amdani'n fanwl wrth Hanna Meri. Gwyddai'i henw, ond fawr ddim arall amdani. Maxine Pearse: gelwch fi'n Maxine. Pa fath o berthynas a ellid ar sail enw? Hyd yn hyn, ni ddigwyddasai dim, wrth gwrs, beth bynnag yw ystyr 'dim'.

Ymhoffi: dim byd mwy. Prin hoffi. Ond roedd wedi cymryd ati, yn gymedrol, yn ddiâu, a chysidro'i oed. Gwraig aeddfed, araul o ddiwylliedig, ac yngan 'a' yn 'ae' neu'n 'e' Straelia gan gystwyo'i Chymraeg yn ogleisiol fel pobl Maldwyn. Ac o'r tu mewn iddo teimlai anesmwythyd pur chwithig y byddai'n rhaid i hon, wrth fyw ac ymdroi yn yr erdal, glywed rywdro, fel pawb arall, a hynny'n fuan, beth o'i henes truenus ef: yr holl henes rhecsog. Byddai hynny'n enochel, dôi hi i ymgydnebod â ffremwaith emosiynol y fro. Dôi hyd yn oed i ohebu â Mair amdeno. Ni ellid dianc rhag y dynged arhosol honno. Onid rhen ydoedd hynny oll bellach o isymwybod Llenbiblig? Ac onid efô, libido'r pentref, oedd y gwrth-erwr, y prif wrth-erwr confensiynol enfoesol yn y ddrama Gymraeg flinderus hon?

Eithr, tybed a oedd ef wedi'i breuddwydio hi, a'r cwbl?

Gwyrodd ei ben tua'r llawr am y milfed tro yn ystod y mis hir diwethaf. Ond yn lle'r olygfa ddiflas darddiadol i'w holl ofidiau, yn lle'r tipyn sgandal diweddar, ymrithiodd ger ei fron yn awr atgof. Roedd wedi dal llygad bachgen bach saith mlwydd oed, pan oedd yn fyfyrwr ar ei brifiant yng Nghaergrawnt. Y pryd hynny am y tro cyntaf erioed syrthiodd syllder drosto. Wynebodd golli plentyndod. Wrth ganfod yno ar y stryd ddiflas a chymhleth y diniweidrwydd syfrdan yn llygad y seithmlwydd yna, heb y profedigaethau a'r afiechydon eithafol a'r trais a'r caledrwydd at ddiodeffaint a'r holl lygredd penderfynol cyndyn ar bob llaw o'i gwmpas: diflanasant am eiliad. Yr oedd y Len llancaidd, delfrydgar, newydd sylweddoli llygredd yr holl ddaear. Ciliodd mewn syndod tosturiol i lygaid y crwt. Y fath syllder pur. Dim byd rhywiol ar y pryd, wrth gwrs. Gwelsai yn lle hynny gynrychioliad i lendid byd newydd. Fe'i gwelsai'i hun mewn atgof. Roedd yn sioc drawmatig. Tybed a welai ef syllder felly byth eto?

Pwy a ddwedai byth wrth y seithmlwydd yna fel y byddai'r ugeinfed ganrif mewn gwirionedd? Edrychai yn y llygaid crisial ifainc hynny am y tro cyntaf erioed. Methodd â gweld malais. Dim cenfigen. Pwy a feiddiai hysbysu'r fath fychan? Pwy a ynganai wrth hwn? A dadlennu'r cwbl rywddydd? Dylai rhywun efallai dorri'r garw wrtho cyn bo hir.

Mae diniweidrwydd fel 'na'n anweddus.

Cofiai wedyn yn sydyn am ddiniweidrwydd llai ystyrllon llanciau celwyddog uchel-eu-cloch Llanbiblig yn y cyfnod diweddar. Y cysgodion. Un ganrif gron ohonynt.

Galwasai yn y Mans yn awr er mwyn codi'r post cyn dychwelyd i dŷ Hanna Meri. Un llythyr oedd yno, un llythyr unig, heblaw rhai cylchlythyrau. Ac roedd arno ofn agor hwnnw. Amheuai am eiliad mai llythyr dienw fyddai. Roedd yn dechrau dychryn rhag yr hil yna bellach. Cawsai ryw bedwar o'r cyfryw drysorau yn ystod yr wythnosau diwethaf, — dim llawer, ac eto, roedd wedi bod yn ddigon croendenau i gyfrif pob un yn ymosodiad.

Oedodd felly cyn agor hyn. Yn wir yr oedd yn llygad ei le: llawysgrifen anllythrennog a bras, camsillafu, neges gota, ond yr oedd yr ergyd yn eglur. Llythyr crwn: *Hên ragedd nawr te efe? y din brwnt cuthrel pwi si nesa licwn wbod. Dos neb yn sâff.*

Llaw gwraig oedd hi, papur persawrus. Neu wŷr benywaidd. Ceisiai ddychmygu rhywun rywle wrthi'n dod i'r geiriau yn llafurus ar bapur, ar ei phen ei hun yn ôl pob tebyg, yn arllwys ei chwd neu'n sychu'i budreddi ar ei phapur mewn chwerwder chwantus dialgar, yn difaru'i hisymwybod drwy'r inc, yn gwaedu'i dyheadau ar y brawddegau.

Druan ohonom i gyd. Druan ohonot ti, Maxine, yn nofio i lawr fan yma drwy'r isymwybod. A Hanna-Meri hithau, i lawr gyda hi. A thruan o Mair yn Awstralia bell. A'i fam yn ei bedd. Ei wragedd oll. Yr ym oll yn coleddu celwyddau. Ac yntau'n anad yr un.

19

Bu farw Hanna Meri mewn pryd — am chwarter wedi tri, brynhawn Mawrth, Tachwedd 20fed 1990, — ychydig o oriau cyn cyhoeddi canlyniad y bleidlais yn y rownd gyntaf am arweinyddiaeth y Blaid Doriaidd yn y gystadleuaeth rhwng Michael Heseltine a Margaret Thatcher. Fe'i claddwyd ar y dydd Gwener wedyn. Roedd popeth yn briodol ac yn brydlon. Pe buasai'n fyw, gallsai deimlo'i bod wedi'i chladdu'n ddirprwyol.

Teimlai Len y gallai ailymsefydlu'n ôl yn ei gartref. Er nad oedd wedi treulio ond ychydig o oriau bob dydd gyda'r hen wreigen, teimlai iddi'i feddiannu. Gobeithiai na elwid byth arno i ymadael â'i gartref eto. Gwir ei fod bob Sadwrn yn ymweld â Wili Eston. Wŷr oedd hwnnw i aelod hynaf eglwys fechan mewn plwyf cyfagos, gŵr ifanc pedair-ar-bymtheg oed a ddiodefai o Aids ac a symudasai'n ôl o Lundain i Lanbiblig, bymtheng milltir o drigfan ei rieni yng Nghaerafon. Ond gwyddai Len, pan ddô'i'r gwendid mawr olaf ar

hwnnw, a'r holl felltith ddiweddol yn ddiwarafun ar y crwt druan, mai claddu'i falchder a wnaî hwnnw wedyn. Sleifiai'n ôl i lawr tua'r dref at ei fam a'i dad er mwyn darfod o dan eu hadenydd cywilydd hwy.

Pe bai yna un achos yn y byd lle y câi Len ei amau bellach, un achos y buasai'n ddeinaméit iddo ymyrryd ag ef, gwyddai mai hynny fysai: ymweld â hwn, Wili Eston, y gŵr ifanc archsyrthiedig rywiol. Roedd yn gwbl naturiol y buasai rhai cymdogion yn drwgdybio'n anad neb weinidog a ymwelai mor fynych â'r llanc goleuwallt. Felly, torsythu wnaeth Len ar wyau, ond yn annoeth benderfynol drostynt i enau'r llew.

'I'r domen sbwriel â'r amheuaeth druan! ddweda-i. I'r domen sbwriel â'r holl ddrwgdybiaeth aflan!' Beth bynnag a ensyniai pobl, mynnai Len ymweld â'r claf yn wythnosol, wedyn ddwywaith yr wythnos. Pe codai angen, gwnâi, fe âi i fyw at y crwt yn nannedd pob clebran. Ond roedd yn hyderus na fysai dim rhaid. Onid oedd yn rhydd bob amser i fynd ato i breswyllo am y tro yn ôl yr angen? Yn hen lanc, onid oedd heb atalfa arno? Bod ar gael, yn wryfol barod, tan agor calon ei gilydd, dyna oedd yn bwysig iddo. Dyna yn ddiau yn isymwybodol pam na phriodasai erioed: gwas llawn amser oedd Len i fod i'w bobl. A hwn oedd ei ffrind.

Ym myd y clebr daethai'n dipyn go lew o awdurdod ar ddarllen rhwng llinellau. Gallai ateb yr arholiad hallt hwnnw heb weld y papur cwestiynau. Ond gydag arholiad Wili, nid oedd mor hyderus.

'Dych chi hefyd wedi ystyried eich lladd eich hun,' datganai Wili un bore llwyd.

'Fi! Troi at hwyl o'r math yna?'

'Dych chi'n ddynol fath â fi.'

'Fi! Cael gwared â'r annibendod hwn?'

'Pam lai?'

'Ond pwy dw i? Dwi ddim o werth i neb *arall* fy lladd i heb sôn amdana-i fy hun.'

'Mewn munud wyllt, dwedwch?'

'Mi fysai'n bur groes i'm credo.'

Oedd, roedd wrth gwrs yn gwbl groes i'w gredo. Sbwriel oedd y fath gwestiwn. Ond croes i ddweud y gwir oedd ei ateb yntau hefyd. Hyd yn oed neithiwr diwethaf, am ychydig o eiliadau ffansiol, fel gwib gan y diafol, fel ambell eiliad a fu o'r blaen, wrth ymweld â'r capel yn Llanbiblig yr oedd wedi chwennych sleisio'i wythien ei hun. Am egwyl fechan hollol swrealiaidd gwibiasai'r meddwl du heibio. Eto, er nad oedd wedi caniatáu i'r syniad



wreiddio am ganfed ran o eiliad, yr oedd wedi bod. Oedd, o leiaf am filfed ran o eiliad, efallai, — fel celwydd.

Ond neithiwr, onid oedd rhywbeth od wedi'i dynnu draw i dywyllwch llwyd y capel o'r newydd? Gweddi efallai yn y fan yna; ond gwyddai y gallai weddio rywle rywle. Ac yna, wrth nesáu at gysgodion y lle, gwelai'n burion pam a beth oedd a'i hatynnai. Darparwyr celfydd graffiti oedd wedi goresgyn waliau tŷ Duw ei hun, hwnnw, yn awr. Diflannodd Len drwyddynt i wyll caredig y tŷ cwrdd. Roedd clais mwy nag arfer ar ei weddi. Ei gapel ei hun wedi'i halogi, yr ysgrifen ar y mur, mene tecel, ac ni allai wadu nad oedd ef ar fai bob amser.

Roedd 'na rywrai — rhyw *un* o leiaf — yn y gymdogaeth a'i casâi ef. Doedd ef ddim yn gwybod pwy. Doedd ef ddim yn deall sut. Doedd dim ots pwy. Ond ymdeimlai â'r atgasedd lond yr awyr.

Neithiwr oedd hynny.

'Ond dych chi byth yn dweud eich bod yn cydymffurfio â'ch credo bob iot?' holai Wili yn awr.

'Na.'

'Wel?'

'Dw i fy hun ddim yn ddigon pwysig. Doedd y peth gwaetha ddigwyddodd imi erioed ddim yn ddigon pwysig. Ar y llaw arall, roedd y peth *gorau* a allai ddigwydd yn ddigon arwyddocaol i ddisodli popeth arall.'

'Ond meddwl weithiau am eich lladd eich hun, y posibilrwydd? Dych chi erioed wedi teimlo'r fath awydd hyfryd?'

'Erioed o ddifri; byddai'n erbyn y ddeddf.'

'Pa ddeddf? Beth yw peth felly?'

'Prydferthwch. Deddf y galon... Cariad yw honno bob amser.'

'Beth yw rwtsh felly?'

'Rhodd yw hi ... Does dim ots. Ta beth, hyd yn oed pe dymunwn ar funud wyllt ddianc rhag 'y nheimladau ar y pryd, byddai gen i ormod o gwilydd i gwrdd â 'Nghrëwr.'

'Naw wfft. Crëwr! Bysai hwnnw hyd yn oed, does bosib, yn gallu gwerthfawrogi tipyn o synnwyr cyffredin ...'

'Mae yna ddyfodol o synnwyr cyffredin i bob pilcodyn ta ble y bydd-e am nofio.'

'Wfft.' Brolio yr oedd y gweinidog 'ma.

‘Mae yna fodd i bob gwalch balch daflu’r gorffennol a’r presennol i’r calch wrth gwrs. Yr unig beth sicr i gredadun yw’r dyfodol.’

‘Pregeth yw honna. A phregeth sâl enbydus.’

‘Blin ’da fi.’

Ni phwdodd Wili y tro hwn. ‘Purion te: doedd hi ddim yn bregeth hir. Druan ohonoch-chi os ych-chi’n gallu credu’r fath anfeidrol sothach.’

Cododd y llanc hunan-dosturiol yn llafurus. Ymlwybrodd at ddrôr mewn desg o flaen y ffenestr. A thynnodd allan lythyr fel rifolfer. Fe’i hestynnodd at Len Llwyd.

‘Hwnna, darllenwch. Fe sgrifennais i hwnna y diwrnod y dwedwyd wrtho-i fod Aids arna-i.’

At ei fam a’i dad: nodyn. Llawysgrifen garbwl ond yn meddu ar wehilion artistig. Darllenai Len yn bwylllog ei gorffwylledd: *‘Pan gewch chi hyn, fydda-i ddim yn sâl mwyach. Hunanwahoddwr a dorrodd i mewn i’r parti yw Aids. Ond y wledd ei hun fydd yn gyfogyd, a’r holl wahoddedigion mursennaidd, a’r ffaith nad oedd yna ddim rheswm dros drefnu’r wledd ta beth yn y lle cyntaf. Dim achlysur arbennig, dim byd i’w ddathlu. A’r ffug chwaraeon wedyn, yn rhan orfodol o’r sioe, a phwy sy eisiau dawnsio ta beth? Pe bawn i wedi gwybod fod rhaid dawnsio byswn i erioed wedi mynychu’r neuadd. Doedd neb welodd eisiau ’mhartneriaeth i, heblaw un person bach sy wedi diflannu, un gŵr ifanc anhysbys. Ches i erioed groeso gan yfflon o neb arall.*

*Fuoch chi erioed ar eich pen eich hun mewn parti? Fues i. Beth bynnag, dwi’n mynd i gornel i chwydu’r wledd i gyd nawr — y jelïau, y cacennau, y fflan, yr hufen, y cwrw, y lot. Down i ddim eisiau dod i’r parti melltgedig ta beth. Ac ar ôl dod, down i ddim eisiau’r arlwy na’r cwmni cythrw m oedd ar gael.*

*Rhyw fath o ddefod yw gwledd, ffordd gydnabyddedig o gymdeithasu, dull i gydymffurfio â’r awydd cêl i fod yn wag. Cadwch eich gwledd, meddwn i, cadwch eich jôcs budr a’ch bloeddio a’r chwydu i’r sinc. Cadwch eich ‘Coch ta gwyn? Coffi ta te?’*

*Efallai’ch bod chi’n coelio ’mod i’n melltithio’r gŵr ifanc anhysbys hwnnw. Ddim o’r fath beth. Y truan yna yw’r unig un a fu’n dirion erioed wrtho-i. Yr unig un a agorai ei freichiau gyda didwylledd a hwyl. Yr unig un a chwarddai gyda fi. Yr unig un a giciai ddail gyda fi wrth swmera ar hyd yr hewl. A ble mae e nawr dwedwch? Beth wn i? Mewn rhyw atig neilltuedig efallai, fel fi, ond heb rwnan — gobeithio — heb ochneidio, ac yn gallu cofio ’ngwres, ac yn dweud wrth y tywyllwch — diolch. Os felly, bydd hi’n hen hen ddigon.’*

Dododd Len Llwyd y llythyr gwallgof hunan-dosturiol yn ei ôl fel pe bai'n llawysgrif werthfawr. Ceisio ei ddangos ei hun roedd y crwt. Neu ubain am gymorth. Byddai'n rhaid distrywio'r llythyr anghytwys hwnnw ryw ddiwrnod. Ond beth wyddai yntau'i hun, Len, erioed am dywyllwch wrth ochr y llanc hwn? Beth fu'r drychineb fwyaf yn ei fywyd ef? Rhyw dipyn o sgandal ac anurddas. Rhyw gelwyddau mewn toiled. Ond cenhedlaeth Wili benbwgilydd, A! Onid oedd pob cenhedlaeth yn dweud: 'Rŷn ni wedi gollwng bwystfil?'

'Mae 'nghalon yn agored, Wili, hyd yn oed os yw 'mreichiau'n methu,' meddai wrth y llanc. Roedd yn ei gyflwyno'i hun i draed Wili fel mat.

'Beth yw ystyr honiad fel 'na?'

'Yr hyn mae'n ddweud.'

'Mae pawb eisiau rhywbeth. Eisiau sefydlu egwyddor efallai. Does dim mor ddiogwyddor ag egwyddor. Bues i ... Na ... '

'Beth Wili?'

'Bues i unwaith mewn cariad â merch. Peth syml. Meri Defis.'

'Merch!'

'Merch sy'n byw ar fferm y tu allan i'r pentre. Dyna i chi "egwyddor". Rown i eisiau ... Roedd hi eisiau ... down i ddim eisiau dim ... ond gwên.' Syllodd Wili ar Len yn oer mewn distawrwydd am ennyd. 'Gwagedd o wagedd,' sibrydodd Wili, 'gwagedd yw eich enw.'

'Mewn gwirionedd, Wili, — credwch neu *beidio* — peidio mae'n debyg — mi alla-i ddweud yn gwbl oer — dw *innau'n* gofyn 'da chi rithyn o ddim. Dim yw dim.'

'Ydych. Rych chi eisiau rhywbeth 'da fi.'

'Ddim. Ddim i fi fy hun. Ddim i neb. Credwch hynny Wili.'

'Credu! Beth yfflon yw credu? Welsoch chi erioed Meri Defis. Hi roddodd euogrwydd i *mi*. Fel anrheg Nadolig.'

'Rŷn ni i gyd yn gwneud camgymeriadau. Duw a wŷr, dw innau wedi cynhyrchu llawn cert.'

'Wnes *i* erioed gamgymeriad. Dw i ddim yn bechadur.'

'Beth bynnag, un peth sy'i eisiau arna i nawr.'

'Does arna *i* eisiau dim gan neb.'

'Panaid. Beth amdani?'

Syllai Wili'n ôl arno'n ddiymadferth. Gwenodd bron. Roedd yn dal i feddwl am ei lythyr ei hun.

Buasai Len yntau cyn hyn wedi pendroni lawer tro ynghylch *ystyr* hunanladdiad. Daethai i'r casgliad fod yr oes yn ei gysylltu'n ormodol â gwacter ystyr. Iddo ef, llawnder ei euogrwydd fysai'r prif gymhelliad, Dyna'r sylweddoliad ei fod wedi troseddu lond ei grys yn erbyn coffâd ei fam, yn erbyn hyder ei gynulleidfa, yn erbyn ymddiriedaeth yr ardal, yn erbyn ei Grëwr. Roedd 'na ormod o beth wmbredd o ystyr yn y pethau hyn. Euogrwydd fysai'r ysgogiad creulon, pe gallai un fod o gwbl.

'Panaid?'

Petrusodd y crwt ger ei fron ... Rhochiodd yn ysgafn ei gydsynied.

'A thamaid o dost? Beth amdani? Un dafell fach?' holodd Len yn ddiniwed.

Rhochiodd y crwt drachefn. Ac eto, gwenu, bron. 'Bywyd tost yw dy fywyd di.'

'Un briwsionyn?' holodd Len. 'Ti'n gwybod: mae byw'n gallu bod mor eithafol â marw.'

Nid awgrymodd Len Llwyd wedyn hyd yn oed led rithyn o'r unig genadwri y tybiai ef a fyddai'n ateb union i rochian y gŵr ifanc. Ymataliai'n anonest. Gwyddai fod y crwt yn drwgdybio pob amrantiad llechwyrus ganddo. Ni allai agor ei geg heb fod Wili'n gwbl siŵr ei fod yn cynllwynio i'w broseltytio. Daliodd Len ei dafod yn ddisgybledig. Y te a'r tost. A'r tynerwch greddfol anifeilaidd ... heb ddim oll mor eithafol â darfod.

\*

\*

\*

'Dw-i ddim eisiau ymyrryd,' meddai Maxine Pearse pan gyfarfu Len â hi ar siawns ger y bont ar y ffordd adref. 'Ond os oes rhyw gymorth y galla-i gynnig yn achos y crwt Eston yna ...'

'Blodau efallai.'

'Blodau i ddyn?'

'Fe fysai'n gwerthfawrogi blodau i oleuo'r tŷ.'

'Blodau iddo fe, te; os dyn hefyd.'

'Ac wyneb newydd. Ac arwydd o gynhesrwydd.'

'Hyd yn oed wyneb dieithryn Awstralaidd?'

'Arth coala hyd yn oed. Cangarŵ yn sicr; neu beth liciwch-chi, ond i'r wyneb yna

fod fymryn yn garedig.’

‘Dyw hynny’n ddim llawer.’

‘A changarw?’ holodd Len yn bryfociol.

‘Dim trafferth.’

‘Byddai wyneb cangarw ... heb fod yn ordosturiol, byddai fel cyffyrddiad persawr ar ei groen.’

‘A beth am lyfr?’ holai hi’n hyderus.

‘Barddoniaeth efallai ... neu nofel newydd.’

‘Ddim gan yr Esgob Ryle?’

‘Bobol y Bala! ’Y merch lân i. Ddim ffiolaid o arsenig chwaith.’

‘Dwi’n deall.’

Dechreuai Wili Eston wanychu yn gyflymach ar ôl hyn. Ac ymwelai Len ag ef yn amlach. Ei hwyl oedd ar i waered, ei ofn, a’i awch am fywyd. Weithiau nid ebychai Wili bwt o’i ben. Dim ond gwylid drwy gil ei lygaid y gweinidog yn mynd â’r glanhäwr trydan ar draws y llawr. Fe’i gwyliai’n dwstio wedyn, ac yn hwyllo ychydig o fwyd yn flêr. Bwyta mewn tawelwch wnâi Wili. Weithiau soniai am ei chwaer Helen. Ond roedd honno’n rhy bell, ni ddwedai ymhle. Petai wedi gallu dod ... Ond dyna ni ... breuddwyd.

Un noson, ar ôl y twtio a’r porthiant arferol, eisteddai Len gyferbyn â Wili yn y lolfa. Roedd y teledydd ymlaen, ond nid oedd y sŵn wedi’i droi’n uchel. Ac eisteddent ill dau heb ddweud bo. Sylwai Len fod Wili’n ymddangos yn wanllyd. Yna, yr oedd fel pe bai’n llithro i waered yn ei sedd. Cododd Len er mwyn ei unioni a’i roi yn ei ôl. Ond arwyddodd Wili iddo gadw draw. Llithrai i lawr ymhellach. Cododd Len drachefn i’w helpu.

‘Cadwch draw.’

‘Wili!’

Roedd Wili erbyn hyn wedi disgyn yn raddol i’r llawr. Roedd yn ymdebygu i fwndel o ddillad wedi’i dagu. Roedd yn bitw ac yn ddiwerth, a heno ychydig yn wannach nag erioed. Prin oedd y gwaed a gwrsiai drwy’r bwndel di-lun hwnnw.

Roedd yn grwn bron ac yn ceisio’i ddatod ei hun, fel y byddwn i gyd.

‘Arhoswch lle’r ych chi.’ Fflachiai’i ddannedd nes dallu llygaid Len.

Ymunionodd wedyn ar y llawr. Codai’i wyneb mewn gwên fuddugoliaethus. Yna, dechreuodd sleifio ar hyd y llawr i gyfeiriad Len. Fesul troedfedd feddal yr ymlusgai.

‘Peidiwch â symud.’

Beth oedd yn ceisio'i wneud?

Cyrhaeddodd y llawr wrth draed Len erbyn hyn. Ni feiddiai'r gweinidog estyn ei law i gynorthwyo ddim. Daliai ar ei eistedd gan edrych yn dosturiol i lawr ar y pentwr tenau hwn o freuder llwyd. Cydiai hwnnw yng ngodre coes trowsus Len. Yr oedd yn ei dynnu'i hun i fyny. Dringai gan bwyll nes ei fod ar ei eistedd wrth draed Len.

Dyna'r cwbl a fu yn ei olwg, eistedd wrth draed Len.

'Rŷn ni'n dau yn ffyliaid ffaeledig,' ebychai drachefn yn galed, wedi colli'i anadl. Ac yna suddai'n raddol yn ei ôl. Roedd yr ymdrech yn ormod iddo. Collasai bron pob einioes a fuasai ganddo erioed. Roedd ei fochau a'i dalcen a'i arleisiau wedi ymhoffi mewn bod yn welw. Crynu roedd ei ddwylo fel adenydd gwyfyn.

Ar lawr yr arhosai felly yn ei ddiymadferthedd. Nid oedd dim un syflyd ynddo mwyach. Roedd yn fethedig. Ac felly y bu am chwarter awr, y gŵr ifanc claf ar y llawr wrth esgidiau'r gweinidog, a'r gweinidog ei hun heb feiddio symud modfedd o'i le, ar ei eistedd yn syth, heb yngan dim, gan syllu tuag i lawr at y pentwr o drueni mewn tosturi ddifaol.

Yna, codai Wili ei wyneb difrifol tuag at drem Len, a chraciai gwên bron yn hyglyw ar ei draws.

'Egni Venus de Milo yn crafu'i thrwyn,' meddai.

'Rhyw gamp felly,' meddai Len, gan wenu.

Ac egwyl.

'Ych chi'n gallu caru hyn?' mentrodd Wili o'r diwedd.

'Beth?'

'Hyn ... fi.'

Edrychai'r crwt claf yn bryderus at y gŵr parchedig uwch ei ben. Ni wyddai'r naill na'r llall beth i'w wneud â'i gilydd. Hongiai ymholiad Wili fel tynghedfen swrealiaidd rhyngddynt. A syfrdanwyd Len, ac ni allai Wili gredu iddo ynganu'r fath beth. Gwenai Len. 'Gydag ychydig bach o ymdrech,' meddai drwy'i wên, 'efallai.' Am ddyrnaid o eiliadau, sobrwyd y ddau mewn distawrwydd syfrdan. Yna, safodd Len yn sydyn, a chipio Wili yn ei freichiau. Plygu a'i godi fel pluen i'r awyr a'i wasgu a'i gofleidio.

'Diolch,' meddai Len wrtho. Ac roedd y ddau yn chwethin. 'Diolch.' Ac roedd Wili yntau'n gwybod ei fod yn hoff gan Len, ac roedd goleuni glaswyn ar draws wynebau'r ddau yn eu huno ac yn tywynnu fel gwawriau petrus pitw bach rhyngddynt. Chwarddent yn afieithus chwil. Roeddent bron yn adanabod ei gilydd.

Cryfhaodd y crwt am ychydig o ddyddiau ar ôl hyn — fe gâi byliau cryfach na'i gilydd felly weithiau. Ond am ychydig — ychydig bach — y cryfhâi. Yna, gwanychu a wnâi yn ei ôl drachefn.

20

Gwyddai Maxine fod rhywun yn ei dilyn. Roedd hyn yn wir er pan gyrhaeddodd y pentref. Ar y dechrau tybiasai mai gŵr ydoedd. Priodol cyfaddef, er yr anesmwythyd a'r syrffed, nad oedd yn brofiad cwbl ddigymysg felly. Ond nid gŵr ydoedd.

Doedd gobeithion Maxine ddim wedi esblygu yng Nghymru fel y gobeithiasai. Ychydig o Len a welsai ers dyddiau. Yn wir, yr oedd fel pe bai gan fywyd lai o gylchedd, ac roedd yn ymyrryd bellach â'r hyn a ddylai fod yn fywyd Awstralaidd agored. Ei ailadrodd ei hun yn anobeithiol mewn cylch seithug a wnâi beunyddioldeb y pentref.

Felly, roedd yr atyniad newydd dynol i'w groesawu'n amodol.

Ceisai beidio ag edrych yn ôl. Ond sylwai ar adlewyrchiad mewn ambell ffenestr. Menyw ifanc oedd yna, ryw ddeng mlynedd ar hugain yn iau na hi, un brydweddol hefyd. Dro arall, ymddangosai beth yn wahanol. Yr un fenyw oedd 'na, eithr dipyn yn hŷn, neu'n bryderus, yn wir tua'r un oedran â hi ei hun ac yn ei dilyn fel cysgod, wedi'i chlymu wrthi fel llestr gan gadwyn wrth ffynnon gyhoeddus Fictoriaidd y pentref. Roedd y fenyw hon, a oedd mor debyg iddi, fel pe bai'n closio ati. Yfai'r fenyw wrth ffynnon bodolaeth Maxine beunydd fel pe bai er ei gwaethaf ei hun.

Dichon mai math o gymeriad mewn breuddwyd oedd. Curai'r freuddwyd hon, curo ar ffenestr Maxine, morthwylio yn reddfol gan ymofyn codi trigfan.

Dechreuai bendroni ynddi'i hun ac amdani'i hun. Ai rhyw fath o gysgod ohoni hi oedd y fenyw? Ai atgof? Onid oedd hi'n debyg iddi hi? Onid hi ei hun ydoedd fel y bu Maxine fan yma gynt? Pendronai am yr hi na fu. Beth pe cawsai ail gyfle ac aros gynt yn ardal Caerafon ar ddiwedd un o'r troeon a wnaethai i ymweld â chyfeilles ohebu'i modryb? Beth pe troesai hi'r arhosiad dros dro yn breswyliaid hir? Ai hon fuasai hi ei hun wedyn? Ai hi ei hun a fuasai wedi ymsefydlu yn y fangre glawstroffobig hon? Ai math o rith ohoni oedd hyn? Onid hon oedd y ferch fu hi?

'Ydych chi'n gweld Llanbiblig a'r ardal wedi altro?' holodd Evans y Post hi un diwrnod. Rhaid, felly, ei fod yn ei hadnabod ac yn gwybod fod iddi ryw gysylltiadau â'r

ardal gynt.

‘Mae yna ychwaneg o dai.’ Doedd hi ddim am ddweud y gwir wrtho am y galon, a bod llai o wythiennau o’i chwmpas. Doedd hi ddim am edliw bod llai o leisiau a llai o feddyliau yn rhedeg drwy gorff yr ardal er bod rhagor o bobl. A bod llai o gydlyniad rhwng pethau mân â’i gilydd.

Hen ddrama bryfoclyd oedd byw yma nawr, lle’r oedd y prif gymeriadau — byd natur, y tai, y plant lleiaf — wedi anghofio’r rhannau a fu ganddynt yn ystod ei mebyd. Doedden nhw ddim yn siarad. Doedd neb ond yr is gymeriadau — y bobl — yn yngan ond rhyw bwt bob yn awr ac eilwaith; a hithau wedi dod i mewn heb dalu. Neb fel y buont. Gwaeddai’r cofweinydd giw o ymyl ei llwyfan, ond allai’r prif gymeriadau ddim cydio ynddo rywffodd, neb ond y ferch ddieithr hon, y ferch farc-cwestiwn hon, yn y wlad chwedlonol hon lle’r oedd y gynulleidfa oll mor ymylog.

Doedd Maxine ddim yn gwbl siŵr o gwbl bellach a allai fyw yma’n hir eto, i wylid honyma a’i drama. Roedd y ferch gyfarwydd hon y tu ôl iddi yn ei hannifyrru rywffodd. Ac eto, yr oedd hefyd ar ryw olwg yn esbonio rhai o’i breuddwydion mwyaf amhendant. Pwy oedd hi? Hi ei hun oedd hi, mae’n siŵr. Daeth teimlad drosti y dylai stopio ar ganol diofal gam, troi, chwifio’i bag llaw at hon, a’i niweidio ychydig hyd yn oed. Ond pa niwed a gâi cysgod byth?

Ac yna, un prynhawn cryno, cynnar, torrodd y ferch ifanc hon air gerllaw Swyddfa’r Post. Ynganai gwestiwn yn ddiwahoddiad. Roedd hi wedi ymhoffi yn siâp arluniol Maxine.

‘Ydych chi’n hoffi Llanbiblig?’

‘Mae’n tyfu arnoch chi rywsut ... Pwy ych chi?’

‘Meri Defis,’ sibrydai honno’n ddof fel letysen.

‘A! Defis own innau, cyn priodi. Maxine Defis.’

‘Ydych chi’n gwir hoffi Llanbiblig?’

‘Wel ... Efallai. Yn yr ardal ’ma dych chi wedi byw erioed?’

‘Ie, erioed. Fan hyn y ces i ’ngeni.’

Cawsai ei geni, o leiaf.

Y crych yna ar ei haeliau, ac wrth gwrs ei hacen, yr acen leol (mor wahanol iddi hi ei hun, gynt ac yn awr, wedi’i phlastro dan gystwyadau deuseiniol Awstralia) a’r modd y gwenai’n rhy hwyr, ryw ychydig o eiliadau ar ôl torri gair a disgwyl ymateb a pheri’ch bod yn rhag-weld gwên yn ohiriedig, dyna’r hyn a annifyrrai Maxine.



‘Ond ydych chi’n hoffi Llanbiblig?’ gofynnai’r *alter ego* hon drachefn.

Doedd Maxine ddim am ateb cwestiynau daearyddol. Procio ymhlith ei theimladau a wnâi’r ymholi hyll hwn, nid procio ymhlith atebion. Roedd hi’n falch o leiaf i fod o fewn cyrraedd i Len Llwyd, gan fod gan hwnnw ran ym mhwysau’r atebiad llawn. Ond am realeiddio’i breuddwyd ynghylch y wlad, nid oedd hi mor siŵr. Teimlai fod presenoldeb cyson y ferch yn ei thagu.

Codai’i ffroenau i’r awelon. *Awelon?* Roedd un awel ecentrig ystyfnig yn ceisio carthu’i gwddwg fel trobwll wedi cael pendro. Un arall yn cofio peidio â symud. Ac un elfen seml heriol oedd y ferch hon, meddyliai Maxine, a hithau’n rhan o ddadrithiad mwy cyffredinol a oedd bob amser am fygwth breuddwyd.

‘Ych chi’n hoffi naws yr ardal?’

‘Pwy ’wyr?’ Dyna ateb pendant o leiaf, gan Maxine. Naws?

Dair gwaith y gofynnwyd hyn iddi’n ddiweddar. Dylsai fod yn llawer llai enigmatig yn ymateb. Wedi’r cwbl gwiredwyd breuddwyd yma yng Nghymru. Pob peth roedd hi wedi breuddwydio amdano erioed: glendid diwylliant Len, ei foneddigeiddrwydd, a’i harddwch unplyg, roedd hynny i gyd yn treiddio drwyddo, a’r wlad berffaith o’i gwmpas yn gymysg â’r annibendod. Y rhain fu ei breuddwyd. Dyna ateb teg a gwir i bawb. Nid oedd am gael ei dadrithio gan neb, gan y ferch ddieithr hon yn arbennig. Wedi’r cwbl, roedd hi wedi cyrraedd. Dyma obaith cychwynnol, o leiaf. A chyda Len yr ymerawdwr y llwyddwyd i blisgo Charles i ffwrdd o’r diwedd, pob twyll, pob seithugrwydd a brofasai yn ei phriodas, pob siom a danseiliai fywyd, roedden nhw i gyd yn well. Roedd hi wedi cyrraedd. Roedd Len wedi carthu’i hofnau, a hynny oherwydd y lled realeiddio hwn ar freuddwyd.

Ac eto, daliai’n anesmwyth. Nid oedd wedi’i weld ers rhai diwrnodau, mae’n wir, er bod Cymru Len ei hun yn ddifyr o’i hamgylch ac yn tynnu’i sylw o hyd.

Mynnai fod yn gadarnhaol.

Hyd yn oed yn y gwesty, câi Maxine ei chyfareddu gan rai dieithrbethau — gan ystrydebau’r gweinydd gwrywaidd hyd yn oed. Mynnai hwnnw leisio bob hyn a hyn amser cinio neu de prynhawn ryw glymiadau traddodiadol megis ‘bwrw i mewn i’r bara menynd’ ac ‘ymestyn am y mwstard.’ Teimlai Maxine fod ‘diwylliant etifeddol y werin’, gwae ni, yn ffrwydro drosti wrth ymglywed â’r fath flinder geiriol. Pan glywai hi gôr Llanbiblig ymhellach ymlaen yn canu ‘Myfanwy’ neu ‘We’ll keep a welcome’, tybiai ei bod wedi darganfod y dreftadaeth Geltaidd. ‘Godidog’, meddai hi wrth ganu grwndi meddal uwchben

rhyfeddod y cwpwrdd tridarn. Hyn oedd ABC Cymreictod, yn ddiau. Drachtiar ar yr argraffiadau blinedig a sgeintiair i synhwyrau ar-wasgar, ac ymdrechais i estyn ei gwreiddiau. Gwreiddiais yn ddyfnach i'r carped. Syllais hefyd i wynebaw'r merched a oedd yn glanhau'r grisiau ac yn newid ei dillad gwely. Hwy — ynghyd â phicau-ar-y-maen wrth gwrs — oedd y traddodiad dilys, y werin. Cyn i fasnach feddiannu'r pridd, — y rhain! Ble, ble oedd y cwrwg? Chwiliai'i chalon ei hun. Yn ymddatod ar ryw lan neu'i gilydd, siŵr iawn.

Yng Nghaerafon y bu Maxine y prynhawn Mawrth canlynol, sut bynnag. Llwyddodd, drwy ochrgamu i gilffordd, i ymwarded â'i chysgod. Nid oedd wedi bwriadu mynd i'r siop lyfrau yn y dref y diwrnod hwn. Chwilio am gôt newydd yr oedd. Gwelsai ryw gylchgronau o Paris. Ac yna, wrth syllu o'r tu allan drwy ffenestr fe ganfu atyniad arall. Twrian yr oedd hwnnw ymhlith silffoedd. Nid y cysgod. Ef. Yn ei lendid yn pori'n hamddenol mewn siop lyfrau ail-law. Ef oedd yno, yn real heb awgrym o freuddwyd. Hwnnw, ei hymerawdwr diriaethol.

Pe deuai hi i adnabod hwn, *pan* deuai i adnabod hwn, fe sicrhâi mwyach, ie y tro hwn yn derfynol, y byddai yna gyfathrebu yn digwydd. Caent ddyfnder cyfathrebu beunyddiol. Ni fodlonai byth eto gyda Len ar yr ysbeidiau o gyd-fyw defodol a gawsai gyda Charles. Rhannent galonnau â'i gilydd. Gorfoleddent glebran. Byddent yn cyd-ddawnsio, law-yn-llaw yn estynedig, mewn dolydd. Dyma fyddai'r flaenoriaeth feunyddiol. Yn y cartref, nid yn y festri yn unig, nid yn y clwb golff yn unig, ond yno yn yr ardd gefn, yn yr ystafell fyw lle y caeai agosrwydd amdanynt, fan yna bob man y câi hwn a hi rannu â'i gilydd bob cyfrinach am byth, bob un gyferbyn â'i gilydd wrth y lle tân. Dysgent y grefft bleth. Beth bynnag a geisiai ymyrryd ag oerfel marmoraidd y gwrthrych ar hyn o bryd, mynnent arafwch mwynder cyn bo hir, gan gyd-wau ei amser ef yn ei hamser hi, hi a hwn yn gwllwm Celtaidd o fath, os yn dreuliedig.

Yn sydyn, gwyddai Len yntau fod y siop lyfrau yn llosgi'n ulw. Trodd yn ei unfan: gwefr, synwyrusrwydd, trydar, addfwynder. Roedd y siop yn pefrio'n ddolurus, gwreichionen wedi dechrau rhedeg drwy'r Prysg. Ac yna, fe'i canfu. Yno. Doedd hi, gwyddai ef, ddim wedi sylwi arno. Wyddai hi ddim ei fod yno. Dim ond iddo aros yn llonydd, fel sgwarnog, ni sylwai hi arno. Ond roedd hi yno ac wedi llwyddo i weddnewid y siop a'i llenwi â syfrdandod ei gwres. Hi oedd wedi dod yno yn ddamweiniol ar ei phen ei hun. Ond ar ei gyfyl ef.

Ond daeth hi'n rhy agos, yn fwriadol anfwriadol.

‘Chredech chi byth,’ meddai ef yn wrol ar ei thraws, a chan brofi peth cywilydd am y peth ar y pryd. ‘Tesco yw’r siop yma i fod.’

‘O! Mr Llwyd, welais i monoch *chi*. O leiaf, ddim yn iawn.’

‘Nid fan yma dwi i fod. Stocio’r car â bwyd am bythefnos. Dyna’r nod pan ddes i i Gaerafon.’

‘Ha!’ gwenodd hi. ‘A chwilio am gôt dw-i.’

‘Mae siop lyfrau felly yn anochel, dych chi ddim yn cytuno.’

‘Disgyrchiant a moddionach felly.’

‘Sut dych chi’n setlo yn Llanbiblig, Mrs Pearse?’ Disgyrchodd y geiriau hefyd i’w chlustiau, gan egino yn y tywyll dyllau a blaguro ac addo ffrwythloni’n freuddwyd feddwol, a disgyrchodd ei fyd oll yntau o’i hamgylch i’w le.

‘Mae’n bur hawdd setlo mewn lle fel Llanbiblig, on’d yw hi? Mae dieithryn yn nabod y lle i gyd. Mewn pum munud.’

‘A finnau’n mynd ar goll ynddi ar ôl blynyddoedd hir.’

Ar ôl yngan y gwirionedd pellgyrhaeddol hwn, roedd ef yn difaru. Beth wyddai hi am ei golledion ef? Wedi’r cwbl, ynddo ef ei hun yn unig yr oedd ef bellach wedi mynd ar goll.

‘Does dim cymhlethdod yn Llanbiblig, ’oes ’na? Yn wir, prin bod eisiau llawer o amser i nabod Caerafon chwaith ... na Chymru o ran hynny. Bach yn nhw,’ meddai hi.

‘Ydyn, mae’n debyg. Sylwais i ddim. Ie, mae popeth yn weddol agored yn y lleoedd hyn. Ond ambell gymhlethdod.’

‘Cytuno.’ Rhaid oedd disgwyl hynny.

Tybed a wyddai hi? Ymddygai hi fel pe baent yn gydradd. A glywsai hi? Ni cheisiai hi ei fychanu chwaethach ei ddirmygu. Ymddiddanai fel pe na bai’r un cysgod coch y delyn yn hongian rhyngddynt. Ac eto, roedd hi wedi bod yn Llanbiblig yn ddigon hir i rywun ollwng y gyfrinach. Prif ddiwydiant Llanbiblig, ychydig ar y blaen i lenwi sachau ag ebran, oedd gollwng cyfrinachau o gydau.

Eto, nid ymddangosai ei bod yn drwgdybio dim oll. Cymerai mai gweinidog confensiynol lwyd oedd ef, ychydig bach yn fwy sbonclyd na’r cyffredin o bosib, ond un y gallai hi ei ddodi yn ei dwll cyfarwydd llwyd yn ddigon hyderus. Ac roedd hi bob rhan ohoni yn llygad ei lle.

Gwenai Len. Roedd y ffaith iddynt gyfarfod mewn siop-lyfrau ail-law yn dweud

rhywbeth wrtho. Roedd hi o leiaf yn ymddiddori mewn sylwedd.

‘Dych chi’n ystyried y bysai coffi’n ollyngdod i rywun? Ar ôl yr holl academeidd-dra ’ma?’ awgrymai ef gan luchio’i fysedd tuag at y llyfrau. Teimlai hi ei anadl ar ei hwyneb. Roedd-hi fel pe buasai ef wedi yfed poteleidiau o win, a’u persawr yn ei meddwi, cyn y coffi.

‘Pam lai?’

‘Cawn gyfle ail-law felly i drefnu’r byd.’

‘Campus. Bydd y byd yn falch.’

Ac felly y blagurodd eu hadnabyddiaeth. Blodeuai yn helaethach wrth drafod tywydd dihybydd Cymru. ‘Tywydd, ych!’ meddai hi. ‘Byswn i’n licio’i ddadadeiladu.’ Bu’r sylw yn gymorth i gadarnhau’u hadnabyddiaeth eto. Fe’u hadwaenent ei gilydd yn ddwysach hefyd wrth gytuno (eto) mai lle bach oedd Llanbiblig. A lledai’r adnabyddiaeth helaeth hon ymhellach byth wrth sylwi fod Caerafon yn fwy; ac yn fangre ddigon anniddorol ar ddiwrnod gwlyb. Dyna sylfaen hollol ddiogel i adnabyddiaeth ddadlennol. Roedd y byd yn amlwg orohian o’u blaen.

Wrth iddo’i gyrru’n ôl i Lanbiblig, teimlai Len yn bur argyhoeddedig na wyddai hi ddim am gywilydd ei helbulon. Roedd popeth yn edrych yn hen o’u cwmpas, ac yn arferol. ‘Nid brwydr leol yn unig yw’r frwydr fan yma yn erbyn adfeilio, wyddoch chi,’ gwenai ef yn sydyn. Ni ddangosai hi drwy oslef na thrwy blwc o’i hamrannau nad oedd ef yn llai na pherson normal. Hyderai yntau mai felly y parhâi’r sefyllfa am ychydig.

‘Ydych chi wedi dod ar draws merch o’r enw Meri Defis?’ holodd Maxine ar ôl egwyl fer eto o yrru, ‘rywbryd ar eich crwydradau bugeiliol.’

‘Merch fferm on’d efe? Tipyn o athrawes gelfyddyd? Gwn i amdani, er dw i ddim yn ei nabod.’

‘Ces i brofiad rhyfedd gyda hi. Roedd hi’n ’y nilyn i. Neu felly tybiais i.’

‘Mae’n ferch unig. Ar un adeg, roedd Wili wedi ffoli arni.’

‘Wili! Wel! Wel! Wyddwn i ddim y gallai fe fod felly.’

‘Rŷn ni i gyd yn gymysg.’

‘Beth am ei hagwedd hithau at y fath sylw gan rywun fel Wili?’

‘Dwi ddim yn gwybod yr hanes i gyd. Byddwn i’n tybied ei bod hi ar un adeg wedi ymhoffi ynddo fe ’fyd.’

‘Ond roedd y sefyllfa’n anobeithiol.’

‘Mae yna obaith ym mhob sefyllfa ar ddaear Duw,’ meddai Len, ond heb wisgo’i het swyddogol.

‘Cytûn,’ meddai hi yn eciwmenaidd. Cytûn!

Fel y dylai pawb fod a hanai o ganolbarth Cymru — neu hyd yn oed y rhai a fu yno am wyliau hir — roedd Maxine yn enbyd o fwyn. Broliai ei bod yn cytuno â phopeth. On’ d oedd y gorgytuno anfeirniadol braidd yn uchelgeisiol?

‘Dim onglau,’ broliai hi.

‘Dyw hyn ddim yn peri ambell waith ambell sefyllfa braidd yn gymhleth?’ holai Len.

‘Cytuno.’

‘Beth am yr adar a oedd yn arfer bod yn y llaid cyn adeiladu ambell farina fel un Caerafon?’

‘Cytûn. Rown i o’u plaid nhwythau hefyd i’r carn.’

‘Ond beth am eu gwrthwynebwy?’

‘Dim problem. Dwi’n tueddu i gydymdeimlo hefyd â’r mwydon a’r pryfed roedd yr adar yn arfer eu bwyta.’

‘Fel y pryfed hefyd felly dan eich traed wrth gerdded.’

‘Elwn i’r stanc dros y rheini.’

‘Beth yw canlyniad y fath ystwythder acrobataidd mwyn?’

‘Dim stanc, ’fallai.’

*Annwyl Mair,*

*Tir na n-Og ar goesau wedi cyrraedd! Fy mreuddwyd wrywaidd! Pob peth y breuddwydiais amdano erioed erioed! Fe’i gwelais! Roet ti yn llygad dy le! Neu o leiaf nid ti, ond dy luniau! Allet ti byth fod yn dy le, ynghylch aros gartref. Os caff fy anadl ataf ar ôl iddo rowndio pennau Pumlumon, dwedaf wrthot ti yn gymwys ei hyd a’i led.*

*Beth bynnag ddwedi di, creadigaeth hollol amhosibl yw hwn, yn rhodio ar hyd ac ar led Llanbiblig fel pe na bai ond yn fod meidrol! A wyt ti ar dy lw’n dweud y gwir glandeg fod dy groen yn gallu aros yn ddi-wyddau o hyd, ac nad oes a fynnych ddim ag ailgynnau tanllwyth led yr hen aelwyd hyfryd hon. A elli fyw am un funud acw hebddo, heb ei anadl banadl ar dy ddanadl, — bob amser yn rhy bell, heb gentimedr o’i afiaith? Choeliwn i byth!*

*Rhaid dy fod yn genfigennus tost. Os gwela-i di y tro nesa heb fod cenfigen yn byrlymu allan o’th glustiau, chreda-i ddim dy fod di’n fyw. A mwyn hefyd! Bobl bach, Mair*

*annwyl, dwyt ti a fi ddim ynddi. Mae'n ffrwydrol o fwyn. Mae hwn yn Faldwyn hyd ei fodiau.*

*O! ... ie, a Chymru hefyd, mae honno yma, meddan nhw, er ei bod yn dibynnu ar wledydd eraill i fyw yn ei lle. Am honno, mae'n dal ei thir, heblaw am law, ac ambell ddilyw haeddiannol felly. Ofn adfywio sy ar y bobl, ac ychydig bach yn ddychmygol, rhag iddyn nhw ddarganfod pwy ydyn nhw, a gwneud rhywbeth. Ond y Llwyd ... A! dyna i ti synwrolrwydd normal nawr! Dyna gronglwyd! Gwarchodfa rhag pob glaw. Os caf fy mhen yn ôl rywbyrd, fe wnaft bont rhyngddo fe a ... thi Fendigeidfran! Ond paid â cherdded drosof.*

*Cariad,*

*Maxine*

*X*

*O.N. A wyt ti'n gwybod rhywbeth am achau merch o'r enw Meri Defis o'r parthau hyn?*

Llithrodd yr wythnosau heibio i Len a Maxine, y naill yn ansicr am y llall. Ceisiai Len dagu peth o'i frwdfrydedd. Pryd bynnag y trawent wrth ei gilydd, un peth a gorddai drwy feddwl Len, — A oedd hon wedi clywed amdano?

Ac felly, yn anhaeddiannol o dawel y treiglasai pedwar mis maith i garthfogydd Llanbiblig er pan greodd Len Llwyd hanes a ysgydwai'r gymdogaeth i'w pherfedd. Er na allai ef ddeall ei statws newydd, dechreuai'r atgof fynd yn rhan o'i ddodrefn. Âi'r sarhad sut bynnag yn llai-lai miniog. A threiglodd yr Esgob Wiliam ab Einion â'i stumogau enwog yn ôl un gyda'r nos i ymweld â'i hen ffrind. Lledai'i ben-olau eciwmenaidd ar y sedd groesawgar ym mharlwr y Mans fel pe bai'n carpedu castell di-syfl Caerafon.

'Ydy bywyd — beth yw'r gair Cymraeg? — yn ailgydio?'

'Wedi'i hen wneud.'

'Pob peth yn edrych yn rheolaidd?'

'Os yw caredigrwydd yn rheolaidd.'

'Ond, wyt ti'n cael dy boenydio?'

'Ddim hanner digon.'

'Mi thylwaith i ar thlogan ar wal y tŷ, ac un arall ar wal yr ardd wrth y lliidiart.'

'Ydyn nhw 'na byth?'

'Rhyw eiriau ychydig yn amhriodol.'

‘Ha, wrth gwrs, anghofiais. Rhyw fardd bol clawdd.’ Syllai ar fol clawdd Wiliam.

‘Rhyw fath o fathocithtiaeth yw’u gadael nhw.’

‘Efallai.’

‘Ond a dweud y gwir, y rhethwm rown i’n galw oedd hyn. Tybed a fythet ti’n hoffi cael newid?’

‘Newid? Sut?’

‘Dwi’n thwil braidd ynghylch ei awgrymu.’

‘Cael ’y nhrosglwyddo, fi hefyd i amgueddfa, efallai?’

‘Mudo o bothib. Newid enwad o leiaf, a thwydd.’

Edrychodd Len arno’n syfrdan. ‘Thwydd!’ meddai’n ddrygionus. ‘Gadael Llanbiblig rwyd ti’n feddwl?’

‘Wel?’

‘Nid ... Na ... Troi cot?’

‘Pincio dy got ychydig efallai. Cynghorydd cyd-enwadol cyffredinol.’

Carthodd Len ei lwnc ysbrydol mewn syndod. ‘Rwyd ti’n garedig, Bill.’

‘Dod acw i roi help llaw. Mae’r Anglicaniaid yn darparu ar gyfer pawb. Paid ag ofni, athëithtiaid, popeth.’

‘Ryw ddiwrnod efallai.’

‘Uno. Ond yn oddefgar.’

‘Ddim nawr. Ond diolch am yr awgrym.’

‘Efallai y byddai ychydig o waith gweinyddol, ti’n gwybod, llai cyhoedduth am y tro, ar y datblygiadau eciwmenaid ... peth gwaith golygyddol gyda’r cyhoeddiadau, cylchlythrau, am flwyddyn neu ddwy ... Cyflafareddu ... Ti thy’n gwybod.’

‘Ydy esgobion yn gallu gwneud trefniadau fel ’na?’

‘Mae eithiau help acw gyda’r cythylltu â’r bugeilio offeiriadol. Trefnu cyrthiau. Cyrthiau cydenwadol cyffredinol weithiau. Fe gaet ti dy dderbyn gyda ni yn bur fuan. Gofala i am bethau felly. Dwi am *wneud* rhywbeth ynglŷn â’r uno o ddifri.’

‘Gwneud! Ydy hynny’n beth Cymreig?’

‘Beth thy o’i le ar yr amther prethennol?’

‘Dyw e ddim yn fodd dibynnol.’

‘Mi hoffwn i bwytho arnat ti.’

‘Mae gen i un broblem yn y modd mynegol. Mae gen i ddyletswydd yma i un

unigolyn o dan fy adain, un cyfaill cloff sy heb fod yn aelod crwn croyw.’

‘Pwy? Thut?’

‘Un sy heb fod yn Gristion am a wŷr meidrolion, sy heb bopeth, sy mewn angen arbennig am fy help i ar hyn o bryd.’

‘Doeth neb ohonon-ni’n anhepgor.’

‘Am fy help i beth bynnag y mae’n gweiddi ar y foment ... Aids.’

‘W?’ holai’r esgob yn araf fel y bydd glasier.

‘Eisiau cyngor ffrind, o’r tu allan megis. Dwi wedi bod yn pendroni a ddylwn symud i mewn ato i fyw.’

‘Byw gyda’ch gilydd! A! Byw’n fyw felly?’

‘Ar ryw olwg. Yn gyd-fyw.’

‘Dau ddyn. Aidth? O!’

‘I ofalu amdano. Mae mawr angen.’

‘Ond ydy hyn rhyngoch chi’ch dau yn berthynath — beth yw’r gair Cymraeg — ydy hi’n Anghymreig?’

‘Na: does gen i ddim tueddiadau felly.’

‘Byddai’n — beth yw’r gair? — yn dythtiolaeth chwithig.’

‘Tystiolaeth?’

‘Gerbron byd a bedydd.’

‘Ond gerbron Duw?’

‘Oth ŷn ni’n gorffod gweithio ymhlith baw, mae rhywun yn thiŵr o gamdybied mai ni ’gynhyrchodd yr hen thtwwf. ‘Byddai rhyw orchetht fel hyn mae arna-i ofn ddim yn adeiladaeth i braidd.’

‘Feddyliais i ddim am hynny.’

‘Ond mi gâi’r gynulleidfa’u thymiau i gyd yn anghywir.’

‘Mae’r crwt yn ymddiried ynddo-i. Ymddiried: mae hynny’n ddigon.’

‘Ydy e wedi proffethu? Oeth ganddo fe ryw argyhoeddiad o bechod?’

‘Dwi ddim yn gwybod. Mi allai fod.’

‘Pa fath o berthynath thy?’

‘Mae e mewn angen anymwybodol.’

‘Nid dyna dwi’n feddwl. Beth yn berthanol?’

‘Ar y gwaelod eithaf mae-e, druan. Dyna’r cwbl. Mewn angen. Mae hynny’n ddigon



o berthynas. Mi wn innau ryw fymryn am waelod. Ond mae e ryw gan milltir islaw hynny.'

Roedd Bill yn ei amau, gwyddai Len hynny. Amheuon cyffelyb oedd yn gwrthwynebu Len ymhobman: dyna fathodyn ei waith. Ymrestrodd Bill bellach felly gyda lluoedd y gelynion amheuol.

Tybiai Len na allai'r un ohonom ymostwng ddigon. Rhy hir yr ymgadwodd rhag estyn ei ddwylo gweigion tuag i fyny. Cripiodd balchder o'r herwydd i mewn i fasedd ei fynwes, a gorweddian yno tan ymgylchu fel cath fethedig yn heulog.

'Beth yw enw'r crwt?'

'Wili Eston.'

'Dyna'r Wili thy ar y graffiti felly?'

'Na.'

'O!'

'Gweiddi mae-e am help, dyna i gyd dwi'n ei wybod. Credu mae-e fod 'y nghwmnïaeth i'n werth rhywbeth iddo. I mi mae hynny'n anrhydedd.'

'Ond dy gynulleidfa.'

'Cymydog yw-e.'

'Doeth dim rhaid iti thymud i mewn ato doeth bothib. Mae 'na ddarpariaeth ar gyfer achothion fel hyn.'

'Mae e'n credu 'mod i'n ei *garu* fe.'

'A! Caru. Clyw, Len 'nghyfaill i. Trwbwl fydd hyn. Trwbwl dwbwl. Mae 'na leoedd ar gyfer cleifion o'r fath. Gad iddo fod. Mae gen ti ddyletthwyddau ehangach. Unigolyn nnythig yw hwn. A'r gair *caru* 'na! Gair peryg. Boith bach! Thentimentaliaeth.'

'Dafad gloff gloff.'

'Mae gen ti ddoniau lletach. Pregethu'r efengyl yn ei phurdeb. Mewn ufudd-dod. Peth prin. Trwbwl yw enw'r gêm hon.'

'Ond mae e wedi galw am help. Mae e wedi colli ffrind.'

'Rŷn ni i gyd yn galw am help. Dwi eithiau help gweinyddol. Yr Eglwyth, mae hithau'n galw am help o hyd. Mae'r hen helbul cynta yna yn dechrau chwythu heibio erbyn hyn. Diolch am hynny. Gad i hwn fod nawr. Hawdd cynnau tân. Bydd yn ddoeth fachgen. Mae'r hen thgandal hurt o'r blaen yn ceithio darfod.'

Doedd e ddim yn dweud y gwir, a gwyddai Len hynny. 'Ac dwi'n falch odiaeth. Doeth gen i fawr o amynedd gyda'r parchuthion yna thy'n gwneud môr a mynydd ynghylch

ffolineb thydyn am y tro, am ei fod yn herio gwedduthter. Mi wyddoht ti hynny, chwarae teg, erth dyddiau Coleg ... Ond mae hyn yn wahanol. Rwyf ti'n herio'r byd o'r newydd mewn gwaed oer.'

'Na.'

'Ti mae pobl yn ei amau. Nid fe.'

'Gad iddyn nhw gael blas ar amau te. Amau wnân nhw ta beth.'

'Balchder thy'n dweud hyn. Gad i'r creadur gripian yn ôl at ei rieni. Fel arall, drwg wnaiff yr holl helbul i bawb, oherwydd dy haneth, y celwydd mae'n wir. Nid ti yw'r perthion priodol i wneud y petheuach hyn.'

'Pwy byth sy'n briodol? Mi alla-i hedfan uwch y storm hon.'

'Mi drefna-i i'r crwt yma gael ei — betingalw? — neilltuo i ythbyty Aidth arbennig thy gan yr Eglwyth. Gad e.'

'Na.'

'Mae'n gyfle i'r Eglwyth ddangoth tythiolaeth gyffredinol. Mi gaiff y gofal croywaf dwi'n gwarantu.'

'Un peth y gofynnodd amdano. Un peth yn unig.'

'Fe gaiff gariad a thrugaredd mewn amgylchiadau mwy proffethiynol. Yr Eglwyth thy'n darparu'r lle gorau yn yr ardal hon, Len.'

'Byddai'n ddatrysiad rhy glinigol.'

'Meddylia am y cyfanrwydd, Len.' A lledodd ei fodolaeth, lledodd ei stumogau i gynnwys pob enwad. 'Gweinidog gyda'r Annibynwyr wyt ti. Thefydliad byd-eang. Ymbwylla. Paid â gwylltu. Bydd di yn — betingalw? — yn arafaid d'ythtyriaeth. Acw mae d'angen di. Yn yr Uno mawr. Dyna pam dwi wedi dod heddiw.'

'I gynnig dihangfa.'

'Meddylia nid yn gymaint am yr helbulon thy dan dy drwyn am y foment, ond am Uno — am yr Eglwyth oll benbwygilydd benbaladr yn ei llawnder cydblethog. Cymer amther. Mae'n ddihangfa rhag helbulon.'

Amheuo dihyder yr Esgob oedd yr hyn a flinai Len. Roedd hyd yn oed ei ffrindiau gorau'n ei ddrwgdybio; a phwy allai'u beio? Dyfnach oedd ei hunan-gyfiawnder o'r golwg. Dyfnaf y felltith, dyfnaf y llwgr yn ei galon.

Ond O! sibrydwch hynny, chi fwganod parchusrwydd, chi amddiffynwyr priodoldeb, murmurwch hynny wrth y cynn-siarad.

Ni allai Len aros gartref.

Ar ôl i'r Esgob iodlo'n iach, a lisbian ddod o hyd i'w 'ffordd ma'th', ymysgwyd fu raid i Len. Nid oherwydd dim perswâd o du ei hen gyfaill sad, na chwaith oherwydd ei benderfyniad ei hun i symud i mewn at y claf — ar y pen hwnnw, cwbl gaeedig oedd ei feddwl — ond yn syml oherwydd y cythrwfl yn ei fol ei hun ac oherwydd ... beth oedd y gair? ... penbleth troednodiadol.

'Roedd cynrhon — fel y mynnai hen yd y wlad yn ei ffordd draddodiadol annwyl — lond tin Len. Cynrhon oedden-nhw a oedd eisiau deall pobl eraill yn well.

Ynglŷn â'r llwybr cywir, wrth gwrs, mor benderfynol oedd ef ag ynghynt. Ac eto, procio roedd Bill wedi'i wneud a chorddi'r amgylchiadau. Yn hytrach na datrys y broblem yn ei ddull ei hun roedd Len yn awr yn gorfod bod yn fwy croendenau ymwybodol ynghylch rhyw fath o adwaith o du pobl eraill, yn neilltuol ei braidd. Bysai'n rheitiach, o'r herwydd, pe bai'i hen gyfaill cymwynasgar wedi gadael iddi.

Dewisodd Len bellach ffoi am egwyl allan o'r tŷ, felly. 'Ma'th,' gwaeddai ef yn ôl ar ei gysgod. 'Ma'th!' Carlamodd ei gysgod ar ei ôl yn betrus ond yn ffyddlon. Gartref ar y pryd aethai'n bur glawstroffobig. Ymlusgodd i fyny felly ar hyd y llwybr lleidiog i Lyn Llygad Piblig. Yn y car y teithiasai beth o'r ffordd oherwydd ei flinder, a hynny ar hyd y briffordd. Wedyn, gadawodd y car mewn cilfach a cherdded oddi yno drwy'r chwydrel droetrwym tuag at y llyn llonyddgar uwchben.

Gwyddai mai chwilio amdano'i hun a wnâi yno. Nid oedd disgwyl dod o hyd i ddim annisgwyl, felly. Cerddai rhagddo'n ddihyder. Clonc-di-clonc. Ar hyd ymyl y feidir bu rhywrai'n llosgi brwyn ac eithin. Ar ôl y glaw ymledasai llawer o byllau hwnt a thraw. Piciai drwyddynt yn fanwl yn ei esgidiau ysgafn. Dripyn, dropyn. Roedd peraroglau a blas glaw yn gwydnhau ar y brigau dan draed. Synnai fel yr oedd y golau gwyn, wrth daro'r pyllau â'i lewyrch pigog, yn trawsffurfio'r dŵr budr yno'n lluniau llachar. Suddai brigau hollt pwrdr gyda dail cletsiog marw i'r llaca. Cerddai o hyd yn ei flaen felly. Clonc-di-clonc. Heddiw gallai ddeall moch. Pe bai'n fochyn heddiw, roedd e'n synied na byddai dim yn felysach ganddo na gorweddian gyda'r brigau fan yna yn y llaid, ymdreiglo ar draws ymylon ei weflau, heb frolio wrth neb, troi a throsi yn y dail, a gadael i'r brownder hylif dasgu dros ei

aeliau ac o gylch ei war ac ymylon ei glustiau. Gallai ymdrybaeddu'n ddilyffethair yn y lle yma gydag arddeliad twrch profiadol, o bosib yng nghwmni moch eraill. Rhwbient yn ei gilydd, rholio ar eu cefnau, rhochian a rhochian a rhochian ar draws caglau'i gilydd mewn bodlonrwydd gwlybyrog, clyd. Do, daethai o hyd iddo ef ei hun.

Myfyriai'r ddaear o'i ddeutu am wlybaniaeth farus.

Roedd y llwybr yn awr yn fwy serth, a llai o byllau i'w cael. Roedd y tir yn fwy agored. Ceisiai fynd yn uwch, a'r gwynt wedi cael mwy o gyfle i sychu'r pridd. Cerddai rhagddo o hyd. I fyny acw yn uwch uwch byth yn y gogledd-orllewin gallai weld Cae'r Gaer, sef safle'r gaer dybiedig o'r Oes Haearn Gynnar ...

Dichon mai'r gwynt ar ei groen a barai iddo feddwl am bobl a phethau archolladwy yn y fan yna. Dychmygai'r hen ryfela a fuasai yno gynt, mor ofer.

Yn sydyn, myfyrio drwy'r pridd o'i ddeutu yr oedd am dlodion bregus y ddaear. Y rhyfeloedd a fu, a'r byddinoedd gwerinol. Yr hen Gymry gwledig tlawd a fwydai'r hen sgarmesoedd mor hael. Dilynai'i grebwyll yn awr o'r cytiau a fu yno yn y gaer fil a hanner o flynyddoedd ynghynt hyd at y cytiau carpiog cyffelyb mewn pentref yn Rwanda heddiw, y newyn, y tlodi, gweddillion anhrefn lwythol wedi'r ymerodraeth. Pa beth yn y wlad hon a allai gymharu o ran dyfnder â'r clwyf heddiw yng ngwledydd y Trydydd Byd? Dim ond ein clwyf diwylliannol o bosib, yr iaith ddiferog, a difancoll hunaniaeth yng ngwehilion imperialaeth. Ni allai Len hyd yn oed heddiw, hyd yn oed y fan yma, yn ei unigrwydd awchedig, byth ymwahanu rhag ei gymdeithas. Yr hen Gymry, nhw a'u hunigrywiaeth gynt a'u tlodi; a ninnau'r Cymry newydd, ni a'n bodolaeth ymyl-y-dibyn, a'n cymhleth israddol ynghylch hunaniaeth, a phob gwlad a diwylliant yn dioddef oherwydd chwalfa'r hen imperialaeth flêr, unffurfiol, a'r imperialaeth barhaol. Un peth a anogai bodolaeth ei dipyn iaith, dyna oedd: tosturi, cydymdeimlad â'r cymhleth taeog dibynnol a achosid wrth amddifadu pobl. Chwarddai Len yntau ynddo'i hunan. Y tipyn iaith anwel falch yma, ynghyd â'r dioddefaint erchyll gweledig corfforol acw yn y gwledydd tlawd. Ef fan yma, yn ymladd mor aneffeithiol tost dros ei achos gwyrdd, cysurus, o blaid amrywiaeth y rhywogaethau, o blaid y lleol. Diau mai athrawes bur ffwdanus oedd yr iaith: fel Rwanda, a Bosnia, a Phalesteina; a heb fod yn ddim tebyg. Lleol oedd pob dioddef, yn rhan o'r llinyn clwyfus, lleol oedd gwlad. Lle bynnag yr elai Cymro fel Len, boed mor bell oddi wrth ei gyd-ddynion a hyd yn oed oddi wrth ei gartref ag oedd yn bosibl, tra oedd delwedd ei iaith yn baglu ymlaen yn glwyfedig wrth ei ochr, yn ei feddwl, yn y strydoedd, arhosai ef ychydig

bach bach yng nghwmni gweiniaid. Tra meddyliai drwy iaith o gwbl, ef oedd biau'r bobl ddarostyngedig ledled y ddaear. Ymerawdwr colli oedd. Meddyliai am Wili.

Wedi ymdrybaeddu allan o'i fyfyrion, a dod o fewn golwg i'r llyn, safodd yn stond. Ar y lan arall i'r llyn, crawcwellt, yno, am ryw chwarter milltir, yn welw felyn fel distawrwydd. Roedd y llyn ei hun yn welw wyrdd fel llygad cath. Llepiai tangnefedd ac erydu'r ymylon. Y tangnefedd a oedd biau'r bydysawd. Fan yma, yn neilltuedig, teimlai Len ei fod wedi cyrraedd o'r diwedd ei gell foel. Safai'n ffigur lond ei lygaid o unigrwydd mewn llun. Roedd ambell alwad gan gylfinir yn pwysleisio'r absenoldeb hwnnw, a llif ei sŵn rywsut yn ei erydu ef.

Sobrai.

Ar bwys y llyn ryw ganllath oddi wrtho yr oedd menyw'n sefyll. Safai ei ffigur yn wyn ac yn lluniaidd uwchben y dŵr.

Ai o'r dŵr y daethai? Fel yna maen nhw weithiau. Rhedai'r goleuni yno ar draws ei phen a thros ei hysgwyddau hyd ei chefn, ac i'r hylif ger ei thraed. Yr oedd ei breichiau a'i choesau'n hylifol olau. Rhyw dric gan yr awyr. Doedd dim symud ynnddi. Roedd ei hesgeiriau wedi'u cerfio mewn marmor gwyn teimladwy. Roedd hi fel pe bai wedi cael ei hadeiladu gan y canrifoedd i syllu ar draws dŵr. Disymud ei hanadl uwch y dŵr a ymsymudai'n ddistadl ond yn ddigon i'n hatgoffa ei fod yn fyw.

O'r dŵr y daethai, yn bendifaddau.

Hi yn y fan yna oedd y foment a arhosai.

Ar wahân yno, doedd hi ddim fel petai'n gallu ei adael ef, Len, ar ei ben ei hun. Ai'r weledigaeth ohoni yn hytrach na'r realedd a'i denai ef?

Dyma'r tro cyntaf iddo weld menyw o'r byd arall yn y lle hwn; ac ni wyddai sut roedd ymateb.

Profai ef ryw gywair rhamantaidd tipyn mwy afreal nag a oedd yn gyfarwydd. Milwriai hwnnw'n erbyn tuedd y bore i'w gwneud hi'n rhan o'r niwl. Ceisiai'i lygaid sicrhau'i bod hi'n peidio â hwylio i ffwrdd. Daeth hi'n rhan strwythurol o'r nudden. Ceisiai'i hoelio am foment arall.

Rhywun arall felly, a oedd yno yn y lle hwn. Rhyw ffigur luniaidd a dirgel wedi cyrraedd o'i flaen yn stond ar lan agosaf y llyn eisoes. Ai Meri Defis? Roedd hi'n debyg. Na! Nid oedd angen ymholi. Fe'i hadwaenai yn y fan. Wedi ymgolli yn ei myfyrdod edrychai hi ar draws y dŵr. Maxine Pearse oedd yno.

Bu Len bron â throi'n ei ôl ar unwaith. Nid dyma'r lle na'r amser. Chwythai'r awel drwy'i gwallt, fel y chwyth drwy lawes bwgan. Doedd ef ddim am ei gweld, ddim heddiw, ddim yn y fan yna. Doedd e ddim yn erfyn cynulleidfa, lai byth Maxine Pearse. Dod yma roedd wedi'i wneud i ymlonyddu, ac i weddio o bosib, i fod gyda Duw, heb neb arall, mynd o'r neilltu, ceisio'r anialwch maith. A chwilio am anialwch maith ei Wrthwynebydd annwyl, dyna a wnâi'n fwyaf penodol.

Doedd ganddo ddim yn erbyn Maxine Pearse wrth reswm. Yn ystod yr wythnosau diwethaf aeddfedasai'u cyfeillgarwch. Gwelent ei gilydd bron yn feunyddiol yn ddiweddar; rai diwrnodau, sawl gwaith. Fe'i parchai hi a'i hedmygu. Roedd hi'n amlwg yn bersonoliaeth arbennig, wedi cyrchu yma i chwilio am ffordd o fyw, am ideoleg. Gwelsai hi ddelfryd o bell. Rhamantydd oedd hi. Synnai Len yn ddireidus at ei gwybodaeth a'i chwaeth cerddorol. Roedd hynny wedi ennill tipyn o'i fryd. Pendronai am ei dewrder hefyd, a'i chydbwysedd wedi colli'i gŵr, a harddwch ei phryd, heb sibrd si am ei natur ddefosiynol. Fe adwaenai hi Gymru, mewn rhyw ffordd chwithig anghyfarwydd. Ond ... roedd yna rywbeth arall, fel sy gan bawb.

Daliasai ef hi ambell dro yn rhaffu ffansïon pan fyddai yn ei chwmmi. Dyna odrwydd ynddi. Nid cwbl wrthun. Ambell ddiwrnod adroddai hanes go anhygoel am ryw ddigwyddiad rhamantus yn ei bywyd yr oedd Len yn gwbl sicr na ddigwyddasai mohono erioed. Ond rhyw fath o benysgafndod merchetaidd oedd peth felly, meddai'r gwryw ynddo. Tueddai hi at ormodiaith.

Câi ef ei atynnu gan ddifyrrwch pili-pala ei sgwrs. Ac yna, gan dân-golosg ei chwerthiniad. Ac eto, roedd yna ddifrifwch. Yn ei ffydd, doedd dim o'r ffiloreg ynghylch 'y llwybrau gwahanol i fyny'r mynydd'; a'n gwaredo, gwyddai hi'n burion am blygu, er na wyddai am ddyfal barhau. Gwyddai rywbeth am gredu di-nonsens. Gwyddai rywfaint am ymrwymiad meddwl, teimlad ac ewyllys. Chwaer oedd hi iddo, yn ddiau, iddo ef, yn yr ysbryd. Ysbryd oedd hi a wyddai ymestyn. Dyna'r ychwaneg cudd.

Ond rywfodd, anesmwyth oedd ef wrth ei chanfod yn awr fel carreg fawr wedi disgyn ar ganol llyn.

Cododd ei phen.

'O!' ebychodd hi, yn ddisymwth bitw, fel yna, yn gwta syn wrth ei weld. 'Breuddwydio rown i.'

Tynnodd hi un o'i menig myn gyda'r math o seremonïaeth drafferthus a geir gan y

Folies Bergères, ac estyn y llaw noeth yn araf fwyn tuag ato. Roedd y llaw'n gymharol denau ac yn noeth. Tenau gynnill oedd y blodau gerllaw ei thraed hefyd, yn felyn ac yn wyn, gydag ambell dasgiad o frown. Doedd dim ymosodiad ar y synhwyrâu. Eto, roedd y cynildeb tanfor yn gadarn ac yn gafael ynddo.

'Ddrwg gen i,' ymddiheurai Len. Neidiai ei lygaid drosti fel sgwarnogod. 'Down i ddim yn disgwyl y byddai neb ... yma.'

'Popeth yn iawn. Prin 'mod innau'n sylweddoli chwaith 'mod i yma ar y pryd. Rwy'n falch dros ben i'ch gweld chi. Efallai y ca-i ymadfer o'm ffansiön ffôl.'

Sugnai Len ei geiriau fel mintysau. 'Ond dylwn i fod wedi peswch neu rywbeth.'

'Peidiwch â magu annwyd o'm herwydd i. Fi oedd wedi ymgolli, mae arna-i ofn.'

'Wedi dringo lan yma i fyfyrion?'

'Orau y gallwn.' Dod a wnaethai hi yno i fyfyrion amdano ef, — sylweddolai hi'r peth bellach. Daethai ef eisoes yn rhan o'i bywyd. Ac yn awr wele ef, yn ymrithio o'r dyfroedd heb gleddyf.

'Yr un fath â fi.'

'O?' murmurai hi'n chwilfrydig. Sylweddolai'r hyn a oedd yn gyffredin rhyngddynt. Hyhi oedd morwyn y llyn. Closiodd ei breuddwyd ato tan grynu.

'Y fan yma bydd y pregethau mawr yn cael eu cyfansoddi, chi'n gwybod!'

'Priodol iawn.'

'Fan yma mae'r problemau cydwladol anferth yn cael eu datrys.'

'Problemau?'

'Dw-innau'n cael ambell broblem ... gyda'r byd a'i bethau chi'n gwybod.'

'Wrth gwrs.'

'Dych chi am gerdded?'

'Hyfryd.' Cerddodd ef gyda hi, ef, hyhi ynghyd â'i bysedd hirion hydeiml bron â chyffwrdd ag ef. Efô heb ddwylo.

Cerddent gan bwyll ar hyd glan oer y llyn. I fyny ar bwys pen y llyn, dim ond nhw ill dau a fodolai. Cyfyngwyd arnynt gan yr awyr. Roedd yr haul newydd baentio'i ewinedd ac yn estyn ei fysedd meingoch i dynnu'r llyn i'w geg farus.

Yr Undeb Ewropeaidd a oedd wedi darparu arian i osod i lawr lwybrau sychion taclus o gylch y glannau, a gallent fanteisio ar y rhain yn awr i gylchu'r dŵr.

'Mae hi'n dipyn o dynfa i gyrraedd 'lan fan hyn,' meddai Len.

'Ddim i gangarw o'r parthau deheuol.'

'Does neb ohonon ni'r *hen* frodorion yma'n llamu cystal ag y buon ni yn y dyddiau fu.'

'Tybed? Dych chi'n sôn am y ni cyffredinol, ynteu am y ni budr arbennig plaen sy fan hyn nawr?'

'Y brodorion.'

'Yr *hen* frodorion!' sibrydodd hi'n hiraethus.

'Yn ffigurol, wrth gwrs. Defnyddio *hen* yn emosiynol rown i — fel hen grwt bach annwyl.'

'Gair gogleisiol yw *hen*. Dw *i'n* gwybod dim oll am y peth. Dwi'n cofio rhai pobl untro yn Awstralia yn sôn am ryw adeiladau hynafol a oedd mor ddiweddar â dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg — dowch i weld, medden nhw, —gwaith *hen* droseddwr o Fryste, Francis Greenway. A minnau'n gyfarwydd ag eglwysi'r oesoedd canol yng Nghymru. Perthynol yw pob *hen*. Y fi yn *hen*! Does dim yn *hen* yn Awstralia heblaw creiriau'r ymylon. A dim ond gleiniau f'asgwrn cefn fel cerrig beddau sy'n mynd yn ôl dros ganrif — efallai hyd ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg – a'r brodorion. Dim ond y rheina a'm dychymyg i sy'n *hen*.'

'Sut dych chi'n adweithio i'r *hen* borfeydd, te, ar ôl dychwelyd i'r *hen*wlad hon?' holai Len.

'Mi freuddwydiais i lawer am yr *hen*aint arbennig yma.'

'Ond y peth ei hun, y wlad. Ydy hi'n *hen* i chi?'

'Cymru? Oes 'na'r fath le mewn gwirionedd?'

'Oes, ambell waith: yr un fath â phob gwlad sy'n mynnu dibynnu ar wledydd eraill: pam dych chi'n gofyn?'

'Mae 'na rywbeth o'i le 'ma.'

'Sut felly?'

'Dwi ddim yn siŵr. Mae'r wlad yn berffaith, fwy neu lai, o ran y golygfeydd er gwaetha'r tipyn annibendod. Hyn yw 'mreuddwyd ar ryw olwg,' meddai hi gan ledu'i llaw ar draws y gorwel. 'Ond does fawr o ysbryd 'ma.'



‘Ysbryd!’ Crynodd ef yn ddiarwybod.

‘Yn y bobl. Yn y lle ei hun dwi’n feddwl. Dim. Dim byd tu ôl rywsut ar y silffoedd, erbyn hyn.’

‘Dyna’r gwahaniaeth rych chi’n sylwi arno? Diffyg ysbryd?’

‘Ie. Dwi wedi bod i ffwrdd ers dros ddeng mlynedd ar hugain cofiwch.’

‘Wel, mae yna sawl ymateb glywais i am Lanbiblig, ond dyma’r tro cynta ...’

‘Wrth gwrdd â nhw, y rhan fwya o bobl, dim ond cyrff ydyn nhw, cyn belled ag y gwela-i: cyrff a chlustdlysau gan y gwrywod, un dimensiwn, ac ambell datw.’

‘Ond felly mae hi yn Awstralia hefyd does bosib.’

‘Dyna sy i fod.’

‘Cyrff, cyrff ym mhobman. Dyna’r ddelwedd gydwladol heddiw o leia: canolfan i gyrff wedi’u globaleiddio.’

‘Ie; ond dych chi ddim yn ei *disgwyl* hi felly yn *fan* ’ma, yn agos i’r gwynt. Dych chi’n maddau *fan* ’na. Pentwr o gyrff yw cartwŷn Awstralia i fod. Fan hyn sy wedi newid. Cymru. Wedi’i Hawstraleiddio.’

‘Dwi’n deall mymryn beth sy gyda chi,’ meddai ef heb ddeall. ‘Ond alla-i ddim cytuno. Dych chi ddim yn sylwi fod yna rai sy’n clustfeinio ar rywbeth gwell nag allanolion?’

‘Neb. Sylwais i ddim,’ meddai hi’n gelwyddog. ‘Neb yn chwilio o’i sodlau, o leiaf. Neb yn ymofyn â chwŷs stumog. Mae’n annaturiol bellach yng Nghymru. Mae yna dipyn o chwarae cydwybodol, wrth gwrs, ond rhy gydwybodol i fod o ddifri.’

‘Dych chi ddim braidd yn ...’

‘... galed? ... sinigaidd? Dwn i ddim. Does dim trydan i’w weld rywsut. Dim gwaed o’r awelon. Ac eto mae’n hyfryd o hyd, a bysedd y cŵn yn drydanol ddigon yn byseddu min yr awel, on’d ŷn nhw, edrychwch. Dyna fysedd a llosgeira arnyn nhw..’

‘Ond doe chi ddim wedi disgwyl iddi beidio â newid?’

‘Na. Rown i’n tybied y gallai mai fel hyn y bysai hi.’

‘Felly does ’na fawr o siom.’

‘O! Oes. Mae yna siom bob amser, gobeithio ... fod yr ofnau’n wir ... fod yr hen gymdogaeth yn gallu byw cymaint o ddibyniaeth, cymaint o beidio â bod. Does dim angen caledu’n erbyn siom. Ond mae yna wefr hefyd.’

‘Mewn celwyddau?’

‘Maen nhw’n diferu hyd y lle ’ma. We’ll keep a welcome, tybiaethau ynghylch radicaliaeth wleidyddol, chi’n gwybod. Dychymyg concrit.’ Chwarddai chydig yn swil. Pan âi Maxine ati i ddadlennu celwyddau, byddai bob amser yn teimlo’n fentrus.

‘A’r fan yma felly, ar bwys y llyn, dyma’r lle y byddwch chi’n dod i ddatrys eich siom?’ meddai Len gan chwenychu newid y testun. ‘A datrys y celwyddau i gyd?’

‘Dwn i ddim. Gwrandewch, clustfeiniwch,’ meddai hi. Buont yn ddistaw. ‘Dych chi’n clywed.’ Buont yn ddistaw eto.

‘Dwi’n clywed dim,’ meddai fe.

‘Dyna chi. Gwrandewch eto.’

‘Distawrwydd.’

‘Dyna’r pwynt,’ meddai hi. ‘Clywch. Ar wahân i ni. Dim ceir. Dim awyren. Sŵn wedi cael ei adolygu. Mae peth fel yna’n datrys llawer, dych chi ddim yn feddwl? Dŷn ni ddim fel ’na byth yn Sydney.’

‘Mae a wnelo â’r cynnwys, ddwedwn i.’

‘Gwrandewch eto. On’d yw hi’n iachusach? Dwi’n gallu gwerthfawrogi,’ meddai hi, ‘pam roedd y saint difri ers talwm wedi ceisio cefnu ar gymdeithas.’

‘Tybed?’ meddai Len yn amheus. ‘Roedd gan y bois dipyn o ddiddordeb yn llaid a llaca’r bobol.’

‘Ond yr unigedd hefyd cofiwch — A! —,’ buont yn ddistaw drachefn. ‘Mae’n llawn o’r gorffennol.’

‘Mae’n dibynnu pwy sy ynddo. Pwy sy’n llenwi’r unigrwydd, pwy sy’n ei sylweddoli.’

Penderfynodd mai’r hyn a’i rhwystrai ef rhag ymserchu o ddifri ym Maxine oedd yr afrealedd hyn yn ei meddwl. Yr afrealedd atyniadol yr oedd ef yn gallu dod yn rhan mor rhwydd ohono. Teimlai ei fod ef yn rhwyfo drwy’i theimladau yn debyg i fad yn cyrchu ynys bell, a’r niwloedd yn taenu ac yn tonni amdano ac yntau’n hwylio tua llongddrylliad caled yn y gwyll. Gwrthryfelai’r awydd ynddo o blaid bod yn berson o gig a gwaed a dŵr golchi llestri a phaent yn dechrau plisgo. Roedd hi ar y llaw arall am ei gasglu’n ddiogel o fewn ei delfryd annelwig ohono, ac roedd ef yn ymladd am ddod allan i’r baw mewn realaeth.

Eto, yn araul yr edrychai hi arno yr un pryd. Roedd hi wedi cyrraedd cyfnod yn ei bywyd pryd y byddai’i theimladau’n hoffi gwisgo llopanau. Roedd yntau am ddal i losgi’n frwd o hyd; ond hyhi, bodlonai hithau ar fod yn gols. Tybed ai ef fyddai’r tân iddi godi’i

llopanau tuag ato yn y diwedd? Gallai hi eistedd o'i flaen ef fel hyn, a dyrchafu'i bodiau heddiw, cynhesu blaenau'r bysedd, a gadael i sigl y fflamau lyfu'r awyr o flaen ei hwyneb. Eisteddent wedyn mor ddistaw ar y fainc.

'Bore braf?' meddai ef yn eciwmenaidd.

Edrychai ef yn ôl arni gyda llai o sicrwydd. Roedd hi'n bur briodadwy, ac yntau fel arall yn gwbl amhriodadwy. Arhosai hi'n broblem.

'Oedd gynnoch *chi* ryw broblem arbennig wrth ichi ddod i fyfyrio ffordd yma heddiw?' holai ef gan wenu. 'Hynny yw, oedd 'na ryw broblem benodol wedi'ch gyrru i synfyfyrto? I geisio'r unigrwydd.' Roedd ganddo yntau bob amser broblem. Pa dangnefedd bynnag a fentrau grwydro y tu mewn i ysgyfaint Maxine, o'r tu mewn iddo ef cythrwfl a deyrnasai.

'Y nhipyn problemau i? Y gweinidog sy'n holi?'

'Pwy arall?'

Disgynnai yn awr un o'i hamrannau yn dyner fel parasiwt; wedyn y llall. 'Does 'na neb arall heblaw gweinidog draw fan yna?'

'Oes rhywun arall i fod?'

'Pensynnu rown i fan hyn, yn anghyfrifol felly.' Ceisiai hi ddatod ei pharasiwt. 'Dyna'r cwbl. Mae'n braf glanio yn null iâr-fach-yr-haf.' Roedd llinynnau'r parasiwt, wedi ymglymu drwy'i gilydd ac yn ei gwallt.

'Dim byd penodol felly?'

'Mae'n Crëwr 'ma bob amser,' meddai hi gan agor ei llygaid led y pen.

'Ydy debyg iawn,' meddai ef yn chwilfrydig. 'Diolch am Ei amynedd gyda phobl fel ni'n dau.' Cafwyd egwyl fer, ddigon i'w gwneud ill dau yn anesmwyth.

'Ef a llond trol o dawelwch ... Ond, oedd rhaid — oes rhaid — cael problem arbennig i synfyfyrto?'

'Y wraig ddibroblem sy'n holi nawr?'

'Prin. Wnes i erioed honni am foment nad oedd gen i lond cert o broblemau,' mynnai hi. 'Ond mae gen i *dawelwch* rhagdyb hefyd. Dwi'n credu bod gen i ddawn fach fach i bensynnu. *Gwaith* oedd ac yw *forte* Mair o hyd. Efallai mai tawelwch fu fy unig rinwedd i.'

'Fawr o wir broblem te.'

'Dych chi ddim wedi sylwi arnon *ni*? Ni'n hun.' Dychrynai ef ryw fymryn.

Anesmwythai am y gogwydd hwn. ‘Ni.’ Chwaraeai hi â’i chwestiynau fel llond llaw o gerdiau. ‘Rŷn ni’n gorlenwi’r tawelwch.’ Ni hoffai ef y rhagenw cyntaf lluosog.

Rhewodd ef. Ni! I fyny yno ar bwys llyn, chwiliai ef am y drws allan. Ar ei ben ei hun. Dechreuai’i ysgyfaint fwrw eira. Oerai’i wegil. Ac eto, roedd pwmp ei galon fel pe bai’n llenwi teiar, ar gyfer gyrru ar draws yr eira ar draws y dibyn cyntaf i’w ddarganfod yno, gorau po gyntaf. Llithrodd ef yn ei rew gerbron y rhagenw cynhwysol.

‘Rhaid ’mod i wedi dal bad arall,’ meddai yn enigmatig. Cododd oddi ar y fainc.

‘Yna, mae’n well i mi *dewi* te. Ac ymddiheuro.’ Ac yna, yn ôl â hi i’r tawelwch. Tynnai hi’n ôl cyn gynted ag y gwthiai ymlaen.

‘*Tewi* am beth?’

‘Rown i’n meddwl ei bod hi’n sgrechian drwy’r corn siarad,’ meddai hi yn ei siom.

‘Fan yma yn y tawelwch hwn. Mae pawb yn ei glywed ond fi.’

‘Mae hynny’n cynyddu’r *broblem* dipyn bach. Ni.’

‘Pa broblem? Problem? Ni, yn *broblem* rych chi’n ddweud? Pa fath o ... broblem?’

‘Rŷn ni’n fel ’se ni’n nabod ein gilydd. Efallai nad problem yw’r union air,’ murmurai hi gydag anhawster. ‘Mi glywch rywrai’n sôn weithiau am *broblem* yr iaith.’ Tuchanodd ef. ‘Wel, mae hi yn *broblem*. Ond gwell gen i synied amdani fel anturiaeth yr iaith, afiaith a sbonc yr iaith, llawenydd yr adennill.’

‘Tosturi’r iaith?’ mentrodd ef.

‘Ie, hynny hefyd. Problem fel yna rown i’n tybied oedd gynnon ninnau hefyd.’

‘Dwi’n ddyfnach byth mewn cymhlethdod, mae arna-i ofn.’ Roedd yr eira yn ei ysgyfaint eisoes yn ceisio lluwchio.

\*

\*

\*

Ac felly y daethai ef yn sict. Doedd dim angen cyrchu’r un wlad arall. Doedd dim chwilota am wlad dramor broblemus. Hon fan yma’n lleol a oedd yn achosi problemau dirfawr iddo. Gallai problemau gartref gyflenwi’i fyd.

Hon felly — *cyfaill Mair*. Roedd aroglau Mair arni er bod ganddi’i bodolaeth fygythiol ei hun. A bu Mair yn ei feddwl ef dipyn yn ddiweddar. Roedd honno hefyd bellach yn broblem iddo. Ond yr oedd honno yn wir hefyd: yr oedd hi fel sen nhw’n nabod ei gilydd fel problemau ers canrif. Problemau hynafol oeddent wedi blino ar ei gilydd.

A’r funud yna rywsut pryd y daeth Mair i feddwl Len, yr un pryd oedd ag y daeth i

feddwl Maxine hithau. A pherthynas Mair gynt â Len. A'i hawl hi o hyd drosto. Dyna broblem gyffredin, felly, iddynt ill dau. Tyfodd y 'ni' brawychus.

Ond yn ddigon disgwylidig gartref ar y pryd yn Awstralia, cenfigen araf iawn oedd yn eplesu drwy lwnc Mair. Cenfigen a phrudd-der araf y wraig a gollodd ei chyfle. Ar y dechrau, doedd hi ddim wedi bod yn barod i'w chyfaddef iddi'i hun. Nid dyna'i thrywydd arferol. Broliai'i buchedd oll mai dyneiddreg haelfrydig oedd hi. Byrlymai gweithredoedd allan ohoni yn gyson ac yn bwyllog. Os oedd moesoldeb o fewn golwg hanner can milltir iddi, yr oedd hi yno. A phan soniodd Maxine am droi tua Chymru, ac o hofran yn ymyl Len, doedd yna ddim mymryn o eiddigedd swyddogol yn gallu anadlu ar ei phwys. Er bod yna hiraeth. Ac arafwch.

Eto, wedi i Maxine ymadael â'r hemisffêr, ymroddodd Mair fwy nag erioed i gyflawni cymwynasau. Rhuthrai'n ystyriol brudd o amgylch daioni fel ei mewn ffair. Pe mynnai cenfigen ei hawntio, gwaeddai hi ar yr hen beth i'w sgrialu hi oddi yna. Roedd ei phroblem gudd o gyffuriau hefyd bellach yn dod o dan reolaeth. Bu hi'n dilyn cwrs cymorth. A dychmygai hi er ei gwaethaf am Maxine draw yng Nghymru, yn sgysio gyda Len, yn cerddetian lawllaw, yn cael prydau gydag ef, yn cyfarfod ag ef yn ddamweiniol ar lan Llyn Llygad Peblig o bosib. Llanwai'i meddyliau ag amser.

A'r fan yna, yn wir, yr oedd Maxine hithau y funud honno yn ymdroi mor ddamweiniol ag y gallai Rhagluniaeth ei wneud. Hi oedd ar bwys Len nawr. Hi dan ei draed. Gwaeddai o'i stumog am iddynt anghofio Mair.

'Gadewch imi gyflwyno un senario ichi,' meddai Maxine wrth Len, a'i llygaid bellach yn ysgubo'r awyr o'u blaen ar draws y llyn, tan freuddwydio wrth led-daro'r dŵr.

'Ar bob cyfri.'

Roedd hi'n ymddilladu bellach mewn anghyfrifoldeb rhyfygus. 'Gwraig ddiarth,' ebychai hi wrtho. 'Dychmygwch. Neb yn ei nabod. O'r pellteroedd anhysbys. Honno yn breuddwydio lond yr wybren. Gwraig i ffansi..'

'Fydda-i byth yn breuddwydio,' meddai Len. 'Pe bawn i'n cwrdd â breuddwyd ar ganol 'y ngwely, byddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud â hi.'

'Wel, roedd y wraig hon,' meddai Maxine gyda pheth anfodlonrwydd, 'yn gallu dadansoddi breuddwydion yn ei chwsg. Awdurdod ryngwladol. A doedd dim eisiau gwely chwaith. Gwraig eitha plaen wrth gwrs, ond gwraig wareiddiedig yr un pryd yn ymfudo i ardal wledig mewn gwlad bellennig er mwyn dilyn hynt ei breuddwyd, ac yn y fan yna yn

cyfarfod â hen wŵr mwy plaen na hi, llai gwareiddiedig o lawer, a helynt lond ei glustiau.’

‘Ydw-i’n eu nabod nhw felly?’ meddai Len gan wenu ar goll.

‘Ac yn sydyn mae’r wraig ddiwylliedig honno yn darganfod bod y gŵr hyll hwnnw yn wŵr da — bron; yn wŵr eithriadol o weithgar efallai, bron er ei waethaf, yn ymroi i’w gydbentrefwyr fel twpsyn gwyllt i’w gwasanaethu nhw ym mhob dull a modd posib ...’

‘Nid ni felly.’

‘Ond dwedwch fod yr hen wŵr da ’ma, — da bron ddwedwn i — yn barod i roi’i einioes dros ei bobl. Dwedwch ei fod e’n eu caru nhw hyd at wiriondeb, ond ei fod yn caru Duw yn fwy. A dwedwch nawr fod y gŵr hynod blaen hwnnw ryw ddiwrnod drwy orffwylledd yn cyflawni gweithred ffôl, gweithred ddirmygus, hollol ddychmygol, ac yn annodweddiadol ddigon. Neu felly maen nhw’n ’ddweud ...’

‘A! dweud.’ (Roedd hi’n gwybod felly.) Yn ôl y dweud.

‘A dwedwch fod y wraig ddiwylliedig, heb sylwi fawr ar ddim o’r anwiredd yna, hithau’n dechrau’i edmygu, yn dechrau’i hoffi. Yn gweld y perl o fewn y gragen.’

‘Na!’ Syrthiai’i syndod ef yn awr dros ymyl ei dalcen gyda sydynrwydd peswch. Chwiliai ef am lwybr dihangfa heb orfod cerdded drwy’r llyn.

‘Ei hoffi yn gwbl groes i’w hewyllys,’ mentrai hi.

‘Pe bai hynny’n wir ... A does ganddyn nhw ddim digon o amser. Does ganddo fe ddim amser i faldod. Na hithau chwaith ...’

‘Ond gwraig ...’ A stopiodd hi.

‘Na. Gwell ei gadael hi yn y fan yna ddwedwn i.’ Y drws! Y drws! meddyliai ef.

‘Ond pe bai’r peth yn bosib ...’

‘Na.’ Clywai Len frigâd dân yn seinio ar draws ei ymennydd rhwng y serebelwm a’r lob occipitol, a rownd rhwng bannau’r lob parwydol a’r lob blaen; a rhedai ambiwlans ar ddwy olwyn rywfodd a’i oleuni’n fflachio ar ei hôl yn chwim. ‘Na.’

‘Ie, dwedwch.’

‘Nid nawr.’ Y drws? Ciliai. Canlynai hi ef.

‘Dwedwch fod y wraig ddiwylliedig yna’n ymserchu ...’

‘Na, na, ddim nawr. Tewch fenyw.’ Codai ei lais fel coesau ôl ceffyl.

‘Ie, yn ymserchu yn y gŵr plaen anniwylliedig gwirion hwn dwi’n sôn amdano mor dalog, beth ddylai hi’i wneud?’

‘Allai hi byth.’

‘Ond dwedwch fod ei meddwl arferol dangnefeddus oll yn cael ei gythryblu gan ... y tipyn dwli yna.’

‘Peidiwch â dweud mwy.’

Estynnai’i thafod i yngan mwy fel llwyfan plymio i’r sillafau, a’r gair fel pe bai’n mentro allan ar ei swch, codi’i ddwylo, ac yna i lawr fel bom i’r dŵr islaw tan chwislau.

‘Dwi’n dweud dim. Dim.’

‘Ie, dwedwch fod y wraig ddiwylliedig hynaws hon,’ parablai hi yn ei blaen fel cwmp cerrig yn dechrau rholio i lawr llethr, ‘yn cael ei bwrw i gawdel anarferol o hoffter.’

‘Yna, mae hi’n ffôl ffradach fflwcs hyd flaenau’i gwallt,’ meddai ef, ‘ac mae yntau’n ffôl ei wala hefyd ac mae’r byd benbalad yn ffôl ... Ac mae hi’n rhaffu celwyddau, neu’n bodoli yn gelwyddau.’ Edrychai Len ar y llyn ac yna ar y cerrig ger y lan ac yna ar y brwyn ger y graean, ac roedd llygaid Maxine yn llonydd gyda’r awgrym lleiaf o sicrwydd breuddwyd ynddynt.

‘Dych chi ddim yn tybied,’ mesurai Maxine Pearse ei geiriau’n freuddwydiol fel losinau i mewn i fag papur plentyn, ‘y byddai’n ddoeth iddi hi ymneilltuo y pryd hynny, a chyrcu am dro i lan Llyn Llygad Piblig, er mwyn ymdawelu, heb neb yn un man.’

‘Ymdawelu?’

‘A phwslan ychydig am ei sefyllfa od?’

‘Ar frys ddwedwn i, ac yn bendant ar ei phen ei hunan, a pheidio â dod ’nôl tan y filflwydd ar ôl yr un nesaf.’

Roedd Len Llwyd wedi’i fwrw gan bensyfrdandod ... ’ Beth oedd yn bod arni? ‘Byddai, yn ddoeth braidd,’ murmurai ef fel clai yn ei bysedd, ‘... ymneilltuo. A fe hefyd ... a’r byd oll ... byddai’n well iddo ef ei chythru i’r Antarcig nerth ei sodlau. A hithau ... wel ... Mae ganddi broblemau go fawr debygwn i.’

‘Len Llwyd, dwi wedi gofyn cwestiwn i chi. Mae Rhagluniaeth wedi ’ngosod i fan yma y pnawn ma. Doedd dim cynllwyn.’ Sobrai hi yn annodweddiadol.

‘Pa gwestiwn? Sylwais i ddim ar gwestiwn.’ Dechreuai Len feddwl yn chwim sut y gellid gogwyddo’r ymddiddan hwn er mwyn trafod ychydig ar fanteision hyfryd ac anfanteision hyfrytach y Farchnad Gyffredin yn Ewrob. Mewn lle fel hyn.

‘Beth sy arnoch chi ddyn? ... Dweud hyn dwi ... ’

‘Peidiwch â dweud mwy.’

‘Dŷn ni’n nabod ein gilydd bellach ers wythnosau, aeonau, meddylier! Rŷn ni’n

ddau berson go aeddfed. Rŷn ni'n aeddfedrwydd, hyd yn oed mewn cwsg.'

'Mor aeddfed â chastell Caerafon.'

'Ydyn. Nid cywion te.'

'Dyna'r pwynt.'

'Dŷn ni wedi dod hyd yn oed i *hoffi*'n gilydd. Dwi'n gofyn cwestiwn ichi felly.'

Agorodd ei llygaid led y pen fel pe bai'n agor fflodiart.

'Cwestiwn?'

Tuchodd hi. 'Ydw siawns.' Ymbalfalodd ef yn yr wybren. Syllodd ef am ffordd i ffoi, ond yn wrth-drugaredd roedd pobman ynghau. Pwffiodd hi'i gwefusau. 'Cwestiwn enfawr, cwestiwn i'r corff a'r meddwl a'r ysbryd a'r ewyllys. Dwi'n gofyn mewn geiriau hynafol, ond yn blwmp ac yn blaen — wnewch chi briodi'r fenyw hy freuddwydiol anhardd ddiymadferth hon dwi'n sôn amdani?'

Disgynnodd Oes Iâ ar yr holl fyd.

'Pri ... !' Y drws! 'Ust fenyw! Fi! Eich ... ? Tadau tirion! Ust wraig!' Trodd ar ei sawdl megis ar echel ei reddf, ond mynnai hi ei sylw i gyd. Ciliodd ef lwrw'i gefn. 'Alla-i ddim credu hyn.' Ciliodd ymhellach. 'Ai fel hyn rych chi'n 'wneud yn Awstralia?' gwaeddai o ryw fân bellter. Roedd y fenyw o'i cho'.

'Mewn blwyddyn naid. Mae'n flwyddyn naid,' meddai hi.

'Ddim hyd yn oed petai'n flwyddyn gangarw gan y Tsheiniaid.'

'Roedd gynnoch chi ryw glem does bosib.'

'Clem! Ddim ffrityn.' Ciliodd un cam drachefn dros nerf ei gelwydd.

'Wel, allwch-chi ddim ond f'ystyried i'n dipyn bach o ecsentrig.'

'A heblaw hynny, mae yna fater bach ymarferol o amhosibilrwydd.'

'Amhosibilrwydd?' Closiodd hi rywfaint eto.

'Cant-y-cant.'

'Does 'na ddim un ymateb o'ch tu chi?'

'Nid dyna'r pwynt.' Roedd ef am ei heglu hi nerth ei sodlau pe bai ganddo sodlau ar ôl.

'Dwi ddim yn atyniadol i chi?' Closiodd hi ato.

'Nid dyna graidd y mater.' Syllai Len ar ei bochau aeddfed llawn. Tynnai gyllell o un o'i lygaid ei hun a sleisio darn hirgul suddlawn ohoni a'i bopian yn bowld anweledig er mwyn cael nerth yn ei geg ymarhous, heb boeri allan y mymryn gwydnwch pe ddi o hyd



iddo.

‘Wel, pam yn enw’r dyn? Dych chi ddim yn ... Does dim gwirionedd ...’

Petrusodd ef. ‘Na, byth, gwallgofrwydd.. Ymbalfalai. ‘Ond dwi wedi penderfynu symud i mewn i dŷ Wili Eston... i fyw gydag e.’ Tybiai ef pe cyhoeddai y peth fel pe bai’n datgan diwedd y byd, y buasai taw. Ynganodd ef y geiriau fel pe bai’n cyhoeddi ‘euog’ mewn llys barn: ‘i dŷ Wili.’ A barnwyd. ‘Mae gen i fywyd. Ac mae amser yn amser.’

Taw.

Craffai’i llygaid hi arno nawr fel llygaid Barnwr. Buont yn cynnal cyfarfod egwyl danddaearol yn ei lygaid ef. Gallai ef weld pennau’r rheithgor i gyd yn troi’r un pryd yn awr at ei gilydd, yna’n troi at y barnwr mewn syndod. ‘Euog!’ Roedd ef wedi cyffesu heb ymladd ddim. Doedd dim amddiffyniad bellach. ‘Euog!’ Doedd dim ple am drugaredd. Disgwyl y gosb eithaf a wnâi yn awr heb ddadl: ‘Euog! fi, chi, Meri Defis, Mair, Ffred, Pawb, Euog.’

‘Eston? Wili? Y gwrywgydiwr! Byw gydag e. Chi! Ac Aids! Ai dyna’r rheswm? Dwi ddim yn deall.’ Euog! Roedd ei meddwl cariadus, a’i hewyllys cariadus, a’i thipyn ysgwyddau cariadus...

‘Doedd yr Esgob ddim yn ei ddeall chwaith,’ addefodd ef.

‘Dyna gant ohonon ni.’

‘Rych chi mewn cwmni uchelfrydig.’

‘Does dim ots am ’y nghwmni i,’ meddai hi a’i goslef ar y diwedd yn suddo.

‘Ac mi fyddai’r byd oll gyda ni ac yn ein herbyn ni.’ Euog!

‘Dyw’r byd oll namyn dim yn ochr Llanbiblig,’ ychwanegai hi’n galed.

‘Y byd dan ein trwynau fan hyn yw’r byd crai lle rŷn ni’n gorfod dechrau. Euog!’

‘Wyddwn i ddim bod tueddiadau felly ... Does dim ... fe wyddwn wrth gwrs rai pethau ... Ond fe dybiais i mai munud wyllt ... neu gelwydd ... neu rywbeth.’

‘O! mae ’na gelwydd, cewch fentro. Mae’r byd hwn yn ffatri celwyddau. Ond ... Mae f’angen i fan hyn ar Wili Eston. Mae’r gwir mor syml â hynna. Ac mae’ch cais yn wirion.’

Pwyllodd hi. Edrychai hi arno’n ystyriol. ‘Ac mae’ch cyfaill yr Esgob yn anghymeradwyo, ac yn coelio fod camweithred gan Annibynnwr yn adlewyrchu’n wael ar bob enwad; a chymdeithas y merched yn anghymeradwyo, a Swyddfa’r Post a’r Cyngor Sir.’

‘Rhywbeth eciwmenaidd felly.’

‘Yr Uno callaf yn mynd i’r gwellt mewn cytundeb o’r diwedd.’

‘Mi rois i wybod i’r Esgob,’ meddai ef â llais pibonwy.  
‘Ac mae e’n meddwl y dylech chi ymneilltuo o’r ardal.’  
‘Hen ffrind. Rown i eisiau’i gyngor.’  
‘A beth oedd ei union ymateb?’  
‘Fel gwleidydd.’  
‘Beth arall?’  
‘Yn ostyngedig wrth gwrs. Roedd e’n ysgwyd ei ostyngeddwrwydd fel baner adeg yr arwisgo. Ond ... roedd e’n cynnig imi fynd oddi ’ma.’  
‘Dyna fysai f’awgrym i — i ni’n dau.’  
‘Roedd e am roi swydd imi.’  
‘Yn yr Eglwys Anglicanaidd? Ydyn nhw’n gallu gwneud pethau felly?’  
‘Roedd e am imi newid enwad a gwneud tipyn o waith gweinyddol... eciwmeniaeth... fel lleygwr efallai, dwn i ddim... am gyfnod cyffredinol... dros yr achos.’  
‘A’ch ateb chi?’  
‘Dim diolch. Mae Wili wedi colli pob ffrind.’  
‘Wili Eston ... yw’ch dewis? ... Yn lle dihangfa ddeniadol o’r fath!’  
‘Gŵr ifanc claf fan hyn.’  
‘A chi. Cydwybod?’  
‘Un bod dynol solet arall fan hyn.’  
‘A chydwybod?’  
‘Hynny hefyd efallai.’  
‘Dych chi’n sylweddoli fel y bydd pawb yn clebran?’  
Disgwylodd ef ychydig o eiliadau maith cyn ymateb. Yn ogof lom ei ymennydd megis mewn croth wedi’i dyfrhau gan dagrau yr oedd hedyn o frawddeg un-gair yn petrus ymffurfio’n syml: ‘Ydw.’  
‘Alla-i ddim o’ch deall,’ ychwanegodd hi yn gwbl ddifreuddwyd.  
‘Mae’r crwt yn glaf ei wala.’  
‘Felly yr ŷn ni i gyd.’  
‘Mae’n glaf drybeilig ac yn gwaethygu hefyd.’  
‘Am faint?’  
‘Blwyddyn. Dwy. Gyda chymorth, gall bara’n hwy.’  
‘A’r esgob?’

‘Dwi’n ddiolchgar i hwnnw wrth gwrs.’

‘A fi — rych chi’n *ddiolchgar* i fi hefyd, mae’n siŵr.’ Roedd hi ychydig yn ddig, a’i gwefusau wedi glasu fel codwarth. Roedd dadrithiad yn ymledu drosti fel urddas.

‘Fy nrysu i’n llwyr rych *chi’n* wneud,’ meddai ef.

‘Drysu! Peidiwch â sôn am bobl yn cael eu drysu.’

‘Freuddwydiais i erioed am hyn fan hyn.’

‘Nid eich breuddwyd chi oedd hi,’ meddai hi gan wenu o’r diwedd. ‘Myfi yw pencampwraig breuddwydion.’

‘Yn ’y mreuddwydion gwylltaf, freuddwydiais erioed fod hyn yn gallu digwydd,’ meddai ef, ac yntau heb freuddwydio ers cantoedd.

‘Chi yw’r rheswm gwreiddiol des i i Lanbiblig o gwbl.’ A dyna hithau wedi gadael ei chath amryliw o’i chwd. Doedd wybod beth roedd hi’n wneud â gosodiadau Len: eu malu nhw o bosib â chyhyrau’i llwnc, neu eu smwddio nhw’n barod i fynd allan i ddawns.

‘Fi?’ Troellai’r cwbl yn ei ben. ‘Ond sut?’ Roedd ef mewn pwll o annealltwriaeth. Chwiliai’i synhwyrâu ledled ei llygaid. ‘Beth wyddoch chi amdana i?’

Symudodd hi ei haeliau. Ymestynnodd hi i’w llawn daldra ... ‘Mi welais i’ch llun gyda Mair.’

‘Llun! Fy llun? Ac ymhoffi yn y llun! Gyda Mair! Na!’ Roedd mymryn o chwerthiniad yn ceisio chwythu’i drwyn ef.

‘Do. Mi ellwch chwerthin.’

‘Llun! Dwi’n colli fy synnwyr,’ meddai ef. ‘Dwi ddim yn chwerthin. Mae’n esbonio llawer. Ydw, mi rydw i’n chwerthin fel gwacáu bath. Ond llun! Fy llun i! Dod yma!’

‘Mi glywais i amdanoch chi gan Mair. Mae hi’n eich caru o hyd.’

‘Dwi ddim eisiau clywed.’

‘Ond ddaw hi byth yn ôl i Gymru eto. Roedd ei disgrifiad hi, a’r llun, yn ddigon i mi. Mi ddaethoch yn rhan o ’mreuddwyd. Misoedd a misoedd o freuddwydio... Dwi wedi ’nhreulio. Ac mi ddes i yma.’

‘Oherwydd llun o’r hyn a fu! Dod yma!’

‘Rhaid oedd ifi ddod felly ... A heddiw dwi wedi gofyn cwestiwn.’

‘Cwestiwn wedi codi o’r Prysg Awstralaidd dybiwn i. Bwmeráng o gwestiwn.’

‘Peidiwch ag ateb ’to. Ond bydd rhaid ichi ateb rywbyrd.’

‘Alla-i byth.’

‘Nid cwestiwn rhethregol mono. Nid cwestiwn a fwriwyd mewn chwilfrydedd chwaith. Roedd yn fath o gusan o gwestiwn. Fan hyn.’

Sobrodd ef. Ciledrychai arni. ‘Gwn i.’ Difrifoli ac ymdawelu. ‘Wel, mae hynny’n well na chwestiwn o gusan. Na’n wir Maxine, roedd yn anrhydedd o gwestiwn. Oedd. Yn orsedd frenhinol o gwestiwn, os dych eisiau’i wybod... Ac yn jôc o gwestiwn.’

‘Roedd yn ochenaïd hefyd.’

‘Peidiwch â siarad dwli. Ddychmygais i erioed, erioed, yn fy ngwallt gwylt.’

‘Ddychmygais i erioed eich bod *heb* wybod. Roeddwn i’n tybied ein bod ni fel ’sen i’n hen gydnabod, ers misoedd a misoedd. Dwi’n cymryd y mreuddwydion o ddifri.’

‘Erioed.’

‘Felly, mi fyddwch yn barod i ailystyried?’

‘Na, na, byth, nid hynny. All hynny byth fod. ... Ond bod y peth yn bosib, i mi, y gallai hyn ddigwydd o gwbl byth, i hen lanc amhrydweddol. Rych chi’n gysur i ddannedd coll mewn dyddiau dreng.’

‘Nid hyll. Nid hyll byth, Len. Peidiwch â llyncu ’nghoegi’n rhy rwydd.’

‘Ond mi welwch ’mod i’n cael peth anhawster i goelio hyn.’

‘Felly, mae *yn* gwneud gwahaniaeth?’

‘Wrth gwrs ei bod yn gwneud gwahaniaeth,’ meddai Len â’i lais-gwahadden coethaf. ‘Fydda-i byth yr un person eto tra bydda-i byw.’

‘Ac mae ateb cadarnhaol *yn* bosib.’

‘Na, na. Byth ... Eto, mae’n gwneud y gwahaniaeth i gyd.’

‘Ac felly, mae ’na fflwcsyn o obaith.’

‘O na, nid hynny. Dyna’r diwedd.’

‘Ydw i’n annymunol yn eich golwg chi?’

‘Mae hynny’n gwestiwn annheg.’

‘Ydw i wedi cyflawni rhyw anfadwaith?’

‘Taro’r post rych chi’n awr.’

‘Chi sy’n annheg.’

Disgynnai distawrwydd mwy nag a wyddai neb arnynt yn ddisymwth. Safent. Syllent ill dau ar ei gilydd. Nid oedd y naill yn adnabod y llall.

\*

\*

\*

Doedd yna ddim datrys i broblem fel hon. Beth oedd ar ôl mewn bywyd, ond rhagor a rhagor o ddistawrwydd? Felly y buont am bum munud, pum munud pryd y digwyddodd popeth.

Edrychai ef arni mewn syfrdandod, ac mewn tosturi yn ogystal. Ei ragluniaeth drist fyddai colli hon hefyd. Byddai hynny'n rhan o'r pecyn. Heb hynny, beth a ddigwyddai, beth allai fod, onid dwyn ffeidd-dod am ei phen hithau hefyd a'i chlymu yn ei enw drwg ef? Beth oedd ganddo i'w gynnig i wraig, i Mair neu i Maxine fel ei gilydd? I neb? Dim oll. Dim ond ffolineb ei fuchedd. A haeddai hynny. Yr oedd yn iawn ei fod yn cael ei gystwyo fel hyn.

'O na, byth!' meddai ef yn ddwys. 'Rych chi wedi f'anrhydeddu, ac wedi 'nrysu i'r un pryd.' (Rhaid imi fynd, meddai wrtho'i hun yn galed, fel pe bai'n ei rybuddio'i hun rhag symud.)

'Anrhydeddu? Mae hynny'n addawol,' meddai hi.

'Ond dim: 'all dim byd ddod ohoni. Dim.'

'Dim? Gair anferth.'

'Byth. Gair mymryn yn anferthach.'

'Hil geiriau ydyn nhw sy'n gwahodd gwacter.'

'Wel na, wrth gwrs. Clywch Maxine. Dim ond geiriau ydyn ni'n dau. Y fi'n ebychair, a chithau'n gysylltair. Alla-i byth bythoedd byd erioed eich bodloni chi. Ddim eto, ddim ar hyn o bryd, ddim byth. Byddai'n amhosib. Er y gellid o bosib hoffi breuddwydio am rywbeth annhebyg fel hyn, mae'n well i chithau beidio hefyd. Yn awr.'

'Ond does dim modd i Wili symud i ryw gartre neu noddfa neu rywle?'

'Dyna oedd awgrym pêr yr Esgob, ei siyntio i gilfach.'

'Mae hyd yn oed esgobion yn gallu bod yn gall. Dych chi am wrthod yr Esgob a fi?'

'Dwi ddim am wrthod neb. Dim ond dod â mymryn o lawenydd ac o lonydd i Wili. Am y pum munud sy ar ôl. Mae'r crwt wedi colli pawb.'

'Rych chi'n dewis felly rhyngddo-i a Wili, dyna'r gwir.'

'Na.'

'Ydych. Ac mae'n well gynnoch chi Wili.'

'Does 'na ddim dewis.'

'Do: mi gawsoch-chi, lond cert cwrtais o ddewis. Fe roddais innau ddewis i chi. Os dewiswch un, yna rych chi'n gwrthod y llall.'

‘Nid gwrthod.’

‘Ydych: yn emosiynol rych chi’n gwrthod un.’

‘Na.’

‘Mi allwn gynnig cartref melys ichi.’

‘Na.’

‘Cymdeithas fwyn, cyd-deithio tirion, cyd-fwyta caredig a hwyliog, cyd-addoli, rhannu problemau. Tân, te, ... tost.’

‘Na, na, na.’

‘A chyd-ddeall ambell waith hyd yn oed.’

‘Na. Ddim hyd yn oed am bwddin reis.’

‘Gwrthod yw na. Gallwn gynnig cariad hefyd, meddyliwch ddyn, dyddiau llon a nosweithiau cynnes.’

‘Gallech, mi wn. Does dim dwywaith am hynny.’

‘Wel, beth te? Beth arall? Ga innau fod yn ffrind?’

Ceisiai ef wyro’r cywair. Dwy freuddwyd lipa ar goll ac ar grwydr oeddent. Heddiw yn cyfarfod â’i gilydd ar gefn gwaun, dwy freuddwyd heb yr un pwrpas ond i ffansiol gymharu nodiadau. Sgwrsient, megis breuddwydion profiadol geriatrig, gan geisio cyffesu mor gwbl anymarferol oedd y naill ysgogydd i’r freuddwyd arall, a gorfod cyfaddef mai llai anymarferol oedd bod yn freuddwyd na bod yn freuddwydiwr. Dwy weddi oeddent. Ceisient sylweddoli gerbron ambell brysgwydden a cher lled y llyn llonydd, mai priod swyddogaeth erfyniadau oedd nid ceisio rhywbeth mewnol i’r goddrych, eithr troi tuag allan tuag at wrthrych arall.

‘Beth arall ga-i’i gynnig ichi?’ holodd hi ymhellach. ‘Dwi’n chwilio ym mhobman yn daer.’

‘Beth am dywydd braf?’ cynigiai ef mor ysgafala ag y gallai.

‘Dim byd sicrach. Gallwn warantu hynny hefyd.’

‘Eto nid dyna’r nwydd priodol i mi efallai.’

‘Gallwn gynnig parch a chyfeillgarwch ac ymostyngiad.’

‘Nid dyna’r cwestiwn chwaith.’

‘Syml yw’r cwestiwn. Cwestiwn noethlymun, cwestiwn uniongyrchol diflewyn ar dafod ... Wnewch chi ’mhriodi, Len Llwyd? Dyna’r her. Allai dim fod yn fwy diniwed na hynny.’

Un cyfle sy'n dod i ran dyn yn hyn o fywyd. Un fellten sy'n syrthio. Un bom atomig. 'Maxine, clywch. Gwrandewch ferch,...

'Nid merch ifanc mono-i.'

'Gwrandewch, er mwyn pob blewyn sy'n methu â sefyll ar 'y mhen. Mae hyn yn hollol gyfan gwbl gant y cant yn arallfydol ... Mae'n ...' Nid oedd dim hollt wedi bod yn y cymylau drwy'r dydd namyn am un tro hunandybus chwarter awr yn ôl. Ac yn awr cododd un pelydryn haul mwy diniwed na'i gilydd a braidd yn ferchetaidd ei ben melyn allan o gornel welwach na'r rhelyw o du'r gorllewin, ysgydodd ei adenydd ifainc ychydig fel aderyn yn ceisio dianc o gawell, trodd ei lygaid yn nerfus o'r naill ochr i'r llall a gogwyddo'i ysgwydd ar osgo ychydig, agorodd ei big hir, ond peidiodd ag yngan twit rhag i rywun ddeffro a sylweddoli'i fod ar ffoi, curodd yn erbyn gwifrau'r cawell, pigodd ychydig, bwriodd ei ben toc, hopiodd yn ôl i'w berclwyd gan edrych yn hynod brudd dan ei blu, yna ag un ymdrech enfawr huawdl chwerthinog chwâl trawodd y gwifrau drachefn ac ymwasgu rhyngddynt, ac allan. Allan dros y bryniau. Allan i'r gorwelion gwag. Trawodd ychydig o'r cymylau mwyaf diog yn gyntaf ar y ffordd. Yna troi. Ambell fflip bach ymylog, yna'r llyn. Allan yn ôl drachefn i weddillion y gorwel. Cyn setlo ar dalcen aruchel Maxine a'i oleuo benbwgilydd bendramwnwgl tan guddio pob amheuaeth. Allan. Dehonglodd hi'r peth mewn modd ffafriol. Atgof ydoedd hyn iddi; atgof tesog o'i breuddwyd dro y noson cynt. Ac arwydd hefyd. 'Mi ges i freuddwyd hir hir neithiwr,' murmurai hi'n frwd.

'A heddiw hefyd, fentrwn i.'

'Wel mi oferodd ychydig bach...Neithiwr, unwaith neithiwr ...'

'Ond yn awr?'

'Yn awr dwi am sôn am un peth, dyna'r cwbl — amdanoch chi, ac am 'y mreuddwyd I.'

'Y fi yn destun breuddwyd?'

'Wel! Roedd yna dipyn o freuddwyd. A chi oedd y prif gymeriad.'

Gwenai ef ryw dipyn o wên er ei waethaf. Swanciai efallai ryw ronyn. A chymerai hi hynny'n arwydd. Bodlonwyd hi uwchben ei soser o hufen.

'Ond oedd 'na ryw ystyr? Oedd 'na ryw fân gysylltiad â bywyd?' holai ef yn heriol nerfus.

'Mae breuddwydion i mi bob amser yn *estyniad* o fywyd bob dydd. Neu — bywyd yw'r estyniad iddyn nhw.' Roedd hi fel pe bai hi'n cymryd ei breuddwyd yn awdurdod

carismatig..

‘Dwi’n teimlo’n anesmwyth ’mod i’n rhuglo o gwmpas ymennydd rhywun mewn cwsg, ychydig bach yn anghyfrifol ddwedwn i, ac yn chwarae cymeriad nad oes ’da fi ddim rhithyn o reolaeth drosto. Dych chi’n gwerthfawrogi ’mhenbleth?’

‘Does dim angen pryderu am beth mor awtomatig. Yn wir, does dim rhaid i mi hyd yn oed cael cwsg er mwyn esgor ar freuddwyd.’

‘Dych chi’n ystyried y dylwn i gysylltu ’mywyd ymarferol i fy hun rywsut â’ch breuddwyd chi?’

‘Na, nid o anghenraid. Nid yn ymarferol.’

‘Beth ’te? Beth? Ydych chi’n disgwyl imi gyfri hyn yn fath o stori tylwyth teg te?’

‘Mae’n un o’r ffenomenau ychwanegol yng nghyd-destun y cwestiwn, dyna i gyd.’

‘Cwestiwn?’

‘Dyna’r unig gwestiwn sy i’w gael,’ mynnai Maxine yn stond.

‘Na, na, na, dowch o’r fan ’na: dwi’n chwilfrydig ynghylch ’y nghwestiwn *innau*: pa fusnes oedd gen i fod mewn breuddwyd lle nad own ddim i fod? Dych chi’n gweld ’y mhroblem i?’

‘Na ... Ddim o gwbl. Roedd y cwbl yn hollol ddiniwed. Y cwbl ’ddigwyddodd oedd ’mod i wedi sylweddoli — yn y freuddwyd — fod y byd hwn yn troi, a’ch bod chithau’n troi. Dim arall. A does dim gormod o amser.

‘Dyna’r cwbl? Ac roedd yn ddiniwed ei wala, mae’n siŵr.’

‘A rhywdro, rywdro, mae’r troi hwnnw yn mynd i stopio. Dowch ar y rowndabowt gyda mi. Dowch ar y siglenni. Beth bynnag wnewch chi, stopio ’wnân nhw yn llawer rhy gynnar.’

‘Mae hynny’n gysur i hen ŵr musgrell heb ewyllys. Mae’n rhaid ichi f’esgusodi i rhag y rowndabowt, serch hynny.’

‘A phan fydd y rowndabowt yn stopio, bydd ystyr yr hwyl i gyd yn cael ei datguddio.

‘Arhoswch funud. Dwedwch, o ran hwyl ’nawr, ’mod i’n taeru wrthoch chi’n blwmp ac yn blaen ’mod innau wedi breuddwydio hefyd. Fi!’

‘Byddai gen i beth diddordeb yn ddiau,’ meddai hi yn ddiymadferth.

‘Ond dwedwch ’mod i wedi breuddwydio ... do ... ’mod i’n sefyll yn unionsyth ddi-dro o flaen yr ymerawdwr yn ei wisgoedd porffor, a bod hwnnw, mor awdurdodol hunan-reolog ag y bydd ymerawdwyr yn esgus eu bod, yn gorchymyn imi beidio byth byth dros ’y



nghrogi â'ch priodi chi. Roedd e am ollwng yr hydd ar ei ben ei hun yn rhydd. Yn rhydd i brancio ar hyd y trumiau am byth.'

'Byddwn i'n rhyfeddu braidd at y fath beth,' meddai hi ychydig yn ddiamynedd. 'Rhyw fath o freuddwyd answyddogol fyddai hynny. Amaturaidd.'

'Hynny yw ... byddech chi wedi breuddwydio un ffordd a finnau ffordd arall.'

'Mae hynny'n bosibl ddigon. Ond mae ambell un ohonon ni'n gwybod ei ffordd iawn o gwmpas y tiriogaethau hyn.'

'Byddwn i'n dweud fod yna rai breuddwydion call a rhai breuddwydion ffôl. A'ch bod chithau wedi cael breuddwyd ffolach na'i gilydd.'

'Mi ddwedwn i mai goddrychol yw breuddwydion, a gorau po leia ...'

'Len Llwyd, clywch, fe ges i freuddwyd wrthrychol a diriaethol sy o dipyn o bwys i fi. Dwi'n ei chymryd o ddifri.' Ac yna, disgynnodd rhyngddynt un arall o'r egwyliau dymunol yna, un fwy difrycheulyd nag arfer.

'Dych chi ddim yn synied y byddai'n well tewi nawr. All neb eich stopio chi rhag breuddwydio.'

'Dwi'n falch o 'mreuddwydion.'

'Ond eu hadrodd nhw wrth rywun arall ledled y wlad! Mae 'na fath beth â chynildeb.'

'Os dwi'n eich syrffedu chi ...'

'Nawr rych chi'n llyncu mul.'

'Dim o'r fath beth.'

'Ydych, ydych. Y tamaid lleiaf o gyngor, ac mae'n troi'n wltimatwm ac yn dantrwm fan hyn.'

'Ydy hyn yn hawlio cweryl?' Roedd hi'n pwdu.

Disgynnai atgno drosto.

Estynnai ef ei law dirion yn anfwriadus tuag at ei hwyneb meddal. Ni sylweddolai am foment ei fod yn estyn ei law. Tynnai ei fysedd ysgafn ar hyd amlinell ei bochgern, ei gên, estynnai ei law arall wedyn yn dirion, a chwpanu esgyrn ei hwyneb druan o fewn ei ddwylo, yr oedd yn ei dal felly ac yn cynnal ei hwyneb yn dirion dosturiol fel gorflwch yn ei fysedd ac fel pe bai'n ei chyflwyno hi gerbron allor. Druan ohoni. Yr oedd ef wedi ymgolli ynddi am ychydig o eiliadau, a doedd y peth ddim yn deg. Roedd ei fysedd a'i hwyneb yn un yno, ac nid oedd yn ymwybodol o'r weithred. 'Rhaid bod yn fôr i gartrefu yn dy lygaid hir,'

meddyliai. Roedd ef bron â dweud 'Gwnaf'. Anadlai'r naill a'r llall, Len a Maxine, o'u llengig, yn dangnefeddus. Yna, dihunodd ef megis o lewyg yr undod. Tynnodd ei fysedd tyner, ei ddwylo'n ôl yn sydyn. 'Mae'n ddrwg gen i,' meddai, gan wneud ystum fel pe bai'n mynd i droi. Edrychai hi'n wyllt o awyddus. 'Does dim cweryl, oes?' meddai ef.

'Dim ond braw.'

Sylweddolai Maxine bellach iddi fynd yn rhy bell o lawer iawn. Ac yn rhy gyflym yr un pryd. Ac eto, roedd hi'n falch. Doedd dim amdani ond newid y pwnc yn sydyn mwyach.

'Ydych chi erioed wedi meddwl ...' mentrai hi, 'efallai fod y realiti 'ma mae pawb yn cadw'r fath sŵn ynglŷn ag e ... fod hynny ... efallai, ... ydych chi wedi synied erioed y gallai ... ?'

'Dwi ar goll.'

Edrychai Len yn ôl o'r newydd yn ei hwyneb hawddgar mewn ofn a dychryn wedi'i leddfu gan beth digrifwch. Syllai ef arni'n wanlyd. Ciliai. Ysgydwai'i ben. Amheuai hi ei fod ef am ddianc. Gwaeddai ei chalon yn ei stumog. Rhodiai ei mwynder tuag ato...Parlwsyd ef... Rhodiai hi, â'i thraed yn feddw, a'i thalcen yn maglu. Estynnai hi yn ddisyfyd gusan at ei foch...fel clatsien. Toddai ei foch yn y fan. Yna trodd ei ben i ffwrdd. A heb yngan gair, ffodd ei ben yn ddi-gorff i lawr y llechwedd.

Heb air arall. Ffodd pen Len. Nid ei thiriogaeth hi oedd ei diriogaeth ef.

Ar hyd y llwybr yn ôl fel pe bai'n ceisio planed arall, yn ôl drwy'r pyllau lleidiog yn ei esgidiau ysgafn, yn ddiotal hollol, dripyn dropyn, drwy'r baw hunllefus a'r llaca, clonc-di-clonc yn ôl mor bell ag y gallai, baglai'i ben yn ei ôl, a chyn gynted ag y gallai dwy goes riff-tesgrynog ei ddilyn a'i gario, ymhell bell o olwg a myfyrion Llyn Llygad Piblig; ffodd yn rhugl yn ei ôl at y car. Dychwelodd wedyn yn ôl drwy'r pentref gyda theimlad un a oedd wedi trafod amgylchiad anhydeiml â hydeimledd go anhehuig. Bu hynny ar ganol corwynt hollol ddi-drugaredd. A chloffodd wedyn yn ei ôl, yn ei ôl clonc-di-clonc i'r Mans gwag gwag.

A hithau, Maxine, wrth syllu ar ei gefn ffoadur yn cilio'n ôl i'w dynged wag acw, yr oedd hi'n fodlon bron, am y tro, efallai, ei bod wedi gallu mynd o dan fymryn o'i groen am un foment a dioddef gydag ef, heb ei ollwng o bosib, heb chwilio am esgus i beidio â'i garu ef, a'i bod hefyd am ysbaid fer drugarog o leiaf fan yna heddiw ar galon foel y waun wedi gadael iddo ef rywfodd ei meddiannu.

### Medi 3

*Neithiwr, yn arloesol fel petai, breuddwydiais freuddwyd eithaf proffesiynol. Am y tro cyntaf erioed yn fy nhipyn gyrfa yr oedd yn ddi-febl drefnus o noson. Pe bawn i wedi ymarfer yn ddyfal ers blynyddoedd, a disgwyl yn daer ers canrifoedd, ni allwn fod wedi dod i ben â breuddwyd ddyfnach na hon. Yn dawel bach, roeddwn yn reit falch ohoni.*

*Ac roedd hi'n reit falch ohono i.*

*Celfyddyd anfwriadus y byd real yw breuddwydio. Wele gwsg, mewn côt wen hir, — ac ar yr achlysur hwn côt fel côt llawfeddyg, ond côt yr arlunydd oedd hon, — a smotiau paent a rhwygiadau llafur yn ei haddurno, wedi dod â'i gŷn, liw nos efallai, a llunio'i gymeriadau. Un ac un. Fe'u rhoddwyd nhw ar gerdded o orwel i orwel.. O gam i gam. A'u swyddogaeth oedd trawsffurfio talpau cnawd yn dalpau dychymyg sownd, tan symud yr amlwg, o amlwg i fyd anamlwg.*

*Diolch byth am rwyd frau breuddwydio, ddwedwn i.*

*Neithiwr mewn ffrog hirllaes hallt fe grwydrwn ar hyd coridorau yn oriel y darfelydd, nes cyrraedd theatr grand f'anymwybod. Bobl bach, dyna neuadd. Del yw delwedd. Da iawn yw dyheu. Dyna, yn ddiâu oedd neithiwr go iawn. O! neithiwr oedd nod y breuddwydio i gyd.*

*Roedd yna orsedd yn y canol. Yr orsedd a benderfynai gyfeiriad trem pawb ar y tipyn glob. Dyna sy'n caniatáu mynd hefyd yn ôl ac allan o'r freuddwyd, yn ôl i fywyd bob dydd.... Gorsedd oedd yna, a pheraroglau allor sy'n dal yn ffroenau'r sawl a fyn gyrraedd hyd at y fan yma. Y ddau hyn ynghyd, y gobaith a'r angen, dyna sy'n clymu'r ceryddu mawr wrth y goddef cariadus... Ac ar yr orsedd, yr ymerawdwr mawr ei hun, neb arall; ac fe drodd. Fy ymerawdwr i... Fel pe bai'n cefnu ar chwerwder, yn cefnu ar afrealedd, yn ymwarded ag euogrwydd a balchder, fe drodd hwn. Ac edrychodd ei fawredd arnaf. Ac yn fy llygaid fe'm llygadodd i. ..'Nyni a awn i hela carw.'*

*Treiais beidio â chwerthin. Ef oedd fy ffrind.*

Llenwi'i dyddiadur yr oedd hi. Ac roedd y peth ar bapur yn ymddangos yn chwerthinllyd, ond yn ei thawelu. Eto'r un pryd, roedd hi fel pe bai'n cael ei rhwystro gan ei breuddwydion rhag cyflawni'i realiti heddiw — ac o hyd. Cododd hi'i llygaid er mwyn syllu am foment ar ddelwedd ei wyneb ef a oedd yr union funud honno'n pasio drwy'i hymennydd gan ymrithio yn llygoden Ffrengig fawr annisgwyl megis Menna. Cododd hi gledrau'i dwylo ar draws llygaid ei saeth-freuddwyd ar unwaith. Bobol bach! Roedd yn

Yn bŵl y paciodd ef ei ges. Syllodd o amgylch ei astudfa eang yn bŵl. Cododd ei law yn llesg mewn ffarwél felodramatig.

‘Hwyl fawr, annibendod. Mae dy feistr di'n ildio'i dir.’

Ac yn bŵl y camodd allan i'r car.

Oedd rhaid i ragluniaeth ethol diwrnod yn union gyn wlyped â hyn? Doedd ef ddim wedi bwriadu cyflawni dim o'i le heddiw. I'r gogledd o'r tŷ caed llond gwaun o frwyn yn chwythu'u trwynau'n steics jibi-dêrs, ac roedd y gorwelion oll yn magu anwydau o'u hamgylch. Y funud yma gallai ef gyd-deimlo â brwyn.

O'r braidd y codai Wili Eston ei gorun. Palodd Len Llwyd i mewn o'r pylni i'w dywyllwch o lolfa. Roedd y grisiau llawn gerllaw yn cario annibendod yn dew fel haf. Chwiliodd y llofft am yr ystafell-wely sbâr. Roedd honno'n bendramwnwg. Dadbacio, mynd yn ôl i lawr i'r lolfa gan gario'i Feibl. Rhoi hwnnw o'r neilltu ar y ford, ac eistedd ar gadair racsog gyferbyn â Wili. Drwy gil ei lygaid pŵl sylwai Wili yn ddrwgdybus ar ymyrraeth y Llyfr. Roedd y gelyn wedi cyrraedd.

‘Oedd rhaid cyrchu'r sothach yna?’ poerai.

Nid atebai Len. Gwyddai'n burion beth oedd y poer. Mi geir rhai noddfeydd neilltuedig gan Fyddin yr Iachawdwriaeth lle mae'n rhaid, meddan nhw, ddiodef gwasanaeth crefyddol os ydych am aros dros nos. Rhywbeth am rywbeth yw hi. Ac yn ei dŷ ei hun doedd Wili ddim am oddef y math dienwaededig yna o fargeinio. Os nad oedd yna roi digyfrif, os nad oedd Len Llwyd yn cyrraedd yn ôl amodau'r tŷ ei hun, naw wfft iddo.

‘Ffrwydryn disylw,’ meddai Len.

‘Dwi wedi clywed hynna o'r blaen.’

‘Na hidier. Dim ond llythyr-fom oddi wrth yr INRI.’

‘I'r ardd te! Ma's ag e, a dadnerthwch e ar y lawnt.’

Ni symudodd Len. Cilwenodd.

‘Ma's!’ gwaeddai'r llanc yn amharod i gael ei drechu. Ysgyrnygai'i aelïau.

‘Nid llythyr-fom gorllewinol yw e.’

‘Comiwnyddol te?’

‘Dwyreiniol. Dyw e ddim yn gweithio, yn y ffordd arferol ... Llythyr caru yw e.’ Ac

yna, teimlai'n bregethwrol, a chrynai.

'Pell y bo gen i,' meddai Wili yn bwylllog, 'ddadrithio neb o'i garu triaglog. Ond nid chwarae dwi, syr. Ma's ag e, yr un fath.'

'Llythyr preifat hefyd yn y fan hyn. Ata i fy hun. Dyw e ddim yn fusnes i neb arall ar hyn o bryd.'

'Ma's.'

'Does dim eisiau ichi sylwi'i fod e.'

Cil-syllai Wili tuag ato yn gyfiawn amheus. 'I'r ardd, ddyn,' gwaeddai drachefn, ond heb lawer o argyhoeddiad. 'Dych chi ddim yn *clywed* chwaith?'

'Wyddoch-chi Wili, does dim mor ofer â thafllu hadau ar ardd wedi'i rhewi. Peidiwch â becsan 'nghyfaill i.'

'Dim aroglarthu dros 'y ngharped gorau ta beth!'

'Rhywbeth preifat i mi fy hun yw hyn fan yma.'

Nis credai Wili. Caeai'i glustiau. Doedd-e byth yn aruthr o selog ynghylch hel homiliau gan hen weinidog. 'I'r ardd,' meddai drachefn wysg ei war, ond rhwng ei ddannedd a chydag ychydig llai o gynddaredd byth y tro hwn. Aeth Len ati i baratoi pryd iddynt ill dau. Roedd y gegin yn bentwr o lestri budron. O'r braidd fod yna le yno i hwylio'r un pryd gwâr.

'Dwi ddim yn mynd i'w fwyta,' datganai Wili. 'Ddim nes ichi fynd â hwnna o 'ma.' Roedd yn ofni bob munud y gallai'r dyn ar ôl yr emyn nesaf gyhoeddi'r casgliad. Er taweled oedd ef, yr oedd o ddifri. Roedd ei ddannedd a gwyn ei lygaid yn cyhoeddi nad oedd am gael ei gynnwys mewn rhagdybiau annaturiol.

'Wyddwn i ddim ei fod yn gymaint o dramgwydd ichi, fachgen. Wrth gwrs, mi a-i ag e o'r golwg.' A chariodd Len y ddogfen wrthun ddu â blaenau'i fysedd yn ôl i'w ystafellwely. Roedd Wili yn llygad ei le efallai. Ar waelod affwys, dyw dyn ddim eisiau clywed disgrifiad o amllder yr ardd gerllaw. Y cwbl y mae am ei glywed am y tro yw 'hwre law.'

Pan ddaeth Len yn ei ôl, sut bynnag, roedd Wili wedi lled lonni. Dechreuai breblan yn ddi-stop. Ond led ei leferydd caed islais o chwerwder. Pwy na fysai'n chwerwdrist, meddyliai Len, yn ei gyflwr ef?

'Mae popeth mor rhwydd i chi on'd yw e.'

Nid atebodd Len.

'Mae'ch Duw bwrdeisaidd mor hylaw tost. Yn datrys popeth. Cwmpwch, ac mae e

fan yna i'ch codi chi. Cerwch ar goll, ac mae e'n eich hala chi i'r swyddfa eiddo colledig. Wel, dyna braf fyddai rhywbeth felly i rywun fel fi. Does dim syndod eich bod chi mor *falch*.'

Tewi a weddai i Len.

'Ac wedyn mae e'n didoli. Mae hynny'n daclus on'd yw e? Ar ddiwedd yr wythnos, mae'n saniteiddio hyd yn oed. Sancteiddio, saniteiddio yw ...'

Brathai Len ei wefus.

'Dyna'r Duw oedd yn melltithio'r ffigysbren. Mor gyfleus am nad oedd e'n dwyn ffrwyth. Dwi'n tueddu, serch hynny, i fod ychydig bach o blaid ffigysbrennau. Mae yna rai ohonon ni, nid dwyn ffrwyth yw'n *forte* bob dydd. Does dim sug yn wastad. Does dim gormod o wreiddiau chwaith.' Mae'n anodd gwneud dim mwy na bodoli. Ond creadigaeth oedd bodoli.

Erbyn y dyddiau hyn, nid âi Wili o'r tŷ odid byth. Tan ychydig fisoedd yn ôl, er teimlo'n wan ac yn ddigalon, ceisiai fynd am dro er mwyn cadw'r gwaed i gwrso'i gorff. Ond cyfarfyddai â phobl o hyd. 'Sut wyt ti Wili?' 'Fel y boi!' Dyna oedd yr unig ateb hywerth. Hyd yn oed ar ei ddiwrnodau llesgaf, ac yntau o'r braidd yn gallu anadlu: 'Fel y boi!'. Pwy arall wedi'r cwbl a ymddiddorai? Ni byddai namyn jôc ped oedai Wili ar ganol diofal gam a phed ymatebai drwy holi, 'Wyt ti am glywed y manylion lliwgar?'

Felly, 'sut mae-i'; '- fel y boi' amdani, ... fel yr anfarwol foi.

\* \* \*

Ffôn.

'Len Llwyd, lle buoch chi? Pam na ddwedsoch chi?' Llais paun ac aroglau tiwlip wedi dod o hyd iddo.

'Jenni Huws, fy ffrind annwyl i, sut ych chi?'

'Yn trengi a chithau'n malio cyn lleied amdana i.'

'Dych chi byth yn marw unwaith eto?'

'Ydw Len Llwyd, ffwl owt, heddiw 'to. Fan hyn dw i, yn methu â chyrchu allan, clwtyn, swp salw, ar 'y mhen fy hun, mewn twll, a 'ngweinidog gofalus, yn galifantan gefn dydd golau o luch i dafl. Gallwn i ddisgwyl y byddai'n picio heibio unwaith yn y pedwar amser. Er mwyn sbecian damaid at y diwedd.'

'Mae'n wir flin gen i.'

'Blin! mae eisiau'ch blino chi, weinidogion y Goron, ddim unwaith ers pythefnos

crwn, fi sy'n blino, ac yn teimlo'n flin.'

'Rych chi'n cyfri'r dyddiau.'

'Yr oriau! Yr eiliadau, ydw! Beth arall sy i'w wneud mewn bwn sbwriel?'

'Prysurdeb, Jenni Huws.'

'Prysurdeb, bobol bach! Rŷn ni i gyd yn brysur ein gwala, Mr Llwyd bach. Esgus yw hi sy'n tyfu barf i Siôn 'y Nghyrn i, weda-i hynny, rych chi'n gwybod yn net yr hen air ... Os ych chi eisiau cymwynas, os ych chi eisiau i rywun ddod i ben â gorchwyl ...'

'Sachliain a lludw amdani, Jenni. Dwi'n ymddiheuro o ddifri ... ryw fymryn bach o leiaf.'

'Dyw hi ddim yn ddigon da i Lanbiblig.'

'Cytuno.'

'Wnaiff hi ddim o'r tro i Gadw Cymru'n Lân chwaith.'

'Na.'

'Dwi'n grac. Mae 'ngwallt coch i'n gynnu o dân gwyllt, ac dwi eisiau ichi ddod draw i'w ddiffodd e ar unwaith, ar un waith.'

'Ond beth wnelwn i â than wedi'i ddiffodd ar noson oer?' holodd Len gan wybod fod gwallt Jenni Huws yn lludw go denau ers talwm.

'Ei wylled, gwylled y marwor yn darfod, rhag iddo gydio 'to.'

'Mi dria-i alw te, Jenni Huws.'

'Trio! Pryd?'

'Yn fuan.'

'Faint yw buan?'

'Tua hanner awr wedi dau y pnawn 'ma.'

'Ar lw gweinidog?'

'Mor sicr â bod Mawrth yn y Grawys.'

'Dwi'n pwyso ar eich gair. Eich llw cysegredig.'

'Nid llw, Jenni Huws.'

'Cystal â llw i fod. Gair gwas Duw.'

'Os Duw a'i myn, mi fydda-i yno.'

'Gwell iddo fynnu te.'

Bodlonodd hi. Enillasai'i dadl feunyddiol â'r gweinidog drachefn. Ac roedd hi ar ben ei digon. Yn hen foi iawn, carai hi sgyrsio ag ef bob sgyrsiwn. Carai ddal pen rheswm

ag ef ryw ben bob afreswm. Ac roedd ef yn dala ei dwli i gyd. Hi a enillai bob dadl wrth gwrs. Os ych chi'n drech na rhywun pan fyddan nhw'n bresennol, mi fyddwch chi'n eu licio nhw'n fwy byth pan fyddan nhw i ffwrdd. Felly hithau beunydd gyda Len Llwyd.

Cyn ymadael i fynd ati, helpodd Len ei gyfaill claf yn gyntaf i symud at y ford. Nid oedd Wili eto yn gwbl ddiallu o ran ei fwydo'i hun. A dechreusant ar eu cinio gyntaf yng nghwmni'i gilydd. Eto, ni allai Len osio bwyta heb ofyn bendith. Bysai'n amddifadwydd ysigol. Buasai'n gabledd, yn brofedigaeth ddihidans. Ond ceisiai bwysu'i ben i lawr yn ddisylw. Heb gau'i lygaid, gollyngodd saeth weddi. Ni fynnai i Wili'i weld am y tro. Ond amhosib oedd llwyr guddio. Rhy agos oedd ei ddimensiwn arall iddo beidio â'i gydnabod fel hyn.

'Ddysgwch chi byth, na wnewch? Mi'i gwelais i,' cyhuddai Wili.

'Rhai pethau, na.'

'Peidiwch ag ymddiheuro.'

'Ddim am eiliad.'

'Nymbo jymbo, os ca-innau siarad yn drosgynnol.'

'A!'

'Does dim mor anfoesol o anniddorol â diddordeb moesol yn y tŷ yma o leiaf.'

Cliriodd Len y ford ar ôl iddynt orffen, a chwarelu i mewn i'r mynydd llestri. Wedyn hwpodd ei ben drwy'r drws: 'Wnewch chi f'egusodi nawr am ddwyawr fach?' Nid edrychodd Wili arno. 'Mae gen i dair galwad.'

'Tair! Dych chi'n 'casglu nhw fel stampiau?'

'Ydw.'

'Un glywais i ... Jenni Huws.'

'Dwi heb wneud 'y nyletswydd arferol. Torri coed tân i Lisa Wilias.'

'Gweddw'r crydd?' Gwarafunai'r llanc bob cystadleuaeth. Roedd tinc od o gyhuddiad yn ei lais.

'Mae'n rhaid i'r hen greadures gael deunydd tân.'

'Bob tro mae'n bwrw eira?' roedd Wili'n cilwenu.

'Ac wedyn, doedd Tim Tatws druan am ryw reswm ddim yn y gwasanaethau ddydd Sul. Ac mae hynny'n beth diarth.'

'Peth amheuthun ddwedwn i ... Dych chi'n coelio nad oes neb arall yn gallu ymdopi hebdoch chi? Oes rhaid bod yn weinidog starts yn ystod amser rhydd? Mae pob het yn



credu taw pwrpas pen yw ei llenwi'n barhaus: dim byd arall.'

Pŵl oedd Wili. Doedd ei ddwrddio'n ddim ond gollwng stêm. Pa ots iddo am gwmni Len beth bynnag? Pwysodd ei ben ymlaen. Rhy wael oedd ef i ddarllen llyfr. Rhy ddifater i ymryson. Efallai wedi'r cwbl, pendronai Wili, mai ymdreiglo'n ôl at ei 'fam' ef ei hun i'w hen gartref fysai orau. Gadael hwn. Roedd hi'n rhy hwyr i fynd tuag adref nawr efallai. Ystyfnigasai erbyn hyn. Ymgaledu. Roedd ymddygiad y gweinidog yn dân ar ei groen. Dyn dieithr oedd hwnnw ar ei libart ef, dyn a chanddo rythm arall, egwyddorion ffaidd. A chyn gynted ag y bo dieithryn yn bresennol yn eich trigfan mae'r canolbwynt disgyrchiant yn syflyd.

Ni ddychwelodd Len Llwyd am bedair awr a chwarter. Pa goel oedd ar archweinidog? 'Mae 'nghof i'n pallu, Mr Llwyd bach. Un gair dwi'n ei anghofio o hyd yw...' A dim ond bwllch oedd yn llenwi'r bwllch.

Erbyn ei ddychwelyd roedd Wili'n hepian yn ddiwrthryfel. Gorwedda'i'n drwsogl ar y glwth ac wyneb plentyn yn llercian dan ei wallt du. Ni chaed na chrych na chyhyren i ymyrryd â'i areulledd. Safai Len uwch ei ben gan ryfeddu. Ac yna, sylwai'n ddisymwth, yn ôl symudiad gwyllt ysgafn y llygad o dan yr amrant, fod y llanc wrthi'n hel breuddwydion. Syflai'i foch wedyn, yn ysgafn i ddechrau, yna'n fwyfwy anesmwyth. Crebachai'i dalcen. Gwingai corneli'i geg, a chyflymai'i anadl ysgafn. Tuchanai beth; ac yna ochain drachefn cyn ymdawelu o'r diwedd fel pe bai'r freuddwyd wedi ymddeol a sleifio allan o'r tŷ i lawr y stryd. Allan.

'Druan,' syniai Len.

Drwy'i gwsg yr oedd Wili ar ryw ystyr yn rhydd. Yn araf, sut bynnag, datodai un amrant, o fotwm i fotwm, yna'r llall, yna'r lleill. Y gweinidog oedd hwn, o flaen ei drwyn. Ie, y gweinidog ei hun, yn drwyn i gyd. wedi dychwelyd, fel broc môr. Ni wyddai pa werth y gallai hwnnw fod ar draeth yn llawn o foncyffion anffurfiedig.

'Oes amser gan y Sant sobr i wneud te sobr i'r sobr o glaf o'r parlys?' holai Wili gan igian yn surbwch.

'Panaid?'

'Dim llai. Chawsoch chi ddim cryfach ar y bererindod, debyg.'

'Iawn,' meddai Len gan wibio tua'r tebot, yn was i gyd.

'Rych chi'n tyrchu ar ôl rhinwedd fel pornograffydd ar ôl tamaid o fursendod,' poera'i Wili yn grafog.

‘Gawn ni weld beth sy tan warchodaeth y cwpwrdd.’

Digynnig oedd. Gwacter oedd ar wahân i bacedaid o reis, dau dunnaid o hufen, a mintys sych.

‘Gawn ni bennu amser swpera ymhen trichwarter awr. Rhaid imi bicio draw i’r archfarchnad i’n hatgyfnerthu.’

Parabulus oedd Wili drachefn uwchben ei swper. Ond roedd ei holl fodolaeth wedi suro. Siaradai’n hapus ddirmygus am Lanbiblig. Preblai am Gaerafon ac am ei deulu. Lladdai ar ei ‘fam’. Doedd ei dad a’i frodyr wedi bod yn ddim ond sothach. Ochain oedd ei achau. Ar wahân i’w chwaer. Ond am hil hyll y capeli a’r eglwys Anglicanaidd, — nid amgyffredai’r rheina ddim oll.

O’r gorau, efallai’i fod e’n hunan-gyfiawn. Ond diawch erioed, o leiaf gallech ddisgwyl y byddai gan bobl, sy’n brolio’u brawdgarwech, dipyn bach mwy o gydymdeimlad mewn cyfwng fel hwn. Roedd wedi cael ei drin gan bawb fel esgymun comon. Nid oedd ond yn wahanglwyf cramennog o gyfnod y croesgadau. Datganolai’r siom nid yn unig hyd ei dalcen a’i ên, ond hyd ei freichiau a’i wasg.

‘Ga-i ddefnyddio’ch ffôn?’ gofynnai Len. ‘Dwy funud.’

‘Cewch. At beth? Cewch.’

‘Ti sy ’na, Elwyn? Dim ond yr alwad arferol. Holi sut wyt ti ... Rown i’n falch i’w glywed ... Ac mae mwy o hyder ’da ti, dwi’n siŵr ... Dyna’r ffordd fachgen ... Rwyt ti wedi meistrolï’r hen felltith o’r diwedd.’

Ochneidiai Wili wrth glywed y fath rinweddau diferol, seimllyd: ymlaen ac ymlaen.

‘Mae dy rieni’n falch ohonot-ti dwi’n siŵr. Dwi innau’n falch ohonot-ti. Mae’n dipyn o gamp ... Cei weld y rhagbrawf rhwng Tîm A Cymru a Thîm B ... Wel, wrth gwrs.’

Rhagor o saim a llyfnder. Dylyfodd Wili ei ên yn hygryw flin. Beth oedd hyn?

‘Mi bicia-i draw i Lundain i gael sgwrs. Yng Nghaerdydd? Os dyna sy orau gyda thi.’

Ychwaneg o ddylyfu gên er cof am yr Ysgol Sul.

‘Bachgen, dwi mor bles.’

Ochneidiai Wili a llond ei lwnc o ddirmyg gwybodlyd.

‘Prawf ar gymeriad yw peth fel hyn ...’ Troes y dylyfu gên yn dagfa bron bellach. ‘Wrth gwrs mai dechrau’n unig yw hi; ond deuparth ... Rwyt ti wedi dy brofi dy hun.’ Ymlaen ac ymlaen.

‘Gorau sant, sebon sent,’ ebychai Wili.

Rhynnai’r sgwrs glên am bum munud eto, heb ddweud fawr o ddim.

‘Mab Twm Bart,’ esboniai Len i Wili wrth ddodi’r ffôn yn ei nyth.

‘Nid eich partner Gabriel felly?’

‘Mae wedi llwyddo ... o leia, mae’n llwyddo hyd yn hyn ... ers pythefnos i ymgadw’n gwbl oddi ar y cyffuriau. Iddo fe’n bersonol, mae hyn yn frwydr gyfwerth â’r ail ryfel byd.’

‘Am rywun sy’n honni ymhel â’r anddywedadwy,’ meddai Wili, ‘mae gynnoch chi yfflon o lot i glebran amdano yn ystod eich dwy funud o dawelwch.’

Cliriodd Len y llestri. Esboniodd i Wili mai rhaid oedd taro ychydig nodiadau yn ei lyfryn ar gyfer y Dosbarth Beiblaidd. Dylyfu gên ’wnaeth Wili.

‘Ydyn nhw yno o hyd? Pwy wrandewith ar rwtsh fel ’na?’

Cynigiodd Len i helpu Wili i’w wely. Stwffiodd Wili’r cynnig i’w geg fel pe bai’n cyfuno’i ddylyfu gên â gosod corcyn ar botel dyngarwch Len: ‘Na!’

‘Ond bydda-i’n ôl adre yma erbyn hanner awr wedi wyth.’

Gwrthododd Wili bob cynhorthwy. Dyna gorcyn eto ym mhotel Len: ‘Hanner awr wedi eleni?’

‘Wedi wyth i’r botwm. Gair gweinidog eto sbo,’ meddai Len gan geisio chwerthin. Gwnaeth gwpanaid o Horlicks i Wili. Cynigiodd drachefn i’w helpu i’w gwely. Fe’i gwrthodwyd yn blwmp â chorcyn arall. ‘Teledu?’

‘Na.’

‘Dim?’

‘I’r dim!’

Piciodd Len draw i’r Mans. Dymunai ymgynghori â llyfrau. Yno trawodd rai nodiadau ar glawr. Cyflawnodd ei ddyletswyddau eraill. A phenderfynodd mai dymunol cyn cilio’n ôl at Wili fyddai cyrchu ei hoff neilltufan y tu allan.

Y tro hwn dan ei draed — a thros ei draed — sylweddolai fod y llwybr i fyny at y Llyn sef Llygad Piblig yn wlypach hyd yn oed na’r tro cynt. Gan mor drwyadl yr oedd y byd wedi’i doddi’n byllau, yr oedd yn anodd picio rhyngddynt na heibio iddynt heb ddiflannu. Neidiai Len yma a thraw. Dôl o hyd i ambell batsien lai gwlyb na’i gilydd. Tir celwyddog oedd megis cerrig sarn. Rhyw fath o daith ar hyd y planedau drwy ffurfafen ddŵr, Llyn Llygad Piblig oedd yno ymhobman wedi’i ddatganoli: roedd wedi esgor, yn llac ei foesau, ar

deulu o byllau mân direidus fel drylliau srappel wedi'u taflu allan gan ryw ffrwydrad canolog o jôc.

Ond y fan yna hefyd y caed tawelwch estynedig. Roedd y Llyn atgofus ei hun fel llygad tangnefeddus yn y canol, a'r pyllau tawel a ffurfiwyd gan y cawodydd diweddar yn debyg i lygaid mân yn gwarchod tangnefedd mawr creiddiol y lleuad, ac yn ei wyllo ef yn ofalus.

Pan gythaeddodd ymyl y Llyn, sylwai nid yn unig fod y 'llygad' yn darddell i afon Piblig. Teimlai fod ei wyrddlwydni yn craffu arno o lawer cyfeiriad. Syllai allan o'i ddaear yno fel bwystfil cyntefig crwydrol a feddai ar un llygad rhanedig, yng nghnewyllyn y tâl. Er na chaed symud ar wyneb y dŵr canol ei hun, yr oedd y mân syflyd yn rhai o'r cysgodion o'i ddeutu arno yn ddigon i awgrymu fod yna fywyd cynhwysfawr ar gael o hyd yn y llygad dwfn hwn. Ond roedd rhyw fath o sicrwydd di-wefr yno hefyd, oherwydd diffyg trydan yn yr awyr dawel. Caed cysur, o leiaf, am na allasai fod Maxine yn llechu yno yn un man.

Piciai'n fân ac yn fuan o ynys laid i ynys laid. Yn y manau hynny lle'r oedd y tir ar ymylon y llwybr yn y golwg a'r borfa wedi'i threulio gan draed, yr oedd y llaid yn bleserus o ludiog. Gallai synhwyro'i gyfoeth. Na; doedd *hi* ddim yno. Dôl rhwng ei ddannedd a thros ei wefusau deimlad bachgennaidd a brofasai droeon o'r blaen, — na fuasai dim gwell na rholio yn hyn. Synhwyrus o hyfryd fyddai pe bai'i gorff anghyfrifol yn treiglo yn swmp y trwch priddlyd hwn. O'r braidd bod y ddaear yn haeddu'i henw bellach. Datganai chwydiadau'r llyn yn ei glustiau gwlyb mai annae'r oedd y llaid benbwygilydd. Ac annae'r o fath oedd yr union beth a geisiai ef heddiw.

Delwai uwchben y llyn tangnefeddus yn awr heb Maxine, heb sylwi dim o'r braidd ar yr amser, cyn ymysgwyd a throi tuag yn ôl i breswylfa'i ffrind Wili.

Roedd yna dawelwch fan honno yn y tŷ hefyd, ond braidd yn wahanol.

Nis croesawyd.

Eisteddai'r ddau ddyn, Len a Wili, felly gyferbyn â'i gilydd o flaen teledydd diffoddedig. A thagwyd pob ymdrech gan Len i gychwyn sgwrs. Ar ôl tri-chwarter awr neu lai, dyma sibrwd, 'Wili, oes 'na rywbeth mawr dych chi eisiau'i ddweud?'

'Ha! Cell gyffes!'

'Os wyt ti'n ei dymuno.'

'Dyna gêm ardderchog ar y naw ... Dim 'te!'

'Dim?'

‘Mi alla-i gyffesu fy llygredd haniaethol, galla. Gallwn ymfalchïo’n llygredig braf yn ’y ngonestrwydd. Ond nid dyna dych chi’i eisiau, nage? y brawd Llwyd.’

‘Mi all cyffesu ryddhau ychydig.’

‘Does neb meidrol yn *rhydd* ddyn. Oes ’na unrhyw *ryddid* rhag byw a baw?’

‘Wi’n credu bod.’

‘Oes ’na ryddid rhag y rheidrwydd i anadlu, y rheidrwydd i fwyta, i berthyn i bobol, i fod yn fudr? Beth yw gwerth rhyddid o’r fath? Beth wedyn am ryddid y bedd? Beth am y marw gorau? Rhyddid yw hwnnw? Rhyddid yr oes oleuedig hon ...’ Roedd y llanc yn grac wrth fodolaeth. ‘Dyw’r sawl sy’n cael ei ladd gan gerrynt trydan byth yn cael ei oleuo.’

‘Wyt ti ddim eisiau ateb?’

‘Dwi ddim eisiau pregeth.’

‘Na.’

Penderfynodd Len o’r diwedd lunio llythyr cwta at ei ffrind Bill. O ran cwrteisi y’i gwnâi, er y gwyddai na byddai’n debyg o gael ateb gan yr Esgob y tro hwn.

‘Pam!’ ysgyrnygai Wili’n ddisymwth ar ei draws.

‘Pam beth?’

‘Pam popeth?’ ubai eto. ‘Pam fi? Pam nad oes dim rhyddid? Pam yr holl eithafion hyn? Pam Aids? Dwedwch hynny nawr? Na, peidiwch. Chi barchusion y byd arall! Esboniwch. Pam newyn Ethiopia? Peidiwch ag ateb. Mi wn i’r holl rwtsh yna am gwymp a llygru gwreiddiol. Ond pam cymaint? Pam pob cenhedlaeth? Pam dyn? Pam fi? Ydy annhegwch yn rhan o’r pechod? Y gwrthod. Pam miliynau’n trengi’r cythraul yn y Swdán? Pam ddim ymyrraeth? Dim gwaredigaeth. Dim oll. Pam fi am byth? ...Beth yw hyn i gyd?’

‘Wyt ti eisiau ymyrraeth bob tro? Bob eiliad? Neu ambell un?’

‘Pam yr holl ryfeloedd? Pam y damweiniau a’r plantos bach yn dioddef, y diniweitiaid? Pam mor annheg? Yn gythreulig o derfynol. Rhagluniaeth yw hynny? Na, peidiwch â dweud, dwi ddim eisiau clywed.’

‘Wyt ti’n meddwl y’i deallet ti pe medrwn i’i esbonio?’

‘Pam casineb? Pam cancr? Pam marw? Ie. Esboniwch. Pam fi? Pam nad yw’ch Duw Cariad chi yn ymyrryd drwy’r amser i roi taw ar yr holl fês?’

‘Drwy’r amser? Bob eiliad?’

‘Peidiwch ag ateb. Dwi’n deall pechod yn burion. Fi yw pechod. Fi yw bod ar wahân. Ond pam?’

‘Rwyt ti’n gwybod, yn well na neb, ddifrifoldeb y peth.’

‘Ond pam? Pam’ (a rhegai) ‘fi, dyna dwi’n ofyn, pam pawb?’ (Ym mryd rhywrai, atalnod heb ystyr yw rheg. Ond pan ddwedai Wili “Diawl”, yr oedd Diawl yn llond ei groen o ystyr, ac yn fod. Ac felly “uffern”, yn llythrennol bob amser.)

‘Y Duw annealladwy, wedi rhoi ewyllys rydd yn y lle cyntaf, oherwydd dim ond drwy ryddid diorfodaeth y mae cariad yn bosib.’

‘Peidiwch ag ateb.’

‘Y difrifoldeb yw’r perthyn.’

‘Dim o’ch atebion slic. Pam cymaint (a rhegai hyd byllau’i ymennydd) o ddiodeff?’

‘Angen perthyn eto. Mae anghred ac arwahanrwydd yn bethau brawychus o ddifrif. Difrifoldeb yw Duw. Mae’n bryd inni ddifrifoli os ydyn ni’n mynd i berthyn.’

‘A chorwyntoedd dros y lle ym mhob man. Nhw a daeargrynfâu ... neu rywbeth; babanod â nam arnyn-nhw; pawb a nam arnyn-nhw, pam? Pam y Saeson cythraul yn distrywio’n hiaith? A hynny heb yn wybod iddyn-nhw eu hunain. A’ch Duw chi, y Duw Cariad ’na, pam, beth mae Hwnnw’n ’wneud i ennill Ei frecwast? Peidiwch ag ateb. Dwi’n gwybod y cwbl: mae E’n gadael y byd cythraul ’ma i fynd ei ffordd ei hun.’

‘Ond na: mae E ...’

‘Edrychwch ddyn.’ Gwaeddai’i stumog. ‘Dim esgusodion. Pam perthyn? Mae gen i ormod o berthnasau.’ Ond roedd yn ormod o straen ar ei adnoddau melltithiol. Syllai Wil yn awr fel pe bai’n sbio allan drwy agen mewn arfogaeth tanc. ‘Mae yna gadwyn amdanon-ni i gyd. Fedrwch chi ddim gweld? Rŷn ni’n gaethweision i adfeiliad. Defnyddiwch eich llygaid, ddyn. A Fe sy’n gyfrifol am y llygredd niwclear uffernol. Fe. Pwy arall? Y gweryslyoedd anobeithiol i ffoaduriaid, yr herwgipwyr, y budreddi uffernol yn yr afonydd ac yn yr awyr. Y lot. Pan nad yw E ddim yn stopio’r syrcais? Fe a’i ragluniaeth, Fe a’i etholedigaeth y cythraul. Pypedau yn ni. Diniwed. Fe a’i gosb, bob tro. Allai Fe ddim atal y trychinebau uffernol hyn am un wythnos uffernol bob hyn ac uffernol hyn? Allai Fe ddim rhoi taw arnyn nhw i gyd am eiliad?’ Dododd ei ddwylo am ei glustiau. ‘Pam?’ (Pan oedd Wili’n cablu, cablai o’r galon, yn ddiwinyddol osodiadol. I rywrai, defod oedd rheg, gair comon. I Wili, melltith.)

‘Ond ...’

‘Pam!’ udai’i ddannedd. A’i ddwylo, a’i freichiau nawr o gylch ei glustiau.

Plygai Len mewn gwyleidd-dra truenus. Nid proselytio oedd ei gynneddf.

Cynrychiolydd tila o chwerthinllyd oedd ef i'r Un a arddelai. Ac o ran siampl pa obaith byth oedd ganddo i ddangos i Wili ei ymostyngiad tlawd?

'Peidiwch ag ateb. Dŷn ni wedi clywed digon, ar hyd y canrifoedd uffern. Duw Cariad nid yw.'

'Ond mae E ...'

'Ust! Dim ateb ddwedais i.' Gorchuddiai'i glustiau yn ei gôl a'i freichiau.

Roedd Wili am gadw rhagfur amheuaeth yn ddiogel o'i ddeutu. Mae yna fath beth ag amheuaeth ddigwestiwn yn ei hamddiffyn ei hun drwy gwestiynau; ond y tro hwn nid dechrau deall oedd hi ond diwedd pob rhithyn o ddeall. Cau drws oedd y cam cyntaf.

'Iawn!' Ymgrymai Len yn ufudd gydsyniol. Tawodd. Cripiai i mewn i ffau'i hydeimledd hurt ac ymgylchu yn y gwaed.

'Ust!' gwaeddai Wili hyd yn oed ar y cytundeb hwnnw â'i holl nerth. Doedd ef byth am glywed hyd yn oed amwysedd cymaint â hynny o ymateb mud, yn sicr nid yn y gair 'Iawn.' 'Ust!' Tynhaodd ei ddwylo eto am ei arleisiau. 'Ust!' Ac yna, torrodd i lefain yn chwerw. 'Ust!' Teimlai'i holl ddiodefaint dwfn a'i holl dynged enbyd ei hun a'i gynddaredd a'i wrthod gwybodaeth yn gwasgu fel grawnwin odano. Wylai'n hidl hyll. 'Ust! Ust!' Pwysai ymlaen ar ei ddwylo main yn awr a beichio crio. Cerddai Len draw ato. Dodai gledr ei law ar ei gorun. Roedd yn ymdeimlo â chyhyrau holl ust Wili'n tynhau wrth iddo ddod yn agos ato. Teimlai Wili yntau fel pe bai'r dyn yn ei sarhau, fel pe bai'i wendid yn gwaethygu po agosaf ato y dôl Len. Afiechyd iddo oedd Len, brawd Aids. Byddai'n rhaid i'r dyn hwn fynd yn fuan, a mynd yn bell. Hwn — ef — oedd y gwir salwch. Roedd y dyn hwn a'i salwch ei hun yn blithdraphlith drwyddo. Ac ynddo ef ei hun, Wili, roedd yr hen Aids wedi ymguddio, yn gyfeilydd. Gadawai'r hen beth ichi sgyrsio'n arwynebol a symud i ystafell arall a gweithio a darllen, heb yn wir eich gorfodi i syllu i lwnc yr hen haint ei hun. A'r un pryd yr oedd wrthi'n ddistaw bob munud yn cripan am eich gwar, yn cylchu am eich ysgwyddau. Gallech yn arwynebol eich twyllo'ch hun am ychydig bach fod pethau eraill a phobl eraill i'w cael; o leiaf, yr oedd pawb arall gyda chi, yn gwneud yr un peth yr un pryd — yn darfod: mater o amser oedd hi i bawb; ble'r oedd y mis diwethaf wedi mynd i bawb? Ffŵl! Doedd dim pwynt pendroni am y busnes hwn,... beth sy'n bod arna-i, roedd tyrfa'n hyrddio'n hedonistaidd bendramwnwgl i lawr i weld tîm Castell Nedd yn bwrw'r perfedd allan o Gaerdydd, roedd llw hefyd yn pendwmpian o flaen eu teledyddion claeare, a'r un pryd roedden nhw oll yn darfod, dros y lle i gyd, heb wybod, un ar ôl y llall, darfod, ymhobman,

mewn eiliad, mewn hanner canrif, pa ots, y fath gyfoeth o bethau y gellir eu gwneud ag ysbaid, — brwsio dannedd, darllen Dostoiefsci, mynd i weld y meddyg, casglu'r ffrwythau oddi ar y pren afalau, trwsio'r tân trydan, mynd i'r toiled — pethau gwych di-ri oll mewn ysbaid hardd ar y ffordd ddiymwad i'r fynwent. A! y fath ancwyn sydyn o gripian, o gylchu, er mwyn mynwent.

I beth? sgrechai migyrnau esgyrnog Wili. Sgrechai'r nenfwd yntau yn ei ôl.

I beth? Yn uwch. I bopeth! Yr hyn a'i blinai'n awr oedd bod yna ormod o ystyr o fewn ei ymennydd wedi cael ei chymryd yn ganiataol. Rywfodd cymerasai yn ganiataol fod pob dim a welai yno'n ddiystyr epiciwrïaidd. Ac eto, drwy gydol yr amser, yn ddiymwybod yr oedd yna bwrpas gorfodol wedi'i adeiladu i mewn i bob dim a wnâi; hyd yn oed yn y cylchu, a'r cropian gripian. Roedd hyn oll wedi ei gau i mewn. Heddiw yr oedd hyn yn chwys ac yn fygythiad iddo. Yfory, drachefn. Wrth godi o'i wely yn y bore, rhaid ei fod yn codi rywfodd oherwydd yr ystyr i hynny. A chripiat i'r ystafell ymolchi i bwrpas wedyn, felly o weithred i weithred, ni allai anadlu, ni allai agor ei lygaid ond oherwydd fod rhyw ystyr a diben o'i amgylch yn cael eu derbyn yn rhan o adeiladwaith ei fod. Cripian gropian, o anadl i anadl. Dyma'r rhagdyb. Ym mhob man, ystyr, hyd yn oed yn y rhegfeydd. A fe, yn awr ar y llawr o'i flaen, bywyd ei hun, beth oedd diben mawreddog a gwerth y pryfyn gwingol hwnnw? O'r tu allan i'r bywyd hwnnw safai am funud ddychrynllud fer. Rhaid bod hwnnw yn debyg i bopeth arall, yn meddu ar ystyr a chyfeiriad yn y dyfodol: ond beth? Roedd yna ystyr y tu ôl i ystyr, fel mynyddoedd y tu ôl i fynyddoedd yn ymestyn i mewn i'r pellterau diderfyn. A gwyddai hyn hyd flaen ei flew... Afiach oedd hyn. Onid peth felly oedd dirgelwch marwolaeth? Rholiai yn ei regfeydd. Y dull iach hwn erioed ganddo o drafod meddwl felly fyddai cau'r drws chwap a sgrialu nerth ei sodlau rhag ymdrybaeddu beddrodol. Mae yna rai pethau na ddylai dyn byth bensynnu amdanyn nhw.

Ond os oedd pawb bwygilydd o'i gwmpas, fel y gwyddai, yn mynd i'w aped chwap, rhaid eu bod hefyd oll yn sâl. Roedd rhyw fath o Aids arnyn nhw i gyd. Eisoes yn eu cyfansoddiad ceid o'r dechrau bresenoldeb diddamwain rhyw firws gwrth-firws anwrthodadwy. Sut yn union y gellid dehongli hwnnw? Nid henaint damweiniol, oherwydd yr oedd yna ffyrdd dirgel eraill yr oedd y peth ar waith. Yn fynych gellid gwella ambell waeledd. Gellid ennill atalfa o'r herwydd a gorfoleddu fel gwyliau. Ond yr oedd yr un haint arbennig yma a oedd mor gyffredinol ac yn agerog ddwfn arnyn nhw oll yn gwbl anwelladwy. Roedd yn fwy na ffasiwn.



Meddyliai yn fwy sobreiddiol yn awr am yr oriau sbonclyd y bu iddo eu hafradu. Hoffai hel y rheini yn dawel un ac un yn awr i gyd ar gledr ei law, yn un pentwr bach lluniaidd melys.

‘Pam fi?’ ubai’r gŵr ifanc eto yn fwy disgybledig bellach i mewn i’w grys. ‘Pam yr ugeinfed uffernol ganrif — a’i phenryddid caethiwus? Pam y llipryn corff hwn?’ A thonnodd ei ddychryn yn ddrychau mân cynyddol drwyddo. Roedd hunllef yn llefain yn isel o’i fewn. ‘Pam?’ wylai’n wan ei wala. Crynai’r chwerwedd drwy’i aelodau benbwygilydd. A rhewai. ‘Anwybyddwch fi.’

Siglai Len ei ben mewn diymadferthedd cariadus.

Nihilydd argyhoeddedig o ran enw bedydd oedd Wili. Fel pob nihilydd go iawn a wyddai’i bethau, yr oedd nod a phwrpas yn llond ei ysgyfaint. Ond diddymdra oedd ei fynegiant bob edefyn. Ac roedd peth felly mor ddiffrwyth ac mor anymarferol i fywyd ymarferol. Doedd ei negyddiaeth byth yn gweithio. Ni allai siarad, ni allai feddwl heb fod pwrpas anweledig yn hongian ar hyd pob un o’i ogwyddiadau druan o’r dihuno cyntaf hyd yr ymbalfalu am y toiled gefn perfedd nos. Ymolchi ac eillio. Cyrchu ystafell arall, brecwesta. Y cwbl megis mwclis masweddus o bwrpas ar hyd llinyn gwêr trefn. A’r cwbl yn cropian, criplan. Yn dyner, gosodai Len ei fraich am ysgwyddau bregus y claf. Crynai hwnnw am eiliad, ond nis gwrthwynebai. Safai Len yno gydag ef am hanner awr. Gan bwyll, clywai’r gwrthryfel, yn dafnu allan ohono fesul llinyn, yr annealltwriaeth. Clywai’r felltith wasaidd yn briwsioni. Codai Len y truan cryno yn ei freichiau. Yn ddi-ofn yn awr, yn gryf yn ei freichiau, fe gariai’r crwt yn gariadus i’w wely, heb ei omedd. Rhoddai ef i orwedd, a gosod y cwilt yn dirion drosto. Roedd y crwt wedi cau’i drem. Arhosai Len ar ei bwys uwch ei ben nes bod tangnefedd wedi dygymod ag ef. Doedd dim angen aros yn hir gan i hwn ddod yn ddiwarafun. Yna, cusanai Len ei fys ei hun. Fe’i rhwbiai’n ysgafn ar dalcen y llanc, heb fod ar ffurf croes. Ac yna, canodd y ffôn drachefn.

Dihunodd Wili gyda rheg.

Yr anfarwol Jenni Huws oedd yno eto.

‘Dwi heb olau, dwi wedi bod yn eistedd fan hyn ers dwy awr, mae’r bylwb wedi darfod.’

‘Ond chwarae teg: mae’n hanner awr wedi un ar ddeg, Jenni.’ Ofn oedd arni.

‘Os dyna yw’r ateb gan ’y ngweinidog, wel dyna fe.’

‘Cerwch yn ôl i gysgu, Wili. Jenni Huws sy, heb olau.’

‘On’ d ydyn ni i gyd?’

Ond gwyddai Len yn burion pan gyrhaeddai ef Jenni Huws, er y byddai’r bylwb wedi pallu, y byddai hi wedi dod o hyd i gannwyll. Yn y gadair freichiau y byddai hi yn smygu pib o bethau’r byd ac yn darllen y *Sun*, yn gwbl sicr mai’i fywyd ef oedd ei hawl gydnabyddedig hi — onid gweinidog oedd ef? — a bod cystal hawl ganddi hi â chan yr un nesaf. Democratiaeth gron oedd piau hi, wedi’r cyfan. Ac roedd miliynau o ddarllenwyr y *Sun* yn barod i amddiffyn democratiaeth hyd waed gwaddod, ni waeth ai menyw borcyn oedd ei delwedd ynteu gôl-geidwad dwyfol Man.U.

24

Drannoeth penderfynodd Len wibio draw i’r Mans i chwilio’r post.

Canfu fod un hen gydnabod dethol wedi codi o’i flaen ac wedi torri gair gyda’r tŷ gwag. O’r braidd bod yna’r un ffenest yng nghefn y tŷ i syllu arno na thrwyddi heb fod yna grac mân mewn rhyw chwarel, ar y llawr yn ogystal ag ar y llofft. Edrychai yno’n gymwys fel pe bai cyflafan wedi plastro’i hysbysebion drosto. Doedd neb yn gwneud pethau fel hyn heb deimladau niwclear. Ar y mat bach ar y llawr y tu mewn i ddrws y ffrynt un llythyr oedd, heb stamp, wedi’i gyflwyno â llaw’n bersonol, mae’n rhaid.

*Annwyl Barchedig Llwyd,*

*Yr ydym ni, ferched yr Annibynwyr (ynghyd â’r gangen leol o Gymdeithas y Cymod) yn Llanbiblig, am ichwi wybod ein bod yn drybeilig drist. Gresynwn oherwydd eich ymddygiad diweddar. Ni allwn eich deall. Pan lithrwyd y tro cyntaf, mewn graslonrwydd a goddefgarwch y bu inni oedi rhag taflu carreg. Tagasom ein condemniad, o gariad chwaeryddol. Buom, mewn modd Cristnogol, yn hirymarhous rhag synied amdanoch yn waeth nag am rywun a wnaethai gamgymeriad. Pobl oddefgar ydym. Canrif oddefgar yw hon. Ac wedi’r cyfan, merched ydym, nid taflwyr cerrig. Ond yn awr, weinidog annwyl, y mae hyn wedi’n llethu. Mae rhyw ddiffyg amgyffrediad wedi rhedeg fel coelcerth drwy’r gymdogaeth. O hyd dyma chi’n ymdroi mewn amgylchiadau dieithr. Teimlwn mai anodd fydd inni ymgymhwysu i addoli o dan eich arweiniad. Ac mae cael un olwg arnoch yn y tu blaen yn actio’n bregethwr ac yn trafod yr elfennau, a gwybod a dychmygu beth yw eich tueddiadau o’r golwg, yn chwithig. Ceisiwn faddau. Ceisiwn fygu’n dychymyg. Ond*

210

*rywfodd ystyriwn fod angen mwy na gweddiau drosoch. Mae angen i ni oll fyfyrio am y sefyllfa ac am ein dyletswydd gerbron Duw. Ai yma, yn gweinyddu cof am aberth yr Arglwydd, y mae eich lle mwyach, a chithau yng ngafael ac o dan lywodraeth galon-garreg Ei elyn mawr?*

*Yr eiddoch yn gywir,*

*Bessie Jennings*

*(ynghyd â deugain o enwau eraill)*

Gwraig hoffus a swil oedd Bessie Jennings. Sut y gallai fod wedi llunio'r fath lith ac arwain y fath brotest? Sut y gallai gywain yr holl enwau (llawer yn fwy anhysbys na'i gilydd am nad oeddent byth yn dod ar gyfyl y cwrdd, eraill yn anhysbys hyd yn oed yn y cwrdd) a hynny yn ddiau o fewn ychydig oriau? Neb yn barod i wrthod yr hen Bess. Wedi'r cwbl, beth oedd yr ots? Yng nghyfarfod Merched y Wawr, o bosib. Wel, dyna ni. Rhaid ei bod wedi teimlo i'r byw. Neidiasai i gasgliadau ffansiöol os uchelgeisiol gyda phendantrwydd yr anwybodus yn ei gylch ef a Wili Eston, cyn iddi eirio'i phoen yn y fath ffordd.

Enciliodd Len i'w astudfa. Darllen dwy bennod o'r Epistol at y Ffilipiaid. Ymostwng ar ei liniau yn y drafft main drwy'r ffenestri. Ac aros.

Ryw ddwyawr a hanner wedyn clywodd stŵr cymedrol y tu allan i'r tŷ. Rhuthrodd i gyn-ffenestr y parlwr.

Ac yno, drwy gil y llenni, gan gario baneri'n dwyn sgrecheiriau huawdl megis 'Bradwr Crist', 'Yr hen ŵr brwnt,' 'Carther yr Achos,' yr oedd twr cryno o ddynion a gwragedd a hyd yn oed plant o'r pentref yn strancian. Daethant yn swrealidd hyd at ei lidiart heb fentro ymhellach, ac yr oedd eu hwynebâu'n ubain a'u llygaid yn llogach. Gallai Hogarth neu Dürer fod wedi cael hwyl braf yn eu cofnodi. Adwaenai Len hwy oll ac un. Yno roedd Bessie Jennings yn y cefn. Dacw Erfyl Mathias Hughes B.A.; Jane Williams neu Jane Thomas ddigymeriad, anodd cofio p'un (pan fu farw yn fuan wedyn, nid oedd neb o'r braidd wedi sylwi: 'wnaeth hi ddim sylwi chwaith); Saunders Lewis, a elwid felly nid am mai dyna oedd ei enw (nad oedd ond yn John Jones, ond am iddo meddai fe ymweld ag Ewrob); Wat (Wacyn yn Gymraeg) a Bethan Nessah; a Twm Adams y llwyddodd Len i ddod o hyd i arian gan wahanol aelodau i gynorthwyo'i fab pan ddaliwyd hwnnw'n ddisiwrin mewn salwch dwys yn Ffrainc adeg gwyliau, dyna fe a'i aelïau duon a'i glustiau-letys digrif; a Peggie Cohen druan a'i gŵr fel morgrugyn anorecsig o dan ei chesail, a

Grahame Deicyn (na chawsai bwl o ddirwest ers tro byd); Syd (neu Syt) Wilias; comiwnydd oedd Syt, cyn belled ag y gall Cymro fod yn Gomiwnydd (chawsom ni ddim comiwnyddion, dim ond parodïau) a'i wraig Pam yn rhyddfrydreg niwlog ronc. Dyma nhw yn gryno grwn hefyd, un ac oll a llu o rai eraill, llawer y bu ef o bryd i'w gilydd yn gymwynasgar tuag atynt, bron llond mynegai o'i weithredoedd gwasanaethgar drwy gydol y blynyddoedd diwethaf, roedden nhw yno yn nhrefn yr Wyddor bron, yn oriel lawen o'i orffennol yn dathlu-euogfarnu ei ddyfodol. Ac yn gofyn cwestiynau. Enwai cydwybod Len hwy fesul un wrth i'w lygaid fwrddsglefrïo o'r naill i'r llall. Ac yn eu canol, yn dalach na neb, gwelai wyneb diniwed-bryderus dyrchafedig Alwyn Brown. Dyna'r llanc defosiynol druan a ddirdynnwyd oherwydd ei led gynghori dro'n ôl i farnu drosto'i hun y weithred o chwarae ar y Sul.

Gymaint a ymguddiodd rhag y tipyn ugeinfed ganrif!

Ciliodd Len lwrw'i gynffon i gefn ei dŷ. Ymlusgai heibio i'w lyfrgell lle y safai'i ysgolheictod yn heriol yn ei resi myfyrgar, heibio i'r silffoedd lle y dafnai'r sylwedd a'r awdurdod, baglai heibio i'w awyrgylch o fodlonrwydd cadarn a dysg ddi-hysbydd, a suddodd ar ei liniau gwanllyd drachefn. Suddodd ymhellach ar ei fol yno. Ymledodd ar ei wastad ar hyd y llawr. Roedd ei gylla'n wylo. 'Dim ond cant-a-deg y cant wnaiff y tro yn awr, ddim mymryn llai. Ddaw hi ddim heb Dy fod di'n fy ngorlenwi gant-a-deg y cant. Os gadewi un gornel sych bydd y Gelyn ddi-afol yn gwybod i'r botwm coch. Bydd yn rhuthro i osod ei faner. Rhaid i Ti, dim ond Ti, fod ym mhob twll a chornel ohono-i, wyt Ti'n clywed Arglwydd, a'th wynt gorthrechol yn amddiffynfa rhag hunandosturi.'

Bu'n myfyrio beth ar ei fol yn y fan yna — yn ofer, ofer, — nes i'r cythrwfl droi'n dangnefedd hyfryd y tu ôl i'w glustiau. A hunodd yn y diogelwch glân.

Fore trannoeth, er teimlo euogrwydd oherwydd esgeuluso Wili, penderfynodd gyrchu ar ei union i weld Bessie Jennings. Os hi oedd wedi llunio'r petisiwn, yr unig ffordd i ymateb i beth felly oedd drwyn-yn-nhrwyn. Ni allai ef ymdrechu i fynd ymlaen â'i fywyd tra oedd gelyniaeth ddiangen o'r fath ar gerdded. Ei reddf ef, felly, oedd wynebu'r symudiad yn blwmp.

'Bessie!' estynnai'i law tuag ati wrth iddi agor y drws. Roedd hi wedi cael ei thynnu o ganol ei dwstio gan gloch drws y ffrynt yn groch. Roedd ei hwyneb yn sgarlad fel euogrwydd. Chwythai hi ar yr ychydig o flew ysgafngoch a frigai ar ei gwefus uchaf. Yn briodol iawn, anwybyddodd hi'r llaw. Safai hi'n stond o'i flaen.

‘Dim?’ ebychai hi yn gyhuddgar. Doedd hi ddim mewn hwyl cymrodeddu.

‘Bessie!’

‘Does arnoch chi ddim awgrym o gwilydd?’ meddai hi’n bren, ond yn bren gwylaidd. ‘Dim?’

‘Ga-i fentro i mewn, Bessie?’

Fflachiai ei llygaid, fel pe bai’n rhybuddio’r drafnidiaeth a nesâi at ei chroesffordd fod yna ddamwain eisoes wedi bod.

‘Dim?’ Roedd ganddi’r math o ben meddal ond sur hwnnw nas ceir ond drwy’i adael wedi’i drwytho dros bum noson mewn llaeth yn anterth haf.

‘Ces-i ddod ’mewn yr wythnos diwethaf,’ ychwanegai ef.

‘Mae’r byd wedi dod i ben oddi ar hynny.’

‘Does dim wedi digwydd, chi’n gwybod.’

‘Dim! Dych chi’n galw hynny’n ddim felly? Y bachgen yna. Oedd e’n ddim? Druan. Dyna’r drwg gyda chi’r eithafwyr rhywiol, dyw’ch gweithredoedd chi’n ddim. A’r toiled. Wel, dyna fe. Dim! Bydd yn rhaid ichi *ennill* yr hawl i’*m* helpu *i*, ac i helpu unrhyw un arall parchus gyda’ch dim yw dim o hyn ymlaen.’

‘Ond Bessie, dych chi byth yn coelio’r hunllefau hyn?’

‘*Un* tyst efallai, na, byddwn i ddim yn ei gredu. Ond dau! Tri! Cwilydd arnoch chi, Mr Llwyd. Chi o bawb! Ac yn awr, felly, yr hogyn.’

‘Ga-i ddod ’mewn Bessie?’

‘Pam neno’r Tad?’

‘I esbonio debyg iawn.’

Gorchfygwyd hi’n briodol gan ei chwarteisi cynhenid ei hun. Ciliodd o’i flaen, a cherddai parchusrwydd o’i hôl fel y bydd pekinese yn rhodio gyda’i meistres yn y parc. Sleifiodd Len Llwyd i mewn yn sgil y ddau. Wedyn, sylweddolodd mai camgymeriad fu. Bu’n rhy ddiniwed. Fan yna yr oedd ef ar ei ben ei hun gyda gwryfyddod mil-o-foltiau hen ferch, ac nid gyda menyw yn unig, ond gyda gwrthwynebydd hygoelus.

‘Esbonio beth? F’esbonio i, debyg!’

Corddai Bessie Jennings ei meddyliau’n gynddeiriog gan atal yn hunanddisgybledig gymaint ag y gallai o’i gwrthdystiad rhinweddol: ‘*Disgyblaeth*, Bessie, dyna dy ddelfryd,’ meddai hi wrthi’i hun. Roedd hi bron â ffrwydro. ‘Ond mae’n ddyrys ferched! Mae’n anodd,’ treiglodd yr hunanddisgyblaeth fel catrawd o ddiaconesau drosti. ‘Rwyt ti’n

wareiddiedig merch i. Does dim eisiau ymlusgo i lawr i'w lefel e. Ond bobol bach! Bessie, mae'n *anodd*. Fe fuodd 'na heddwch yn y gymdogaeth ar waith un adeg, heddwch a chwarteisi, yr hen ffordd Gymreig o fyw, corau, canu penillion, dawnys Llanofar, bara lawr, cynganeddion, cyryglau, popeth, cyn i hwn ddisgyn ar ein gwarthaf. Ydy, *anodd*.'

Clywai'i gweinidog yn llefaru. Yn fwynaid y llefarai hwnnw gyda hi. Ceisiai bledio angen Wili, ond yn ofer. Wedi'r cwbl, credu fod yna esboniad arall oedd ei dyhead hi. Gwelai Len ei fod yn gwastraffu'r sedd odano. Cododd. Estynnodd ei law seithug o'r newydd i ffarwelio fel bocsg casglu elusen, yn rhy sydyn efallai, heb fod yn ddigon gofalus gan ei bod hithau'n chwynr ymwrthodol ar ei ôl wrth gwrs. Ond wrth iddi droi'n ddisymwth cyffwrddodd ei law lefn ef â'i braich fras hi, yn agos i'w mynwes eithr ar synhwyrau ei braich yn bendant. Cyffwrdd! Os do! Ciliodd hi'n ddisyfyd mewn cryndod. Sarnwyd yr elusen. Disgynnodd yr wybren.

'Nid rhywun o'r math yna ydw i,' sgrechodd.

'Sut?' holodd ef wedi'i ddrysu.

'Cyffwrdd,' dolefodd hi.

'Beth!'

'Roech chi'n ceisio ymaflyd yno-i ddyn.'

'Na, na, Bessie. Ble?'

'Oech. Roech chi'n ceisio ymyrryd â *fi*.' Magai'i braich fel pe bai wedi'i chlwyfo. Y math o fraich sylweddol oedd hi yr hongiai'i bloneg niwmatig wrthi fel trampolin. Ond nid oedd Len am neidio.

Nid dyma'r amser i hwyl.

'Oech, y cythraul ewn. Cyffwrdd!'

'Pam y ceisiwn i wneud peth felly? Pam?'

Roedd hi'n wincio arno'n anfwriadus fel un o'r goleuadau traffig toredig sy'n eich hysbysu y cewch fynd yn eich blaen, ond gwell ichi beidio rhag ofn y bydd rhyw ffŵl yn carlamu ar draws eich llwybr yr eiliad olaf.

'Dwi'n mynd i ffonio'r glas,' meddai hi gan laswenu.

'Bessie!'

'Rych chi'n wallgofddyn rhywiogaethol.'

Trodd at y ffôn heb fod yn gwbl siŵr a oedd 'rhywiogaethol' yn ansoddair rhy fyr i'r cam a gawsai hi. Ond ni allai'i llygaid oddef rhoi lletygarwch i wên.

‘Ond beth dych chi’n wneud, Bessie?’

‘Yr heddlu debyg iawn. Dwi eisiau hedd.’

‘Yr heddlu, peidiwch â bod yn wirion, Bessie fach. Peidiwch â gweithredu ar eich cyfer, ar frys. Peidiwch â gwneud dim y byddech chi’n difaru o’i blegid.’ Sgwariai hi gerbron y fath lif o synnwyr cyffredin. ‘Gwyddoch gystal â finnau nad oes dim wedi digwydd,’ meddai fe.

‘*Dim*. Dyna fel rych chi o hyd, eich math chi o bobol felly. *Dim* eto. *Dim* o hyd. Ie. Fel cytgan. Cyffwrdd! *Dim* byd ... ond ceisio’n gyfrwys ymyrryd â fi. Dw i byth yn ddim.’

Ystyfnigai-hi. Roedd ei hanrhydedd a’i statws fel arweinydd petisiwn ar brawf. Ffoniodd hi 999. Mynnai warineb mewn bydysawd o ymyrryd. Ysgydwai yr un pryd ei haddewid nid hollol ddiurddas o fwstás.

‘Fy *mraich!*’ Anwylai hi o hyd y dywededig aelod. ‘Dim?’ Crinai papur sidan ei hamrannau.

Câi Len Llwyd gryn anhawster yng nghanol y storom hon wrth syllu ar Bessie Jennings i ddenu’i lygaid yn ôl oddi ar ei gwallt, nid oherwydd ei bod yn teneuo ar y corun fel pe bai ar esgor ar ddiniweidrwydd wy, ond oherwydd y wawr symudliw, gan fod sawl cenhedlaeth o liw, yn ôl sawl ymweliad â fferyllydd Caerafon, a sawl ymdrech gariadus uwchben y sinc gyda’r nos, wedi cyfrannu at y bwa-arch cynnil os diraen a gyfansoddai weddillion ei gwallt prin, bwa na chyhoeddai’r un diwedd i storm briodol ei gwrthdystiad.

Dyma’r heddlu’n ymbrydloni. Roedden nhw’n gallu’i wneud pan na fyddai eu hangen. Ond drwy drugaredd roedden nhw’n gallu bod hefyd yn annaturiol o glên gyda phethau fel hyn. Gwrywod oedden nhw a wyddai eu lle.

Ysgydwai Bessie Jennings ei braich gyffyrddedig ofnus gyda phenderfyniad priodol merthyraidd. Roedd hi wedi bod yn ddiwyro ynghylch cynnal ei thrwyn a’i gên mor dduwiolfrydig ag y gallai. Yr oedd y siglo penolaidd a breichiol cynnil yn gryn gynhorthwy o safbwynt cydbwysedd. Y funud yna, hyhi a gynrychiolai rinwedd Annibynia.

‘Dwi eisiau *cyfiawnder*. Merch dw i. Merch, cofiwch. Bob tamaid ohono-i.’

Aroglai o bell unionfrydedd glanwedd y gamp rywiogaethol honno.

‘Mae gan ferched eu hawliau,’ meddai Len yn ofnus.

‘Mae’n ddrwg gynnon ni Mr Llwyd. Mae’n rhaid inni gymryd y gŵyn yma o ddifri. Hawliau, welwch chi. A fyddech chi mor garedig â dod draw i’r orsaf. I wneud datganiad?’

‘Gwnaf ar bob cyfri.’

Bodlon oedd Bessie. Dilynodd hi'r ddau heddwes allan o'r tŷ gan ddal i siglo'i phen-ôl ag ystum rhywun a wyddai'i bod wedi cyfrannu rhywbeth, taw pa mor ddistadl, i wareiddiad y gorllewin. Nid hen ferch yn unig moni mwyach. Ond merch y cyffyrddwyd â'i braich wybodus! Câi ei 'dydd' heddiw. Pencampwreg ar ran cyfartalrwydd breichiau. Gwelai Len olwynion Cyfiawnder merched ac Annibynia merched a hyd yn oed Chwaeroliaeth merched yn malu ynghyd o amgylch ei glustiau'n araf ond yn fân unwaith eto, nes ei fod yntau hefyd yn gwybod ei le.

Ni buwyd yn hir cyn dod ag achos newydd sbon Len o flaen llys fawr yr ynadon. Ond hyd yn oed er bod Bessie wedi mynnu gwneud ei gorau glas a phriodol i fynnu estyn ychydig bach ar ei stori, a'r ynadon lleol hefyd mor ffyddlon o bwysig ger ei bron, ac yn ferched i gyd mewn glas, ni lwyddai hi rywsut i gyfleu'r ffaith anamlwg i bawb fod estyniad-llaw Len Llwyd wedi golygu gwir ymosodiad ysgeler. Cyffwrdd oedd, yn ddiamau. Damwain eithriadol o anffodus. Eto, ni chynhyrchwyd eithaf digon o fwg rywsut y tu ôl i'r cynheuad dihiraeth hwnnw i wneud tân. Ond dyna ni: cafwyd tusw mân o fwg y tro hwn drachefn, rhaid cyfaddef... Ac y mae i hwnnw ei ddefnyddioldeb yn yr hir dymor.

Câi Len esgyn yn ôl i fynwes Llanbiblig drwy'r tusw tenau ond dirfodol hwnnw, heb ei ddiennyddio y tro hwn.

Estynnodd ei law seithug tuag ati'n gymodlon. Ond llwyddodd hi yn ddeheuig i osgoi'r atodiad peryglus hwnnw.

'Ches i ddim f'alltudio i Awstralia y tro hwn, Bessie fach.'

Yn groes i'r graen, ac er mawr siom i ambell un, gadaw-wyd ef yn rhydd gan yr heddlu, ynghyd â thipyn o rybudd-na-rybudd. Efallai y dylai ef fod yn fwy carcus ei annel yn y dyfodol. Efallai na ddylai byth edrych ar ferched. Efallai y dylai bicio i'r lleuad. Deallent y sefyllfa yn burion. Er hynny, ac er gwaetha'r gollyngiad ymddangosiadol, ni allai fod yn gwbl sicr na chafodd ei grogi ryw damaid o bosib.

Pan ddychwelodd Len i dŷ Wili, er hynny, yn fuan ar ôl y dyfarniad ar ei gyrch am ben rhinweddoldeb Bessie, wedi llenwi'i feddwl ag amynedd a difrifoldeb a tships, yr oedd y llanc yno yn wên o bared i bared. Yr oedd y tegell yn tiwnio'r llestri ar y ford yn barod.

Synhwyrail Len ei fod o'r diwedd yn cael ei dderbyn i'r cartref. 'Gymerwch chi, yn gydymaith, ddyn y mae'i fri'n dipyn o *ordure*?' holai ef yn fentrus.

Ystyriai Wili yn ofalus: 'Pob peth da i'r ardd. Dim ond ichi fihafio o hyn ymlaen.'

'Gwarth yw ei enw.'



‘Shw mae gwarth!’

‘Gwarth wedi’i garthu.’

‘Cadwch eich dwylo yn eich pocedi,’ roedd Wili’n wên o-glust-i-glust.

‘Y peryg yw eich bod yn cymysgu gyda charidým dansierus.’

‘Wel, tipyn o Fyddin yr Iachawdwriaeth fues i erioed,’ meddai Wili.

‘Os nad yw e wedi’i grogi eisoes, maen nhw’n meddwl y dylsai fod.’

Pwysai Wili y sefyllfa’n ffug-bwylllog. Pe bai ganddo dei, bysai wedi’i unioni. ‘Mae eisiau bod yn ddethol yn y tŷ hwn.’ Ac eto, gyda difrifoldeb pwyllgorwr, ysgydwai ei law’n frenhinol i’r awyr ar led wrth gyflwyno’r sefydliad. ‘Croeso i syberwyd.’

‘Fyddwch chi ddim eisiau ymuno mewn peth o’r erlid felly?’

‘Croeso ... amodol felly ... i b..barchusrwydd.’

‘O leia rŷn ni’n dau wedi cael ein gosod yn dwt o’r neilltu,’ meddai Len yn gydymdeimladol ymarferol.

‘Yn y bŷn, ddim llai. A’r clawr arnon ni.’

‘Brodyr yng nghyfraith ydyn ni mewn baw,’ meddai Len.

‘Baw di-fraw,’ canai Wili. ‘Bow-wow. Wow!’

Y tu ôl i’r gwamalu ysmala’n malu i gyd, rywfodd yr oedd Wili bellach wedi closio at y dyn. Yr hyn yn anad dim a synhwyrai Wili o’r diwedd wrth dderbyn Len oedd bod gan hwn yntau hefyd, yn nwf n drobll ei fod, anghenion. Fe’u hamgylchid ill dau, a phob dau, gan anghenion. Cyd-waedu’r oeddent gyda’i gilydd mewn tangnefedd. A diddanwch.

*Annwyl Maxine,*

\_\_\_\_\_ [Ar ôl adroddiad go fanwl ynghylch helbulon teuluol Menna a thraethu’n llethol am y rheidrwydd i ail-doi ei thŷ ei hun, meddai Mair]...

\_\_\_\_\_ *Mae’n dda gennyf glywed dy fod yn mwynhau d’arhosiad.*

*Gallaf dy sicrhau nad oes dim pellach o feddwl hyn o lwch ar waelod grât y byd nag ailgynnau tân mewn llygaid gwrywaidd.*

*Alla-i ddim ond dymuno ‘hela da’ i hen ffrind uchelgeisiol. Pob hwyl i ti ar y tanio tyner.*

[Yna cafwyd pum tudalen manwl a blinderus braidd yn adrodd helyntion y Gymdeithas

Gymreig yn Sydney ac Oxfam ac yn y blaen. Heb ddim arall. Yr oedd Mair fel pe bai wedi colli'r trê.]....

*Yn gynnes, a chariad go iawn,*

*Mair*

Ymhen wyth wythnos neu naw ar ôl i Len ymsefydlu gydag ef, yr oedd ysbryd Wili yn well; ond wrth gwrs, nid oedd wedi gwella. Roeddent ill dau wedi ymdawelu gryn dipyn. Roeddent wedi dechrau ymfodloni ar fodolaeth ei gilydd, yn Adar Creim. Enillasai Len ei sbardunau.

Gallai Wili yntau o'r diwedd syllu allan ar y byd gan ddisgwyl peidio â chanfod cyflafan ym mhobman. Bu clywed am helynt Bessie Jennings yn gryn gordial iddo. Roedd Len wedi'i lusgo allan o lysnafedd y dwinsiwn i ymuno â'i ddyfnderoedd troseddol ef. Dyma deimlad mor newydd o fodlonrwydd fel y byddai wedi hoffi'i osod mewn cadw-mi-gei. Wedyn, câi bob hyn a hyn lithro cylllell drwy'r agen yn y fan 'na a thynnu sleisen o'r gwresogrwydd hwnnw i'r golwg i edrych arno'n gybyddlyd lafoeriog, cyn ei wthio'n ôl. Diau mai llesol fuasai pe bai pob Barnwr mewn llys barn wedi profi'n gyntaf y cywilydd o fod yn droseddwr... "Ym!" meddyliai Len, dichon y gellid ei drefnu.

Eto, er balched oedd ef yn y bôn i gael cwmnïaeth o fath Len, bygythiad i Wili fuasai presenoldeb unrhyw gydymaith arall. Ysbail breifat oedd cwmnïaeth yr aderyn creim hwn. Dysgasai Wili'n ddiweddar ddrwgdybio'r holl bobl ddaionus a ddifwynai'r ardal, er bod y person amwys hwn yn gymharol annaionus bellach drwy drugaredd. A sylweddolai Wili nad oedd Len yn neb mewn gwirionedd. Caniatéid iddo yntau'i hun o'r herwydd fod yn fwy o neb. Ac felly, croesai dros y weiren bigog i dir neb o gyfeillgarwch aliwn.

Ambell hwyrnos fwy diddig na'i gilydd, chwaraeai Len a Wili gerdiau.

Ac wedyn, noswyllo a wnaent wedi blino'n fwy nag arfer.

Un noson groyw arbennig, noson ffres newydd-gyrraedd-y-siop, cododd Len i hwylio cwpanaid o de cysurlon iddo'i hun berfedd nos. Gan ei fod heddiw yn drigain oed ac yn dioddef o'r gwynegon, roedd wedi cyrraedd yr oedran pryd roedd yn synnu braidd o'r newydd bob dydd wrth gael deffro i fywyd o hyd. Roedd agor llygaid o'r newydd yn destun diolch wrth iddo sylweddoli drachefn amgylchfyd trist yr amseroedd, ... a'r cyfle iddo ef weithio. Eto, ym mha goridor bynnag y crwydrai, dilyn a wnâi dolur, megis ci anwes. Poen oedd ei gariad oll. Glynai hi'n bur ffyddlon wrth ei gysgod, wedi'i lapio mewn

blynyddoedd. Ond, diolchai am fyw ychydig eto: nid oedd yr un boen a'i hoffai ef nas hoffai hi.

Aeth yn ôl i'w wely, felly, a throi a throsi am oriau, nes profi'r rheidrwydd i godi drachefn.

Methodd ag ailgydio yn ei gwsg ar ôl codi i'r toiled tua chwarter i dri. Ymbalfalai yn awr i'r bore-bach unig claeaf. Wrth iddo ddod i'r gegin, yn ebrwydd sylweddolai nad ar ei ben ei hun yr oedd ef yno. Disgynnodd dirgryndod drosto. Wrth y ffenest safai ffurf anffurfiedig ac unig Wili. Noson serog oedd hi o hyd. Noson fawr, ond bore bach unig. Roedd llygaid Wili, fel petaent wedi'u doddi yn daclus fel dannedd gosod mewn cwpan a heb ddim arall i'w wneud, wrthi'n casglu'r sêr. A gwin sarn y lleuad. A'u casglu'n llythrennol a wnâi fel sagrafennau. Teimlai Len rywsut ei fod am foment yn tarfu ar funud gysegredig. Ac o'r neilltu, yn anwel, ni allai lai na chyflwyno saeth-weddi ddiolch.

'Ti'n gwybod...' meddai Wili. Ond ni allai orffen ei frawddeg.

Safai'r gŵr ifanc claf yn gwbl lonydd yn ei unfan fan yna gerbron Len a gadael i'r distawrwydd ddefnyddu drosto. Mor lân a gwlyb yr ymddangosai'r sêr bob man yn sych-ddiferu ar wyneb y nos. Glân oedd hyd yn oed y dŵch ei hun o'u cwmpas. Y tu mewn i'r llanc ceid bod ei fodolaeth glaf ei hun, bron mewn modd addolgar ac felly'n groes i'r graen, yn cydnabod yr ysblander glanwedd hwn. 'On'd yw hi'n anghyffwrdd?' meddai'r llanc wrtho'i hun. Mor lân oedd y nos.

Ym mhob man, mi gaed harddwch diedifaf. Anesmwythai ef, — rhag iddo edmygu'r harddwch yn ormodol.

Sylwai Len fod yna ôl gweithio yma ac acw yn yr ystafell. Caed olion rhywun a fuasai'n paentio yn ystod y nos, tan orwedd ar y llawr. Cawsai ef awgrymiadau cyffelyb o'r blaen yn yr un ystafell. Edrychai yn awr hwnt ac yma. Mae'n amlwg y codai Wili ar ôl i Len noswyllo. Parhâi i baentio pan fynnai pawb arall freuddwydio. Dyna yn wir oedd ei raglen nosol gudd: llafurio'n llesg ar ei fol uwch ei gelfyddyd pan oedd Len i fod i dybied mai cysgu yr oedd, ac yna glirio'r dystiolaeth honno o'r golwg cyn i'r ditectif gyrraedd gyda'r bore.

'At ei gilydd, gwell gen i sêr na dynion,' meddai o'r diwedd wrth Len, heb droi, ac eto gan gydnabod ei bresenoldeb. 'Maen nhw'n parablu'n gliriach.'

Yna, daliwyd llygad y gŵr ifanc gan y lleuad amyneddgar. Ac ar ôl cael ei ddal felly yng nghyhyrau'r lleuad, rhewai am na allai ddianc rhagddi. Gyrru gyrru dros yr wybren a

wnâi honno, yn lân ac yn oer, ei holwynion yn araf i ddechrau, ond yn greulon wedyn. Torri corneli yn ei brys annisgwyl; bron â throi drosodd wrth gyflymu o gwmpas y tro y pryd hynny, heb byth aros i adfer ei hanadl, heb ddim trugaredd, dim atgyfnerthu, drwyddo drosto tan yrru'r misoedd tuag at y wal fel pe bai am gyrraedd cyn gynted ag oedd yn bosib, bob bore, unwaith eto, wrth ddihuno yr oedd wrthi'n chwipio yrru bob hwyr, dro a thrachefn, hyrddiai yn ei blaen drosto yn ei harddwch canol nos. Pam Dduw? Pam y lleuad hefyd? Pam frys? Pam mor ofnadwy o unplyg? Haul a lleuad. Gyrru, ei yrru ef ar hyd yr wybren lân, o un pen i'r llall, a'r nosweithiau serog fel heno megis y rhai di-sêr hefyd neithiwr yn diflannu y tu ôl iddi'n gyson. Fel artist, yr oedd difrifwch cyfrin wedi digwydd yn ei fywyd, ac fel catalyst wedi'i serio.

'Yr wyf yn casáu, ergo yr wyf,' meddai'r gŵr ifanc yn uchel-frathog.

Yna, troes yn fyfyrgar rhag y glendid, a rheg gynnil yn ei galon. Sylwodd yn fanylach 'nawr ar dawelwch Len y tu ôl yn syllu arno yn llawn chwilfrydedd. Ceisiai Wili gloffi heibio iddo heb dorri gair, a chyrcu'n ôl i'w wely'n ddisylw. Ond ymataliai'n gynnil. Roedd y tawelwch hen wedi ymosod arno.

Er eu bod yn dechrau closio o ran goddefgarwch, roedd Wili'n benderfynol o hyd i beidio â dangos ei fod yn erfyn y gymwynas leiaf. Hyn wedi'r cwbl a'i gwnâi'n Wili. Ond gan bwyll, sylweddolai dynerwch gwylaidd Len. Ac aeth hyn yn destun pendroni i Wili.

Yn ddiweddar, wrth i Wili wylid ei warcheidwad newydd annifyr yn twtio'r lle ambell dro, yn paratoi bwyd heb dorri gair, yn sgrifennu'i bregethau diflas, yn darllen ac yn gwneud nodiadau annifyr ar gerdiau bach i'w ffeilio, ac yn hwylio allan yn fynych i weddïo neu i fugeilio, disgynnai'i amddiffynfeydd ymosodol ychydig yn ôl. Po fwyaf o bresenoldeb anynad Len a gâi yno, mwyaf yr âi hwnnw'n arferedig. Âi yn rhan o'i amgylchfyd anochel. Dechreuai Wili dorri ambell eirynd mwy anffurfiol na'i gilydd. Ambell gyffes gota. Gollyngai ambell ddiolch gwarafunus hyd yn oed, drwy gornel ei enau. A dôl'r ymddiddan rhyngddynt yn anghyfforddus o normal.

Sylweddolai Len fod yna berson archolledig ar goll y tu ôl i'r mwgwd. Sylweddolai hefyd y byddai manteisio ar hwnnw, drwy geisio proselytio heb fod y dymheredd yn claearu, mor anghyfaddas â moesegu ar ganol telyneg. Efallai y byddai Wili'n ei broseltytio ef.

Yn sydyn, troes Wili ei lygaid yn ddi-ddweud a'i hoelio ar aelïau Len: 'Fues i'n wael wrthoch chi. Wnes i gam. Allwch chi faddau?... Gallwch, mi wn. Ond allwch chi yn eich calon? Gallwch, wrth gwrs. Ond alla innau ddim difaru'n iawn. Ddim hyd fy ngholuddion.'

Bu Len yntau yn ei dro yn hoelio'i lygaid ar aelïau Wili. Ac fe'i câi yn annwyl.

'Cyn ichi syrthio'n sâl, Wili, beth yn union oedd eich gwaith?'

'Mi chwârddwch.' Ond ymgynhesai Wili oherwydd y diddordeb.

'Na: chwârdda-i ddim ta pa mor od bydd e. Dw-innau'n gwneud gwaith digon gwirion.'

'Bysech chi'n weddol amharod i gredu'r peth.' Gadawai i wên led chwarae y tu ôl i'r drws ar draws ei swch.

'Mi synnwch. Mae Cristion yn credu'r pethau rhyfeddaf.'

'Gwaith arbenigol oedd e, mor arbenigol nes iddo fod yn gwbl ecsentrig.'

'Dwedwch te. Esboniwch.'

'Ddweda-i ddim. Mae'n stori fer hirfaith,' meddai Wili'n llawn meddalwch, ond yn anesmwytho o hyd.

'Mae gen i ambell orig wrth law.' Dyfal yw tramwy clustiau cyfaill.

'Yn ôl ymhell, yn nyddïau 'mhlentyndod y dechreuodd. Bu farw mam a nhad go iawn mewn tân.'

'Nid eich rhieni felly yw, oedd ... '

'Na. Mi achubwyd fy chwaer, Helen, sy'n hÿn na fi, a finnau, a dau o'm brodyr os oes ots am y rheini. Mae ofn tân ar Helen byth wedyn.'

'Dyna pam yr aeth hi i Awstralia?'

'Ddaeth 'y modryb a'm hewyrth yn *fam* ac yn *dad* inni. Dyna 'dÿn ni'n eu galw nhw o hyd.'

'Chwarae teg.'

'Alla-i ddim o'u goddef nhw. Rown i'n rhy ifanc braidd ar y pryd i ddirnad beth oedd ar gerdded. Ac eto roedd 'y ngreddfau i'n gallu llefain.'

'Hiraeth am eich rhieni?'

'Hiraeth am bopeth. Efallai mai hiraeth oedd 'y ngwir riant i. A'r hyn wnaeth yn chwaer, ar ôl inni symud at 'modryb i fyw, oedd pwr casu cangarw gwlân. Roedd hi'n ddwl amboitu Awstralia... am ei bod hi'n bell, siwr o fod. Yn bell oddiwrth ffug rieni. Yn bell o Gymru. Y cangarw hwn oedd cysur yn ffroenau i. Hwn oedd yn dod i'r gwely gyda fi. Hwn oedd 'y nghydymaith yn yr ysgol. Hwn efallai oedd 'y mam a nhad go iawn. Ac felly hwn oedd 'y nghwmni dibynnol.'

'Cangarw! Welais i erioed ffasiwn degan yn siopau Cymru.'

‘Fe dreuliwyd yr un cyntaf hwnnw o fewn trimis. Roedd e’n yn hebrwng i i bobman. Bu’n rhaid prynu creadur cyffelyb, un mwy, un meddalach.’

‘Hwn oedd yn gofalu amdanoch chi?’

‘Ie, yn bendant. Ac felly drwy’r blynyddoedd yn un olyniaeth lamsachus, o gangarw i gangarw. Daeth yn fath o dotem ifi. Doedd gen i fawr o ddiddordeb yn Awstralia. Cangarwod oedd y peth. Yn rhyfedd iawn, os rhyfedd hefyd, pan fyddai’r plant eraill yn yr ysgol yn darlunio dynion a thai a threnau, yr hyn rown i’n ei hoffi oedd tynnu lluniau o gangarwod.’

‘Daethoch chi’n dipyn o giamster?’

‘Gallwn eu harlunio o’r cefn ac o’r ochr ac o’r tu blaen, yn llamu, yn sefyll ar goesau ôl, yn pwysu ymlaen i bori gyda’r joey yn pipian o’r cwdyn, yn sefyll yn dalog ar eu coesau ôl i baffio. Doedd dim un osgo gan gangarwod na fyswn i’n ymwybodol ohono. Dysgais-i bopeth amdanyn nhw. Popeth. Fi oedd brenin y cangarwod.’

‘Ond beth sy a wnelo hwn â’ch gwaith mewn oed?’

‘Yn yr ysgol doedd gen i fawr o ddiddordeb yn ’y ngwaith academaidd, ... heblaw am arlunio. Drwy dynnu lluniau cangarwod y megais i’r grefft o arlunio. Dechreuais i ddwlu ar y gwaith. Dysgais wrth gwrs sut oedd tynnu lluniau o fathau gwahanol eraill. Golygfeydd, pobl, ffatrioedd, anifeiliaid o bob math. Ond A! pan fyddwn i’n blino mi fyddai f’ymdrechion yn disgyrchu’n ôl, rywfodd, i fyd y cangarw. Gadewais-i’r ysgol ar ôl cael A mewn arlunio, ac M mewn ysgrythur ar safon A, heb ddim oll i’w wneud wedyn. Llamu i ffwrdd. Dim swydd. A dyma’r cangarwod — fel y cafalrî mewn ffilmiau — ar drywydd f’achubiaeth.’

Teimlai Len ers tro ei fod yn cynhesu at Wili. Rhyfedd fel yr oedd rhyw odrwydd gwahân yn tynnu eneidiau at ei gilydd. Y fath gysylltiad yw gwahaniaethau. Gorau po fwyaf ecsentrig. Mae pawb yn hoffi gwendid.

‘Rown i wedi codi chwilfrydedd golygydd y papur lleol. Roedd e’n byw ar bwys tŷ ni. Oherwydd ei adnabyddiaeth o’r dawn hurt, fe ges i gais eithaf hael ganddo-fe ifi lunio cyfres. Bob wythnos ces i lunio cartwneau ynghylch Gwrw y Cangarw Call.’

‘Gwryw?’

‘Gwrw. Ef oedd gŵr doeth gwyllt y cangarwod. Treigladd o greadur oedd e. Treiglodd wedyn ar draws cadwyn o bapurau lleol drwy Gymru a Lloegr a’r Alban.’

‘Meddyliwch.’

‘Ond Awstralia ’wirionodd ar y creadur. Roedd e’n gwerthu fel slecs yno. Maes o law, ces i sawl comisiwn gan gyhoeddwy llyfrau anifeiliaid. Eisiau imi weithio lluniau difrif amrywiol o fywyd y cangarw roedden nhw. Ynghyd â moeswers gangarwaidd. Mi dreuliwn i wythnosau bwygilydd weithiau yn y sw yn gweithio brasluniau ac yn hel delweddau. Mi drais bengwin, — ‘Penddu’ y pengwyn, dyna’i enw — wedyn, ond methu. Adar hefyd, mae rhai pobl yn eu darlunio’n ddiderfyn. Allan nhw ddim ymatal. Dwi’n gwybod yn burion fod yna fagad sy’n cyfri *obsesiwn* o’r fath yn gyfrwng addysgol wael. Ond mae obsesiwn yn rhan gynhenid o natur pob person iach. Mi all arwain ymlaen i amgenach obsesiwn.’

‘Obsesiwn yw bywyd. Meddyliwch am y ffws mae pobl yn ’wneud i beidio â threngi.’

‘Fe dybir gan yr awdurdodau mai arwain at anghydbwysedd mae obsesiwn. Fel arall y ces i’r pethau bach blewog hyn. Drysau oedden nhw. Drwy golli ’mhen am gangarwod y dysgais i ddarllen go iawn. Mi ddysgais i beth oedd brwdfrydedd a dyfnder. Ac felly y dysgais i astudio rhywbeth o ddifri am y tro cyntaf. Maes o law des i sgrifennu math o lyfrau bach — y testun yn ogystal â’r lluniau — am ddirgelwch y Cangarw. Des i ddysgu llawer am ddaeryddiaeth, am fioleg, pethau na byddwn i byth wedi malio amdanyn nhw fel arall.’

‘Wel! Wel! I ti, athro oedd y cangarw.’

‘Proffwyd o fath.’

‘Ond fe gest ti rywbeth distadl braf yn ben arnat ti.’

‘Do, ac yn hoff gen i hefyd.’

‘Mae hynny’n lles.’

‘Mewn gwirionedd, os na bydd person yn llwyddo i godi rhyw obsesiwn allanol rywbyrd, — neu ddau neu dri obsesiwn o’r fath, yn ystod ei oes, — yna yr hyn sy’n digwydd yw bod yr hunan ei hunan yn dod yn obsesiwn. Y Macropodidae oedd y creadur digrif a’ m cadwodd i, ta beth, rhag ymgolli yno-i fy hun fel yna. Fe’ m carodd i hefyd. Ar y pryd o leia.’

Clyw-wyd cloch drws y ffrynt awdurdodol. A chloch eto, fel pwl o disian ar ganol gweddi. Edrychodd Len yn ddiymadferth ar Wili. A chodai yn anfoddog. Llidiai arleisiau

Wili. Siomwyd Len ar ganol ei sgwrs. Ei gyfaill, yr esgob, a gyrchasai yno, yn y bore bach, i'w weld. Roedd swch Wili'n ffyrnig oherwydd yr ymyrraeth.

'Clywed am dy helbul ddiweddaraf. Gyda rhyw Betthie Jenkinth.'

'Ydy hi wedi cyrraedd y papurau?'

'Ddim yn hollol.'

'Fues i'n annoeth.'

'Do. Ac yn noeth oth ydw i'n deall yr argoelion,' chwarddodd yr esgob.

'Anghofio'i bod hi'n ddiwedd ar yr ugeinfed ganrif,' meddai Len. 'Bysai wedi bod yn well peidio byth â bod ar 'mhen fy hun gyda menyw.'

'Yn gwmwth. Mae'n warthuth, ond dyna ni.'

'Hyd at bedwar ugain mlwydd oed, mae'n siŵr; a chofio'r amseroedd.'

'Yn hŷn! Cei fod yn goeg am y peth. Ond pwyll yw pwyll. Dyna pam y deth i ar fryth.'

'A phlant yw plant hefyd. Gwell peidio ag edrych ar blant. A dynion hefyd. Ac yn sicr, defaid. Ac eto ... Gwell iti fentro i mewn. Cadwa dy drowsus amdanat ti.'

'Doeth dim angen 'y ngwawdio i. Ar dy ochr di dw i.'

'Ond pwyll yw pwyll.'

'Mae hynny'n wir. Ac fe wyddoht ti beth mae hynny'n feddwl.'

Erbyn hyn roedden nhw wedi cyrraedd yr ystafell-fyw ac Wili'n edrych drwy lygaid tân ar y ddeuawd, ac yn neilltuol ar y llais a darfai ar ddeuawd y cartref.

'Ga-i dy gyflwyno di Bill. Wili, dyma 'nghyfaill, Esgob Maldwyn, Maesyfed a swydd Gaerafon, hen ffrindiau Prifysgol.'

'Dau William! A! Bore da,' meddai'r Esgob gan estyn ei law gytûn i'r awyr yn frawdol. Ddwedodd yr awyr ddim byd wrth Bill. Gwnaeth Wili ystum fel pe bai'n edrych allan drwy'r ffenest. Yna ymlusgodd ar ei draed. A thybiodd Len ac yn sicr Bill ei fod o'r diwedd ar fedr estyn ei law i ysgwyd atodiad yr Esgob. Ond wedyn cydiodd Wili yn ddisyfyd mewn fâs fel pe bai am ei daflu, yn ei ddychymyg â holl nerth bôn braich wanllyd, at y newydd-ddyfodiad diniwed. ... Chwareus oedd, a chwarddodd, gan ei osod yn ôl yn ei lle.

Chwiliodd yr Esgob am ei urddas a dod o hyd iddo drwy drugaredd. Fe'i casglodd yn ddiymdroi a chilio fel fflwff o flaen corwynt. Osgôdd yntau y cwbl yn ei ddychymyg; ond yr oedd peth ofn arno. Dyma lusgo'i barchusrwydd esgobol a'i Gristnogaeth-gyda-dŵr orau y



gallai allan o'r ystafell.

'Gwell ifi ei throi hi,' murmurai wrth Len a'r cyntedd. 'Mae'n dda gen i weld fod popeth yn burion.'

'Mae'n ddrwg gen i am hyn. Fe ddo-i gyda thi am dro bach. Dwi'n ddiolchgar iti am alw.'

'Doeth dim angen. Ond eithiau dweud rown i: byddwn i'n *cynghori* gwyliau hir eu gwala ... A chofia am y thwydd.'

'Ffoi felly? At yr Anglicaniaid? Bobol bach!'

'Oth dyna'r gair, purion. Doeth dim eithiau'i ddramateiddio.'

'Oherwydd Bes-sie?'

'Oherwydd be' thy,' cywirai'r Esgob ef.

'Cefnu ar 'y nghyfrifoldeb?'

'Pam lai? Gwyliau. Ymadael â'r tipyn bro yma am gyfnod digonol. Efallai. Cofia.

Mae'r gwahoddiad yn aroth.'

'Digonol i beth?'

'I bobl anghofio. Pellhau.'

'Does neb byth yn anghofio. Mae 'na damaid bach o nod ar 'y nhalcen i.'

'Egwyl! Dyna thy eithiau. Cer i ben draw'r byd, ac anghofia dy waith. Anghofi di ddim o'th Dduw. Bydd E 'na'n ddiogel. Cymer wyliau. Ond anghofia dy — betingalw? — ddylethwyddau ffurfiol am y tro.'

'Dwi wedi ysigo ymddiriedaeth 'y mhraidd eisoes.'

'Anghofia dy dipyn praid. Anghofia bob praid. Brefa yn dy feudy dy hunan am ryw ychydig.'

'Ond lle?'

'Gwranda, dwi ar yr un ochr â thi. ... Meddylia am yr awgrym. Na, paid â dod ymhellach. Dwi wedi dweud 'y nweud. Am y tro, cer yn d'ôl at y crwt truan.'

'Byddai'n gas 'da fi wneud anghofio 'mhraidd yn nod. Mae'n dod yn rhy naturiol eisoes.'

'Dwi'r un fath â thi, frawd. Ond thâl hi ddim bod gormod o ddifri.'

'Dwi'n arswydo.'

'Ydy'r crwt 'na'n gall?'

'Pwy sy?'

‘Cer yn ôl; a chofia — gwyliau hir.’

‘Diolch am dy gonsŷrn.’ A diflannodd.

Roedd Wili’n berwi y tu mewn i’w gragen. ‘Pwy oedd hwnnw?’ holai o’r diwedd, a’i ffyrnigrwydd yn dal yn las. ‘Eilydd i’r prop yn nhîm rygbi gwerthwyr teiars Plwmp? Neu brif flaswr hufen iâ Llanfair mewn Pyjamas?’

Teimlai Len, beth bynnag oedd cyngor yr Esgob, mai gwell oedd peidio â ffoi rhag hwn. Nid ymadael â thrafferth oedd ei *forte*. Balch oedd i ailgydio yn ei sgwrs â Wili.

‘Buoch chi’n sôn am y cangarwod, Wili ... Awstralia. Dyna le didramgwydd os bu un erioed. Fysech chi’n hoffi lle fel ’na?’

‘Lle anethgoblyd.’ Gwenai Wili. Mynnai hithian ei ddirmyg.

‘Lle i’w anwybyddu? Ddeuet ti am wyliau.’

‘Dwi ddim am thiarad am Awthtralia chwaith. Anghofiwch gangarwod! Ddim yn yr un frawddeg â’r cyfaill ythwyth.’

‘Lle neilltuedig efallai.’

‘Doeth unlle yn ddigon neilltuedig. Gwelthoch chi hynny gynnu. A hwnnw’n tharnu ar ein trawth. Mae’n gas genni gangarw yn neidio ar draws sgwrs.’

‘Fuoch chi erioed yn Awstralia?’ holai Len.

‘Erioed. Ac a-i ddim mwyach. Ond mi aeth yn chwaer ... Oedd rhaid i hwnnw ddod?’

‘A’ch gadael chi?’

‘Do. O leiaf, *mynd* wnaeth hi. Ac mae hi druan, fy chwaer, yn *anabl* ac yn ddisymud ei hun bellach. Dyna pam symudodd hi i Awstralia ... Oedd rhaid iddo fe?’

‘Anabl?’

‘Oedd eisiau i’r creadur ’na dorri ar ein traws ni?... Rŷn ni’n deulu sy’n casglu anabledd yn lle stampiau.’

‘Eich chwaer sy’n trin y cangarwod go iawn yn ymarferol felly, anabledd neu beidio, a chithau fan hyn yn breuddwydio amdany’n nhw yn y cysgodion ... Hi yw’r realydd pell.’

‘Gallech ddweud hynny.’

‘Dych chi erioed wedi edifarhau, mae’n amlwg, am ddilyn hobi mor anferthol gul.’

‘Dyw cangarwod ddim yn gul. Neu os ydyn nhw’n fach, maen nhw’n ddigon. Mae rhai pobl yn aros gyda phobl. Yn bendant, gwell ’da fi gangarwod nag ethgobion.’

‘Buoch chi’n arbenigwr te.’

‘Carwr o fath. Do. Ac mae pob caru’n beryg. Y tro agosaf y des i erioed i edifarhau am ymhél â changarwôd oedd un tro chwithig yn y sw ym Mryste. Rown i wedi cael caniatâd arbennig fel ffotograffydd i fynd dros y lliadiart gyda gwarcheidwad i ffald y cangarwôd. Dyna lle’r oedd un o’r hil ar fedr esgor ar joey. Ac fel y gwyddoch chi, rhyw fodfedd o hyd yw’r joey. Adeg genedigaeth mae’n eithriadol o fregus. Rown i wedi ceisio ymlusgo i mewn i’r ffald yn ddisylw. Ond pan gyrhaeddais i gan bwyll, o fewn ychydig o lathenni i’r un a oedd ar esgor, dyma bob cangarw yn y cythgwm le’n ymosod arna-i. Maen nhw’n gallu bod yn enbyd o gryf. Mae rhai yn gas o ymosodol. Gan amlaf, creaduriaid swil ac addfwyn ydyn nhw — fel fi. Ond ...’

‘Os tybiam nhw eu bod nhw mewn perygl, yna maen nhw’n gollwng nerthoedd cudd.’

‘Mor sydyn. Do. Er gwaetha’r ceidwad dechreuson nhw ’mwrw i yn ddidrugaredd. Fi, eu cariad nhw! Yn yn llygad y derbyniais i’r ergyd waethaf ar y pryd. ’Y nallu i am oriau. Fel Beethoven yn colli’i glustiau.’

‘Ond ’ddaethoch chi allan yn fyw?’

‘Am wn i, brifo ’nghariad wnaethon nhw.’ Plygodd ei ben. ‘Clywch. Alla-i ddim clebran nawr. Mae’r dyn parchus ’na wedi tarfu ar bopeth. Alla-i ddim meddwl am bethau call.’

‘Fe chwythith heibio. Gest ti glwyf parhaol yn y caets ’na?’

‘Na. Ddim yn uniongyrchol. Ddim fel gan y dyn teiars yna ... Bues-i’n mynychu dosbarth-nos wedyn dan nawdd y Brifysgol. A’r fan yna y syrthiais i mewn cariad â’r diwtores. Meri Defis oedd ei henw hi.’

‘A! Honno! A!’

‘Merch hawddgar dal a chanddi dusw o wallt golau cyrliog.’

‘Gwn i. Ond merch!’

‘Gwallt llawn fel breuddwyd ar ei gwegil, ar draws ei hysgwyddau. Dych chi’n gwybod beth mae gwallt yn gallu’i wneud. Gwallt Meri. Mae’n byw’n weddol agos i’r fan yma o hyd.’

‘Ydy, gwn i. Mae ganddi hi dipyn o gysgod.’

‘A chysgod cyfareddol gan ei gwallt hefyd. Roedd ganddi lygaid brown hefyd fel ysbrydoliaeth, a chwmpodd cysgod y rheini ar ’y mhenglog fel morthwylion. Buon ni’n canlyn ein gilydd am bedwar mis.’

‘Canlyn? Hi hefyd?’

‘Wel, efallai. Roedd hi’n annwyl, fel cangarw.’

‘Efallai? Ond merch!’

‘Ac yna’n ddisymwth, dim.’

‘Dim?’

‘Caput! Heb rybudd roedd hi ar ben, rown i’n fethiant.’

‘Ei sgrialu hi ’wnaeth hi?’

‘Y nympio i. Yn y cysgodion. Llamodd hi i ffwrdd.’

‘Doedd dim digon o gariad ganddi hi?’

‘Fi oedd yn brin, mae’n debyg.’

‘Prin!’

‘Ond dyna ni. Dim. Dim o beth yw’r ugeinfed ganrif i gyd, medd yr artistiaid mwyaf ffasiynol. Doedd hi ddim yn ’y ngweld i’n ddeniadol, sbo, er ein bod ni wedi ymhoffi yn ein gilydd yn o lew ers pedwar mis. Caput! Dim! Rown innau’n methu â dangos ’y nghariad chwaith. Pedwar mis o noson tân gwyllt tamp. Hyd at yr hwyrnos derfynol roedd y pedwar mis ’na wedi ’nyrchafu i hapusrwydd na wyddwn i ddim ei fod ar gael, ddim mewn dillad pob-dydd o’r ugeinfed ganrif o leiaf. Roedd hi’n union debyg i gangarw. Ac yna, wedi pedwar mis byw, cau’r sw. Doedd dim cysgod ar ôl.’

‘Dim!’

‘Dim yw dim. Methiant. Fi fy hun yn glwc. Efallai fod ’na ddiffyg ynddo i. Beth yw cariad heb ei ddangos? Dim. Gan ddau.’

‘Peidiwch â choelio hynny.’

‘Rown i ar goll tu fa’s iddi.’

‘Un waith, serch hynny, Wili bach, fe ddigwyddodd, buost ti’n ... caru merch.’

‘Do. Digwyddodd. Un waith fues i ar goll yn ei gwallt os dyna yw caru merch. A’r gwallt yn ’y nannedd, gwallt rhwng bysedd ’y nhraed. A caput. Dyna’r pryd y closiodd nifer o hogiau o’r hamgylch i’r cysuro i. Bechgyn ffasiynol oedd yn aros mewn gwersyll yn yr ardal ar eu gwyliau, yn erbyn y Sefydliad. Lot o hwyl, cynnes, cariadus ... Ond dwi ddim eisiau paldaruo am y peth.’

‘Na.’

‘Rŷn ni i gyd wedi cael ein tyngedu, un waith mewn oes, un waith gofiadwy, i wel ... Dwi ddim yn dyall pam y mae hyn yn bod. Dwi ddim yn siŵr a yw hyn yn dod ar ein

gwarthaf er mwyn ein goleuo ni, esgus.'

Beth bynnag, y sgwrs hir heriol hurt hon a asiodd y berthynas yn ystyrlon rhwng Wili a Len.

Y noson honno galwyd yn sydyn ar Len i ymweld â'i gyfeilles dragywydd Jenni Huws. Bodlonodd Wili'n rhwyddach y tro hwn nag o'r blaen. Onid deall ei gilydd fyddai'u hobi hwythau o hyd mwyach? Ni ddychwelodd Len i'w lety tan chwarter wedi un y bore. Roedd wedi methu ag ymryddhau. Ond arhosodd Wili ar ddi-hun tan ddisgwyl amdano.

Gan i Len anghofio'i allwedd ym mhoced ei drowsus arall, curai'n ysgafn ar y drws. Nid oedd Wili'n sicr a glywai'r curo ai peidio. Curai Len drachefn. Clywai syflyd, syflyd cyflym o'r tu mewn. Roedd y gŵr ifanc am ymlusgo at y drws cyn gynted ag y gallai. Baglai'n erbyn cadair. Clywai Len dún bisgedi'n syrthio i'r llawr. Clywai Wili'n palfalu ar hyd y cyntedd. Yna, clec. Cwympasai drachefn. Roedd Wili wedi disgyn gyda sgrech a rhegfeydd. Roedd wedi baglu a chwympo i'r ochr yn ddisyfyd. Disgynnai'i gorff yn erbyn cwpwrdd llestri a chanddo ddrysau gwydr a safai'n addurniadol yn y cyntedd. Torrwyd gwydr y cwpwrdd. Aeth braich Wili drwyddo. Bwriodd ambell jwg a mwg o'r tu mewn. Sgathrodd ei groen yn gas. Aeth un dryll medrus o wydr i wythien ei arddwrn nes bod y gwaed yn bistyll bostfawr. Chwalu 'wnaeth y rhegfeydd fel mân us oblegid un dryll unig.

Clywai Len yr helbul i gyd. Gan ddefnyddio gwadn ei droed, ciciai'n drwm yn erbyn y drws. Methu. Cicio eto. Roedd hi'n amlwg fod yna argyfwng y tu mewn. Cicio. Digwyddasai rhywbeth go ddifrifol. Rhaid oedd cyrraedd y crwt. Cicio, cicio. Bwriai Len ei ysgwydd yn erbyn y drws wedyn. Yn ofer. Cicio ac ergydio drachefn yn erbyn y gwydr. Bwriodd ffenestr yn y drws. Estyn ei law i mewn er mwyn troi'r bwlyn gan sgathru tipyn o'i gnawd yr un pryd. Agor y drws. Gwaedai ef yn rhydd. Syllai mewn braw. Ar y llawr yr oedd Wili ar nawf yntau mewn lagŵn o waed a'i gynnwrf yn dân o'i amgylch. Neidiai'r tân o lwyn i lwyn. Neidiai Len. Cydiai Len ynddo, a'i lapio yn ei gôl. Lapiwyd gwaed Len yng ngwaed Wili. Brodyr creim. 'O Wili! Wili annwyl!' Ymddiheurai'r llanc. Coleddai Len ef. Cymysgai'u gwaed yn un dathliad. Gwenai'r crwt ar Len. Haerai'n daer nad yn fwriadol y cronasai'r fath loddest o ddwli. Nid ei ladd ei hun oedd y bwriad. Nid cyflawni trosedd yn ei erbyn ei hun a chwenychai. Nid ei dorri'i hun yn ystyriol a wnaethai, na, taerai'n ddidwyll. Gwenai. Chwarddai. Aeth Len o'r diwedd am ffôn: 999. Mwmian y cyfarwyddiadau, a'i ben yn chwil. Ambiwlans: o fewn ugain munud cyrhaeddai hwnnw gydag angerdd dilyffethair malwoden. Yn y cyfamser ceisiai Len ei ymgeleddu. Ceisiai atal llif y gwaed ei hun. Bu'n

weddol lwyddiannus. Rhuthrwyd â Wili i'r ysbyty. Roedd eisiau trallwysiad arno bellach. Dim ond y pryd hynny y sylweddolai Len nid yn unig ei fod ef ei hun yn gwaedu, ond y gallai peth o waed Wili fod wedi llithro ar draws ei glwyf ef. Llawer efallai. Yn ddiymdroi golchai ei glwyf yn drwyadl. Taenai eli Dettol drosto. Byddai'n iawn. Pa ots? Os cawsai beth llygredd, allai hynny ddim bod yn fawr o beth. Clywai wedyn eu bod am gadw Wili i mewn dros nos. Ddim mwy. Rhyfedd fel yr oedd bywyd llonydd, bywyd fel pe na bai'n bod, hwnnw yn gallu dwys ymlonyddu yn ddwfn nes diflannu a pheidio ambell dro, bron fel pe bai'n ymuno â'r holl bethau yn y byd nad oeddent wedi digwydd erioed.

## 27

Dair wythnos wedyn dechreuodd Len deimlo cur yn ei ben.

Dychymyg oedd hyn. Roedd e'n chwilio am drafferthion. Roedd hi'n llawer rhy gynnar. Mi fyddai'n cael pen tost felly o bryd i'w gilydd, beth bynnag. Efallai fod y cynnwrf adeg codwm Wili wedi ysgogi ychydig o glefyd diglefyd yn ei nerfau. Penderfynodd gyrchu'r meddyg. Oddi yno draw i Ysbyty Caerafon i gael twysged o brofion. Anfon y rheini i ffwrdd, a chael ateb ymhen ychydig o ddiwrnodau. HIV negyddol.

Diolch i'r Arglwydd. I Len ar y pryd, prin y gellid mwy o ollyngdod gan ddim. Diolch am hynny.

Rhodiai mewn breuddwyd o amgylch y dref. Diolch i'r nef. Roedd ganddo gymaint ar ôl i'w wneud o hyd. Tybed oni haeddai un sleisen halltfelys o drugaredd? Na wnâi, yn sicr. Diolch am y drugaredd ddihaeddiant. Digon heddiw oedd symud ei goesau i gerdded. Ni allai aros yn yr un lle rywfodd. Nid oedd ar frys i ollwng ecstasi o'r fath.

Chwiliai am gwmni deallgar i rannu'i lawenydd.

Diogel oedd ef o ran iechyd. Nid oedd dim bellach a darfa'i ar y dyfodol, dim a ymosodai ar y prosiectau a arfaethai ymhlith tlodion ysbrydol y byd hwn. Yr oedd yn rhydd fel yn ei gartref amaethyddol gynt gyda'i dad. Gallai gyrchu i bellterau byd. Gallai ymdroi dan ei drwyn. Bodlonwyd ef uwchben ei soseraid o hufen.

Ond ar ei ben ei hun yr oedd Len. Efallai mai dyna oedd ddoethaf. Aethai heddiw yn ei fyfyrdod at Lyn Llygad Piblig. Am ychydig yr oedd yr unigrwydd tawel yn ei olchi. Teimlai'r rheidrwydd yno yn fuan, wedi gweddïo a diolch, i ymuno â phobl 'normal' drachefn, i beidio â chefnu ar gymdeithas eithr yn hytrach i hel wynebaw, i wrthweithio

unigrwydd bygythiol, i rannu'r llawenydd, i fod yn rhan weithredol o'r byd a'i bethau drachefn; i ddadfeudwyo. I lawr ag ef tua'r dref.

Ni allai fod wedi dychmygu'r canlyniad yno.

Nid fel hyn yr oedd pethau i fod i ddigwydd. Hi oedd y gyntaf yn awr a ddôl ato.

Siop olau, agored a helaeth oedd siop-lyfrau Caerafon. Pan droes Len iddi y bore Gwener hwn i godi'i gopi misol o *Barn*, wele hyhi. Hi oedd yno, yn anochel, hi eto o'i thraed i'w chorun; ac ni allai lai na'i gweld. Yn gyd-ddigwyddiad solet o'i phen i'w sodlau. Ni allai hithau ddianc rhagddo yntau ychwaith hyd yn oed pes dymunai. Roedd Maxine ar y pryd wedi cydio mewn diweddariad newydd o'r *Mabinogion* ac yn ailgyfarfod ynddo â hen gyfeillion. Dyrchafodd ei phen yn araf dlws am eiliad. A chwarddasant ill dau yn ysgafn wrth weld ei gilydd. Nid oedd dim esboniad uniongyrchol i'w chwerthin, heblaw nad oeddent wedi disgwyl y byddent yn cyfarfod y pryd hwnnw. Sylwodd Len mor hynod olau y gwnâi'r chwerthin ei hwyneb. Trawai rhyw belydryn cwafriog dros ei gwefusau, a seinio clychau mân o dan ei llygaid ysmala brown ar hyd ymylon ei thrwyn rhwng ei genau a'i llygaid.

'Mae gen i ymddiheurad,' murmurai hi.

'Ddim o gwbl.'

'Oes; am eich dychryn chi ger Llyn Llygad Piblig.'

'Ches i ddim dychryn,' meddai ef yn gelwyddog, ond teimlai'n ddiogelach ar yr iseldiroedd hyn, gyda'r siopwr draw fan yna'n gwarchod.

'Roedd hi'n anfaddeuol. Un dwi,' murmurai hi ychydig yn helaethach, 'sy'n cymryd 'y mreuddwydion gormod o ddifri, mae arna-i ofn.'

'Beth yw stwff eich myfyrdod y dyddiau hyn te?' holai ef yn swil gan syllu ar ei llyfr agored a chan ogwyddo'r ymddiddan yr un pryd.

'Y Mabinogion.'

'Yn ôl at lygad y ffynnon felly.'

Craffai ef dros ei hysgwydd. Sylwodd ar deitl. 'A! Breuddwyd Rhonabwy.'

'Dim ond fflipian drwy'r tudalennau. Dim byd arall.'

'Dych chi wedi sylwi fod yna Freuddwyd arall, mae'n bosib?'

'Fi yw pennaf awdurdod Awstralia ar honno.'

'Wrth gwrs! A chithau wedi mentro ar siwrnai debyg ddigon ddwedwn i, ... er anrhydedd i hil Macsen.'

'I hela'r carw yn Llandeilo.'

'Does dim ceirw yng Nghymru,' meddai Len, yn ansicr, ond gyda phendantwrwydd rhyddieithol.

'Dwi wedi mynd oddi wrth 'y mreuddwyd at 'y ngwobr. Dychwelyd dwi i'r tipyn henwlad wasaidd yma er mwyn hela delfryd yn real,' meddai hi'n gelwyddog. 'Meddwl y bydda i,' meddai hi, ychydig yn ymwybodol ohoni'i hun, 'mai chwilio am ddelfryd y buodd yntau hefyd, Maccsen, ar y cychwyn, yn ei ffordd fach Rufeinig ei hun, am ryw fro hud, a'i bod hi, Elen druan, fel arglwyddes y diriogaeth daeog honno yn cynrychioli'r gobeithion real i gyd.'

'Dych chithau ddim felly wedi bod yn chwilio am batrwm o wlad?'

'O! Na. Cael realiti Cymru 'wnaeth Maccsen yn y diwedd. Nid rhamant. Ond Cymru ges innau hefyd— y diriogaeth daeog, y cyffuriau, godineb, materoliaeth. Rhyw lond y bola o fyd real. A cheisio dychwelyd fel Cymraes go iawn 'wnes i drwy'r cwbl i'm gwir gynefin go iawn.' Siaradai'n annaturiol o gall. 'Dynwarediad o wlad.'

Roedd hynny'n nes at sobrwydd, serch hynny, er mai rhy gymhleth fuasai iddi gyffesu bellach mai Awstraliad o'i geni oedd hi, ac mai math o Iola Morganwg oedd hi o'i chorun i'w sawdl pan feddyliai am Gymru.

'Dim delfryd?'

'Gen i? Ddim cyn cychwyn. Fel Maccsen cyn iddo yntau gychwyn. Pam lai? Wel ie, ar ryw olwg, ar y dechrau ... anghallio, wyddoch chi, dyna y byddwn ni'r Cymry ar wasgar, i gyd yn ei wneud mae'n siŵr. Dyna *raison d'être* teithio bron yn ddiethriad i ni. Hela breuddwydion a cheirw a changarwod a delfrydau... Dyna wreiddyn ein gwleidyddiaeth ddyfnaf efallai... ym mhob gwlad.'

'A dyna pam yr aethoch i Awstralia'n wreiddiol?'

'Pwy sy'n cyrchu i unrhyw wlad bell, heb fod 'na freuddwydion yn galw? ... '

Cydsyniodd Len â'i lygaid. 'A hyn,' meddai ef, 'ydy hi'n siom? Siom yn Awstralia, siom yng Nghymru.'

'Mi rois i ddarlith un tro,' ychwanegodd hi'n freuddwydiol, 'i Gymdeithas Gymraeg Sydney, ar Freuddwyd Maccsen. Fel petai Enoc Huws yn rhoi darlith ar Daniel Owen. O ran hwyl.' Celwydda yr oedd hi, ac roedd hi'n tybied ei fod ef yn gwybod hynny. Ond doedd ganddo ddim achos i amau dim.

'Beth oedd eich thema?'



‘Rhywbeth tebyg i’r hyn rown i’n ei ddweud gynnau fach. Mai cynrychioli’r wlad yr oedd y forwyn. A’r ewig. Thema sofraniaeth. Meddiannu sylwedd y wlad. Ac o’i hennill hi, byddai Macsen yn ennill popeth. Dôl yntau yn Gymro. A down innau’n Gymraes go iawn. Rhywbeth o’r fath. A châl Macsen droi’i obaith yn ffaith. Mae’n thema eithaf drwy gydol y Mabinogi a’r Rhamantau.’

Teimlai hi y gallai suddo i gors pe bai hi’n cerdded modfedd ymhellach ar hyd y trywydd hwn. Eithr ni sylwai Len yntau ar ddim o’r fath. Sylwai’n hytrach ei bod yn gwisgo ffrog rosgoch ‘ddinesig’ o dan ei chot glaw agored gyda chlytiau bychain o las sgleiniog hwnt a thraw, a phatrwm o donnau cymysglyd afreolaidd yn torri drosti i gyd. Gwridai hi ychydig o dan ei olwg chwilfrydig, a syrthiai smotiau o’i gwrid yn wasgarog addurniadol yma ac acw dros y ffrog. Doedd hwn ddim i fod i archwilio’i golwg a’i dillad. Ar gyfer menywod eraill y mae menywod yn ymddilladu, nid i wrywod.

Os Cymru o fath fu Breuddwyd Macsen Wledig cyn iddo ddod yma, nid dyna Freuddwyd Maxine Ddinesig. Rhamant benderfynol o afreal oedd gan y deithwraig ysgafn hon.

Parablu yn ei blaen a wnâi hi mor huawdl yn yr amgylchiadau ag y gallai ynghylch dim byd. Symudai’i dwylo delaid wrth daro’i hacenion pwys. Ac wrth iddi wneud hyn cyffyrddodd un o’i bysedd yn ddamweiniol â’i ysgwydd ef. Teimlai ef ei bod wedi’i anwesu’n ddirybudd. Dirgrynodd. Roedd hi fel pe bai hi’n cydio ynddo i’w olchi. Atgofion annifyr o Bessie Jenkins.

Gwenodd hi ar Len. Gwenodd Len, ar ryw olwg, yn ôl.

‘Dych chi’n heulog braidd heddiw, Mrs Pearse,’ meddai Len gan syllu o’r newydd ar ei ffrog a’i hwyneb.

‘Sut?’

‘Yn tywynnu’n ddiwarafun ddinesig dros y siop.’

‘Ac yn gynnes gyda hynny gobeithio Mr Llwyd.’

‘Nid fi fyddai barnwr priodol hynny.’

‘Pwy arall?’

Nid atebodd ef, er penderfynu oedi i dwymo ychydig ymhellach. Sylwai drwy gil ei lygaid ar fymryn o’i choes noeth, binc, ddihosan. Gwridodd ei isymwybod ychydig wrth y fath ddarganfyddiad anhymig llancaidd. Cododd ei ben i edrych ar y lle yr oedd yr awyr i fod, ac i lawr at ei draed drachefn i chwilio am y ddaear. Doedd hynny ddim yno chwaith.

Drwy gil ei lygaid sylwai fod y siopwr yntau yn diofal-gadw llygad arnynt fel petaent yn llyfrau a oedd yn ysu eisiau dwgyd ei gilydd.

‘A chithau, pa mor heulog y teimlwch *chi* heddiw?’ holai hi.

Nid atebodd ef drachefn. Yn ei lygaid diateb, er gwaethaf torcalon a siom oherwydd bygythiad tranc Wili, roedd yna sglein hapus, amhriodol hunanol, amdano’i hun; ond teimlo’r oedd ef ei fod yn cael ei dynnu i mewn ati, fel y profasai un tro, gynt pan oedd yn fychan, amser cyrraedd trêrn wrth sefyll ar ymyl platfform mewn gorsaf yng Nghaerdydd. Bu bron iddo gael ei dynnu i mewn tuag at fwgan felly a basiai ar gyflymder sugnog o fewn dwy droedfedd iddo. Roedd ef nawr fel pe bai’n awyddu am blygu drosti. Roedd y persawr dethol a gawsai hi gan y fferyllydd cyn cyrraedd y siop lyfrau yn chwythu drosto fel clared ... Safodd yn ôl yn wyllt.

Disgwyliai hi fod ei enau’n agos, ond doedd ef ddim. Trodd hi felly at y siopwr. ‘Dwi’n meddwl y pryna-i’r diweddariad hwn.’

‘Fersiwn rhagorol,’ meddai hwnnw, fel pe bai yntau’n closio ati o’r tu ôl i’r cownter.

‘Gadewch i mi dalu amdano,’ meddai Len yn llanc i gyd. ‘I ddathlu eich glaniad yng Nghymru.’

‘Wel, na, does dim rheswm.’

‘I ddathlu’ch ymweliad â’r gymdogaeth.’

‘Ond na, mae’n ddiangen.’

Gwenu’n embaraslyd yr oedd y siopwr, gan aros iddynt ddatod eu cwlwm. Teimlai Len ei fod yn colli rheolaeth ar ei wenau. ‘Wel, mae’n rhaid imi brynu rhywbeth ichi,’ meddai ef. Gwelodd bentwr o gerdiau post a phaentiadau Kyffin Williams ar y tu blaen. ‘Beth yw’r rhain?’ gofynnodd.

‘Cerdiau Dwynwen,’ meddai’r siopwr.

‘O!’ meddai Len yn anNwynwennaidd ddychrynus. ‘Gwell imi ymatal rhag rhoi un o’r rheini ichi, neu bydd yna hen wenu mabinogaidd ar wyneb Llyn Llygad Piblig ...’

‘Ddim am y tro cyntaf.’

‘Rych chi’ch dau’n nabod eich gilydd?’ holai’r siopwr craff, wedi dod o hyd i destun sgwrs.

‘Ydyn,’ meddai Len yn llon, ‘ers canrifoedd.’

‘Hei,’ meddai Maxine, ‘siaradwch drosoch chi’ch hun. Dim ond rhyw gant-ac-un ydw i ... ers difiau diwethaf.’

‘Traethu mewn termau daearegol bras rown i.’

‘A dwi i fod i oddef peth felly efallai?’

Ymddiddan braidd yn debyg i ferch ysgol a wnâi hi — ac ef o ran hynny. Pawb ohonom yn ôl ei ddant. Collasai yntau’r blynyddoedd llwyd am y tro. Ni chofiasai hi i neb wneud hyn iddi o’r blaen, o leiaf er dyddiau cynnar ei charwriaeth gyda’i gŵr cyntaf. Nid oedd y profiad newydd yn gyfan gwbl gysurus.

Glynai wrth hwn yn awr fel pe bai ef yn flodyn a hithau’n gafaelyd am wddf y blodyn hwnnw yn dynn rhag iddo wywo. Y perygl oedd iddi ei dagu. Daethant allan o’r siop gyda’i gilydd. Troesai’n gawod gota erbyn hyn, ond yn llym.

‘Dwi ddim eisiau mynd yn f’ôl eto,’ meddai hi.

‘Ond y glaw.’

‘Yn enwedig oherwydd y glaw. Dowch am dro draw i’r castell.’

Cerddasant ar hyd y cei yn y glaw. Dechrau cylchu’r castell. Roedd eu meddyliau ill dau yn nofio ar wyneb y dafnau. Pendroni am freuder y castell a wnâi Maxine. Roedd y glaw mor annaturiol o naturiol. Ond pendroni am Wili yr oedd Len Llwyd, heb roi’r sylw dyledus i Maxine.

‘Wyddoch chi,’ meddai hi a’r olwg ddiarth yna yn ymweld â’i llygaid drachefn. ‘Iago ... o Sain Siôr ... y pensaer ... bues i yn y Llyfrgell Genedlaethol am bythefnos un tro ... yn llunio cart achau i mi fy hun. Ac yn llinach mam, credwch neu beidio, rown i’n gallu olrhain ’y nhras yn ôl i hwn, Iago. Gydag un o ferched yr ardal.’

Erbyn hyn, daethai Len yn gynefin â chwedlau ganddi o’r fath.

Yr oedd y glaw bellach yn cau’r wlad mewn breuddwyd genedlaethol. Hynny yw, nid oedd na chlawdd na choeden unigol a basient nad âi’n freuddwydiol.

Teimlai hi berthynas â hyn oll. Gwreiddid y wlad oll mewn breuddwydion. Breuddwydion yn nŵr yr harbwr ar y chwith, breuddwydion drachefn yn tasgu allan o dyrau’r castell ar y dde. Amgaeid y badau a’r cwteri, pyst y gwifrau trydan ac arwyddion y maes parcio mewn llond sach o freuddwydion heintus.

‘Tewch,’ meddai Len yn hygoelus i gyd, a heb feiddio amau, er iddo fentro ebychu rhyw ‘ond’ bach mewmol. ‘Peidiwch â dweud y fath beth.’

‘Iago gydag un o’r doniau lleol, wyddoch chi. Roedd e’n briod eisoes, wrth gwrs, gartre. Ond dyna ni. Dynion yn mynd dros y môr a gadael eu gwragedd, dŷn ni i gyd yn gwybod on’d ŷn ni. Mae sâl môr yn tarfu ar y cyneddfau. Os awn ni’n ôl ar hyd yr achau, —

unrhyw un ohonon ni — mae yna ryw forwr siawns yn llercian rywle ym mwced pawb ohonon-ni. Dyna mhrofiad i.’

Pam roedd hi wedi symud ar hyd y llwybr gwymonog llithrig hwnnw fel hyn? A oedd hi’n synied am eiliad y gallai rhyw fath o frolio fel hyn am y pensaer Iago o Sain Siôr ei dyrchafu i ryw wastad o ddewiniaeth yng ngolwg Len Llwyd? A’i gosod yn ôl mewn cyfnod cyfareddol. A oedd yna ryw ansicrwydd yn ei natur?

Ambell waith pan fyddai Maxine ar yngan clamp o gelwydd fel hyn, dôi rhyw ffyrnigrwydd mân, disylw i bawb arall, i’w threm fel pe bai’n anifail gwyllt ar bowndio am ben ysglyfaeth. Am eiliad neu ddwy yn unig y collai ychydig arni’i hun. Câl dyhead newydd, fel pe bai am amrantiad, ei meddiannu. Yna, plop: breuddwyd yn barod ar blât. A chyffyrddiad o sobrwydd o’r newydd. Nid awen oedd hyn, nid gweledigaeth yr artist, ond moment hurt ddigon diniwed o droseddu bach cafalîr croyw. Archwaeth sydyn a syber am fod ar wahân i’r gwir efallai, costied a gostio, am dro bach cwta crwn yn unig.

Safent dan gysgodfa ar bwys yr aber. Edrychent ar y glaw. Roedd meddwl Len yn crwydro’n ôl i’r tŷ i ymdroi uwchben Wili. Roedd e’n becsan am y crwt. Yn sydyn, dyma ef yn sylwi ar rywbeth ... rhywbeth od ynghylch y diferion.

‘Welwch chi. Maen nhw’n goch. Y glaw.’

‘Lle?’

‘Mae yna dameitiach o dywod wedi’u cario gan y gwynt.’

‘Oes hefyd.’

‘Darllenais am y peth yn y papurau.’

‘Do, a finnau. Gwyntoedd mawrion uwchben y Sahara, meddan nhw, yn chwythu’n uchel, ac yn cario’r gronynnau am filoedd o filltiroedd.’

‘Gwaed alltud,’ meddai ef tan chwerthin yn chwerw. ‘Neu anialwch yn ymweld.’

‘O! Ust. Gwlad ydyn nhw, draw acw, maen nhw’n cael eu cario i wlad arall. Maen nhw i fod i waedu, felly, cyn cyd-gysylltu.’

‘Filoedd o filltiroedd,’ ebychai ef, ‘mae’n anodd ei gredu. Wedi’u cario hyd at Gaerafon. I chwilio amdanon ni. Drwy’r entrychion fel breuddwyd. Mae bywyd yn chwilio amdanon ni. Gwlad yn chwilio.’

‘Ond mae’n wir. Ac yna, gyda’r gawod fach leiaf o law, gollwng drosion-ni fel conffeti. Fel pe baen ni’n cael ein hamgylchu gan dywod o’n deutu mewn priodas. Tywod uwch ein pennau. Tywod dan ein traed. Wedi’n hamgau ar y glob gan anialdir o dywod.

Gwlad realedd go iawn felly yn y diwedd o fewn gwlad y freuddwyd.'

'Mae'n frawychus braidd. Y llawr sy uwch ein pennau ni yn dathlu bod yn orchudd.'

'Cysur ddwedwn i,' atebodd hi. 'Rŷn ni mewn amlen o ddaear. Does dim dianc, crwydred a grwydro. Mae yna wir y tu mewn i bob celwydd.'

'Welais i erioed y fath beth: anialwch yn cael ei gario fel llythyr yr holl ffordd i Gymru i'n hysbysu ni. I'n clymu ni'n goch. Yn neges o undod rhyngwladol.'

Yn ôl y tu ôl iddynt, ac uwch eu pennau, safai'r castell melynfrown tywodfaen ei hun. Ni byddai Len byth yn sylwi ar y lle fel arfer. Yr oedd mor hen gyfarwydd ag ef. Eithr sylweddolai yn awr fod Maxine yn bwrw'i chilolwg yn ôl yn fynych, yn ymwybodol o bresenoldeb uchel a thrwchus o'i chwmpas. Ymwelydd oedd hithau wedi'i chyfareddu gan y gorffennol uwch ei phen.

'Mae'r cestyll 'ma'n wych, on'd ŷn nhw?' meddai hi'n werthfawrogol.

'Atynnu'r ymwelwyr ta beth,' meddai fe.

'Dwi'n tueddu i bensynnu'n rhamantaidd am rithiau'r gorffennol ... A hardd. Maen nhw'n hollol hardd.'

'Nid er mwyn bod yn hardd y'u codwyd nhw, dwi'n amau.'

Roedd y cerrig melynfrown yn y muriau a'r cerrig brownlwyd yn y tyrau yn wlyb yn awr, ac ym mryd Len fel pe baen nhw ar wyneb paffiwr yn chwysu erbyn diwedd rownd.

'Cynnyrch y gelyn ydyn nhw, debyg.'

'Peidiwch â chredu'r fath beth. Ni'r Cymry oedd achos hyn. Ni adeiladodd y rhain. O'n cwmpas ni a'n hymosodiadau ni, dyna sut y buon nhw'n patrymu'r amddiffyn i gyd. Nid 'y nghyndad estron Iago, ond 'y nghynfamau'r werin. Ein hofn ni roddodd yr adrenalin i'r rhain. Castell digon Cymreig benbwygilydd yw hwn, bob maen melin mud ohono ddwedwn i, a hwnnw wedi'i adeiladu gan gerrig Cymreig o gwmpas ffurf yr ofn, ofn trefnus, adeileddol tuag aton ni. Parch ofnus y gelyn.'

'Ond nhw oedd biau'r harddwch, chwarae teg.'

'Efallai,' mentrodd hi'n araf. 'Wel, croeso iddyn nhw; ond nyni roddodd yr ofn lluniaidd, ni oedd biau'r nerth a'r angen. ... A'r nerth yw'r harddwch ei hun. Ni biau'r cwbl. Ni.' Marchogai hi'n eofn ar gefnau'i breuddwydion fel Don Cichote.

'Ydy gelynion bob amser fel hyn tybed?' holai ef. 'Yn creu'r ochr arall i'r darlun, y negyddiad i'r llun fel petai, y naill yn ffitio casineb y llall.'

'Ac yna'n dod yn ôl aton ni ..., ' meddai hi fel teigres. 'Ni sy biau'r castell nawr. Fy

achau i.’

‘Oes rhaid i bob arwahanrwydd ddod o hyd i undod yn y diwedd, tybed?’

‘Efallai’u bod nhw.’

A’r teimlad cynnes a ddaeth drosto ef y funud honno oedd y gallai ef weddio gyda hon. Y prawf allweddol i bob caru mawr. Gallai rannu’i ddirgelwch defosiwn gyda hi. Gallai hi fod yn rhan o’i fywyd anwel, a chyffwrdd gydag ef yn y manau mwyaf cysegredig. Cynhesai ef gan bwyll wrth synfyfyrion am gwmniaeth o’r fath.

Cynyddu a wnâi’r storm law lythrennol. Gorfodwyd hwy i aros ac i gysgodi mewn cymundeb mewn rhan o’r mur lle’r oedd y gwaelod wedi suddo i mewn a’r darn uwchben yn ymwithio allan i ffurfio math o gysgodfa. Ffrwydrodd taran ar eu pwys. Closient yn ôl fel petaent am ddiflannu i mewn i ddeunydd y castell. Chwipiai’r glaw y llawr o’u blaen.

Cydiodd hi ym mraich Len drachefn, a’i deimlo ef yn dirgrynu.

‘Dych chi ddim yn drist, ydych chi?’ holodd hi, a’i greddfau’n agored. Cydiai’n dynnach. Er gwaethaf hyd y sgwrs, sylwai’i greddfau benywaidd ar ryw oslef annhymig yn ei lais.

‘Ydw,’ meddai ef. ‘Dych chi wedi sylwi? Mae’n ddrwg gen i. Mae Wili yn ...’ ond methai â gwneud dim ond llyncu poer.

‘Na ... wyddwn i ddim ... Yn *marw*?’ Cydiai’n dynnach byth.

‘Yn cyflymu at hynny.’

‘Datblygiad diweddar?’

‘Gweddol sydyn.’

‘Ddrwg gen i. Rown i’n *synhwyro*’ch bod chi’n ddilewyrch. A thybiwn efallai fod a wnelo Wili ...’

‘Esgeulustod. Fi. Dyw hi ddim yn gwneud y tro. Dwi’n methu ag aros ar ddi-hun ambell noson.’

‘Chi! Yn *esgeulus*! Byth! Dyna un nwydd na wyddoch chi fawr amdano.’

‘Na: mae peth bai.’

‘Ddim bai. Chafodd neb y fath ofal tadol.’

‘Does neb yn dirnad euogrwydd neb.’

Estynnai hi’i chydymdeimlad at Len. Gostyngedig oedd euogrwydd. Ceisiai hi gyfleu iddo ei solas a’i thosturi. Treiglai’i geiriau fel lafa tuag ato gan gyflymu wrth gyrraedd y rhiw. Ond yn y rhan ddirgelaidd o’i chalon na chyfaddefai’i bod ar gael, yr oedd

hi'n euog o falch.

Heddiw yr oedd hi'n fodlonach yno nag y buasai erioed. Roedd Len gyda hi. Yno. Ei heiddo hi oedd Len. Ef oedd ei chastell hi. Byddai Len gyda hi fwyfwy. Len iddi hi. Len er ei mwyn hi. Len yn nod iddi. Hi i Len. Dichon fod y freuddwyd a'r realiti yn ei bywyd wedi lled gyfarfod â'i gilydd o'r diwedd. Dichon eu bod yn dod hefyd i adnabyddiaeth o fath. Roedd yr holl deimladau hyn yn warth. Ac eto, a fyddai'r glaw mymryn o hyd yn golchi hyn oll i ffwrdd hyd gwteri Caerafon?

28

Lleihâ'r glaw.

Doedden nhw ddim yn cerdded i unman y funud yna. Ar y pryd yr oedd eu pererindod yn troi yn yr unfan. A dyna rywfodd oedd orau. Roedd hi wedi dod 'lawr â Len i'r fan yma ar bwys y cei, ond doedd dim amcan ymarferol i'r peth o gwbl. Roedd hi am ladd amser gydag ef, dyna'r cwbl. Cael mwynhau eu cyd-fodolaeth. Ni ddymunai ar y pryd ond edrych arno, ar ei war, ar oleddf ei benglog, ar ei ysgwyddau, heb yr un uchelgais arall. Roedd hi am fod ar ei bwys am ddyrnaid o funudau glân, ac roedd hi am iddo ef hefyd sylwi arni hi. Rhaid felly oedd iddynt ill dau gael amser a hwnnw'n amser agored eang, heb ei glymu gan bwrpas. Amser i chwarae gyda'i gilydd, amser ymdroi o ddifri.

Pe gofynnai ef iddo'i hun sut y teimlai, fe wadai nad oedd dim o'r fath beth â theimlad yn agos ato.

Fan hyn, sut bynnag, o fewn y mur a cher y castell, teimlai hi fod ymateb i'w gilydd yn gallu bod yn fwy uniongyrchol nag yn unman arall.

Gallai hi synhwyro'i fod yn mwynhau torri geiriau â hi. Roedd ef yn mwynhau cerdded ar ei phwys. Cyffwrdd yn ddamweiniol fwriadol â'i gilydd. Ac yr oedd hynny ar ryw wedd yn wir. Hyd yn oed pan nad ynganent ddim o bwys parhâi cyfnewid sillafau â'i gilydd a rhwbio acenion yn yr awyr rhyngddynt a'i gilydd, yn gyffwrdd iddynt ill dau. Eto, nid oedd ef yn rhy gyfarwydd â chwaraeon o'r fath.

Ond mwynhâi ef y profiad newydd mewn ffordd anesmwyth. Er hynny, roedd ei phresenoldeb yn torri fel poen rywsut dros ei unigrwydd. Trôl a throsai'i ymennydd am fod hon yn syrthio y tu mewn iddo. Tybiai hi yn ei dychymyg gwirion ei fod ef am estyn ei freichiau yn gyflym, a'u cloi amdani a'i thynnu ato. Safai hi'n llonydd fel pe bai'n disgwyl

amdano, ac eto ni syflai ef gam.

\*

\*

\*

Nid âi nac ef na hi i unman fel hyn. Dichon iddynt sgyrsio'n gwrtais am ryw dalm. Yna, cyn bo hir daeth hi'n bryd troi adref. Wili a alwai ar Len, o dwneli'i angof. Aeth hithau gyda Len yn anfodlon yn ôl i Lanbiblig yn ei gar. Disgyn yn weddus yn y lle cywir, ffarwelio, amneidio, diolch. Treiglodd yntau yn ei flaen... Yn ôl at Wili, ond heb ddatguddio iddo ddim o'i ymweliadau'i hun â'r meddyg nac â'r ysbyty, na dim am y profion a'r pryderon a'i rhyddhâi ef heb ryddhau Wili, na dim chwaith am ei gyfarfyddiad cyfrin â Maxine rhwng y môr a'r castell. Dim ond bwrw ati'n ddiymdroi i hwylio pryd o fwyd iddynt ill dau. A dim.

Mor rhwydd y gallai anghofio Maxine. Gwaith, iddo ef, oedd yr anghofiwr gorau.

Yma roedd ganddo fywyd arall i forio drwyddo. Roeddent ill dau ar eu hynys gyda'i gilydd. Len. Wili. Prysurdeb. Heb yr un forforwyn mewn golwg o un pen y cei i'r llall.

Doedd dim tywyniad yn llygaid Wili; dim marworyn chwaith yng ngolwg Len.

'Un cysur bach pitw,' meddai Wili yn hunan-dosturiol, 'does 'na neb yn disgwyl yn rhyw eiddgar iawn am lenwi fy swydd i.'

'Na f'un i chwaith,' meddai Len.

'Neb yn aruthr genfigennus, neb yn chwennyh 'y ngwthio i o'r neilltu nac yn hiraethu am 'y ngweld i'n heneiddio. Neb oll yn malio ynghylch rhoi cylllell yn 'y nghefn,' ychwanegai'n goegfeddal. 'Neb.'

'Mi falian ryw ddiwrnod efallai. Tymor ffrwythlon i edifeirwch yw pob marwolaeth i'r rhai sy ar ôl.'

'Ddim gyda fi,' meddai Wili gyda'i gyffyrddiad cronig o chwerwder. 'Iddyn nhw dyw'r angau sy ar gael yn f'ymadawiad i ddim yn rhyw fygythiol aruthr. Dyna fydd eu cysur nhw y tro hwn. Nid marwolaeth reolaidd naturiol moni ... "Ei anfoes ei hun ddaeth â hyn ar Wili, Mrs Wilias. Os oedd e'n dewis byw fel mochyn, wel ar ei ben e y bo'r cibau ynte fe. Fuodd e erioed yn neis iawn, chi'n gwbod, Mrs Tomos. Fysech chi ddim yn dymuno i'ch merch ddefnyddio'r toiled ar ôl rhywun fel yna, na fysech? Faint? Ei oed? Deuddeg ar hugain. Tewch. Y fath wastraff, Mrs Siencyn bach, peidiwch â dweud! Y fath addewid. Roedd fel se fe'n drigain. Pan oedd e'n ifanc chi'n gwbod, roedd y gymdogaeth oll wedi disgwyl iddo fynd yn awdur neu'n gerddor neu rywbeth. Arlunydd efallai. Roedd e'n paentio 'fyd, meddan nhw. Dych chi'n cofio, Mrs Edwards, yr ysbyrd anturiaeth yna oedd



ynddo-fe ar y pryd. Pan oedd e'n bedair ar bymtheg oed, dwi'n feddwl, heb fwy na hanner can punt yn ei boced, fe benderfynodd deithio o gylch y byd ac aros fan hyn a fan 'co i weithio ac ennill digon i'w gynnal. Ffrainc, Twrci, Calcwta am ddeufis, Singapôr am drimis arall. Ond osgoi Awstralia rhag ofn y siom, am ryw reswm, Rio de Janeiro am bythefnos. Achos ei fod e mor barod i gysgu rywle rywle ac i fwyta'r lleiafswm, roedd y flwyddyn a hanner 'fwriodd e'n gwneud pethau fel 'ny yn hwyliog o rad. Chwarae teg, roedd eisiau tipyn o wmff 'fallai. Ond byth i Awstralia, fel 'se ofn realedd gwlad y cangarwod arno fe. Ofn ei hwynebu hi. Ofn y cyrff, meddai fe; fe, cofiwch. Ond roedd 'na wmff, rhaid cyfaddef. Neu roedd e'n gwneud ei filoedd efallai gyda'r paentio 'na. Yr Artist gadd ei wrthod! Twt! Ond caiff e gadw'i baentiadau. Os ca-i yn lle hynny fwrw gwyliau-pecyn ym Majorca yn weddol daclus, Mrs Wilias fach, fyddwn i'n ddigon bodlon i beidio â bod yn artist. Hi! Hi!'"

Chwarddodd yng nghwter ei lwnc.

Pobl ddieithr i Wili oedd yr holl fro hon bellach, pob Cymro jac wan ohonyn nhw. Roedden nhw eisiau pellhau rhagddo, ac eto busnesa, ac wedi llwyddo gyda chryn arddeliad. Mewn ffordd, doedd e ddim yn perthyn, ddim o ddifri, i neb, — na Mrs Wilias, Mrs Siencyn bach, Len Llwyd, na neb. Pawb â'i rywioldeb yn yr hen fyd 'ma, efallai. Allen nhw ddim ei hawlio fe felly yn go iawn. Nid yma y perthynai. Nid ei ffordd ef oedd eu ffyrdd nhw. Ac wedyn, wedi'r cwbl, medden nhw (nhw gynheiliaid y drefn firain), mae pawb drwy drugaredd yn brysur.

## 29

Wili a orfu. Doedd Len Llwyd ddim wedi dymuno mynd i Gynhadledd Westminster eleni. Wili a fynnai ei fod yn ateb yr alwad yn gadarnhaol.

Yn fuan ar ôl yr helynt gyntaf gyda'r heddlu, ond cyn yr ail, derbyniasai Len wahoddiad gan drefnwyr y Gynhadledd i roi papur ar 'Ddylanwad Finney ar Bregethwyr Cymru: rhwng Humphrey Jones ac Evan Roberts.'

Na chamddealler. Nid dyna'u ffordd syber ar y pryd o estyn na chydymdeimlad nac ewyllys da i ddafad arwynebol frith, na ffydd ynddo. Nid oedd helyntion ei orllewin gwyllt wedi treiddio mor bell i'r dwyrain er mor dreiglog yw helyntion. Ond gan ei fod yn fynychwr go reolaidd, go wybodus a brwd yn y Gynhadledd ers deng mlynedd, croesawai'r gwahoddiad, a'i gyfri'n gryn anrhydedd. Ac eto, teimlai'n fuan na allasai gyflawni'i fwriad

a gadael Wili ar ei ben ei hun.

‘Rhaid ichi fynd. Does dim dwywaith.’

‘Dyw hi ddim yn bwysig. Na.’

‘Mae’n bwysig i fi ... Mi fyddai’n dân ar ’y nhin tawn i’n sefyll rhyngoch chi a’r chwaraeon penffol hyn.’

‘Mi gadwith y ddarlith am flwyddyn arall.’

‘Na. Eleni.’

‘Dim gair arall. Mae’n rhy bell. Mae Lloegr mor ddiarffordd rywsut, mor anhygyrch o bobman.’

‘Sothach.’

‘Dim sill. Os gwelwch chi’n dda, Wili. A-i ddim yn agos. Does dim blas ar dramwyo’r gwastadeddau yna ta beth. Maen nhw fel ’se hufen wedi’i symud oddi ar eu hwyneb.’

‘Tawn i’n amau ’mod i’n dod rhwymau amdanoch chi...’

‘Ddim o gwbl.’

‘Tawn i ... Ydw ... Dwi’n gweld wrth eich llygaid.’

‘Fy *llygaid!*’ ebychodd Len. ‘Dwi’n byw gyda’r rheina ynghau.’

Ond mynnai Wili barhau’r ddadl am orig ymhellach. Gwyddai pa bryd yr oedd ei grafangau’n ddisyfl yn y cig. Ac yng nghyflawnder yr amser, ymhen hir a hwyr, mynd â’i gynffon yn ei afl a wnaeth Len. Ceisiasai gyndynnu ar ei dennyn, ond yn ofer. Cyrchu dow dow a wnaethai yn y diwedd. ‘Dim ond i draddodi ’narlith te.’

‘Peidiwch â siarad sbwriel. Ewch yno’n onest, ddyn. Gwrandewch ar y ffiloreg. Os ych chi’n talu am siwrnai’r trê, man a man ichi gymryd gwerth y gwacter.’

‘Un noson te, ac mi fydda-i’n ôl.’

Ond gweinidog yw gweinidog. Arhosodd am ddwy noson dragwyddolus.

Ni allodd, wrth frysio’n ôl, rag-weld yr hyn a’i disgwyliai. Dyma’i gosb, ffrwyth unol ei hunanoldeb. Roedd Wili, ei Wili ef, Wili o bawb, y Wili anodd ac annealladwy, yn ddiseremoni annisgwyl wedi llithro gyda’i einioes i ffwrdd, yno ar y setî, Wili, wedi gorffen hynny o fywyd a oedd ar ôl, mor bwt byth ac annisgwyl ag y gallai, wedi trychu’r edefyn gwlyb yn ddirybudd ddibaratoad, â’i anadl wedi cilio. Fe’i cafodd Len ef yn ddiymadferth, yn lwmpyn gwrthodedig, dibwrpas, wedi’i rollo’n un bwndel bach cyfan fel draenog ar y setî, doedd dim croeso i anadl yn ei gorpws, doedd dim croeso i sill. Wili druan hurt, wedi

colli'i ddadl â'r ddaear, a'i fywyd yn gynoesol. Wrth ei ochr roedd — Na! — hanner potelaid o'i dabledi. Ond doedd Len ddim yn gwybod a oedd wedi cymryd neu beidio fwy nag arfer o'r rheina. Pam hyn, Wili? Pam nawr? Ar y ford goffi ar ei bwys gorweddaï un o lyfrau uchel-eu-cloch Len Llwyd. Rhywbeth cynnar o waith Spurgeon. Ond doedd Len ddim yn cofio a oedd ef ei hun wedi'i adael yno neu beidio drwy amryfusedd ychydig cyn iddo ymadael. Go brin. Y tu allan i'r ffenest, roedd dwy fwyalchen yn pyncio. Ceisient fod yn symbolau o rywbeth.

Wedi ffonio'r meddyg, y peth cyntaf a gofiodd Len oedd y llythyr at ei rieni a ddarllenasai Wili iddo ynghynt. Cofiai eiriau'r llythyr hwnnw yn bygwth hunanladdiad. Cofiai'r nihiliaeth deimladllyd. Byddai hynny i gyd bellach yn hen gam dystiolaeth am ysbryd Wili yn ystod y misoedd diwethaf. Nid dyna rywfodd y Wili haelfrydig a adwaenai mwyach. Wedi dod o hyd i'r llythyr, fe'i llosgodd.

Cafwyd post mortem yn ddiymdroi. Barnwyd i Wili ddarfod gryn amser cyn i Len gyrraedd yn ôl. Doedd dim math o bendantrwydd ynghylch unrhyw ymgais i gymryd gormod o dabledi na dim felly. Gadawyd gofynnod hofrannog uwchben y posibilrwydd. Beth bynnag oedd yr achos, roedd ei afiechyd yn gyfryw fel na ellid disgwyl iddo fyw'n hir, ta beth.

Buasai farw heb obaith. Cariodd ef yr ugeinfed ganrif i mewn i'r twnnel hir. Aeth yn ddiwedd clep arno. Roedd ei ragdybiau o'r diwedd wedi cau am ei gorff. Pethau felly yw rhagdybiau. Corff syml oedd ef mwyach, a hwnnw'n pydru. Pethau caethiwus ydym, eithr yn achos rhywrai mewn modd mwy cadarnhaol na'i gilydd. Doedd ei ragdybiau erioed wedi caniatáu i Wili chwilio o ddifri y tu hwnt i'w gorff negyddol. Corff oedd ef, a digon hynny. O ran y dimensiwn arall doedd hwnnw erioed, cyn belled ag y deallai Len, wedi bod yn boblogaidd gan Wili. Fe'i caeodd ei hun o fewn ei sgerbwd. Doedd dim ar ôl o'i gorpws heddiw ond rhywbeth bach i'w gladdu.

Ac eto, tybed? Un noson desog cyn mynd i gynhadledd Westminster, synwyrasai Len, am yr un noson honno o leiaf o flaen y sêr gerbron y ffenestr, fod Wili efallai yn ymglywed â byd nad oedd yn syml ynghlwm o fewn amser a lle. Beth bynnag am ei arddangosfa ei hun, fe'i llethwyd gan yr anweledig. Fe'i crymwyd yn onglog. Ac fe ildiodd i'r wybren, roedd Len yn siŵr mai felly'r oedd. Gŵr ifanc oedd ef y pryd hynny a dyfodd oherwydd bod y greadigaeth wedi tyfu ynddo. Ffarweliai am ychydig â mwy na'r ugeinfed ganrif. Troes ef globau'i lygaid at Len yr un noson honno. Roedd fel pe bai wedi darganfod

peidio. Estynnai Len yntau ar y pryd ei obaith yn araf tuag at y crwt.

A'r noson honno roedd Len wedi cael cipolwg arno o'r newydd ... y crwt ar ei fol ysbrydol ar y llawr. Beth oedd e'n ei wneud fan yna?

Ar ryw olwg, i Len, er na chyfaddefai hynny iddo'i hun yn uniongyrchol, gollyngdod fu marwolaeth y llanc. Gallasai marwolaeth fwy llusg fod wedi troi mor ingol. Buasai'i sgrechiadau'n diasbedain drwy'r benglog, a'r oriau ocheneidiol olaf yn ymlusgo drosto mor bwyllog, — ac yntau Len yn gweddio am sydynrwydd ac am fygu'r boen, a Wili'n ymdroi ac yn oedi tan hamddena mewn dioddefaint cyndyn. Cadwyd y naill megis y llall rhag hynny.

Roedd Len yn falch 'nawr nad oedd dim angen iddo egluro'i wae. Gwasgfa ddirgel oedd y galar iddo. Ffynhonnai dŵr allan ar draws ei retina yn anwel bron heb lwyddo i ymffurfio'n ddeigrin. Ni redai dim oll i lawr ei foch.

Ond rhedai tristwch ar hyd twneli Len. Roedd euogrwydd ei wacter ei hun wedi ymgartrefu o'r newydd ynddo. Mor rhyfedd o dlawd oedd ei galedrwydd bob amser yn ymyl y sancteiddrwydd a ddisgwylid ganddo. Mor ddieithr oedd y prudd-der hyderus ac yntau'n gwybod na allasai byth oddef trymder hir. Ac eto, gwacter yr un pryd: caed bwlch ysol caled yn ei lwnc ac yn y tŷ. Y bwlch briwus coch a atseiniai'n ddiidwedd drwy'i ben.

Suddai ar ei liniau. Ar ganol yr ystafell, diolchai am Wili. Gellid dathlu Wili.

Eisteddai wedyn wrth y ford i lunio llythyr at chwaer Wili yn Awstralia. Ceisiai egluro. Methai. Tywalltai'i wacter a'i ffydd i'r llythyr. Chwilio am fodd i'w feio'i hun oedd arferiad anochel Len. Ac ni allai lai na thybied pe bai wedi cadw'i air yn ddi-sigl, y gallasai fod wedi estyn mwy o gysur i Wili. Nid oedd yn gwybod yn awr beth a ddylai ddigwydd yn nesaf. Gofynnod o gymeriad fu Wili erioed. Yr ydym bawb yn oruwchnaturiol.

Galwodd Maxine Pearse o'r herwydd i gydymdeimlo.

Pellhau'n seithug a wnaethai ar ôl eu cyfarfyddiad yn y siop yng Nghaerafon. Cwrtais oedd hi o hyd wrth gwrs. Ond yn lle'r doreth yna o gynhesrwydd a brofai ef fel arfer ganddi, roedd hi wedi troi'n gwta ei hymddiddan. Ar Wili roedd y bai o bosib. Yn awr, sut bynnag, wrth iddi lithro i'r tŷ, yr oedd yna gynnu dân cynnil wedi ailennyn ar hen aelwyd. Roedd yr holl le yn anwedus o normal. Roedd Len yno ac yn teimlo bod ei fywyd wedi bod yn carlamu'n rhy heini ers achau. Gyda Maxine, arafai.

'Rych chi'n dod â thipyn o awel,' meddai fe, yn falch i siarad â bod cadarnhaol byw.

'Dewch am dro 'te. Mae yna fyd mawr fan draw.'

Gwisgai ef ei gôt law ac ymuno â hi. Cerddent allan ill dau mewn distawrwydd a rhyw lathen rhyngddynt am ysbaid. ‘I lawr i bont yr afon?’ meddai hi.

‘Pont Mair?’ gofynnai ef. ‘Ddim heddiw.’ A throent i gyfeiriad Llyn Llygad Piblig tra oedd Len yn casglu’i realiti a hithau’n hel ei breuddwydion.

Adwaenai hi ei dawelwch erbyn hyn. Trôï hi ato a syllu i fyw ei lygaid.

‘Dw innau’n diolch hefyd,’ meddai fe’n enigmatig. A cherddent ychydig ymhellach. Roedd y distawrwydd yn drafnidiaeth ddwys rhyngddynt. ‘Dwi ddim yn bwriadu aros yn y tŷ ’na wrth gwrs.’

‘Na.’

‘Mi a-i’n ôl i’r Mans yfory nesaf. Neu ar ôl yr angladd efallai.’

‘Ac wedyn?’

‘Mae *wedyn* yn ddigon pellennig,’ meddai Len fel pe bai’n meddwl yn uchel ac yn bur ansicr o isel. ‘Mae *wedyn* efallai yn amhosib ... Llanbiblig, mae’n debyg. Dwi ddim yn siŵr. Dwi wedi addo i fi fy hun mai fan hyn y byddwn i’n ymsefydlu. Byddai’n deidi pe bai modd anadlu.’ Siarad yn ddiargyhoeddiad yr oedd. ‘Byddwn i’n bwrw’r hyn mae rhai pobl ddychmyglon yn ei alw’n wreiddiau. Byddwn i’n chwilio am lonydd. Ond rywfodd mae yna ryw derfysg dan y pridd.’

Trefnu’r angladd fyddai’i orchwyl nesaf.

Brawd cysur oedd trefnu. Syndod mor aml yn awr y ddi Maxine Pearse heibio i gynnig cymwynas. Roedd hi am fod yn anhepgor. Ac eto, roedd hi’n gymharol ffurfiol. Gallai hi siopa, ailstocio’r bwtri. Gallai daro llythyrau yn y post. Gallai yn anymwithiol dalu am y papurau, a gofyn i Emrys Saer i bicio draw i gyweirio’r llidiart. Ac roedd hi’n mynd i Lyfrgell y Dref yng Nghaerafon beth bynnag. Fyddai hi’n fawr o helynt iddi ddychwelyd llyfrau Len hefyd, mewn pryd fel na byddai angen iddo dalu dirwy. Ac eto, ymataliai rhag bod yn orffwdanus.

Claddwyd Wili. Len a Maxine oedd yr unig rai gweledig yn yr angladd. Ni theimlai neb arall, na ‘thad’ na ‘mam’, na chymydog na gelyn, reidrwydd i fod yno.

Eto, doedd hynny ddim yn llythrennol eirwir. Fe geid un ffigur eiddil a oedai ar bwys y llidiart, heb nesáu’n feiddgar at y bedd. Meri Defis oedd honno. Gwyliai o bell heb fod yn rhan o’r gladdedigaeth. Nid oedd yn absennol chwaith. Synhwyrarai hi ei bod yn ei hangladd ei hun.

Dyma’r tro diwethaf efallai y byddai Len a Maxine, meddylent, yn gweld honno

byth. Onid gydag angladd Wili y diflannai hi o'u bywyd? Ei hangladd hi oedd hi. Rhyfedd o beth oedd derbyn cynnig cariad rhywun arall, ac yna iddo droi yn absenoldeb. Math o droednodyn oedd hi. Ac yn sgil colli Wili yr oedd fel pe bai Meri Defis hithau yn ymneilltuo rhag bywyd, o leiaf rhag bywyd Len a Maxine. Buasai bwgan Meri Defis gyda Maxine yn gynhorthwy amwys ar yr ymylon hyd y pryd hynny, fel y buasai Wili yn gynhorthwy i Len ddysgu llawer amdano'i hun. Ac wrth iddi ymneilltuo, wylo'n hidl yr oedd Meri.

Felly y cyd-deimlent ac y cerddent gyda'i gilydd, gan bendroni mor ddirgel fu Wili, ac mor annealladwy fu Meri Defis. Dyna i'r ddeuddyn oedd ystyr y ferch dywyll ddieithr honno: methu â deall. Roedd hynny'n rhywbeth. Weithiau yr oedd yn bopeth. Yn yr angladd, am ychydig, ni sylwent o'r braidd arni'n cyrraedd. Ni sylwent ar ei chysgod yn ymadael ychwaith. Digwyddodd hi. Darfu cysgodion Len a Maxine hwythau hefyd o'r diwedd. Daethant allan i fywyd o wynebu'i gilydd. Rywsut, roedd yna rai profiadau amwys anhysbys fel yna'n disgyn weithiau ar arffed rhywun am ychydig ac yn tueddu i wneud bywyd yn lletach er yn llai ystyrllon.

Cyn ymadael â chartref Wili, er hynny, aethai Len ati i dacluso'r tŷ. Mewn rhai drorau daeth o hyd i gannoedd o ddyluniadau. Roedd y cyfan wedi'i seilio ar glymau Celtaidd diderfyn. Llafur Wili oedd yn amlwg. Ond os mai'r patrymau haniaethol hyn a ddarparai'r adeiladwaith cywrain i'r lluniau, y tu mewn i'r troeon, y cylchoedd a'r onglau, yr oedd yna gangarwod cartwnaidd bychain wedi'u ffurfio'n Geltaidd hefyd. Penliniai rhai. Roedd eraill yn taflu'u breichiau i'r awyr mewn gorawen. A'r cwbl ynghudd. New South Wales wedi'i chlymu mewn cylchoedd artistig. Math o drysordy tanddaearol ydoedd, gyda rhai o'r ffurfiau wedi'u dosrannu'n ôl deuoedd neu drioedd a atgoffai Len am y gynghanedd. Ac yn wir, yn gymysg â'r lluniau Celtaidd hyn, fe gaed pytiau o bapur. Roedd llinellau gwreiddiol o gynghanedd gydlynol arnynt, fel pe buasai Wili wedi bod yn myfyrio am y berthynas ac yn gwau y naill gelfyddyd i mewn i'r llall. Rhyfedd oedd y lliwiau hefyd, llachar megis lliwiau a oedd newydd eu dadlennu ac nad oeddent erioed wedi bod o'r blaen. Ond rhyfeddach y sgaffaldwaith o drefn a oedd fel petai'n ymguddio y tu mewn i'r ffurfiau anifeilaidd, a oedd yn ymguddio, hwythau, yn y drorau, ymhell o afael y byd.

Cafodd Len ei hun bellach ryw awgrym o ffurf yn ei fuchedd. Roedd y cwbl drosodd. Teimlai'n anghyfaddas o falch, yn gywilyddus o rydd oherwydd i Wili ysgafnhau ei gefn. Ai gonestrwydd hunanoldeb oedd hyn? Straen fu'r torri ar areuledd ei rod feunyddiol oherwydd Wili. Bu'n isymwybodol anhapus ar y pryd o gael ei darfu gan

broblemau ymylog. Bellach, yr oedd canol ei ddyddiau'n symlach iddo, er iddo synied efallai mai bywyd cymhleth ddylai fod gan bawb.

Beth bynnag, buasai'n bur amheus erioed o'i haelfrydedd ei hun. Onid chwarae cymwynasgarwch a wnâi. Neu a wrthweithiai rhyw falchder ynddo? Oni chawsai ollyngdod cyffelyb hefyd wedi marwolaeth ei fam, er mawr siom iddo? Bu'n anymwthiol o falch hefyd fod yr hen wraig Hanna Meri wedi darfod. Och! Onid yn yr un modd, roedd yna radd fechan o gywilydd balch bellach hyd yn oed fod y gŵr ifanc hwn wedi darfod er mwyn iddo ef ei hun osgoi anesmwythyd gwylid y dioddefaint blin. Y fath weinidog! Blinai'n rhy glau ar gymwynasgarwch. Hiraethai am symllder ymneilltuo. Dôi i'r casgliad nid yn unig fod yna rywbeth adfeiliol yn ei natur ei hun, awydd i ymwared â phob anghyfleustra a hyrwyddo einioes ysgafn, ond bod yna hyd yn oed duedd at greulondeb ynddo. Yn ei feddwl byddai'n barod i anwybyddu pobl weithiau, er mwyn cael llonydd, lu ohonyn nhw. Ac ni wyddai sut y gallai edifarhau'n ymarferol er mwyn gwneud iawn am y diffyg anhyfryd. Yn yr hiraeth hwn am ymwared, yr hyn a wnâi oedd ymwared â bywyd. Ei anghyfleustra fu ei rym.

Rhaid efallai oedd i wir fywyd aros er ein gwaethaf yn rhy gymhleth inni i gyd.

Anadlai'r ardal oll hithau, sut bynnag, yn fwy rhydd ar ôl marwolaeth Wili. Brysio'n gynnil a wnâi pawb i ysgubo dail hydrefol eu rhagfarnau dan garped eu hangof. 'Diolch am yr hen aeaf. A diolch am noethni.'

Wrth gwrs, rhith i Len oedd y llonydd hwn: toc gellid mentro y dôi anghyfleustra newydd i'r fei. Yn ddisymwth, dôi'r blynyddoedd cêl dros ei ben na sylwyd arnynt, i neidio ar ei ysgwyddau. Gwyddai ef am hyn ymlaen llaw.

Yn ddiymdroi profasai Len drosto'i hun haen hynod o henaint. Roedd poenau wedi gafaelyd yn ei asgwrn cefn wrth iddo blygu i glymu'i gareiau. Gwell oedd ganddo bellach eistedd ar waelod y grisiau er mwyn arbed y crymu. Ni wyddai o ble y daethai'r gweddnewidiad disyfyd hwn. Yn ddirybudd, teimlai'n flinedig o hyd. Deffrôï ef yn olau llachar bob bore tua phedwar o'r gloch wedi colli cyfrinach rhythmig cysgu. Gallai *fynd* i gysgu'n brydlon, ond roedd-hi fel pe bai min ei flinder wedi'i bylu erbyn pedwar. Wrth iddo ymlwybro ar un o'i bererindodau nosol i'r toiled, dihunai fel mwyalchen. Roedd e'n barod am bigiadau'r dydd. Dechreuai chwilio mwydon. Rhedai'r egnïon yn well nag a wnaent erbyn naw. Erbyn naw, cwbl luddedig fyddai ef drachefn.

Tynnu ymlaen 'roedd. Ac eto, i ble, wel, fe'i gwyddai'n burion ... diolch i'r drefn. Diolch i'r gobraith a'r agosrwydd a'r ffyddlondeb dihaeddiant o'r tu allan.

Hen oedd ei obeithion daearol. Ond gwawriodd arno fel yr oedd gofal a diddanwch Maxine yn ddiweddar wedi dod yn anwes iddo. Teimlai fod ei fywyd dygn beunyddiol, yn llawnder diweddar ei ganol oed, yn gofyn mwy o gwestiynau nag y'i gwnaethai ers talwm byd.

30

'Mae eisiau newid arnoch-chi,' cyhoeddai Maxine cyn iddi ffarwelio ag ef un diwrnod wrth iddi gerdded linc-di-lonc gyda Len yn ei ardd, a chyrraedd y lliidiart adnewyddedig yn y pen draw. 'Ergyd fwy nag arfer fu colli Wili. Nid newid bach. Na! Mae eisiau Chwyldro, llond côl o chwyldro.' Roedd Maxine hefyd yn rhan go ryfedd o'i fuchedd erbyn hyn. 'Oes.'

'A pha fath o newid oedd gynnoch *chi* mewn golwg, Madam?' Petrusai hi. Pwyllai ef... 'Newid amser oedfa'r bore efallai, o ddeg i hanner awr wedi deg? Newid cyflymder canu'r emynau yn yr oedfa? Dwy weddi fer yn lle un hir? Cytgan? Cael drymiau? Rhyw gyfnewidiadau goruwch-syfrdanol o'r fath.'

'Plant yn chwarae fysai pethau felly!' meddai hi gyda didwylledd y diniwed.

'Wel?'

'Ffrwydrad go iawn felly!'

'Ffrwydrad i hen gapelwr llwyd? ... Meddylier am y straen ar 'y nghalon. I fi, ffrwydrad yw newid i dôn-emyn newydd o'r ugeinfed ganrif.'

'Na, chwyldro logistig sy eisiau. Dimensiwn arall. Hemisffêr arall. Llamu'n bell. Cyd-destun newydd. Cenhadu.'

'Dwedwch wrth y gynulleidfa. Rych chi'n siarad yn rhy gyflym i fi.'

'Dwi am wneud tanchwa o awgrym,' meddai hi'n fygythiol.

'Beth sy gynnoch chi?'

'Rhaid ichi ddifrifoli'n gyntaf.'

'Na ... na,' meddai ef mewn braw. Canfu'n sydyn holl gysgodion eu cyfarfyddiad cyntaf ger Llyn Llygad Piblig yn dychwelyd. Roeddent yn cloi amdano. 'Dwi ddim am ganlyn Llyn Llygad Piblig. Nid fy niddanwch i yw ymlusgo yn fy henaint ar hyd ...'

'Na.'

'Rhy hen o'r hanner i jolichoetian.'



‘Iawn.’

‘Beth te?’

Edrychai hi arno braidd yn bŵl. Dymunai hi ei ennill heb ei ddychryn. Hwn yn y diwedd wedi’r cwbl fu testun ei breuddwyd gynt, y gŵr helbulus a ffôl hwn. Bu hi’n disgwyl mwy o ruddin ganddo. Roedd hi wedi erfyn ychydig o statws, awdurdod hyd yn oed. Ond hwn yn ei gymhlethdodau oedd yr un a arfaethwyd. Ceisio ennill hwn fu ei thynged, bron yn groes i’r graen.

‘Byddai’n gofyn gostyngeddwydd,’ sibrydai hi.

‘Dych chi wedi dod i’r siop anghywir.’

‘Dwi’n petruso felly,’ meddai hi.

‘Ma’s ag e.’

‘Bydd hi’n gofyn trechu balchder.’

‘Tra annhebygol mae arna-i ofn.’

‘Gwnewch.’

‘Byth.’

‘Mi wnewch. Dwi am ichi dderbyn anrheg fach.’

‘O?’

‘Camp i ddyn balch.’

‘Camp i ddyn cyfoethog hefyd.’

‘Dych chi wedi bod dan straen. Blwyddyn y cythraul fu hon ichi.’

‘Ddim gwaeth nag arfer,’ celwyddai ef.

‘Do. Mae eisiau dargyfeirio.’

‘Nac oes!’ meddai ef, ychydig yn llym. Amheuai — o adnabod Maxine bellach — y gallai hi’n ddisymwth rithio modrwy o’i flaen ar lun anrheg. ‘Gorffwys sy eisiau arna-i. Dyna’r cwbl, Ychydig o fisoedd dichwyldro. A normalrwydd newydd sbon byth wedyn.’

‘Beth yw hwnnw?’ holodd hi.

‘Pobl yn gadael llonydd i hyn o drobwill. A finnau’n gadael llonydd i fi fy hun. Tawelwch yw’r unig sŵn cytûn.’

‘Mae gen i gyfrwysach cynllun, o beth.’

‘Oes, mae’n siŵr.’

‘Clywch.’

‘Wel, dwi’n gwneud ’y ngorau.’

‘Awstralia amdani.’

‘Awst — ...!’

‘Gorffennaf.’

‘Fi fydd yn gorffen. Awst ...!’ meddai ef yn baralytig.

‘Gorffennaf’. Cyfandir gwag. Dowch ’co’n garcharor. Cewch fod yn droseddwr peryglus wedi’i alltudio am unwaith, gyda Dai’r cantwr yn yr howld.’

‘Bobl y Bala! Ond beth am gyrch i’r blaned Mawrth? Dyna syniad. Neu’r Lleud o leiaf os nad ych chi am fod yn wallgof.’

‘Rheina a’r sêr i gyd wedyn ... Awstralia’n gyntaf.’

‘Sut? Fi! Byth. Mae ’na ddigon o ddiffeithwch ar fy mord fanyma heb fynd dros ben llestri.’

‘Clywch ... Chredech chi ddim.’

‘Gwrandewch, Maxine fach...’

‘Na: clywch. Chredais innau ddim chwaith. Cyfrinach: pan glywais i’r newydd am y tro cyntaf...dwi’n gyfoethocach menyw nag y gallech chi byth freuddwydio.’

‘Pa ots os ych chi’n filiynydd?’

‘Dyna chi. Dwi wedi etifeddu pum miliwn a thri-chwarter o ddoleri, gan hen fodryb ifi oedd yn berchen ar ffyrn hufen-iâ a stablau ceffylau rasio yn Brisbane ... Pum miliwn a thri-chwarter, cofiwch. Does gen i ddim syniad beth i’w wneud â nhw.’ Daliai Maxine ei hanadl wrth herfeiddiolrwydd ei breuddwydion.

‘Miliwn?’

‘Pump,’ roedd hi’n hwylio ar gefn ei doleri ffansiol eto.

‘A thri-chwarter? Ydy hynny’n ddigon i drefnu bywyd pobl eraill?’

‘Mi wyddwn fod yr hen wrach yn gyfoethog; ond pum miliwn a thri-chwarter, a hynny ar ôl talu treth marwolaeth. Mae’r peth yn aflednais. Ac fe gadd ’nghefnder Joe fwy na hynny ar ei hól mewn eiddo.’

‘Bysai llanciau a llancesi Eritrea yn gwybod i’r botwm beth i’w wneud.’

‘Dwi wedi bod yn meddwl pob math o bethau. Agor cadwyn fach o westai tramor, De Ffrainc, Sbaen, Groeg, Creta, gyda Chymry Cymraeg yn gofalu amdanyn nhw i gyd er mwyn trefnu lleoedd dymunol i fwrw gwyliau i’r Cymr ... Ond yn gyntaf oll, blaenoriaeth. A’r flaenoriaeth gyntaf yw gwyliau i hen weinidog hyll.’

‘Yn Awstralia?’

‘Pam lai?’

‘Beth sy fan ’na, dwedwch, heblaw cangarwod ac anialwch?’ Roedd ef yn drwgdybio rhyw gynllwyn. ‘Na, peidiwch â dweud. A nadredd.’

‘Mair!’ meddai hi’n unsill gyrhaedddgar.

‘A! Felly!’

Crynododd ef wrth y gair, a hynny’n hollol ddialw-amdano.

Gwyliai hi ef yn ofalus. Rhithiodd ei adnabyddiaeth o Mair mewn amrantiad hurt ger ei fron fel pe bai hi’n ei foddi.

‘Mae’n rhaid ichi weld Mair. Mae’n rhaid i Mair eich gweld chi. Cyd-weld.’

‘Rhaid! Y rhaid megis yn “af-raid”. Dwi ddim yn ei nabod hi,’ meddai ef yn syml. ‘Bydden ni’n ddieithriaid rhonc.’

‘Mi ga-i’ch cyflwyno chi,’ meddai hi gan geisio ymbincio fel pe na wyddai fod y fath air ag eiddigedd wedi’i ddyfeisio erioed. ‘Mair,’ cyfarchai ei rhith yn chwareus seremonïol, wrth eu cyflwyno i’w gilydd, ‘wele — yr hen lwmpyn lludw, — dyma hen fflam. Mae’n rhaid ei hwynebu.’

‘Hen fflam, — a dyma’r Llwyd o ludw ei hun,’ meddai ef.

‘Am egwyl, dyna’r cwbl. Dyna’r cynnig ... Er mwyn clirio’r deciau.’

‘Pa ddeciau? Dwi’n amau fod rhyw gynllwyn ar waith,’ meddai yntau. ‘Chi a Bill. Pawb hyd at Lanrwst am atrefnu ’mywyd.’

‘Rych chi’n cynhesu te,’ atebai hi.

‘Dych chi, mae arna-i ofn, yn ’y ngweld i’n hen lanc diymadferth ar lawr, mewn cawl wedi’i sarnu ... Ond na. Medra-i ymdopi.’

‘Na, nid dyna’r syniad.’

‘Medra. Ydych ... dych chi’n ’y ngweld i’n ysu am wraig weddw neu am wraig ysgaredig, ac yn sicrach byth os bydd honno’n un â bwmeráng yn ei gwallt.’

‘Does dim byd pellach o’r meddwl i.’

‘Cengrw,’ meddai ef gan ddynewared acen yr hemisffêr, ‘dyna dych chi eisiau’i wneud ohono-i: gwn i.’

‘A’r ateb?’

‘Nêw wrth reswm,’ tan geisio cynnal yr acen Awstralaidd yn bur anobeithiol. ‘Sut gallwn i dderbyn cardod fel ’na?’

‘Anrheg. Nid cardod.’

‘Sybseidi, elusen, beth fynnoch chi: lol.’ Roedd ganddo ef ei falchder.

‘Mae yna haelfrydedd wrth dderbyn anrheg yn raslon.’

‘Graslon! Haelfrydedd yw gwrando am eiliad ar y fath lol.’

‘Gras ydy derbyn heb haeddiant.’

‘Nêw.’

‘Balchder yw hyn; fe’i gwyddwn i,’ heriodd hi.

‘Iawn! Galwch e beth fynnwch chi. Dwi ddim am fentro ganllath o doiled Llanbiblig. Fyddwn i ddim yn teimlo’n ddiogel.’

‘Mi fyddwch yn edifar te. Ystyriwch. Dyw’r swm, cost y daith, yn ddim byd i fi. *Peanuts.*’

‘Cardod! Byth! A Mair! Pam Mair? Pwy yw hi?’

Wrth gwrs roedd ef yn flinedig. A Len oedd ef. Chwarddodd ychydig yn nerfus. Nid oedd annibyniaeth yn corddi’r Annibynnwr ynddo fel y dylai. Rywsut, ni pharchai’r egwyddor o uchelgais chwaith. Dyna pam roedd Llanbiblig yn ormod iddo. Roedd hefyd wedi cael ei lethu gan afradlonedd syrffed. Roedd hi’n wir ei fod ef yn ddi-hwyl. Chwifiodd awgrym Maxine fel breuddwyd ffres o flaen ei ffroenau. Ond y cardod, y sarhad i’w falchder. Er bod ei ysbryd wedi’i ysgogi unwaith o’r blaen, a dwywaith, yr oedd y naill flinder wedi’r llall wedi canlyn sodlau ei gilydd. Daethai un erledigaeth wedi’r llall, ac nid oedd ar ôl namyn suddo nerfol. Ildiai i’r pwysau chwarennol, a phlygu hyd ei wadnau tlawd.

Roedd wedi hen flino ar y lle yma. Heddiw ac yfory. Os oedd ei hwyliau’n wydn yn y dirgel, anodd yn y golwg oedd i’w gorff oddef mwyach gysondeb y curo. Roedd wedi heneiddio, mae’n rhaid, a heb sylwi. Aethai hyd yn oed ei ddefosiwn yn hen. Beth oedd ar ôl i’w gnawd druan? Beth i’w ymroddiad? Aethai’i holl ddyletswydd a’i holl waith gwirfoddol yn oedrannus. Aeth ei fyfyrnodau a’i weithredoedd yn dreth arno. Yn raddol roedd yn colli bodolaeth.

Ei ddiffyg mewdol ei hun fu’n gyfrifol. Ond roedd peth gwirionedd gan Maxine. Roedd rhyw fath o angen cyfnewidiad radicalaidd arno. Gallai ef fod yn rhywun arall, efallai, ymhell o Gymru. Gwisgai gorff arall yn ddihangus. Gadawai’r syrffed hen yn glwtyn ar y llawr o gylch ei figyrnau a chodai oddi yno i ysbaid hynaws o heini. Dichon y gallai fentro mymryn o ostyngeddwydd.

‘Ond Mair!’ ebychai ef yn galed. Hon a Bill! Beth a wnâi?

‘Gwraig ganol-oed hawddgar,’ meddai Maxine.

‘Dwi ddim wedi’i gweld-hi ers ... A sut bynnag...’

‘Ofn sy arnoch chi.’

‘Na, nid ofn. Nid yn yr ystyr swolegol.’

‘Dychryn te?’

‘Mwy o bwyll nag arfer. Dyna i gyd. Gweld y ddaear wedi’i throï dwi.’

‘Oes, ofn.’

‘Oes te, ofn, ofn cynnil. Ofn bod yn Len. Ofn bod yn anghwrtais. Ofn tramgwyddo. Ofn tarfu ar hen grachen ... A’r *peanuts* drudfawr yna. Ofn y rheina hyd at ’y nghlustiau.’

‘Ac ofn Mair ei hun. Ofn hen galon.’

‘Na. Prin yw’r cof sy gen i o unrhyw fath o galon. A phrinnach byth ei chof hi amdana i, mae’n siŵr.’

‘Wel dowch te. I’w hwynebu hi. I wybod pwy yw hi. I’ch wynebu chi’ch hunan. Mair, y Mair go iawn. A chael gwared â’r holl gysgodion ffug.’

‘Dwi’n grair rhy hynafol.’

‘Dowch. Clywch, y Parchedig Len Llwyd. Os oes ofn Mair arnoch-chi, mi allwn i drefnu rhyw ddiogelwch. Dihangfa glymedig rhag pob craffanc.’ Roedd hi’n chwerrthin am ei ben, ond ei hwyneb mor ddi-neb â rhodfa môr Penarth ar ddiwrnod niwlog.

‘Chi!’

‘Fi — i gyd,’ estynnai hi’i dwylo ato’n ffug anwesol. ‘Pwy arall?’

‘O! Maxine, gadewch eich clebr ’fan ’na.’

‘Ofn hynyna sy arnoch chi fan hyn eto. On’d ydw-i’n iawn? Ofn benywod bach eiddil.’

‘Na.’ A cheisiai ef gogio pendantrwydd. Ond ofnai ymadael â hen feddylfryd. ‘Oes te. Ofn dwy. Gefeilliaid. Llond bola o ofn ac ofn.’

‘Wel, dyw ofn ddim yn rhinwedd wreiddiol. Ofn sy arna innau, hefyd,’ cyffesai Maxine yn dawelach. ‘Ofn ryw ben bob dydd, ofn ’y ngholli yn hun,’ cyfaddefai’n fwy sobr nag arfer. ‘Ofn troi’n freuddwyd.’

‘Mae’n ormod o benderfyniad. Rych chi fenywod ar ormod o frys. Dych chi byth yn cymryd arafwch y mater hwn o ddifri.’

‘Fu neb erioed gymaint o ddifri.’

‘Ond dych chi byth yn disgwyl imi lamu i sefyllfa anhysbys — chwit! — fel ’na.’

‘Na. Meddwl, yn hytrach, yn bwylllog drybeilig ar eich traed, fan hyn. Dyna dwi

eisiau ichi'i wneud. Edrych ... a licio hyd yn oed ... wedyn chwit ie. Neidio.'

'Llamu!'

'Pam lai? Fe neidiais innau'n o bell. Pellter yw cyfrinach taith.'

'Ust Maxine.' Ildiodd ef fymryn.

'Ymhoffi'n arbrofol te?' chwarddodd hi, yn fynydd o ddiniweidrwydd, a'i llygaid mor llugoer â llawr Tesco cyn i'r drysau agor. 'A chyflawni gweledigaeth hen wreigen.'

'O! ust er mwyn pob pryfyn yn y pridd. Dim rhagor.'

'Ond dyw breuddwyd byth yn cysgu.'

'Rych chi ar garlam o hyd, dim ond i rithyn o freuddwyd ddod ar gyfyl eich clust.'

'Pam lai? Peth deheuig ar draed yw breuddwyd.'

'Meistres Pearse fach. Ust am foment fechan swil. Siaradwn am fydsawd arall.'

'Oes rhywbeth callach na diriaethu breuddwyd?'

'I fi,' meddai ef gyda sobrwydd, 'mae ymhoffi fel hyn yn gymaint o ymrwymiad call â phriodas. Math o fini-briodas amhosibl. Dyn bach uniongred teidi dwi fel y gwelwch chi. Dyw pobl fel fi ddim i fod i chwarae'n arbrofol. Na. Trafferth yr oes hon yw ... Mewn a ma's a bant â hi heb adnabod y cyflawnder. Na.'

Gwelai hi ef yn ildio ac yn cilio, serch hynny. Er ei fod yn y bôn yn gyndyn o gadarnhaol, yr oedd dygnwch y gwrthwynebiad diweddar iddo, y gwrthod ystig, a rheoleidd-dra'r negyddu wedi profi'n ormod iddo. Gwyddai hi hyn. Gwatwar y pentrefwyr, gwawd y plant, dirmyg yr hen bobl, yr oedd ef wedi'i hen amgylchu gan ei ffolineb ei hun. Ni allai edrych allan heddiw heb gilchwerthin am ei ben ei hun. Gwyddai Maxine hyn oll i'r botwm. 'Clywch, Len Llwyd. Rych chi'n synied mod i'n achos go wamal.'

'Go freuddwydiol, o leiaf.'

'Wel iawn te. Ond mi wyddwn i fod Mair yn eich bola o hyd.'

'Nac ydy.'

'Na?'

'Ddim Mair yn 'y mola, na chi na neb. Wel, chi efallai. Dwi prin yn eich nabod chi. Prin 'mod i'n nabod Mair mwyach. Dim ond un peth yn unig dwi'n 'wybod amdana-i yn hun. Does gen i ddim bola.'

Caeodd ef yn y fan bob drws yn ei feddwl, gan gynnwys drws yr atig. Safodd. Er bod Maxine fel pe bai ar garlam am ei gylchu mewn modrwy, dymunai ef fyw yn sgwâr ... Pellhau.

‘Gorffen te’ meddai hi. ‘Mi allwn fod yn ffrindiau ymylog. Ffrindiau bach ffurfiol. A byddwn i yn hoffi’ch hebrwng chi acw am dro ffurfiol, acw i’r ynys enfawr; tro cyfeillgar, ymylog, i’ch dangos yn ffurfiol i’ m hen ffrindiau ffurfiol. Byddwn yn hoffi’ch dangos chi i’ m hen rodfeydd ffurfiol. Yr ysgol lle’r own i wedi bod yn ysgolfeistres, y gymdeithas Gymraeg yn Sydney, y ffatri lle’r oedd ’y ngŵr Charles yn cyfarwyddo, a Mair, a’r golygfeydd — y wlad, a’r ddinas hefyd a’r môr, popeth yn ffurfiol. Dwi o ddifri. Gwyliau ffurfiol. Egwyl. Ymweld â’r wlad a’ m hyfforddodd i mewn breuddwydio.’

‘Dwi’n eich credu chi,’ taerai ef yn hygoelus. ‘Ond ...’ Trôi i ffwrdd ychydig, mor ffurfiol ag y medrai.

‘Peidiwch â *chau* drws y cefn yn glep ’te.’

‘Alla i ddim fforddio *agor* llygedyn.’

‘A Mair! ... Pam lai?’ meddai hi mor eciwmenaidd â llawr concrit. ‘Does dim ofn Mair arna i.’

‘Wel, debyg iawn.’

‘Mi fyddwch yn ymhoffi ym Mair o’r newydd. Mae hi wedi newid. Mae ganddi lawer mwy o amynedd nag y bu, mwy o faddeuant.’

‘Ond alla-i ddim fforddio’r siwrnai. A does dim eisiau ichi sôn am eich jacpot. Ddown i byth ond drwy dalu ’nhreuliau fy hun. Ac alla-i ddim ’wneud dim arall dros ’y nghrogi.’

‘Does dim byd a rôl fwy o bleser nag ifi gael eich cwmpeini ar strôl i Awstralia.’

‘Byth.’

‘Mi gyfrifwn fod eich cwmni’n ddiddanwch. Fel *padre personol* dwedwch,’ chwarddodd hi. ‘Dyna deitl ichi. Dyna swydd.’

‘Does dim prinder llysenwau ... Gofynnwch i’r pentref. Allwn i byth dderbyn rhodd o’r fath.’

‘Mi ddewch gyda fi, cewch weld,’ meddai hi.

A theimlai yntau ei fod yn cael ei herwgipio. Roedd ef eisoes yn yr awyren. Roedd ei gafael yn ei war. Roedd hon mewn rhith yn gafaelyd yn ei ewyllys, wedi dianc gydag ef ar draws y waun, y wlad, y môr, ac yntau’n syllu i’w llwnc megis i lawr baril rifolfer.

Ond (cyfaddefai’i ddychymyg ef mewn oerni), mi fyddai’n fath o ryddhad melys iddo hefyd, wedi’r misoedd diwethaf. Roedd angen rhywbeth fel hyn arno. Iechyd a gollyngdod gwirion, pellter awyrgylch newydd a phobl wahanol. Angen peidio. Doedd dim

gwadu wrth reswm na châi adnewyddiad. O na allai ymddihatru a gadael ar ei ôl holl ddillad parch eirch ei orffennol, holl ddillad amharch y presennol.

‘Nid rhodd te,’ meddai Maxine: ‘Clywch: rhoi benthyg eich gwasanaeth; cynigiwch hynny. Eich rhodd chi i wraig ganol-oed-diweddar, gwraig seithug o gyfoethog sy’n hiraethu am un wibdaith fer firain i’w henfro ddeheuol, ond sy’n petruso rhag gwneud y fath beth ar ei phen ei hun. Gwarchodwr te.’

‘Ond Awstralia! Beth am Aberaeron?’ Dychmygai’n dost eto fod muriau’r awyren amdano.

‘Po bellaf yr awn-ni, distatlaf yw popeth... Beth yw honno inni i gyd? Dowch draw i bregethu unwaith neu ddwy i’n seddau gwag ni. Fel y mae gwraig-tŷ yn newid sinc ar wyliau, felly y bydd pregethwr yn newid ei seddau gwag.’

Ystyfnigai Len. Cododd. Yr oedd pob dadl, pob syniad a fentra i’w feddwl, yn ei herbyn hi. ‘Wyddoch-chi, allwn-i byth ffoi i Awstralia. Byddwn i’n edrych dros f’ysgwydd o hyd. Ble dwi’n cael ’y nghaethgludo? Pa un ymhlith y troseddau i gyd a’m gyrodd i’r fan hyn? Mae gweinidog heb braidd fel gyrrwr heb gar. Nid gwyliau yw fy *forte* i. Beth dwi’n ’weld bob dydd yng ngwaelod fy modolaeth? Gorymdaith blwm o fwganod anghenus: heblaw’r cyrff diysbryd disberod yn ’y nghynulleidfaoedd i gartref, — sgerbydau o Ethiopia, y Swdan, Rwanda, y naill ar ôl y llall, yn welw, yn denau, yn arbenigwyr esgrymog, ac yn galw, galw. Dyna ’nghymdogion i. Dyna’r lleoedd, (o fynd), y dylwn gyrchu iddyn nhw. Nid jolihoeian.’

‘Prin mai egwyl o unrhyw fath fyddai peth felly.’

‘Byddwn i’n gwneud rhyw les â’m bywyd yr un pryd.’

‘Mae’n llesol peidio â gwneud lles i neb ambell waith.’ Cododd hithau a chydio yn ei ddwylo. ‘Bwrw’ch blinder. A meddyliwch... Mair.’

‘Ai bwrw unrhyw beth sy’i eisiau arna-i?’

‘Nid dal ati i weithio beth bynnag. Nid rhagor o ferthyrdod. Nid ar hyn o bryd. Bwrw straen. Peidio.’

Trodd ef i ffwrdd. ‘Dwi ddim yn hanner digon o *bechadur*. Dyna ’nrwg. Teimlo’n rhy iach. Does gen i fawr o fin ar fy ffroenau. Beth dâl tipyn o sancteiddhad cysurus os yw’r Affrica oll yn hongian o gylch ’y ngwddwg i fel albatros, a finau heb sylwi? Fan ’na mae’r bygythiad sy’n wynebu’r blaned i gyd. O newid, mynd yno. Dadwneud steics imperialaeth. Dwi’n ceisio peidio â’u clywed nhw fan hyn. A beth rych *chi* eisiau i fi’i wneud? Camu



dros ben y plant yna i ryw wlad hud? Breuddwydio! Ymlacio! Diogi.’

Dilynodd hi ef, ac ailgydio yn ei ddwylo. Ganddi hi yr oedd yr ewyllys yn ogystal â'r breuddwydion. Ewyllys heddiw oedd breuddwydio yfory.

‘Clywch. Yr hyn sydd eisiau arnoch chi, Len Llwyd, credwch chi fi yw breuddwyd. Y flwyddyn nesaf efallai—hunanaberth, ymlafnio ymhlith yr angenogion, chwysu yn ffosydd y tlawd. A'r flwyddyn nesaf ... wel ... Eleni, egwyl hurt amdani. Breuddwyd. Ac dwi'n rhoi un ichi. Mae'ch ymennydd yn gweiddi am ddihangfa, am roi'ch traed 'lan nawr. Ymlacio. Bod yn felys anghyfrifol. Annynol yw syrffed o ddaioni. Eisiau dynolrwydd sy arnoch chi. Egwyl, ddyn!’

‘Roedd yna un amser, Maxine, pryd y byddwn i'n clustfeinio ar 'y nghydwylbod. Roedd 'y mreuddwydion yn ymdroi o gwmpas y miloedd oedd heb glywed dim gwell na materoliaeth yng Nghymru ei hun a'r miliynau'n marw dramor. Roedd 'y meddwl i yn y gwerysilloedd diymadferth ymhlith y breichiau mein-gig, ie a'r paganiaid diwybod fan hyn yng Nghymru. Ond ble mae 'mreuddwydion naif oll heddiw? Dyna dwi eisiau'i wybod.’

‘Chi sy'n gofyn.’

‘Fe dreuliwyd pob breuddwyd gan realedd. Ar 'y ngobennydd dwi'n gwylled gorymdaith o'r gorllewin yn cario baneri: Difaterwch, Caledrwydd, Annynoliaeth gwareiddiad. A chyferbyn â nhw oll, y byddinoedd di-arf o newynogion corfforol ac ysbrydol yn ymlusgo'n ddifaner ar draws y sychdir Cymreig a'r sychdir Affricanaidd. Dacw luoedd coll yr unfed ganrif ar hugain sy ar ddod, ddwedwn i, darnau o gnawd gwag rhacsog y cawl imperialaidd a'r cawl modernaidd.’ Torrodd ef i ffwrdd eto a throi rhagddi.

‘Mae'n rhaid i'r Piwritan mwyaf llym chwarae,’ dwrdiai hi.

‘Ddim heddiw,’ meddai ef gan droi'n ôl ati. ‘Ddim nawr.’

‘Ynghanol y steics.’

‘Oes; ac mae'r angen fan hyn. Angen am drugaredd. Angen am ymostwng. Yn y gwledydd datblygedig ffiiaidd. Yn Gymraeg. Mewn oes fodern sgeptig, pa wlad sy'n poeri'n amlach yn wyneb y nef?’

‘Na, na, Mr Llwyd. Peidiwch â phregethu i fi. Rhaid i'r cryfaf wrth ei dipyn egwyl.’

‘Prin, Mrs Pearse.’

‘Ac nid fi fydd yn eich perswadio chi. Ond eich blinder eich hun. Mae angen peidio.’

‘Dw-i *wedi* blino, mae'n wir.’

‘Trafferthion; a blinder a lol.’

‘Lol yn sicr.’ Oedd, yr oedd yr awyren yn cau amdano bob eiliad. A chwiw sgrechian.

‘Meddyliwch, felly ddyn. Nid rhodd gen i fydd hyn ’te,’ meddai Maxine a’i thaerineb yn ailgydio. ‘Gwasanaeth. Dyna sy gynnoch chi i’w gynnig. Eich rhodd chi eich hun mewn egwyl. Allwn i byth fynd yn ôl i Awstralia ar ’y mhen fy hun.’

‘Ond Awstralia! Egwyl!’

‘Ynys fach yw honno a adeiladwyd i boeni pobl Seland Newydd.’

‘Gadewch inni siarad am rywbeth arall heblaw Awstralia,’ erfyniai ef.

‘Allwn ni byth. Dyma brif bennawd y newyddion. Dyma’r geudy ar waelod gardd y byd yn galw arnoch chi oll. Dewch yn llon. I weld gwacter bygythiol yr unfed ganrif ar hugain. I weld her eithaf y corff.’ Roedd ei hwyneb yn brism diriaethol yr ymddatodai’i deimladau drwyddo erbyn hyn, yn lliaws o liwiau. ‘Allwn i byth fynd fy hun,’ mwmiat hi eto yn wanllyd. ‘Ac dwi’n eiddgar eisiau mynd. Er mwyn Mair.’

‘Ar eich pen eich hun y daethoch chi ’ma.’

‘Dowch. Nid y fentwraig honno ydw i mwyach. Dwi wedi cwrdd â chi a Wili a Chymru, a dwi ar goll bellach. Mae’n rhaid imi sefyll yn ôl. Ar wahân. Ac edrych ar fywyd o’r newydd. A’r un fath gyda chi. Cydiwn gyda’n gilydd yn llawenydd yr awyr am un tro. Anghofiwr go dda yw hapusrwydd. Hawyr bach, eisiau deiet bach o *anghofio* sy arnoch chi ac arna innau am ychydig o wythnosau ... Yng ngwlad y breuddwydion newydd.’

‘Anghofio? Ust Maxine! Anghofio! Pa fath o sbort yw peth felly?’

Ond tybiai Maxine — er mawr lawenydd — ei fod ef bellach yn dechrau anghofio’i ddadleuon ei hunan, ac yn ymuno’n flinedig o’r diwedd yn ei breuddwyd hirfelyn hi. Ei flinder ef oedd ei ffrind hi. Ac yr oedd hi mor awyddus iddo ef wynebu Mair eto, y Mair wrthwynebus, ei hwynebu a sylweddoli wedi i’r cyfarfyddiad moel fynd heibio, y gellid clirio’r byrddau o bob gorffennol. Yna diau, ac yna’n unig y byddai ef yn ei dethol hi, Maxine.

‘Fi,’ meddai hi, gan geisio efelychu’i athrawiaethu ef, ‘yw Awstralia. Mae’n bryd i chithau nawr, *Gymru*, gaethforwyn ddynwardol yr ugeinfed ganrif, gyrchu i chwilio am Ymerodres glwc Byd Newydd. Carchardy diwylliant i’r unfed ganrif ar hugain.

Ychydig wedyn ffoniodd hi i Awstralia i hysbysu’i ffrind Mair: ‘Mae e’n siŵr o ddod. Efallai.’

‘Beth? Pwy?’

‘Fel Yr ymerawdwr.’

‘Paid â dod ag e ffordd yma. Bydda-i’n dy saethu di. Bydda i’n ei saethu fe wedyn yn sicr.’

‘Paratua dy ddryll te.’

Ac yn fuan ar ôl iddi dorri’r geiriau ofnus hyn, yn groes i’r graen ac yn syn i synnwyr, ... llanwyd yr awyren oll yn ei feddwl â’i bresenoldeb ef: Len.

Chwarter awr yn ddiweddarach, yr oedd ef wrth ddrws Maxine ac yn gwthio llythyr dan y drws. Rhedodd hi allan. Rhedodd ar ei ôl.

‘Peidiwch â gwneud hyn i mi.’

‘Alla-i ddim newid meddwl. Mae’n derfynol.’

‘Beth dwi wedi’i wneud i chi? Dowch yn ôl inni gael siarad.’

‘Alla-i byth dderbyn cardod. Mae’n derfynol.’

‘Dowch yn ôl.’

‘Na. Mae’n derfynol.’

‘Ond gadael llythyr! Mor llugoer fel ’na. Heb fy wynebu hyd yn oed.’

‘Cachgi ydw-i. Cachgi fydda-i. Alla-i ddim fforddio derbyn yr arian. Alla-i ddim dod.’

Lled pen yn agored oedd y drws. Ond roedd ef yn benderfynol yno. Roedd hithau’n benderfynol hefyd. ‘Dowch yn ôl.’

‘Mae’n rhaid ichi gau’r drws. Mae’n oer fan hyn yn y gwynt.’

‘Peidiwch â gwneud hyn i mi.’

‘Mae’n wir ddrwg gen i. Mae’n rhaid ichi ddeall, mae’n rhaid ichi faddau imi. Alla-i ddim fforddio rhodd o’r fath faint. Nid dyna’r math o gardodyn ydw-i.’

‘Cachgi,’ meddai hi’n gwta. ‘Cerwch am byth te.’ A dyma hi’n plygu drosto ac yn rhoi cusan iddo. Chwarter awr yn ddiweddarach, yr oedd ef wrth ei drws hi drachefn. Roedd y naill a’r llall yn swil. Nid oedd yr un yn benderfynol, a phlygent eu pennau ill dau. Nid oedd yr ohonynt yn gwybod faint o’r gloch oedd hi.

‘Mi dala-i fy hun,’ meddai ef. ‘Mi alla-i grafu digon at ei gilydd.’

Estynnai hi ei dwylo’n llipa tuag ato. Estynnai yntau’i ddwylo’n fwy llipa’n ei ôl. Ond ni afaelant yn ei gilydd. Safent yno â’u dwylo’n estynedig, heb gyffwrdd. ‘Na, te,’ meddai ef, ‘yn derfynol’. ‘Mae’n rhaid imi gau’r drws,’ meddai hi’n ôl yn sydyn. Ciliodd ef yn wylaidd. Ciliodd hi, ac eistedd, a rhoi’i phen ar y ford. Ac wylo. A gwenu.

## RHAN II

‘Mae’r daith yma’n gamgymeriad. Dwi ddim yn mynd i unman. Canlyn hud llewyn ffyliaid dw i.’

Y tro cyntaf iddo fod mewn awyren. Roedd y profiad o gael cymaint o fwlch rhyngddo a’r llawr yn ysgogi hiraeth am glawstroffobia. Trodd Maxine ato ei llygaid coch wedi’u treulio gan brudd-der; ond cynnes lawen oedd hi, yr un fath.

‘Diolch,’ meddai.

‘Am beth?’

‘Am ddod.’

‘Peidiwch â sôn.’

‘Down i ddim yn disgwyl y’i gwnaech-chi.’

‘I Awstralia? Twt. Diolch i chithau am imi *gael* dod. Cofiwch chi, dwi’n disgwyl briallu, briallu yr holl ffordd.’

‘Alla-i ddim addo briallu. Ffa tún yw’r unig flodau dyfith yn yr ardd ’cw. Ond rown i’n gwybod nad oech chi ddim *am* ddod yn y bôn... fi oedd yn hunanol...ddim i Awstralia.’

‘Wel ... rhaid cyfaddef, nid un o’r lleoedd mwyaf syber yn y dychymyg ... ’

‘Na diwylliedig ... ’

‘Na,’ meddai fe. ‘Yn wahanol i America, dych chi heb setlo’r broblem fach ’na o ddiwylliant.’

‘Dyna pam dwi’n diolch.’

Roedd ef ar y ffordd tua math o dwll du ar waelod yr ardd. Mae gan bob bydysawd gwerth ei halen fath o dwll du. Yn y fan honno, tywelltir ei sbwriel. I’r fan honno yr eir i erlid brodorion y gydwybod a’u cyfrif fel pe na baent yn bod, megis y Cymry. Ac yr oedd De Cymru Newydd yn ddrych i Dde Cymru.

‘Gwledydd hen a diddorol sy’n tynnu’r dŵr o’r dannedd-dodi i. O grwydro’r byd, os oes rhaid, gwell gen i wledydd sy’n meddu ar neiniau,’ cyfaddefai Len.

‘Rown i’n deall hynny. Dyna pam rown i’n orfalch eich bod chi’n ei mentro hi. Mae gynnon ni dywydd, o leiaf.’

‘Oes.’

‘O ran tiriogaeth, — yn wir o ran y brodorion a’r planhigion a’r anifeiliaid hefyd, — mae’r hen le’n orlawn o henaint. Ond yn gymhleth o hen ... ’ Dechreuai hi frolio’r mymryn lleiaf. A diolchgarwch oedd hynny.

‘Gyda hen gam-drin ar y brodorion hefyd. Heb ddysgu ganddyn nhw, yn ôl fel dwi’n deall.’

‘Na.’

‘Rown i am ichi weld ’y ngwlad *i*. Dyna yw hi. ’Y nghynefin i. Gwlad ’y modryb annwyl hefyd, honno a adawodd gymaint imi.’

‘Dwi’n deall hynny.’ Roedd ef yn bodloni bellach; a’i ddychymyg yn rhagredeg o’i flaen. Edrychai ar Maxine yn ildiol gytûn, gyda llai o ragfarn nag a wnaethai ynghynt. Rhagredai at Mair hefyd. Roedd Mair yn unigryw. Cawsai Maxine bopeth, roedd yn amlwg. Cafodd harddwch gwedd a chorff, a magwraeth hyfryd. Cafodd ysbryd anturiaethus. Cafodd gysuron y byd hwn a dosbarth canol ar blât. Yn ei llygaid craff hi pefriai sbonc anturiaeth, ychydig yn brin o synnwyr cyffredin, efallai. Ond roedd Mair hithau wedi codi bygythiad gwahanol.

Hedai’r awyren yn ei blaen o’u hamgylch ill dau yn gytbwys.

‘Wyddoch chi,’ meddai hi gan wenu, ‘yn ôl brodorion Awstralia, doedd eu gwlad nhw ddim yn bod nes i’w cyndadau ei *chanu* hi i mewn i fodolaeth.’

‘M! Syniad del.’

‘Ffaith.’

‘Dyna ar ryw olwg yr hyn mae rhai Cymry’n ceisio’i wneud gartre.’

‘Ond acw yng Nghymru maen nhw wedi anghofio’r geiriau. Mae’r dôn gyda nhw, — y teimlad, — heb yr ystyron. Na’r ffeithiau.’

‘Di-ffaith,’ cyfaddefai ef. ‘Ai dyna pam y cododd chwant arnoch chi un amser i anghofio Cymru?’

Gynt, yn ddeunaw oed (yn ôl yr hanes a ddywedasai hi wrtho), cyhoeddasai Maxine un diwrnod yn sydyn wrth ei phobl gartref yn yr henwlad, ‘Dim mwy o’r bywyd academiaidd i fi. Menter amdani!’ Ac ymadawodd y pryd hynny â’i bro a’i thylwyth a Chymru, a hwylio, meddai hi, i Awstralia i aros gyda’i modryb ddi-blant.

Dyna’i chwedl, ac roedd hi wedi’i hailadrodd mor aml wrth y cyd-Gymry, yn ei gwir gynefin (yn yr hemisffêr ddeheuol), nes iddyn nhw — a hi ei hun — dybied ledled Awstralia, a hithau’n ferch ifanc fentrus gynt, ei bod yn y bôn yn un ohonyn nhw, yn newydd-ddyfodiad glân gloyw o’r crud. A beth gâi hi gan Awstralia? Pa abwyd? Beth fyddai pen draw ystyr pob anturiaeth iddi? Beth, ym mryd amyneddgar ei ffrindiau Awstralaidd? Dim llai, mae’n debyg, na gwryw a *phres* Awstralaidd. Pethach crai. Ac

megis yn ôl ei greddf, felly yn ôl ei hewyllys, fe ddaethai Maxine o hyd i'r naill a'r llall, meddai-hi. A'r un pryd hefyd, y ddau o fewn deunaw mis i gyrraedd y cyfandir gwag. Dyna o leiaf ei hadroddiad breuddwydiol ei hun am ei chefnidir.

'Math o gyffes yw'r siwrnai, chi'n gwybod,' meddai hi yn awr, gan sobri.

'Cyffes?'

'Math o unioni'r cofnodion. Eich denu chi i Awstralia, i weld 'y nghefnidir, a'r gwir amdana-i.'

'Y gwir! Oes 'na fath anghenfil yn eich canlyn i unman?'

'Fe all fod. Dan y gramen. Dadlennu'r plorynnod. Y tir. Yr amrydedd enwog. Yr ieuenctid mabolgampus. Y ffrindiau ...Popeth.'

'Allanolion yw'r rheina.'

'A'r sgerbwd,' ychwanegodd hi'n gwta.

'Beth am hynny? Y gwir!'

'A!' meddai hi gan daro ymyl ei thrwyn â'i bys. 'Mae yna sgerbwd 'da fi yn 'y nghwpwrdd a chawr o sgerbwd yw cwpwrdd Awstralia'i hun. Ond celwyddau digon diniwed yw'r ddau. Y freuddwyd ddiesboniad yn unig sy'n wir.'

Hedai'r awyren yn ei blaen, yn ansicrach bob munud.

'Lilïod dŵr yn-ni i gyd, ni'r merched o leiaf,' meddai hi, 'bob wan jac, mae hynny'n amlwg. Ac o dan y dŵr o'r golwg, mae yna linyrnau cudd i chwarae'r pypedau.

Gwyddai Len yntau ei fod ef hefyd yn cael ei ganlyn. Roedd yna fwgan yn anghyfrifol o glwm wrth ei sodlau. Er hedfan tuag at Awstralia, ni allai Len ddianc rhag y wlad ddigrif a ddô'i'n llond ei feddwl wrth ei ochr, yr holl ffordd ar ei ôl drwy'r gwagle. Teithiai Cymru yn yr awyren gydag ef, tua'r adlewyrchiad, ond nid yn adran y dosbarth cyntaf. Gollyngodd ef gyw ochenaid. Beth bynnag a feddyliai'i gyfeillion, roedd yn falch i gogio dianc rhag honno. Ei ffolineb hi ei hun, ei gwarth, y ffaith ei bod yn destun sbort, ei delwedd a'i thystiolaeth wael, ei methiannau, arhosit oll yn gymdeithion rhy ffyddlon iddo. Doeth fu ceisio egwyl oddi Gymru.

Ond po bellaf yr hedent yn nes at Awstralia, mwyaf anesmwyth oedd Maxine.

'Cyn inni lanio,' meddai Maxine yn bwylllog sobr uwchben gogledd Awstralia, 'mae'n *rhaid* imi esbonio un peth.' Petrusai hi'n fwy sobr fyth.

'I ffwrdd â chi. Dych chi eisiau codi ar eich *sefyll* i esbonio?'

Ond roedd hi'n pallu gwenu. Roedd yr holl awyren wedi'u sobri ill dau.

‘Efallai na fyddwch chi’n cyfri’r peth yn bwysig. Ond i mi mae’n ganolog i’r stori ... glanhau’r llechen! Nid gwraig weddw: nid gweddw yn llythrennol mono-i o gwbl mewn gwirionedd. Stori fach oedd honno.’

Ni wyddai ef ai sythu ar ei sefyll oedd orau, ynteu suddo yn ei sedd. Beth oedd arni?

‘Nid gweddw!’ ceisiai ef beidio ag ymddwyn yn rhy syfrdan. ‘Chi! Beth dych chi’n feddwl?’

‘Nid yn llythrennol. Wedi derbyn ysgariad dwi. Math o weddwod llai gorffenedig. Gyda chloffach atgofion.’

Roedd y newydd hwn yn annisgwyl. Roedd Len eisoes wedi lled-ddechrau adeiladu darlun dilys ac roedd hwnnw’n ysgyrion eisoes. Ai dal i freuddwydio roedd hi? Ond pam cuddio’r peth nawr? Beth oedd ar y wraig? ‘Ysgariad!’ Pam cywilyddio? ... Am rywbeth sydd y dwthwn hwn fel bacwn ac wy? Ac eto, onid un o glwyfedigion yr ugeinfed ganrif fu colli’r ddawn i gywilyddio? Megis y mynnai’i gywilydd ef ymlusgo ar ei ôl ef, felly yr oedd ei breuddwydion hithau’n ymlusgo ar ôl Maxine.

‘Gadewch ifi esbonio,’ meddai hi ymhellach. ‘Mewn ysgariad mae yna elfen o fethiant.’

‘Mae yna elfen felly y tu allan i ysgariad hefyd.’

‘Teimlo’n ddiffygiol mae pawb sy’n tramwyo’r trawma yma. Mae arna-i gywilydd tost. Ambell waith — yn f’achos i er enghraifft — dyw’r sawl sy’n ysgaru ddim wedi *haeddu* priodi. Ac eto, pan ddaw’r ysgaru o ddifri, mae’n waeth o dipyn na phrofedigaeth. Gyda phrofedigaeth mae ’na atgofion, rai. Oes, mae ’na siom a hen alar enbyd. Ond gydag ysgariad, na: mae ’na dalp o orffennol claddedig-fyw, a hwnnw’n cael ei dagu. Does dim gorffen i ysgariad. Blynnyddoedd erlidus. Rhaid ceisio dileu’r cwbl. A methu. ... ’

‘Oes, oes, ond pam *cuddio* hyn rhagddo i?’

‘Mae ’na dalpau ohonoch chi’ch hun na fedrwch chi byth syllu arnyn nhw mwy na’u dangos nhw i neb.’

‘Ond pam rhagddo *i*?’

‘Preifatrwydd, cywilydd ynghylch sbio ar archoll.’

Ond yn dawel bach, roedd Maxine am ymadael â’r awyren ar unwaith, cyn iddynt lanio.

‘Chi ysgarodd e?’

‘Ie. Ar ryw olwg. Pwy sy’n ysgaru pwy byth? Sbrintiwr oedd e: rhedegreg draws-



gwlad own i. Efallai mai dyna'r gwahaniaeth rhwng gwrywod a benywod. Roedd yna dipyn o fflwff acw hefyd.'

'Mae hynny hefyd yn chwythu i mewn i'r dannedd.'

'Ydy, yn sarhad.'

'Dwi'n deall hynny.'

'Wrth gwrs, yn hyn o helbul, nid anghyffredin yw i'r naill feio annigonolrwydd y llall.'

Yn wâr, o gam i anhygoel gam, y rhestrodd hi'r cam a gawsai. Rhyfeddai iddi allu'i adrodd mor ddisgybledig. Eto, mor ffansiol oedd y gwir bob amser.

Celfyddyd cau-llygaid fel arfer yw godineb. Efô, ei hesgus wâr, efô yn cau llygaid ar ei bywyd hi, a hithau'n esgus wraig a'i blew amrannau cwyr yn eu cau'n dynn dost ar bawb a phopeth. Neb yn adnabod neb.

Syllai Len arni'n ddwys. Ni feiddiai ymateb... Atebodd hi. 'Tynnu'r gwreiddyn, dechrau hacio'r bôn, do, â bwyell cwilydd, — un fraich wen i'r cŵn, un goes hir luniaidd yn syth bin i'r bûn, fy mronnau bendigedig wrth gwrs i ofid, fel petai'r cwbl yn rhydd wedyn i heglu i ffwrdd â nhw. A'r fan 'na roen nhw yr ychydig o wehilion, ar ôl yn y bocs, fy aelodau gweddill i gyd.'

Roedd hi'n benderfynol o'i flaen ef o fod yn gignoeth yn awr. Roedd hi wedi cyffesu. Os na allai fod yn llythrennol, gallai hi fod yn onest. Chwiliai ef ei llygaid noeth yn dosturiol. Chwiliai hithau am gefnogaeth ystyrllon. Ond tawelwch a orfu.

## 2

Cafwyd absenoldeb geiriol am awr. Roedd hi'n ôl bellach, yn od o gyffyrddus, yn yr awyren, yng nghanol yr ysgaru, a llwyth o sgerbydau'n eistedd o'i deutu. Dyna'r atgofion hefyd yn hedfan yn gyfochrog y tu allan i'r ffenestri, am na chaent ysmygu y tu mewn.

'Math o angau oedd e, siŵr ei wala,' meddai hi'n araf, 'a hwinnw ym mwgwd godineb. Llofruddiaeth yw pob godineb. O'i flaen ef fe drois innau'n fedd ar gerdded... Rown i'n gwybod eisoes mai *lladrad* oedd godineb.'

'Ydy, efallai,' yntau'n araf hefyd. Roedd hi'n benbleth iddo, a sylweddolai hi hynny.

'Pan ddes-i draw i Gymru y tro hwn, er mwyn cael rhyw fath o waredigaeth, y gwir

oedd 'mod i am ymadael â'r ddaear. Codi i gopa'r glob ac yna i'r nefoedd yn ôl ... Smalio bod yn weddw, dyna oedd un ffordd daclus o lanhau'r camsillafu ar yr hen lechen. Cogio 'mod i'n perthyn i gyflwr arall.'

'Ond methu wnaethoch chi. ... Peth felly yw celwydd.'

'Do, siwr. Methu yw fy method.'

'Hen fethodist tlawd.'

'Dim arall.'

'Gawsoch chi gyfle i sylwi *o'r newydd* ar yr hen le, ar Gymru? A chael gollyngdod y tro hwn,' holai Len yn chwilfrydig.

'Do.'

'A'ch siomi debyg. Heb wybod. Yn y bôn, efallai fod pawb yno'n methu â sillafu siom,' meddai ef yn ei ddadrithiad. 'Yng Nghymru, chi'n gwybod, mae pawb — am mai nhw yw Cymru, nid y tir na'r llywodraeth, ond nhw eu hunain — yn sylweddoli'u bod nhw'n methu â sillafu'r gair "Cymry" ag "u" ar y diwedd yn eu calonnau. Dyna ran o'u siom. Maen nhw wedi colli bod yn un ac amryw.'

Dyna o leiaf a leisiai â'i wefusau. Ac eto, yr un pryd gyda hon, ni allai lai na themlo'n anesmwyth bellach, am iddi dynnu'r llawr oddi tan bob gwirionedd ynghynt.

Beth 'wnâi ef byth â golwg ddeublyg fel hon arni? Ceisiai'i berswadio'i hun fod yr anwireddu gwirion wedi bod yn therapiwtig iddi.

Cofiai mor ychydig a wyddai ef am ei chysylltiadau â Chaerafon. Ai merch o Gymru oedd hi'n wreiddiol mewn gwirionedd? Tybed ai dweud y gwir yr oedd hi nawr? Onid cael ei gorfodi yr oedd hi bellach i ddadlennu hyn am y rheswm na allai ddianc rhag y ffaith mai yn Awstralia y byddent yn glanio beniwaered ymhen chwinciad? Nid cyffes oedd y gyffes hon, ond dihangfa. A hithau'n ei hystyried ei hun yn Gristion o bethau'r byd!

'Ai dyna'r cwbl?'

'Sut?'

'Ai dyna'r unig anwiredd blodeuog?'

'Go brin.'

'Beth arall te?'

Ac yna, dechreuai hi ar drywydd nas bwriadasai. Ac o ddechrau arni, cododd y gwynt a hwyliai hi'n heulog ymlaen i blith dyfroedd cyffesol lle na buasai byth wedi trafaelu oni bai i'r gwynt godi'n filain o'r tu ôl iddi.

‘Doedd gen i ddim modryb gyfoethog chwaith.’

‘A! Dim modryb!’ Chwarddai ef.

‘Fues i ddim yn lletya gyda hi. Fuodd hi ddim marw.’

Roedd e’n gwenu fel giât. Ond allai hi ddim bod yn werth cwecian anwiredd am rywbeth mor gwbl ddibwys.

‘Ond mae’n wir ei wala ’mod i’n gyfoethog ...’

‘Pam Maxine? Pam rhaffu straeon? Beth sy arnoch chi?’

‘Nid twyll.’

‘Beth arall?’

‘Breuddwydion, dyna’r cyfan. Sbri breuddwydion rif y gwllith. Ga-i egluro beth sy’n digwydd?’

‘Ydy hynny’n bosib?’

‘I mi, mwy cynhwysfawr yw’r rhith na’r realedd. Mae’n gwasgu arna i. Mae’n cwmpasu mwy o fywyd, cywirach bywyd ... Mae rhywun yn dechrau ar un celwydd. Ac yna, cyn gwybod ble rych chi’n sefyll, mae yna frawd. Does ’da fi ddim gormod o barch at y llythrennol. Dwi’n dod o hyd i freuddwydion yn y realedd ei hun fel mwydon dan garreg. Neu nhw sy’n dod o hyd i fi. Maen nhw mor gynnes rywsut, ac yn well gwirionedd.’ Roedd hi wedi tynnu’r carped o ddaear oddi tan ei draed. ‘Bydd y meddwl yn dechrau hedfan,’ meddai hi ymhellach, ond heb wenu. ‘Wedyn, os bydda-i’n sbecian yn ôl i lawr ar y ddaear hon, o’r awyr fel hyn, dwi’n teimlo mai ’lan fan hyn, dyma’r lle iawn i fi fod. Gawn ni aros ’ma. Dyma’r unig le sy’n dweud y gwir glân gloyw plwm.’

‘Beth yw ystyr peth felly?’

‘Alla-i ddim ei esbonio rywsut. Ond mae’r ffansiön hwythau fel drych.’

Roedd ganddi bellach o leiaf afael gref ar wydnwch ei breuddwydion. Y rhain oedd yn goruchwyllo’i bywyd. Symudai breuddwydion ambell waith o’i mewn fel awyrennau’n brysio’n ôl ac ymlaen uwchben maes glanio prysur. Trwchuso bywyd a wnaent a rhoi dimensiwn arall i bawb.

‘Ond ga-i gredu’r hanes newydd hwn am bum munud te?’

‘Cewch,’ meddai hi’n bendant ddifri gyda’r holl ddwyyster cyfreithiol hwnnw a ddaw o wybod ei bod yn anghywir, ‘os liciwch-chi.’ Gwenai: ‘Dim ond pum munud.’

Nid esboniai Maxine, serch hynny, ddim eto, mai Awstraliad groyw o’r crud oedd hi. Cawsai Len ganddi ddigon o ramantu am y tro. Roedd ganddi yn ei ffordd wyrdröedig ei

hun realedd wedi'i ddogni y tu ôl i bob breuddwyd. Yn Awstralia draw y cas ei geni go iawn, roedd yn wir. Y fintysen yna o wlad gyda'r anialwch yn y canol. Dechreuasai wneud gradd ym Mhrifysgol Sydney lle y cafwyd cyfle i ddysgu'r Gymraeg o bethau'r byd fel isgwrs. Ond yr oedd eisoes, er pan oedd yn ferch ifanc, wedi cael sawl cyfle i ymweld â Chymru, ac ag ardal Caerafon o leoedd y byd, gan fod gan un fodryb gyfeilles ohebol yn y parthau hynny. Parhaodd yr ymweliadau esoterig hynny tra oedd yn y Brifysgol lle y bu am gyfnod yn aelod selog o fath o'r Undeb Cristnogol.

Bu'n rhaid iddi ymadael er mwyn priodi, ac ni orffennodd ei gradd. Ond arhosai rhyw ysfa barhaus ynddi i ailymweld â'r manau rhamantus a welsai yng Nghymru ynghynt: yr Eisteddfodau, y gymdeithas werinol ar sgwâr y pentref, yr hen gestyll, y glaw, y siopau llyfrau a'r eglwysi hyd yn oed, yr ystrydeb dybiedig oll. Bu hi mewn dosbarthiadau nos wedyn yn trafod y Celtiaid yn Sydney. Yn ystod ei haml ymweliadau â Chymru cafodd ddigon o aperitif arallfydol i'w chynhyrfu am oes.

Dechreuai Len weld math o batrwm. Roedd 'na drefn rywle yn yr esboniadau hyn gan Maxine. Efallai fod cyfyngder dyrchafedig yr awyren yn gymorth. A'i huchder. Twannel oedd llwybr ehedeg yr awyren o un darn o Ewrob hyd at ei hestyniad mwy corfforol. Roedd yna ymwybod hefyd fod odanynt erwau o fôr anwar a thameidiau o anialwch neu o goedwig ddi-drin. Ond o fewn y llinyn bogail hwn o lwybr ehedeg, caed hefyd lendid a siâp a diogelwch gwâr mewn drych o adlewyrchiad tuag-yn-ôl.

Yn ddisymwth ar draws y cyffesion cynnes hyn, dirwynwyd eu sgysio i fwcwl taclus wrth i'r awyren ddisgyn yn oediog. Clymai pawb yno eu gwregysau. Daethant i lawr yn annisgwyl i'r ddaear.

Mentrai Maxine frawddeg arall: 'Rych chi'n gweld beth dwi'n 'wneud, on'd ych chi?'

'Beth?'

'Dwi'n cymryd fy siawns gyda Mair. Fi sy'n eich gwahodd chi i ffau'r llewes.'

'Ofni dwi mai'ch siomi gewch chi ta beth fydd yn digwydd.'

Daethant gan bwyll i lawr i'r ddaear. Agorwyd drws yr awyren, a dyma hi — heulwen hwyliog helaeth. Breuddwyd eto. Symudodd Len i lawr y gangwe fel pe bai'n nofio drwy ddiliau o heulwen dew. Nofiai drwy freuddwydion Maxine hefyd i geisio gafaelyd yn awyr y cyfandir pell hwn. Anadlai'r deunydd Anghymreig hwn i'w ysgyfaint yn felys. Yr oedd yn ddieithr felys, er ychydig yn orfelys.

Yn nerbynfaf'r maes awyr yn Sydney yn cyfarfod â hwy roedd Mair a'i mab ieuengaf Alwyn, gŵr ifanc tua naw ar hugain oed. Roedd wedi dod yn ôl o'r Unol Daleithiau i aros ychydig gyda'i fam. Prysurodd Mair tua Maxine a'i hwyneb wedi'i smwddio a'i startsio. Taflodd Maxine ei breichiau amdani'n ddigymrodedd. Moesymgrymodd Mair at Len yn chwilfrydig. Cydiodd ef yn ei llaw i'w siglo'n wresog fel pe bai'n botel dŵr oer. Cyn gynted ag y canfu Len hi, sylweddolai'i fod eisoes yn farw iddi.

'Mor fyw a phrydweddol ag erioed!' meddai ef.

Roedd hynny'n wir. Ond yr oeddent yn ddieithriaid. Ai oherwydd hon y daethai ef yr holl ffordd? Hon oedd Mair?

'Ydi hi wedi newid?' holai Maxine.

'Newid!' ebychai Len. 'Wrthi'n esblygu efallai. Gyda'r brodorion araf ar y cyfandir Neanderthal.'

Eto, yr oedd ef wedi'i cholli hi'n llwyr rywsut ym mheirianwaith y cloc. Craffai ar Mair yn awr gyda thaerineb rhywun a ddarganfuasai'i drysor amddifad ei hun, ond trysor oedd yn eiddo i rywun arall. Cadwasai ef ryw ddelwedd ohoni yn ei ddychymyg, neu'n hytrach beth o'r gobaiith a glymasai wrthi. Ond gwyddai nawr: ni allai hi byth fod yn ddirprwy yn lle Maxine, gan fod ei betalau yntau'i hun yn grin bellach ac wedi wynebu gwynt arall. Bu'n rhaid dod yr holl ffordd i agor ei lygaid. Doedd yna ddim ymrafael emosynol. Ac arno ef roedd y bai. Byw mewn cyflwr o wahaniad sefydlog fyddai'i ffawd. Yr oedd Len a Mair gynt yn llewyrch eu llawnder wedi dewis priodi pob o wagle arall un waith; a daethant wyneb yn wyneb â'i gilydd yn awr, yn ddau wagle cytûn. A gwastraff llwyr fu'r blynyddoedd seithug iddynt ill dau. Gwastraff eisoes oedd y dyfodol.

Hi oedd adfeilion ei ieuenticid. Dyna'r oedd bwriad Maxine iddo'i gweld.

Rywfodd, yng ngŵydd Mair, yr oedd Len yn fwy trwsgl nag y disgwylasai. Nid swil. Doedd dim embaras llancaidd arno ynglŷn â'i benyweidd-dra. Cadwai yntau'i oedran yn arwynebol er gwaethaf pwysau'r Wasg a gwth y farn gyhoeddus ar bawb i ymddwyn yn fythol anaeddfed. Ond yr oedd fel pe bai wedi cael ei ddiarfogi. Roedd wedi'i fwrw oddi ar ei echel ganddi, a'i atgofion ef ei hun wedi gorfod cael eu hatrefnu.

'Euog. Mae e'n teimlo'n euog,' meddyliai Mair. Tueddai ef yn awr i syllu arni'n dra achlysurol yn unig, a hynny drwy gil ei lygaid. Nid oeddent yn bobl blwmp a phlaen rywsut. Yn ei gŵydd hi ymddygai ef fel pe bai'r ddau ohonynt heddiw yng nghwmni'r ddau absennol hynny a fu'n ddwy wlad gynt. Dechreuai'i feddyliau ddweud celwyddau wrth ei

gilydd.

‘A’ch mam erbyn y diwedd?’ holai Mair.

‘Wedi darfod yn anfoddog. Ond yn llond ei chroen.’

Cofiai Mair yn awr fel yr oedd hi wedi cynhesu ato unwaith yn fenywaidd braf filflwydd yn ôl. Roedd ei bodolaeth oll wedi’i dderbyn i’w meddalwch serchog. Ac roedd yntau wedi’i derbyn hi. Ond — cofiai’r hyn a ddarfu wedyn yn anghysurus fyw. Un tro trwsogl treiddiol, clepiodd y porth derw drwy’r holl dŷ. A’r tu allan y caed Len. A hynny ar bont. Dim ond torri a wnaethai ef y gair ‘ffydd’ fel briwsionyn pitw didla, a hyrddiodd ei drws ynghau. Bu’r gair yn anesmwythyd moethus iddi.

Ei fam wedyn, daeth honno’n helaeth yn ei thro a doddi’i throed yn erbyn y drws. Roedd y peth yn ddi-sigl ac yn galed, ac yntau y tu arall. Ac wedyn, dyma bopeth arall rhyngddynt ill dau yn peidio. Ar bont anghroesadwy.

Nawr gallai hi edrych arno yn ddi-syfl, ac nid oedd dim meddalu ato. Ac eto, nid yn unig oeri tuag ato ef a wnâi, ond at bob dim, at Awstralia hyd yn oed. Nid rhan ohoni yn unig a newidiwyd. Fel sy’n digwydd pan fo serch at rywun neu at rywbeth pwysig yn cael ei ysigo, mae’r cyfansoddiad yn suddo benbwygilydd. Mae yna ddrwg yn casglu dan y gramen. Roedd hi wedi ymgaedu’n huawdl. Roedd rhywun wedi’i dwyn hi.

Ar wastad personol roedd hi wedi cau drws ei llygaid yn erbyn pob math o deimladrwydd. O hyn ymlaen mater o ewyllys fyddai cariad a pherthynas iddi. Ni chaent rwydd hynt byth eto.

Dyna o bosibl ryw fymryn o’r hyn hefyd a arweiniasai Mair at ei hysgariad chwithig. Ei hewyllys hi a’i gwnaeth. Dim ond pan ddwedai’i hymennydd wrthi fod angen ymhoffi y gallai weithredu hoffter mwyach. Yn benderfynol y gallai fod yn gariadus efallai, ond heb ildio’i chalon. Oeri ’wnaeth ato.

Pliciodd hi wên yn awr o’r silff uchaf i’w gosod o’i flaen. Wrth iddi dynnu’r wên honno o’r encilion bu rhaid iddi nôl ysgol yn gyntaf a dringo’n araf er mwyn estyn ei braich a chydio ynddi. Fe’i cafodd, felly, y wên, wedi’i phiclo rhwng y mêl a’r menyn. A’i thaenu fel nwydd destlus ar y cownter o’i flaen.

‘Mi gymera-i honno,’ meddyliai ef.

‘Gwell ichi’i wneud,’ meddyliai hi.

Yr oedd y wên ddisgybledig wedi cyrraedd fel pecyn. Math o anrheg penblwydd wedi dod drwy’r post. Ond doedd hi ddim ar frys i dynnu’r papur lliwgar a’i lapiai. Efallai’i

bod hi am fod ar ei phen ei hun gydag ef i'w ddatod a'i archwilio'n araf. Efallai'i bod am gynyddu'r disgwyliad a'r cyffro drwy ddal yn ôl. Efallai popeth.

'Mae hyn yn gamgymeriad,' meddyliai yntau. 'Gwell imi fynd yn f'ôl yn syth.'

'A sut mae'r henwlad?' holai Mair.

'Hen', meddai Maxine.

'Crychiog, treuliedig, llwyd,' ychwanegodd Len.

'Mi ddaw,' meddai Maxine. 'Daw, daw.'

'Ddim drwy eiriau hud mae'n siŵr,' meddai Mair, 'na breuddwydio.'

'Mae 'na bobol ifanc 'na, rhai gwrthryfelwyr gwydn,' meddai Maxine yn wybodus ddelfrydol. 'Protestwyr.'

'Maen nhwythau'n blino hefyd,' meddai Len. 'Adfeilio yw cynneddf fwyaf hwylus pobl ifanc. Maen nhw'n well am heneiddio na henoed.'

'Does dim gwared â llwydni, ddim drwy ramantu arwyr, efallai,' meddai Mair. 'Ddim gan yr ifanc, ddim gan yr hen chwaith. Yr ifanc a dybia, yr hen a dybia hefyd.'

Ym mwrlwm y sgysio hwn ni sylwai Len odid ddim ar arferoldeb y maes awyr a ddylai fod wedi'i daro wrth frysio o'r derfynfa awyrennau tuag at gar Mair. Aethant drwy glinigrwydd y dderbynfa yn gyllell lawfeddygaeth. Roedd y lle i gyd yn ddi-haint, yn ddi-Gymru. 'A chi sy'n rhedeg Awstralia i gyd, 'te, yn ôl fel dwi'n glywed,' meddai wrth Mair. 'Rych chi wedi'i doddi hi yn eich poced.'

'Ddim y cwbl,' Gwenai Mair. 'Maxine fan hyn sy'n adrodd ei breuddwydion amdana i, siŵr o fod. Dwi'n rhedeg dim ond y realaeth fel arfer. Ac eithrio'r tamaid o Awstralia sy yng ngardd gefn Maxine efallai, tra oedd hi i ffwrdd. Ond liciwn i ddim dibrisio hwnnw chwaith.'

'A'r holl fwydon freuddwydion sy'n perthyn i Gymdeithas Gymraeg Sydney. Mae'r rheini'n cyniwair drwy'ch gardd gefn chi, glywais i.'

'Na, na; ambell un yn unig.'

'Ac mae hi'n defnyddio'r rheina i bysgota,' meddai Maxine.

'Dim ond pysgota y bydda-i'n ei wneud yng nghwmni hon,' meddai Mair.

'Mae 'na fwy na hynny, yn ôl fel dwi'n glywed,' meddai Len.

'Dych chi wedi bod yn siarad gormod — gadewch imi ddyfalu — â rhywun o Afallon mae'n siŵr?'

'Ydy,' ategai Maxine. 'Ond rhywun sy'n gwybod hefyd am dy Adar Rhiannon di yn

y côr cymysg yma, a'th Oxfam a'r papur bro a'r papur sain i'r deillion ...'

'A!' meddai Mair wrth Len. 'Rych chi wedi bod yn siarad â rhyw facsi-freuddwydreg, fentra-i. *Maxine* yw honno. *Minime* dw i.'

Ymwthiasant oll i mewn i gar Mair, a gyrodd ei mab Alwyn yn hyderus drwy'r drafnidiaeth.

Roedd pawb yn agos at ei gilydd. Troes Len at Alwyn. 'Dych chi'n aros yn hir yn Awstralia?' gofynnai.

'Digon i'ch gyrru'n ôl i'r tŷ. Tan yfory. Wedyn, masnach, masnach bêr i mi. Doleri dolurus. Gwyddoch chi. Y pethau sy'n ffrindiau i bechaduriaid.'

'Ŵyr ef ddim,' meddai Maxine.

'Rych *chi* wedi cyrraedd ar yr amser *iawn*,' meddai Mair a'i gwên bellach mor hyfryd fel y gallech ei chodi ar eich fforc.

'Beth sy'n amser iawn heblaw heddiw felly?' holodd Len. 'Oes 'na'r fath beth?'

'Mewn pryd i'r Gymanfa Ganu drennydd, debyg iawn.'

'Bobol bach,' meddai Len gan arswydo. 'Gwell imi gyrchu'n ôl.'

Chwarddai Mair yn ddigon pert. Ond gwelai Len ei bod eisoes wedi heneiddio'n bur anghudd. Chwiliai ef ynnddi am y lodes a adwaenai yn yr awelon ar y bont gynt. Eithr ni châi namyn tameitiach gwelw o honno. Edrychai hi'n fwy adfeiliol o dipyn na Maxine. Roedd Awstralia wedi datrys ei broblem. 'Mae gynnoch chi alergedd?' holai hi.

'Oes,' meddai ef, 'bananas, caws Henffordd, a chymanfaoedd canu.' Rhaid ei bod heb gyrraedd ei thrigain oed. Eto gallai'n rhwydd fod yn ddeg a thrigain. Roedd yna grychau dyfnion dros ei gwddw; a cherddai'n drwm ddihyder ei gwadnau.

Ac eto, efô oedd yn nerfus. Roedd yn methu ag edrych arni'n hir i'w chwilota. Dau ddieithryn cyfarwydd â'i gilydd oeddent. Dau gysgod wedi colli'r ffordd ar bont.

Roedd Mair yn ymdrechu i fod yn araul, a chyhyrau'i hwyneb yn gweiddi tangnefedd, ond ei pherfeddion yn sibrwd tyndra. Ciledrychai ar Len mor oer ag y medrai. Pam roedd Maxine yn gwneud hyn iddi?

'Galargerdd fysai Cymanfa i mi, hefyd, nid alergedd yn unig,' achwynodd Len. 'Ond mi ddeua-i iddi ar un amod ... y ca-i eistedd yn y cefn ... heb unrhyw groeso o'r pwlpud ... heb orfod gweddio na darllen emyn ... na dweud gair, na dod â chyfarchion o'r henwlad beth bynnag yw'r rheini.'

'Dim. Fydd neb, neb oll, yn gwybod eich bod chi 'na.'



‘Purion: does gan y llygoden fân hon fawr i’w ddweud wrth yr hen ffordd Gymreig o fyw hyd yn oed yn Awstralia. Y cymanfaeodd canu. Y sol-ffa. A’r holl bechingalw.’

‘Y cyryglau?’ meddai Maxine.

‘Syndrom enwog y Mans?’ meddai Mair.

‘Dim llai. Diolch amdanyn nhw.’

Ar ôl cyrraedd tŷ Mair a chael pryd, a chysgu am ychydig o oriau gefn dydd golau, ymadfer wnaethant rywfaint ar ôl siwrnai a oedd wedi’u diberfeddu’n lân. Codi wedyn am dair awr. Ac yna, noswyliodd Len yn drefnus hapus drachefn, ac yn barod ddigon amdano. Llithrai noson gyntaf Awstralia gyda blas drwy’i lwnc fel jeli dywyll oer. Cysgai hyd ddyfnderoedd hufen hafaidd.

Ond arhosai Maxine i bysgota clecs gyda Mair. Nid oedd wedi erfyn yr her gyntaf: ‘Oedd rhaid iti ddod ag e?’

‘Pam? Wyt ti’n ei garu fe o hyd?’ atebai Maxine gan edrych yn ôl arni’n syn.

‘Fan hyn rown i’n llonydd,’ meddai Mair. ‘Roedd y fframwaith i gyd yn ei le. Rown i’n gallu anadlu’n dawel.’

‘Anghofio?’

‘Ie. A thi sy wedi’n chwalu i.’ Doedd hi ddim yn gas; ond roedd hi’n bendant.

‘Fi? Go brin.’

‘Ti a fe. Doedd dim eisiau hyn. Dwi’n rhy hen i ryw ddwli fel hyn.’

‘Ond fe feddyliais i ...’

‘Na. Feddyliaist ti ddim.’

‘Feddyliaist tithau ddim chwaith,’ heriai Maxine gyda phendrantrwydd mwyn cyffelyb. ‘Roedd *eisiau* i ti feddwl ... a gwybod. Roedd rhaid iddo *fe* wybod hefyd.’

‘Doedd dim eisiau’r peth hwn, nac oedd. Roedd bywyd wedi dod yn ei ôl i’w le. Rwyd ti’n ’y nefnyddio i ryw agenda; o’r eiddot dy hun.’

‘Ust! Gad inni gael bob o ddishgled o de.’

Am ychydig o funudau wedi dihuno nid oedd Len yn siŵr ymhle yr oedd. Roedd yn yr awyren o hyd. Gorweddai’n ôl i’w sylweddoli, a bodloni ar fodloni, fel pe bai’n cysgu drwy’r amser. ‘Y cwsg melysaf welodd cangarw yn unman erioed,’ dybiai ef, ‘dyna yw gorwedd ar ddihun ar ôl noson dda ynghwsg ar y cyfandir hwn, a syllu.’

Cawsai Len syndod dymunol ar ôl glanio wrth ganfod nad oedd pawb yno yn ymdrechu’n orarw i ymddangos mor ddosbarth canol o werinol ag y caniatâi’u hosgo aflêr

iddynt fod. Roedd rhai dynion yn gwisgo teis hyd yn oed. Ni wgid yn arddangosiadol ar bob arwydd bychan o daclusrwydd. Safai rhywrai heb wydreidiau o gwrw yn eu dyrnau, a heb fwmerángs yn eu pocedi. Cyfarfu ag un henwr heb datw̄ a oedd wedi darllen llyfr. (Bu ef farw'n fuan wedyn.) Disgwyliasai wynebau clytiog fel cnu caglog, a gwŷr ifainc cyhyrog nad oeddent wedi newid o'u siwtiau nofio ers tair blynedd. Ond na ... Daeth i'r casgliad blinderus, mai dyma wlad eto a gawsai gam. Roedd yna o leiaf un gornel, clywsai, i lawr lôn hirfaith wag, a phorfa'n tyfu ar hyd y canol, lle nad oedd yna gelain yn byw.

Codai'n araf o'r gwely peniwaered. Ai gormod oedd disgwyl y parhâi ei argraffiadau mor wrth-anffafriol am bythefnos arall? Wedi'r cyfan, nid oedd am ildio i argraffiadau sydyn y newyddiadurwyr. Yr oedd yn rhaid iddo fod yn ofalus cyn mynd adref.

Pwyllodd. Hyd yn oed wedi codi o'i wâl yr eilwaith nid oedd Len am ymroddi eto i fywyd fel pe bai newydd ei ddyfeisio. Er mai ychydig o oriau ar ôl cyrraedd Awstralia oedd hi, wedi iddo orffwys ychydig, mynnai Len gael egwyl breifat ar ei ben ei hun gyda'i wreiddiau ysbrydol. Tangnefeddai. Teimlai nad oedd yr 'ysbryd' yn glynu wrtho rywsut ond drwy groen ei ddannedd. Cyrff ym mhob man bron. Petheuach corfforol gonest felly a'i hamgylchai'n ddidwyll ar bob llaw. Ond ni adawai'i ysbryd yr un llonydd iddo.

Disgynnai ar ei liniau. Ymagorai.

Ble oedd y Mawredd yn hyn o fawrdra?

Roedd y gorffennol yn absennol, roedd hynny'n sicr, os bu erioed yn bresennol. Doedd 'na ddim dychymyg hydeiml yn yr awyr na dim syberwyd cynganeddus ar wefusau'r bobl. Garwder petholrwydd a deyrnasai ymhobman. Ond ble oedd yr ysbryd?

Pethau!

'Ti!' ebychodd yn chwilfrydig ostyngedig ond yn dyner tua'r wal. A'r tu hwnt i'r wal. 'Ac rwyf Ti'n dilyn peth gwag ac yn gwegian ar ei ôl hyd yn oed i leoedd a phethau peniwaered fel hyn.' Suddai ar ei liniau, 'Bydd rhaid i Ti fod yn weddol ddiwyd fan hyn mae arna-i ofn. Bydd angen trugaredd. Y mawrhydi. Does fawr o hwyl heb Dy gael i wneud y cwbl lot drosto-i.'

Agorai'i lygaid. Codai. Edrychai drwy'r ffenest agored. Mor ffres oedd y coed ar hyd ymylon gardd Mair. Gargliai Len ei chloroffyl yng nghefn ei lwnc. Rhwbian-gerddetian yn ei gilydd a wnâi'r ddwy lances ifanc islaw'r ffenest, Mair a Maxine, ar hyd llwybr yr ardd. Gwyliai ef hwy'n ymgolli yn ôl ac ymlaen am rai munudau heb dorri gair. Rhy bell oeddent i'w clywed hyd yn oed pe siaradent ar uchaf eu lleisiau. Trodd Len yn ei ôl a chilio i eistedd

ar ei wely. Dwy annatod.

Ymddiddanai Mair yn ddigon mwynnaidd gyda'i ffrind. Ond yr oedd yn barod i addef ei hanfodlonrwydd o hyd: 'Rown i'n ddigon hapus dy fod di'n cyrchu i Gymru i gwrdd ag e. Rown innau fan hyn yn fodlon ddigon 'mod i hebdo. Ond dod yn ôl ag e! Maxine! Dan 'y nhrwyn? Y cwilydd arnat ti. Oedd rhaid iti?'

'Mair fach. Mae'n wir ddrwg 'da fi.'

'Oedd rhaid iti ddod ag e dan draed?'

'Dyw hyn ddim yn ddigon i darfu ar ein cyfeillgarwch ni, ydy hi?'

'Mae'n beth od i'w wneud. Mae 'da ti agenda o ryw fath.'

'Mae'n flin da' fi,' meddai Maxine o'r diwedd gan gydio yn nwy law ei chyfaill. Nid atebodd Mair am ychydig, dim ond dal i rodianna'n dawedog fwyn.

'Ond dy gariad *di* oedd e.'

'Ddim mewn gwirionedd,' meddai Mair yn gelwyddog.

Ymbalfalu rhagddynt a wnaent ill dwy o hyd yn dawedog.

'Roedd yn rhaid imi wybod ble'r own i'n sefyll. Allet ti byth ddeall fy hiraeth i,' meddai Maxine. 'Allet ti byth amgyffred y golled ges i gyda Charles. Byth.'

'O! Galla.'

'Beth?'

'Ddeall.'

'Ond allet ti byth ddeall yr afael y mae delfryd yn ei chael, yr awydd taer am fod y gyfan eto. Yr awydd am ddyfodol rywle arall. A'r awydd ingol am beidio â chael 'y nghlwyfo byth mwy.'

'O! Galla.'

'Beth?'

'Ddeall.'

'Efallai.'

'Galla.'

'Down i ddim wedi bwriadu brifo na dwyn neb. Neb.'

'Na ... Paid â becsan.. Ond bysai'n well 'da fi beidio â chael 'y nharfu gan fywyd newydd,' meddai Mair yn gelwyddog. 'Mae 'na rai moethau sy'n rhy faldodus i hen warior.'

'Doeddwn i ddim wedi bwriadu tarfu arnat ti, beth bynnag, mae'n rhaid iti gredu

hynny.’

‘Na.’ Ac yna, gwenai Mair; a gardd oedd ei gwên, gardd o fewn yr ardd, cerddent gyda’i gilydd hyd-ddi — hynny yw hyd y wên. ‘Paid â phryderu, Maxine fach, am hen ryfelreg brudd. Sioc oedd hi. Bydd di’n driw i’th freuddwyd. Trysor yw hi sy’n wir werth ceiniog a dimai. Mae breuddwyd bob amser yn meddu ar ei chyfoeth anwel ei hun. Paid â’i cholli. Rhag iti ngweld i — rhag iti weld neb oll — fel y maen nhw.’

3

Bu’r Gymanfa’n llai o boen nag yr ofnai Len. Ymlusgid yn ôl y disgwyl ar draws yr un hen emynau — neu’r tonau’n hytrach. Cymanfa Ganu nodweddiadol oedd hi, wrth gwrs, nid Cymanfa Emynau. Unid pawb gan swm. Gwasgerid sentimentau relatifaidd fel pwysïau, nes diflannu i mewn i ddillad cyfforddus. Ond ni fu yno ddim gofynion cyhoeddus iddo ef. Ar ei diwedd esboniai Mair i Len ei bod am bicio i’r tu blaen am eiliad at nifer o ferched a rannai’r arddangosfa flodau rhyngddynt a’i gilydd ac a oedd yn meddu ar eu cyfoeth eu hun.

‘I’r tu blaen? Rych chi’n swnio fel Billy Graham,’ meddai ef.

‘Mae ’da fi un gyfeilles,’ sibrydai hi, ‘Cyfeilles ifanc. Mae hi’n byw ryw gan milltir i’r gogledd o Sydney, a does dim llawer o hwyl arni. Merch weddol ifanc yw hi tua chwech-ar-hugain oed. Fe gas hi ddamwain flwyddyn yn ôl nawr, a cholli defnydd o’i choesau. Ar ôl hynny, ’lan a ’lawr yw hi, o ran hwyliau dwi’n feddwl.’

‘Cerwch chi ymlaen i gael gair gyda hi.’

Daeth hi’n ôl chwap.

‘Na, na. Dyw hi ddim ’ma. Fel arfer, mae hi’n hoffi dod i’r cyfarfodydd, mewn cadair olwyn ar y trê. Ond ’leni yn y ddau fis diwethaf does fawr o lewyrch wedi bod arni druan, ac anfonodd hi bwt i ymddiheuro. Dw innau am anfon blodau’n ôl gyda ffrindiau eraill sy’n dod o’r un ardal. Arhoswch hanner eiliad, bydda-i gyda chi chwap.’

A chlebran â’i gilydd a wnaeth Maxine a Len wrth ddisgwyl i Mair wneud y trefniadau. Mor wahanol oedd y ddwy.

Pagan ymarferol oedd Mair. Cristion oedd Maxine, ond profiadol yn hytrach na meddyliol oedd pwyslais ei chrefydd.

Pan glywai Mair am dlodi neu ryfel neu newyn, ymwregysai’n ddibetrus i ddatrys y broblem ddyngarol. Ac eto, yr oedd rhyw ysgogiad ynddi na fynnai iddi fynd i wŷydd y

tralod yn nes adref. Nid fan hyn yn llygredd gwareiddiad, nac ynddi hi ei hun, roedd y broblem. Ei hargyhoeddiad corfforol pell a oedd yn solet, dyna hefyd gyfanswm pob trafferth. Gweithredu, ond gweithredu o bell, megis un absennol, dyna'i thueddfryd. Ym mhellterau'r ddaear y ceid pob anghyfiawnder ac angen ac anfoes. Roedd hi wedi'i magu i synied fod mynd i eithafion gartref, hyd yn oed mewn gwasanaeth i gyd-ddyn, yn rhy rwydd. Ond mae hynny'n gasgliad rhy barod. Rywfodd yn achos y Cymry ar Wasgar, ac yn y cenhadu pell hwn yn achos Helen, roedd ei hymarferoldeb wedi dechrau troi'n ddiriaethol. Roedd y Cymry ar Wasgar yn eithriad fel petai, ac yn ddirprwy i'r aroglau pell. Roedd eu neilltuaeth hwy yn eu diffinio. Pellter oedd cyswynair Mair, er ei chymwynasau.

'Gawsoch-chi beth oedd eisiau arnoch-chi?' holai Len ar ôl iddi ddychwelyd.

'Do. Mae'n siŵr eich bod chi'n nabod fy ffrind. Cymraes, wrth gwrs. O leia, mae hi'n dod o'r un ardal â chi, wel ryw bymtheng milltir o Lanbiblig.'

'Prin.'

'Eston yw'i chyfenw. Helen Eston.'

'Eston! Dyw hynny ddim yn enw eithriadol o gyffredin yn y fro Gymraeg ... Tybed a yw hi'n perthyn i un arall o'm hen gydnabod?'

'Wili Eston efallai?' awgrymai Maxine a oedd ar eu pwys.

'Dim syniad,' meddai Mair. 'Er ... dwi'n cofio iddi sôn peth am ei brawd. Wnaeth hi ddim ei *enwi*. Roedd e'n wael, on'd oedd e? M.S., dwi'n feddwl. Ond, dyna ni, roedd e'n wael, wedi darfod bellach ... Roedd hi'n teimlo'n rhwystredig ofnadwy ar y pryd achos bod ei gwaeledd ei hun wedi'i hatal rhag mynd i ofalu amdano.'

'Wili oedd hwnnw yn sicr ddigon,' meddai Len. 'Do, mi sgrifennais i ati ar ôl ei farwolaeth.'

'Dyna ni. Pentre'r glob!'

'Tybed? meddai Maxine ..., a daeth alltudiaeth am foment yn broblem annatod yn ei llygaid.

Roedd y syniad yn ddrysfa i Len ... Hemisffêr y de, hemisffêr y gogledd yn cydymddolennu — yn cysgodi — yn rhy dwt.

'A'r Cymry'n adleisio'i gilydd?' meddai Mair, 'yn y wlad bell. *De Cymru* Newydd.'

'Mae gen i frith gof amdani o'r blaen. Ers pryd mae hi yn Awstralia?' holai Maxine.

'Ychydig dros bedair blynedd, neu bump. Ond yn gymharol ddiweddar y des i i'w nabod hi.'

‘Priod?’

‘Na ... roedd hi wedi dyweddio ar un adeg, mae’n debyg. Crwt o Swydd Henffordd. Cyn dod i Awstralia. Fe ddaeth y ddau allan ’ma gyda’i gilydd. Aeth hynny i’r gwellt hefyd ar ôl y ddamwain.’

‘A!’

‘Digon dealladwy,’ gresynai Len.

‘Tebyg,’ gofynnai Maxine heb oslef holi, ‘nad oes dim gwella.’ Nid atebodd neb.

Clywai Len duswau o ymddiddan Cymraeg yn gymysg â Saesneg Awstralaidd yn nofio ato ar draws hen anadl y capel. Cymry oddi cartref yn parablu’u gwreiddiau fel petaent yn ymofyn rhedeg o’u cwmpas wedyn fel ci yn turio i bob man ar ôl cwningen a ddiflanasai.

Dôï’r Cymry i’w Cymdeithas Gymraeg yn Awstralia yn gyntefig, er mwyn glynu wrth ystyllen eu hunaniaeth yn anobeithiol tan suddo mewn môr dieithr. Gwahanol oeddent i’r Sacsoniaid efallai, a gredai mai estyniad o Loegr oedd pobman. Hyn oedd peidio â bod yn blwyfol. Dyma ym mryd rhywrai yw’r allwedd i heddwch rhyngwladol. Nid oedd angen iddynt fod yn dew er mwyn i’w traheustra diniwed lenwi llwyfan. Ond i’r Cymry, ymddiheurad ymylog oedd bywyd.

Clustymwrandawai Len ar y bodau gogleisiol hyn. ‘Twt!’ meddai wrtho’i hun. ‘Y gwreiddiau gwirion ’ma!’

‘Ffordd bell iddi i deithio i’r Gymdeithas Gymraeg,’ meddai ef wedyn yn uchel.

‘O! mae ’na ambell un yn trafeilio’n bellach dipyn na hynny.’

‘Tewch.’

‘O’r Prysg. Oes. Unwaith y mis yn ystod y gaeaf, ac mae pobl y wlad yn licio ymweld â Sydney i siopa, heb sôn am gael cyfle i siarad Cymraeg. Dyw pellterau’n ddim oll.’

Wrth ymddiddan â’r ddwy, ac wrth eu gwylid gyda’i gilydd fel hyn yn ymyl ei gilydd, dechreuai Len amgyffred yn awr pam roedd ef wedi ymhoffi gymaint ym Mair gynt. Roedd hi mor ymarferol. Ac oedd, o graffu, roedd olion o’i hen brydferthwch a’r hen addfwynder wedi ceisio gwrthsefyll y blynyddoedd di-glem. Roedd yna ferch ifanc yn cwato ynddi. Tyfai hi y tu mewn iddo. Ond Maxine yn awr a lewyrchai fwyaf o ran personoliaeth wrth ei hymyl. Hi oedd biau’r afiaith swigodlyd er ei bod yn drymach ei ffigur o ryw ychydig. Ar ôl cyrraedd Awstralia, ac efallai ar ôl y gyffes gymysglyd yna yn yr awyren roedd ei hymddygiad yn fwy ymlaciol. Dwy wraig swynol oedden nhw, a’r ddwy wedi

dioddef, er bod olion traed y cloc yn fwy llethol ar leiniau cefn Mair, ac olion traed sawl breuddwyd ar wallt Maxine.

Syllai hithau, Mair, o'i rhan hi yn chwilfrydig ar y ddau ddilys o'r henwlad. Ceisiai beidio â dangos hynny. Cywilyddiai oherwydd eu bod yn deffro beth ar hen angerddau annifyr. A syllai Len, yntau'n llai cyffröedig, yn ei ôl. Mewn glas brenhinol roedd Mair, a Maxine mewn gwyrdd, lliw go anghyffredin i ferch y flwyddyn honno. Nid oedd, meddyliai Len, ddim oll, o leiaf ddim a ddôl i'w feddwl y gellid ei fwyta a oedd yn las brenhinol heblaw ambell wynwnsyn. Pell pell hefyd oedd glesni'r awyr, ac ymddangosai honno er gwaetha'r heulwen yn ddieithryn. Roedd gwefusau hefyd yn gallu bod yn las, yn oer. Roedd gwyrdd ar y llaw arall, er ei dieithred ar wisg, yn un ohonon ni. Yr oedd yn grimp i'r dannedd. Gellid ei fwyta'n iach. Fe'n cwmpasai dan draed. Ac yn ei borfeydd cynefin gellid gorweddian arno ar hyd y dydd heb deimlo'n estron. Os tawel oedd glas, murmur yn gynnes a wnâi gwyrdd o hyd yn y clustiau.

Roedd y ddwy rywffodd yn canu yn ei enaid. Dwy alaw werin oedd y ddwy: Mair yn araf ond yn fanwl gynganeddus, Maxine yn fwy amrywiol ramantus wedi'i thaenu ar draws clyw sawl parlwr. Y naill yn gadarn ond yn dirion, a'r llall yn llawen lariaidd o bryd i'w gilydd, ond o bryd i'w gilydd yn ysgafn brudd hefyd. Alaw las: alaw werdd. A dyma hwy, a'i alaw lwyd ryddieithol yntau'n ymdroelli'n anghynganeddus o'u deutu.

Angerdd wedi'i ladd oedd Mair, ysywaeth, ond angerdd o fath. Dyna oedd ei gasgliad ef amdani bellach. Dyna pam y tywalltai'i chyhyrau i bob achos da. Adwaith croyw oedd yn erbyn adfeiliaeth y sefyllfa. Ni cheid dim o'r fath bendantrwydd tawel gan Maxine. Gallai hi brofi teimladau cryf, ond nid yn uniongyrchol. Gallai angerddoli, ond pe digwyddai hynny, tueddai i'w gyfeirio mewn breuddwyd tua rhyw gyflwr dymunol. Gallai fyrlymu; ond ffrwtian tymor-byr oedd hyn, o fewn cyfyngiadau. Mwy caled oedd Mair, a mwy sad.

'Paid ag edrych nawr. Dyma Menna ar ddisgyn arnon ni,' sibrydai Maxine yn sydyn wrth Len, bron yn fyr ei hanadl, 'menyw oleuedig os bu un erioed. Onglog hefyd. Menyw yn sicr.' Roedd Menna wedi disgyn i ganol y grŵp fel aroglau estron.

'Ceisio hala ofn arna-i rych chi,' gwenai Len. Troes i siglo llaw â Menna.

'Ga-i gyflwyno Menna,' meddai Maxine. 'Menna yw'r fwyaf egwyddorol o ferched Sydney.'

Ond wrth iddi giledrych ar Menna, yr oedd metamorffosis wedi disgyn arni. Ym

mryd Maxine, ymrithiasai'n saeth-freuddwyd. Nid y llygoden Ffrengig arferol. Ond anferth o chwannen goesiog denau wydn. 'Peidiwch â sylwi dim ar Maxine,' meddai Len, gan bwysio a mesur yr onglau a welai o'i flaen. 'Dyw hi ddim yn un ohonon ni.'

'A phwy yn ni ys gwn i?' holai Menna oddi uchod, gyda digon o wên i hala'r ysgryd i lawr asgwrn cefn unrhyw chwannen.

'Ni, mae'n debyg,' meddai Len yn chwannen oll, gan adnabod ei diriogaeth, a chan sylweddoli mai merched oedd y mwyafrif ymhob cyfeiriad, 'yw merched yr Oes Newydd. Diolch amdanon-ni.'

'Gweinidog gyda'r Annibynwyr o Lanbiblig,' meddai Maxine yn esboniol. 'Len Llwyd.'

'O!' meddyliai Menna ynnddi'i hun gan ocheneidio'n fewnol, 'un o'r gwrywod chwarae-teg rhyddfrydig yna.'

'A chithau'n un o hiraethwyr Cymreig yr Hemisffêr, debyg,' meddai Len, dipyn yn llai hyderus.

'Pa hiraeth?' holai Maxine.

'Y Cymry alltud, yn Antarcig y galon.'

'Gormod o wrywod yn geffylau blaen sy 'ma,' meddai Menna, 'ar gyfer lle bach fel Strailia.'

'Oes 'ma le i un tenau arall?' Craffai Len arni'n anniddig. Cawsai corff Menna ei adeiladu ar gyfer cyflymder, mae'n rhaid. Credai hon fod bronnau helaethlawn nid yn unig yn gyntefig, ond yn gomom hefyd, fel ped etifeddasai'r gorchwyl o fod yn famaethod sugno gan yr oes o'r blaen. Bellach roedd gan ferched amgenach dyletswyddau, a hithau gyda nhw. Dehonglwyd ei honglau yn arwydd o ddeallusrwydd. Roedd priodoleddau'i hwyneb yn aneglur fel petaent wedi'u sgrifennu ar frys, a hithau wedi defnyddio rhwber er mwyn eu dileu orau y gallai wedyn.

Ond mynnai hi gael cil-dorri gair gyda Mair o'r neilltu fel petai: 'Sut mae'r ddirwest?'

'Dim problem.'

'Dwi'n becsan amdanat ti.'

'Dim eisiau. Dim chwannen ohoni yn un man.'

'Rhaid iti gael penderfyniad. Torri'r hen beth wrth y gwraidd.'

'Dwi'n lân.'



‘Does dim golwg lân arnat ti.... Alla-i ddim dy ddeall di.’

Ond ni wnaethpwyd Menna ar gyfer deall. Dim ond ar gyfer rheoli. Sleifiodd Mair yn ôl at afreolaeth Maxine.

‘Yfory,’ meddai Mair gan droi at Len, wedi bod yn gwrando’n amyneddgar ar hen wersi Menna, ‘yfory mae’n rhaid ichi’n rhyddhau ni’n dwy.’

‘Wrth gwrs!’ meddai ef. Yn ddiarwybod, disgynnodd YFORY arnynt, a’i reidrwydd.

‘Daeth meistres Mostyn ar ein gwarthaf.’

‘A!’ meddai fe. ‘Y SIOPA. Ydw-i’n weddol agos?’

‘Cewch chithau ddod debyg, os dymunwch.’ (Hen dacteg hysbys.)

‘Y tro nesa,’ atebai ef gan chwerthin. ‘Y tro hwn mi a-i i astudio amgueddfeydd Sydney,’ chwarddai eto gan droi tua Maxine, ‘er mwyn dod i nabod eich cefndir yn well, Maxine. Yn arbennig eich cyn-hanes.’ Ond nid yr amgueddfa a ddeallai hi a ddeallai ef. Roedd rhywbeth yn crafu’i chwilfrydedd ef o hyd yn y gymdeithas hon. Gwawriasai syniad gwreiddiol arno. Mi âi yn gyntaf i chwilenna am enw cyn-wr Maxine yn y Cyfarwyddiadur Teleffon. Dyna ffordd i hoelio ystyr y fenyw hon. Ni ddeallai pam, ond roedd hyn hefyd yn rhan o’r gorchwyl o chwilio’n llawnach amdani hi ac ynddi hi a’i hanfod (ac am ei Strailia hi) ac o geisio deall beth ar y ddaear oedd y fytholeg hurt yr oedd hi’n amlwg yn ceisio lledu dros ei ben.

Rywfodd, doedd hi ddim yn wir.

Rhaid oedd gwybod mwy amdani. Chwareus oedd Len heb ddim i’w wneud. Ond yr oedd ‘dim’ o leiaf yn well na siopa. Tybiai ef y byddai enw’r cyn-wr — rhyw *Thomas Pearse* (nid Charles) — yn ôl a glywai gan Menna wrth sgysio ychydig ymhellach gyda honno — neu o leiaf enw’i ffyrm, yn weddol hwylus rywle yn y Cyfeiriadur Masnachol, hyd yn oed pe na chynhwysid ei rif cartref yn y Cyfarwyddiadur Personol. Ond gyda llaw, Maxine a newidiasai’r enw hwnnw gan ei chyn-wr, wrth iddi sôn amdano, i Charles... ar ôl Tywysog Cymru. Anesmwyth a dwl oedd teimlad Len, wedi cychwyn ar y fath drywydd y tu cefn i Maxine, i fwrw’i amser am y prynhawn. Anesmwythai am nad oedd ef rywfodd wedi ymddwyn yn lanwedd. Ond rhyw fath o ddifyrrwch ditectyddol i’w wneud oedd hyn efallai. Chwarddiad o ymchwil. Ac roedd ganddo wir chwilfrydedd ynghylch y cyn-wr gogordrous hwnnw bellach oherwydd i Maxine blethu’r fath gelwydd golau amdano. Roedd dirgelwch meddwl Maxine hefyd wedi ysgogi rhyw chwilfrydedd bachgennaidd yn ei feddwl. Roedd rhyw ansicrwydd euog yn ei chylch o hyd yn blino Len. Wedi’r cwbl, os oedd ei

gyfeillgarwch ei hun i barhau i flodeuo gyda Maxine, rhaid oedd gwybod mwy amdani. Dichon nad anaddas fel gêm fuasai chwilio'r gwir croyw hefyd pe bai'n bosibl ar hyn o ddaear fregus, gan na allai ddibynnu'n syml ar ei gair dychmyglon hi. A, beth bynnag, roedd yn rhywbeth i'w wneud.

Ble y caed y gwirionedd?

Drannoeth, ar ôl cael ei gyfeiriad, a hwnnw ynghlwm wrth enw Thomas Pearse, aeth Len dow-dow i sefyllian fel crwt gwirionllyd cariadus y tu allan i ffatri'r dyn hwnnw. Crwydrodd o gwmpas yr adeilad yn ddibwrpas. Fysai byth wedi gwneud hyn, byth, oni bai fod Maxine ei hun mor annelwig o ddirgelaidd. Ond dirgelaidd oedd ef ei hun bellach er mwyn datrys dirgelwch. Roedd hyn yn deg ddigon felly. Ac eto, sut y gallai fod yn deg? Mewn saeth-weddi erfyniai am faddeuant... Ond ffatri Maxine fu hyn, unwaith.

Canfu maes o law ymhle y ceid swyddfa'r pennaeth. Cafodd ddalen hysbysu yn y dderbynfa. Daethai o hyd i wybodaeth grai am y ffym, o leiaf, ynghyd â darlun o'r bwrdd cyfarwyddwyr o bethau'r byd. Ond ciliodd: teimlai'i fod yn bradychu Maxine rywsut. Roedd ganddo bellach o leiaf ffotograff o'i gŵr ... Ac eto, petrusai rhag mynd ato'n syth. Roedd am gyfarfod ag ef ar dir niwtral.

Bu'n disgwyl yn anesmwyth ddianrhydedd amdano, felly, o'r tu allan. Nid yn ddiddiben. Daeth hwnnw allan o'r swyddfa cyn bo hir, a mynd i'w gar. Chwarddai Len am ei ben ei hun. Roedd arno gywilydd. A oedd Maxine wedi'i rwydo gymaint?

Cododd Len darsi a basiai ar y pryd, a'i ddilyn yn ofalus yn ôl i'w gartref. Roedd arno ddyfal gywilydd o hyd. Chwarae oedi oedd ysfa wamal Len wedyn y tu allan i'r cartref hwnnw heb wybod pam na beth i'w wneud yn nesaf. Ffordd i fwrw'r amser oedd, yn lle siopa. Roedd wedi'i ddrysu. Baldorodd oedd y cwbl, a math o frad annheilwng. Roedd ef yn gweithredu dan din. Beth oedd arno? Mynnai rhyw gosfa y tu mewn iddo lygadu'r tŷ yn chwilfrydig. Ond chwilio am y gwir yr oedd. Synnai ato'i hun wrth iddo geisio cerddetian ar hyd glannau ffrydiau breuddwyd Maxine fel pe bai'n ceisio olrhain llygad i ffynnon o fath. Enigma o fenyw oedd hi, yn ddi-os. A'r fan hon y buasai hi wedi byw. Un o'i thai.

Ai Maxine oedd yn ei gorddi cymaint â hyn wedi'r cwbl? Neu ynteu Mair, yn ddirprwyol? Neu ef ei hun? Ai hela Maxine mewn modd estynedig ac ail-law yr oedd ef neu ryw hud llewyn ffyliaid estron? Ai chwilio am realiti Awstralia – neu Gymru yr oedd? Cyn ateb dim o'r amheuon hyn fe'i gwobrwywyd. Nid yn unig fe gafodd olwg ar dŷ'r dyn, y plasty o annedd a oedd gan gyn-wr Maxine: cafodd olwg o bell ar wraig newydd sbon

Thomas Pearse. Gwraig ryfedd ei hosgo. O'r braidd ei bod o ran taldra yn cyrraedd hyd at fryst ei gŵr. Cerddai ag ychydig o gloffni am fod un goes o bosib yn fyrrach beth na'r llall. Ac roedd yna rywbeth annaturiol, na allai roi'i fys ar y peth, yn siâp ei hwyneb — ei thalcen yn gul efallai, neu'i gên beth yn hwy na'r arfer. A hyn felly, y greadigaeth anfefodol annisgwyl hon, oedd y 'fflwf' bondigrybwyll a ddygodd Domos oddi wrth grafangau hedegog Maxine.

A hyn oedd ymchwil Len. Rhywbeth i'w wneud, 'wir! Math o archwilio'r golledig.

Doedd dim cymhariaeth rhyngddi a Maxine. O ran golwg, roedd Maxine, gwraig gyntaf Thomas Pearse, yn odiaeth o hardd, yn ddiwylliedig o hardd, a'i hwyneb yn meddu ar y math hwnnw o hawddgarwch sy'n ennill parch ym mhawb a'i gwêl. Doedd hon ... Mor hawdd fuasai bod yn negyddol amdani. Roedd hi'n efrydd bron.

Edrychai Len arnynt o bell heb wybod sut y gallai godi sgwrs gyda dyn diert. Sut y gallai fynd ato? Dychmygai amdano'i hun yn ei gyflwyno'i hun yn ddamweiniol i'r gŵr. Gallai sôn am Maxine. Crybwyllai Gymru. Roedd Len wedi dod mor bell, mor ffôl o bell. Daethai mor berthnasol ond annheg o bell, rhaid oedd torri gair. Gobeithiai y gallai'r gŵr ei esgusodi. Rhyfeddai'r gŵr hwnnw at y fath ymyrraeth ansyber. Er mai'n gyfrwys cyn belled ag y medrid y llywiau'r sgwrs ddychmygol hon, allai Len ddim gadael y sefyllfa (neu'r dirgelwch yn wir) yn llonydd. Mi fynnai rywsut gael gwybod rhywfaint o'r hyn a ddigwyddasai rhwng hwn a'i wraig gyntaf, a hyd yn oed beth oedd y rheswm am yr ysgaru. Ac eto, doedd ganddo ddim busnes.

Roedd ef ei hun yn dychmygu pethau bellach. Roedd yn creu'r afreal.

Syfrdanodd Len ei hun fod ganddo'r fath benderfyniad i dyrchu am realiti Maxine. Buasai'r gŵr diert yn ddiâu yn syfrdan oherwydd y fath haerllugrwydd naif yn nychymyg Len, hynny yw pes clywsai wrth i Len yn ei ben ei baratoi'i hun ar gyfer cyfarfyddiad dieithr fel hynny. Ond yr oedd y peth mor afreal a dwl a'r hyfdra mor gwbl eithafol a'r sefyllfa mor ddigrif yn ei feddwl fel y dechreuodd Len glebran rhyngddo ef a'i ddychymyg. Roedd rhaid iddo esbonio pam iddo ef ei hun. Tywalltai'i galon, gan ddisgwyl yn daer am gyfle i'w wynebu'n ddiriaethol. Rywfodd ni allai gredu gair Maxine yn gyfan gwbl mwyach, meddai yn ei feddwl ei hun. 'Dwi'n deall hynny,' meddai'r gŵr, yntau hefyd yn ddychmygol. A phe câi ei atynnu yn bellach bellach ganddi i rwyd perthynas fwy cymhleth efallai — fel yr oedd y bygythion fel petaent yn ei addo — y byddai'n rhaid iddo wybod y cyfan heb orchudd. 'Dwi'n deall hynny hefyd.' O leiaf, o weld ei gŵr, yr oedd ei bodolaeth hi rywfodd yn

gyflawnach i Len nawr, yn llawnach ac eto'n wacach.

Tybed, a fyddai rhyw fath o ymddiddan fel yna yn bosib, os nad ar y blaned hon, o leiaf ar blaned arall? Dyma o hyd gyn-ddychmygu'r cyfarfyddiad rhyngddo a'r gŵr dieithr, — yn nhraddodiad Maxine, — gan deimlo'r un pryd iddo ddechrau ar siwrnai seithug. Roedd hyn oll yn ymddiddan ac yn ddigwyddiad cwbl ffansiol. Roedd hi fel petai Maxine yn dechrau meddiannu myfyrion Len. Hi oedd wedi gwneud hyn oll iddo.

Cyn pen chwinciad, sut bynnag, cafodd ychydig o lwc, neu o ragluniaeth. Daeth y gŵr yn ôl allan o'r lliidiart: gŵr a chanddo'r wyneb mwyaf anghofiadwy a welsai neb erioed. Bron na fyddai'n angharedig i daeru ei fod yn ymddangos yn ddiwyneb. Yn ei law ddi-liw roedd ganddo lythyr, a cherddai yn eofndaclus ddi-liw â'r llythyr hwn tuag at y blwch post a oedd yn is i lawr, ryw ddau ganllath a hanner o'r tŷ. Hwn fu ei gŵr hi.

Brysiodd Len draw i'w oddiweddyd. Roedd yn wynebu realiti'r byd: 'Esgusodwch fi, syr.'

'Y?'

'Pnawn da.'

Syllai'r gŵr dieithr yn ôl ar Len gyda chymysgedd driphlyg o chwilfrydedd ac anfodlonrwydd a syndod. 'Y! Dych chi ddim yn yn nabod i.'

'Mae'n rhaid i chi f'egusodi. Nid yn unig am daro ar eich traws, ond am y rheswm hefyd ... sef *Maxine*.'

Stopiodd y dyn. Craffai ar Len fel ar gleren las mewn uwd. Ailadroddodd yn hypnotig ar ôl Len, '*Maxine!*' fel pe bai'r ddau air yn odli bron.

'Crinodd Len gerbron ei drem.

'Dwi'n ymddiheuro am fy haerllugrwydd. Ond Mr Pearse ... Mr Charles Pearse?'

'Thomas.'

'O! Mr *Thomas* Pearse wrth gwrs ...,' adleisiai Len. 'Felly rown i'n meddwl ... O! wel, dyna ni ... rown i'n ... Mae yna gyfeillgarwch wedi dechrau magu rhyngddo-i a'ch gwraig gynta.'

Disgynnai'r gair 'cyfeillgarwch' fel bom rhyngddynt. Ymddrylliai.

Cerddai'r gŵr heb ymateb yn syth ymlaen, ond gan gil-syllu'n chwilfrydig syn ar y dieithryn. 'Mae gynnoch chi broblem te,' meddai wrth Len. Cyd-gerddent hyd at y blwch-post. 'Dowch ymhellach. Cerddwn i lawr ffordd hyn,' meddai'n betrus wrth yr ymholwr annisgwyl, ar ôl cyrraedd y blwch, ond heb edrych o gwbl ar Len mwyach.

‘Rŷn ni wedi dechrau ymhoffi ryw faint,’ meddai Len, ‘Maxine a fi.’

‘Mwy byth o broblem. Does gen i ddim ond cydymdeimlad.’

‘Dyna un rheswm pam dwi yma, yn Awstralia dwi’n feddwl. Mae’r berthynas yn trwchuso.’

‘A dych chi eisiau imi eich helpu allan o’r cawl?’ Daliai i beidio ag edrych ar Len.

‘Yn annisgwyl mae’r rhan hon o’i chefnidir wedi dod i’r fei. Chi dwy’n feddwl.’

‘A! fi! Yn gefndir! A! I Maxine? Priodol iawn.’

‘Down i erioed wedi erfyn fod yna wŷr, cyn-wŷr, o hyd ar dir y byw.’

‘Na. Galla-i’i ddeall.’

‘Ac nawr dwi’n chwilfrydedd oll, braidd.’

‘Wrth gwrs.’

‘Mwy na chwilfrydedd, mae’n her. Mae’n fagl hefyd.’

‘Mae’n gawl os gofynnwch i mi.’

‘Ond tybed ... ga-i fod yn fwy ewn byth?’

‘O’r braidd.’

‘Hi. Maxine. Alla-i ddim o’i hamgyffred hi.’

‘Croeso i’r ffym.’

‘Os oes ’na ddyfodol i ni’n dau, fi a Maxine dwi’n feddwl ...’

‘Oes ’na *beth*?’

‘Dwi ddim yn gwybod. Dyfodol?’

‘Na. Mae hi a’r dyfodol yn cael gormod o hwyl gyda’i gilydd eisoes. Does dim gwir orffennol chwaith. Na dim lot fawr o bresennol i ddilyn. Faint o absennol sy i’r sefyllfa efallai?’

‘Ond os oes ’na ddatblygiad i fod i’n perthynas, mi garwn wybod beth a ddigwyddodd eisoes, — pam? Sut?’

‘Digwydd! Rhyngon *ni’n* dau? A! Chyffesodd hi erioed?’

‘Do, mi soniodd fymryn, am odineb.’

‘Y ngodineb i?’

‘Ie.’

‘Debyg iawn. Wel, dyna un arall o freuddwydion peraidd Maxine, cewch fentro. Dyw hi ddim wedi newid, ddim mwy nag y bysech chi’n ddisgwyl.’

‘Doedd e ddim yn wir?’

‘Dyna’r adroddiad swyddogol. Yr hanes, fel y dywedir.’

‘Ond y gwir.’

‘Dyna’r *cytundeb*. Rown i’n reit fodlon. Godineb gyda rhywun anhysbys. Gorau po fwyaf anhysbys. Mae’r chwedl yn bur flodeuog. Os oedd hi eisiau ailddechrau’i bywyd, yna rown i’n barod i lofnodi’r cytundeb ar y pryd.’

‘Ond nid dyna a ddigwyddodd.’

‘Clywch. Dych chi eisiau gwybod gormod. Hynny yw, mae hyn oll yn bersonol gladdedig. Mae hi drosodd. Dwi ddim yn eich nabod chi. Ac rych chi’n sylweddoli gystal â fi fod y mater caru yn un cymhleth. Dŷn ni’n mynd yn rhy bell nawr.’

‘Wrth gwrs, mae’n ddrwg gen i.’

‘Ond... arhoswch... dwi’n teimlo peth trueni drosoch chi ... ofn hyd yn oed. Clywch. Ar y pryd doedd ’na neb. Ga-i esbonio. Roedd y greadures ddeniadol odinebus yn garlamus o anhysbys, er mawr golled i Hollywood. Ond ar hynny y cytunais i hefyd, yn gyfreithiol hyd yn oed. Maxine yw Maxine. Efallai. Weithiau o leiaf. Gwahanu’n daclus, hi a hi, hi a fi, fi a fi’n cyrchu ein ffordd ein hun ar sail dychymyg. Clwyfau wrth gwrs. Pryd bydd rhywbeth fel hyn yn llwyddo heb lond gwlad o glwyfau? A llond gwlad o g’lwyddau.’

‘Ond nid godineb oedd y gyllell.’

‘Na, na. Ymhell ohoni. *Wedyn* y cwrddais i â ’ngwraig.’

‘Beth te?’

‘Dych chi’n siŵr eich bod chi eisiau’i wybod? Ar y pryd rown i heb gyfarfod â ’ngwraig bresennol. Roedd hi’n perthyn i’r dyfodol ar y pryd.’

‘Beth oedd y rheswm te?’

‘Breuddwydio ’wnaeth hi.’

‘Dyna’r cwbl?’

‘Dim gwell.’

‘Neb?’

‘Oes eisiau ymlusgo dros ei hecsentrics? Pwy *ych* chi?’

‘Doeddech chi ddim wedi caru’ch gilydd?’

‘Doedd ’na neb oll wedi profi mwy o gariad, ar y dechrau ta beth. Caru cawraidd, ddwedwn i, yn wreiddiol, dyna fyddai ’nisgrifiad i. Ar raddfa gefnforol. Dwi ddim yn gwybod sut y disgrifiai hi’r fath beth. Doedd dim dal arni. I fi roedd yna ramant. Rhamant ddofn. A mwy na rhamant. Yn sicr, mwy na breuddwyd. Fi oedd yr anwe i’w gwe hi. Dyna

ni. Dyna'r cwbl.'

'Wel, beth oedd y rheswm te? Am y gwahanu.'

'Clywch Syr, mae'r sgwrs hon yn mynd yn rhy danddaearol. Yn y diwedd ulw wrth gwrs, fe graciodd pethau. Fel 'na mae pethau. Roedd yna ffrwydrad hyd yn oed. Rhywbeth tebyg i awyren yn mynd drwy wahanfur sain, dyna yw breuddwyd sy'n troi'n realedd. Y wahanfa yw'r ffin rhwng breuddwyd a hunllef.'

'Ffrwydrad? Sut? Ynghanol y breuddwydion?

'Do.'

'Gan Maxine?'

'Na. Fi ffrwydrodd. Hen bryd hefyd. Fi yw'r realist, welwch chi. A'r un sy'n cadw'r realiti yn ei galon yw'r un sy'n cadw'i galon.'

'Ond pam?'

'Allwn i ddim ei chredu. Roedd hi'n bwrw cawodydd o anwiredd. Profiad rhyfedd yw ymdrochi mewn cesair o gelwyddau bob bore... Awstraliad go iawn dw i. Blew, cyhyrau a dim dwli. Ambell datw ar 'y mhen ôl. Bracsan drwy freuddwydion fel 'na y bydd y Cymry am wn i. Breuddwydion am Lywelyn. Protestio. Gweithredu'n symbolaidd. Ddim fel 'na rŷn ni'n 'wneud'. Allwn i byth ddibynnu ar ddim a ddwedai hi. Dweud oedd y cwbl. Doedd dim dyfal barhad yn yr ansawdd. Roedd hi'n breuddwydio popeth. O'r newydd. Bob dydd. Efallai fod diffyg parhad yn ffenomen go gyffredin bellach yng Nghymru. Ac efallai mai fel hyn y bu hi gyda Maxine o'r dechrau heb yn wybod i mi. Roedd y diffyg sylwedd yn islais yn y gemeg, ond wnes i ddim sylwi iot tan y misoedd olaf. Nid caru 'wnâi hi, y greadures, ond breuddwydio am garu. Y pryd hynny, yn y diwedd, y daeth y cwbl yn ôl dros ei phen. Y pryd hynny sylweddolais-i beth oedd ystyr ein perthynas ni wedi'r cyfan.'

'Mi alla-i ddeall hynna hefyd.'

'Does dim byd mwy dirdynol ar ddaear sad na sarhau cariad, yn enwedig pan fydd y cariad yna'n lân o felys.'

'Na: mi alla-i ddeall hynny ... ond pa fath o sarhad oedd 'na?'

'Peth rhyfedd yw darganfod gwacter. Mae'n gallu bod yn frawychus o fregus. Tybied un funud fod yna lawnder llwyr, ac yn sydyn reit chwilio a chael — dim. Dim oll yn unman. Cariad gwag. Dim.'

'Roedd siom yn magu peth bloneg felly?'

'Roedd hi fel pe bai-hi wedi bod yn breuddwydio'i chariad tuag ata-i. Roedd hi wedi

breuddwydio fod gen i lond cert o gariadon eraill. Mi ddylwn fod wedi maddau iddi. Mewn theori, dylwn. A dyna 'geisiwn i ar y dechrau. Ond dyma hi'n dod yn ei hôl eto. Sylwais i wedyn ... Ydych chi'n siŵr eich bod chi am glywed y rwtsh yma?'

'Wrth gwrs.'

'Dwrddio roedd hi'n wneud. Cymharu, sôn am briodasau *eraill*, hon a hon, a phriodasau honno, honco wedyn a'i phriodas hithau. A beth oedd wedi bod gyda *nhw*, feddyliwn, yn amgenach na chyda *ni*? Dim. Ond dyna fi'n dechrau defnyddio'r amser gorberffaith nawr, a doedd dim perffaith ynglŷn â'r briodas honno ...'

'Ond sut?'

'Byw celwydd. Dyna ddigwyddodd. Breuddwyd. Hunllef. A chyn gynted ag y mae amheuaeth yn cydio, mae serch yn gollwng ei afael.'

'Ond sut y dechreuodd y siom gydio? Beth oedd y gwreiddyn eithaf i'r drwg?'

'Ei breuddwydion hi am *fod* fel arall, am fyd arall, am wn i.'

'Priodas arall?'

'Dynion eraill.'

'Oedd 'na *ddyn* arall?'

'Dyn! Na, na, nid yn eich ystyr chi — nid cig a gwaed a rhyw annibendod felly.'

'Doedd 'na ddim cweryla ariannol?'

'Na.'

'Beth wnaeth hi te?'

'Breuddwydio o hyd. Bant â hi. Beth arall? Roedd hi bob amser am fod mewn cyflwr arall.'

'Pa freuddwydio? Beth wnaethoch *chi*?'

'Stori hir.'

'Mae gen i glustiau.'

'Does gen *i* ddim ceg.'

'Mae gen i lond cyfandir o amser.'

'Dowch i eistedd ar y fainc fach draw fan hyn,' meddai Thomas Pearse, gan wenu, bellach wedi cynhesu, wrth ei fod yn cael rhannu'r dwli gyda gwryw arall. 'Caiff y breuddwydion ymestyn fel cysgodion tan ein traed.' Eisteddent ill dau'n hamddenol. 'Rych chi'n gwybod am ei gogwydd tuag at freuddwydion, efallai.'

'Rhyw getyn.'



‘Yn union. Wel, roedd gen i dipyn o anhawster wrth gystadlu ag afrealedd hyfryd o’r fath.’

‘Dwi’n gwerthfawrogi’r sefyllfa.’

‘Nid bod gen i swildod ynghylch actio cymeriad mewn breuddwyd.’

‘Na.’

‘Digon o bractis. Mi allwn fod wrth fy modd mewn rôl fel ’na ond imi aros yn y freuddwyd yn ddestlus. Ddim i mewn ac allan. Ond rown i’n cael cryn anhawster ar ôl cael ’y nhynnu’n ôl i realedd ambell waith. Wedi cyrraedd yn ôl ar y ddaear rown i’n cael anhawster drachefn i blesio ar lefel bob dydd. Rown i’n crwydro’n ôl ac ymlaen, ac yn baglu. Yn y freuddwyd, ond cael llonydd rown i’n reit gysurus.’

‘Dwi’n gwerthfawrogi’r dryswch.’

‘Dwi ddim yn gwarafun tipyn o hwyl ymhlith y cymylau, wrth gwrs. Ond iddo aros fan yna’n gymen yn ddigon pell.’

‘Dwi’n deall eich penbleth.’

‘Roedd ’y nhad newydd farw pan briodson ni. Marw o dorcalon dybiwn i. Strôc medden nhw. Ymwybod o fethiant meddwn innau. Methdaliad. Dyledion dirifedi. Dyna’i hanes ar y diwedd druan. Y llywodraeth yn chwarae â’r economi. Dyn da, os bu un felly erioed. Dyn unionsyth. Awstraliad o’r iawn ryw ers tair cenhedlaeth. Chwarae rygbi’n ifanc. Nofio. Dyn caredig o’i wraidd hefyd. Sylweddolodd pawb hyn wedyn ... ar ôl iddo ddarfod ... ei weld e yn ei fawredd, wedyn. Heb arch, dim parch. Dyn oedd-e wedi ymlâdd i godi’i ffyrm a magu’i deulu a rhoi popeth i’w wraig. A’r dyledion yna chwap, yn hollol sydyn, yn saethu drwy’r to.’

‘Y llywodraeth yn chwarae â hi ei hun?’

‘Mastyrbiaid economaidd. Roedd llogau wedi cynyddu’n raddol ers amser oherwydd y chwyddiant. Ac nawr allai ’nhad ddim cynnal y busnes. Allai fe ddim cydbwysu’r fantolen. Yn ddiymdroi, popeth yn mynd i’r gwellt. Y gystadleuaeth o Siapan. Y gweithwyr yn streicio. A chyn gynted ag y dechreuai’r dyledion besgi, roen nhw’n cael hwyl arni. Dyna laddodd e, yn grwn, mor sicr bob dim â phe baen nhw wedi dod y tu ôl i’w gefn â dagr. A’n gadael ni.’

‘Druan. I’w waith roedd e’n byw?’

‘Rown innau newydd briodi; ac fe gytunson ni’n dau, Maxine a fi, y bydden ni’n ailgydio yn y busnes. Clirio’r dyledion. Er parch i goffadwriaeth nhad. Fe rodden ni’r cwbl

lot yn ôl ar ei draed. Nid 'y mhenderfyniad i yn unig oedd hyn. Roedden ni gyda'n gilydd. Mae hi'n gallu bod yn syfrdanol o ymarferol weithiau. O leiaf, mae hi'n barod i weithio. Fe dalen ni'n ôl y dyledion. Fe adferen ni'i enw da.'

'A llwyddo 'wnaethoch chi?'

'Gyda help Maxine, maes o law, do. Y tu hwnt i bob disgwyl, gyda'n gilydd. Dyna pam y mynnais i sicrhau y câi Maxine o leiaf hanner yr eiddo. Hynny roedd hi'n haeddu. Roedd hi wedi rhoi'r gorau i'w gwaith fel athrawes ysgol feithrin. Roedd hi'n barod i roi ei bywyd oll i mi. Roedd hi 'lawr yn y mwynfeydd halen gyda fi. Ymdrech ar y cyd. Ond bwgan brain oedd llwyddiant. Roedd yr holl frain wedi mynd i glwydo ar ei ysgwyddau ... Ddwedodd hi rywbeth am y plentyn?'

'Na ddo.'

'Mi gawson ni fabi.'

'Babi!'

'Etifedd. Rown i ffwrdd adeg yr esgor, yn ne Corea. Roedd hyn ar ôl inni ailgydio yn y busnes. Dyna'r tro cyntaf erioed imi fynd dros y môr ar ran y ffyrn. Ond roedd yn arwydd o'r pethau i ddyfod. Aros gartref wnaeth Maxine er mwyn y plentyn. A gwanllyd oedd y bychan. Gwanllyd fuodd e ar hyd ei oes fer. A phan es i ffwrdd am yr wythfed tro — flwyddyn yn ddiweddarach — i Dde Affrica, buodd e farw.'

'Marw! O! mae'n ddrwg 'da fi.'

'Do, yn ddisymwth, o niwmonia.'

'Mae'n wir ddrwg 'da fi. Dyna pryd y dechreuodd pethau ddirywio?'

'Na, na. Daeth Maxine yn ôl i'r ffyrn. Ailgydio, yn bwl efallai, ond yn ddiwyd. Roedd hi mor barod i ymroi, am gyfnod o leiaf. Ac fel yna buon ni am chwe blynedd.'

'Chwech!'

'Maxine yn bwl, a finnau yn ffwl, heb feddwl am fawr ond llwyddiant y gwaith, ond ei bod hi'n lled freuddwydio ar ddi-hun weithiau am y bychan. Dyna'r pryd y dechreuodd yr hen freuddwydio carlamus 'ma ymaflyd ynnddi o ddifri.'

'Mor hudol â hynny,' sibrydai Len. 'Y plentyn!'

'Fel petai'n gwneud iawn am realedd na ellid ei gyrraedd. Y breuddwydion oedd ei phlentyn. Y gwrthrych coll. A'r diddordeb yng Nghymru.'

'Rhyw fath o etifedd a chysur oedd ei breuddwydion y tro hwn, felly.'

Cafodd Len ei fod yn sibrwd ar y pryd fel pe bai'n ofni i Maxine ei glywed. Sbiai

ychedig o'i gwmpas, braidd yn nerfus. Beth oedd breuddwydion Maxine wedi'i wneud iddo yntau? Pam roedd e'n holi a stilio fel hyn? Roedd e'n euog. Fan hyn yr oedd yn tyrchu ar ôl y realedd y tu ôl i'r ffansiön hynny, ac yn ymddwyn yn union fel sbiŵr dianrhydedd. Yr oedd wedi taflu'i ddiniweidrwydd gwryfol ei hun. Ymwardodd rywfodd â'i dryloywder ysbrydol. Beth wedi'r cwbl a wnâi ef fan hyn nawr ond gweithredu dan-din yn ei herbyn? Ac yntau'i hun heb fod fawr amgenach na breuddwyd. Hela breuddwyd fu ef. Hela Maxine.

Roedd ef bellach am roi terfyn ar ei sgwrs; roedd arno gywilydd; ond parablai'r gŵr yn ei flaen.

'Roedden ni'n cael bywyd normal o hyd bid siŵr, gwyliau cwta hyd yn oed ddwywaith, bywyd rhywiol gweddol gytbwys, o fath achlysurol, ac wrth i'r blynyddoedd ddirwyn yn eu blaen, ychedig mwy o hamdden gyda'n gilydd. Ac eto, roedden ni'n brysur, yn rhy brysur. Ond dyna ni: cyrchu i'r Prysg o bryd i'w gilydd yn y Mercedes am ambell dro hir a diddorol a sydyn. Ambell wibdaith brysur i America a'r Almaen hefyd. Ac yna, dechreuodd hi ...' A phetrusodd.

'Beth?'

'Dychmygu eto ynglŷn â'n perthynas. Roedd hi wedi lled grybwyll y peth o'r blaen. Sôn am ddelfryd o briodas na allen ni byth ei gyrraedd. Sôn am Gymru.'

'Dannod? Edliw?'

'Ceintachan. Breuddwydio. Delweddu. Disodli.'

'Does dim rhaid wrth athrylith i fod yn anhapus.'

'Sôn o hyd am barau priod eraill. Dyna 'wnâi hi. Sôn am yr hyn a allai fod. Teulu, aelwyd, hamdden. Roedd y gŵr-a'r-gŵr yn gwirioni ar ei wraig ... Mi wyddwn innau fel arall. Wnâi'r dyn ddim byth â graen arno yn ei swydd, doedd dim ymroddiad, doedd ei fywyd ddim yn gyson, doedd dim cyfanrwydd; ond doedd dim ots am hynny ym mryd Maxine, ei wraig oedd yn bwysig i hwnnw. Hi oedd yn dod yn gyntaf iddo. Ddim bywyd cyflawn. Ddim gwaith. Ddim perthynas ddilys. Breuddwydiai Maxine am eu bywyd hwythau. A'r tro cyntaf hwnnw, pan es i Gorea, dyma'r dwrdio'n dod ar 'y mhen: wnes i ddim sylweddoli llawer ar y pryd. Mynd ar daith hebddi hi! Ble oedd y briodas ddelfrydol? Ei gadael hi gartref! Nid fel yna roedd y gŵr-a'r-gŵr yn ymddwyn. Y ffaith y gallwn i fynd hebddi, y gallwn i'i gollwng hi mor ddifater, ar adeg mor dyngedfennol, dim ond y gwaith oedd yn cyfri. A'r wythfed tro wedyn, fi yn gadael i'r plentyn farw, finnau i ffwrdd yn Ne Affrica a'r plentyn yn trengi, dim ond gwaith oedd yn cyfri i mi, dyna'r gwir yn ei bryd hi,

cyhuddai fi, fe ddychwelai at hyn o hyd ac o hyd, sôn am ei pherthnasau breuddwydiol byth a hefyd, a'i chymdogion mor wahanol, pobl o'm cwmpas a'u priodasau nhw (ar wahân i ambell ysgariad bach hwnt a thraw), a'r cwbl fyddai'n oruchaf ym muchedd ac ym mryd y gŵr triw nawr ym mhob achos oedd y wraig, y wraig, y dragwyddol ddihafal wraig. Breuddwydion i gyd wrth gwrs! Dychmygion gwyllt! Ac eto, i mi, o leiaf ar y pryd, doedd 'na neb na dim arall. Hi oedd unig wir seren fawr fy mywyd. I mi, o leiaf ar y pryd, paradwys gudd oedd ein priodas. Dyna'r syndod. Ond fe'i meddiannwyd hi gan freuddwydion. Ac roedd y breuddwydion mor feddiannol nes eu bod nhw'n ceisio meddiannu'r ddaear dan 'y nhraed i.'

'Gwn i,' meddai Len.

'Roedd yn fath o salwch. Eto, dyna o hyd oedd pen-llad 'y mherfedd i. Ac roedd hi'n iawn. Allwn i byth bythoedd ddychmygu amgenach gwynfyd. Amdani hi y synfyfyriwn yn y dydd, gwaith neu beidio; a chan feddwl amdani hi yr arhoswn yn effro yn y nos. Roedd hi mor enbyd o hardd.'

'Gwn i.'

'Roedd hi'n gyfan gwbl hyfryd. A dyma hyn — yr achwyniad dwi'n feddwl, y tanseiliad, y ceintach. A'r cymharu diddiwedd. Teimlwn i'n annigonol.'

'A! Cymharu, galla-i'i ddychmygu.'

'Teimlwn 'mod i wedi bod yn 'nhwylllo'n hun. Roedd y mwgwd yma o hapusrwydd wedi'i syflyd, ac fe welwn yr hyn oedd y tu ôl.'

'Condemniad. Ganddi hi.'

'Ie, ac ymlaen, ymlaen yr âi hi. Dannod. Edliw. Dychmygu. Y cymharu diymatal dadrithiedig. Ac adeg y plentyn fe deimlwn i'n llofrudd.'

'Does dim mwy o niwed y gallwch ei wneud i briodas, ddwedwn i, na chymharu'r anghymharol. Breuddwyd a realiti.'

'Y dannod, yr achwyn, yr annigonolrwydd. Ei breuddwydion am sut y dylwn i fod. Erbyn hyn dwi'n gallu dirnad efallai. Dylwn i fod wedi maddau. Roedd colli'r plentyn fel yna wedi'i bwrw hi oddi ar ei hechel. Ond ar y pryd, gwacter sydyn 'y mhriodas oedd yr ergyd. Y celwydd. Y ffaith fod 'y ngwraig mor anfodlon arna'-i. Y ffaith ei bod hi'n llygadu ac yn breuddwydio priodasau eraill, yn gweld parau a gyfrifwn i'n llipa eu cariad o'u cymharu â ni, yn rhagori'n aruthr. Rown innau'n cynnig 'y nhipyn cariad, 'y nghariad i gyd, fel eigion, ac roedd hi'n ei ddirmygu. Ac edliw 'ngwaith byth a hefyd. Y gwaith, gwaith,

gwaith, defnyddio 'ngwaith i fagu cenfigen.'

'Oedd hynny'n wir?'

'Oedd efallai. Buon ni'n rhy brysur, mae hynny'n siŵr. Dwi'n gweld hynny'n awr. Ond roedd yn ffansïon hefyd. A sôn am gael gwyliau yng Nghymru.'

'Siom gawsoch chi, felly.'

'Siom! Gallwch fentro. Clwyf. Dadrithiad. Darganfod gwacter. Yn lle cneifio 'nheimpladau roedd hi'n eu blingo nhw i'r bôn. Breuddwydio ddygodd fy serch oddi arna-i maes o law. Fi; roeddwn i'n drydydd mewn triongl pigog: hi, ei breuddwyd, a fi; yn rhy boblog. Neu hi, ei breuddwyd, a'r plentyn. Fe ddaeth y freuddwyd rhyngon-ni yn y gwely, a sgrechain "digon".'

'Digon? Roedd hi am fyw bywyd o freuddwyd?'

'Bywyd arall. Perffaith. Ailgylchu bywyd oesoedd eraill. Oedd. Digon.'

'A chithau hefyd wedi ymglymu wrth ddelfryd realistig mae'n rhaid.'

'Cyn gynted ag y bydd siom fel hyn yn magu stêm,' meddai Thomas Pearse, 'mae'n rhedeg dan ei nerth ei hun. Yna, daeth hi i gwllwm. Gwadodd hi'r bywyd gyda'n gilydd. Roedd hi'n honni nad oedden ni'n ddilys, er gwaetha'r dystysgrif, nad oedd ein priodas ni ddim wedi digwydd. Doedd dim wedi digwydd rhyngon ni. Dim babi. Dim cydweithio. Breuddwyd sâl fu ein cyd-fyw.'

Dywedodd y frawddeg olaf fel pe bai'n cloi'i arian mewn cist. 'Dyna ni!' Roedd ef wedi dweud gormod. Cododd ar ei draed; ac eto, ni allai Len lai na theimlo fod y gŵr yma'n peidio â sillafu'r cwbl. Roedd yna fwy o sylwedd yn y gwirionedd na hyn; a phenderfynodd bwylo cyn ffurfio barn ry chwim am Maxine.

'Dyna ni,' meddai Thomas Pearse drachefn, gyda mwy byth o glo. 'Mae hi wedi bod yn garthiol iawn siarad â chi. Pwy ych chi?'

'John,' meddai Len. '*John Jones.*'

Teimlai Len yn anesmwyth ei fod ef ei hun mor fudr fan hyn wedi clywed un ochr fel petai wrth gynnal ymchwiliad, a hynny heb ymgynghori â hi a'i hochr hi. Dyma ef lle y bu ef, fel cynllwyniwr, wrthi: yn gweithredu tan din, yn fradwr, O! Arglwydd, yn ymddwyn yn llai na'i briodolrwydd. Y tu ôl i'w chefn. 'Bûm ar fai, Arglwydd.' Dechreuasai gyda chwilfrydedd y carwr brwd, a throes hwnnw wedyn yn garwr amheun, ac yna... O Dduw! Sut y gallai feiddio chwilota fel hyn yn ddjarwybod iddi? Pa mor annheilwng y gallai fod? Pa mor anonest? Pwy oedd ef ei hun? Pwy oedd Maxine?

Ond o leiaf, yr oedd wedi darganfod rhywbeth. Canfu'r bygythiad yn y berthynas gyda Maxine. Y breuddwydio-niweidio.

Bu Len yn gwrando rywsut ar fath o epillog. Fe'i clywai'i hun yn cau'i feddyliau ar Maxine. Ffoi o Awstralia fuasai orau. Dechreusai ofni canlyniadau breuddwydio Maxine. Ond clyw-wyd hefyd ddechrau, y gwreiddyn newydd ynddo ef ei hun, clustfeinio ar ei wendidau'i hun a wnâi, rhyw dramgwydd newydd a fygythiai ef, hyd yn oed yn awr wrth chwilio'r gwir am y wraig hon. Daethai i'w adnabod ei hun.

Roedd rhywbeth rhyfedd wedi digwydd i Len ar ôl cyrraedd Awstralia, nid yn unig yn ei berthynas â phobl, ond yn awr yn ei safonau'n gyffredinol. Yr oedd wedi peidio â bod yn Len Llwyd. Nid oedd wedi gallu'i ddal ei hun na'i syberwyd wrth ei gilydd. Roedd wedi bradychu ymddiriedaeth ffrind. Roedd yn byw mewn dimensiwn arall. John Jones.

Ble'r oedd yr ysbrydol ynddo? Unman. Ni fyfyrasai odid ddim am Dduw ers talwm byd, nid fel y gwnâi o'r blaen. Anialwch ysbrydol fu'r wlad enfawr hon erioed. A dyma ef wedi cyrraedd, gyda'i lygredd arbennig ei hun, gyda'i gyfraniad arbennig o lygredd, ac aethai'n wacach eisoes heb weiddi am help. Ni weddïasai o'r galon ar ei Waredwr yr un tro er pan gyrraeddodd. Ddim un tro, ddim o'r galon. Gartref yn Llanbiblig byddai'n cael ei yrru ar ei liniau sawl gwaith bob dydd. Ond fan hyn, ymhell o'i gynefin, yn Awstralia teimlai fod tonnau bydol y materol yn rholio drosto. Fe'i gwacawyd. Pellhau a wnâi rhag ymarferion ysbrydol oherwydd bod ei gydwybod wedi crino'n grach a'i fywyd mewnol yn grimp. Ai cwmni Mair oedd hyn? Caledu fu ei hanes, gwywo, pellhau. Aethai'n gorff. Hiraethai am adfer y berthynas agos, a'r gyfathrach felys fywiol a adwaenai gynt, am yr amgylchfyd lle y bu bywyd ysbrydol mor naturiol. Hiraethai hyd yn oed am dlodion busneslyd Llanbiblig. Dyna ganlyniad cwrdd â John Jones, y Cymro nodweddiadol.

Rywfodd roedd rhai digwyddiadau yng Nghymru wedi'i ddilyn ef i Awstralia. Dilynwyd ef hyd yma gan gysgod o'r annifyrrwch geuddrychol gartref, gan ei gorff ei hun. Dihunai bwgan ei euogrwydd ef o hyd. Efallai'n wir ei fod yn rhoi gormod o fai ar Awstralia, ac yntau'i hun wedi dod yno â'r firws drosto'i hun. Aethai'n gorff ysglyfaethus.

Ac yr oedd wedi dechrau ymgymysgu gyda'r fenyw gymhleth amlhaenol hon. Roedd Maxine wedi'i ddrysu. A'i dynnu i mewn i'w helbul. A'i ailrithio'n John Jones.

Ddwy flynedd yn union yn ôl, yn ôl yng Nghymru, bu'r ddelwedd ohono'i hun yn sefydlog ddigon: gweinidog gwledig disylw taclus, ond ysbrydol. Fe geisiai gredu dwys gan y pen ynghyd â phrofiad cyson y galon, ynghyd â gwasanaeth ymarferol yr ewyllys i'w bobl.

Bu'n trigo yn ei febyd fel pawb arall mewn amgylchfyd ystrydebol o sgeptig, mae'n wir. Ac yna, cafodd dro: bu'n ceisio annibyniaeth grediniol yn nannedd yr adfeilio simplistig. Aeth e'n groes i'w oes. Doedd e erioed wedi chwenychu amlygrwydd iddo'i hun y tu allan i'w ardal. Ond fe'i gweddnewidiwyd yn fewnol. A, digwyddodd mwy. Troesai'n gymeriad mewn breuddwyd. Doedd e ddim wedi disgwyl effeithiau llachar trawiadol yn ei fuchedd. Dim ond llonydd i fyw'n addolgar mewn mynachlog neilltuedig o gynulleidfa, a gwneud ei waith yn ffyddlon. Ond drylliwyd y cwbl oll. Fe'i chwalwyd rywfodd yng Nghymru gan holl gelwydd ei fywyd ei hun a chlebr eraill. Oherwydd un tro annifyr unigol bellach yn ei fuchedd gynt, mewn sefyllfa fudr annisgwyl ac annealladwy, cafodd amlygrwydd cenedlaethol a'i newidiodd. Ac roedd y celwydd hwnnw wedi dod yn rhan ohono. Wedyn, er ei wendidau cyn dod i Awstralia, nid adwaenai mono'i hun. Ni allai adnabod o gwbl y John Jones dieithr a drylliedig hwn a wisgai'i ddillad ef, a chwiliai berfeddion pobl eraill, ac a lechai mewn corneli yn yr hwyrnos i geisio llamu ar y gwirionedd ynghylch Maxine. Ie. Bradychu Maxine. Newid dyn fu newid gwlad iddo ef. Roedd ef wedi cefnu arno'i hun. Roedd hi'n heintus, a mynnai'i freuddwydio ef.

Pwy felly oedd hyn o gysgod yn awr? Hwn? Y breuddwydiwr! Pa fwgan oedd hwn?

Nis hoffai. Ni allai'i hoffi. John Jones 'wir! Ac eto, rhaid bod yna weddillion o Len Llwyd ar ôl rywle. Fe'i hamheuai oherwydd ei hunanoldeb anghynefin ac oherwydd caledrwydd ei barodrwydd i gefnu ar ei ffrindiau a'i bobl, ac oherwydd nad oedd erioed wedi edifarhau digon. Dieithryn tywyll iddo oedd y bod diweddar hwn, heb ymostwng. Ysbryd arall bron, ond ysbryd a oedd wedi'i ddilyn hyd yma. Hiraethai am y symlder gynt.

'Ffei di, John Jones y cythraul! Gwylia dy draed bach trwsogl teiliog, machgen glân i, ar boen syrthio'n glep ar dy drwyn.'

#### 4

'Oedd e gystal pishyn â'i lun?' holai Mair wrth i'r ddwy wraig sipian coffi ym mwyty Doyle gyferbyn â Bae Watson ger yr harbwr. Holi'n jocôs a wnâi hi, ond roedd yna grafu cynnes o'r tu mewn.

'Gwahanol,' meddai Maxine.

Eisteddai'r ddwy yn hamddenol wrth ffenest uwchben priffordd hylifol y ddinas. Yr afon yn unig oedd biau'r ffenest hon a bron pob ffenest arall. Allan o'r afon y tyfasai'r ddinas ei hun oll. Hon hefyd a roesai i safle'r ddinas ei hynafiaeth. Yn lle'r Oesoedd Canol

a'r Diwygiad Protestannaidd, ac oherwydd diffyg presenoldeb yr eglwys ddilys hynafol a feddiannai ganol pob tref a phentref gartref yng Nghymru ac a ddatganai'r canrifoedd gwâr wrth fyd a bedydd, ac oherwydd nad oedd yna'r un tŷ barfog o garegog nac o do-gwelltog cennog chwaith yn myfyrio mewn cornel yma, ac oherwydd bod yna hiraeth angerddol am ymdeimlo â'i diwylliant colledig yn llifeirio drwyddi, trefnodd Awstralia gael afon. Hon iddi hi oedd yr oesoedd. Ac yn hyn o beth roedd Awstralia wedi dangos ei dychymyg.

Bid siŵr roedd yna efelychiadau amserol fel conffeti hyd lawr y dref. Eglwys Gadeiriol Gatholig Sant Mair draw i'r gogledd-ddwyrain o Barc Hyde yn un, ar lun Cadeirlan Lincoln ac yn ôl pob tebyg yr adeilad mwyaf o'i fath yn ein hymerodraeth. Gallai hon dynnu sylw am y tro, fel y gallai Eglwys Sant Iago neu Faracs Parc Hyde, Neuadd y Ddinas neu'r Swyddfa Bost Gyffredinol aruchel, neu ynteu Adeilad y Frenhines Victoria acw gyda'i ddomau amryfal a'i bafiliynau-to. Ond efelychiad oedd hwnnw. Nid efelychiad o fath yn y byd oedd afon Parramatta. Câi hon o leiaf gario'r cynoesoedd dilys (gyda pheth sbwriel) a hawlio bod yn orffennol di-dwyll, hyd yn oed yng nghyfoesedd llethol a chrafwyr-wybren strydoedd Sydney. Anwylid yr afon fodern hon o'r herwydd gan y trigolion oll. Fe'i haddolid gan rai na wyddent ystyr addoliad. Gweithredai fel braich i'w cynnal. Ond yr oedd pawb yn ei dro yn ei hanwesu. Defnyddid hi yn lle ffordd i gyrchu i'r gwaith y bore: hi a lapiai'r ddinas ac a'i clymai yn ei gwythien braf y prynhawn. Gwelid yn nrych ei dyfroedd weithiau adlewyrchiad ambell wyneb brodorol. Gwyddai Mair yn ôl y modd gorgysurus y dywedai Maxine y gair 'gwahanol' mai chwarae â hi ei hun yr oedd hi.

Draw, ac yn nhybiaeth estroniaid yr hemisffêr ogleddol yn weledig i bob cwr o Awstralia (er bod yr adeilad penodol hwnnw y tu hwnt i gyrraedd ffenest Mair a Maxine), roedd teulu bach crwbanod to ar-ben-ei-gilydd y tŷ opera. Newydd blymio yr oeddent oddi ar gwmwl ffantasiol er mwyn dowcio i mewn i benrhyn go goncrit. Disneyfreuddwyd. Amcanent at roi 'cymeriad' i'r ddinas allan o ddim byd. Ymgais oedd y creaduriaid clymedig hyn i beri i'r ddinas fod yn unigolyddol greadigol wrth weryru tua'r llawr. Ymhonni a wnaent eu bod yn cynrychioli rhyw fath o syberwyd canol-ael cudd. Cynrychiolent y broc anghartrefol o gelfyddydol a olchwyd o Ewrob dros ymyl y lan hon, a glynu drwy groen ei ddannedd wrth y tir coll. Chwenychent fod yn lloches ddiogelwch rhag ymosodiadau gan y fasnach fythol-bresennol a'r mabolgampau syrffedus a'r diwylliant-gyda-gwyll.

Nofiai'r ymddiddanion pleth yn awr blith draphlith drwy awyr goffiog y bwyty ...



‘Mi glywi di rai’n sôn am wario ceiniog. Dw innau newydd wario mil o bunnoedd ...’

‘Hoffi coffi? Na. Te te?’

Tisiai hen wŷr gwynfarfog wrth y ford nesaf tuag atynt yn ddi-drugaredd. Ar ôl stopio, a sylwi ar bawb yn sylwi, ‘Hen arferiad bach dihafal’, meddai ... Ond cydiai rhywun wrth y ford nesaf yn ei giw, ac adleisiai cadwyn o disian drwy’r bwyty, gyda rhai baswyr, ond y rhan fwyaf yn sopranos.

Daliai Maxine i bendroni uwchben ymholiad Mair, ‘Ydy e’n rhagori ar y disgwyliadau?’

‘Yn well o beth,’ meddai hi o’r diwedd uwch y sŵn a lanwai ddiffyg mwg yr ystafell. Stwffiai’r tisian drwy sianeli clustiau’r ddwy fenyw, sianeli geiriol a oedd ar ffurf Geltaidd, mae’n siŵr, tan blethu y naill dros ben y llall, wrth iddynt roi’u pennau ynghyd.

‘Fymryn yn fwy urddasol?’ mentrai Mair.

‘Ydy: mae e siŵr o fod flwyddyn neu ddwy yn fwy urddasol, druan,’ gwenai Maxine.

‘On’ d ydyn ni i gyd?’

‘Ond pa ots am flwyddyn neu ddwy? Wedi bod ’lawr ’cw, yn y seler ’na, yn eplesu draw yng Nghymru, mae yna ragorach blas ar ei win,’ awgrymai Maxine, a llyfai ei gwefusau gwlyb fel hufen.

‘O leiaf, dest ti o hyd iddi rywle.’

‘I beth? I bwy?’

‘Dy dipyn breuddwyd. O’r diwedd. Fe gest ti hi. Tybed ai tewi sy i fod nawr? Ar ôl dogn maith o ymarfer. Efô hefyd, ym mhen ulw dy daith, — y cynnwys ... Ddest ti i *ben* ynddo fe tybed? Dy gampwaith breuddwydiol. Est ti o’r drych i’r realiti.’

Edrychai Maxine yn ôl arni’n chwilfrydig, gan amau, am y tro cyntaf o ddifri, fod Mair, Mair o bawb, wedi’i thrwblu gan beth eiddgedd. ‘Rhyw fath o ben.’

‘Debyg iawn. Siwrnai fer sy ar ôl bellach.’

‘Efallai. Os mai hwn oedd y gwir ben i’r daith. Mae pen y daith honno a finnu eisoes wedi bod yn torri peth Cymraeg â’n gilydd. Ynghylch y corneli chwithig hefyd. Amdanat ti er enghraifft. Ac mae e’n gallu’u goddef nhw ... Dyna sy’n braf.’

‘Nhw? ’Y ngoddef i? Neu ti, neu ni? Y breuddwydion ti’n feddwl neu beth?’

‘Beth arall sy?’

‘Bywyd ei hun efallai.’

‘Bwgan brain yw hwnnw ... Ond beth amdanat ti, Mair? Oni ddechreuodd y galon sy gen ti ail-guro ar ôl iti’i weld e ’to? Ryw fymryn lleiaf?’

‘Ddim dros dy grogi! A pha galon?’

‘Doedd dim un gwrid bach swil tu ôl i’r mwgwd i gyd? Dim amrannau’n ymestyn ryw gentimedr o’r newydd?’

‘Dim,’ ebychai hi gyda gormod o bendantrwydd.

‘ ... Wel, dwi’n falch, Mair, o leiaf dipyn bach yn falch. Felly rown i wedi’i ragweld. Ond rown i’n becsan, rown i’n ansicr sut y bysai pethau. Roedd rhaid ifi unioni’r sefyllfa cyn ... ’

‘Dŷn ni’n esblygu ti’n gwybod,’ haerai Mair, ‘ni’r deinosawriaid.’

‘Choeliwn i byth.’

‘Dŷn ni’n greaduriaid pur wahanol erbyn hyn i’r dyddiau gynt pan oedden ni’n benbyliaid bach addawol, yn ysu am esblygu. Edrycha ar ’y ngwallt-i.’

‘Mae biliwn o flynyddoedd yn gwneud peth gwahaniaeth i ni’n dwy efallai,’ meddai Maxine. ‘Ond beth am ...?’

‘Siarad drosot dy hunan. Biliwn! *Mil* fach ddwedwn i, ddim diwrnod yn fwy.’

‘O’r gorau, mil a hanner, y cyw bach.’

‘Ac rwyt ti’n meddwl y gwnei di wraig a hanner i hanner gweinidog? Gwraig drendi dwt yn isfyd Llanbiblig?’

‘Dim amheuaeth.’

‘A’r diwylliant nos? Yn dy ganol-oed diweddar.’

‘Y nghanol-oed canol ... Wel! Cawn weld. Fe gyrhaeddais i ar yr amser iawn o leiaf.’

‘Do, clywais i fod ’na ryw helynt.’

‘Nid hynny!’

‘Beth oedd y manylion erchyll?’

‘Na, na: nid hynny. Ond ei fam, roedd hi newydd ymadael â ni.’

Doedd hyn ddim yn sioc i Mair. ‘Do?... Mi gafwyd un frawddeg gryptig gan Len. Wedi mynd! Yr hen wrach o’r Oesoedd Tywyll! Honno! Tybed! Ollyngwyd bom niwclear arni? Yr unig ateb ddwedwn i. Sut llwyddodd hi i gyflawni’r fath orchest? Oedd ’na ddilyw?’ holai Mair. Ac yna, yn llai hwyliog, ‘Sut y cymerodd Len y fath ...?’

‘Ar chwâl yn lân; yn chwilio ym mhobman am rywbeth i’w wneud.’

‘O ’nghof i amdano, doedd e byth yn brin o weithgareddau.’

Ei weithgarwch yn wir oedd y peth cyntaf a ddenasai Mair ato. Iddi hi’i hun, gweithredu oedd bywyd. Nid breuddwydio. Ac yn sicr nid gweddïo. Gweithredu oedd holl ystyr ystyr. Os oedd ’na gysgod o orymdaith brotest ar gerdded o fewn ugain milltir yn erbyn sefydlu apartheid ar y lleuad, yr oedd hi yno lond yr hewl. Pe ceisid hel ar gyfer gwaith dŵr Oxfam yng Nghantre’r Gwaelod neu ymchwil cancr ymhlith crancod cwrel y riff gogleddol, roedd hi yno, hogiau, ymhell ar y blaen i bawb arall. Chwythai moesoldeb drosti gan ymffurfio’n faneri bach elusennol ar ei het. Mynychai’n chwyslyd yr holl weithgarwch cymdeithasol yn gysylltiedig â’r Gymraeg o fewn cyrraedd afresymol i Sydney. Yn fyr, fe’i cyfiawnhâi’i hun fel un o Geid-enethod Brenhinol Urdd Gobaith Awstralia drwy ymroddiad amlwg. A’r union ogwydd hwnnw gynt, diolch amdani, dyna a’i hatynasai at Len yn yr amser ymarferol a fu.

‘Na: dal yn brysur roedd e druan, hyd yn oed ar ôl marwolaeth ei fam,’ meddai Maxine. ‘Ond efallai fod yr amharchusrwydd arall yna hefyd rwyt ti’n cyfeirio ato ...’

‘A! hynny! Wel, yn wir, roedd *hynny* yn beth od.’

Cafwyd ysbaid eiliadog a distawrwydd gwib, fel pe bai’n egwyl er cof am yr hen ryfel o wraig.

‘Rhyw wallgofrwydd munud-awr oedd hi, medd rhai, yng nghanol ei weithrediadau,’ meddai Maxine. ‘Neu gelwydd rhonc yn ôl pob tebyg. Dw innau, hyd yn oed, a phawb arall yn gallu bod yn wallgof weithiau.’

‘Wnaeth-e ffŵl croyw crwn ohono’i hun ar y pryd, mae’n debyg?’

‘Llond y cyhuddiad o anwiredd, meddai fe. Ac dwi’n ei gredu-fe, o nabod pobl. Ond roedd e’n barod i ddod ata-i ar draws y celwydd i gyd. Dyna’r wefr.’

‘Am gynhaliaeth seicolegol wrth gwrs.’

‘Am normalrwydd seicolegol yn ddiau.’

‘Normalrwydd! Ti!’

‘Synnet ti, ar ambell funud wan.’

‘Chwythith hynny heibio. Yr helbul dwi’n feddwl, nid y normalrwydd anweledig, diolch i’r drefn.’

‘Na wnaiff, na,’ meddai Maxine yn gytbwys. ‘Dyw pobol byth yn anghofio pethau fel ’na. Caredigrwydd maen nhw’n ei anghofio, — dim traferth — a chymwynas, a chariad. Ond gwna di ryw ddwli bach newyddiadurol ...neu beidio...’

‘Mi wnelet ti wraig ysgubol iddo.’

‘Mi dyfen ni, pe caen ni gyfle. Mae yna ysbryd tyfu ynon-ni eisoes. Dwi’n gweld y peth o bell.’

‘Mae llygaid barcud ’da ti.’

‘Heb ormod o synnwyr cyffredin mae llygaid yn eithaf hwylus.’

‘Ydyn, yn sicr ... A lle byddech chi’n preswyllo wedyn?’ Syfrdanwyd Maxine gan y cwestiwn. Chwarddai. Roedd y cwestiwn yn ceisio troi breuddwyd yn realedd yn gynamserol. Doedd hyd yn oed ei ffansiwn hi ddim wedi carlamu mor gyflym â hynny.

Cafwyd ysbaid eiliadog arall.

Roedd yr ystafell goffi hon uwchben yr afon dan sang ac yn ddigon iddi hi am y tro. Fe’i llanwyd hyd y fŷl gan eiriau ... ‘hyd arswydus y ffrog ... a’r fargen yn arwerthiant diwedd y tymor ...’ Drifftiai talpau o ymddiddan fel llongddrylliadau persawrus ar draws eu clustiau ... ‘yn dod tu ôl i fi yn y swyddfa ... heb roi cyfle i fi f’amddiffyn fy hun ...’ Talpau a thuswau a dafnau o ymddiddan myngus yn ymdroelli yn yr awyr gynnes, heb fod neb oll yn sôn am argyfwng Dwyrain Ewrob na diffygiant hanesyddol y gwrthchwyldro’n erbyn comiwnyddiaeth. Nofiai’r cwestiwn yn ôl at Maxine drachefn. ‘Lle byddech chi’n byw te?’ Doedd neb yno’n ymddiddori yn y miliynau newynog yn Affrica, neb yn y daeargrynfeydd na’r dylifoedd na’r llosgfynyddoedd ... ‘gyda’i nith, cofia, does neb yn saff y dyddiau hyn ... merch o Sweden oedd yn helpu yn y tŷ yn dawnsio’n hanner noeth ar y ford ac yn chwifio’i breichiau yn yr awyr, ac yn cicio’r soseri.’

Crwydrai meddwl Maxine ychydig oddi ar y cwestiwn. Roedd gormod o sŵn yn yr awyr iddi ganolbwyntio.

‘Ble byddai dy gartre?’ gofynnai Mair eto, heb freuddwyd ar ei chyfyl. ‘Strailia?’

‘Beth? ... Ble?... O! byw ... Ni? ble bydden ni’n *trigo* dwi’n feddwl ... ofynnais i ddim,’ atebai Maxine gan ddeffro o’r newydd. Roedd yr holl drafferth o breswylfa fel pe bai wedi mynd ychydig y tu hwnt i gwestiwn. ‘Ond yng Nghymru mae’n sicr. Dyna mae e’n ei gymryd yn ganiataol. Trigo yng Nghymru, a byw yn y nen.’

‘Mae lot o bobl yn gallu cymryd Cymru’n ganiataol.’

‘Ydyn siŵr. A *thrigo*. Ond does neb oll yn gallu byw ’na.’

‘I wlad fach, arwyddion cyntaf peidio â bod yw cael ei chymryd yn ganiataol.’

‘Mae’n rhyfedd dy fod di’n dweud hynny. Ar yr awyren wrth ddod drosodd fe ddwedodd Len rywbeth go debyg. Yng nghefn y sedd o’n blaen roedd yna daflen yn

hysbysebu Awstralia, ac un arall yn hysbysebu Prydain. Trodd ar ei union, gyda'r un ar Brydain, at y ddwy linell am Gymru, ac meddai fe: Ar werth: gwlad werdd anwel, un neuadd ddawnsio i ddal tair miliwn, os byddwch yn talu â'r cyffuriau priodol, ac ystafell ginio draddodiadol ddigon i fwydo Lloegr. Pawb yn darllen Mills a Boon mewn cyfieithiad. Pris am y cwbl: un faged o lwfrdra. Beth amdani?'

'Y pregethwr oedd yn paldaruo. Ei feddwl ar daith hwyrach.'

'Y dyn blinedig neu flin ddwedwn i.'

'Wyt ti'n credu y daw-e ma's i Awstralia i fyw'n barhaol felly, rywdro?'

'Pam lai?'

'Roedd e'n arfer dweud pethau cwirclwyd fel yna pan oedd e'n *ifanc*.'

'Ust!'

'Beth?'

'Y gair 'ifanc' yna.'

'Wel, does yr un ohonon ni mewn clytiau.'

'Hy! Ddylet ti weld fy lein ddillad i ben bore.'

'A'r hen ieuenctid yna sy'n galw arnat ti nawr, Maxine, i lawn anthem priodas, — faint mae hwnnw am bara?' chwarddai Mair.

'Pa ots? Mae ar gael yn awr.'

'Yn awr?'

'*Gweithredu* sy i fod nawr os yw'n bosib. *Gwneud*.' Dyna benderfyniad Maxine. A byw. Dwyt ti ddim yn gwybod am bethau felly. Na fi. Pam y dylwn i fod yn utgorn pan alla-i gyfansoddi cerddoriaeth?'

Sipiai Maxine y coffi'n bwylllog wrth siarad mor weithredol tost yn yr ystafell gynnes, a'i gwrid yn bwrstio'i bochau. O bosib yn wir fod gormod o olwg chwythu utgorn arni ers tro. Ond roedd yn fuddugoliaethus o'r diwedd, buddugoliaeth y sawl a gariodd ei hysbail adref wedi'r helpa i'w dangos i'r cywion eraill.

Roedd hi'n orymdeithlyd lawen.

Yna ... gair o'r entychion ... 'Ydy e wedi sôn amdana *i*?' holai Mair yn ddisymwth. Nis atebodd Maxine, dichon oherwydd yr wb-wb. 'Fi ... Ydy e'n ailalw unrhyw beth?' holai Mair yn betrus drachefn. Ond ni chlyw-wyd moni eto. 'Beth ddwedodd e?'

Yn y cefndir yn isel y tu ôl i'r wb-wb cynnes gellid clywed yn ysgafn un o'r cantoresau rhamantaidd yna yn ei harddegau yn garglan ar dâp am yr haul yn methu â

machlud ... goleuni heb fynd i lawr tu ôl i'r llyn ... lladrata cusan hir fel diwedd dydd ... Och! mor freuddwydlawn briodol oedd llawenydd gwallgof.

Ac eto, yr union funud yna, gallasai Maxine ei hun fod yn un o'r tywysogesau perlog yn llys Arthur. Canys y fan yna roedd ei morynion mewn dillad gwynion llaesion yn gweini arni. Pawb at y peth y bo ...

A hi, Maxine, clustfeinio a wnâi ar y clytiau mân o sgwrs a nofiai ar draws yr ystafell. Gallai ... a mawrhydi'i gorffennol coll ... seiniau, aroglau, tirweddau ... gallai hi fod ar orsedd, a'r gweision gewynnog a chyhyrau sgleiniog eu hysgwyddau'n chwyddo o dan olew wrth chwifio gwyntyllod yng Nghaerafon ... lle nad oedd rhaid hedfan dros y cyfandiroedd ddim mwy ... na chael eich clwyfo ... a'r holl wledydd pell yn agos ... yn hela Len.

Nofiai ei hymennydd i ffwrdd ffrit ffrit bellach ar donnau'r twrf yn araf ddididig. A'r Ymerawdwr Len.

Casglai Maxine ei phen at ei gilydd yn araf ddisymwth. Clywai eiriau'r gân ramantaidd sentimental uwchben yr wb-wb oll, a syllu o'i blaen. Dylai hi fod yn drech na hyn.

Nid pobl ifainc mo Len a hi mwyach wedi'r cwbl. Nid cariadon allanol llancaidd mohonynt; ac felly gallai'u nwydau (gymaint ag oeddent) ymgysylltu â llawer o'r siomedigaethau a gawsent heb chwerwi, â llawer o'r geiriau a dorrwyd drostynt heb chwalu. Eto, roedd yna hen danio hamddenol yn ei chalon, rywsut, fel pe bai'r gwair yn y fan yna wedi'i wasgu. Hen wair. Hen wreigen felys ar dân. Hen gyfandir ar losgi'n ulw.

Wedyn, diffygiai'r cwbl chwap, yn araf, i'r llawr y syrthiai fel lludw, heb ffrwydro, heb drychineb, ymdoddaï, diflannai, nid oedd yno, doedd dim bodlonrwydd ar ôl yn unman mewn breuddwyd; rhwng y ffansi fewnol a'r bydysawd cras y tu allan roedd yna ryfel ... Ti yw fy unig hwyrnos ... f'unig fachlud ... a'r blodau'n araf gau'u gwefusau llugoer ... arafa, Haul, arhosa yn anterth antur ... yr Haul hiliog yn garglan o hyd ar uchaf ei gân ...

'Wyt ti eisiau panaid arall, Maxine?' Nid atebai hi, heblaw siglo'i gwallt ychydig yn brudd, ychydig yn llon. 'Gwell inni fynd 'te. Ma's â ni o'r lle enbyd yma i brofi diliau o dawelwch. Yn ôl at y gŵr! On'd yw hi'n swnllyd ar y naw fan hyn?'

Nid atebai Maxine am foment. Roedd hi wedi sylwi. Ac yna, sibrydai, 'Sylwais i ddim.'

Dychwelasant adref, a gorffwys yn syth fel petaent wedi gwneud diwrnod o waith

caled, fel yr oeddent mewn gwirionedd.

Nid oedd Len wedi cyrraedd yn ôl eto.

Syllai Mair ar ei ffrind a oedd fel pe bai wedi cilio nawr am ryw ychydig i mewn i gasin breuddwydiol newydd o'r neilltu. Aeth felly i'r gegin yn ystod hyn o egwyl i hwylio panaid o de iddi'i hun. Pan ddychwelodd o'r gegin â chwpanaid i'w ffrind, yr oedd Maxine yn gorffwys yn ôl yn ei chadair, â'i llygaid ynghau. Agorai hwy'n hamddenol wrth glywed Mair yn ei hôl.

'Breuddwydio?' holai Mair yn dawel garedig.

'Byth!' Breuddwydio'r oedd Maxine ar y pryd mewn gwirionedd ei bod mewn dwinsiwn yng Nghastell Caerafon a bod ugeiniau o gadwyni gwyn amdani, haenen am ben haenen. Ac yno drwy dwll tenau yn y to wele belydryn disylw o oleuni'n disgyn arni a'i holl gadwyni yn toddi fel hufen iâ o'i hamgylch i'r llawr yn y gornel. Glynai'n sentimental wrth y dychymyg hwn, fel y byddai merch fach adeg rhyfel mewn lloches danddaearol yn glynu wrth ddoli glwt, nid oherwydd unrhyw werth a oedd yn y ddoli'i hun ond oherwydd mawr werth y broses o ffansio fel y cyfryw. 'Doedd dim drwg mewn pendroni am yr amhosib,' atebai hi gan wenu'n dangnefeddus, a chan deimlo'r un pryd fod bywyd ychydig yn gymhleth.

'Dwi'n deall.'

'Gwyn dy fyd,' meddai Maxine yn garedig. 'Roedd hi tu hwnt i'm deall i.'

Roedd ei thraed yn goglais o hiraeth am dramwyo. Crafant. Codai'r blew ar ei gwegil i syllu ar y gwledydd pell. Crient am borfeydd alltudiedig ac amddifadgar Cymru. Roedd eu gyddfau wedi'u straenio'n dost gan yr awydd i fod mewn rhywle arall. Math o Iolo Morganwg arall oedd hi a ddyfeisiai'i phresennol a'i gorffennol ei hun, lle nad oedd dim ond y dyfodol yn wir, a greai farddoniaeth a geirfa goll, arferion a chymeriadau nad oeddent wedi bod, ond a ddylai fod wedi bod. Hen grefftau. Gwlad gyflawn gyfredol. Roedd gwlad bell yn cynnig bywyd arall. Ai gwlad ddychmygol fyddai'u hunig ddyfodol hwythau hefyd?

'Byswn i'n dwlu cael hanner breuddwyd ryw noson dawel, debyg i ti,' cyfaddefai Mair. 'Ac nid rhyw dwll din o freuddwyd a ddylai wybod yn well, fel dwi'n cael mor aml — os ca-i fod yn farddonol.'

Gwenai Maxine yn gyfrinachol uwchraddol. Gwyddai mai diogelwech anesboniadwy gwrth-Ffreudaidd oedd gwir gyfrinach breuddwydio proffesiynol. Yn dawel bach, roedd

hi'n falch o'i breuddwydion uchel-eu-cloch. Yn rhy falch, yn ddiau.

Ped eid ati rywbyrd i holi a stilio beth oedd ei hunion reswm dros hercyd Len benbwygilydd i Awstralia mewn breuddwyd, diamau y ddi'r ateb â chynffon yn ei afl. Ni wyddai Maxine yn hollol ei hun pam. Roedd a wnelo'n ddiau â pherthynas realiti a breuddwyd; yr agos a'r pell. Rywfodd, yn gél o'r golwg, dymunai hi ei weld ef yn grwn yng nghyd-destun garwder amrwd Awstralia flewog yn ogystal ag ym mreuddwyd ddieithr Cymru. Y realiti a'r gobaith ynghlwm glep.

Roedd yr esboniad deuol yn gwmpasog ond yn ei chwmpasu. Dwy wedd a ganfyddai hi mewn gŵr delfrydol bob amser. Ar y naill law, angor, craig, y cyd-adeiladwr cartref, yr un dibynnol a ddarparai hafan a hufen, y tad-wr bach yn potsian yn yr ardd ac yn newid y bylbiau trydan, *agape* a *philia*, y gefeilliaid rhyfeddol, sydd ar gael gyda'i gilydd tra bo'r haul ar gael, — ac wedyn. Ar y llaw arall, *eros* unig blewog, yr un sy'n gwallgofi'n anhygoel amdani, sy'n taflu ei synhwyrâu ati, wedi ffoli ar losgi'r entychion ac ar ddathlu yn y seleri unnos, yn gnawd o'i chnawd hi, a'i hanwylyd hyfryd am ei hanhwylder hi ar laswellt gwllithog y bore bach.

Roedd hyn o gyfuniad ym mryd Maxine yn bur debyg efallai i garu cenedl isradd yn y dychymyg. Ceisid gwreiddiau gan beth felly, wrth gwrs, gwreiddiau ystyrion. Dymunid cymdeithas gadarn gan ei llwyth. Chwenychid cyd-anadlu'r un problemau a dyheadau a dyletswyddau â phawb o bobl effro'i bro. Ond yr un pryd yr oedd y wlad yno'n anghenus. Roedd ar gael hefyd i ysbrydoli angerdd. Roedd hi'n lliwgar ddeniadol er ei gwendid. Gallai Maxine roi'i gwaed drosti. Llosgai ei rhamant hi'n wyllt yn ei hymysgaroedd, yn fryniau, yn lannau afon, ambell dref. Gwlad gyfan wedi dod yn y flwyddyn 1471 yn ei ches i Awstralia. Casglai hi'r ddwy wedd yn awr i'w mynwes wrth feddwl yn ddwys am iddynt fodoli. Roedd hi wedi cynhesu bellach, ac yn barod i'r gwely.

5

Wedi i Len ddychwelyd i dŷ Mair roedd y ddwy wraig eisoes wedi hen gyrraedd, llawn cyffro a hanesion oeddent am bopeth a welsant a phwy oedd ym Mwyty Doyle a'r fath olygfa oedd ar afon Parramatta a'r gwisgoedd newydd a gyraeddasai'r siopau ac am archfarchnad ddienaid a agorasai wythnos ynghynt ar bwys y maes parcio yr oeddent yn arfer ei ddefnyddio, parablent yn braf fenywaidd.



Ar y lawnt y tu ôl i'r tŷ yr eisteddent. Yr oeddent ill dwy bellach yn sipian sudd lemon ac iâ gan fwynhau moethau synhwyrus y byd surfelys hwn. O'u hamgylch gwrandawai'r cloddiau heb syndod. Sibrydai'r glöynnod-byw weddïau ar yr awel, esgus bod yn angylion. Gwâr o neilltuedig oedd hi fan yma bob amser hyd y gorwel, heddiw am byth. Gyferbyn â Len.

'Welsoch chi Amgueddfa'r Pwerdy te?' holai Maxine.

'Mae'n rhaid i *wlad* ei hun fod yn amgueddfa erbyn hyn cyn y bydda-i'n mwynhau'r amgueddfeydd llythrennol sy ynddi,' meddai Len.

'Fuoch chi ddim yn yr Amgueddfa?'

'Arolygu daearyddiaeth y ddinas, dyna wnes i yn y diwedd. Ceisio ymgynefino ag awyrgylch y creiriau byw. Chwilio'i chelwyddau hi. Chwilio am yr amgueddfa yn y wlad 'wnes i.'

'Y fath ddatguddiad iach i bwt o Gymro yn cyrraedd am y tro cyntaf!' sibrydai Maxine yn berlewygus, a theimlai Len po fwyaf y tyfai'i adnabyddiaeth ohoni, mwyaf y'i gwelai yn perlewygu ynghylch popeth.

'Gwell imi esbonio lle na fues i *ddim*. Fues i ddim ar draeth Bondi, na chael cyfle i syllu ar olwythion y brodorion ar wasgar oddi ar y gridyll. Heblaw toddion, briwgig hyd y tywod, cregyn gleision ac un pot paent, cig brasterog, pasteiod wedi'u golchi'n fiolegol, cigogrwydd cnotiog yn rholio tuag at y distyll, yn dafnu ar y traeth, yn troi'n saim dan lygaid gwelw, yn byrlymu'n siew fel tywod mesurydd-berwi-wy rhwng bysedd traed pobl ifainc.'

'Gorau i gyd. Welsoch chi rywun roech chi'n nabod?' holai Maxine ef tan chwerthin ar ei draws.

'Do, do: John Jones. Ond dych chi ddim yn ei nabod e, gobeithio; a down i ddim yn un o'i ffans mwyaf chwaith.' A doedd neb yn ei gredu ef chwaith.

Edrychai Len yn awr drwy lygaid newydd ar Maxine yn ochr Mair. Allai-fe ddim ei chredu hi byth mwyach. Synnwyr cyffredin i gyd oedd Mair. Ond Maxine! Beth oedd hon? Syfrdandod pinc! Naill ai roedd hi'n palu celwyddau'n fwriadus, neu — ac roedd hyn yn ddigon posibl — roedd hi wedi llithro i adeiladu cynifer o ddelweddau newydd o'i heiddo'i hun wrth reddf nes bod ei dychymyg wedi dechrau coelio'r darnau llanw hyn i gyd neu bron i gyd, ac anghofio'r gweddill tost. Ffatri ffansi oedd hi benbwgilydd, dyna i gyd.

Gweld gynnu olynedd Maxine, ail wraig syfrdanol ei chyn-wr, y realiti, dyna i Len yn y bôn a ddechreusai addasu'i syniadau am Maxine ei hun. Realiti rywfodd oedd ei

freuddwyd sefydlog ef am fywyd o ran awydd. Roedd ei hafrealiti hi mor real.

Dyna a gadarnhâi'r hanes a ymffurfiai yn ei feddwl ef bellach. Honno, y bwten ychydig yn afreal, ychydig yn real honno ar bwys y gŵr-na-wr. O weld honno — y fflwff astrus bondigrybwyll — roedd honno wedi newid cyn-wr Maxine, Thomas Pearse, yntau hefyd. Daeth ef yn ddyn hynod sylweddol mwyach. Roedd yn ddyn mwy caredig rywsut. Wedyn, roedd y manylion newydd a glywsai Len wrth sgysio gyda Thomas Pearse, y briwsion atgofion, a'r ffaith mai Tomos oedd nawdd sant amheuwr, nid Charles, roedd y rhain oll yn canu mwy o glychau iddo na'r hanes a gawsai ynghynt gan Maxine. Beth oedd yn bod ar y fenyw?

Ac eto, roedd yn siŵr ei bod hi, Maxine, yn yngan rhyw fath o wir. Ei gwir hi, y gwir emosiynol. Y gwir Cymreig. Gwenai amdani hi yn ei du fewn. Gallai gredu anwiredd hon.

Gan fod tŷ Mair o fewn ffiniau'r ddinas lydan, a thŷ Maxine rai milltiroedd y tu allan, fan yna yn nhŷ Mair yr arosasai'r tri gyda'i gilydd am rai diwrnodau. Ond ymhen pum niwrnod ar ôl cyrraedd yn ôl, cyhoeddodd Maxine yn ddisymwth hy, 'Dwi'n mynd i Melbourne. A'ch gadael. Mae hi wedi dod yn benblwydd ar fodryb Sara. Dyma'r adeg bob blwyddyn dwi'n twtio'r bedd ac yn rhoi blodau arno.' Gadael dau gyda'i gilydd yr oedd hi.

A heb fawr o seremoni hwylodd hi tua'r orsaf gyfagos. Gwyddai'r ddau ei bod yn palu celwydd. Gwridai Maxine yn awr wrth bendroni mewn euogrwydd, a hynny am y tro cyntaf ar ôl cyrraedd yn ôl. Roedd bai arni. Doedd hi ddim wedi trin ei chyfaill yn iawn, On'd oedd yn warthus ei bod wedi defnyddio Mair er mwyn llonyddu'i hansicrwydd ei hun? Ei chyfeilles anwylaf. Ceisiasai ddarganfod ar ôl yr holl flynyddoedd hyn a oedd hi wedi cadw'i serch at Len. A hithau Mair wedi cyrchu yn ddigon pell er mwyn dianc rhagddo ac adeiladu'i hangof. Dyma ddod â Len ati'n awr ar draws hanner cylch y byd. Ei chynllwyn annhymig hi, Maxine, oedd hyn. Ac ar ei ffrind bennaf yr oedd hi wedi chwarae'r tric. Nid Mair, ond hi Maxine, a oedd wedi tynnu'r mwydon allan oddi tan y garreg. Hyhi a gorddasai'r sosban fach. Ac eto, diau'i bod yn ofynnol clirio'r byrddau ... Ond pwy oedd biau'r mwydon yn y sosban? Roedd hi am gael Len i gyd iddi hi ei hun. A thrwy'r cwbl, sut bynnag, doedd hi ddim fel pe bai'n fodfedd yn nes ato.

‘Doedd ganddi ddim modryb Sara, chi’n gwybod,’ sibrydai Mair wrth Len ar ôl iddi gefnu arnynt.

‘Na, mae’n debyg!’

‘Ddim modryb. Ddim pum miliwn o bunnoedd nac o ddoleri.’

‘A thri chwarter. Gwn i.’

‘Ddim ffatri hufen iâ na cheffylau rasio.’

‘Rown i’n amau. Beth sy arni, dwedwch?’

‘Creadigol.’ Gwenodd Mair yn garedig.

‘Dowch o ’na.’

‘Bydda-i’n meddwl ei bod hi’n anghreadigol ddigon ynghylch ei bywyd ei hun. Dyw hi byth yn mynd i unman yn bersonol, er gwaethaf pob ffwdan.’

‘Druan ohoni.’

‘Efallai fod ’na ryw fath o salwch. Math o wneud iawn.’

‘Fe alla-i ddeall hynny.’

‘Cafodd hi un bennod hunangofiannol annifyr. Ac fe liciai gael hanes arall yn ei lle. Ond dyw hi ddim yn gwybod pa fath o wlad sy arni’i hangen.’

‘Ond heddiw. Roedd hi’n anfodlon ar ein cwmni ni heddiw?’

‘Nid dyna pam ’raeth hi y tro hwn.’

‘Roedd yn beth od i’w wneud, on’ d oedd? Ein gadael ni’n ddisyfyd fel ’na.’

‘O! na. Roedd hynny’n fwriadol ddigon. Chwilio am gariad y mae hi. Breuddwydio yw hoff grefft pobun sy’n chwilio am gariad. Ein gadael ni oedd y cymhelliad ganddi-hi ers tro. Ein gadael ni i fod gyda’n gilydd, i siarad. Mae’r cwbl yn fath o chwarae. Rown i’n gweld yr ymadawiad hwnnw’n cyrchu o bell, ers diwrnodau’n wir, er down i ddim yn rhagweld pa hanes esgusodol a gaen ni.’

‘Roedd hi am inni fod ar ein pennau’n hunain. Ond i beth?’ holai Len.

‘Setlo hen gownt. Setlo’i chownt hi ’fallai.’

‘Oes ’na gownt felly?’

‘Wel oes, debyg iawn,’ taerai Mair yn bendant. ‘Rych chi’n gwybod am ein cownt bach ni. Cownt y bont.’

‘Dych chi’n cyfri’r peth hwnnw’n gownt.’

‘Efallai.’

'Oedd hi am ifi ymddiheuro i chi? Oedd hi am i fi gael cyfle i fynegi f'edifeirwch? Mynd i lawr ar 'y mol? Oedd hi am roi sialens inni felly?'

'Oedd, a nac oedd.'

'Mae gen i ymddiheurad te, mae'n wir.'

'Does dim angen hynny, fel ych chi'n gwybod.'

'A-i 'lawr ar 'y ngliniau o leiaf.'

'Y newis i oedd ymadael.'

'Ond fi a'ch gyrrodd chi,' cyfaddefai Len yn betrus. 'Do, ar y bont yn derfynol, dych chi'n cofio? Ond allwn i ddim gadael Mam.'

'Ddim o gwbl. Pa bont?'

'Oni bai am ohirio ac osgoi a thin-droi a pheidio dros y blynyddoedd, fyddai'n carwriaeth acw ddim wedi mynd i'r gwellt.'

'Byddai,' meddai Mair yn brudd.

'Na fyddai,' dadleuai. 'Roedd f'ymlyniad wrth Mam ...'

'Na, na.'

'Roedd f'amharodrwydd i i'w mentro, O! roedd y cwbl ...'

'Fi aeth. Esgus oedd eich mam.'

'Ond fysech chi byth wedi mynd oni bai ...'

Roedd Len, iddi, yn dal yn atyniadol o hyd. Roedd Maxine, iddi, yn hudo cenfigen newydd. Ond roedd Mair ei hun yn benderfynol o ymladd yn erbyn y cyfan. Roedd troad y rhod wedi symud yn rhy bell. 'Byswn. Anghofiwch y bont.' Arfer gorau cof, anghofio.

'Ofn oedd arna-i, chi'n gwybod ... ansicrwydd ... a Mam ... a theimlad llethol o gyfrifoldeb ynghylch y cam di-droi'n ôl ... ac ar y pryd, teimlad fod ein carwriaeth wedi mynd yn gyffredin.'

'Yn llwyd?'

'Wedi colli peth o'r ias gychwynnol ... a Mam o hyd ... a siom yno-i fy hun fel dyn ... a diffyg argyhoeddiad ai fi oedd y person iawn ar eich cyfer ...'

'Dyna geisiais i'i esbonio ar y bont. Nid chi aeth: fi aeth,' mynnai Mair arddel ei bai.

'Chi sy'n paldaruo nawr. Rown innau eisoes wedi dechrau coleddu amheumon, lond gwlad.'

'Efallai 'mod i'n rhoi'r argraff mai oherwydd eich hirymaros chi y ciliais i. Ond nid dyna oedd hi. Fi aeth. Allwn i ddim wynebu bod yn wraig i weinidog. Allwn i ddim

wynebu'r tlodi na'r culni na'r syrffed. Na'r disgwyliadau i *gredu* chwaith, neu ddod i gredu ... A hen wreigen dw i bellach.'

'Chi sy'n gwau dychmygion nawr.'

'Roedd y siaced yn rhy gaeth.'

'Efallai eich bod chi wedi dal i synied am weinidogaeth barchus, hyd yn oed yn ail hanner yr ugeinfed ganrif,' meddai Len yn flinedig. Roedd y blynyddoedd wedi'u dieithrio.

'Na! Allwn i byth,' murmurai Mair. Yr holl fusnes ysbrydol ar i lawr o'n hamgylch. Yr adfeilio enfawr ystrydebol y tu mewn. Aelodau'n prinhaus. Diffyg ymrwymiad difrif. Ers canrif o leiaf a hynny'n rhan o'r gyfundrefn erbyn hyn. Y chwarae bod yn Gristnogion. Rhagdybiau tenau. Doedd gen i ddim digon o iau i wynebu amgylchfyd fel yna.'

'Chi sy'n dyfeisio esgusodion nawr. Peidiwch â hel breuddwydion hyd yn oed er mwyn cyfiawnhau'n gorffennol. Mae Maxine wedi lledu'i phersawr drosoch chithau.'

'Mae Maxine yn ateb purion i lawer o gwestiynau.'

'Alla-i ddim o'ch credu *chi* chwaith,' datganai Len.

'Na finnau fi. Nid Cristion dw i, rych chi'n gwybod hynny. Mae gormod o synnwyr cyffredin gyda fi. Byddwn i'n anghymharus. Rŷn ni'n rhy bell bellach.'

'Synnwyr anghyffredin yw Rhagluniaeth, yn sicr,' meddai Len yn araf fel pe bai ef newydd ddarganfod gwlad.

'Felly, dyna pam 'raeth Maxine y tro hwn i ymweld â'r fodryb annhebygol. Er mwyn i ni'n dau sylweddoli hyn gyda'n gilydd, inni gael dweud hyn. Gwastraff ar amser. Allwn i byth eich deall chi fel gwryw mwyach pe bawn i'n siarad â chi am oes. Wnes i erioed.'

'Mae 'na ryw fath o reswm y tu ôl i'w dychmygion hi i gyd, te.'

'Bob tro ... Mae hi'n eich caru chi, Len. Ac mae hi'n Gristion y tu ôl i'r dwli yna i gyd. Y tu ôl i'r ysgariad yna â rhywun doedd hi erioed wedi'i briodi. Mae hi hefyd yn eich caru'n fwy nag y gwnes i erioed. Mae'i chalon wedi llamu atoch-chi. Yn benderfynol.'

'Alla-i ddim credu hyn.'

'Mae hi'n haeddu cymar.'

'Mae rhai ohonon-ni, yn arbennig yn fy lein i o fusnes, wedi'n geni i fod yn sengl. Felly fi. Yn sengl gyda phawb anghymharus. Mae fel ympryd,' murmurai Len yn stöicaidd. 'A dŷn ni'n haeddu dim.'

'Ympryd! Len bach — yn yr ugeinfed ganrif foldew hon!'

‘Mae gen i theori ynghylch ymryd. Ymryd a gweddi. Math o ddifrifoldeb anfwriadus yw-e. Dyna yw ymryd go iawn. Nid penderfyniad ymenyddol, nid defod. Pan fydd gynnoch chi rywbeth ar eich meddwl, rhywbeth yn eich poeni, eich gwir boeni, ledled croen eich calon, i lawr yn eich bola, yn gwingo ac yn dirdynnu ... ydych chi wedi cael profiad fel ’na?’

‘Lawer tro.’

‘Wel, pan fydd eich perfedd mewn cyflwr o’r fath, yn methu â threulio dim, hwnnw sy’n dweud y drefn. Yn nerfus, rych chi yn y stad naturiol ar gyfer gwaith goruwchnaturiol: gweddi ac ymryd amdani te. Allwch chi ddim bwyta. Ewch chi ddim yn agos at y stwff. Mae ymryd yn dod yn naturiol. Gorfodaeth yw methu â llyncu, nid dewis. Mae’r difrifoldeb corfforol yn adleisio difrifoldeb ysbrydol. Felly fi gyda phriodas.’

‘Dwi’n gweld beth sy gyda chi: fod ymryd yn tarddu’n anochel o wynebu ... gwir faich.’

‘Ydy, o leiaf, pan fydd yn aeddfed. Y galon sy’n ymrydio. Nid seremonïaeth fwriadol yw hi.’

‘A hwyl o’r math yna i chi yw bod yn hen lanc?’ holai Mair. ‘Hwyl yr ymryd anymwybodol? Dyna sut dych chi wedi aros ar y silff?’

‘Rhywbeth felly.’

‘Mae hynny’n esbonio llawer, llawer o silffoedd gwag ddiwedd yr ugeinfed ganrif.’

‘Roedd gen i ... mae gen i ... alwad ta beth. Dwi’n cael cryn anhawster i glywed fawr o ddim arall ambell dro. Dyna pam y methon-ni’n dau.’

‘Ond gwryw ych chi hefyd. Rych chi’n ddyn, does bosib.’

‘Yn ddyn ail-law. Ac felly alla-i ddim priodi.’

‘Mae ’na ryw fath o gydbwysedd hefyd rywle, does bosib.’

‘Prin! Ddim gormod gobeithio.’

‘Len bach, ddim fel hyn y buoch chi. Mae gronyn o reswm ar ôl gyda chi, sbo,’ meddai hi gan wenu, ond gwenu o hiraeth yr oedd hi, ‘i lawr yn y dyfnderoedd.’ Cafwyd peth ysbaid, practis o ysbaid fel peth. ‘*Ac yna...*’ cyhoeddai hi’n araf, ‘*daeth...Maxine.*’

Ac wrth iddi gyhoeddi hynny, am y tro cyntaf er pan laniasai yn Awstralia, teimlai Len ryw fath o gynghanedd eglur rhyngddo a Mair. Nid cynhesrwydd, nid hiraeth, ond cynghanedd gonestrwydd fel y bu ganddyn nhw unwaith cyn gosod troed ar bont. Roedd hynny’n ddigon.

‘Rych chi a fi, Len,’ meddai hi, ‘yn hwylio i fod yn gyfeillion.’

‘Gobeithio’n bod ni.’

‘Dŷn ni’n mynd i ragdybied o hyn ymlaen fod Maxine yn ddidwyll yn ei chalon, fod ei holl fwriad yn ddilys, boed yn freuddwyd neu beidio.’

‘Byddwn ninnau hefyd yn troi’n freuddwydwr wedyn te.’

‘Dŷn ni’n mynd i synied fod ei holl adroddiadau am ei breuddwydion yn gymharol ystyrlon. Os nad ŷn nhw’n llythrennol, maen nhw’n ddigon.’

Chwarddai’r ddau. Yn ffrindiau.

‘Trosiad yw bywyd, mae hi wedi’n perswadio ni,’ meddai ef ar draws ei gwên. ‘Benbwgilydd.’

Celwydda yr oedd ef o hyd wrth gwrs. Plethu anwireddau yr oedd wrth sgysio â Mair. Ond wedi’r cyfan, oni wnâi hithau’r un fath yn ei ffordd ei hun? Onid oedd hithau wedi ceisio gwau rhyw storïau ffansiol er mwyn ei hamddiffyn ei hun? Ei charu hi neu ei lled-garu hi roedd ef o hyd, deall neu beidio, gwyddai hi hynny i wala. Roedd hithau’n ei garu ef, wrth gwrs, ond yn ofnus. Roedd hynny’n amlwg. Roedd y ddau wedi dod i fath o gytundeb od, nas mynegwyd oherwydd Maxine. Ond er ei waethaf roedd ef wedi ymserchu ym Maxine hefyd. Ac o du Maxine roedd yna elfen gref o ffoli, o ddwlu, a hyd yn oed o angerdd cyd-gredadun hanner-pan.

Dyna a’u gwahaniaethai oll rywsut. Dyna’r gagendor rhyngddynt. Mawr yw ffrwythau angerdd. Er bod Mair a Len yn profi math o gariad cyfeillgar rhyngddynt a’i gilydd, roedd y cwbl o dan reolaeth. Ymhoffi cymedrol ydoedd; a gallai bara felly. Roeddent ar ben, a bodlonent. Ond yn achos Maxine, ni allai rheswm ddal, argraffwyd o fewn yr ymserchu elfen o orffwylledd mwyn hefyd. Ynghyd â’r callineb, fe gaed gwylltineb tyner. A chwithdod, ac amhosibilrwydd cyfeillgar. Ac roedd y cyfuniad nerthol ond di-ddal greadigol hwnnw’n gofyn am drwbwl. Ond pell oeddent.

Daeth Len i’r casgliad diogel cyflym nad oedd dim difrifoldeb ynglŷn â’r naill ymlyniad na’r llall. Y peth callaf fysai gadael llonydd i’r cwbl oll. Dôl digon o ffansiôn heb chwilio amdanynt.

\*

\*

\*

‘Wyddoch chi pwy welais i?’ heriai Maxine ar ôl dychwelyd ymhen dau ddiwrnod.

‘Lwlwto?’ meddai Mair gan wenu.

Edrychai Maxine yn ôl arni’n llawn drwgdybiaeth ddi-wên.

‘Pascolini?’ mentrai Mair eto. Dyfnhaodd diffyg gwên Maxine.

‘Rych chi’n gwybod mai ymweliad diplomataidd byr oedd hynyna pryd’ny. Taith fusnes ar y pryd. Ac am Bascolini ...’

‘Alla-i byth gadw i fyny â’th holl gydnabod di, Maxine ... Dwed te. Pwy?’

‘John Calvin!’ datganodd hi.

‘Pwy?’ ebychodd Len gan synied fod y ffansi wedi mynd dros ben llestri y tro hwn.

‘Nid y cantor pop!’ meddai Mair yn wybodus i gyd, ac yna wrth Len: ‘Dych chi ddim *au fait* yng Nghymru. Mae Maxine wedi darganfod cantor pop eithriadol o addawol ... Does neb yn gwybod amdano eto. Addewid yw e.’

‘Addo beth?’

‘Mae Mair yn tynnu ’nghoes i,’ murmurodd Maxine wedi’i dofi ond heb ei mygu. ‘Ond mae’n hollol wir. Fe gwrrddais i â’r gŵr ifanc hwnnw. Mae ganddo lais fel Tom Jones.’

‘A ffigur fel Marilyn Monroe,’ meddai Mair.

‘Cymro?’ holai Len.

‘Sgotyn. Celt.’

Ac aeth Maxine hithau ymlaen i adrodd rhestr hirfaith o’i holl rinweddau, ac yna gorymdaith o’i gyngherddau yn ystod y misoedd diwethaf — yn Seland Newydd, yng Ngorllewin Awstralia, roedd y crwt yn deithiwr athrylithgar heblaw bod yn llais.

Llethwyd Len braidd gan amllder a helaethrwydd y manylion a adroddai Maxine. A theimlai ei bod yn hen bryd iddo yntau chwistrellu ychydig o liw i mewn i’w fuchedd lwyd ei hun.

‘Dwi’n credu,’ meddai Len ar ôl te, pan oedd ar ei ben ei hun gyda Maxine, ‘y dylwn-i deithio draw — neu i fyny, neu ble bynnag, gadael Sydney am y tro, i’r gwylltiroedd i ymweld â chwaer Wili rywbyrd yn yr Oes Newydd.’

‘Y *dylech* chi?’ ebychai Maxine.

‘Wel, dyna a hoffwn i. Mae eisiau imi gwrrdd â hi.’

‘Fe ddeua *i* gyda chi.’

‘Hi oedd y ferch roeddech chi, Mair, wedi anfon neges ati o’r Gymanfa Ganu,’ meddai Len. ‘Helen. Sylweddolais i wedyn pwy oedd hi. Dwi’n teimlo dyletswydd ynglŷn â



hi.'

'*Dylwn innau* ddod hefyd,' mynnai Maxine yn sobor.

'Sdim angen ichi. Na.'

'Byddwn i'n hoffi cael gwibdaith. Ac mi ga-i ddangos ichi lefydd diddorol *en route*.'

'Dwi'n credu,' meddai Len, 'y dylwn i fynd yno fy hun i siarad am ei brawd.'

'Y *dylech* chi?'

'Wel, dyna fyddai orau.'

Syrthiasai tymheredd yr ystafell ychydig o raddau, ac ysgwyd ryw ychydig; a chrynai Maxine fymryn, er nad effeithiasai hynny ar Raddfa Richter.

'Pam?' Roedd hi'n teimlo o'r newydd fel pe bai'n cael ei chadw o'r tu allan. Fel y bu yn ei pherthynas gynt gyda'i chyn-wr Thomas, roedd rhyw bared yn cael ei godi rhyngddynt eisoes drachefn. Roedd ei byd hi a byd Len Llwyd yn mynd i droelli mewn rhodau gwahân a gwahanol, a'r gwryw drachefn yn arwain o hyd fywyd annibynnol.

'Pam?'

'Pam ymweld ar 'y mhen fy hun! Wel, er mwyn parablu'n rhydd, siŵr iawn.'

'Cewch barablu hebdo-i, mor rhydd ag ysgariad, hyd yn oed os deua-i ar y daith.'

'Na.'

'Cewch yn wir. Does dim trafferth byth gyda pharablu. Os oes gynnoch chi bethau personol, galla-i ffugio mynd am dro. Cewch chi'ch gadael am awr neu ddwy gyda'r rheina.'

'Ffugio! Breuddwydio! O Maxine, sôn am fod yn gywir dwi.'

A theimlai Maxine am funud ryw annealltwriaeth wedi disgyn rhyngddyn-nhw.

Daliai hi'n awyddus i feddiannu'i fyd. Ond synhwyrar hi fod ei gynhesrwydd yn dianc o'i gafael hi mewn tir anghynefin. Ni wyddai pam. Eto, mynnai hi rywfodd ledu'i hadenydd amdano. Amheuai hi ef.

'Doedd gen i ddim math o gof wrth ddod yn yr awyren fod gan Wili y chwaer 'na yn Awstralia,' meddai fe wedyn. 'Roedd-e wedi crybwyll ei chwaer rywbryd dwi'n siŵr. Fwy nag unwaith. Dwi'n cofio nawr anfon pwt o air ati ymhlith y dwsinau o fân betheuach 'wnes-i ar frys ac yn gwta ar ôl ei farwolaeth. Ond rois i ddim digon o sylw i'r peth.'

'Awn ni'n dau acw am wib,' meddai Maxine. 'Gallai hi ddehongli rhai o'm breuddwydion.'

'Na, Maxine.'

Roedd e'n weddol bendant. A thawodd Maxine o'r diwedd.

Ac eto, pendantsrwydd o fewn anesmwythyd ydoedd, o'i ran ef. Daliai yn anesmwyth iddo erioed weithredu fel sbŵr ar hon, a cheisio tyrchu ar ôl ei hanes preifat. Beth oedd arno? Roedd hyn yn waeth na'i ffansiön diniwed hi. Gwyddai mai ei ddiffyg mewnol ei hun oedd y cymhelliad neu o leiaf yr amgylchfyd i hynny. Ond roedd arno gywilydd, ac yn briodol felly. Roedd wedi llithro bellach ryw faint, fesul centimedr a heb sylwi bron, oddi wrth ei fywyd ysbrydol creiddiol ... i beth? Dyn â bydolrwydd yn dafnu oddi ar ei fysedd oedd ef. Roedd arno ymddiheurad ymarferol iddi hi... ac i fywyd.

Ond ddi ysfa am annibyniaeth bersonol drosto yr un pryd. Byddai unigedd pâr ar wahân ymhell oddi wrth y merched yma yn rhoi peth cyfle iddo i fyfyrto. Melys oedd y llonyddwch a gawsai yn y dref ar ôl i'r ddwy fynd i siopa. Fel yr oedd allanolion yn gallu disodli pob dim arall! Er nad oedd neb yn gallu ewyllysio perthynas â'r Anweledig mae'n wir y gellid ceisio meithrin cymdeithas a oedd eisoes ar gael. Ac roedd ef — byth er pan gyrhaeddodd yma yn Awstralia — wedi pellhau, wedi'i deimlo'i hun rywsut yn cael ei drawsffurfio, a bydolrwydd difater yn ei feddiannu. O'r herwydd, roedd y berthynas rhyngddo a phobl wedi'i hysigo hefyd. Hiraethai am adnewyddu'i fywyd defosiynol; ac am dangnefeddu. Pererindota fuasai'n briodol.

'Pam yn union y daethoch-chi â fi yr holl ffordd i Awstralia?' holai Len gan edrych ar Maxine gyda chwilfrydedd o'r newydd ryw awr yn ddiweddarach.

'Synnech chi.'

'Mair rych chi'n feddwl?'

'Na. Dwy ohonon ni gyda'n gilydd, ochr yn ochr, a'm hyder i fy hun yn cael anadlu.'

'Sut dych chi'n feddwl?'

'Cyfarfod â chi fan hyn, a ni gyda'n gilydd, Mair a finnau, heb ofn, ar yr un gwastad ger eich bron.'

'Oedd eisiau hynny?'

'Debyg iawn. Doedd gen i ddim syniad ble i fynd. Mi wnaed dyfodol yn fwy ystyrlon. Roedd Mair yn dala yn eich bola o hyd. Allwn i ddim mynd ymlaen nes bod y fagl yna wedi'i datod, neu'r clwm wedi'i glipio un ffordd neu'r llall. Roedd rhaid imi wynebu Awstralia.'

'Ie. Dwi'n dechrau deall. Nid Mair yn unig. Roedd 'na rywbeth arall. Roech chi eisiau imi weld eich cefndir, y gwir, y celwydd, y gwir gelwydd, popeth.'

‘Efallai.’

‘Pam oeddech chi am imi’ch nabod chi fel hyn, bob rhan ohonoch chi?’

‘Mae’n rhaid inni oll rywbyrd, er mwyn byw, deimlo’n bod ni’n sefyll ar dir sad. Wyneb yn wyneb â’n gilydd.’

‘Oedd hynny’n bwysicach na Mair? Cyffesu fel ’na?’

‘Nac oedd. Oedd. Fi ydw i.’

‘Beth yw ystyr hynny?’

‘Ddowch chi ddim ata-i heb hynny. Fi ydw-i ... Alla-i ddim llai na breuddwydio mae arna-i ofn. Maxine ydw i.’

‘A’r realiti?’

‘Dwi’n freuddwyd ac yn realiti yr un pryd. Mae’n rhaid i chi nabod y naill a’r llall.’

Torrwyd ar eu traws ar y pryd. Daeth Mair o’r gegin.

‘Mae Len am fynd i’r Prysgr, ar ei ben ei hun, hebdo i,’ cyhoeddai Maxine, gyda’r tinc lleiaf o oerni yn ei llais. ‘Beth wnei di o beth felly? Gwahanu eto?’

‘Anturiaeth llanc,’ meddai Mair. ‘Efallai fod arno eisiau ffoi rhag y gyflafan. Cei di aros fan hyn gyda fi, Maxine, a breuddwydio amdano.’

‘Yn gymwys,’ meddai Len tan chwerthin heb edrych ar Maxine. Pellhâi hi rhag ei gobeithion. Daethai eu perthynas yn jôc. Y tu allan i Len yr arhosai hi o hyd bellach. Torrwyd ar bob cais i feithrin perthynas fynwesol. Teimlai fod y biliwn o flynyddoedd esblygiad y soniwyd amdanynt wrth siarad â Mair yn amcangyfrif pur gymedrol. Yn y daith arfaethedig hon byddai ef yn gwrthod Maxine am gyfnod er mwyn unigedd iach.

A pham lai? Doedd hi ddim wedi’i ddeall. Dim ond ei adael ar ei ben ei hun am ddiwrnod ’wnaethai hi, ac roedd popeth wedi newid. Diwrnod anghyfrifol o siopa ac o galifantio nodedig o ddiniwed yn Sydney fu hi. Ac yr oedd rhywbeth wedi digwydd a chyfeiriad yr awel wedi dod o hyd i drywydd arall. Synhwyrâi’i ffroenau’r awel. Er mor benderfynol oedd hi o beidio â gadael i’r oerfel yna gydio’n rhy ddwfn, pa beth bellach oedd i’w wneud? Ai Mair a oedd wedi’i anafu ef? Beth bynnag a ddigwyddasai, aethai ef yn ddieithr iddi.

‘Mae’n rhaid i fechgyn bach gael eu sbort,’ meddai Len, er mwyn tynnu’i choes.

‘Ond, ydy hi’n saff?’ holai Maxine gan geisio cymorth Mair. ‘A ddylai fe deithio drwy wlad estron heb ryw fath o gyfarwyddyd cyson?’

‘O! Mae e’n fachgen mawr erbyn hyn,’ meddai Mair.

Wedi hawlio'i annibyniaeth ac yngan ei benderfyniad i deithio ar ei ben ei hun, lleddfodd meddwl Len ryw ychydig.

Tybed a fu yntau yn gwbl annheg tuag at Maxine? Pwy yn y bôn oedd hi? Roedd hi'n aros yn ddirgelwch.

Beth fu ei pherthynas â'i gŵr? Tybed pam roedd Thomas Pearse yn honni iddo fodloni ar gytundeb a gyhoeddai i'r byd a'r betws ei odineb ei hun gyda rhywun anhysbys? Onid oedd yntau'n gallu cael ysgariad am lai o ffwdan? A fuasai dyn busnes fel ef wedi bod mor rhwydd ei gysynied wrth rannu'r eiddo? A'r fenyw anffurfiedig yna, a oedd ganddi dipyn o bres neu eiddo cyn priodi? Ac wedyn, os bu Thomas Pearse mor wali wirion yn ei serch tuag at Maxine ag yr haerai, oni allasai Len ddisgwyl mwy o gyndynrwydd, mwy o anfodlonrwydd? A'r cyhuddiad beirniadol gan y dyn yna yn erbyn Maxine drachefn — yr alibi islais o edliw, roedd hynny'n swnio'n enbyd o annelwig iddo ef. Dichon fod yna fwy o iawn ar ochr Maxine nag a gyfaddefai'i chyn-wr.

Tybed a oedd hi'n llai o freuddwydreg nag yr honnai?

Ond sut y gallai Len holi a stilio am hynny'n benodol heb ei ddadlennu iddi hi — ac yntau y tu ôl i'w chefn, wedi fforio am ei chyn-wr? Bid siŵr, roedd hi wedi'i wahodd i durio yn ei chefnidir; ond peth arall oedd hynny, peth llawer mwy academaidd.

Yr oedd Len yn gydwylbod i gyd. Ac yn iawn felly.

Y noson honno, pan oedd Maxine wedi picio i'r llofft i gael bath, wynebai Len Mair yn y gadair gyferbyn. Dyma'r tro cyntaf iddo fod ar ei ben ei hun gyda hi heb Maxine er pan ddaethai Maxine yn ôl o'i hymweliad â 'bedd ei modryb Sara', a hithau Mair yn eistedd yno ger ei fron unwaith eto, heb ffwdanu yn y gegin gefn.

A beth am Maxine?' gofynnai ef. 'Alla-i'i chredu hi un waith yn y pedwar amser?'

'Mae pawb yn Sydney'n nabod Maxine,' gwenodd Mair. 'Hynny yw pawb o'r gymuned Gymraeg o leiaf.'

'Pawb o bwys felly.'

'Chwarae byw y mae hi. All hi ddim llai na rhaffu dychmygion ar yr esgus lleiaf, ac eto mor sobor â sant. Dyna'ch poen chi?'

'Dychmygion?'

'Dychmygion, breuddwydion, anecdotau, beth fynnoch chi.'

'A'r rheina'n gelwyddau?'

'Does dim dichell ynnddi. Dim malais. Dyw hi ddim yn droseddreg.'

‘Y tu ôl i’r breuddwydio i gyd?’

‘Ie, yn y dyfnderoedd cudd real. Mae hi’n weledig ac yn anweledig.’ Chwarddai Mair ychydig. ‘Fe allech chi garu’r ddwy. Prynu un, cael y llall am ddim.’

‘Ond pam? Pam y ffansiōn diderfyn?’

‘Gwraig annwyl iawn yw hi. Byddwn i’n ei chyfri’n ffrind driw a hyfryd. Bob un ohoni hi.’

‘Ond pam?’

‘Pe bawn i’n gorfod dibynnu ar rywun, pe bawn i’n dymuno ymddiried yn rhywun, byddai hi ...’

‘Ond pam?’

‘Mae’n rhyw gwirc, efallai. Dyna’r cwbl.’

‘Cwire!’

‘Mae’n caru paldaruo am rywun enwog dychmygol y cawsai ei chyflwyno iddo, neu rywbeth rhamantus a ddigwyddodd iddi. Ymrwbio â gobeithion efallai.’

‘Dw-i wedi sylwi.’

‘A dych chi’n sylweddoli’n burion na ddigwyddodd ddim o’r peth erioed. Efallai iddi gael cipolwg ar y person un waith. Ond ei harwain ymlaen y mae ei ffansi. Mae hi’n brodio er mwyn ei chadarnhau’i hun. Ac yna, y gwŷr ifainc golygus bondigrybwyll. Mae hi’n bridio’r rheini.’

‘A! gwn i.’

‘Y Rhisiart Byrtoniaid fesul cannoedd! Petawn i’n rhestru’r rhai gafodd hi ginio gyda nhw ...’

‘Neu ginio ohonyn nhw ...’

‘Byddai’n tagu’r Neuadd Opera ac yn sicr yn ychwanegu stôn neu ddwy at Siôn Corn.’

‘Ond pam?’

‘Does neb yn amau’i didwylledd. Efallai fod ’na fath o anaeddfedrwydd emosiynol ynddi. Chwilio am gariad y mae hi. Ac mae hi’n ffrind ardderchog.’

‘Mae’r gwirionedd beth yn bwysicach na didwylledd, dybiwn i.’

‘Rywsut mae’n caniatáu i’w breuddwydion ei meddiannu. Ac o’r herwydd mae’n gallu cael profiad o rywbeth na fu o fewn ei gafael erioed.’

‘Hwyl hylaw, ddwedwn i.’

‘Ydy, fel arfer, yn sicr. Ac eto ... gallech *ddibynnu* arni-hi ynghanol ei chelwyddau i gyd. Mae hi mor annwyl o ddibynnol.’

‘Dych chi heb ateb ’y nghwestiwn pam.’

‘Ansicrwydd yn ddi-os. Diffyg hyder. Anaeddfedrwydd cydwybod hyd yn oed. Ac eto fel y graig. Eisiau bod yn rhywun arall, gwneud iawn am ryw ddiffyg, dewiswch chi. Does ynddi ddim owns o falais, peth prin ymhlith pobl mewn oed.’

‘Ond ych chi’n meddwl ... y gall celwyddau celfydd ... ddweud y gwir?’

Peidiodd Mair ag ateb. Roedd Len ar drywydd gwyrddroadau annelwig, a gwell oedd gadael iddo. Parhaodd yntau i’r un perwyl: ‘Trosiadau ydyn ni i gyd efallai, ni sy’n byw’n llythrennol, Mair.’

‘Gwn i.’

Ymataliai Mair. Roedd yn well ganddi beidio ag ateb na mentro ymadael â diogelwch synnwyr cyffredin.

## 7

Aros gyda’i benderfyniad i gyrchu i’r Prysg wnaeth Len. Mynnai gyfarfod â Helen Eston ar ei ben ei hun.

Ffoniodd ef hi er mwyn ei rhybuddio’i fod ar y ffordd. Tipyn o ysgytwad gafodd Helen ar y pryd. Ni ddisgwyliai glywed drwy’r ffôn fod hen gyfaill i Wili am ymweld â hi yn y cnawd.

Yn groes i’r graen gyda Maxine ac yn annelwig fygythiol i’r gwrthrych ei hun, felly, dyma fenyw arall ar orwel Len. Un anabl, anatebol mae’n wir. Un gwbl anaddas o bob safbwynt. Ond benyw. Hynny yw, un arall i fod yn ansicr amdani fel a bair pob benyw.

A’r fan hon yn Sydney y byddai hi’n aros ar ôl, hi Maxine. Mewn pwll o ddychmygion. Roedd hi’n ddiymadferth ac yn rhwymedig. Châi hi ddim gwybod dim oll yn llythrennol o’r hyn a ddigwyddai i Len ar ôl iddo ymadael â Sydney ar y daith honno i’r gwylltir. Adroddiad drwy ridyll ’gâi hi. Roedd hi eisoes yn gyfarwydd â’r Prysg wrth gwrs, mewn ffordd gyffredinol. Gallai hi freuddwydio’r cwbl yn bur gyfforddus felly. Gallai ddychmygu’r daith. Gallai ddychmygu Helen y pen arall. Ac yn ei chrebwyll dwys dechreuai wau ffansi eisoes am y siwrnai, am y cyrraedd, am y prawf drwy dân ysbrydol, mewn amgylchfyd corfforol arall, gant a mil o fân ddigwyddiadau. Ar ôl iddi gilio i’w gwâl liw nos, dyna’r pryd y ddi’r rhithiau allan o’r waliau, a symud yn ôl ac ymlaen yn amhriodol o

sioclyd o flaen ei retina.

Ond doedd dim angen i neb ymddwyn yn uwchraddol ddirmygus tuag at fersiwn Maxine. Gellid dibynnu'n bur ffyddiog ar ei breuddwyd, oherwydd yn wir, ar ôl i Len ddod yn ei ôl ac adrodd yr helyntion oll, byddai naratif Len ddim yn fwy dibynnol yr un sill, nac yn sicr yn fwy manwl nag eiddo Maxine yn ei breuddwyd. Hanesydd croniclog, braidd yn llythrennol fyddai Len. Yn y rhannau hynny lle'r oedd ei gof ef yn pallu, byddai'n deg dweud bod breuddwyd Maxine yn rhagori arno. Hi a ddaliai ysbryd yr hanes. A Len oedd y cyntaf i addef hynny.

Math o gyfuniad wedi'i olygu felly yw hyn o fersiwn Len ac o fersiwn Maxine. Ond lle y byddir yn gwahaniaethu, tueddir i dderbyn fersiwn dychmygus Maxine, gan ei fod yn fwy emosiynol gywir a chan nad oedd ailalw Len gystal ag y dylai fod.

Roedd Helen wedi'i hynysu braidd, yn ôl tyb Maxine 'lan fan yna ym mol y goedwig. Buasai hefyd yn ddigon di-hwyl yn ddiweddar. Ni chyfarfuasai ag odid neb ers tro ar wahân i'w chydweithwyr ar y fferm, ac yn sicr nid â dieithriaid. Nid oedd wedi cyrchu chwaith i Sydney i gymdeithasu â'r Cymry, ddim ers talwm byd, ddim ers marw ei brawd.

Mewn gwirionedd, llawer mwy neilltuedig oedd ei chartref yno nag yr oedd Len wedi'i erfyn. Diau iddo ddisgwyl anialwch, gydag ambell glwm o goediach hwnt a thraw. Peithiau eang diboblogaeth ac ysbeidiol sych gan mwyaf, gydag ambell gangarw megis tylwyth teg heb fod yn hollol geriatrig yn prancio ar draws yr unigedd sych. Ond coedwig drwchus a gadd yno rhwng yr orsaf agosaf a'r fferm lle y trigai Helen Eston. Coedwig wag a wnâi hyd yn oed y tir yn gyfrinach. Gwir fod yna hefyd ychydig o gaeau gwastad ynysedig. Ceirch a barlys yn ymestyn o'r golwg y tu ôl i'r fferm ei hun; ond roedd y rheini wedi'u hamgylchu gan goedwig gyfoethog a hynafol arall, i gyd yn sych.

Daethai Len o hyd i'r tŷ yn fwy didrafferth nag y disgwyliai, ym mhen draw llwybr diderfyn. Pren oedd ei wneuthuriad twt. Roedd ei bensaernïaeth yn dilyn defod yr hen ddull trefedigaethol gyda feranda helaeth o'i gwmpas. Caed esgynfa bren yn arwain i fyny ato ar gyfer y stôl olwynion. Dilynasai tacesi Len ffordd briddlyd sych drwy'r coed. Gydag anhawster croesodd bont fechan dros nant sych. A dyma gyrraedd y fferm. Yno yn ei chadair olwynion roedd Helen ar bwys llwyn rhododendron a ffrwydrasai'n goelcerth mor goch fel y gallech dwymo'ch bodiau wrthi. Roedd pob man yn sych grimp o'i deutu.

'Pnawn da,' meddai Len, gan godi'i ben yn foengar tuag at yr haul tanbaid, a chan deimlo ychydig fel Stanley gyda Livingstone drwy ymddwyn yn jocôs fel pe na ddisgwyliai i

neb, nid hyd yn oed yr haul, i synnu wrth i ddieithryn o Gymro lanio o'i blaen. Estynnai law at y corff unig.

'Nid mor gyfan gwbl dda,' meddai hi fel pe bai hithau am fod yr un mor blasé ag ef. 'Ond mae digon i'w wneud.'

Craffai ef ar y ferch yn ei chadair olwynion, a cheisio'i nabod hi mor gyflym ag y medrai.

'Mae'r tir fel corcyn,' cwynai honno.

'Peidiwch ag achwyn. Meddyliwch am Stiniog.'

'Dyna'r lle ola dwi am feddwl amdano fan hyn. Neu'r ola ond un. Y lle hwn ei hun yw'r un ola.'

'Ydy hi'n *rhy* grinsych ichi yma?'

'Hynny ymhlith pethau eraill.'

'Ond does dim diferyn o fath yn y byd gynnoch chi?'

'Wel, oes. Dŵr i'r caeau. Mae gynnon ni ffynnon Artesaidd. Ond mae honno mor llawn o fwynau, dyw hi ddim yn ffit i yfed ohoni. Ond dyna ni ... croeso aton-ni i'r sychdir bendigaid, beth bynnag yw pwrpas hwnnw. Matsien fel chi sydd eisiau, ac fe aiff y cwbl yn wenfflam. Croeso newydd tanllyd crai i anwareiddiad.'

'Diolch.'

'Dych chi am gael rhywbeth gwlyb?' holai hi gan ddechrau ffwdanu ar lun derbyniad.

'Mae pobol yn yfed ambell waith 'te?'

'O! dŷn ni'n prynu casgeneidiau o ddŵr honedig ym Milwala, y pentref agosaf. Hen ddigon i'n syched beunyddiol. Ac wedyn, dyna'r gwin enwog lleol.'

'Mi gymera-i lwyaid, 'te, — os ca-i, — i wlychu'r whît.'

Yn ddeheuig troes hi'r gadair olwynion. I fyny'r esgynfa ar ffurf cylch y diflannai i berfeddion y gegin. Dilynwyd hi gan Len. Cynigiodd Len symud cadair-freichiau a oedd ar ei ffordd. Ond chwifiodd hi ef i ffwrdd yn ddig. Doedd dim sôn am na morwyn na gwas na chydymaith na neb, yn unman. Ymddangosai fel pe bai ar ei phen ei hun yn y tŷ ar hyn o bryd ac yn hapus felly.

Uwchben eu diod cafodd y ddau gyfle i droi'u golygon yn ôl tua'u gwreiddiau isddaearol.

'A Wili?' holodd hi'n awyddus. 'Beth am ei hanes yntau tua'r diwedd?'



‘Roedd e’n well rywfodd po wannaf yr âi,’ meddai Len, ‘o ran hwyliau. Yn well yn fewnol yn y dyfnder dwi’n feddwl. Yn well ynndo’i hun, yn fwy diddig.’ Ac aethant ati i ymdroi gyda brawd Helen fel petaent ill dau’n ceisio’i rithio’n ôl. Yna, troes Len y pwnc yn sydyn: ‘Does dim gweision yma? Nid chi sy’n ffermio’r cwbl, eich hun? Does neb arall?’

‘Criw ohonon-ni. Cibwts. Ar ryw ystyr, y swyddfa yw’r adeilad hwn. Mae ’na adrannau eraill ar y fferm. Credwch neu beidio, fferm ddefaid yw hon, gan mwya. Cewch weld. Draw ffordd yna,’ a phwyntiodd i’r gorllewin, ‘tu hwnt i’r coed, mae gynnon ni dipyn o dir a gwinllan. Mae’r ardal hon o gwmpas Dyffryn Heliwr yn ymbincio dipyn oherwydd ei gwin coch. Mae yna chwech ohonon ni’n gweithio ’ma. Ond defaid sy fwya.’

‘Chwech!’

‘Tri bachgen a thair merch a me-mes. Mae un o’r merched eraill yn briod gydag un o’r bechgyn. Fi sy’n gyfrifol am y gwaith papur ac am y coginio a’r twtio.’

‘Both yr olwyn fel ’tai?’

‘Nid cant yr olwyn beth bynnag, gyda’r tipyn adenydd hyn. Cewch gwrdd â phawb ymhen dau ddiwrnod. Maen nhw’n diflannu am ychydig o ysbaid. Fel dŵr mewn tywod. Wedyn maen nhw’n byrlymu i’r golwg. Pawb tua’r un pryd, rhwng chwech a saith Nos Wener. Yn rhan o’r ffynnon Artesaidd.’

‘Felly, mae ’na adeiladau eraill rywle dros y gorwel.’

‘Oes. Rhai llai na hyn. Un cwt bach ryw gwta bum milltir i’r gogledd. A lle bychan bach yn y gorllewin. Ond dim ond fi sy’n byw fan hyn.’

‘A sut rai ydyn *nhw*?’

‘Beth? Pwy?’

‘Y criw. Y lleill. Nhw.’

‘Pobl.’

‘A beth mae hynny’n ei olygu?’

‘Cymysglyd. Rhai yn fwy cymysglyd na’i gilydd.’

‘Sut byddwch chi’n ymdopi gyda’ch gilydd felly?’

‘Go lew. O leia, roedd hi’n o lew tan ryw flwyddyn, naw mis yn ôl, pan gyrhaeddodd John, John O’Vergall meddwn i, beth bynnag yw’i wir gyfenw, o Iwerddon, tipyn o bwdr yn yw hwnnw.’

‘Dwi’n nabod eu siort. Breuddwydiwr bwriadol.’

‘Yn hollol gafalîr felly wrth gwrs ... Mae e wedi gweithredu ... fel catalyst.’

‘Sut felly?’

‘Cyn hynny roedd pobun yn tynnu’i bwysau. A’r elw, gymaint ag oedd, i gyd yn mynd yn ôl i’r winllan.’

‘Dyw John ddim yn chwarae ei ran?’

‘Gwaeth na hynny: mae e am fod yn feistr anfwriadus ar Feistr Mostyn.’

‘A phwy yw Meistr Mostyn?’

‘Pawb wrth gwrs.’

‘Dyw e ddim yn un o’r pawb.’

‘Na. Yr Ocwlt sy wedi’i dynnu fe at yr uned, meddai fe. Yr Oes Newydd. Ond dyw hynny ddim i ymyrryd â bywoliaeth.’

‘Creadur ychydig yn onglog felly.’

‘Dyw e ddim yn cyd-dynnu ym mhob cortyn. Dyw e ddim hyd yn oed yn ein cyfarch ni ambell fore. Ac yna, ambell fore arall dim ond cyfarch yw e. Bydd e’n waedd dros y lle. Pwdryn yw e. Ond taran o bwdryn. Animist!’

‘Pam?’

‘Fel ’na mae rhai, chi’n gwybod. Mae yna ryw ddiffyg hyder swnllyd ynddo fe. Mae e’n sylweddoli nad yw e ddim mor alluog â’r lleill. Dyw e ddim yn atebol i’r gwahanol orchwylion. Mae’n rhaid i bawb ohonon ni’u gwneud nhw yn ein tro. Ac o ganlyniad, gweiddi nerth ei ben yw ei *forte*. Ond gweiddi methiant. Mae e wedi bod fel feirws yn y lle, a phawb arall yn anhapus o’i herwydd.’

‘A! Gwn i.’

‘Tanseilio’r tîm mae e’n wneud.’

‘A phawb yn sylwi?’

‘Pawb.’

‘Dych chi erioed wedi ymddiddan ag e’n bersonol? Hynny yw, galon wrth galon. Wedi’i herio fe’n ostyngedig ar eich pen eich hun?’

‘O do. O leia un tro. Gofynnais iddo-fe geisio dal ei dafod am ddiwrnod... os gallai-fe. Ac yna, ymddiheurais,’ meddai hi’n naif isel.

‘Beth ddwedodd e?’

‘Strancio. Rhegi. Curo’r awyr. A ddwedir mewn dicter, meddai fe, fe’i meddylwyd mewn tangnefedd.’

‘Ha! roedd ganddo bwynt.’

‘Dieter tangnefeddus, dyna oedd gydag e tuag ata-i am sbel wedyn.’

‘Ymateb naturiol ddigon.’

‘Digon tebyg; does neb yn dwlu ar feirniaid.’

‘Mae’r sawl sy’n methu ag ennill cadair Eisteddfodol, bob amser yn honni fod y panel beirniaid yn wan.’ Nodiodd hi mewn cytundeb. ‘Ychydig o lewpartiaid sy’n awyddus i newid eu smotiau,’ ychwanegai Len.

‘Na; ac mae’n well na hyd yn oed fi, am agor ei geg cyn deall. All e ddim newid.’

‘Mae’n anos edifarhau am y dyfodol nag am y gorffennol.’

‘Ydy braidd.’

‘Dyw e ddim yn medru synhwyro y gallai fod pawb arall yn iawn ambell waith?’

‘Nid dyna gynneddf pobl felly.’

‘Does dim eisiau gwely ar y gydwybod,’ meddai Len fel pe bai’n cynnal llên gwerin gyda hi drachefn; ‘bydd honno’n hepian ar ben llosgfynydd.’

‘Yn chwyrru gysgu ddwedwn i, yn yr achos yma.’

‘A chi, sut ych chithau’n ymdopi?’ holai Len. ‘Chi’ch hun dwi’n feddwl, mewn lle fel hyn? Gyda chi’ch hun? Gyda’r criw? Ar wahân i’r IRA.’

‘Oherwydd hyn?’ meddai hi gan ystumio tuag at ei choesau diymadferth. ‘O dwi’n gallu gwneud popeth.’

‘Popeth?’

‘Sgrifennu, darllen. Coginio, bwyta, cysgu ... Oes rhywbeth arall? Dwi ddim wedi bod yn hwylus yn ddiweddar. Ond ddim oherwydd coesau. Dwi’n hoffi eistedd fan yma a darllen pan na fydd ’y nhrwyn-i ar y maen. Bydda-i’n pori darllen ac yn crosio. Neu’n trwsio dilladach yr un pryd. Ac mae’r tawelwch yn gynnes. Mae yna glêr wrth gwrs.’

‘Dwi’n sylwi.’

‘Dyw’r rheina ddim ond yn f’atgoffa am gynhesrwydd y tawelwch ... Ond nhw, maen *nhw* ’ma o hyd,’ meddai gan amneidio at ei diymadferthedd.

‘Pob peth felly? Dych chi’n gallu gwneud popeth?’

‘Dawnsio, dawns y gloesen. Chwarae rygbi, fel eilydd. Yr hanfodion. Awgrymwrch chi.’

‘Gan gynnwys hel breuddwydion efallai?’

Gwgodd hi: ‘Byth breuddwydion.’ Gwenodd hi wibdaith o wên, ac yna sobri. ‘Hel popeth arall. Ond pan dwi’n meddwl am Wili ...’

‘Wel ie. Ond roedd Wili’n meddu ar ddimensiwn arall.’

‘Dyw hyn ond megis ...’ Cyfeiriai at ei choesau â’i haeliau.

‘Na!’

‘Ond tewi sy raid. Dwi’n llawn dop o dewi ... Dyw hynny ddim yn wir chwaith,’ ychwanegai hi’n sydyn. ‘Dwi’n melltithio drwy’r amser.’ Cododd Len a cherdded ychydig i ffwrdd.

‘Pryd glywsoch chi gynta am Wili? Am yr Aids dwi’n feddwl.’

‘Ryw funud ar ôl iddo *yntau* wybod ... Ffoniodd e.’

‘Down i ddim yn ystyried eich bod mewn cysylltiad mor agos.’

‘Rown i’n fyd i’w fetws.’

‘Sut esboniodd e?’

‘Llefain. Roedd e’n llefain,’ ebychai hi.

‘Beth wnaethoch chi?’

‘Llefain gydag e.’

‘Gweddïo?’

Sythodd hi. Ymgaledodd. ‘Dwi’n gwybod pwy ych chi nawr. Chi yw’r gweinidog’na. Dwi’n cofio rhyw sôn gan Wili. Rown i’n gwybod eich bod chi’n ei nabod. Nawr dwi’n gwybod pwy. Pethau'n syrthio i'w lle.’

‘Ydw i’n synhwyro rhyw fraw te?’

‘Prin.’

‘Pam y sythu te?’

Meddalodd hi. Toddodd. ‘Dim ond cofio ... Cofio llawer. Roedd Wili wedi’ch hoffi chi,’ dwedodd hi’n ddrwgdybus.

‘Ddwedodd e rywbeth *arall* amdana-i?’

‘Na. Ddim llawer.’ Closiodd Len ati drachefn.

‘Eto, ... oni bai am hoffter Wili ohono-i, mae’n bosib y byddai’r teitl *gweinidog* yn fymryn o fraw ichi.’

‘Dwi’n gallu goddef cryn dipyn.

‘Hyd yn oed gweinidog.’

‘Unrhyw ragrith.’

‘Dyna’r gair swyn?’

‘Rhagrith yw crefydd ar wahân i’r Ocwlt... A dwli yw hwnnw.’

‘Dwi’n nabod rhai ...’

‘Rhagrithwyr yw pawb.’

‘Beth yw calon eich gwrthwynebiad? Y gweledig ynteu’r anweledig?’

‘Does fawr o amynedd ’da fi tuag at y traddodiadol anwel. Coed, ffynhonnau, gwin, pethau felly, dyna fy lein i.’

‘O ydyn: maen nhwythau’n hanfodol. Yn arbennig, gwin.’

‘Rhag-rith mae’n siŵr,’ ebychodd hi.

Ymataliodd Len. Fel yna yn union y bu’r ysbrydol iddo fe yn rhy aml: tipyn o win yn y golwg, llawer o goed o’r golwg; ond yn anweledig hefyd y tu ôl roedd yna fydysawd o waedu anesmwyth ac o weiddi pêr. Gormodedd iddo ef yn fynych. Ofnai, serch hynny, y gallai ddisgyn â’i sgidiau hoelion i ganol blodau’r sgwrs hon yn awr. Ond doedd dim angen ofni. Roedd croen Helen wedi hen galedu. Doedd dim eisiau i neb ofni Helen.

‘Boed i’r sawl sy am fwynhau’r pen draw,’ meddai hi, ‘fwynhau’r siwrnai ei hun hefyd, ddwedwn i. Dyna neges yr Ocwlt.’

‘Byw i’r funud felly.’

‘Byw i’r cwbl. Does fawr o’i le ar funudau ... Y blynyddoedd yw’r drwg.’

‘A thragwyddoldeb ychydig bach yn waeth?’ gwenodd ef.

‘Twt! Tragwyddoldeb;... pechod; yr ysbrydol. Ble mae’r rheina? Rargian, ces i lond bol-jymbo-jet ar rwtsh fel ’na pan own i’n fach.’

‘Ydy’r Ocwlt yn esboniwr go lew ynghylch pethau fel pechod te?’

‘Mae’r ‘Oes Newydd’ yn nabod rhagrithwyr o bell.’ A sylodd hi ar Len yn ddrwgdybus o’i garnau i’w gorun.

Iddi hi un o felltithion mawr Cymru oedd Protestaniaeth, gymaint ag oedd yn weddill. Pobl yn dreflan drwy ddrysau capeli heb erioed gyfarfod â Duw; cogio mai moesoldeb oedd crefydd, ac yna’r ymgais hysterig yn ddiweddar i ddiddanu mewn modd estron, cyflyrol. Dyna un rheswm gwiw i rywun rywun ddianc i Awstralia.

‘Y rhain dwi’n nabod,’ meddai hi gan ogwyddo’n chwerw tuag at ddiymadferthedd ei choesau. ‘Dyna realedd.’

‘Rhan o fadredd y byd yw’r rheina,’ meddai Len.

‘Dwi’n dewis credu’r rhain,’ meddai hi’n sarrug.

‘Does dim dewis ym myd credu.’

‘Nac oes, efallai. Dyna pam dw innau’n credu’r rhain. Does dim byd gwreiddiol

ynglŷn â phethau fel y rhain ... Ond am y drwg ysbrydol sy yn y byd, 'rargian! Peidiwch â sôn dim mwy am y fath rwtsh ... Er... dwi'n gwybod hen ddigon am *gwymp*, fel y gellwch ddychmygu. Cwymp yw f'enw i.' Ac roedd ei llais y funud yna wrth gwmpo ar glustiau Len yn ei atgoffa'n grynedig am Wili.

Roedd Wili'n waredigaeth i'w sgwrs nhw rywsut. Ymroesant o'r newydd, serch hynny, megis hen gyfeillion i drafod ei helbulon. Wili oedd y tir neb rhyngddynt, eu dihangfa. Mynnai hi odro Len ynghylch pob gair, pob osgo, pob teimlad a arddangosai'i brawd. Yn effeithiol, buont wrthi'n cribo perfedd Wili tan berfeddion. Cribid ei chydwybod hi ychydig hefyd.

Ni lwyddodd Len o'r herwydd i huno y noson honno mor rhwydd ag yr arferai. Profai'r diwrnod yn ormod i'r nos a'i dilynai. Ac yna'r nos ei hun. Yn ormod i'r dydd wedyn fel y'i profodd. Un peth yn arbennig sy'n ffaeluo noswyllo fel arfer: y nos. A'r noson honno — Wili, a'r cyswllt â Helen, roedd hynny'n rholio o'r tu mewn iddo nawr yn ogystal ag y tu allan, drwy oriau'r tywyllwch. Roedd yr atrefniad amser, oherwydd y daith, yn dal i fwrw'i rythm cwsg oddi ar echel tywyllwch. A daliai ef o hyd ac ers diwrnodau lawer i deimlo'n chwithig, fel pe daliai'r nos ogleddol Gymreig, y noson realaidd go iawn, i sticio yn ystod y dydd yn rhythm anesmwyth i'w waed.

## 8

Wedi codi, ar ôl y sgwrs hir gyntaf, pellhau a wnâi Helen am ychydig o oriau, hyd yn oed ar ganol ymddiddan. Câi Len ddistawrwydd amlach nag a ddisgwylasai. Achubai'r cyfle i bendroni ac i grwydro ychydig yn y coed. Llithrai atgofion drosto am y capel gartref. Hedai delweddu'n ôl ar draws croen ei ymennydd, felly: y trafferthion gydag aelodau, parodrwydd rhywrai i gymryd ei genadwri o ddifri, a'r diffyg dwyster endemig.

Crwydrai'i feddwl fesul cam o un person i'r llall.

Sylw un blaenor oedd: 'Pechod! Pechod? Fan hyn! Fachgen, mae cyfartaledd ein hoedran dros saith-deg.' A sleifiodd ychydig o funudau o wir hiraeth drosto. A phensyndod ynghylch llawnder y dimensiwn ysbrydol.

Daeth yn ôl i'r fferm. Ond prysur oedd Helen. Prysus ddisylw ohono fu hi drwy'r dydd. A daeth yr ail nos yn ddisymwth arnynt.

Pryd bynnag y methai fel arfer gartref â huno, byddai meddwl Len, yn ddiarwybod iddo yn fynych, yn disgyrchu tua'r Anweledig. A thrachefn yma, ie hyd yn oed fan hyn yn

awr yn Awstralia, gwlad y cyrff, lle y teimlai gymaint wrthwynebiad i'r enaid, roedd yn ymwybod â rhywbeth pendant wahanol i'r gweledig. Dichon mai trosiad i'r peth hwnnw oedd y nos ei hun. Dichon mai dyna pam y dôl'r nos o gwbl: i bwysleisio presenoldeb yr Anwel.

Beth bynnag, roedd y gwyll hwn nawr megis ffenestr iddo syllu drwyddi. I rywrai, cyfnod o bryder oedd trymder tywyllwch. Tynhâi'r nerfau. Ymdrybaeddent mewn ansicrwydd unig. Gorau po gyntaf yr âi heibio. Ond iddo ef, a hynny ers tro byd bellach, cyfle pur oedd i gwmnïaeth. Mor fynych yr ymarferai â gwybod agosrwydd ei Greawdwr fel nad oedd arno bellach ofn dim arall. Am y rheswm hwnnw gallai groesawu anhunedd yn hyderus iach. Weithiau lapiai'r anhunedd hwnnw'n araf amdano fel awel gynnes. Cripiai drosto bryd arall yn ysgafn fel morgrugyn crafog; ac ni fynnai ddianc rhag y nos honno a'i mygai ef, ac a fygai'r hunan, ac eto y codai ef drwyddi o hyd. Nid theimlai byth yn unig.

Dyna pam yr ymhyfyrdasai gymaint mewn ar-ei-ben-ei-hunrwydd. Nid unigedd go iawn oedd y peth. Ciliai'n awr i'w wely. Câl gyfle, felly, i ddiolch, i synnu, i delori, heb ymyrraeth neb — na ffôn, na churiad ar y drws, na llythyr. Dyma le delfrydol. A'r pryd hynny mewn rhyw ust difesur o dywyll y profai'r gollyngdod melys yn rym presennol. Roedd yn garthen na allai namyn gorffwys yn ddiolchgar ynddi ac odani ac arni a phrofi'i chlosni digosi.

Doedd dim angen ofni dod i Awstralia. Câl'r ysbrydol hyd yn oed yma.

Felly yr ymlusgai'r myfyrdodau o gwmpas ei benglog. A'r diolch a'r pryfetach. Tua hanner awr wedi anhygoel-ddau yn y bore, ychydig wedyn, anesmwythai ei wallt yn reddfol. Dechreuai'r bore oleuo'n annhymig. Dyma Hwn yn dod, yn ei ystafell lwyd, eithr â golau gwamal, pytiog. Yna, wele, ar hyd coridorau'r noson honno, clywai fflangellu araf. Drwy weddillion ei gwsg yr âi, fel pe bai'r awel ei hun yn dioddef cosb. Wedyn, yn ddisymwth o'i amgylch aroglai'r mwg. Sawr sur. Sêr sych. Ceisiai hepian eto. A lled-freuddwydiai.

Dihunodd yn llawn. Ie, mwg. Sylweddolodd pwy oedd ar gerdded.

Tân. Tân yn y goedwig y tu allan. Tân yn cynhyrchu tân ac yn carthu'r tawelwch.

Gwaeddai o'i wely, 'Helen!' Cododd ef. 'Helen! Tân!'

Rhedai allan i'r feranda. Syllai i gyfeiriad y fflamau. Canfyddai'r rheini'n rhuddo'r wybren o'r tu ôl i'r coed agosaf. Rhedai i'r ochr arall wedyn. Ceisiai sicrhau mai o un cyfeiriad yn unig y dôl'r bygythiad. Erbyn hynny roedd Helen wedi taro gŵn sidan o'i chwmpas ei hun. Ymfwriai i'w chadair olwynion. Ymlwybro'n chwim allan i'r feranda.

‘Ydy hyn yn beryg?’ gofynnai Len.

‘Gall fod.’

‘Pa fath o beryg? Gwell inni adael y tŷ?’

‘Mae’n edrych fel pe bai wedi ymledu eisoes. Mae’n dod i’r cyfeiriad yma’n gyflym.’

Dyma mae’n debyg y *guyubuyunya* ys dywed y brodorion. ‘Amser y mwg’, y cyfnod yn y flwyddyn pryd y mae’r ddaear yn cicio’n ôl drwy chwynnu’r tir uwchben, gan docio yn ôl y galw ar y gordwf. Allan o’r lludw cynnes hwn y tarddai ffenics newydd y glesni coch wedi’i adfer, gan hedfan uchod o’u hamgylch a chan roi egni i’r awyr nes i *guyubuyunya* arall ymhen hir a hwyr ddychwelyd a’i flaendorri o’r newydd.

‘Beth am y lleill?’

‘Mi ffonia-i,’ meddai hi. Diflannai’n ôl ar ei holwynion i grombil y tŷ. Dychwelai hi’n fuan. ‘Allwn ni byth aros fan hyn.’

Trôi hi’i chadair allan i’r feranda. Cynigiai Len i’w helpu. Ond ceisiai hi hyd yn oed ar adeg o argyfwng fel hyn fod yn annibynnol.

Gyda chryn anhawster baglai ef â hi i lawr yr esgynfa o’r feranda. Roedd yn ei lled gario a lled hercian gyda’i chadair yr un pryd a hithau’n gweiddi cyfarwyddiadau cwta.

‘Na. Nid ffordd ’na. Tro. Ffordd hyn, y ffŵl,’ poerai hi. ‘Os oes modd yn y byd, y ffordd orau fyddai ar hyd y lôn bridd i’r gogledd. Hynny yw o safbwynt gwthio’r cerbyd cythreulig yma. Mae yna agorfa yn y coed ymhen hanner milltir. Ond efallai’i bod hi’n rhy hwyr.’

Gwthiai ef i’r cyfeiriad a arwyddai hi. Nis holai ymhellach. Ni allai ef lai na theimlo’i bod hi’n grac am mai ef oedd yn llywio’r gadair; ond doedd fawr o ddewis.

Yr oedd rhai blodau tân eisoes wedi lledu’u pail i’r gwellt sych ar bwys, petalau mân wedi’u chwythu gan yr awel er nad oedd llawer o’r llwyni na’r coed wedi cydio yn yr hen beth eto. Mentrai ef i’r goedwig ymhellach gan redeg-wthio’r gadair. Bwriai saeth-weddi yr un pryd tuag at y mwg uwchben. Gallai weld yno ambell goeden unigol hwnt ac yma ar dân. Yna trôi gornel. Yn y fan yna, yr Arswyd, wele’r fflamau ar gylchoedd euraid yn rhuthro droelli i bob ochr. Rhaid bod rhywun cryfach nag ef yn eu gwthio.

Chwythai’u llid drwy gorff y diriogaeth. Chwythai ar hyd y gwythiennau drwy’r chwarennau, yn ddilyffethair dros y cyhyrau. Swingiai ambell fflam fel arth koala o gangen i gangen, yn llawen ddiog yn afiaith ei symudiad. Sgrechai peunod o fflaglau eraill ar geinciau



diwair ymhellach ymlaen. Bwrstiai'r cwbl yn ardd lachar. Syrthiai aroglau chwydlyd ar y blodau poeth hyn wrth iddynt wasgaru'u pail hael tuag at y lleuad swil. Pwy oedd wedi trefnu'r fath arddangosfa ddi-chwaeth? Codai tuag at ei ffroenau ryw fath o laeth-y-gaseg digrif ei fysedd tanllyd, ysgydwai'r lilïod eu gyddfau cnawdol, crynai'r saffrwm o fraw. Gardd Uffern. Wedyn am ychydig o eiliadau, teimlai chwa o betruster, nid o oerni, ond o ymatal yn yr awyr. Dyma'r egwyl, y lled ysbaid o gallio rhag holl ormodiaith y tân.

Yn awr, ynyswyr unig oedden nhw ill dau, Len a Helen. Fe'u collid hwy yno o fewn llyn y llogfa liwgar. Roedden nhw fel gwenyn mewn tiwlip coch. Roedd y petalau synhwyrus anferth o'u deutu yn eu hamgáu yn feddwod. Cuddid hwy rhag yr wybren. Ymledai'r cochni bellach ei chwyn oll: imperialwyr chwim ym myd planhigion yw chwyn.

'Fy nodiadau ... O'r argian y nodiadau ar yr Ocwlt!' gwaeddai Helen yn sydyn. Roedd y sylweddoliad a'r dychryn o effaith y tân ar ei thipyn ymchwiliadau esoterig, newydd wawrio arni. Ebychai'i siom yn ddifeddl, ac edifarhau yn syth.

'A-i i'w nôl nhw,' meddai Len.

'Na.'

'Gwnaf.'

'Dŷn nhw'n ddim ...'

'Ydyn,' gwaeddai ef gan ei gadael am y tro. Gwibio'n ôl tua'r tŷ. Clywai lais gwichlyd Helen fel rhaff yn ei dynnu'n ôl yn aflwyddiannus.

Erbyn hyn, roedd y tŷ'n fflam i gyd. Plymio i mewn. Nofio drwy'r ffyrnigrwydd cythreulig. Codi'i ben i anadlu, ac yna blymio'n ôl drachefn. Clywai'r llais eiddil yn galw galw o hyd o'r lan. Rhuthrai tonnau'r pentewynion o'i ddeutu yn y fan, gan daflu'r ewyn clwyfedig o gylch ei glustiau. Sgrechai'r fflamau yn gnawdol ynghyd â'r llais gwanllyd, 'Dowch ... yn ôl.'

Doedd dim modd bellach dreiddio i mewn i hen swyddfa Helen. Chwibanai'r waliau wrth iddynt chwifio o'i gwmpas yno. Roedd hi'n galw'n ofer drwy'i feddwl. Allai dim nodiadau fyw mewn llogfynydd o'r fath. Roedd e'n tagu. Byddai braidd yn goeg pe bai'n dwyn ei yrfa i ben drwy geisio arbed nodiadau ar yr Ocwlt. Cloffai rhwng dau feddwl: fel Cristion, gwiw fyddai iddo weld yr Ocwlt oll yn cael ei rostio'n dostyn wrth gwrs: fel ysgolhaig, moesyngrymai i'r wybodaeth hurt amdano. Ac fel cyfaill i hon...wel! Doedd dim amdani, dim ond gwneud ei orau glas yn awr i fforio rhyw lwybr yn ôl yn waglaw tua'r llais. Ond sut? Pwy a'i cariai'n ôl i ddiymadferthedd Helen? Rhaid fyddai ymbalfalu'n ddiymdroi

yn awr os o gwbl. Yn ôl. Doedd dim eiliad i'w cholli yn y llogfa.

Ond roedd y tân wedi drysu'r map. Nid y coed a adawsai oedd y coed y ddi'n ôl drwyddynt. Ni wyddai ymhle'r oedd hi. Trôl y ffordd yma a'r ffordd arall i'w cheisio. Ble'r oedd hi? 'Helen!' A oedd y tân wedi'i chamgymryd hi am un o'r prennau? 'Helen!' sgrechai. Hawdd oedd i hyd yn oed fflamau ddrysu a mynd ar goll yn y fath gyffro cymysglyd.

Dychrynai o feddwl ei fod wedi'i gadael fel yna, wedi rhedeg ar ôl dalennau papur megis glöynnod byw yn y gwynt â rhwyd ei freuddwydion, a gadael ei chorff bychan bregus hi i'w ysu gan y llogfa wallgof. 'Helen! Helen! Mechan i!' Rhedai'n wyllt fel tân. Ble gallai hi fod? Sut? Ai yn addoli'r fflamau? Pam roedd ef wedi gwneud hyn? Ai i'w ddangos ei hun? Ai rhyw stynt arwrol fu llamu'n ôl i'r fflamau fel yna? Fe a'i syrzas hurt! 'Helen!' Beth bynnag oedd y rheswm roedd yn drosedd erchyll na allai faddau iddo'i hun amdani. 'Helen!'

Dacw hi. Acw. Ie. Llwyddodd i'w chyrraedd ynghynt nag y disgwyliasai. Hi oedd wedi symud daearyddiaeth ei chadair mae'n rhaid. Roedd ef yn ôl gyda hi yn ddisymwth. Dyma hi mewn sydynrwydd diolchgar yn chwerrhin o'i flaen. Chwarddent ill dau. 'Helen, dych chi'n iawn ... yn iawn, yn iawn y gwirionyn?'

'Nid dyma'r amser i holi am iechyd...' Roedd hi'n chwerrhin yn nerfus bron. Roedd hi fel pe bai am ffrio padellaid o ddigrifwch ar y fflamau. '...Nac am dywydd.'

Nid enynfa oedd y tân hwn bellach, ond greddf noeth, heb feddwl, heb hydeimledd. Greddf ffaidd a threisiol. Ysgubai hwnnw yn ei flaen yn awr yn noeth o'u deutu fel afon lafa mewn llif. Gwaed, trobyllau sgarlad, stwr rhuddfron, cig dannedd cochlyd, un hyrddiant o gydblethu dall, ciaidd, noeth. Nesâi tonnau'r fflamau atynt ar dro. Codent yn ymchwyddgar ac yna cilio drachefn am ychydig o eiliadau. Taflent eu hewyn brigog gwaedlyd yn ôl ar draws traethau'r tyfiant. Yn ddisyfyd dyma nhw'n tasgu ar eu traws, wedi ymddangos o'r nen fel tric yn swn y syrzas. Hyrddient eu llanw hurt-annioddefol ar bwys y ddeuddyn. Allan o goluddion ofn bwrient eu hysgeintion poeth noeth. Roedden nhw mewn byd arall. Gerbron y dylifo llawn a meddal hwn teimlai'r boncyffion a oedd yn weddill oddi amgylch yn gwbl anystwyth, yn llai byw, yn drwsogl o drwm. Crwydrai a chripiari'r cochni dierth llysnafeddog yn farus-ddylifol o'u cwmpas. Boddai bob dim.

'Allwn ei gwneud hi tybed?' holai ef.

'Gallwn,' meddai hi'n ddirmygus ond yn ddihyder. A chwarddai hi eto yn goeg. 'Na

allwn.’

Llifai’r hylif dân yn noeth nawr o gylch rhisgl y boncyffion. Gosodai wefusau coch yn galed ar y ceinciau, taflu breichiau rhudd annidwyll fel rhai golchwraig am y dail, torri calon yr wybren, lluchio gwreichion fel conffeti uffernol ar draws y düwch yn y cefndir fel pe bai mewn priodas anferth rhwng arswyd a’r ddaear. Doedd dim ymatal ar angerdd hyn o dân. Roedd hwnnw am feddiannu popeth yn imperialaidd, am dynnu popeth i’w galon sgarlad ar lun cyfandir. Doedd dim math o hunanddisgyblaeth na dim cynildeb ynddo. Roedd yno yn un yn ei ddigywilydd-dra porcyn, yn fflawtio’i noethni gerbron y ddaear. Cyfathrachai’r tân yn awr â’r awyr dew. Estyn ei enau’n fasweddus at goed. Estyn at yr wybren, at y ddau bychan a geisiai ddihangfa, at bawb a phopeth yn annethol.

Chwarddai Helen, yn orffwyll ei llygaid. Roedd hi mewn twnnel tân o hyd.

Llew danheddog rhuadwy oedd y tân hwn. Rhuai’i ddiffyg amynedd bob munud, ac agor gên farus tuag at y pâr llipa. Cripian ar hyd y llawr rhwng asbri’r dail tuag atynt. Rhuo a siglo’i fwng. Clywai Len aroglau wrin ar y tyfiant yn y fan yna, ac ar gluniau’r coed. Rhedai’r fflamau melyn gwastraff drwy gwteri’r goedwig gan oleuo tywyllwch masweddus y goedwig.

‘Gwell inni ildio,’ cynigiai Len, ‘a chilio. Cilio nawr.’

‘Ie, trowch yn ôl,’ bodlonai hi yn groes i’r graen, ‘yn glau, y lembo.’

Ond roedd hyd yn oed hynny’n anodd bellach. Roedd rhai coed yn wenfflam filain ar ochr y ffordd ar eu pwys nawr ac yn adeiladu tyrau melyngoch bygythiol ar hyd yr ymylon.

‘Rhedwch te,’ gwaeddai hi. ‘Rhedwch.’ A dechreuai ef ei gwthio’n gyflym yn ôl. ‘Na,’ taerai hi, ‘Hebdo i, rhedwch y ffwl, er mwyn i un ohonon-ni ddod allan rywsut.’

‘Ond bydd neb i wneud y te wedyn,’ meddai fe.

‘Rhedwch y gwirionyn penwan. Gadewch fi fan hyn.’

‘Bydda-i’n colli fy ffordd.’

‘O ddifri’r ffwl.’

‘O ddifri — dyna ydw-i bob sill. Dwi’n ormod o ddifri, credwch chi fi, i fod yn bregethwr cyrddau mawr.’

‘Does dim amser i oedi, te, y llorpyn. Heglwch hi, er mwyn dyn.’

Nid atebai ef. Gwthio’r gadair nerth ei sodlau, bron fel pe bai’n ddall. Prin bod yna unman yn awr heb y presenoldeb coch. Gwamal oedd ambell gynnu. Chwifiai’n falch; jolihotian, taro cis chwareus ar ambell frigyn, ac yna ambell ddifrifoli.

Gan amlaf, angerdd oedd ar waith. Ni adawai le i neb arall. Dinoethai eneidiau'r dail hyd at ddirdyniad. Cydiai ym mreichiau blonegog y goeden agosaf. Fe'i tynnai'n chwyrn ato a gwneud ei gartref. Roedd y tân oll bellach yn ei ddangos ei hun.

Tybiasai Len erioed er pan oedd yn blentyn fod yna burdeb meddiannol mewn tân. Tân yn anad dim a garthai lygredd o fetelau cymysglyd y llawr. Tân yn benodol a allai ymward â germau mewn bwyd amheus. Ai dyna swyddogaeth y tân hwn iddynt heddiw? Tân a thân yn unig a ddiennyddiai ffeidd-dra. Ond llygredig oedd y tân agos hwn ei hun, ynddo'i hun, nawr, beth bynnag am ei effeithiau brwnt. Roedd yr holl oes yn ei distrywio'i hun ynddo, trais plant, erthyladau, elw niwclear, cyffuriau, llygredd cyfleus, ysgariadau, celwyddau gwleidyddion, gwyrddroadau rhywiol gydag anifeiliaid, godineb, tywalltent oll fel lafa. Yn un tân anferth difaol, yma.

'I beth y bu'r holl aberth losgedig hon?' holai Len yn dawel ynddo'i hun.

'Ai fel hyn y bydd eich tân uffern chi?' gwaeddai'i gymdeithes yn uchel.

'Fysech chi'n hoffi gwybod?'

'Na fyswn.'

Llwyddodd ef i'w chael yn ôl i'r agorfa ar bwys y tŷ. Ond gallent ganfod bod y tân wedi chwythu yn awr i'r ochr ddwyreiniol.

'Amaturaidd yw cymaint â hyn o uffern, drwy drugaredd,' meddai Len.

'Clywch,' meddai hi. 'Does gynnon ni ddim amser i drafodaeth ddiwinyddol.'

'Coeliwch chi fi,' meddai fe. 'Dyna'r unig amser sy ar ôl, bob amser.'

'Anelu am y pwll, dyna'r cwbl sy'n aros i fi nawr.'

'Ffordd yma? Dihangfa?'

'Ie nawr.'

'Beth yw'r pwll?'

'Rhan o'r ffynnon Artesaidd, a gobeithio bod digon o ddŵr ar ôl 'na. Mae digon o bellter rhwng ei chanol a'r coed.' Stopiodd ei llifeiriant geiriol am ychydig o eiliadau. Doedd hi ddim am ildio i'w gwendid, a phoerodd y geiriau nesaf yn erbyn ei hewylllys. 'Codwch fi ar eich cefn. Gadewch y gadair. Nawr!'

Ufuddhaodd ef heb feddwl. Roedd hi'n gwrthryfela'n fenywaidd. Gadawsant y gadair-olwynion. 'Rhedwch,' gwaeddai hi. Glynai hi amdano. Rhedai ef tua'r gogledd-orllewin yn ôl ei harwyddion. Trôl ei ben wedyn tuag yn ôl am eiliad. Roedd y fan lle y newydd ddaethai allan o'r goedwig ar hyd y ffordd bridd yn belen lacharluchgar dan do

bellach. Roedd y gadair olwynion yn poeri pentewynion. Disgynnai llen derfynol ar draws y llwyfan gogleddol. Llen.

‘Mae’r act ’na drosodd,’ meddai Len ond heb ollyngdod.

Clymai hi fel neidr yn fechan roliog am ei wddf.

‘Ble mae hi te? Y ffynnon?’ gwaeddai ef uwchlaw’r clepian a’r bytheirio awelog.

‘I’r chwith.’

Rhedai’n ddall yn ei flaen. Cwypai. Ceisio codi. Nis gallai, yr oedd yn rhy wan erbyn hyn. Baglai. Gorweddaid Helen ar y llawr yn gyffro tlawd.

‘Ryw ddau ganllath a hanner arall drwy’r coed,’ meddai hi. ‘Ffordd acw. Cerwch chi..’

Codai ef yn llafurus. Roedd ei aelodau’n symud yn bŵl. Meddiannai gwylltineb ei dalcen. Goleuid wynebaw’r ddau gan y gwawrio diweddol yma. Cydiai ef ynnddi, a cheisiai ei chodi o’r newydd. Roedd hi fel mynydd. Nis gallai. Tynnai ef y mynydd ar hyd y llawr.

‘Draw fan ’na,’ meddai hi. ‘Rhedwch.’

(Gartref yn Sydney, clywsai Maxine a Mair eitem fer ar y newyddion am y tân, gyda rhyw fwrw-amcan, uchelgeisiol o anfanwl, ynghylch y lleoliad. Ond digon oedd yr awgrym i Maxine fagu fflyd o ddychmygion. Fflachiai delweddu o Len a Helen o flaen ei threm. Gallai rithio’r ddeuddyn mewn perygl yn awr, gan wybod mai ffoi y bydden nhw o flaen pedolau’r fflamau carlam. Llenwid y ddwy â phryder. Beth oedd Len yn ei wneud? Rhaid bod Len rywsut yn gorfod cynorthwyo Helen i ddianc rhag enbydrwydd gorffwyll. Ond sut? Hunllef iddynt oedd synied am y peth.)

Agoshâi Len a Helen ar y pryd at y llyn bach. Roedd y tân yn cyfarth yn helgwn o’u deutu. Neidiai’n nesnes o hyd bob eiliad y tu ôl iddynt, wrth eu sodlau yn cipial, yn hewian. Roedd Len ei hun wedi blino yn siwps. Yn allanol, cyflymu gyffroi yr oedd ef o hyd. Ei wyneb, ei ystumiau, syflent drwy’r amser. Ond o ran sylwedd doedd fawr o nerth. Baglai eto. Doedd fawr o lwyddiant ar ôl yn y dasg lesig o dynnu. Ffroth, ffroth i gyd. Gweithiai tuag at uchafbwynt, hyrddiai’n ddiymollwng, tuchai. Gafaelai. Ond roedd y cynnwys yn gwbl ddiymadferth denau. Ni allai gyrraedd y pwynt. Arhosai’r llyn a’r dyfroedd blinedig y tu hwnt iddo. Arhosai hwnnw acw’n lluddedig dan y mwg. Aethai Len y tu hwnt i anterth ei ymdrech. Gorwedd yn ôl yn ollyngedig yn awr oedd ei unig hiraeth. Ond mynnai’r fflamau

iddo ddal ati. Rhaid oedd iddo dynnu. Tynnai ef Helen felly, tynnai'i hysgwydd, ei gwallt, ei phenelin, tynnai yn wylltach, heb rym. Gafaelai ef ynddi fel pe bai'n ddarn o glwtyn. Llusgai hi. Gwthiai hi. A gâi ef orffwys? Rholiai hi. Pwnio. Tyfino. Peth oedd hi. 'Peidiwch,' gwaeddai hi'n llym. 'Peidiwch,' sgrechai wedyn. Doedd hi'n ddim ond talp o fater. Ac roedd ef ei hun yn cael ei lusgo ynddi, yn cael ei wthio, ei rollo ynddi. Syrthiai ef eto, ac yna ailymaflyd yn ei sypyn. Twmblent yn eu blaen, yn ffyliaid trist, yn gleifion hurt, yn ynyfydion bendramwnwgl. Yn ôl felly, yn ôl, ymlaen tuag at y dŵr. Baglent dros bopeth ond synnwyr.

Cyrraedd y pwll. Ymdaflai Len â'i faich chwap i'r hylif hael. Padlan allan i'r canol. Doedd e ddim yn ddwfn allan yn y fan yna, ond roedd lled y pwll yn fwy nag a ddisgwylasai Len. Llyn ydoedd, tebyg i Lyn Llygad Piblig. Ymwithiai ymhellach allan yn nes i'r canol tan dynnu Helen gerfydd ei gwar.

'Eisteddwn fan hyn,' meddai yn y man. Nid atebai hi. Tybiai ef ei bod wedi colli'i hanadl.

'Eistedd, ie a myfyrio. Dyna sy orau. Cewch chi baratoi pregeth i fi os liciwch chi,' meddai hi'n chwerw, 'am brydferthwch y Cread. Am ewyllys Duw. A chaf innau wylled y syrcas. Dyna fy *forte* i. Y clowniau cochdrwyn a'r eliffantod oren real ... Syrcas yw 'ngwirionedd i.' Roedd hi'n poeri ato eto.

'Fydd hi'n ddiogel fan hyn?' holai ef. Nid atebai hi. Roedd hi'n malu mul. 'Gallwn bob amser ofyn i'r llyncwyr tân yn eich syrcas i estyn help llaw,' meddai Len. 'Hyd yn oed os cân-nhw ddiffyg traul.' Daliai hi'n dawedog, yn bwdlyd felly. Roedd hi'n ôl yn y tân, a Len yn ei rholio hi. 'Ond mae'r brigau llosg 'ma'n chwythu'n bur agos,' meddai fe. 'Y rheina draw 'fan 'na. Ydy hi'n saff fan hyn? Fan hyn byddwn ni'n awr, am sbel ... A!' anadlai ef mewn gollyngdod o'r diwedd. Caeai ef ei feddwl rhag Helen. Roedd hi'n ôl yn y tŷ ffarm, yn y swyddfa, yn cael ei rhuddo gan ddychymyg. Gorweddai ef yn ôl ar y dŵr i syllu ar ei synhwyrâu'i hun yn y distryw anferth. Roedd pwer y goddaith rywsut mor fawrhydig hael. Dylifai'r tanllwyth o dyrs anllad gydag ysblander godidog i'w hamgylchu yn y pwll. 'On'd yw e'n anweddus o hardd?' meddai ef o'r diwedd mewn ysbaid o syndod. Nid atebodd Helen. Roedd hi'n dal yn y tân. Roedd hi'n rholio yno. A bodlonai Len ar ei mudandod. Tybiai ei bod wedi ymlâdd.

Yna, ar draws eu diffyg cyfathrebu, sythai Helen. Rhewai yn y gwres. 'Yr urddas,' murmurai hi mewn rhyfeddod o dan ei hanadl er ei gwaethaf ei hun, a'r sefyllfa'n trechu'i phwd. 'Yr ymffrost mawreddog ym mhob man. Creulon hefyd dw i'n ei weld e, creulon i'r

coed ... er ... mae angen eu chwynnu ...' Codai ei llais. Ond yr urddas. 'On'd yw synnwyr cyffredin yn greulon? A'r awdurdod creulon sy yn y tân, 'drychwch, a'r rhwysg, fel byddin drahaus anllythrennog.' Roedd y rhyfeddod yn drech na'i siom a'i surni creulon oll.

'Ie, byddin goch,' meddai Len yn araf. 'Gorymdaith, dyna yw hi. Glywsoch hi'n canu.'

'Gorymdaith o ysbrydion urddasol,' meddai Helen; a chiliodd yn ei hôl i'w mul.

Amdanyn nhw yn y pwll bellach fe blethai'r elfennau o hyd — daear, awyr, dŵr, a'r anrhydeddusaf ohonyn nhw oll — tân. Tân, — ffynnon goleuni, y canolbwynt caredig ar aelwyd y gaeaf, yr un sy'n cysuro wrth ladd, y gosb eithaf. Y diwedd. Yr un sy'n siapiro'r ddaear. Y pedair elfen danllyd hyn.

Dawnsient y naill ar ôl y llall o hyd o gylch ymennydd Len: 'Ond O! Arglwydd, mae'n ardderchog hefyd. Y lafa, y brwmstan, y pentewynion brwd,' murmurai ef fel pe bai ar ei ben ei hun. 'Pe baen ni'n cael ein llosgi'n lân gan hyn y tu mewn, pe baen ni'n gallu gadael i ni'n hun gael ein dal gan hyn, ... y fath lendid! Y fath ddaioni! Ac eto, Och! Arglwydd, y creulondeb,' ebychai'n ddiymadferth, gan ysgwyd ei ben mewn rhyfeddod iselfryd. 'A'r fath gyfiawnder.'

Nid atebai Helen ddim. Suddasai hi'n ôl i'w phwd. Roedd hi'n ôl yn cael ei thyliino yn y tân. Roedd hyn yn hunllef iddi.

Roedd y ddau ar wahân ac ar eu pennau'u hunain, ac mewn math o sioc.

Roedd yna wynt cryfach yn codi erbyn hyn. A suddai hi i'w mul o'r newydd.

Ymgynullasai'r gwynt fel sgrwm yn erbyn y fflamau, a blaenwyr cyhyrog ei res flaen yn rhwbio'u bochau blewog a'u penglogau'n galed yn erbyn clustiau'r tân arall, yr un mewnol, wrth wthio, gwthio er mwyn eu pryfocio, a'u hysgwyddau'n turio ac yn tanseilio'r un pryd y cyrff gwrthwynebol mor benderfynol ag y gellid, gyda'r asgellwr llac yn barod i ruthro drwodd cyn gynted ag y llwyddai bôn y sgarmes i wasgu'r gelyn ddigon.

Roedd meddwl Len yn y dŵr, a hithau yn y tân. Ef yn awr yn ei feddwl a fu'n ymwithio ar drywydd y bêl. Ef, y gweinidog methodig, gwirion yn awr a eisteddai yn wlyb ger y tân cras ar ei aelwyd ddychmygol gartref wedi'r amser a neilltuwyd ar gyfer anafiadau a gwylio'r fflamau'n chwipio'i euogrwydd a'i ffolineb i fyny'r simnai wrth ymadael â'r maes. Yn dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais, ac y gwneuthum y drwg hwn yn dy olwg.

Dwi wedi colli'r goleuni ifanc, meddyliai, a fu unwaith yn wadnau i'm traed. Nid oherwydd un weithred wirion, ond oherwydd holl weithredoedd gwirion y ddaear a'm

gweithredoedd i fy hun. Yr hyn sy'n fy maglu i yw gwallgofrwydd fy nghymhellion beunyddiol aml. Syllai ar Helen (yn ei mul yr eisteddai hithau yno o hyd) ac yn sydyn dychmygai ef hefyd, yn ei ddychryn, y Maxine anweledig. Beth a wnaethai honno yma pe bai'i hurddas hardd hi wedi dod gyda nhw hefyd? Y tân hwn fu'r guyubuyunya yn ei fyfyrion ef. A olygai y byddai 'na flew glas ffres yn taenu dan ei draed ef bellach o'r newydd?

Roedd ei feddyliau'i hun oll mewn pendro. Yr un pryd hwnnw ag yr oedd Maxine gartref yn breuddwydio amdano ef, dyna ef fan yma yn ei dychmygu hi. Rhyfedd fel y daethai Maxine mor ganolog i'w fywyd ers tipyn bellach. Roedd hi'n rhan hanfodol o'i ddelweddu chwil, hyd yn oed fan yma. Symudai plasty'i chorff yn rheiol drwy'r drws ato megis dan gyfres drefnedig o ddaeargrynfeydd. Ceisiai ef ei dwtio a'i dacluso'i hun o flaen drych ei dyheadau hi. Aberthau Duw ydynt ysbryd drylliedig: calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi. Gwgai Len arno'i hun. Yna, chwarddai mor drylwyr ymroddedig â phibell bath, yng nghanol y pwll. Pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti i ymweled ag ef? Ef, y gweinidog ffug di-barch, a'i dipyn balchder clwtyn. Ef a'i angof anferth am bresenoldeb yr Un glân. Ef a'i syniadau pothellog bach ei hun am bopeth. Ei chwantau. A'i draha. Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llwch ydym.

Mor llonydd oedd y pwll bas hwn yn awr — fel Llyn Llygad Piblig. Roedd y tân wedi peidio bellach yng ngŵydd y dŵr. Arhosai'r ddau yn llonydd yn y pwll bach fel lluniau mewn albwm. Roedd distawrwydd yn eu toi, fan yna yng nghanol y cythrwfl i gyd. Ef a Helen. Ef a Maxine.

A'r fan yna yn y dŵr ynghanol yr awyr wresog drom fyglyd y buon nhw ill dau felly am ddwy awr, fan yna am ddwy awr a hanner, fan yna yn glynu wrth ddiogelwch wyneb y dŵr nes bod y goedwig o'u cwmpas yn lludw brongoch myglyd ond cywrain farw am dair awr gron. Roedd y ddau yn syfrdan mewn dŵr.

Roedd y tân wedi blino. Roedd wedi ymlâdd. Gorffwysai ar ei gefn, gan geisio chwythu'i anadl o'r newydd, ond mor seithug. Yn ofer. Roedd wedi bwrw'i holl nerth. Tagai. Breuddwydiai.

Ychydig ynghynt roedd Len wedi dychmygu iddo ganfod ffigurau'n dawnsio yn y fflamau, a'r fflamau'n dawnsio yn y ffigurau, wynebau fel a gaed ym mhaentiadau Dürer, cythreuliaid y fall, yn dawnsio, dawnsio. Bellach, yr oeddent oll ar eu gorwedd, hwythau wedi ymlâdd, yn rholio yn eu chwys eu hun ac yn llesg. Roedd y tân wedi ymlâdd, ac yn



gorwedd dan flanced y ddaear wedi chwythu'i blwc.

'Mae popeth yn bwrw'i blwc, mae hyd yn oed hi wedi mynd, wedi ymadael,' meddai Len fel pe bai rhyw ddiawles anghyfiaith wedi ymweld â hwy, ac yn sydyn wedi cilio. Nid atebodd Helen. 'Wedi ymadael. Dowch,' meddai ef eto mor falch i weld y farwolaeth fythol dawel hon y tu ôl i'r lloggi, 'fe'ch caria-i chi yn ôl i'r tŷ os oes yna beth ohono ar ôl.' Nid atebai hi. 'Yn ôl â ni i fyd y byw,' meddai ef eto. Trwm o dawedog oedd hi. 'Os oes 'na fyd neu fyw yn trafferthu i aros ar ôl,' meddai ef. Llusgodd ef hi allan o'r dŵr gwaredigol. Roedd Helen yn wlyb o drwm nawr ac yn gyndyn anfodlon. Sylweddolai ef ei henaint ei hun fan hyn. Roedd hynny wrth gwrs yn amlwg; eto, doedd e ddim wedi synied ynghynt gymaint o lwyth fysai hon. Rhaid bod hir a mynych eistedd ei chyflwr o fis i fis wedi rhoi tipyn o bwysau arni. Druan, yr un y bu'n ei chario fel anadl ychydig ynghynt.

Er iddynt gael cryn amser yn y pwll i fwrw'u lludded roedd y ddau yn eithafol o flinedig fel pe na chawsent eu gollwng tan y funud hon. Pan ddôi'r cyfle bellach i ymlusgo allan, felly, roedd yr ymdrech atodol hon yn straen ychwanegol. Ni wyddai Len sut roedd crynhoi digon o egni. Tynnai ef hi fesul ychydig o fodfeddi, bob tro, allan.

Ni syflai hi ohoni'i hun. Nid oeddent wedi siarad odid ddim yn y pwll. A thawedog nawr oedd hi rhyngddynt o hyd. Roedd hi yn ei phwd fel draenog. Cyrraedd y lan. Tynnu ychydig ymhellach. Yna, ei gollwng hi. A'i ollwng ef ei hun. Gorweddaï ef ar ei hyd ar ei gefn yn ymyl y pwll ar ddarn o bridd agored ger lludw olaf y tân. Cuddient eu hwynebau yn y ddaear.

Felly y buont am chwarter awr arall, am ugain munud, heb yr un ohonynt yn yngan cocosen. Ni allai Len feddwl. Roedd y corddi hwnnw yn ei arleisiau yn waed, heb feddwl. Roedd y ddau wedi ymlâdd, nid oherwydd blinder cyhyrog ond oherwydd tynnu un nerf a fuasai'n rhanedig gan y naill a'r llall. Gorweddaï'r ddau ar y llawr yn eu lludded, yn wlyb ddiferol. Nythodd Len ei ben yn y ddaear dwym. Gadawai i'w feddyliau fel nerfau lithro hwnt ac yma'n annelwig, heb ddisgyblaeth, ond yn arafach. Teimlai'r bodlonrwydd pennaf am ei fod yn sylweddoli iddo rywsut achub bywyd Helen. Yn sydyn, clywai lais ysgafn a thawel feddal fel ewig. Hi a fynnai dorri'r tawelwch. Roedd ei meddwl hi'n ôl yn y tân. 'Mi wnaethoch chi gyffwrdd â fi yn y goedwig.' Troes yntau yno yn Oes Iâ ar y gair. Dirgrynodd. Beth ddwedodd hi?

Beth oedd hyn eto? Ai byw mewn hunllef o fywyd oedd ei ran? Ai hi mewn gwirionedd a siaradai? Ei gyhuddo roedd hon fel y bechgyn yna, fel y nef i gyd. Fel ef ei

hun.

‘Chi! Buoch chi wrthi’n cyffwrdd â fi yn y tân,’ yn dawel feddal o hyd.

Parlyswyd ef. Cododd ei gefn a syllai’n anghrediniol arni. Yr uffernol fythol-bresennol ugeinfed ganrif yma. Beth oedd yn bod arni?

‘Do,’ sibrydai hi fel ewyn drachefn. ‘Ceisioch chi gyffwrdd â fi.’

‘Helen, beth rych chi’n ddweud?’

‘Rown i’n gwybod amdanoch chi. Ces i rybudd.’ Nid atebodd ef.

Nid atebai hithau. Roedd ei llygaid yn ddarnau alwminiwm ar domen sbwriel. Roedd Len wedi’i dagu. Ni allai dorri sill. Troes ef ati mewn mudandod. ‘Alla-i byth edrych arnoch chi yr un fath eto,’ meddai hi ymhellach. ‘Doedd dim angen yr holl rolío ’na, yr holl dylino.’ Cododd cymaint o boen yn stumog Len fel na wyddai sut y gallai bywyd fynd yn ei flaen. ‘Oedd rhaid ichi ddod yr holl ffordd i Awstralia i wneud hyn?’ meddai hi’n oer. ‘Mae’r peth yn ffaidd. A pham? Pwy ydw i? Beth? O ran cnawd dwi’n wrthun ac yn ddi-werth, yn wastraff.’

Roedd ef yn cael ei gladdu ganddi. Roedd anghrediniaeth a braw ac anneall a syndod yn blith-draphlith gyda chywilydd ac euogrwydd a dicter drwy’i fodolaeth.

‘A chithau o bawb,’ âi hi ymlaen, ‘yn manteisio arna-i. Arna i o bawb. Mae’r peth yn anhygoel.’

Roedd ei geiriau fel tân rhewllyd arall. Llosgent o’i ddeutu, yn gryf os yn ddistaw oeraidd, cydient yn ei wddf, yn ei ysgwyddau. Neidiai o un aelod i’r llall. Ysai. Dihunai fwyfwy dan y flanced awyr.

‘Rown i wedi clywed amdanoch chi. Ond hyn! Pam?’

Rhyfedd o sefyllfa. Yr hyn y dylen nhw ill dau fod yn meddwl amdani y foment honno oedd y waredigaeth, y tân a fethasai â’u concro hwy, y ffaith ei fod wedi’i hachub hi, iddynt ill dau gaffael eu bywydau. Ond yn awr, fan yma, yn rhydd ac yn iach, nid hynny, ond y peth annheilwng a thila hwn. Y dychymyg. Yr ugeinfed ganrif wedi’u dilyn hwy o dan y pentewynion oll.

‘Rown i wedi clywed,’ dywedodd hi eto fel fflamio oer, fel barn. ‘Ond pam hyn? Roedd y weithred mor bitw, mor llipa, mor isradd. Cyffwrdd. A chi, dyn yn eich safle chi, yn eich oed a’ch amser. Beth sy arnoch chi ddyn?’

Syllodd ef i’r awyr mewn anneall.

‘Pam?’ sgrechodd hi’n wyllt. ‘Pam? Roedd yn weithred mor anaeddfed, fel y

ffilmiau 'na sy'n methu â thrafod perthynas, dim ond darnau cnawd, dim ond ffroth. Pam?' Gorweddent yn ymyl ei gilydd, heb edrych ar ei gilydd bellach. 'Ffilmiau llancaidd, taflu talpau o gyrff bendramwnwgl, cynnwrf heb ystyr, heb aberth na dyfnder, heb berthynas bersonol, heb feddwl, heb barch, heb ymostwng i'n gilydd, heb ymrwymo dwfn ac anrhydeddus. Nid menyw yw menyw ond golwythyn ar blanc.' Rhegodd hi.

Disgynnodd rholbren y rheg ar ben Len nes rhuglo yn nhoes ei ymennydd. Rhegodd hi drachefn. Megis rhywun a oedd newydd ddarganfod ystyr ei gwacter ei hun.

'Ie, tafodiaith fanwl Awstralia, gwlad y cangarŵs gwynion,' meddai hi.

Edrychai ef yn alarus tuag at yr awyr, ond nid oherwydd y rheg. Doedd dim pwys am beth felly. Roedd ei lygaid yn cilio yn eu cwrcwd. Canrif oedd hon a oedd wedi colli'r ysbryd. Ni wyddid am ddim ond am gyrff. Allai neb byth aeddfedu fel yna.

'Mae arna-i ofn ichi wneud camgymeriad go ddwfn,' meddai ef ar ei gefn heb edrych arni. Nid atebodd hi am foment. 'Gwnaethoch chi gamgymeriad trist,' ychwanegodd ef. 'A chlwyfus ac annheg.'

Aethai'i ymateb sobreiddiol a dwys ef â'i gwynt hi. Yna, meddai hi'n arafach nag o'r blaen, 'Os gwneuthum i gamgymeriad, yna wrth gwrs dwi'n ymddiheuro. Ond ...'

Siglodd Len ei ben. 'Dwi'n ymddiheuro,' meddai hi eto. 'Ond dwi'n argyhoeddedig, dwi'n gwbl sicr ichi wneud hyn. A pham ddyn? Pwy ydw i?' Roedd hi'n ormod iddo. Roedd y cwbl yn ormod iddo. 'Ateba fi, ddyn. Does gynnoch chi ddim cydwybod nac egwyddor.'

Cododd Len gan bwyll. Yna, ciliodd i wneud rhywbeth a fuasai wedi bod yn rhagweladwy syrffedus ym mryd Helen pe bai wedi gallu'i wylid drwy'r amser. O'r braidd y byddai hi wedi'i amgyffred ... Ciliodd ef o'i golwg. Ymhell oddi wrthi. Draw fan yna y bu ef. Rywle. Siarad â'r awyr y bu ef wrth gwrs, poeri i'r gwynt. Aeth ar ei liniau. Hyn yn y tipyn ugeinfed ganrif! Dim ond natur amrwd a oedd o'u cwmpas fan yna, roedd hynny'n amlwg. Dim ond natur wag gysefin ym mhob man — stympiau llosgedig a gwag o goed, lludw natur. Y fath lanast. Cyrff coed ym mhob man, ar hyd y llawr, fel celanedd, yr ysbrydoedd heb eu bywhau, gweddillion heb anadl einioes, heb eneidiau. Canrif a oedd wedi colli'r trywydd drwy berthynas pobl ar yr wyneb ac wedi crwydro o'r herwydd i ddiffieithwch prennau lludw, crwydro fel meddwyn dall i blith bonau dan ddogma diddymdra, gan faglu o gelain i gelain yn ansicr drwy leuad ludw, pethau, o fewn y dimensiwn amlwg heb fod yr ysbryd o'i mewn bellach yn cael anadlu nac yn ymwybod â dim ond â chyrrff. Canrif o gyrff a haeddai ei llosgi. Cyrff trwm, moethus. Cyrff claf,

hunanol. Heb berthynas. Ac yntau fan hyn ar esgyrn gwyn ei liniau yng Ngwlad y Cyrff. Gyda'r Gwrandäwr gofalus.

Cododd ei gorff o'r diwedd, a chlofffi'n ôl yn gondemnedig ati. Fan yna yr oedd hi ar y llawr o hyd ac yn chwilio'i drem. Chwiliai hi ei lygaid.

Eisteddai ei gorff ar ei phwys, yn dawedog. Roedd ei feddwl yn ôl mewn man arall a chyda'r dimensiwn arall hwnnw gynnu.

'Dwi'n ymddiheuro,' sibrydai hi gyda difrifoldeb newydd.

Nid atebai ef.

Roedd ei feddwl yn ôl o hyd ar ei liniau.

'Mae'n ddrwg 'da fi,' meddai hi ymhellach. 'Ydych chi'n clywed?' gwaeddai hi. 'Dwi'n eich credu.' Yna, dechreuai hi'i hamau'i hun cyn gynted ag yr ynganodd y frawddeg. Roedd hi am ei gredu ef, ond nis gallai. 'Mae'n wir ddrwg 'da fi os camddeallais i.' Diddweud oedd ef o hyd. 'Roedd fy meddwl wedi'i gynhyrfu,' meddai hi.

Ond roedd ei hawgrym hi eisoes wedi'i fwrw ef. Roedd ef yn siŵr, roedd ef yn gwbl siŵr y tro hwn na allasai dim o'r fath beth fod yn agos i'w feddwl.

'Mae 'da fi faich o ddiolch,' murmurai hi.

'Gwell inni fynd yn ôl i'r tŷ,' meddai ef. Ond doedd 'na ddim tŷ, wrth gwrs. Cododd ef hi yn ddiymholiad yn ôl ar ei ysgwydd. Cerdded yn ddywedwst yn ôl tua'r agorfa a oedd ar bwys y tŷ. Roedd hi'n ei hamau'i hun yn fwyfwy bellach. Nid oedd ef am siarad mwy am y peth. Nid oedd hyd yn oed am dderbyn ei hymddiheurad. Nid oedd ei angen. Ni olygai ddim. Baglodd ef gyda'i ffurf hi yn lluddedig oer nawr tua'r cyfeiriad lle y bu'r tŷ. Ystyfnigai hi'n erbyn yr anurddas o gael ei chario'n ddiangen drachefn. Ond llwyddodd ef i'w chludo rhwng y bonau llosg yn amheronol ffurfiol. Pan gyraeddasant yn ôl i'r agorfa, sylwasant drwy lygaid newydd amrwd fod y tŷ wedi'i ddifa'n lân. Edrychent drwy lygaid newydd ar y gwacter disgwylgar. Ac eto, yn y fan yna, ar y llawr, fel pe na bai'r tân wedi bod ar gyfyl y lle, ... pentwr bach o bapurau... nodiadau'r ocwlt, heb eu cyffwrdd, yn ddilychwin fuddugoliaethus, wedi cadw'u cenadwri i'r oesoedd a ddô. Roedd y marw'n byw o hyd.

Derbyniodd Helen hwy fel anrheg. Gwenodd am y tro cyntaf ers oriau, ac edrychodd yn ôl ar yr adfeilion.

'Buon ni'n sôn wythnos yn ôl am ei baentio,' ochneidiai hi'n wirion gan geisio ailennyn y sgwrs: 'y tŷ.' Safai Len yn syfrdan o flaen ei gydwybod, o flaen y tŷ llosg. Roedd ei du mewn yn anial. Yna, gwenodd ef yn araf ar draws ei wyneb o orwel i orwel.

Syllai hi ar ei wên. Estynnai hi law ato. ‘Diolch,’ meddai hi ... ‘am fy mywyd.’

‘Dyna setlo problem lliw y paent o leiaf,’ atebodd ef. ‘Tryloyw.’

Adferai hyn ychydig o’r cyswllt rhyngddynt, ychydig o’r normalrwydd. Roedd y ddau wedi cael eu siglo. Yn awr, syllai hi’n rhydd ar yr adfeilion myglyd o’i blaen. Ac ymdrechai ef, wrth syllu ar yr adfeilion, i ymwared â phob cyhuddiad, bron.

Roedd hi’n ceisio bod yn ddewr. Llwyddasai eisoes i ddal mor hir. Ac yn awr wrth ganfod maint y trychineb, wrth gofio’i ffolineb wrth gyhuddo Len, ceisiai o hyd ymgaledu a herio. Ond roedd blinder hwyrfrydig yn ei hysu. Roedd ei phrinder nerth ei hun yn drech na hi. Ymroddai yn awr i grio’n ysgafn fel gwllith. Yna, ubodd yn llai ysgafn. Yn sydyn roedd ei hannibyniaeth urddasol yn gyrbibion. Roedd ei hemosiynau’n baglu o’i gwasg i fyny dros y lle fel cangarwod wedi’u saethu yn eu traed. Gwaeddai grio. ‘Mae’n ddrwg ’da fi,’ murmurai hi o’r diwedd. ‘Ddylwn i ddim bod wedi amau.’ Ochneidiai. ‘Mae’n wir ddrwg ’da fi ... ond...diolch.’

‘Popeth yn iawn.’

‘Ond dyw hi ddim yn iawn. Esgusodwch yr arddangosfa ’ma. Ddylwn i ddim.’

‘Na hidiwch.’

‘Nid fi yw hyn. Peth estron yw llefain fel hyn. Dwi ddim yn gwybod pwy ydwi. Nid fi fy hun own i.’

‘Dyna fe,’ meddai ef mor amhenodol ag y medrai.

Yna, edrychai hi’n wyllt o gwmpas am fwch dihangol. Roedd hi mewn sioc. Sylweddolai’i gwae isymwybodol ei hun ar y gwacter: ei ffrindiau, y bwlch, y gweddill o’r criw. Doedden nhw ddim yna, wrth gwrs. Rhan oedden hwythau hefyd o’r gyflafan.

‘Alis, Pat, Al, Ken ... John? Ble maen nhw?’

‘Os liciwch chi,’ meddai Len, ‘os byddwch yn bihafio fan hyn, mi a-i i chwilio.’

‘Na, peidiwch â ’ngadael i. Ond ble maen nhw?’

‘Byddwch yn iach ddianaf fan hyn.’

‘Na! O! Alis! Alis!... Ie, cerwch. O! ble? Ble? Peidiwch â bod yn ...’

‘Fydda-i fawr o dro.’

‘Cerwch. Na. Ga-i ddod gyda chi? Ble allen nhw fod? Wnewch chi ’nghario i eto?’ Ac mewn anurddas adnewyddedig ac anfenywaidd roedd ei llygaid gwyrddion yn erfyn, er bod ei meddwl yn ei wrthod.

‘Wrth gwrs.’ Ond ni symudodd ef ati. Trodd yn flinedig fel pe bai ef am fynd. Roedd

y llygaid gwyrddion yna'n mynnu llosgi ynddo. Cyn i'r fforest fynd ar dân, fflaglai rhyw fath o dân gwyrdd yno eisoes ganddi hi, y tân welwch chi'n fynych efallai mewn llygaid sy'n rhy wyrdd, enbyd o wyrdd, tân y cyflymder edrych cynnes yna sy'n sianel orhylaw i'r galon. Math o dân ydoedd a atynnai'r ffôl wrth losgi megis drwy rith.

'Mae'n wir ddrwg gen i,' parablai hi ar ei ôl.

Ond nid oedd ynddo yntau ddim tân. Llwyd am filltiroedd, heb yr un wreichionen, dyna a ymledai'n flin ar hyd ei ymennydd ef. Syllai Len yn awr i'r fforest ddiflanedig o'i ddeutu gan geisio'r llygaid gwyrdd hynny a allai fod yn y coed, heb amgyffred pa fath o berthynas yn hollol oedd hyn a dyfai amdano mewn ffordd wirion, fel tân araf.

Cripiiai awel ddi-dân y bore yn flinedig fentrus yn awr ar hyd y llawr ar liniau tuag ato. Felly Helen hefyd. Ychydig yn ofnus ydoedd, wedi'i thlodi a'i dihatru a'i threisio gan ymosodiad y nos ac fel pe chwiliai am geiniogau coll gan y bore trugarog. Cripiiai'r wawr atynt megis gwawn.

A'r union foment wefreiddiol honno, fel ffenicsau cwta, anurddasol, twt, yn ddisymwth wyrthiol, o'r mwg, o'r gwactod, tan chwerthin, wele'r pump, neb arall, y pump gyda'i gilydd yn ymddangos yn llesg, yn fudr, ond yn fyw ac yn chwerthin fel plant drwg wrth weld Helen a Len, y pump crwn, ac eto'n gymysgfa o ddifrifoldeb gwelw ac o lawenydd chwithig, byrstiai'r pump ar draws yr agorfa yn y goedwig fel twr o blant ysgol siaradus uchel yn dod o iard yr ysgol, Alis, Pat, rholiai'r enwau o gylch ei thafnod, Al, Ken, John, treiglent hwy'n gofrestr mewn ysgol yn y bore, y pump, o gylch eu llygaid ill dau. 'Presennol, Syr.' Ni wyddai Len beth a ddisgwylasai — ai cadwyn am eu gyddfau, ai clytiau brwnt am eu cluniau, ai llyffetheiriau wrth eu migyrnau a'r rheini'n siglo'n ôl ac ymlaen, yn dduon, mewn cynghanedd â rhyw alawon Gwyddelig gynt y daethent â hwy o'r henwlad cyn iddynt gael eu dal am ddwyn taten a'u teilwng alltudio ers talwm byd i ganol y gyflafan hon o wlad? Carlamodd Alis ar y blaen i'r pedwar arall. Rhedodd tan chwerthin o flaen y lleill yn wirion at y ddau oroeswr blin a arosasai iddynt. Cofleidiodd hi Helen ar y llawr yn dymhestlog lawen.

Roedd eu diogelwch i gyd mor enbyd o anhygoel. Fel pe daethai'r naill garfan a'r llall o hyd i fyd newydd, daethant nawr at ei gilydd yn fyw ac yn real drachefn. Yn chwech. Yn saith.

\*

\*

\*

Hynyna o ddarlun symudol a gâi Maxine gartref wedi clywed y newyddion ar y radio, wedi gwylid ffilm fyw o ran arall o'r llosgi, filltiroedd o lydan, a ddifethai'r dalaith, ar hyd retina brau ei hymennydd. Clustfeinia'i'n ddall. Beth bynnag a ddigwyddasai yn y tân, hynyna o ffansi, o freuddwyd yn wir beth bynnag a rithiai'n anochel ynnddi wrth iddi ofidio mor daer am Len, carlamai'i dychmygion yn union fel yna am yr amgylchiadau oll o gwmpas ei phen ac o gwmpas y tŷ rhyddieithol, wrth iddi hi a Mair geisio pendroni ym mhob sobrwydd, y naill am Len, a'r llall am Helen a Len, sut y gallent orau estyn rhyw fath o gymorth, a chaffael rhyw fath o wybodaeth galed, bendantach na'i gilydd, a hollol ddibynnol, am y pellteroedd. Gartref, yno, mor ddwys o flêr, carlamai gwaedd uchel Helen o gylch penglog synfyfyriol Maxine: 'Mae'n ddrwg...'da fi.'

7

Roedd cydweithwyr Helen wedi llwyddo i arbed peth cyfarpar rhag dannedd y tân, a llwyddwyd yn awr i adeiladu cysgodfa o fath iddynt eu hunain dros dro.

Drannoeth, cafodd John O'Vergall air byr gyda Helen o'r neilltu, gair rhy fyr i fod yn ystyrlon. 'Ti ddechreuodd y tân,' meddai ef yn isel wrthi drwy'i ddannedd.

'Fi!' Roedd y dyn yn wallgo.

'Roet ti eisiau mynd yn ôl i Gymru, ac eisiau llosgi dy fadau fan hyn. Est ti allan i'r goedwig i gyflawni rhyw ddefod.'

'Fi!'

Beth oedd ar y twpsyn? Ai ceisio cuddio gweithred o'i eiddo'i hun yr oedd y gŵr hwn?

'Ti,' meddai fe drachefn.

'Beth wyt ti'n feddwl—ti!'

'Ti!' meddai eto'n filain. 'Gwn i, mae pawb yn ei wybod.' Crinai hi. Roedd ef yn poeri'r gair. 'Olion dy fysedd di oedd ar y gwynt.' Beth oedd y dyn yn 'feddwl? 'Ceisio datrys problem bersonol roet ti.'

Ffordd wyrdröedig oedd hyn ganddo o fod yn annifyr. Doedd dim modd bod yn siŵr a goelïai hyn yn llythrennol neu beidio. Dichon mai siarad mewn damhegion yr oedd. Casineb oedd ei gynneddf, a hynny wrth bawb yn ddiwahân. Doedd dim ymgais i fod yn eithriadol o ddethol wrth fynegi'i deimladau. A doedd dim y tu hwnt i fustl ei ddialedd.

'Beth sy ar y gwirionyn?' meddai Helen wrth ei ffrind Alis ymhellach ymlaen.

‘Mae ar bawb awydd i frifo’r hyn mae’n garu,’ meddai honno’n bryfociol.

Chwarddai Helen: ‘Mae hwn yn amryddawn te.’

‘Ti sy’n gwybod.’

‘Alis!’ meddai Helen yn ôl yn geryddgar.

‘Mae’n glir i’r llygad llugoer.’

‘Rhaid ei fod e’n caru popeth te.’

‘Yn wirion o angerddol. Nes bod y cwrw’n dod ma’s o’i glustiau.’

‘Gwyrddroad yw e.’

‘Fel yna mae seicoleg rhai pobl.’ Natur dangnefeddus agored ond hunanfeiriadol oedd gan Alis; a phwysai a mesurai bawb fel pe bai’n edrych drwy ddrych.

‘O! ac mae ’na esboniad seicolegol oes ’na?’ meddai Helen ychydig yn wawdus.

‘Mae pobl o’r fath yn mygydu’u teimladau drwy adweithio. Ond mae’r canlyniadau’n mynnu’u ffordd.’

‘Neu rwyt ti wedi bod yn darllen gormod o gylchgronau merched ifainc.’

‘Na. Dwi’n nabod symptomau. Dyw John ddim eisiau i bobl ddarllen ei galon. Mae yna falchder rywsut. Mae yna gywilydd.’

Arafodd Helen. Tybed a oedd Alis wedi bod yn astudio John? ‘Gwranda. Sgwrs ddiffrif yw hyn i fod. Does dim lle i ddim arall ar ôl tân fel yna.’

‘Dwi ddim yn tynnu coes.’

‘Fyddwn i fawr callach pe baet ti yn ei thynnu hi. Ond beth sy ar y dyn?’

‘Pwy yw’r cwestiwn.’

‘Dere o ’na.’

‘Dwi’n dweud y gwir.’

‘Amhosibl. Dwi ddim yn aros i wrando ar ryw rwtsh fel hyn. Fi’r morgrugyn cloff. Amhosib.’

‘Beth sy’n amhosib? ’Mod i’n gallu dweud y gwir ambell waith?’

‘Hynny yn un peth.’

‘Sylwa di Helen: fel y bydd e’n edrych arnat *ti* weithiau hyd yn oed pan fydd e’n watwarus.’

‘Amhosibl.’

‘’Mod i’n dweud y gwir? Dwi wedi bod yn ei wylid e.’

\*

\*

\*



Orig (neu gant) wedyn, mewn tacsï lleol, ar ôl siwrneio ohonynt o dwyn i dyno mewn bws moethus o Sydney ac i ganol absenoldeb y tân, megis dwy frenhines ddinesig, daclus, dwt, wele Maxine a Mair a'u holl barsel o bersawr yn cyrraedd yn osgordd ddeuol gyda'i gilydd. Pe gallai gwareiddiad orymdeithio, fel hyn y gorymdeithiai. Pe gallai syberwyd caboledig sibrwd, fel hyn y sibrydai: Maxine mewn glas, Mair mewn coch, heb hetiau mae'n wir, ond boneddigeiddrwydd glas a choch ynghyd â chroen gwyn Ewropeaidd yn ymrithio mewn perffeithrwydd ymwybodol ynghanol y Prysgr. Megis y deuai'r cenhadon mwyaf rhyddfrydig gynt yn llewyrch coethaf yr ymerodraeth i berfeddion duaf Affrica â'u Lladin a'u Bridge a'u haspidestras a'r henebion addurniadol ail-law, felly yr ysgubai Maxine a Mair i mewn i'r parthau tywyll hyn â thinc coeth diwylliant a wyddai beth oedd beth. Cymerasai'r siwrnai ryw bedair awr. Ond beth yw pedair awr pan fo miloedd o flynyddoedd o foes a dadwaseidd-dra a dad-farbareiddio yn cyrraedd yr un pryd?

Doedd y ddarpariaeth drenau arferol am ryw reswm ddim yn gallu gwneud y daith yno ac yn ei hôl yn 'daith ddiwrnod.' Felly, bws syml a distadl a gafodd y fraint o hyrwyddo taith goch a glas hyd Muswellbrook yn ymylon y goedwig, ac yn y fan yna daethant o hyd wedyn i un o'r doniau cerbydol lleol lleiaf anghysurus a mwyaf herciog.

'Mi glywson ni am y tân ofnadwy.'

'Ar y radio.'

'Dŷn ni'n gwybod y cwbl.'

Dim ond Helen oedd yno i'w derbyn yn ymyl y cyn-gartref. Ar y llawr yr eisteddai hi fel cyn-garreg, fel hi ei hun. Carreg dreigl ddamweiniol oedd hi ar y ddaear, heb na chysylltiad nac ystyr rhyngddi a dim, megis gwaddodyn unigol a adawyd ar grwydr gan ryw rewlif cynhanesyddol go ffyrnig. Roedd Len wedi cyrchu gyda'r pump arall draw i bentref Milwala. Eisiau pebyll oedd arnynt ar frys — saith o bebyll undyn dros dro ynghyd â digon o ymborth syml a dau farilaid o ddŵr ffres ar drol am wythnos. Syllai'r newydd-ddyfodiaid o'u cwmpas ar y difrod didrugaredd. Chwythai'r lludw oddi ar y cyn-foncyffion fel hen gringo chwipiedig wedi colli'i flew yn yr unigedd. A'r fan yna ar y llawr, Helen.

'Roedden ni'n sâl o bryderus amdanoch chi,' cyfaddefai Maxine.

'Dwi'n siŵr,' meddai Helen. Deallai i'r dim pwy oedd y chi. 'Roedd Len yn bwriadu'ch ffonio o Milwala. Mae'r cysylltiadau oddi yma i gyd wedi'u difetha.'

'Chafodd e ddim niwed? Chafodd neb niwed?' holai Maxine yn ymosodol.

'Naddo.'

Llygadai Helen o'r llawr y ddwy hyn yn ddigon beirniadol. Adwaenai hi Mair yn bur dda. Fe'i hoffai. Dyma'r ail waith iddi'u gweld ill dwy gyda'i gilydd. Synhwyrri wahaniaeth eithafol rhyngddynt. A pharhâi'i hymddiriedaeth mewn dynoliaeth i ymddatod ychydig o'r herwydd. Gallai ymddiried ym Mair wrth gwrs. Roedd honno ychydig yn ordrefnus, mae'n wir, yn galed hyd yn oed, yn galed fwyn, ond doedd dim lol. Maxine oedd yr un ymwithiol, ond ymwithiol mewn modd gwaraidd, mor ddiferol o waraidd, nes ei bod yn feddal ymwybodol. Hyhi hefyd oedd yn hyderus ac yn cymryd yr arweiniad. Mwy tawel oedd Mair hithau, ond yn fwy ymarferol: 'Martha' o fenyw oedd y Fair hon. Dwy fwyn; ond roedd Mair, roedd y ddwy yn wir ychydig yn isleisiol o fygythiol heddiw, ym mryd Helen.

'Arhosith Len 'ma ddim mwyach,' meddai Maxine, hanner ar ffurf cwestiwn, mwy na'i hanner ar ffurf gosodiad go bendant onid gorchymyn, fel pe bai eisoes yn gyfarwydd â llywio'i feddwl. 'Wnaiff e?' atododd hi.

'Dwi heb ofyn iddo,' meddai Helen.

'Dyw hyn ddim yn lle ffit i rywun sy'n ddibrofiad, hynny yw heb fwrw tymor ar ei hyd yn y Prysg.'

'Caiff wneud fel y mynnith. Dŷn ni i gyd yn ddigon atebol hebddo fan hyn.'

'Dŷn ninnau wedi dod ag ychydig o ddillad glân, a phorthiant iddo,' meddai Mair fel pe bai'n sôn am ebran i ferlyn yn y gaeaf.

'Prin ... bod eisiau,' atodai Maxine.

'Efallai,' mentrai Mair, 'efallai y bydd e am fwrw'i blu 'ma ddiwrnod neu ddau ar ôl y fath brofiad.'

'Go brin,' meddai Maxine.

'Go brin,' adleisiai Helen.

'Ac i helpu,' meddai Mair.

'Does dim byd iddo fan hyn.'

'Nac oes,' atodai Helen.

Edrychai Maxine i lawr ar y gloffen gynnil. Ymddangosai'n fechan odiaeth. Roedd yn aneffeithiol dila ar y llawr. Oherwydd ei bod heb gadair ac yn gorfod eistedd mewn amharch ar y tir, ymddangosai hyd yn oed yn fwy dihyder nag arfer.

'A chi yw chwaer Wili,' meddai Maxine i lawr ati, fel pe bai hynny'n ddigon i chwynnu unrhyw chwynnyn. 'Dwi newydd gofio amdano wrth eich gweld ar eich gorwedd.' Er iddi'i gweld hi o'r blaen, dyma'r tro cyntaf iddi sylwi ar y tebygrwydd.

‘Roedden ni’n fwy na brawd a chwaer.’

‘O!’ ebychai Maxine, yn fwyn ond yn anghrediniol braidd, oddi uchod. Roedd hi fel ped awgrymai mai rhyfedd o beth fuasai’r fath berthynas angerddol, a Helen wedi’i adael yn amddifad yn nydd ei ddarfod. Ac yn awr, disgwyliai gydymdeimlad newydd ganddynt hwy.

Teimlai Helen na ddylai geisio’i chyfiawnhau’i hun o flaen y rhain, nac ymesgusodi’n wasaidd. Pwy oedd hon i geisio taflu ensyniadau am Wili i’w dannedd? A sut bynnag, roedd hi’n ei dirmygu’i hun ddigon. Ni cheisiai amgen na dirmyg. Nid oedd am ei hamddiffyn na’i brolio’i hun chwaith. ‘Roedd gen i barch yn ogystal â serch at Wili,’ meddai’n efrydd. Ond gwyddai yr un pryd mai seithug fysai iddi geisio ysgarmesu gyda’r wraig gyhyrog hon, hon a feddai ar goesau ac ar hyder, hon a allai fod yn fabolgampus o gefnsyth ac yn wydn o symudol, hon a hwyliasai’n syber daclus allan o’r tiriogaethau di-fflam i mewn i’r agorfa yn y goedwig fel gwynt yn herwhela am dân na feiddiai aros mwyach: hon, y dywysoges iâ o’r wlad bell; ar goesau.

Synhwyrari Mair beth oedd ar waith rhwng y ddwy hyn. Ni ddewisai ymuno yn yr ymaflyd codwm. Gwenai’n fewnol. Hoffai Helen. Gallai deimlo’n gadarnhaol at bob benyw. Ond ni fynnai Mair mwyach arddel sentiment o fath yn y byd at wryw fel Len. A gwyddai nad oedd ganddo yntau onid hoffter oes-a-fu at yr hen grair ganddi hi. Roedd gormod o ysgarmesoedd eraill wedi rhedeg dan y bont enwog bellach iddi allu ymroi i rai amherthnasol nawr. Digon iddi hi, tra byddai mwyach, fyddai ceisio darparu angor ar gyfer ei theulu gwasgaredig. Digon oedd cael gwasanaethu’r Gymdeithas Gymraeg ac Oxfam a phethau o’r un dras ddyngarol yn Sydney. Roedd ganddi ei diddordebau byd newydd, lond planed ohonynt: gwaith a ... dyna ddigon.

Roedd hi hefyd yn hoff odiaeth o Maxine, hoffter cyfeilles selog: cwmni annwyl, ychydig yn freuddwydiol, ni raid ond cyfaddef, ychydig yn ffansiol, ond pwy nad yw? Doedd y teyrngarwch ddim yn anfeirniadol. O syllu ar y ddwy hyn, gyda’i gilydd, teimlai Mair yn gydradd ddiogel o leiaf. Ac ar ryw olwg gwyddai ei bod yn gwbl annibynnol ar fenyw ac ar wryw fel ei gilydd.

‘A hyn oedd eich cartref felly?’ meddai Maxine tuag i lawr at Helen gan luchio’i golygon gyda pheth smaldod tuag at weddillion y goedwig a gweddillion yr wybren a gweddillion sylfeini’r tŷ trefedigaethol a lynai wrth gig y tir bellach fel hen ddannedd pydredig na buasai neb oll yn ymdrafferthu i’w brwsio na’u tynnu; ac yna’n ôl at weddillion merch y llawr.

‘Lleoliad hyfryd,’ meddai Mair, ‘wedi bod ... o leiaf pan fo’r tywydd yn gall. Dwi’n siŵr

ei bod hi'n braf yma pan fydd popeth yn chwarae'n deg.'

'Gormod o wres canolog i'm dant i,' meddai Maxine.

'Does gen i fawr o gof fod dim oll wedi bod yn iawn er pan ddaethon ni gyntaf ffordd yma,' meddai Helen yn gloff. Roedd hi'n chwerw ac yn galed. Doedd hi ddim yn sicr o'r Maxine 'ma.

'Na,' meddai Maxine mewn cyd-deimlad.

Ymholai Helen ynddi ei hun pam yr oedd Maxine mor gytûn. Ond hi ei hun oedd yn reddfodol ragfarnllyd yn erbyn y fenyw. Tonig yn ddiau fysai cwmniaeth Mair ar ei phen ei hun. Gallent rannu problemau; gallai hi gyffesu'i hannigonolrwydd, gallai achwyn yn onest tost; a mwynhau llefain hyd yn oed. Er mor hunanddigonol y carai hi'i chyfrif ei hun, pe bai ynghudd a chyda chyfeilles annwyl, byddai hi'n barod ddigon i ildio i'w hiselder hunan-ganolog. Hoffai Helen Fair. Gwir y cwerylent bron bob tro y cyfarfyddent gan fod Mair yn arddel y fath ragfarnau'n erbyn yr ocwlt, a hithau'i hun yn ffidlan mor bendant yn y maes a chyda'r 'Oes Newydd', er mewn modd digon academiaidd mae'n wir. Ond anianawd Mair a apeliai ati. A thrwy ryw ryfedd ffawd roedd Mair wedi closio ati hi a'i chymryd dan ei hadain.

'Tawn i'n credu yn Nuw, byswn i'n tueddu i ystyried mai plismon traffig go flêr fu'r Bod hwnnw'n ddiweddar,' dyna'r frawddeg neu aralleiriad ohoni a ebychai Helen ryw ben un tro yn ystod eu sgwrs ers talwm gyda'i gilydd. Ni chât Mair anghofio'r frawddeg. Roedd hithau'n ddigon o ddyneiddiwr i beidio â hidio am dipyn o gabledd. Ond roedd y frawddeg yn gomom o naïf, a chodai'i chwerwedd annifyrrwch am foment yng nghalon Mair. Ond fe'i deallai. Credai Helen druan fod ei chorff ei hun wedi cael ei sarhau.

Dichon mai'r sarhad wynebgaled i'w dyfodol rhywiol oedd y gwaethaf iddi hi, mewn canrif pryd na chyfrifai odid ddim arall. Roedd y peth mor amlwg o annheg. Diwedd rhyw, diwedd byw. Nid damwain ffordd yn unig, ond damwain gigyddol ym myd hollfeddiannol ryw, dyna gawsai Helen. Cawd ymosodiad ar ei synwyrusrwydd. Gwnaethpwyd cyrch ar ei hannibyniaeth gorff. Ac ildiodd hithau wedi taflu'i choesau mewn tywel i ganol y cylch paffio.

Daethai i wybod am ddigon o bobl feddw a allai yrru'n ddiogel unionsyth braf wedyn. Pam nas gwnaethai hwnnw? Caed digon o bobl a geisiai basio ceir mewn lleoedd peryglus. Digon byth yn ei mentro hi ar deiers go giami. Ond hyhi, beth wnaethai hi?

'*Cerdded* wnaethan nhw i ...? Len a'r lleill ...?' holai Maxine gan newid y pwnc, 'i'r

pentre, beth ych chi'n ei alw fe, Cilwala?'

'Milwala. Do.'

'Cerdded! Does dim ffordd hwylusach i drafaelio yn y parthau hyn?'

Edrychai Helen i lawr yn ddiymadferth at ei thraed: 'Fyddan nhw fawr o dro. Ryw orig arall fan bella.'

'Milwala wrth gwrs,' meddai Maxine. 'Rown i'n gwybod fod ganddyn nhw enwau annhebygol ffordd yma, dim byd teidi fel Llanfair-yng-Nghornwy.'

'Does gynnwys ni ddim gormod o amser,' esboniodd Mair. 'Ar fws daethon ni. I Muswellbrook. A thacsi wedyn.'

'Mae'n ddrwg gen i,' ymddiheurai Helen yn gloff. Erbyn hyn yr oedd ganddi awch di-droi'n ôl am ddiodefaint. Roedd yr ardd lle y tyfid ei llawenydd cynhenid bellach yn gorwedd o dan orchudd concrit.

Ond pan gyrhaeddodd ef yn ôl, roedd Len yn ddiwyll falch i weld y ddwy. 'Y nghlwb ffaniau i!' Chwarddai ef; eithr ymatal rhag chwerthin a wnaethant hwy.

'Rych chi wedi dod drwyddi,' meddai Maxine. 'Fe ddaethoch drwy'r fflamau.'

'Doedd dim eisiau ichi ymlusgo'r holl ffordd hyn,' murmurai Len bron yn orfoleddus.

Ond roedd e'n falch fel paun o'r gofal drosto ef a Helen ... Yn falch i weld y tair. Pe gallai paun ganu grwndi, yn hytrach na nadu, fe'i gwnaethai'n ddiau. Wrth gwrs, allen nhw ddim aros, doedd dim cwestiwn am hynny. Doedd dim lle, dim digon o bebyll. A sut bynnag, bysai gorwedd ar bridd brwnt dan babell yn eithaf *infra dig* i'r naill megis i'r llall, oni fysai, yn enwedig i'r llall. Roedd e'n ddiolchgar, serch hynny, ond byddai'n well iddyn nhw beidio â cholli'r bws yn ôl. Dôl yntau'n ei ôl yn eu sgil ymhen diwrnod neu ddau. Na: doedd e ddim am ddod ar unwaith. Roedd eisiau rhoi rhai pethau yn eu lle. Doedd e ddim wedi cael cyfle — oherwydd y miri — i gael sgwrs go iawn eto gyda Helen. Ond fe ddôl'n reit fuan, dôl. Un peth y gallen nhw fod yn gysurus siŵr ohono bellach: nad oedd dim peryg o dân.

Ceisai Maxine ei berswadio i ymbwyllo. Ni ddwedai Mair bo. Roedd hi'n benderfynol o beidio â gwrando arno ac o beidio â chyfathrebu o ddifri chwaith, fel pe bai'n gariadferch ddadrithiedig ar ôl derbyn llythyr wedi gwneud sioe fawr o beidio â'i agor, wedi'i rollo'n belen flêr a'i bowllo dros ei hysgwydd i'r tân.

Ceisai Maxine braidd yn rhy daer bwysu arno i ddychwelyd yn y fan i wareiddiad. Ac roedd peth o'i hofn hi ar Len. Dymunai ef ymatal rhag llithro'n anystyriol i afael hon. Wedi

cyfarfod â benywod fil roedd yn amlwg fod angen oedi rhag derbyn y wraig gyntaf a nofiai o ddiffri i'w rod. Ond gweniaith oedd magl ambell un. Helen a ganiatâi iddo — nid i ailfeddwl — eithr i feddwl am y tro cyntaf. Ac i bensusynnu yn hunanfeirniadol am y dwys gyfrifoldeb o ddewis.

Ond stwffio awgrym o'r fath a wnâi Len. Dwli oedd hynny oll a hyd yn oed pe na bai'n ddwli, doedd e ddim wedi cael amser fan hyn eto. Tybed a oedd realedd Helen a'i chloffni diriaethol a'i hamgylchfyd tanllyd yn ddihangfa iddo rhag afrealedd Maxine? Fe'u hebryngodd hwy'n ôl, felly, y ddwy, i brydlondeb Muswellbrook. Yn barchus ac yn garcus yr aent yn y taci gwarthus ar hyd llwybr y gyn-goedwig; ac yna, dychwelodd ef gyda pheth gollyngdod yn ei ôl i'r pebyll at Helen.

Yn y bws ar y ffordd yn ôl i Sydney synhwyrâi Mair ei bod yn eistedd wrth ochr llosgfynydd mewn gwisg las. 'Mae'n dda bod pawb mor fyw ac iach,' meddai hi'n gymodlon. 'Â chneuen.'

'Sylwaist ti ddim?' tagai Maxine, ond heb fflamio.

'Beth?'

'Wnest ti ddim sylwi ar y ffordd yr oedd ef yn edrych arni? Ar y gneuen gref arall 'na.'

'Ar Helen? Na.'

'A'i ddwylo crwydr yn cyffwrdd â hi ambell dro.'

'Na. Dychmygu rwyt ti Maxine.'

'Dwi ddim yn gwybod ystyr y gair. Ond dwi'n nabod eiddew pan wela-i fe.'

'Chredet ti ddim: mae pobol yn gallu cyffwrdd â'i gilydd yn ddamweiniol weithiau. Maen nhw'n gallu cyffwrdd â'i gilydd hefyd yn ddigymell gan fynegi hoffter digon iach, heb sylwi.'

'Welaist ti ddim.'

'Na, na. Does dim rhaid wrth angerddau daeargryn o blaid nac yn erbyn person cyn caniatáu i law estyn a chwrrd ag ymyl person arall, megis drwy'r awyr,' meddai Mair yn hyderus.

'Roedd e'n cyffwrdd, does dim dwywaith, fel gordd. Cyffwrdd. Roedd e'n meddwl cyffwrdd. A hithau'n ymateb.'

'Fel hoelen?'

'Mae gan rywun mewn cyflwr o'r fath gryn apêl i ddyn, ti'n gwybod,' taerai Maxine.

'Lol rwyt ti'n ei siarad nawr, chwarae teg.'

‘Mae dynion mor anfeidrol ddwl. O weld rhywun ddiymadferth ...’

‘Ust Maxine.’

‘Ydyn. Maen nhw’n toddi’n bwll. Mae’n hawdd eu denu. Welaist ti ddim?’

‘Mae’n nosi’n gyflym,’ meddai Mair yn ddiserch, gan droi’i phen.

‘Mae’n gas gen i dir gwag,’ meddai Maxine gan syllu allan drwy ffenestr y bws. Wedi teithio’n gyntaf drwy’r paith llosgedig ac yna wrth ddal cipolwg ar ambell barth di-dŷ a didyfiant o bryd i’w gilydd yn gorwedd fel lleuad grwydr yn ymyl y ffordd, ni allai Maxine lai na sylwi gymaint o wlad amhoblog a geid yn yr hen fyd ’ma.

‘Maen nhw siŵr o fod yn llefydd penigamp i fyfyrion,’ meddai Mair gan gilwenu.

‘Ie, yn fannau ffamws i syllu ar fogaillau. Dwi’n casáu hyd waelod fy mod y manau unig gwag hyn. Maen nhw’n llawer rhy fewnblyg i’r llinach i.’

‘Y llefydd eu hunain felly?’ holai Mair.

‘A’r ffug unigrwydd, yr erwau mewdol o ddim byd, hyd yn oed ynghanol coed.’

‘Ond mae’n siŵr o fod yn *ddilys* unig ’na hefyd,’ meddai Mair gan wenu fel llygoden.

‘Unigrwydd gwneud. Dyw e ddim yn naturiol. Mae fel pe bai’n ceisio bod yn unig. Mae fel pe bai’r stympiau coed yna, hyd yn oed, yn osgoi sgwrs yn fwriadus.’ Roedd Maxine yn ei phwd.

‘Dowch nawr.’

‘Mae’n ffug, yn wag o ffug, yn hollol ffug a ffiaidd ffug. Dyw e ddim yn naturiol fel Sydney.’

Ond nid annaturioldeb oedd gwir boen Maxine. Naturioldeb yr hyn a adawai ar ôl oedd yn crafu.

\* \* \*

Roedd Helen wedi gwneud swper iddi’i hun ac i Len erbyn iddo yntau gyrraedd yn ôl. Gwnaed hynny’n glyd o fewn ei phabell ei hun, drwy’i thynnu’i hun o gylch y lle â bôn braich. ‘Dwi’n meddwl mai troi tua Sydney am gyfnod fyddai orau i mi,’ meddai hi wrtho wedyn mor amhendant ag y medrai. Synhwyrar hi yn y tipyn cyfathrach a fu rhyngddi a Maxine a Mair a Len mai yn ei phlaid hi, heb godi swae am y peth, yr ymrestrai Len yn dawel bach. Roedd hyn am ryw reswm yn anesmwythyd ond yn falchder iddi. Eto, ymddangosai llygaid clên Len fel petaent yn ei lled anwesu yn awr yn isymwybodol garedig ond yn rhy annifyr o fynych. Llechai’i llygaid ei hun yn ôl fel cwingod, yn ôl yn eu tyllau briw. Teimlo tosturi yn sydyn a wnâi Len, mae’n wir, a chlosio ati ychydig, y falwen fach

felys, a chyffwrdd â'i llaw, bron heb ei sylweddoli. Camddeall popeth o'r fath fel dieithryn mewn gwlad estron a wnâi hi.

'Allai dim perthynas byth fod rhyngon ni,' mentrai hi'n haerllug o'r diwedd, yn dawel eirwir a hithau am gyflawni rhyw fath o orchest o onestrwydd hurt.

Cilchwarddai ef yn ysgafn. 'Pam? Beth! ... Pam lai? Perthynas? Rŷn ni'n ffrindiau,' meddai ef.

Iddi hi, o hyd, unig ystyr gwryw a benyw wrth ymddwyn yn garedig at ei gilydd oedd Rhyw. Nid oedd ei chyflwr yn help yn hynny o beth. Cofiai byth fel y buont yn y goedwig yn rholio ac yn tylino ac yn gwthio fel ymaflwyr codwm, ac yna ar bwys ei gilydd yn y dŵr. Cofiai amdano ef â'i gorff yn drwsogl agos ati yn ei chario. Ni frysiai'r atgof hwnnw i geisio ymadael.

'Perthynas,' meddai hi'n fwy pendant. 'Y fath air gwirion.'

Chwarddai ef.

'Nid perthynas yw'r gair rych chi'n chwilio amdano mewn gwirionedd, Helen.'

Cofiai hi ei freichiau'n dynn amdani wrth ei chipio i ddiogelwch. Pellhau rhagddi a fynnai ef nawr fel y mynasai mor aml bellhau rhag Maxine. Heb ymneilltuo, gallai gael ei gaethiwo o fewn gwladwriaeth afrealedd. Ai haint fenywaidd efallai oedd y paldaruo pŵl 'ma? Ac ai Maxine oedd unig freuddwydraig fyw feius y rhywogaeth?

'Ie, perthynas fel a allai fod rhwng pobl.'

'Wel, pobl yn ni, ac rŷn ni'n *ffrindiau*. Mae hynny'n dipyn o berthynas.'

'Ddim yn ffrindiau go iawn.'

'Ffrindiau dau ddiwrnod. Ond dau ddiwrnod yw dau ddiwrnod.'

'Alla-i byth fod yn gyfaill clôs i neb.' Cofiai hi ei ddwylo. 'Byth.'

'Ffrindiau hoff?'

'Beth yw shwt beth â hynny ynghanol diffeithwch? ...'

'Pam?'

'Edrychwch arna-i,' meddai hi. 'Fi, Helen. Dwi ddim yn fyw. Roeddech chi'n gwybod hynny wrth 'y nghario i. Edrychwch ddyn, dwi ddim yn fyw drosto-i i gyd, edrychwch, dych chi'n deall, does dim sudd ynddo-i'n cynnau bywyd. Dim golau yn nhwneli f'aelodau. Allwch chi ddim bod yn ffrind â pheth felly — heb fod cydymdeimlad gwenwynllyd yn cynnau'r person i gyd. Yn...'

'Llamu, dyna'r gair rych chi'n chwilio amdano. Allwch-chi ddim *llamu*, dych chi'n



feddwl. Llamu i gyfeillgarwch. Llamu i adnabyddiaeth. Dawnsio lamu i mewn i berthynas. Wel, mae “llamu” yn air o fath. Dyna’r cwbl.’

‘Heb lam, heb lais... Amhosib.’

Eisteddai Len yn llwydaidd gan edrych ar ei llwydni hi.

Pagan oedd hon yn ddiau; ac felly, bwlch didramwy oedd yr hyn a gaed rhyngddynt. Person dynol er hynny. Gellid profi cyd-deimlad â hi. Gallai ddysgu am ei phroblemau. Eto, beth bynnag a amheuai Maxine, doedd ef erioed wedi ymhoffi o gwbl yn hon, ddim mewn ffordd wrywaidd. Nid oedd yn rhyw sicr mai gwryw oedd ef y dyddiau hyn. Er hynny, fan hyn yn Awstralia drwyddi hi yr oedd ef wedi adnewyddu peth o’i gyfathrach â diffeithwch anghrediniaeth. Yn ystod y gwyliau hyn llithrasai yntau yn groes i’r graen, ac er poen enbyd i’w ysbryd, ymhellach bellach oddi wrth fywioldeb ysbrydol. Profasai dduwioldeb o fath yng Nghymru. Ond gwamal fu hyn yn Awstralia iddo ef; a llithrasai yn ôl. Gwyddai unwaith eto felltith didueddrwydd. Peth fel hyn oedd colli presenoldeb dimensiwn y dwfn. Teimlai iddo ymgaedu fan hyn, fan hyn yn hemisffêr y de, neu led anghofio presenoldeb Duw yn rhy fynych. Teimlai hefyd nad oedd ef wedi ceisio ymestyn at anghredinwyr, hynny yw mewn cariad ysbrydol. Ac eto, wrth beidio ag ymestyn atynt, daethai’n fwy paganaidd ei hun. Pagan fu ef fan hyn, pagan yn ymdroelli ar yr wyneb yma ym mharthau diffeithiaf Awstralia fel pe na bai dimensiwn i ddyn heblaw yr un anifeilaidd.

Ceisiasai bob amser, ar egwyddor, ymddihatro o’i ddelwedd sychdduwiol, roedd hynny’n ddigon gwir. Ar ei wyliau yr oedd ef fan hyn, ac yn ymward yn y fan yma â fframwaith arferiadol ei swydd. Ond wrth i’r fframwaith disgybledig arferol ymddatod, ac wrth gollu fframwaith ei fywyd defosiynol, yr oedd y pefrio nawr tu mewn iddo wedi llesgáu yr un pryd.

‘Edrychwch ddyn. Does dim math o flagur yn gallu tarddu ’fan hyn,’ meddai Helen gan daro’i phenliniau clwc. ‘Fe’u llosgwyd nhw i’r llawr.’ Roedd hi ei hun wedi’i gadael yn ddiffeithdir wedi rhyw dân anhysbys. Chwythasai’r fflamau drosti drwy’i brigau, ac yna ymadael a diffodd yn y pellter tywyll. Ymwybyddai hi fod popeth wedi ymadael â hi. ‘Diffeithwch dw-i.’

‘Ond eich llygaid ...’ heriai ef, gan deimlo yn gyd-ddiffaith ei hun. ‘Fysech chi’n hoffi pe na bai ’na ddim byd yn egino yn eich llygaid chwaith? A’ch gwefusau a’ch trwyn.’

Gwenai hi’n chwerw. ‘Beth ych chi’n feddwl?’

‘Ydy hi’n embaras braidd fod eich bochau’n gallu cynhesu?’

‘Ond rhan fechan amherthnasol yw hynny.’

‘Mae’n chwithig fod eich clustiau a’ch gwallt yn dal gystal yn lân ac yn ffres hefyd,’ meddai’n bryfociol annoeth.

‘Dydyn nhw ddim,’ ebychai hi’n swta sur. ‘Dŷn nhw ddim yn mynd i unman.’

‘Rych chi fel petaech chi’n ewyllysio peidio â chaniatáu bywyd mewn unrhyw ran ohonoch. Hyd yn oed rhwng ffrindiau.’

‘Yn union. Wna-i ddim. Mae hi fel pe bai ’nghorff i’n methu ag adleisio i fywyd neb arall.’

Ciledrychai Len arni’n amheus. ‘Ffrindiau! Dyna’r gair melltith. Hen air mawrhydigid enwog. Does dim o’i le ar beth felly. Pwy sy’n sôn am amgen na hynny fan hyn?’

‘Rych chi’n gwybod beth sy ’da fi,’ meddai hi. ‘Nid byw wnaiff hanner corff,’ meddai’n isel. ‘Dyna’r gwir cras. Dwi’n ffaelu rhoi dim oll. Ffaelu cyflwyno.’

‘Twt! Syniad go dlawd o *berson* sy gynnoch chi.’

‘Nid *person* mono-i.’

‘O’r gorau, cyfaddefwn te. Mae ’na angof lle dylai’ch coesau fod.’

‘Angof?’

‘Oes.’

‘Mae *popeth* wedi anghofio’i gilydd yn ’y nghorff i,’ murmurai hi’n hunanfeirniadol.

‘Wedi’u tocio.’

‘Amnesia llwyr. Mae perthynas,’ meddai hi’n arafaidd, ‘i fenyw, yn *arbennig* i fenyw, yn dyngedfennol. Perthynas yw menyw benbwygilydd. A menyw ydw i, nid *person*...’ A syllai’n ansicr i lawr tuag at ei choesau amhersonol.

Llechai dolur dwl yn ei lygaid ef hefyd. Doedd dim gwên ar yr amrannau nawr. Roedd poen a phylni’n eu tynnu’n dynn at ei gilydd.

Troes hi’i phen ymaith mewn dirmyg oddi wrth yr un a achubasai’i bywyd.

Syniai hi ei bod ar ben arni mwyach. Aelodau gwydn fu ganddi hi’n ifanc. Tân difaol iach o lances fuasai hi. Cofiai hi’r colofnau cnawd ar dân wrth lamu yn ei mebyd a llwybrau’i gwythiennau’n llawn gwreichion. Cofiai’r fflamau iach yn prancio o gainc i gainc lond ei llencyndod ac o goeden i goeden nes bod ei gwallt yn ysu drwy’r byd. Fforest ar dân fu hi. Cofiai’r rhuo a’r llepian gan goelcerth berffaith ei harddegau a darddai o’i chalon. Cofiai lamu yn fenyw las lân i ymguddio. Ond bellach lludw llwyd oedd hi. Lludw llydan llwyd yn yr amlwg. Person felly o’r fath wedi tynnu tua therfyn. Erbyn hyn roedd ei chnawd

wedi darfod. Anghofiai'r cwbl o'r hyn a fu. Rhegai'i llygaid. Darfu'i bodolaeth yn lân.  
'Ffrindiau! Ni!' ysgyrnygodd hi'n o fustlaidd. Roedd ei chalon yn poeri.

'Fel hyn y bu *Wili* hefyd am gyfnod,' haerai Len.

'Fel beth?'

'Doedd e ddim yn barod i fod yn berson. Dim ond yn beth.'

'Ddim yn barod!' adleisiai hi.

'Ddim yn or-barod i fod yn ffrind chwaith hyd yn oed — ar y dechrau.'

'Eitha peth.'

'Rych chi'n od o debyg.' Yn wir, dechreusai Len synied mai rhyw fath o barhad efallai i Wili oedd Helen yn ei fuchedd ef.

'Dyna'r peth neisa ddwedsoch chi yn y ganrif hon,' atebai hi.

'Ond roedd y cwbl wedi'i gronni mewn un aelod. Hyd yn oed yn achos Wili. Nid peth felly yw person personol go iawn. Ceinciau i gyd yn ni i fod rywsut, ceinciau amryw a bôn a dail. A brigau dros y llawr. A hen egin yn gwywo.'

'Ond dyw f'aderyn tlawd i ddim yn gallu canu ar yr un gainc,' achwynai hi.

'Ddim hyd yn oed ar gainc cyfeillgarwch?'

'Yn llai na dim ar y gainc yna.'

'Beth wnewch chi felly?'

'Bodoli'n fud. Ymfodloni ar hynny.' Cogio bod yn stöig yr oedd hi.

'Yn fud?'

'Fel pren go iawn. Mae 'nghorff-i eisoes yn fud.'

'Peidio â bodoli o gwbl, felly, yng nghanol stympiau coed eraill?'

'Beth arall? Pa fath o sioe yw pren fel hyn?' cyfeiriai hi at yr hyn a welai ohoni'i hun bob amser.

'Dwi'n gweld person byw o hyd.'

'Bonau pren llog. Brigyn briw. Dyna dw *i*'n weld. Oes rhywun eisiau casglu peth felly? Wnaiff e goed tân i rywun? I ffrindiau hyd yn oed!'

'Wyddoch chi, Helen fach. Gwas yw priod enw fy swydd i. Trefnu yw gwaith gwas, hyd yn oed trefnu coed tân. Mae'n well gair na ffrind.'

'Ptisht. Rych chi'n gwybod cystal â fi — gweinidog neu beidio — fod yn rhaid, yn y bôn, i bob cythraul ganu.'

'Yn union. Dyna bwrpas y person dynol. Tŵr eglwys yw corff i fod ar gyfer clychau. Mi

greda-i fod Wili hyd yn oed wedi profi hynny.'

'Ac er mwyn canu fel y cythraul, mae'n rhaid i bob cythraul feddu ar gysgod o lais rywsut.'

'Does neb ohonon-ni'n gyfan, Helen. Gallwch ganu heb lais. Gall eich llygaid ganu, a'ch dwylo, a'ch dychymyg: dyna mae ffrindiau'n 'wneud. A gweision.'

'Ond lludw. Mae'r tân wedi chwythu heibio.'

'Rŷn ni bawb oll wedi llosgi'n bysedd rywbyrd.'

'Ond mae hyn yn fwy na rhuddo bysedd, ddyn. Llosgi, llosgi'n ulw. Chwalwyd yr holl gasglu priciau i'r llawr. Alla-i byth esgor ar ffrityn o fflam byth 'to.'

Roedd Helen yn gwbl ddrwgdybus o'r un a'i hachubasai. Er gwaetha'r tylino tybiedig, amheuai a wyddai ef ddim oll am ddirdyniadau corff. Wyddai fe ddim am ddiffyg gwingo ei chorff hi o leiaf. Clywsai hi gan ei brawd am ei gyfeiliornad gwrthgymdeithasol ar un funud hurt, neu am y sôn a gaed ynghylch peth felly. Dechreuai amau'r ymwadiad. A fu hwn mewn gwirionedd yn w'r cyfan erioed? Amheuai hi ef hyd ei berfeddion.

Gwenai yntau fel pe bai'n amgyffred ei drwgdybiaeth. Cymeradwyai amheuaeth iach, er bod honno'n cael ei gorganmol. 'Peidiwch â gwenu,' ebychai hi gan gau yn ei erbyn. Pe bai hi wedi gwybod beth oedd ystyr ei wên, ni byddai wedi'i deall.

Ganddi hi mwyach doedd yna ddim tân a allai redeg allan ohoni fel llewes wyllt o gawell. Rhuai'i chalon y tu ôl i'w barrau. Fflamiai hi beth. Caeai'i chlustiau amdani. Caeai'i synhwyrau amdani fel clogyn.

Campiai llygaid Len yn ddiniwed o'i hamgylch hi o hyd. Nid oedd dim agorfa i'w gyfeillgarwch yn y gwrych yn un man. Cerddai llygaid Len yn awr yr ochr yma a'r ochr arall, byseddu, fforio: dim un agen. Dim.

'Hyló!' gwaeddai'n ysgafala ysgafn i'w gwyll. 'Oes rhywun gartref?' Methai hi wrth ei ochr o ben draw'r twnnel â chlywed yr un sill goch y delyn.

Roedd y ddau wedi ymlâdd erbyn hyn. Wedi i fywyd noswyllo rhyngddynt a'i gilydd, nid oedd na deffro nac ysgytio arnynt am oriau bwygilydd ar ôl eu hamser arferol i ddihuno. Ond nid y tân llythrennol yn unig a'u blinai ill dau. Bu distawrwydd hir yn fwy effeithiol. Roedd y ddau yn hynod flin fel nad oeddent *am* ddihuno. Dyna'r gwir anochel. Ac mewn

ffyrdd gwahanol roedd y ddau bellach am ddianc cyn gynted byth ag y gallent rhag y rhwydo peryglus rhyngddynt. Yr anesmwythyd hwnnw a'u blinai. Cloffen y corff a chloffyn yr ysbryd. Cynnyrch tlawd y ddamwain, a chynnyrch tlotach yr annamweiniol.

Brecwesta wnaethant mewn distawrwydd llethol.

'Rŷn ni i gyd yn ffôl, i gyd yn wan, i gyd yn methu,' sibrydai ef o'r diwedd gan estyn ei ddwylo ati. Cydai ef yn ei dwylo hi. Methai hi â gafaelyd yn ôl yn gyfeillgar ynddo. A gollyngai hi'n anewyllysgar ddeigryn llugoer ar gefn ei law chwith. Roedd hi'n fwy unig nag a wyddai. 'Pethau tila yw cyrff ar y gorau... Rhyw,' meddai ef yn bwylllog betrus, 'corrach yw Rhyw yn ochr cewri fel cyfeillgarwch a pharch ac ymddiriedaeth a charedigrwydd a gwasanaeth. Os nad yw Rhyw yn sylweddoli ychydig o gydlynid o'r fath, yna dyw Rhyw ddim wedi byw.'

'A pheth fel hyn yw serch felly?' meddai hi ynddi'i hunan gan ysgyrnygu'i llygaid ar olion o'r fygfa ac ar weddillion ei choesau. 'Hm!' Roedd ei ddwylo ef yn gynnes serch hynny. Ni ddwedai hi air rhag ofn ei ganmol.

'Dau angen bach yn dod at ei gilydd ar ganol cae,' meddai ef, 'heb geiniog yn eu pocedi, o dan lygaid Duw, ac yn murmur, "Croeso ffrind," dyna i mi yw perthynas.'

'Ffrindiau?' ebychai hi'n wawdus. 'Dau gloffyn fel yna! Heb geiniog!'

'Bob amser dau gloffyn.'

'Ond beth am y mabolgampau fil, y daeargrynfeydd? Ydy ffrindiau yn gwybod am bethau felly?'

'Ychydig.'

'A pheth felly yw ffrind, yn ôl Undeb parchus yr Annibynwyr,' meddai hi'n ddirmygus eto. 'Os felly, cadwch eich hollalluog ffrindiau te.' Rhythai hi o'i chwmpas ar y stympiau goedwig wedi'u distrywio ym mhob man. Roedd y lludw wedi cysgu ynddynt hun hyll y diffeithdir. Dyma'i ffrindiau hi. 'Dych chi'n gweld ddyn,' poera i hi. 'Edrychwch, a gweld.'

Syllodd y ddau ar y gorwelion.

'Alla-i ddim gweld fawr o ddim, chi'n gwybod.'

Yr eiliad yna wrth graffu arno, dechreuai Helen ei ganfod ef o'r newydd, yntau, yn ei ddiymadferthedd caredig.

Chwarddai hi'n chwerw. A thynnodd ei dwylo allan o'i afael.

'Na.' Iddi hi, ei choesau oedd y rhan fwyaf amlygus ohoni. 'Nid pobl fel 'na yw 'mhobl i. Personau anwel i chi, amhersonau athletig. Amdanyn nhw dwi'n sôn. A blew a

phetheuach felly. Pobl yn cicio'r nenfwd. Ffrindiau i gyd.'

'Ydyn, ond mae'r *ysbrydoedd* sy gynnon ni yn anweledig, yn ddigon o ryfeddod.'

'Clywch, Mr Anweledig Lwyd bach,' meddai hi'n araf ond yn fwy chwareus. 'Fysech chi byth yn hoffi priodi rhyw wrach anweledig a dringo i mewn i wely anweledig gyda'r coesau di-sut anweledig, er mwyn esgor ar blant anweledig braf, a chodi i fwyta cig moch ac wyau a madarch yfflon o anweledig, na fysech?'

'Byddai'n rhaid i ddau draean o 'ngwraig i fod yn ddigon anwel i blesio 'nghalon i,' meddai ef.

'Dwi'n rhyw feddwl y gallwn innau, hyd yn oed, esgor ar blant anweledig; ... Dim ond iddyn nhw lefain yn anweledig hefyd, wnelwn i'n burion.'

'O! does dim amheuaeth taw'r anweledig sy'n rhoi'r gwir sbort i'r cwbl.'

'Dwi'n credu dim ohonoch-chi ... Dim!' ysgyrnygodd hi'n ddi-hwyl. Buont yn fud o flaen y fath osodiad anysbyrdoledig.

'Dych chi ddim yn dweud y gwir, wyddoch,' meddai hi o'r diwedd.

'Am beth?'

'Am gorff. Does dim gwryw gwerth ei bwysau mewn gwryweidd-dra yn dirmygu'r gweledig fel y gwnewch chi.'

'Fi'n ddirmygus o'r gweledig! Byth!' Ailgydiodd ef yn ei dwylo.

'Dych chi bron yn defnyddio'r corff fel trosiad,' meddai hi. '*Corff* yw e o hyd ddyn. Llosgfynydd bychan.'

'Trosiad am beth?'

'I chi, trosiad am yr ysbryd.'

'Gwae fi te. Dwi ddim yn meddwl hynny. Dwi ddim yn difrïo'r corff byth.'

'Beth te ... beth yw Rhyw... i... chi?' gofynnai hi'n araf. Roedd ei ddwylo'n gynnes o hyd.

'Dych chi'n gofyn i gryn awdurdod,' meddai yntau'n araf gan gilchwerthin.

'Mi wn i. A dwi'n gofyn awdurdod o gwestiwn – brenin cyfan o gwestiwn. Ond beth te?'

'Llawer o bethau. Heddiw, mae'n llaca ac yn grawc,' meddai ef yn orchestol gras; ynganai ef y geiriau â thafnod ei enau, 'yn rhew, yn ddryll, yn frat, yn datws, yn glec,' blasodd ef bob sillaf fân fel moronen amrwd, 'yn smotiau, yn glebran, yn gnoi, yn sbageti, yn fawd, yn wichian, yn gaib.' A rholiai ef y sillafau hyn yn oer oll o gylch ei daflod.

'Geiriau cras trwchus,' addefai hi.

‘Geiriau’r bola. Geiriau Rhyw.’

‘Dych chi ddim am ymwadu â hanfodion arferol Rhyw, ac addurniadau felly, does bosib. Er mwyn geiriau.’

‘Wel na: peidiwch â’*m* camddeall i. ’Y mhwynt i yw hyn: mae Rhyw yn llenwi llawer. Cryn lawer.’

‘Ambell wacter.’

‘Ond mae’n *perthyn*. Fel popeth arall mae’n cael math o gyd-berthyn er mwyn aros yn fyw. Felly, rhodd yw e. Mae’n cyfannu weithiau. Mae’n rhisgl ac yn benglogau, yn fforc, yn gig, yn bwyth, yn ffwng, yn glewtyn, yn slag, yn gyfog, yn ddŵr croyw cras, ac yn friwsionyn crych tila hefyd. Ac mae’n gallu pydru. Mae modd ei anrhydeddu. Ond Helen fach, dyw-e ddim yn bopeth.’

Roedd e wedi dal i daro’r geiriau oll ar ei ddannedd fel darnau bisgïen. Pwysai rhwng rhai ohonynt fel pe bai’n chwilio am fywyd a mwy o fywyd o dan garreg.

‘Geiriau glew i gyd efallai, ond geiriau,’ meddai hi heb ei bodloni.

‘Ac mae geiriau’n fwy o lawer na geiriau. Maen nhw’n fywyd anwel yn y person. Hynny’n bennaf.’

‘Fel yn nhoiled Llanbiblig, iefe?’ brathodd hi’n greulon dshep. Chwipiodd hi ei dwylo allan o’i afael. Teimlodd ef y ffrewyll ar wrymiau’i gefn. Roedd hi wedi bwriadu bod yn ffaidd, ac fe lwyddasai. Crinodd ei falchder pitw. Tawelwch a ddisgynnodd rhyngddynt.

Suddodd hithau’n ôl i’w chragen. Aethant ill dau yn un â’r ddaear. Dwy gragen.

‘Tawelwch hefyd yw Rhyw pan fydd mewn oed, y tu ôl i’r geiriau i gyd,’ meddai ef yn dawel o’r diwedd. ‘Mae’n beidio â dweud dim, dim ond cyd-ryfeddu fel tân bach cynnes ar waelod yr enaid oherwydd bod y môr a’r machlud yn diflannu yn anadl ei gilydd. Mae’n hiraethu hefyd yn dost pan fydd y llall i ffwrdd am ddiwrnod hir. Mae’n wasanaeth, yn gyfeillgarwch. Mae’n awydd i gynorthwyo. Mae’n harddwch. Mae’n addoliad teuluaidd hardd. Mae’n gofyn am gwmni.’ Ond roedd ef wedi cael ei siglo ganddi.

‘Ddim byth felly yn achos y pagan yma o leia,’ poerodd Helen yn ddiymatal. Troes ei phen ymaith: ‘Hynaf twyll, hunan dwyll.’

‘Wel, dyna ni, dwi wedi dadlau fy nadl, madam Gweledig, wedi caffio ’nghyffes,’ meddai yntau’n ymollyngus.

Cafwyd ysbaid o annealltwriaeth galed drachefn. Ysbaid helpfawr o annealltwriaeth gytûn. Wedyn, estynnodd hi ei llaw yn arafaid fel cyfaill coll a chyffwrdd ag ef. Hyhi a

glosiodd at ei law ef y tro hwn. Rholiodd ei llaw ar gefn ei law ef. Ni syflai ef. Roedd hi'n edifarhau.

'Rych chi'n ... hardd,' meddai hi o'r diwedd er ei gwaethaf ei hun, ond heb angerdd.

Gwenodd ef yn bur anghrediniol. 'Dwedwch hynny wrth 'y nghynulleidfa yn Llanbiblig.'

'Ond yn sicr ... i mi,' parhaodd hi, ' wrth gwrs, yn bendifaddau ... mae'n amhosib. Mi wyddwn i.'

Roedden nhw wedi bod gyda'i gilydd yn y fflamau. Roedden nhw wedi bod gyda'i gilydd yn y dŵr. Y ffŵl a'r efrydd ddiystyr. Buon nhw'n casáu, buon nhw'n caru. Ef oedd y dyn a achubodd ei bywyd. Ond amhosib yn awr oedd hyn o gyd-wynebu. Gwyddai Len yn burion tan arafwch ei feddyliau'i hun mai hi oedd yn llygad ei lle. Roedd hi'n methu â bod yn ddigon anwel iddo.

'Fydd byth blant gen i,' meddai hi fel pe bai rhyw isymwybod yn methu â thynnu cwningen o'i het. 'Amherson ydw i. Ac anfenyw.'

Chwarddodd ef oherwydd ei bod yn mynd i gyfeiriad mor wallgof.

'Ffrindiau bychain. Mae'r rheina'n ffrwythau braf. Gwenau ar waelod afon.'

'Chwarae nabod.'

'Dwi'n credu mai'r unig ganlyniad mawr byth yw nabod,' meddai ef mor gyfriniol ag y medrai fod. 'Nabod yw'r ddedfryd eithaf.'

'Pa fath o beth fyddai hynny i ni te?'

'Tiriondeb cloff,' meddai fe'n syml. 'On'd yw hynny'n rhywbeth yn yr ugeinfed ganrif?' Ef yn awr oedd yn gafaél yn ei dwylo hi; ac er oered ei dwrn, gafaélai ynddynt fel pe na bai byth yn mynd i'w gollwng, ac fel pe bai wedi dechrau'i deall.

Gwenai ef arni yn awr, ac yr oedd ei apêl ati yn ffres fel dŵr rhedegog.

'I beth?' gofynnai hi.

Iddi hi, dyna'i mellith, a'i hobsesiwn, holl ran waelod ei chorff o'i gwasg i lawr, y cwbl. Roedd hi'n mynnu marw o fewn hynny i gyd, er mynnu byw. Ond ei chaledrwydd a drawai Len. Oerai ef tuag ati o'r herwydd, yn ddistaw, ac yn fwy nag y sylweddolai. Doedd yntau erioed wedi llwyddo i gyfarfod â'r un wraig gron gyfa y gallai'i hadnabod yn iawn. Mair, Maxine, Helen druan: rholient yn wirion ar y ffilm o'i flaen. Roedd ef yn siomedig. Roedd hi fel pe bai'r tair hyn wedi cael eu cynnig i'w lygaid yn ddiweddar er mwyn profi iddo gyfiawnder ystyfnig ei wryfydod unig. Ac eunuch greddfól oedd ef o fewn triongl geometrig y gwagedd.



Dyna fyddai'i rawd hurt yntau mwyach, debyg.

Ac eto, — hon: gwahanol oedd hi, doedd dim dwywaith amdani. Ei hangen a'i rhwymai ef. Fe gaed ynndi atgof byw o Wili, yn dân ar ei gydwyl, yn llyn dros ei gof. Ac eto roedd hi'n annigonol. Tybed a oedd yna rywbeth yn bod arno ef fel na allai gwraig o unrhyw fath byth fod yn ddigon iddo?

Dirgrynodd wrth feddwl am y fath beth. Alis o'r diwedd dorrodd ar eu traws. Ymddangosodd-hi allan o'r goedwig losgedig, a chrochan toredig mewn un llaw a doli glwt yn y llall. Daeth hi tuag ato yno fel awel sydyn. 'Dwi wedi ffeindio achos y tân,' meddai. Deffroesant o'u cyd-dawelwch ac edrych arni'n chwilfrydig. 'Crwydriaid. Edrychwch. Wedi bod yn seremonïa. Wedi gadael marwor yn mudlosgi yng ngwaelod hyn.' Gosodai'r crochan ar y llawr. 'Rhyw ddefod ddwedwn i. Yr Ocwlt, Helen. Dy Ocwlt bendigedig di. Crwydriaid yr Oes Newydd fu bron â'n lladd ni.'

Gwenai Helen yn chwerw. 'Nhw dynnodd yr holl dŷ i lawr. A'r wybren. Y sêr, y lleuad, y cwbl.'

'Mae'n ffordd o fyw,' meddai Len.

'A hyn,' meddai Alis gan osod y ddoli ar y llawr, ffiguryn yn null a golwg un o'r merched brodorol, gyda bronnau anferth, llygaid wedi suddo, gwallt yn sticio i fyny, a phriciau wedi'u doddi yn ei bol mawr. 'Yr oes newydd,' meddai hi. 'Mae'n ffordd o farw hefyd.'

Cododd Len y ddòl. 'Ga-i gadw hon? Oes 'na wrthwynebiad? Delwedd goffa am yr ymweliad.' Gafaelai'n dyner fel pe bai haint ar y peth. Teimlai sarhad yn esmwythdra'r pren.

Nis gwrthwynebwyd gan neb. A gosododd Len y ffiguryn o'r neilltu er mwyn mynd ag ef yn ôl i Gymru. (A'r funud yna, meddyliai ef am Bill, ei gyfaill yr esgob, yn codi carreg o'r llawr, carreg ymosodol, iddo fynd adref â hi wedi iddi chwipio drwy'i ffenest.)

Ond cwbl ymwybodol oedd Len o hyd i'w ysbryd fynd yn amhosibl o lugoer yn ddiweddar. Gwyddai arwyddocâd ei wendid, wrth gwrs, ac roedd yn ei feio'i hun. Roedd yn argyhoeddedig rywsut, yng ngwaelod ei fod, fod a wnelo ef ei hun rywfodd â'r distryw hwnnw i gyd. Ef oedd wedi dod yno, i ganol eu cibwts. Ei dân ymyrrol ef fu hyn ar ryw olwg. Ef oedd yr elfen anghyfiaith. Derbyniasai'n ffurfiol os yn jocôs yr esboniad tybiedig hwn gan Alis. Ond nid oedd yn ei chredu. Gan gymaint yr ysgydwyd ef yn fewnol gan ei gaddug ei hun, mynnai ymholi tybed wedi'r cwbl onid ef a fu'n gyfrifol am ollwng rhyw

wreichionen aliwn ysbrydol yno? Wrth ddod yno, wrth gicio cerrig ar hyd y ffordd efallai a chodi gwreichionen, wrth wyro'n jocôs oddi ar y llwybr a osodwyd iddo, wrth fodoli, onid oedd wedi dod ag elfen annidwyll estron i'r berw i gyd?

Ond pa beth, a sut? Ai ei ewyllys, ei elyniaeth ef, oedd wedi cynnau gelyniaeth y lle?  
A oedd bod yn ddieithryn digroeso yn ddigon?

Onid ar ymylon y llwybr yr oedd ef wedi'i ddilyn ar ôl gadael y tacsî i gyrraedd yno, onid yn sgîl ei drywydd ef, onid dyna lle yr oedd y tân wedi cychwyn?

Byddai trychineb o'r fath mor gwbl nodweddiadol ohono rywfodd. Dilynid ef yn ddiwyd ac yn gyson gan gysgod meddiannol ei fethiant dieithr ei hun a'i angen. Ei galedrwydd ysbrydol. Ei fethiant ef oedd, wedi'r cwbl, wedi cynnau'r tanllwyth. Ymdeimlai fod Rhagluniaeth bellach gan bwyll yn ewyllysio iddo gerdded ymhellach ar hyd llwybr tywyll cyn cael gafael ar lawnach ystyr i'w fywyd diweddar. Aethai'n fyddol ac yn galed.

'Rÿn ni i gyd yn gwneud camgymeriadau,' meddai ef yn obeithiol isel wrth Helen. Ac yr oedd hynny'n un ffordd o ddeall beth yn union oedd yn ei erlyn o hyd ... Unigrwydd diberthynas uwch ... Ond hithau, ni wnâi ond gwenu'n chwerw'n ôl ar ei gamgymeriad enbyd ef.

## 9

Croesi'r ffordd yr oedd y pedwar dair wythnos wedyn, Mair, Maxine, Helen a Len. Roeddent o fewn rhyw drichanllath i fynedfa'r maes awyr. Gwrthodai Helen gael ei gwthio, ar egwyddor. Gwyddai beth oedd syberwyd. Er bod ceir yn holi a stilio o bob cyfeiriad, mynnai fod yn atebol. Y triawd, Maxine, Helen a Len oedd yn ffarwelio. Mair yn unig a arhosai i warchod Awstralia. Ond roedd hi'n ddigon atebol.

Roedd y diwrnodau carthiol diwethaf wedi bod yn rhai a feithrinasai o'r newydd ruddin yn hunan hyder Helen. Penderfynasai o'r diwedd ddychwelyd i Gymru. Wedi penderfynu, gweithredu'n bendant a wnâi. Ni phlygai i neb. Nid cefnu'n negyddol ar y cyfandir hwn yr oedd hi, o leiaf nid yn negyddol yn unig. Gwrthodai ddeall pethau yn y modd hwnnw. Âi'n ôl gyda disgwyliadau newydd, a hynny i wlad ddirgel bellach, i wlad Wili, ond gyda mwy o ddealltwriaeth nag a oedd ganddi ynghynt.

'Gwylwch!' gwaeddai Len yn ddisymwth iasol.

Edrychai Helen arno'n chwyrn. Roedd hi'n ddig. Awgrymu a wnâi ef nad oedd hi wedi gweld y Mini'n gwibio o'r chwith. Beth oedd arno? Yna, o'r dde, tacsî. Heb fod neb wedi

sylwi, hwyliai'n hwylus tuag atynt fel pe na fynnai ganfod dim o dan rywbeth mor galed â'i drwyn. Y peth cyntaf i'w ddysgu am lygaid gyrwyr tacsî Sydney yw eu bod oll yn gibddall. Yr ail yw eu bod yn erbyn dysgu gyrru, ar egwyddor broffesiynol. Ac yn drydydd, yn sydyn, daliwyd olwynion ôl Helen, chwyrlïwyd ei chadair olwynion i'r awyr, lluchiwyd hi fel taranfollt i fûn sbwriel pe bai un yno ar gael. Safai'r tri chydymaith mewn syndod gorllygadog gerllaw. Sut?

Sut y gallai'r peth ddigwydd o dan eu trwynau hwythau? Gorweddaî Helen yn syn ger eu bron. 'Yn ôl i'r tân!' hiraethai'i chleisiau. Brifwyd hi'n ffaidd ar ei hysgwydd. Difwynwyd ei mawrhydi a'i breichiau, ond ddim yn eithafol. Ni fwriwyd mohoni'n anymwybodol, ond roedd gan ei hisymwybod hewl i'w dweud wrth orwedd yn ddiurddas ar y llawr. Dan ei briwiau roedd ei balchder yn sisial yn ysig.

Wedi oedi am eiliad o ysgytwad, rhedodd y tri arall ati. Chwifiodd gyrrwr y tacsî ei ben drwy'r ffenest i felltithio holl hil anhapus halogedig trafndiaeth fenywaidd.

'Helen, ych chi'n gyfan ferch?' gwaeddaî Mair yn gyfeillgar ei gofal.

'Dych chi heb dorri dim?' holai Len yn glinigol.

'Peidiwch â ffwdanu,' meddaî Helen mor hunanfeddiannol ag y medrai darnau o rywun ar lawr. 'Hedfan yw fy hobi.'

'Gadewch inni'ch helpu,' meddaî Mair gan ddawnsio tendans. Ymsythai Helen. Hyd yn oed mewn sefyllfa mor ddibynnol, roedd hi'n hwyrfrydig i ymostwng i drefn heb fod yn annibynnol. Ond y tro hwn drachefn doedd fawr o ddewis. Cododd Len hi damaid wrth damaid yn ôl i'w chadair.

'Gwell inni'ch helpu,' meddaî Mair, 'i ymlwybro drwy'r dyrfa.'

'Mi'i gwna-i'n iawn,' meddaî gweddillion balch Helen gan geisio chwilio am unrhyw esgryn sbâr a adawsai ar lawr. 'Tra galla-i, mi'i gwna-i.' Roedd hi'n gleisiog deimladllyd. Ond mynnai lynu wrth fratiau'r hyn y mynnai'i galw'n hunaniaeth gymaint ag y medrai er y gwyddai'n burion y byddai yna rai sefyllfaoedd, wrth reswm, wrth fynd i'r awyren lle y byddai'n rhaid iddi gyfaddawdu eto.

'Ych chi'n iawn?' holai Maxine bron yn gydymdeimladol.

'Ow! ffwdandod. Doedd hynny'n ddim byd: dyna fy niddanwch i.'

'Dowch gyfeillion, te. Gwell inni symud yn ein blaenau,' datganai ymarferoldeb newydd-ddarganfod Maxine gan gydio'n feistrolgar ym mreichiau cadair olwynion Helen. Dyna'u hesgeiriau'n datgan i'r osgordd 'Ymlaen.' Wedyn, er na chlyw-wyd mo'i llais diamynedd

onid yn rhithiol yn yr hwbwb, digon oedd osgo Maxine i gyhoeddi i'r planedau a'r betws beth oedd yn digwydd. Roedd hi wedi dosrannu ei lluoedd yn gytbwys, Len y naill ochr, Mair y llall. Roedd y tanc a osodwyd yn y canol bellach yn llwyr o dan ei rheolaeth. 'Rhagom!' Ymlwybrai drwy'r arhosfa eang a'i magnelau'n carthu'r llwybr. 'Rhagom!' Nid am ddim y'i dyrchafodd ei hun yn gadfridog. Chwythai utgyrn gloyw ei ffroenau.

A'r cwbl oll yn fwyn, yn llywodraethol fwyn. Goruwchlywodraethai'r holl broses helaeth, heb ymostwng yn is nag addfwynder cyflawn. Ond mwynder milwrol di-lol oedd. Torsythai Maxine yn ei blaen yn ymosodol fwyn gan wthio cadair olwynion Helen gyda llond cert o benderfynolrwydd tirion, ymlaen.

Ac eto ni allai Mair lai na'i charu gyda gwên. Ei 'hoffi' efallai fyddai'r gair union. Nid arferai Mair 'garu' neb, na mab na merch na chath, mor lynog ag y gwnâi Maxine. Nid oedd chwaith wedi cael ei dolurio gymaint. Roedd Maxine hithau ar y llaw arall wedi cael ei siomi ynghwsg ac yn effro; ond gwyddai mai brwydr oedd brwydr. Tosturi oedd casgliad ffarweliog Mair hefyd am ei ffrind, fel na allai — yn ei bryd hi — fod yn genfigennus ohoni mwyach. Fe'i hoffai, druan. Ond yr hyn y cenfigennai ato, serch hynny, oedd sicrwydd emosiynol Maxine. Medrai Maxine, hyd yn oed yn niwedd y tipyn ugeinfed ganrif, ymaflyd yn y profiad gwaharddedig o sicrwydd deallol. Ymdeithiai'n feistrolgar rhagddi nes cyrraedd atalfa ym mhen draw'r arhosfa. Yma y safai, heb wyro'i llygaid, nac i'r dde nac i'r aswy law. O'r tu ôl i golofn dew yn y fan yna, sut bynnag, clywai Helen sibrydiad. A thra oedd Len a Maxine yn syllu'n amhendant glinigol tuag at olau fflachiol arwyddion yn yr awyr y tu allan, symudai Helen ei chadair rhagddi i'r cyfeiriad sibrydlon; a phwy a welai yno lond y lle ond Alis.

'Na! Alis!'

'Ust! dwi ddim yma. Does gen i ddim dillad addas. Dwi ddim wedi newid ar gyfer dy osgordd aruchel.'

'Newidi di byth bythoedd.'

'Fe ddes i'n sydyn. Dwi ddim yn ffit i gymysgu gyda'r crachach yna.'

'O! Alis fach, paid â bod yn wirion. Ti! Yma?'

'Roedd rhaid imi ddod 'lawr i ffarwelio. Doedd hi ddim yn iawn iti ganu'n iach nac yn afiach heb fod un o dy bobol dy hun wrth law.'

'Sut mae pawb?'

'John wedi taro'r botel.'

‘Ar y criws? Dyw hynny’n ddim yn ddyfais newydd.’

‘Mae’n crwydro drwy’r caeau a’r goedwig fel prentis bwystfil.’

‘Dyna sut mae e, yn rhy aml, druan.’

‘Dwi erioed wedi’i weld-e fel hyn.’

‘Dychmygu rwyt ti.’

‘Mae e’n rhuo o gwmpas persawrau’r ffarm. Fel Twrch Trwyth, eisiau i rywun ei hela. Mae e’n rhegi, yn bugunad, yn tuchan. Does dim taw arno.’

‘Ond rhuo beth?’

‘Hyhi! meddai fe. Hi! Hi! fel hyena dros y lle. Tipyn o embaras.’

‘Dwyt ti byth yn meddwl ...?’

‘Llwybr serch ti’n gwbod.’

‘Na! Byth! Chwerthin mae-e, dyna’r cyfan, ei hoff ffug chwerthin.’

‘Mae e wedi’i frifo, mae’n llusgo ei draed hyena ar ei ôl fel ’se fe wedi’i glwyfo’n realistig. Byddet ti’n ofni ’set ti’n ei weld e, yn bwhwman ac yn ochain led y wlad.’

‘Plentyn yw e. Ddim wedi cael ei degan i’w gicio.’

Ar y gair cododd yr atalfa swyddogol a oedd wedi rhwystro ymdaith Maxine. Chwiliai’i llygaid am Helen. Synhwyrai Helen hyn. Syllai Alis yn hiraethus yn ôl arni.

‘Gwranda, mae’n ddrwg ’da fi. Mae’n rhaid ...,’ protestiai Helen.

‘Oes wrth gwrs. Ond cofia, mae ’na le bob amser i law wen fach i gadw’r llyfrau acw, ac i goginio ambell ginio.’

‘Oes, mi wn i.’

‘Siomi ’wnaiff Cymru, gei di weld. Gofala amdanat dy hun.’

‘A thithau, a John a phawb ...’ Cipiwyd hi i ffwrdd, ar draws y tarmac. Diflannai Alis. A thrôï trwyn Helen tuag at ymadael. Nid oedd ar y cyfandir ei hangen hi mwyach. Roedd hi wedi cael ei gwneud yn ddieithryn fan yma, a difaterwch y tân wedi’i halltudio. Nid oedd y trwynau eraill mor frwd. Dim ond llaw wen unig a thrist Mair acw yn gafaelyd yn y lympiâu awyr wrth i honno suddo’n ôl yn ddyfnach ddyfnach i Awstralia, dyna a wyliai Helen a Len mewn syndod. Ymbalfalai’r llaw anwel honno yn awr am sicrwydd yn y gwagle. Methai â dal odid ddim. Codai Len yntau’i law bell arni bron fel pe bai’n cau drws mor dawel ag y gallai: llaw a llaw fel pili-palod enfawr cleisiog yn adlewyrchu’i gilydd. Sylwai wrth esgyn y gangwe ar enw bach wedi’i baentio ar gorff yr awyren ar bwys y caban-peilot: Rocinante. Y march hwn a gariai Maxine (ac yntau, Len, yn Sancho Panza iddi) ar eu hanturiaethau

gwrth-ramantaidd tua'r glaw. Brysiai ef ar drywydd Helen. Hyhi yn awr oedd ei briod gyfrifoldeb ef.

Ac wrth gwrs, ganddi hi yr oedd y cysylltiad dilys â Llanbiblig. Gwyddai Helen am bawb a phopeth yno, nid o ran atgof yn unig nac o ran dychymyg, ond fel ffenomen fyw amherffaith.

Ymestynnent ill tri ymlaen yn awr, bob un mewn ffordd wahanol, tuag at y Gymru yr ymadawsent ill tri â hi mewn ymagwedd ddigon negyddol.

Ef a'i perswadiodd hi mai Cymru oedd ei gwir gynefin. Ryw ychydig ynghynt, wedi i Maxine a Mair dychwelyd i Sydney o gyffiniau Dyffryn Heliwr, ac wedi i Len yn Nyffryn Heliwr aros gyda Helen am ychydig heb na Mair na Maxine ar eu cyfyl, bu ef a Helen yn sgysio yn ymdrôus am Lanbiblig. Datgelai hi'i hen hoffter dwfn o'r ardal. Roedd ganddi wreiddiau. Siaradent am gynganeddwyr yr ardal. Dechreuai dyfodol Helen ymffurfio yn ei meddwl o'r newydd. Ac wrth i hynny ddigwydd ymddangosai Len yn fwyfwy o gymydog iddi. Onid ef fu cymydog Wili? Nid oedd ganddi fawr o galon mwyach i wrthwynebu'i berswâd taer mai'r peth callaf fysai dychwelyd i Gymru gydag ef, ac mai dyma'r amser priodol iddi hi roi'r gorau, am y tro o leiaf, i'w hanturiaeth Awstralaidd, a'i gwaddoli fan yna yn y lludw. Fu hi erioed yn hapus yno. Dylai yn ddiau fanteisio yn awr ar y cyfle gyda Maxine a Len. Dychwelai'n ddiymdroi dan eu gofal. Âi'n ôl gyda nhw ar eu pwys, felly, ac eto nid gyda nhw chwaith. Rhaid fyddai iddi rywfodd ddiogelu'i hannibyniaeth.

Ers peth amser, dibynasai Helen mwyfwy ar gyfeillgarwch Len am bob cynhaliaeth seicolegol. Dibynnai ar ddwylo Maxine i'w gwthio. Ond arni hi ei hun y dibynnai'n fras am y diflastod. Doedd Maxine ddim am sylweddoli beth oedd yn digwydd.

Croesasent y tarmac tywyll at yr awyren. Roedd pob un o'r tri wedi teimlo bod ymadael â'r derfynfa megis tramwy drwy len anesthetig er mwyn cyrraedd ymwybod newydd.

'Fues i erioed yn fawr o fforiwr,' meddai Helen. A chyffesu yr oedd hi yn isel i Len. Datganai'n ôl hefyd tuag at y cyfandir gwag a'i hamgylchai heb na thŷ na thwlc yn unman, mai un o'r boblach oedd hi y cerddai'r ddaear drosti yn hytrach nag un o'r rhai a gerddai *dros* y ddaear. Roedd y ddamwain enbyd a ddifethasai'i chorff, ynghyd â gwawdio dygn John ar y fferm yn ddiweddar, ynghyd ag ambell gynhaeaf cloff yn y winllan, ac yn awr y tân, a'r dadrithiad cymedrol a dyfasai ynddi tuag at yr ocwlt, ynghyd â'i hiraeth ar ôl Wili, roedd y cyfan trwm tramwyol hwn wedi'i hysigo o'r diwedd a'i gadael ar y llawr heb y cyndynrwydd i godi. Hyn fu Awstralia iddi felly. Gorsaf dros dro. Wedi'i thorri roedd hi

bellach. Mor briodol oedd hi mai gweithred olaf Awstralia fawr fu ei lluchio i'r llwch. Roedd hi'n dychwelyd i Gymru'n doredig. Dylsai fod wedi dychwel ynghynt pan oedd Wili'n fyw. Ond drwy'i hewyllys ledled y llawr ceisiai rywfodd o hyd gadw'r un pryd fin ystyfnigrwydd hunan-barch. Mynnai'i hannibyniaeth. Mynnai'i rhyddid. Ond ildio fyddai raid y tro hwn eto i rywrai os oedd am ailsefydlu yng Nghymru.

Naw niwrnod ar ôl y tân roedd hi wedi mynd ati'n bwyllig i geisio cau pen ar y mwdwl Stralaidd. Anochel oedd ymbaratoi i'r siwrnai'n ôl i Gymru.

Eithr Maxine a arweinai'r ffordd. Wele Faxine ddewr ei bron. Syllai llygaid llywodraethol Maxine o'i deutu fel drylliau. Ymddangosai'i chyfarwyddiadau pendant yn sydyn fwyn ger eu bronau oll, a chrinai'r cwmni o'i blaen.

'Gofala-i am Helen,' meddai hi'n fuddugoliaethus fwyn ar waelod yr esgynfa i'r awyren. 'Sut wyt ti'n teimlo erbyn hyn 'mechan i?'

Doedd gan Helen ddim i'w ddweud wrth Maxine. Roedd y fenyw'n anghymedrol o fwyn. Llethai'r neb a ymunai â'i rhengoedd cymen. Estynnai'i mwyneidd-dra'n gyfarwyddyd tawel, ymddiheurol bron, yn gyntaf i'r stiwardesau sut i godi Helen ar y lifft bach arbennig, yna i Len ble i fynd, beth i'w wneud, sut. A Len yntau yn prancio hwnt a thraw yn ddigwestiwn wrywaidd yn ôl yr arwyddion profiadol a gâi ganddi. Noliai Maxine y stiwardesau iddi, a hwythau'n cael gwybod yn weddol glir, os yn fwyn, sut i'w chodi, ble y byddai'n eistedd, a pham. Gwyddai ef ei le. Swatai Helen yn ôl yn ei chadair gan wenu o'r tu mewn wrth wylid yr unbennes hon yn llywodraethu'r perfformans fel gordd eithriadol fwyn o fewn eu triawd trwsogl.

Mor iach oedd Maxine o'i sawdl i'w chorun. Roedd hyd yn oed ei chroen yn pefrio o hawddfyrd cryf. Byrlymai mefus a hufen, pe gallent, allan drwy'i thyllau chwys. Symudai'i haelodau'n ffrwythlon. Math o frenhines oruwch addfwyn oedd Maxine, a hoenusrwydd yn gyswynair clepiog iddi. Symudai fel niwl penderfynol amgylchol o'r derfynfa i'r tarmac i'r awyren gan gario Len a Helen ac aroglau Strailia benbaladr gyda hi. Rhaid ei bod wedi trefnu'r cwbl a chlymu'r cynlluniau mewn isymwybod taclus. Ond ei chael ei hun yno, am mai yno yr oedd i fod, ynghyd â Len a Helen a phawb a phopeth a oedd i fod yn osgordd iddi, dyna oedd buddugoliaeth bersawrus Maxine ar y pryd.

'Eistedda,' gorchmynnai Maxine. A dyma Len yn rhoi'i bawennau yn ysgafn ar y sedd o'i flaen ac yn cydnabod ei le.

Drwy ymennydd Len yn awr llithrai adolygiad hir o'r tipyn ymweliad hwn a drawsai â'r

hemisffêr ddeheuol. Do: bu yno, a choncro i raddau. Er ei waethaf ei hun yr oedd wedi lled adnewyddu math o serch niwlog at Mair. Yr oedd hyd yn oed wedi lled ymhoffi yn Helen. Yr oedd wedi cwmpo am bawb a phopeth ond yr union un yr oedd i fod i gwmpo amdani. Doedd Maxine ddim wedi argraffu'r bywyd a ddylsid ar ei fywyd ef. Gorffwysfa onid seithugrwydd fu'r anturiaeth Awstralaidd hon i'r berthynas honno. Dim mwy.

Yn ôl yno, acw ar dir sych Awstralia, mor brudd â phridd, dychwelai Mair hithau linc-dilonc drwy'r derfynfa awyr. Wylai'n anweledig unig. Ni wyddai pam. Hyhi, Mair, yn unig oedd biau Awstralia mwyach, a byddai'n rhaid iddi gymryd ei swydd o ddifri. Ysgubai'i llygaid yn bendrist yn awr ar draws cymaint o'r cyfandir ag a geid o fewn libart yr awyrenfa.

Roedd yn gorfod mynd yn ôl drwy'r twnnel antiseptig oer hwn bellach allan i'r cyfandir septig, doedd dim dewis. Y tu mewn i'w phen yr oedd cleren ddu weddol swnllyd yn chwifio o gwmpas fel pe bai'n aelod o'r Senedd. Grwnan a wnâi honno yn undonog ymosodol ar hyd waliau penglog Mair. Ceisiai ddihangfa rywle. Bwriai'r peth yn ddi-glem yn erbyn yr ochrau plastig gan geisio rywsut rywfodd fynd allan, ond methai wrth gwrs.

Anobeithiol! Trodd Mair o'r neilltu cyn cyrraedd yr allanfa wrth iddi basio Ystafell y Menywod, a phicio i mewn. Ebychai'n ymollyngus yn y drych fel pe bai'n cael ei chyflwyno i berthynas nas gwelsai ers deugain mlynedd. Teimlai nad oedd yn gwybod sut yn y byd i agor sgwrs gyda hon. Roedd yna ychydig o faw o dan un llygad. Gwlychai'i hances dan y tap a cheisio ei rwbio ymaith, ond methai. Roedd y gwg yn y drych yn ei chasáu.

Roedd Awstralia i gyd yn wag. Roedd hynny o boblogaeth a ddylsai fod yno oll wedi ymfudo. A hithau ar ôl yn unig.

Yna, sleifiai yn ôl a heibio i'r dderbynfa lle y gofynnai hi i'r ferch antiseptig y tu ôl i'r cownter yn gwbl ddibwrpas pa bryd yr oedd yr awyren nesaf yn mynd i Lundain. Dywedai honno fod yna un am hanner wedi chwech. 'Diolch,' meddai Mair gan grymu'i phen yn ffurfiol. Agorai'i bag fel pe bai naill ai'n chwilio am arian neu am docyn. Fan yna roedd hi wedi doddi'i hances rywle. Dyma'i hallweddau. Minlliw. Stampiau. Ychydig o arian. Sgriw. Llythyr oddi wrth y banc. Syring. A! Gwenai'n antiseptig drachefn ar y ferch y tu ôl i'r cownter. Actio yr oedd y cwbl. Ond rywfodd yr oedd yn barotach bellach i fynd adref. 'Diolch,' meddai eto'n fwy breuddwydiol wrth y ferch fel pe bai Maxine yn dal i hongian ymlynu wrth ei gwisg. Ac ymadawai fel pe bai'n deithwraig newydd gyrraedd. Onid oedd Len, onid oedd Maxine, onid oedd Helen, onid oedd Cymru oll wedi hen ymlwybro ar draws y tarmac hwn i mewn i'r awyren yn fuddugoliaethus hebddi? Absenoldeb oedd ei



dyhead hywaith. Ond, am ychydig o funudau dirgel, bod yn sych fan yma oedd ymrwymiad cyfrifol y cyfandir iddi, y tu hwnt i unrhyw un o gusanau'r amgylchfyd plastig.

Menna a'i croesawai'n ôl. 'Dwi'n pryderu amdanat ti. Clywed amdanat ti'n mynd i ganol llwyth y cyffuriau 'na o'r Oes newydd... a'r fenyw ofnadwy 'na, Maxine, yn d'arwain di...Dwi'n synnu atat ti. Menyw d'oedran di, dy safle, yn ffrind orau i, a'r hen bethau llancaidd 'na... Dwi'n gofidio.. Croeso'n ôl, Mair, i'r lle'r wyt ti'n perthyn.'

## 10

Yn yr awyren ei hun, er bod Helen yn sicr ei bod wedi cymryd y dewis cywir, nid cwbl ddididig oedd ei theimladau tuag at ei chyd-fforddoliau. Casâi Maxine. Dyna'i pholisi swyddogol bellach. Roedd yn barod i wneud cytundeb gyda'r Swyddfa Dramor ar y mater. Wrth iddi gael ei chario i'r awyren teimlai bwysau'i chaethiwed dan ddwylo gwynion y fenyw hunan-ganolog honno. Doedd hi ddim am gydymffurfio â chrafangau hon, yn sicr. Hon a gyhoeddai bresenoldeb ei phwysigrwydd wrth hwn a'r llall. Hon a gliriai'r eil fel carthu'i gwddf. Hon a drefnai'i phob symudiad hi. Hon oedd popeth. Yr arswyd! Doedd hi, Helen, yn ddim oll. Llithrai i mewn i olau llachar calon yr awyren fel pe bai'n dameityn o wyll yn treiddio'n gynyddgar i dwannel tywyll.

A chyn gynted ag y cyrhaeddodd ei sedd, sylweddolodd fod yna rywbeth yn bod. Edrychai o'i chwmpas. Roedd yr awyrgylch yn annaturiol. Roedd hi am fynd allan. Dichon fod ei chroen hi'n fwy effro i'w hamgylchfyd na'r ddau arall. Rhoddai'i chyd-deithwyr eraill iddi ar hyd y caban yr argraff eu bod oll yn gwisgo du. Os nad oedd hynny'n llythrennol wir, roedd cyfran helaeth ohonynt yn dduach eu diwyg na'r cyffredin. Roedd gan lawer ohonynt locsys duon cyrliog hefyd a hetiau duon. Gorwedda'r düwch yn fgythiad ar draws y caban. Ac unwyd y giwed gan fwy na'u düwch. Unwyd hwy gan ddifrifwch gwrywaidd hefyd a chan eu gwahaniaeth i bawb arall, gan yr atyniad i edrych arnynt, gan eu penderfyniad ceidwadol i wrthod cydymffurfio â moderniaeth, gan yr awyrgylch ystyfnig ynysedig a'u coleddai'n etholedig. Iddewon felly.

Am yr eil â hi yn yr awyren eisteddai dwy ferch ifanc. Ewropeaidd. Nid adwaenent ei gilydd cyn esgyn i'r awyren, ond yn fuan yr oedden nhw wedi taro wrth gyfeillach. Gwyliai Helen hwy gyda chwilfrydedd. Hoffai wylid. Sylwai o hyd ar berthnasoedd a thyndra. Perthynas oedd popeth. Sylwai fel yr oedd y naill o'r ddwy ferch hyn yn chwarae rôl

arweiniol. Roedd yn ei dangos ei hun braidd, yn clegar yn uwch na'r llall, yn chwerthin yn uwch ac yn cyflwyno'i syniadau'i hun yn uwch, tra oedd y llall yn ei phorthi, yn ceisio cytuno'n gwrtais, gan synnu lle'r oedd i fod i synnu. Gwenai Helen ei gwên hylaw. Dyma ddrych gwatwarus ohoni hi a Maxine.

Eisteddai Len rhwng Helen a Maxine, er bod Maxine yn pwysu ar ei draws o'i flaen at Helen bob yn awr ac eilwaith i dorri sylw cwta amherthnasol. Cadwai hi gysylltiad felly â'i dau gydymaith gyda pheth awdurdod. Amneidiai Len yntau hefyd tuag at y naill a'r llall, fel math o fam frenhines a ddibynnai'n gydwybodol ar ei pheiriant-gwenau. Roedd ef wedi rhoi'r ddoli glwt o'r tân, ffiguryn yr oes newydd, i eistedd yn y rheng bamffledi a geid yng nghefn y sedd o'i flaen. Eisteddai hwnnw yno'n hapus fel pe bai'n ei warchod rhag unrhyw anhap a allai ddigwydd mewn amgylchfyd mor ddidigwydd. Gwyliai Len hyder addfwyn Maxine a oedd mor debyg i fwyell gaboledig. A chlosiai yr un pryd at freuder Helen. Helen, y morgrugyn cloff. Syniai mor gwbl annibynnol gysurus ac atebol yn ei hochr oedd Maxine, heb geisio hynny. Mor fregus o ddibynnol ar y llaw arall oedd Helen er cymaint y ceisiai warchod ei phersonoliaeth ei hun. Nid oedd eisiau neb na dim na dibyniaeth nac annibyniaeth ar Maxine. Ond o'r braidd y gallai Helen, er ei gwaethaf, wneud dim oll heb droi'n anfoddog at rywun am gynhaliaeth.

Eto, ni chlywid 'os gwelwch yn dda' namyn siwrnai a siawns dros ei gwefusau tenau. Er mwyn goroesi bu'n rhaid iddi ers talwm wisgo clogyn bach sicrwydd anobeithiol, ac fe'i gwnâi gyda llewyrch tawel, heb hyder. Ond o'r tu ôl i'r clogyn hwylus hwnnw, fe lechai'i hangen, angen a argraffwyd yn ddwfn i mewn i fêr ei hesgyrn, angen un a gydiai mewn carreg gyfleus wrth ddringo i fyny hyd ymyl clogwyn ac a gafodd fod y garreg honno wedi briwsioni yn ei llaw.

Esgyn a wnaeth yr awyren ei hun o'r diwedd ar ddibyn cwmwl.

Hyrddiai honno'n gyhyrog yn awr yn ei blaen yn burwen drwy'r gwagle. Treiddiai corff Helen yr un pryd gan gleisio'r gwynt. Esgynnai, ac yna, wedi dod o hyd i'w lefel, ymwastatáu. Doedd dim yn digwydd. Gallai Helen ymdeimlo â nerth yr hedfan a'r gwth o'i deutu er nad oedd dim yn symud. Roedd grym cluniau'r awyren honno yn ymdaflu rhagddo, heb freciau, heb ffrithiant tir odano, heb ddim yn syflyd. Roedd yr ewyllys gwrywaidd hwn o'i chwmpas ym mhob man yn curo'n fud drwy'i haelodau diwerth. Ac eto, doedd dim oll yn digwydd. Teimlai Helen am foment braidd yn llewygus wrth i'r gwagle ymagor iddi, y tu hwnt i'w rheolaeth, ymlaen.

Te yn unig a yfai Maxine hithau ar y daith hon. Yn aflonydd, drachtiai gronfeydd-dŵr o de niwrotig. Roedd hi fel pe bai rhyw hawl fawreddog ganddi i orffen cymaint o de ag a oedd ar gael ar wyneb y ddaear hon. Ond un cannaid o gwrw yn unig, bob tair awr, dyna ddogh Helen. ‘Dwi’n mynd adre,’ meddyliai. Ac eto, doedd dim yn digwydd. Roedd bywyd yn ailgyfannu amdani eto. Doedd Maxine na Len na neb yn golygu dim iddi mwyach. Ar ei ffordd yn ôl roedd hi mwyach i diriogaeth Wili. Safai’r haul, a wawriasai o’r tu ôl i’r Tawelfor, yn awr yn ystyfnig stond dros gefnfor India a thywynnu fel yr oedd yn briodol tuag at ei hen lwybrau Ewropeaidd.

Casâi Helen gyfeillgarwch ymrwymedig.

Eto, ati hi y closiai Len fwyaf, at ei gwendid a’i nam hi, ac nid at Maxine. Ef oedd ei chyfaill. Gallai Helen, yn gynnes o anfoddog, synhwyro hynny’n eglur. Roedd ei diffyg hyder onglog hi yn rhagori ar hyder mwyn Maxine. Dichon hefyd ei fod yn ymdeimlo â’i thebygrwydd diamheuol i Wili. Beth bynnag oedd y rheswm, ymataliad Helen a enillai’i sylw mwyaf a’i sgwrs gysonaf yn ystod y daith. Ac ni allai Maxine hithau lai na sylwi fod canolbwynt disgyrchiant ei fryd bellach wedi symud. Hiraethai am ryw fath o argyfwng i ysgytio’r sefyllfa. Doedd dim yn digwydd. Roedd ar Len ofn Maxine.

Roedd y ddwy ferch, sylwai, wedi peidio â siarad. Ac yr oedd pob un yn llonydd.

Difarai Maxine, hithau bellach, am yr holl arbrawf. Difarai’i bod erioed wedi awgrymu i Len y dylent fynd i Awstralia. Beth fu arni? Methiant fu’r daith honno benbwygilydd, o’r cyffesu cychwynnol wrth hedfan yno hyd at y gymysgfa bresennol yng nghwmni Helen. Methiant oedd y cais i wybod diffyg teimladau Mair a Len at ei gilydd. Beth bynnag fuasai’i bwriadau cynhwynol, roedd y cwbl wedi troi o chwith.

Dylsai hi fod wedi aros yng Nghymru.

Yn y sedd o’u blaen yn awr roedd yna Awstraliad tywyll yn eistedd, un o ddisgynyddion y Brodorion, gŵr trwsiadus wedi dod ymlaen yn y byd, o bosib yn annisgwyl iddo’i hun. Bob hyn a hyn yn awr trôï hwnnw a thorri gair moethus o fwlgar â’r tri tu ôl iddo. Roedd yn amlwg nad oedd yn hoffi’r diffyg digwyddiad yn ystod y siwrnai. Roedd rhywbeth afreal ynglŷn â’i fwlgariaeth. Roedd wedi meddwi ychydig. Roedd ei iaith yn ‘lliwgar’, fel y dywedir am lafar confensiynol, a’i ebychiadau’n llancaidd fasweddus. Teimlai Len dosturi drosto: yr oedd yn bradychu’i liw.

‘Mae’n anodd cracio dadleuon nihiliaeth,’ sylwai Helen.

Nid ymatebai Len. Ofnai hiliaeth, fel yr ofnai rywioldeb ac eithafion politicaidd ac

oedrannaeth. Casâi hefyd y meddwl gwyrog ynghylch anabledd. Hynny yw, yr oedd Len yn ddisgwyliadwy.

‘Ond alla-i byth feithrin perthynas gyda Helen,’ meddyliai Len wrth beidio â siarad gyda hi. Fel gyda Mair, gallai’i hoffi hi. Gallai’i pharchu hi. ‘Ond ’tawn i’n cloddio ynddi, a dringo i lawr y siafft hyd y gwaelod, mi wn i’n burion, a man a man yw wynebu’r ffaith, fyddai ’na ddim glo ’na. Ond wedyn, Maxine druan: mor ddwl oedd honno, amhosib weithiau; ac eto, ar waelod y siafft ...

Erbyn hyn, tawodd y brodor o Awstralia. Doedd neb yn siarad mwyach. Roedd hi fel pe bai eisiau egwyl i adfer syberwyd. Doedd dim byd yn digwydd...

Roedd yr awyr yn farw.

Ceisai Maxine ymbellhau a’i chau ei hun yn ei sedd ar gyfer siwrnai anniddorol. Caeai’i llygaid rhag syllu ar fygythiad y gwisgoedd duon o’i deutu. Caeai o hyd rhag ansyberwyd y brodor yn y sedd o’i blaen. Dychymygai’r awyr anniddorol oll y tu allan i’r caban yn ei glesni diderfyn.

Breuddwydio! A! Roedd yr atyniad hwnnw yn fwy na delwedd i Maxine, yr oedd yn ysfad diriaethol iddi. Hiraethai hi am i’w dychymyg fod yn wirionedd. Ganwyd Maxine i fod yn freuddwydreg broffesiynol ddydd a nos. Credai fod pawb arall yn cenfigennu ati. Ymdrôl yn awr yn ei breuddwydion. Ond doedd fawr o ddim yn digwydd ynddynt heddiw. Roedd hi fel pe na bai’r breuddwydion yn ceisio digwydd eu hunain ar hyn o bryd.

Diau fod Len wedi blino erbyn hyn: undonedd y daith yng nghanol y rhesi hyn o ddynion mewn siwtiau duon, cyfyngder y caban, yr un wynebau hetiog, yr un lleisiau duon, yr un aroglau duon a’r môr diderfyn o Iddewiaeth ddwys ddu, oherwydd dyna ydoedd, yn llepian o’i ddeutu. Ffigurau duon, rhifau duon, a’u cysgodion. Roedd bron yn cysgu. Gwarchaeai’r nosweithioldeb anniddorol a distaw am y caban fel gwagle. Dechreuai hepian. Taith farw ymlusgol a oedd o’u blaen yn faith faith ar draws yr awyr. Ac felly y dylai fod, efallai. Ond rywbyrd rywle yn ystod yr oriau llesg hyn, rywle heb fod yn unlle, pan oeddent yn croesi Môr yr India, a Maxine wedi dychwelyd o’r toiled am yr n-fed waith yn sgil y te, a Len yntau bellach ar hepian o ddifri, a Helen wedi cau’i thipyn llygaid, heb sylwi’u bod nhw, yn sydyn gywilyddus ac yn ddirybudd reit, dihunodd. Dihunodd pawb.

Ar flaen yr ale rhwng y rhesi ymddangosai gŵr. Roedd gwn yn ei law.

Gŵr unig llygadlawn. Disgynnodd ei ddelwedd fel mellten gloff o’u blaen.

Herwgipiwr Arabaidd.

Fan hyn uwch yr eigion. Llanwodd y lle fel storm lonydd.

Troes Len ei ben ar amrantiad. Gŵr arall go debyg y tu cefn. Roedd hwnnw eto â gwn yn ei law. Storm gyfredol lonydd. Arabiaid ill dau, mae'n rhaid. Dyma ddeunydd papurau-newydd, nid byd diriaethol. Pa bryd roedd hunllefau felly'n dod yn real? Yn ystod y flwyddyn hon yr oedd hyn wedi bod yn digwydd bron pob mis. Ond ar gyfer pobl eraill ac nid mewn awyr farw y trefnid pethau felly'n ddi-ffael.

Gymaint o chwarae plant oedd yn y byd hwn. Gymaint o afrealedd aflêr.

Gwibiodd Len ei olygon ar draws ei gyd-deithwyr Iddewaidd. Gan gymaint y sylw a roesai hyd yn hyn i Maxine a Helen, nid oedd wedi oedi digon i archwilio'n ystyrlon mor hynod oedd golwg bron pawb o'r dynion o'i ddeutu. Mintai o Iddewon Seisnig uniongred oeddent. Wedi bod ar ymweliad â chynhadledd ryngwladol yng nghylch Melbourne am Symbolaeth Archaeolegol Israel ac wedi dewis dod yn ôl drwy Sydney. Dychwelyd i Israel oedd eu hamcan yn awr.

'Os bydd pawb yn ufudd, fydd dim trafferth,' ebychai'r gŵr ifanc nerfus, heb fod yn gysurlawn iawn, yn y tu blaen.

Daliai'r sydynrwydd i ymosod ar nerfau Maxine. A syrthiai dychryn fel rhaeadr i lawr gleiniau cefn Len. Clywid calonnau pawb. Ni allai'r crwt hwn yn y tu blaen fod yn fwy na phedair ar bymtheg oed. Roedd ei wyneb mor ddifrif â braw. A'r gwn nerfus yn ei law yn siglo fel grifft. Peryg oedd y grifft. Gallai Len weld gwllith y noson ddisgwylgar cynt yn frech uwch ei aelïau. Ceid rhai perlau chwys yn cyfoethogi'i ffroenau. 'Fyddwn ni ddim yn petruso i saethu. Does neb dienwaededig i ddiodef os cawn ni ufudd-dod. Codwch eich dwylo, bawb i'r awyr.'

Pasiai distawrwydd fel taran ddi-glec ar hyd yr ale. Chwiliai pawb am awyr.

'Codwch nhw,' gwaeddai eto yn ddiargyhoeddiad.

Trôï pawb a oedd yn eu seddau yn seddau.

'Yn uwch.'

Roedd y gair 'awyr' ei hun yn dal i hongian yn yr awyr fel cwestiwn. Ac yna, gyfran o eiliad ar ôl yr union air hwnnw, clec anferth.

Fel diwedd-byd drwy'r caban.

Syrthiodd y gŵr ifanc i'w ateb yn y fan a'r lle. Sylweddolodd Len beth a ddigwyddasai. Un o'r Iddewon wedi saethu o'i sedd. Mewn gwaed oer, heb oedi, heb roi rybudd, taniaasai. Ni ddisgwyliasai ef fawr er mwyn clywed nac amodau na bwriadau. Trawodd y crwt yng

nghnewyllyn ei dalcen.

‘Ildio,’ sgrechai’r Arab bach arall o’r cefn wrth i’r saethwr droi’n araf tuag at hwnnw. Gorweddai’n ddiymdroi. ‘Ildio,’ brefai. A thafilai’i wn tegan ar y llawr, a’i galon drwy’r ffenest, a’i ddwylo i’r awyr, a’i hiraeth pell at y nenfwd agos.

Roedd y cwbl wedi digwydd mewn tair munud. Edrychai Helen a Maxine ar ei gilydd. Eu syndod a’u hunai. Crynai Maxine. Arabiaid! Winciai Maxine ar Helen. Fel ein IRA ni! Fel y Cyrdiaid. Fel Bosnia. Fel Byddin Ryddid Cymru? Pam yr oedd rhaid i bawb bonsio ynghylch eu ffug hunaniaeth a’u bodolaeth? Roedd Helen yn ddisymud ddig. Ni allai gredu’r peth. I bobl eraill y byddai pethau fel hyn yn digwydd. Ond mewn awyren deidi ddihunaniaeth o Awstralia! A hithau wedi bod yn edrych ymlaen. A phawb yn chwenychu cael eu gadael yn llonydd a chwarae cerdiau a hepian ac edrych ar fideo a bod yn gyrff cysurus. Roedd y rhain hefyd, meddyliai Maxine, hwythau hefyd yn ceisio gwlad i’w cyrff. Ond pam na allen nhw fod yn addfwyn? Pam na allen-nhw ddatblygu tuag at gyfiawnder yn araf deg?

‘Alla-i ddim credu fod hyn yn digwydd,’ meddai hi, ‘i NI! Ydy hyn yn real dwedwch?’

‘Mae’r hyn sy’n digwydd i rywrai yn gallu digwydd i bawb,’ meddai Helen yn sychlyd. ‘A ni yw pawb. Fe all ddigwydd i rywun-rywun, rywle-rywle.’ Ond wedi gwelwi roedd ei hwyneb realydd hithau bellach fel aliwminiwm. Roedd realiti’r sefyllfa wedi goddiweddyd ei diffyg hyder sylfaenol, a’i wneud yn fwy diffygiol byth. Ceisiai beidio â mynegi’i braw. Suddai i’w sedd. Hi yn unig ac yn ei hunigrwydd noeth a’i diymadferthedd ymosodol oedd yr un, gwyddai, a allai wynebu’r bywyd creulon hwn mwyach. Ac ar ei phen ei hun yn y bywyd gwerthfawr hwn y gwnâi hynny bellach beth bynnag a ddôl.

‘Ond pam?’ holai Maxine eto, fel pe na bai’n byw ar blaned arall. Am ychydig, eisteddai pawb mewn sioc, heb symud pen. ‘Dyw pethau fel hyn ddim yn digwydd ond mewn breuddwydion,’ meddai’n awdurdodol. Roedd hi’n gwarafun hyn i realiti, fel yr oedd yn gwarafun llawer arall.

Ryw grintach hanner awr yn ddiweddarach, wedi llusgo’r corff o’r neilltu a rhwymo’r ail Arab a thacluso bywyd o’r newydd, pan oedd Maxine yn yr hyn na ellir llai na’i ystyried, yn ei hachos hi, yn ganol llonydd ar y llwybr tua’r toiled wedi’r holl gwpaneidiau, baglodd hi’n flêr. Fe’i hataliwyd yn yr ale rhag syrthio gan law gadarn ond tyner yr union Iddew a oedd ychydig ynghynt wedi dirwyn bywyd yr Arab beiddgar-ofnus i ben. Diolchodd Maxine yn raslon iddo. Ond wrth ddychwelyd wedyn, barnai mai syber fyddai oedi i helaethu ychydig

ar ei diolchgarwch ac i dalu teyrnged i'r Iddew am ei orchwyl gwaredol y diwrnod hwnnw. 'Rown i'n meddwl am foment mai'r unig beth fysai'n gallu'n hachub ni, a dod â'r Americanwyr drosodd, fysai petai rhywun yn darganfod olew 'ma ... neu'n cynnal Etholiad Arlywyddol.' Chwarddai afalfreuant yr Iddew. Bu'r ddau'n cyfnewid tuswau o frawddegau cyn i Maxine ddod o hyd i'w sedd. Ni lefarodd hi ddim am a ddigwyddasai wrth y ddau arall, ond bu'n brofiad hen ddigon i ddarparu i'w ffansi ddeunydd tra hydrin am weddill y siwrnai, ac wedyn. Suddai mewn math o iselder hapus. Ychydig cyn glanio, trodd yn sydyn at Len; ac â llais isel fel nas clywai Helen, fe'i heriodd hi ef: 'Pam rwy'ti'n 'y nghasáu i gymaint?' Ti! Dyna'r rhagenw.

'Nid casáu.'

'Mygu perthynas, te.'

'O achos dy fod di wedi drysu Mair,' meddai Len yn bwylllog.

'Ei drysu?'

'Wel, ei brifo. Ffaith. Ac wedi'i deffro hi. Roedd hi eisiau aros yn llonydd. Wedi dod o hyd i fath o gydbwysedd. Hi oedd diffeithwch tawel Awstralia cyn i ti ddod.'

'Ond ... cuddio cythrwfl: dyw hynny ddim yn llonyddwch go iawn.'

'Wel, i'm bryd i, roedd bywyd Mair wedi dod ar ei hechel.'

'Cuddio ansicrwydd, nid cydbwysedd yw peth fel 'na.'

'Ond roeddet ti eisiau'i phrocio hi. Doedd dim angen cyrchu Awstralia o gwbl.'

'Er mwyn cael gweld, dyna'r cwbl.'

'Ie. Ond roedd 'na fwy na hynny.'

'Fel beth?'

'Sadistiaeth.'

'Na. Roedd yn rhaid gweld.'

'Roeddet ti am ei phrofi hi. Roeddet ti'n benderfynol o'i gwthio hi i wynebu'r gorffennol. Ei gwthio hi'n ôl i ardaloedd nad oedd hi'n dymuno ymweld â nhw. Mae'r gorffennol drosodd, Maxine. A dest ti â fi yr holl ffordd i Awstralia i brofi hynny.'

'Roedd eisiau iddi *hi* gael gwybod.'

'Nac oedd.'

'Mae eisiau i *bawb* fod yn ymwybodol.'

'Nac oes.'

'Mae rhaid i *fi* wybod te. Roedd rhaid i fi fynd yno i fod wythdeg y cant yn siŵr.'

Nid Mair na fe oedd wedi'i ddrysu fwyaf. Maxine oedd wedi'i drysu hi'i hun. Ac felly y bu erioed. Yr oedd wedi chwarae caru Len rywsut â'i dychymyg. Daethai ef ati drwy'i dychymyg a phrocio â llafn ei serchiadau yn ei hymennydd, yn ôl ac ymlaen yn yr organwaith llwyd, ac yna'i gadael cyn ei digoni yn ei ffansi. Tuchodd hi'n urddasol. Tynnu'n ôl a gadael ei chyffro dychmyglon yn hongian yn yr entrychion wrth glwmpyn o laswellt ar ymyl y dibyn yn barod i'r cwmp terfynol. Ei dychymyg hefyd a'i gollyngodd. Allai hi ddim beio dim ohono ef. Dim ond breuddwyd oedd ef. Ac wedi bod o'r newydd, bellach, yn Awstralia, roedd hi'n siŵr nad oedd hi'n siŵr.

Caredigrwydd oedd yr hyn a ddangosai ef ati hyd yn hyn, dim arall. Bu hi'n gorwedd gydag ef yn ei dychymyg, gan ymwybod â'i wres mwyn. A charedigrwydd ac addfwynder a ddygyforai tuag ati o'i du ef. Ffieiddiai hi'r cymedroldeb cyfeillgar hwn. Dyna'r cwbl. Ac yr oedd hi'n rhyfeddu mor nawddogol y gallai caredigrwydd a chyfeillgarwch o'r fath brofi'i fod, ac mor warthus o rwystredig. Wedi'r cyfan, dod i Awstralia er mwyn ei nabod hi yr oedd ef... A dyna hwy oll, bellach, ar y gair — Heathrow, glanio, a'r hunllef adref, a'r her a'r hurtrwydd a'r hwyl drosodd am byth.

## 11

Pan gyraeddasant ffin Cymru wedyn, yn ddiymdroi, closiodd y glaw. Glaw ar ei orau: nid rhyw esgus o law ond glaw o ddifri calon, glaw du, diacon o law, glaw a oedd am ddarllen y cyhoeddiadau o flaen y cwrdd ac wedyn, glaw yr oeddent am wrando arno hyd at eu sodlau, glaw am wneud y jôb yn derfynol. Glaw hyd at eu gyddfau gorau. Glaw 'dwi yma o hyd'.

Nid pob trê'n bellach sy'n stopio yn Llanbiblig. Mae yna un ar ddydd Mawrth, ac un ar ddydd Gwener. Cynildeb piau hi. Tylino yw hyn o ostyngiad yn y gwasanaeth, ynghyd â chodi taliadau, ar gyfer cau'r lein maes o law. Ac wele! Dydd Mawrth a ddaeth heddiw. Wedi cyrraedd Llanbiblig, Maxine oedd y gyntaf i ymadael â'r grŵp blinedig wrth iddynt basio Gwesty'r Talbot. Ymholai hi, rhyngddi a hi'i hun, beth tybed oedd teimladau Len erbyn hyn. Pe digwyddasai iddi leisio'r ymholiad hwnnw'n uchel, ac yntau'n cael ei orfodi rywffodd i feddwl am ateb, dichon mai'r unig ateb a ddô'i i'w dafod fuasai — Trueni am y glaw. Gwyddai ef beth oedd orau iddo.

Teimlai sut bynnag ei fod wedi chwythu i mewn i wlad hen newydd, maneg fechan o wlad a ffitiai'i law yn fwy sefydlog na'r un arall, gwlad a hawliai aeddfetach ymateb. Math o law oedd yntau hefyd: hynny yw, teimlai'n gartrefol yma. Ar ôl iddi ymadael â'r ddau,



gwthiodd Len y gadair-olwynion yn ei flaen yn fwy heriol hyderus tuag at gyn breswylfa Wili.

Wrth gyrraedd Cymru'n ôl, wele'r cywilydd yno yn ôl am ben Len. Roedd hi fel pe bai ef wedi lled breswyllo mewn byd sych afreal am gyfnod; aethai dros dro y tu allan i'r gwir a'r celwydd amdano'i hun; bu am wyliau rhag y sefyllfa ddiriaethol yr oedd yn rhaid iddo'i hwynebu. Yn awr, cyd-destun euogrwydd a ailymsefydlai'n glyd amdano. Euogrwydd deallus. Wele, diolch i'r drefn, Gymru: rygbi, bara lawr, dwyieithedd, ac Eisteddfodau. Ac yma ac acw, y byd real, a dyma ef yn ôl yn eu glaw.

Yr un pryd, teimlai ef ryw ryddhad anghyfaddas. Dihunai rhywbeth yn ei ysbryd. Roedd crafangau amlwg y fateroliaeth a gaeasai amdano yn Awstralia wedi llacio bellach, ond mewn rhyw ffordd ddigon arwynebol, oherwydd bod Cymru hithau mor ddwfn o faterolaidd. Yn Awstralia yr oedd Cymru wedi bod yn gelwydd. Roedd y newid gwir yn fath o welliant caredig o euog ar yr ymwybod. Yn rhyfedd iawn felly, yr un pryd ag y syrthiai trymder ei wir gyflwr glawog amdano, adwaenai ryw burdeb amheus hefyd. Dechreuai edifeirwch fforio fel llygoden ymhlith ei atgofion, a themlo yn ei gynefin.

Gallai, serch hynny, gyfaddef yn y fan yma gywilydd go iawn iddo'i hun, ac wrth ei wynebu'i hun, ddadrithiad. Hyn a'i gwnâi'n gartrefol, oherwydd iddo gael profiad rhyddhaol o fath. Yma yn yr amgylchfyd amwys hwn lle yr adwaenid ef gan ei bobl, yma yn unig, gan wynebu'r gymdeithas gynefin honno a'r gwir am ei ffug ei hun, er gwaethaf pob dolur, wele ef o'r diwedd yn dod i fath o ryddid dieithr. A Chymru.

'Ddim modfedd ymhellach,' meddai Helen fel pe bai am ei rwystro rhag cyrraedd y drws.

'Ond gwell imi weld bod pob dim yn gyfleus.'

'Na: cyfleustra yw aros tu allan.'

'Ychydig o funudau?'

'Mae hyn yn ddigon. Buoch yn rhy garedig eisoes.'

'Oes 'na fatsys ar gyfer tân?'

'Wnaiff tân trydan y tro.'

'A llaeth?'

'Mi ffeindia-i UHT, llaeth tûn, neu rywbeth.'

Roedd hi'n ddireswm o gyndyn. Ac ildiodd Len i'w hebychiadau. Yn ôl ag ef i'w Fans hoff felly, i'r unigedd caredig a'r distawrwydd crafog, ond nid cyn galw i sicrhau fod Maxine wedi setlo'n ôl yn gysurus yn ei hystafell yn y Talbot. Hunanddigonol oedd honno

hefyd. Ffitiai hi i mewn i'r sefyllfa newydd fel pe buasai yno erioed. Ond ni allai ef ddirnad beth oedd yr olwg glwyfedig a lechai o gylch ei bochgernau. Nid ynganai hi sill i'w hesbonio. Ymddygai'n glên gysurus ac yn nodweddiadol fwyn.

Roedd y ddwy wedi derbyn y wlad hon heb ffwdan.

Ef, er hynny, oedd yr un anghysurus. Ef oedd yn rhy hydeiml, mae'n rhaid. Ef hefyd oedd yn rhy glustdenau, yn rhy groendenau am Helen. Darganfyddai ef gleisiau ynnddi na buasai'r ditectif dwysaf wedi'u cael am nad dyna'r hyn y chwiliai amdanynt.

Wrth anystwyth agor drws oer ei Fans o'r diwedd, nid oedd rhaid i Len chwilio ddim. Gorweddai'r cleisiau'n amlwg dros y lle ymhobman, ar goesau'r cadeiriau, ar fframiau'r darluniau, ar y drysau. Y peth cyntaf 'wnaeth ef, ar ôl codi'r llythyrau oddi ar y llawr a'u pentyrru ar y dresel, oedd ymneilltuo i'w lyfrgell. Suddai ar ei liniau gerbron yr unig Faddeuwr: i ddiolch am Groes. Dyma ef yn ôl mewn cyd-destun goruwch-gorfforol. Diolchai am y dasg a'i hwynebai yn awr yng Nghymru am ryw ychydig drwy drugaredd, ac am ddiogelwch y daith a fu. Cyffesai'i galedrwydd yn Awstralia. Edifarhâi. Eiriolai ers tro ar ran y truenusiaid dioddefus ym mhob parth — ym Mhalesteina, rhai, — ac yn arbennig y rhai y gallai ef eu helpu, am Helen, am Jenni Huws, am Esther Elias, am Alwyn Brown. Syrthiai'r ddaear yn ôl i'w lle. Diolchai am gael praidd o fath yn ei ôl. Diolchai am y cyfle i ganmol, O! i glodfori'r ffaith afieithus i'r dimensiwn ysbrydol ymagor untro yn ei hanes gynt, ac aros ar agor yn eglur yma er llawer esgeulustod, a dod yn ôl. Yn Awstralia bell teimlasai'i fod ei hun am ysbaid wedi pellhau. Roedd wedi mynd yn anghofus o fydol a materol. Ond gwyliau oedd i fod yno. A digwyddodd rhywbeth arall iddo. Yn ôl yn awr, yn niffeithwch mwy profiadol os mwy dadrithiedig Cymru, ymdeimlai ag agosrwydd newydd yn nimensiwn yr ysbryd yn dylifo'n ôl. Dychwelodd. Dyma ef yn ôl yn ei swydd, yn ei amgylchfyd ysbrydol. Closiai at y Person dychweledig hwn a'i Ogoniant. Y Dieithryn bythol bresennol glân a gollasai am yn rhy hir.

Yna, cododd Len ar ei draed. Heliodd lwyth o'r cleisiau yn ddeheuig oddi ar y carped, a'u lluchio i fasedg.

I Maxine ar y llaw arall buasai'r daith ei hun yn ôl yn yr awyren ac wedyn yn y trê'n bron yn drawmatig. Daethai i'r casgliad mai tir sad dan draed oedd ei chynefin. Roedd afrealedd yr awyren a'r herwgipwyr yn dal i sgeintio dros y llawr. Felly, pan gyrrhaeddai'r pentref llonydd, gan fod realedd Cymru yn hollol ar wahân i'r tipyn helbul yn y Dwyrain Canol, fe gaed yn annisgwyl gymaint o gyffredinedd fflat fel y teimlai hithau'n gartrefol ar unwaith. Y

digyffro. Amltra o ddim byd oedd normalrwydd iddi.

Cawsai'i difrifoli serch hynny ar hyd y daith, a hyd yn oed yma, gan bresenoldeb dirdynol Helen. Roedd honno dan draed o hyd. Fel cynn. Roedd hi eisoes wedi synhwyro o'r newydd ryw fath o ymwybod a oedd gan Len ohoni yn Straelia. Ond bellach roedd hi wedi'i hargyhoeddi am y fan yna yn hunan-gysurlon mai diddordeb dyngarol fu ganddo ynddi. Camgymeriad fu i Maxine dybied mai cymeriad cam oedd Helen. Man a man i bawb ohonom yn y diwedd gyffesu dirgelwch pawb arall.

Yn y diwedd, marwaidd yw popeth. Ni allai Maxine lai na themlo siom ynglŷn â'i chylchdaith yn ôl i Strailia. Methiant personol fu'r holl ymweliad. Ofer fu ei hymgais ofer i rwydo Len acw. Ddylai hi erioed fod wedi awgrymu'r fath beth. Roedd hyn yn awr, serch hynny, ei chenfigen a'i dolur, yn fwy byth o wallgofrwydd. Faint callach oedd hi? Beth oedd arni?

Clywai hi gloc yr eglwys drwy'r ffenest yn cofnodi'r awr bob munud. Roedd y curiadau gwahân — ar y cloc — mor benodol gyfewin ddiwyd. Roeddent fel petaent yn hoelio'i bywyd annelwig yn ddarlun croyw cytbwys ar y wal o'i blaen i'w dihuno hi. Ymladdai nawr i gadw'i breuddwydion yn ddiogel; ond dyfal gurai'r cloc hwnnw o'r tu allan ei fiwsig ffurfiol glasurol i'r pared. Diffoddodd hi'r golau: pedwar, pump. Ond roedd yr hen beth yn dal ati i daro: chwech, saith. O Arglwydd: wyth, naw ... pymtheg. Cuddiai'i chlustiau.

Drannoeth, hyhi ddylai fod wedi picio draw i ymweld â Helen. Adwaenent ei gilydd yn bur dda erbyn hyn, a Helen oedd yr un ffaeledig. Dylsai estyn ei chyfeillgarwch at Helen fel y gwnâi Len yntau. Ond crwydrai Maxine i bobman yn hytrach nag i'r cyfeiriad hwnnw. Roedd eisiau gwneud cymaint o bethau ofer.

Drannoeth drachefn, rywfodd eto, methodd Maxine â'i gorfodi'i hun i chwilio am Helen. Roedd ei phen wedi ymgolli ar grwydr mewn gwawl glas.

A'r hwyrnos honno dyma guriad gwanllyd dirgel ar ddrws ei hystafell yn y gwesty. Curiad petrus. Helen oedd yno.

'Meddwl eich bod chi'n sâl 'fallai.' Y claf yn cydymdeimlo â'r iach. Y disymud yn teithio at y symudol.

'Wel oeddwn,' meddai Maxine. Cur yn y pen. Y daith. Yr undonedd. Y grwnan. Mi aiff. A'r hen saethu aflednais 'na. Ych! ... A chithau, sut ych chi? Sut mae cleisiau'r cwmp?'

'Fel y boi.' Y ceiliog yn ymateb i'r cyw.

'Wedi gweld Len?'

‘Ddoe a heddiw. Pum munud. Mi alwodd i holi. A allai fe olchi’r llawr? A allai nôl rhai nwyddau? Rown i wedi codi o’i flaen ac wedi ail-stocio.’

‘Sut oedd e?’

‘Tebyg i arfer. Byth yn newid, nac ’dy? Bob amser yn drefnus.’

‘Dych chi’n meddwl ’ny?’

‘Dwi’n cofio, pan oeddwn i’n gorwedd gydag e yn y pwll ’na yn Strailia. Roedd y tân yn cynddeiriogi o’n hamgylch. Ac aros yn enbyd o daclus roedd e hyd yn oed ’pryd ’ny.’

Y celwyddgi’n brolio wrth y gwirionyn. I Maxine roedd clywed am Helen yn gorwedd gyda Len, mewn pwll neu beidio, yn dipyn o dân ar ei chroen. Felly y’i bwriadwyd. Yn goelcerth efallai. Yn dân yn ymguddio yn y dŵr.

‘Wel, dowch i mewn. Peidiwch â *sefyll* yn y drws,’ meddai Maxine. Llywiodd Helen ar ei heistedd y gadair-olwynion i mewn a heibio i’r dodrefn. Fel arfer, roedd hi’n reit ddeheuig yn trafod yr hen beth. Ond y tro hwn, crafodd ychydig ar un o’r cadeiriau wrth basio. Gwyliai Maxine hi oddi uchod, fel heboges, tan ddisgwyl i’r llygoden fecanyddol stopio, cyn disgyn arni. Roedd rhywbeth o’r tu mewn a ddirmygai wendid y ferch anafus hon. Gwyliai. Gwyrari honno’i phen ychydig wrth wthio’r gadair yn ei blaen, yn fregus legach ac yn gymharol aneffeithiol. Ond yn ystyfnig ar y naw.

Ac yna stopio. Dylid tosturio tuag ati, yn ddiau.

‘Gymrwch chi banaid?’ Disgynnai’r crafangau mwyn yn ei chnawd.

‘Dim *te*, diolch.’ Ymryddhaodd yr aderyn bach.

‘Mi alla-i alw am gwrw.’ Llarpiai ei phig yn y cig.

‘Na. Gwell ei gadael yr amser yma ar yr hwyr. Dwi’n gyrru—hwn. Mae alcohol yn cynhyrfu’r ymennydd ychydig. A dwi’n cael anhawster i gysgu.’

‘Fel arall mae hi gyda fi,’ meddai Maxine a’i gafael yn dynn ar y sefyllfa. ‘Fy hala i i gysgu mae’r diferyn lleiaf o âl yn ’wneud.’

‘Gwyn eich byd.’

Eisteddai Maxine gyferbyn â hi. Fe’i gwyliai.

‘Oedd gan Len ryw newyddion acw?’

‘Fel beth?’

‘Dwn i ddim ... Rhywbeth.’

‘Sylwais i ddim. Arhosodd e ddim yn hir.’

Sylwodd hi ddim! Roedd y fath addefiad yn aflonyddu ar Maxine. Pam roedd hi’n gadael

i bob symudiad a gair o eiddo Helen beri anniddigrwydd iddi? Pa gystadleuaeth y gallai hon ei chynnig? Pam roedd Len wedi picio draw i weld Helen heb ymweld â *hi*?

‘Pa mor dda dych chi’n nabod Llanbiblig?’ holai Maxine.

‘Oes llawer o nabod arni? Stryd yw hi yn chwilio am bentref.’

‘Y bobl dwedwch.’

‘Gweddol. Ond yng Nghaerfon, neu y tu allan, — yn un o’i maestrefi fel petai — ,’ meddai gan wenu, ‘y ces i ngeni. Ryw bedair milltir ar ddeg o’r fan yma. Ces i ’magu gan ’y modryb. Ond ychydig tu allan i Lanbiblig roedd nhad-cu a’ m mam-gu, cyn i mam-gu farw (fis ar ôl Wili), ac mi fydden ni’n dod yma i ymweld bron bob wythnos. Mae nhad-cu’n nawdeg saith bellach ac yn dal yn gneuen iach. Fe yw’r aelod hynaf yn y capel. Ond byw mewn cartref i hen bobl mae e. Ddaw e byth allan mwyach.’

‘Oeddech chi’n nabod Len felly cyn mynd i Awstralia?’ holai Maxine a’i chwilfrydedd wedi’i gynnau.

‘Ddim ... yn rhyfedd iawn. Rown i wedi clywed amdano, gan ’modryb a ’nhad-cu, a chan Wili wedyn wrth gwrs drwy lythyrau a’r ffôn. Ond ddim o bwys mewn gwirionedd. Wnes i ddim ei gysylltu â’r ymwelydd hwn pan welais i fe’n gyntaf yn dod ata i.’

‘Na dim diddordeb chwaith?’

‘Beth ych chi’n feddwl?’

Er na ddangoswyd ar wyneb Helen, roedd hi wedi fflachio’n ôl yn ei chalon, ac yn barod i unrhyw ymosodiad o du Maxine. ‘Dych chi wedi sylwi does bosib fod ganddo dipyn o ddiddordeb?’

‘Ynddo-i? O’r braidd,’ meddai Helen yn gelwyddog anniddorus. ‘Dyngarwr ystrydebol. Sioni gwên-deg. Y Samariad truan di-liw. Gwleidyddol gywir. Dyna Len.’

‘Oes, oes. Peidiwch â swilio. Mae’n ymdroi o’ch cwmpas, fel ci o gylch postyn.’

‘Ddim o gwbl. Amhosibl.’

‘Dyna realiti’r sefyllfa.’

Oedai Helen gan edrych oddi wrth Maxine tuag at y ffenestr. ‘Realiti’r sefyllfa,’ a thrawodd freichiau’i chadair, ‘... yw mai dyma ’nheyrnas i, yr orsedd heddychlun unigryw hon. Hyn oedd gen i gynnau pan ddwedsoch wrtho-i am beidio â *sefyll* yn y drws. Ac o’r herwydd, does dim cemeg. Mae’n rhaid cael cemeg — asid sylffurig a phethau felly.’

‘Mae yna ychydig o wreichionen ddwedwn i.’

‘Dim. Dim awelig o wres, ond yn ddyngarol. Pagan dw *i*: Cristion yw *hwynnw*. Dŷn ni’n

deall ein gilydd.’

‘O’i du e, dybiwn i, mae yna stumog.’

‘Dim ... A *dau*! Mae’n rhaid cael dwy stunog. Dych chi erioed wedi sylwi?’ holai Helen gan wenu.

‘Oes, digon tebyg.’

‘Mae un a hanner yn dipyn. Mae’n gychwyn. Ond dwy sy orau.’

‘O! a faint ohonoch chi sy ’na?’ Tybiai Maxine i’r cyfle godi i holi’n uniongyrchol, ac fe holodd.

‘O’r rhan i, rhwng hwnnw a fi does dim un ac un ganran i’w cael.’

Toddai Maxine hithau sawl gradd. Os dweud y gwir a wnâi Helen, os oedd Helen yn barod o gwbl i fod yn onest, gallai hithau hefyd ymateb yn llai amddiffynnol. ‘Dych chi’n gwybod pam rown i’n holi?’

‘Na, ddim mewn gwirionedd.’

‘Bûm innau gynt yn chwilio am *ddwy* o’r fath.’

‘A faint gawsoch chi?’

‘Dipyn llai nag un ac un ganran ddwedwn i,’ cyffesai Maxine.

‘Ond gyda pharch y bydd Len yn siarad amdanoch *chi* bob amser.’

‘Gallwch gadw’ch parch.’

‘Rych chi’n wraig hardd o hyd. Ac iach.’

‘Fel cneuen goeg,’ meddai Maxine.

‘Ac mae’n eich mawrygu. Mi wn i hynny.’

Bu bron i Maxine ebychu’n ôl — ‘gellwch gadw’ch iechyd hefyd a’ch ...,’ ond ymataliodd. Ymbalfalu yr oedd hi. ‘Ydych chi’n tybied fod dau yn fathemategol hanfodol yn y maes dyrys hwn?’ holai ar goll ac megis drwy freuddwyd sidanog.

‘Dau a thrichwarter sy orau ddwedwn i,’ meddai Helen. ‘Ond dau o leia. Mi fydda-i’n teimlo fod deuawdau’n cael cam yn ein cyngherddau y dyddiau hyn. Mae’r unawdau’n rhemp. Mae eisiau dau bâr o sgyfaint ar gyfer y gân arbennig yna, a dau bâr o lygaid, a dau bâr o ddwylo — o leia. Ac yn sicr, dwy stumog.’

‘Mi wnewch iddi swnio fel jôb o waith comon, neu dechneg ... neu gystadleuaeth bwyta.’

‘Wel, fe fydda i’n ei weld e’n bur debyg i waith. Go chwyslyd yw-e hefyd uwchben ffwrnais.’

‘O!’

‘Ond yn fy hanes i, mae dyddiau chwysu drosodd ers talwm.’

‘A!’

Teimlai Maxine rywfodd bellach mai hon mewn gwirionedd oedd yr heboges ddifwgd ei hun uwch ei phen hi, ei hefrydd hyll yn hofran. Ac eto, yn achos Len o leiaf, doedd hon ddim am funud wedi ymhoni’n wir gystadleuydd go iawn; roedd hynny’n beth cysur.

Gwyddai Maxine er hynny mai yma yng Nghymru mwyach y byddai’n rhaid iddi aros. Nid breuddwydio am Iwtopia a wnaethai, ond dad-freuddwydio am wlad wahanol. Allai hi ddim ymddiried yn y naill na’r llall, nac yng Nghymru nac yn Awstralia. Roedd ei holl fywyd yn Awstralia wedi tyfu’n chwerw, ac yn hongian yn chwerw o’i chwmpas. Fan hyn yn unig, yma roedd ei gobeithion wedi tyfu’n fwyfwy real, yn fwyfwy personol, yn rhy real ac yn rhy bersonol, bron. Teimlai gyda chryn argyhoeddiad mai yng Nghymru’n unig, er gwaetha’i ffaeleddau, fan hyn, er ei ffaeleddau oherwydd ei ffaeleddau, y byddai hi’n gallu adfer synnwyr cyffredin o ryw fath.

Ar ôl i ludw Helen chwythu allan o’r ystafell, felly, eisteddai Maxine yn ôl yn ei chadair. Er ei gwaethaf, dechreuai ddychmygu’n benderfynol. Nid breuddwydio mwyach, ond heb ambell atgof gwyröedig. Syniai amdani’i hun yn crwydro yng nghynefin ei breuddwydion drwy’r pentref yn bwl fel mewn ysbyty-meddwl undyn, ac yn cerdded ar bwys Llyn Llygad Piblig. Gwelai stôl-olwynion Helen yno: doedd neb yn y stôl. Brysiodd hi i fyny ati a’i gwthio, gwthio, nes ei bod dros y dorlan ac i mewn i’r llyn. Taflodd y gadair a’r ferch nad oedd-ynddi i’r llyn. A’r fan yna yr oedd Helen yn eistedd ar bwys Len yn awr, yn jocôs i gyd, a’r tân yn llawen o’u deutu yn nŵr bas y llyn.

Ysgydodd ei phen wedyn mewn dychryn oherwydd meddwl y fath beth. A’i ysgwyd dro a thrachefn er mwyn ymwardd rywfodd â’r ddelwedd hyll.

Ac eto, dywedai’r dirprwy freuddwydion hyn y gwir. Credai hwy o ddifri. Y stôl-olwynion, y cwbl. Y llyn. Y gwthio. Ffeithiau oedd y rhain oll. A hi ei hun — Maxine — oedd yn cael ei dymchwelyd yn awr o’r gadair. Os nad oedd hi, Maxine, yn mynd i fodd i ei dirprwy-freuddwyd ei hun, byddai’n rhaid iddi nofio’n gryf yn ei meddalwch yn awr, a dal ei phen uwch y dŵr efallai; ond nid heb fwynhau llif y dŵr hwnnw yr un pryd yn llepian ar hyd ei haelodau. Mwynhad maswedus, meddal a mwyn ydoedd, eithr nid gêm, oherwydd nofio yr oedd hi yn y fan yna, gan duchan, tua’r lan, — a nofio ymhellach bellach tan duchan am ei bywyd. Dyna’i swyddogaeth mwyach. Gyda’r tân addurniadol o’i deutu ar

bob llaw yn siglo ffriiau'i fflamau mân. Fel atgofion a hiraethai am fod yn freuddwydion fel y rhai gynt, ond a fethai oherwydd math o gryd cymalau meddyliol. Ac eithrio un freuddwyd gyndyn. Len fyddai ei breuddwydion digon dihyder o hyd. Len, Len, Len, fel dryll o hunllef.

12

Ymhlith y llythyrau a godasai ef oddi ar y llawr wedi cyrraedd y Mans, caed dau yr oedd yn rhaid i Len weithredu arnynt yn ddi-oed. Dau: gefeilliaid, y naill yn syllu ar amlen y llall. Dau fygythiad araul. Un oddi wrth yr ysbyty yn datgan eu bod newydd ddarganfod tusw o brofion, gan gynnwys yr un a gawsai ef, wedi'i annilysu ac yn ddiwerth bellach. Gofynnent a fyddai ef mor garedig â galw eilwaith pan fyddai'n gyfleus i aildderbyn yr archwiliad HIV. (Mor aml roedd rhyw ddwli fel hyn yn digwydd yn y weinyddiaeth er pan ddechreuwyd rhoi mwy o fri ar weinyddiaeth.) Y llall, llythyr oddi wrth ei chwaer-yng-nghyfraith i ddweud fod ei frawd iau Harold wedi cael trawiad ar y galon, nad oedd e ddim yn rhy ddrwg o ran ei hwyliau, ond y byddai'n falch iawn i sbecian ar Len cyn gynted ag y cyrhaeddai'n ôl o Strailia. Gyda'r naill a'r llall o'r ddau lythyr hyn teimlai Len ei fod yn dechrau procio'n ôl ac ymlaen ymhlith cysgodion gorgynefin ei fodolaeth.

Drannoeth ymwelodd â'r ysbyty'n gynnar i gymryd y prawf drachefn.

A thrannoeth paciodd ei fagiau er mwyn cyrchu i Sheffield lle'r oedd ei frawd yn dal yn swyddog go uchel mewn llywodraeth leol. Roedd hwnnw'n fwy gwachul ei hwyliau na'r disgwyl. Roedd yna beth arall arno na charasai'i wraig ei yngan mewn llythyr. Rhywbeth na allai ef ei wadu, na'i feio chwaith: yr haint na châi ei gwrthod. Dadleuai Harold rhyngddo ac ef ei hun serch hynny iddo gael bargaen. Roedd wedi smygu trichant yr wythnos am ddeugain mlynedd, ar draws pumdeg-dwy wythnos bob blwyddyn. Bellach, yn saff yn ei bumdegau, roedd yn cael ei amddifadu o'i deulu a'i sigaredau flynyddoedd lawer cyn yr addewid. Tair blynedd ar ddeg o amddifadiad am chwechant dau-ddeg pedair mil: dyna oedd ei glandrad: roedd siŵr o fod yn well na'r cyfartaledd. Rhaid ei fod ar ei ennill rywsut, felly. Bargaen. Gallai fforddio un arall, doedd bosib, i ddathlu. Ac fe'i cyneuodd yn dawel.

Arhosai Len gyda'i frawd am fwy o amser na'r disgwyl. Ni ddychwelodd am ryw ddeunaw niwrnod yn ôl i Lanbiblig. Ac ar y llawr eto y tu mewn i'r drws, ar bwys y ffiguryn o'r Oes Newydd, y ddoli glwt o'r tân yn Awstralia a osodasai Len i groesawu'n smala'r dieithriaid a ddôi i'r aelwyd, caed pentwr newydd sbon danlli grai o filiau a llythyrau a phost sothachlyd, a digalondid. Gobeithiai fod yna rywbeth pleserus yn eu plith,



rhywbeth dymunol am dro, rhyw sibrydiad ynghylch hyfrydwch bywyd. Llythyr o'r ysbyty oedd y cyntaf a agorodd. HIV gadarnhaol.

'Cadarnhaol'. Ni bu gair byw mor negyddol.

Am foment ni chlywai ddim. Ni theimlai smic. Efallai mai rhy sydyn oedd y bollt pŵl. Efallai'i fod wedi'i baratoi'i hun ar ei gyfer. Efallai'i fod eisoes yn amau pob dim o eiddo'r byd hwn. Fe'i gwnaethai'n fater gweddi o'r blaen yn Sheffield, i ewyllys Ceidwad y Gwaed ei hun gael ei wneuthur, iddo Ef gael Ei ogoneddu ynddo. Ni ffynnai ond pylni lond ei ben felly wedi derbyn y canlyniad. Dim dychryn disgwylidig. Dim ofnadwyaeth. Dim ond ymddiriedaeth goleddus. Yr oedd yn llawen fod ynddo beth awyddu didwyll am lendid byd arall. Roedd yna dangnefedd anghyfarwydd yn ei anwesu. Teimlai na ddylai chwenychu marw, ond medrai chwenychu mynd drwodd — o fyd y lled-fyw i fyd y byw. Ar ben draw'r twnnel, caed person: y goleuni'n berson. Y diben. Ac felly y diogelai'r meddwl croyw am berthynas.

Suddodd ar ei liniau sobr yn ôl ei arfer, i ddiolch am gynhaliaeth, ac am y gwmnïaeth, am ras, hyd yn oed i foli, ie o'r galon, ac i ofyn am ryw gymorth fel y câi anrhydeddu Brenin y Tlodion yn y canol, mewn atgyfnerthiad i'w ffydd ei hun ac i eraill. Teimlai, gwyddai'r agosrwydd.

Yr oedd ef yn ôl yng Nghymru.

Wedyn, wrth godi'n arafaidd oddi ar ei liniau, yn sigledig fregus ac yn ddifrif ddwys, gan ryfeddu fod gweddi yn digwydd o hyd yn yr ugeinfed ganrif, dyma guro go daer ar y drws. Curo anghymarol Maxine Pearse oedd yno.

Gwenai ef yn ymddiheurgar. A gwenai hithau'n ôl. Dwy wên a oedd fel petaent yn bartneriaid ansicr i'w gilydd. Deuawd o wenau canadwy. Dau gyfaill.

'Buoch i ffwrdd,' meddai hi'n ddiogel fwyn.

'Do. 'Mrawd yn wael. Yn enbyd felly.'

'O! Drwg gen i.'

'Mae'n sioncach erbyn hyn. Pryder oedd arno. Ofn gadael ei ardd newydd ar ôl iddo'i phalu a'i gosod.'

'Heblaw gadael ei wraig o bosib.'

'A'i wraig hefyd, yn ddigon tebyg. Gardd arall.'

'A sut hwyl sy arnoch chi?' holai hi heb oslef gofyniad.

'Rhyw gwestiwn tebyg i Fore Da yw hwnna?'

‘Pam? Oes ateb llawnach y tro hwn te?’

‘Wel, sut yr atebch chithau’r fath gwestiwn?’

‘Iawn diolch. Mae’n hyfryd ei chael hi’n sych,’ meddai hi’n gwta braidd.

‘Dim daeargryn?’

‘Na.’

‘Dim llifogydd?’

‘Ddim eto. Ddim hyd yn oed y tu mewn i mi. Efallai fod y mecanwaith breuddwydio ychydig yn glwc.’

‘Ond does ’na ddim chwyldroadau gwaedlyd wedi bod ar gerdded yn Llanbiblig pan own i i ffwrdd te?’ holai ef.

‘O! oes, cannoedd.’

‘Mae’n swnio ychydig yn fygythiol.’

‘Dim bygwth gwaeth nag arfer serch hynny. Ond o’r golwg dybiwn i: y tu ôl i’r penglogau aruchel, digon efallai.’

‘Dyna lle mae’r chwyldroadau gorau i gyd ar drot,’ hawliai ef.

‘Felly y dywed y gwyddonwyr doethaf.’

‘Dyna dw innau’n ddweud hefyd.’

‘Siŵr iawn.’

‘A sut mae Helen?’

Ysbaid heb lais. Gohiriodd hi’r gyffes.

‘Roen i’n disgwyl ichi ofyn hynny.’

‘Roen i’n disgwyl ichi beidio ag ateb.’

‘Pam dych chi’n holi?’

‘Cwrteisi. Diddordeb.’

‘*Faint* o ddiddordeb?’ ebychai hi. Roedd hi’n chwerrthin am ei ben, a’i hen hyder hi wedi dychwelyd.

‘Dwi’n gweld fod hyn yn mynd i fod yn sesiwn astrus,’ meddai fe.

‘Mae Helen ... yn weddol fendigedig.’

‘Dyna’r cwbl?’

‘Mae hi’n gall ac yn gytbwys. Mae hi’n ystyriol ac yn garedig,’ atebai Maxine. ‘Ac ...’

‘Yn baragón, mae’n amlwg. Paragón sydyn hefyd, ddwedwn i.’

‘Helen a finnau, rŷn ni’n deall ein gilydd. Dau feddwl cytûn. Dau gyfaill. Gefeilliaid o

fath. Cyd-ddeallwyr.’

‘Llongyfarchiadau. Dwi’n deall neb.’ Roedd y geiriau’n galed, ond y cywair yn gywir.

‘O leia, mae gan Helen a fi ryw lun afluniaidd o glem am ein gilydd.’

‘Mae hynny’n fwy nag y galla innau’i ddweud am neb byw bedyddiol ar glawr daear.’

Synhwyrail Maxine eu bod ill dau, yn y fan yma, heb Helen, yn gallu cyd-byncio’n garedig ddiagon serch hynny. O’r diwedd. Ffurfient ddeuawd bersain gynganeddus.

Chwarddai hi’n freuddwydiol felly. Dau oedden nhw... Neu dri. Neu bedwar. Ac yn un yr un pryd, yn sicr... Dwyfil o un, felly. Hi a Len... a thraw fan yna, Helen.

I eraill mwy normal, Dydd Iau a ganlynai Ddydd Mercher a ganlynai Ddydd Mawrth yn ddiogel ddiddychymyg. Ond iddi hi ers peth amser bellach byddai ambell Sul go freuddwydiol yn dilyn Dydd Iau go freuddwydiol heb fod neb yn gwbl sicr ymhle y bu’r ddau ddiwrnod sobr neu dri hynny a ddylai sefyll yn ddestlus rhyngddynt, os buont yno erioed. Felly heddiw.

‘A dych chi ddim am gynnig te i mi? Chi o bawb, archgasglwr cwpaneidiau’r bydysawd.’

‘O! twt. Dowch. Rych chi’n gwybod lle mae popeth.’

‘Ie, ond chi.’ Sylwodd hi fod y ‘ti’ a frigasai ganddynt o’r blaen wedi llithro’n ôl i ‘chi’.

‘Reit,’ meddai fe. ‘Eisteddwch. Fentrwch chi dalp o gacen fy chwaer-yng-nghyfraith?’

‘Hyfryd,’ meddai hi.

Hwylodd ef de iddynt ill dau, ynghyd â thalpai o gacen a bisgedi. Ond nid hwyllo didon oedd ei gynneddf heddiw. Eisteddai’n gefnsyth gyferbyn â hi. Ac edrych i gannwyll ei llygad.

‘Fy hwyliau? Roeddech chi’n holi am fy hwyliau. Ces i newydd annifyr braidd heddiw,’ murmurai ef.

‘O?’

‘Annifyr i mi o leia.’

‘Drwg iawn?’

‘Gan yr ysbyty. ’Y mhrawf. Y prawf ar ôl i Wili fynd.’

‘Wili?’

‘HIV gadarnhaol.’

‘Chi?’ Roedd hi’n falch i ddal i bellhau yn y ‘chi’, a hithau gynnu bron â’i dio. ‘Chi!’ Safodd hi. ‘Chi, O! mae’n ddrwg gen i.’ Safodd ei gwallt. Eisteddai. Roedd mellten wedi hollti’i boncyff ... ‘Chi a Wili, oeddech chi ...?’ Gwelwai hi. Safai drachefn. ‘Dwi ddim yn

deall ...' Roedd hi'n ôl felly yn 'un' amddifad, a'u deuawd yn ddrylliau mân, heb na'r chi na'r ti. Roedd y cwbl a ddwedid ar gam am y dyn hwn yn llygad ei le.

'Ffrindiau own i a Wili, ddim mwy.'

'Ddim mwy!'

'Digwyddodd damwain iddo-fe. Cas e friw. Torrodd ei arddwrn un noson ar wydr cwpwrdd. Ar y pryd doedd y peth ddim yn ddifrifol, wrth iddo brysuero at y drws. Ond fe ges innau beth o'r gwaed ar un cwt ffres oedd gen i fy hun ar un garddwrn.'

'A! Acrobat', meddyliai hi. Rhyfedd mor niferus oedd acrobataid yn syrcais Len. Rhyfedd fel yr âi ei hanghrediniaeth gyfeillgar hithau y funud yna yn acrobataidd hefyd. Sleifiai'n ôl i achlysur pryd y gwyliai goginio llysywen yn Nhasmania un tro. Rhaid oedd ei osod yn y dŵr berw'n fyw er mwyn ei flingo. Heb hynny ddôï ddim o'r croen bant. Chwipiai, hyrddiai, fflangellai'r telpyn. Ac nid oedd un ymward un man. Roedd bywyd Maxine y funud yna ynddi yn cael ei araf dagu, fesul aelod, fesul organ, ac ymhell iawn ohoni mewn safle na allai byth ei gyrraedd, a'r meddwl a'r gwaed yn cael eu haraf wasgu allan ohoni, fesul diferyn, fesul llathen, fflangellai, hyrddiai'i hanadl, fel pe bai pwysau enfawr yn gorwedd drosti nes ei gadael yn foncyff cywasgedig, yn fwydion sych a di-liw, yn grebachedig, yn gleisiog ddu, yn chwip o llysywen syrcaisidd, heb le ar ôl ar ei rhisgl yn unman nac yn ei rhuddin ychwaith a heb obaith i'r bywyn hwnnw byth ailymaflyd rywfodd hyd yn oed drwy wyrth yn ei chorff dadrithiedig lluddedig. Roedd hithau'n barod i gael ei blingo.

'Wili,' meddai ef drwy'i atgofion, 'druan. Bu'n bosib iddo farw'n dangnefeddus.'

Yn awr, wrth ymddiddan â Maxine, fe'i traw-wyd ef yn fyw gan ei sefyllfa chwyldroadol ei hun. Nid hon fu'r ddihangfa iddo wedi'r cwbl. Doedd hon ddim yn mynd i fod yn neb iddo ef mwyach. Roedd ar ei ben ei hun gyda'i Geidwad.

Peth fel hyn felly oedd y gwaelod efallai. Yn y lle iawn. Fan yna y byddai maes o law. Roedd eisoes wedi'i gyrraedd. O orsaf i orsaf bu'n sleifio, i lawr ac i lawr, o lithr i lithr, o feddwl annheilwng i feddwl annheilwng, ac yma o'r diwedd nid oedd yna'r un smic braidd o oleuni ar ôl. Roedd wedi dial arno'i hun. Ymunasai â chynffon yr ugeinfed ganrif. Buasai wrthi am flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn ymlafnio gwympo, yn diffygio fyw'n ddigon addolgar, yn rhofio'r cwmp i'w gyfansoddiad ddydd ar ôl dydd yn w'r a oedd yn ymwybod â threiddgarwch marw pechod ym mhob rhan ohono'i hun; ac yn awr, roedd yn bryd casglu peth o'i ddirwy. Plymiasai'r gyllell boced i'w fol a gwylid llaid hir tenau tywyll yn llithro allan ohono ac i lawr dros ei benliniau noeth, yn fwyn dros ei groen. Wele ef yn ei

hunanfodlonrwydd a'i falchder cyndyn, o'r diwedd yn y gwely gwaelodol, a Maxine wrth ei erchwyn, ac eto heb fod yno, ac yntau yn ei gornel yn ceisio crynhoi'i feddwl ar gadernid yr Un agos, Casglwr y Gwaddodion, y Goleuni styfnig, yr unig Un gwir, hwnnw yn unig mwyach a oedd yn cyfrif. Gwelai'i ddwylo'i hun o bell yn wanllyd ac yn methu â dal llwy. Gwelai mor fregus drwy'i ddychymyg bellach yr oedd yn ceisio sipian cawl nerfus ac yn diferu ar draws ei fryst. Nid oedd i'w gorffyn main yr un waredigaeth ond drwy ddrws yr ysbryd, ac nid oedd hwnnw wedi ymagor ddigon iddo brofi'r awel. Chwythai'n gloff dros y corffyn duswau trwm o wyll. Ac eto, yr oedd hi'n dangnefeddus iddynt. Ynghanol y cythrwfl ni chaed ganddynt ond llonydd pefreiddiol, mwyn. Ac yr oedd Ef yno.

'Chredith neb chi am Wili, chi'n gwybod 'ny,' sisialodd Maxine.

'Mae'n debyg.' Ymdeimlai â thangnefedd melys y tu mewn.

'Neb ond fi wrth gwrs ... a Helen.'

'Na.'

'A Mair...Mae'n wir ddrwg 'da fi,' sisialodd hi eto. Ni allai hi ddod o hyd i sillafau. Roedd hi eisiau dianc rhagddynt yn awr.

'Os datblygith yr hen beth, mi ddatblygith gwarth hefyd,' meddai fe.

'Dim byd sicrach.'

'Ac nid fi yw gwrthrych pwysig y gwarth ... Fe.'

Syllai hi ar afalau'i wefusau. Y funud yna roeddynt yn felys o esmwyth. Ac roedd hi a'i theimladau o'i chwyr i'w chorun gerbron y byd fel y modelau cwyr yna cyn eu gwisgo mewn ffenestri siopau — yn y Stryd Fawr — llathenni o gnawd cain esmwyth lluniaidd oer heb unlle i ymguddio ... ei delfryd — hwn — wedi'i blingo!

'Ydych chi'n gwybod beth sy'n llunio gwir gariad?' murmurai Maxine.

'Beth?' meddai ef, a'i lygaid yn troi'n ddiereidus a'i chwylfrydedd yn ymwthio o'i glustiau.

Disgynnai gosteg rhyngddynt, ac yna drwy'r awyr o'u deutu llithrai parasiwt o ysbrydoliaeth i waered, o du Maxine. Disgynnai'r parasiwt yn addfwyn amdani.

'Dau. Nid holl boblogaeth Ewrob. Nid holl swyddogion ac aelodau'r enwad Annibynnol. Nid cyhyrau'r Americanaid. Nid holl ysbytyau'r gwasanaeth iechyd. Nid pentref cyfan. Nid cyd-ddyn pell. Nid deg. Nid mil. Ond dau. Deuawd bach diymadferth crwn cynnes. Dyna ddechreuad perthynas y bydysawd benbaladr.' Dau eto!

Yn ddisymwth roedd hi wedi gweld y ffordd ymlaen. Gallai hi o ddyfnder y loes hon ei goleddu. Roedd hyn yn weledigaeth ganddi. Gallai hi fod yn un ag ef i lawr fan yna yn ei

angen. Byddai hi'n noddfa faddeuol iddo. Gallent hwythau, o ganlyniad, fod yn ddau: y ddau i'r holl ddaear.

'Ble wnaethoch chi ddarganfod hyn?' gofynnai ef yn ostyngedig dawel, ond yn ofnus mwyach.

'Pan fydd dau bach yn dirion ffyddlon, yn ymddiriedus mewn parch, yna mae 'na ryw lwybr ymlaen yn ffrwythloni. Dau ydyn nhw wedi'i llusi ag un. Yn dod yn un felly, er aros yn ddau.'

'Pwy ddwedodd hyn oll wrthoch chi?'

'Un fach ydw i i bob golwg, wrth gwrs. Menyw. Betrus... Ond peidiwch chi â bod yn rhy siŵr...'

'O'r gorau,' meddai Len, 'dwedwch nawr mai hanner yn unig yw un o'r ddau yna roeddech chi'n sôn amdany-nhw gynnu, dwedwch nad oes gan un ohony-nhw ddigon o wynt i lenwi ond hanner balŵn, beth wnân nhw wedyn?'

'Wel, arhoswch funud: fe all mai un a hanner fydd y llall 'fydd ar ôl: dyna hanner *plus* un a hanner. A rhwng yr un a hanner yna a'r hanner un arall ar fenthyg, y Parchedig Len Llwyd, mae'r stori'n gyfan gwbl gyflawn. Q.E.D.'

'Rych chi'n 'nrysu i ychydig. Fe fu Mathemateg erioed yn un o'r ffefrynnau yr oeddwn i'n hoffi eu hesgeuluso ... Pam rych chi'n dweud peth fel hyn?'

'Credwch neu beidio; dwi am sibrd hyn, a gwell ichi beidio â gwranddo... mae 'na rywbeth ynglŷn â chi sy'n peri i freuddwyd fel draenog rollo ar hyd fy asgwrn cefn.' A'r eiliad y dwedodd hi hyn, rhewodd y freuddwyd oll o'i mewn. Dechreuodd hi ailfeddwl. Dim ond breuddwyd oedd hyn ar hyn o bryd iddi hi. Ond ai dyna'r cwbl? Rhamantiad diddiflanedig oedd hi, y Gymru afreal. Rhyw ddelfrydu ffansiöol wedi mynd dros ben llestri.. Wedi'r cwbl ai 'fe' realistig a geid mewn peth felly? Nage, nid fe. Nid fe roedd hi'n garu, nid hwn yn ei fanylion blêr; ond y gobaith diderfyn ohono, y delfryd. Y delfryd breuddwydiol ar y gorwel pell. Dadrith oedd e. Ac roedd ei gorff yn tanseilio'r alegori. Ond...cofiar.

Cofiai hi yn bell bell yn awr am foreau Sul glas ei hieuenctid ar wyliau yng Nghymru, y coed afalau diawel drwy'r ffenest yn diwel ychydig o adar petrus eu tonc o'r tu allan, yr eglwys lwyd eto yn ceisio sefyll gerllaw heb ei dihuno gan ei chlychau'i hun ac yn ei lordian hi wedyn yn dragwyddol yn y fynwent draw. Cymru! Y cymylau diddadmer a'r gwynt yn eu dwrn yn y ffenest yn methu â syflyd drwy'r wybren ar ôl wythnos o ruthro fan hyn a fan 'co;

y capel llwyd, a'r holl bobl lwyd heb godi — neb yn bod, ond ambell gar diberson ar hewl yn y pellter yn gorbwysleisio'r bwlch llwyd rhwng y synau. A hithau'n llances Awstralaidd hapus hwyliog yna ar ei chefn yn ei gwely ar y Sul yng Nghaerafon yng Nghymru'i gwylliau wedi tynnu'i thraed i fyny o dan ei phen-ôl ac yn gafael ynddynt â'i dwylo, ac yn pendroni yn llygadfawr — beth ar y ddaear a wnâi hi pe câi hi fil o bunnoedd neu hyd yn oed chwecheiniog. Dyna'i delfryd hurt ar y pryd. A âi hi tybed am wyliau pellennig eto ryw ddiwrnod dros y cymylau acw a'i thraed o dan ei phen-ôl? Ynteu ai ei hercian hi'n ôl adref a wnâi i Awstralia efallai? Ac er mor anaeddfed oedd hi, tybed a gliriai hi holl ddyledion diderfyn ei rhieni ag un ystum haelfrydig hwylus? Dyna'r ateb i'r helbulon oll. I'r gwely hudol ifanc a chyfoethog hwnnw yr âi, yn ei chanol-oed pell acw ac yn hŷn o ychydig, yn fynych y dychwelai hi felly, pan derfid arni gan bobl wedyn yn ei bywyd, pan droid hi beniwaered gan serch llencyndod ym Mhrifysgol Sydney, neu pan siomid hi yn nirgelion ei gyrfa gan ei chyn-wŵr, neu hyd yn oed fel yn awr, ... yn awr yn nechreuadau ei henoed heini, pan blethid hi gan ymdeimlad gorthrymol o wynfyd cwbl sigledig, y ddelwedd gwbl sefydlog honno, honno a'i diogelai hi drwy bopeth mwyach. Ei Chymru.

‘Draenog ddwedsoch chi? Twt, Maxine, gallwch wneud yn well na ’na. Eliffant sy wedi galw ar stepyn ’y nrws i heddiw o leiaf. Dedfryd. Nid delfryd. Heddiw dwi wedi cael newyddion eliffantaidd, a does dim llawer o chwant arna-i i glebran dwli, hyd yn oed i brocio'r id. Dwi'n falch o'ch cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch wrth gwrs. Ond...’

‘Cyfeillgarwch!’

‘Ie.’

‘Fe ddwedais i mai dau hanner oedd ’na. Peidiwch ag aildwymo cyfeillgarwch ar sail hynny.’

‘O'r gorau. Dwi'n deall hynny hefyd. Ond dwi'n falch i gael eich ymddiriedaeth.’

‘Ust ddyn, dych chi'n swnio fel goruchwyliwr banc.’

‘Ond ...’

‘Ust ... Dau HANNER ddwedais i. Dau, dych chi'n deall. Dau, wedi'u lluosu â hanner hefyd. Dyw'r deuawd yna ddim yn bâr o unawdau. Dau ydyn ni. Dau donc yr un pryd, ar yr un cywair, yr un traw, heb fod mewn dau feddwl, ac eto, Aber i ddau gleddau ac i'r un Pysgodyn, ar yr un amser, does dim dwywaith, dau, un corff a dwy law, un pen efallai heb ddau wyneb. Ond dau eliffant gyda'i gilydd, Len. Dauddyblyg, cofiwch. A'r ddau'n palu'r un hen lo i'r un hen dân tyner.’

'Ar wahân.' Edrychai Len arni'n syn, wedi'i ddrysu drachefn a'i gweld yn ddisymwth ddatguddiedig am y tro cyntaf erioed. 'Rown i'n coelio,' meddai fe, 'mai fi oedd yr un a oedd yn goch mewn Mathemateg.'

Chwil oedd hi mewn sillafau. Rholiasai mewn ebychiadau. Y tu ôl i len ei mwgwd mwyn, a oedd yna ferch ofnus yn cwato? Merch fechan chwil oedd hi, rhaid cyfaddef, fel pe bai'n gwasgu yn ôl i mewn i gornel, ac yn archolladwy. 'Archolladwy! Hyfryd yw d'enw.'

Ac oblegid hynny, am ei bod hi hefyd — yn ei hyder a'i diffyg hyder — yn ddwfn mewn angen, er gwaethaf ei gwingiadau mewnol ei hun, ni allai Len namyn ei charu. Gwyddai yn hurtrwydd ei ysbryd fel y gallai archoll, hyd yn oed, fod yn fuddiol. Adwaenai yntau ers talwm ulw y clwyf hir hwnnw o fod yn fychan. Roedd ef yn gallu caru hon felly hyd waelod gwyn ei berfeddion. 'A phle y clywsoch chi'r holl ddoethineb carlamus hwnnw?' gofynnai ef.

'Gan baragón,' atebai hi yn hyderus.

'Paragón. O ble?'

'O Droia.'

'Helen?'

'Pwy amgen?'

'Helen druan. Beth ddwedodd *hi*?'

'Newyddion gwyn i 'nghlustiau i.'

'Fel beth?'

'Nad oedd hi, y llipryn llwyd, ddim am ganu deuawd,' meddai Maxine mor ddiniwed aneironig â thisian.

'Dyna'i geiriau?'

'Un gair sengl a melys garedig rhonc ac addfwyn a braf, dyna'r cwbl, a roliodd-hi ar wlybaniaeth ei gwefusau: NA.'

'Mi allwn innau fod wedi dadlennu'r newydd syfrdanol yna ichi ers talwm tatws.'

'Ond merch yw hi. Ac felly roedd hi'n gwybod mwy na chi.'

'Digon tebyg.'

Roedd y ddau o'r diwedd yn adnabod ei gilydd, ac yn caru'r hyn a adwaenent.

'Dau: mae yna ddau fan hyn ar gael ac ar ôl serch hynny, ac mae *hi'n* gwybod hynny. Dw *innau'n* gwybod hynny,' pynciai Maxine yn orfoleddus. Closiai ato a gosod llaw ar ei ysgwydd. 'Dau anochel dewr. Ym myd caru mae rhai'n sôn am ddewis cymar, a hyd yn oed



am ddewis yn ddoeth. Ond y dewis doethaf dwlaf ar hyn o ddaear yw pan nad oes dim dewis i'w gael. Nid gŵr na gwraig sy'n dewis caru: caru sy'n eu dewis nhw.'

Ac ymataliai. Y ddadl fwyaf cyrhaeddbell oedd estyn calon ar draws yr HIV, ar draws toiled cyhoeddus Llanbiblig, ar draws y bygythion a'r clafychu sicr, a chymdogion y glep, ar draws diffeithdiroedd corfforol Awstralia, ar draws yr esgymuno cymdeithasol, a'r tân ac ar draws yr amddifadu terfynol a'r tipyn ugeinfed ganrif, tuag at ddau. 'Dau ... Gadewch imi felly hwylio ail gwpanaid i'r ddau yma. Cawn lwnc-destun.'

Edrychai Len tuag ati, ac yna tua'r ffenestr, ac yna tuag allan at yr wybren eang. 'Mi gymra-i fil,' meddai fe.

'Wedyn,' meddai hi, 'byddwch chi'n barod i ddod am dro gyda fi, neb arall, tro byr, — tro arbennig.'

'Ble?' meddai fe.

'Dim ond 'lawr at yr afon.'

'O!' meddai fe.

'Ac yna, *dros* y bont. Fi fydd yn cael dy hebrwng di *dros* y bont.'

'Dros ... bont ... Mair.'

'Ie; a'i chroesi y tro hwn.'

'Gwell gohirio hynny,' meddai fe'n brudd.

'Ddim byth te,' meddai hi gyda phendantrwydd. 'Un bont sydd. Ac dwi'n mynd i'w thynnu i fyny ar ein hôl.'

A gwyddai Len o'r holl rai a adwaenai ef — Mair, Helen, Maxine — mai'r olaf oedd yr unig un iddo ef a oedd yn ddigon anweledig i'w ddeall ef. 'Tr ddau!' meddai'n hapus.

## 12

Amáu'i chariad yr oedd ef o hyd. Doedd ef ddim yn amáu'i bod hi *am* garu rhywun. Roedd rhyw fath o emosiwn yn tywallt fel clwyf allan ohoni. Ac wedyn yn sicr, doedd dim dwywaith na charai gael ei charu. Ond ei garu ef, a oedd hynny'n dipyn o freuddwyd gwrach wrth ei hewyllys? Nid yr ef dilys o leiaf. A garai hi ryw ddelfryd ohono o bosib? Ond ef gyda'i wiriondeb, ef gyda'i hunanoldeb, ef gyda'i anghysondeb annirnadwy, ac ef yn ei gywilydd, doedd dim disgwyl i'r fenyw ganlyn y ffordd drofaus honno i'r pen. A oedd hi wedi buddsoddi'i chariad mewn dychymyg cwbl swrealidd?

A hithau yn ei thro roedd hi'n amau'i gariad ef ati hi. O'r braidd, yn wir, ei bod yn ei chredu'i hunan chwaith mwyach. Oblegid ei mynych freuddwydio daethai i'r arferiad sad o ddrwgdybio'i gogwyddiadau ei hun. Trigai hi mewn llond baddon o gelwyddau llithrig. A allai hi byth dderbyn ei fod ef yn gallu'i charu? Gwyddai amdani'i hun yn rhy dda, ei bod erioed yn rhy sylfaenol arwynebol. Doedd dim angor sad ar gael yn ei natur. Pan ddôï ffansi anghyfrifol heibio i'w chudynnau, carlamai ar ei hôl fel llances nwydwyllt. Ond am wir gariad parhaol, cariad unplyg: dim, doedd bosib. Ansicrwydd isymwybodol a gwamalrwydd darniedig cariad, dyna rannau dyfal o'i hanian.

Doedd dim dyfnder na chyfrifoldeb i freuddwyd ramantaidd.

Ni buasai'r un gwryw garw byth yn bodloni ar wraig nad oedd pridd sad dan draed ei theimladau. Er gwaethaf elfen bluog o ddeallusrwydd yn ei hanianawd, chwelid hynny oll mor hwylus â'i hwyl. Fe'i chwelid hefyd gan ba ddelwedd bynnag a hedai yn ymyl ei hymennydd gyda'r nos. A lwyddai ef byth i gredu yn ei hymrwymiad stond? Onid amheuai ef hefyd ddwyster ei ffydd?

Cymerent amser.

Ac yn ei hanwadalwch diamheuol, o ddydd i ddydd, tyfai Maxine oddeutu Len yn ffyniannus. Llawer y medrir ei gyflawni gan ddygnwch caredigrwydd. Er gwaetha'i bryderon newydd, yn wir efallai o'u herwydd, am y tro tyfai'r ddau yn fwyfwy o undod beunydd, megis yn un dau. Anobaith a goleddai anobaith.

Dewisai Helen hithau ymneilltuo ychydig o'r herwydd. Ciliai rhag eu cymdeithas am gyfnod. Nid *ménage à trois* fuasai'r ddau hyn mwyach. Er bod Len yn ei bugeilio'n gynnil o hyd, ac yn teimlo dyletswydd i'w gwarchod, a chanddo awydd annealladwy hefyd i'w hadnabod yn well, cyndyn oedd ymateb Helen. Bodlonai felly ar ynysrwydd go gyson. Er mai hi, Helen, oedd yr un ddiymadferth, ac yn y golwg o leiaf yn arddangos cryn ansicrwydd, annibyniaeth oedd ei chyswynair. Hi oedd yr un gref. Darparasai synnwyr cyffredin erioed fath o angor iddi. Hyd yn oed yn ei hymhél â'r ocwlt, cadwasai'i thraed yn gydiad yn y ddaear. Erbyn hyn roedd ei gwendid wedi gwneud math o iawn amdano'i hun. O bell, gwyliai Helen Maxine yn ei gwylïo hi Helen, fel gringo newynog. A'r pryd hynny, am foment yn unig efallai, gallai Maxine brofi ansicrwydd arall.

Ond mynnai Maxine ryw ben bob dydd gael peth o gwmni'r gweinidog, naill ai'n answyddogol neu'n swyddogol. Dyfnhâi hyn o arferiad. A dôi ffaith seml y gwmniaeth honno'n orfodaeth iddynt ill dau. Clywent ddifrifoldeb ei gilydd.

Rhyfedd o fyd hefyd. Dylai ef yn nhlodi'i iechyd bellach ganolbwyntio ar ymddatod cysgodol. Ond roedd fel pe baent yn procio'r dechreuadau o hyd. Wrth gwrs, er gwaetha'r cwbl, gallai ef bara'n bur hir. Deng mlynedd o bosib. Roedd y rheini ganddo i'w gynnig. Pwy a all fod yn siŵr o fwy? Gâi ef edrych arno'i hun yn normal?

'Clywch Maxine,' meddai ef un diwrnod digyffro. 'Mae hyn yn datblygu'n rhy gyflym. Sbrintiwr ych chi. Ras hir ar draws gwlad yw hyn i fod. Dwi ddim yn credu'ch bod chi'n sylweddoli beth yw ystyr ymserchu mewn claf o'm hil i.'

'Ydy hynny'n addo bod yn fygythiad i chi?'

'Mae'r arferiad o glosio'n amlhau ormod. Mae'n dechrau mynd yn sefydliad.'

'Beth yw ystyr hynny?'

'Clywch! Ych chi'n barod i wneud beth bynnag y bydda-i, fel Cristion, yn ei ofyn ichi?'

'Cwestiwn mawr.'

'Dyna'r cwestiwn mwyaf rhyngon ni a'n gilydd bellach.'

'Pob peth?'

'Heb eithriad.'

'Dwi erioed wedi meddwl am y fath beth,' murmurai hi'n swil.

'Dyw rhyddfrydwyr confensiynol ddim yn arfer mynd i'r cyfeiriad hwnnw bellach. Ond dyna ystyr cariad. Cydymostwng araf.'

'Cariad – yn ymostwng! Byth!'

'Ie, dim arall.'

'Ond teimlad ... angerdd yw cariad i ddyn. Teimlad ac ymddiriedaeth.'

'Rhywfaint, felly, a deall a pharch ... a ... llawer o bethau eraill.'

'Ond teimlad yn bennaf. A chywirdeb gwleidyddol,' ebychai hi.

'Na, na, tu hwnt i hynny. Dibynnu, a ... gwasanaethu. Yn sylfaenol, yn y dyfnderoedd anchwiliedig gwneud beth bynnag dwi fel Cristion yn ei ofyn ichi.'

'Beth ddwedai'r Chwirydd? Braidd yn unochrog, on'd yw e?'

'Nac 'dy, nac 'dy, oherwydd fel arall hefyd: yr arwydd 'mod i'n eich caru chi yw 'mod innau'n barod i wneud beth bynnag dych chi, fel Cristion, yn ei ofyn. Dyw'r naill ddim yn gariad heb y llall. Does dim anghyfartal. Er ein bod ni'n wahanol.'

'Adlais felly.'

'Ar draws cwm.'

'A dyna'r cwbl yw cariad i chi te? Cyd-drawiad dau rym cyfartal?'

‘Na; ond, wel, i raddau helaeth. A dau rym yn diflannu. Un gwendid. Dyna’n delfryd.’

‘Ond mae hynny’n chwithig, braidd, on’d yw e? meddai hi’n deimladol. ‘Oer a diberfedd.’

‘Fyddech chi byth yn gallu gwneud beth bynnag dwi’n ei ofyn, petaech chi’n oer.’

‘Mae’n hawlio tipyn.’

‘Mae’n gofyn popeth.’

‘Mi fyddai’r Chwiorydd deheuig yn teimlo’n chwithig. Mae’n gofyn popeth *o leiaf*.’

‘Moesymgrymwch tuag at y Chwiorydd te. Wedyn ymadewch â’u byddin drist.’

‘Byddai’n dda gen i ’taech chi’n hoffi fy llygaid hefyd. A hyd yn oed f’ysgwyddau.’

‘Sylwais i ddim.’ Dwedai anwiredd ond er mwyn dweud y gwir. ‘Cariad yw eich bod chi’n bod — yn y lle y mae’r *ddau* ohonon ni’n dymuno ichi fod.’

‘A rhywbeth arall?’

‘Ddim llawer. Byddwch chi’n ymddwyn wedyn fel mae’r ddaear a’r nefoedd yn dymuno ichi ymddwyn. Maen nhw’n dod ynghyd yr un pryd.’

‘Mae hyn,’ mentrai hi, ‘yn od o debyg i ormes chi’n gwybod.’

‘Yn gwmws. Hynny yw, hyn hefyd yw bod yn rhydd. Gormes cyfrifol yw rhyddid i’r galon rydd. A chofiwch: mae’n gweithio fel arall yn ogystal. I mi hefyd. Rhaid i minnau geisio beth bynnag dych chi’n ei ddymuno. Os gormes yw e, mae’n bendramwnwgl ...’

Roedd hi’n gwrthryfela’n rhamantaidd o hyd yn erbyn y ffordd od hon o gael ei darostwng. Nid am ddim roedd hi wedi cael ei geni i fod yn Chwaer erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. ‘Mae’n rhaid cadw fflam annibyniaeth ac anghred ynghynn hefyd,’ datganai hi’n ddi-wên.

‘Hunaniaeth yw’r hyn dych chi’n feddwl amdani, nid annibyniaeth,’ meddai ef yn syml fel nant.

‘Cyd-ddibyniaeth yw rhyddid, coeliwch chi fi.’

‘Dibynnu o’r galon. A dewis peidio â dewis.’

‘Ddim byth te,’ atebodd hi’n bendant. ‘I mi mae cariad, Cariad mawr, yn gwrthod pob cysgod o orthrwm.’

‘Dych chi wedi bod yn darllen gormod o gylchgronau adolescent.’

‘Dyna yw ei wir anianawd, rhwng pobl, rhwng gwledydd, ble bynnag.’

‘Dwi’n deall eich pryder,’ meddai ef yn arafaid.

‘Chaiff siom y byd hwn, chaiff dim oll darfu ar gariad gwir wedyn,’ meddai hi’n arwrol.

‘Mi wn i hynny.’

Edrychai ef hyd at lawr ei llygaid. Y funud yna llonyddodd ei hysbryd yn ei ysbryd ef. Mewn ymrwymiad y câi hi ollyngdod o bosib. A doedd y darganfyddiad yna ddim yn gyfan gwbl ar y pryd at ei dant traddodiadol.

Chwe wythnos ar ôl dychwelyd i Lanbiblig, mynnodd hi er hynny weithredu’i hannibyniaeth dila. Ymysgydwodd. Mynnodd hi drefnu ymweld â phlentyn ei chyfylder a oedd wedi mewnfudo i Gaer-wynt. Heddiw... Neu felly y’i dwedai. Cymryd tro a wnâi, mewn gwirionedd, ar wahân, i feddwl... i’r holl bensynnu diweddar a’r bygythiad neu’r gobaith a’r sioc o ymrwymo ddod yn rhan ohoni hi. Dôi awydd drosti heddiw am gael sefydlu’i bywyd meddyliol o’r newydd. Âi hi i ffwrdd heb Len, yn annibynnol, am dri diwrnod. Rhoddai hyn amser iddynt ill dau sobri, ac iddi hi foesymgrymu i’w rhyddid o’r newydd.

Ac ar ôl iddi ymadael, y noson honno sylwodd Len yn ddisymwth ar y gwacter ar ei hôl. Doedd y byd ddim yno. Darllen roedd ef, yn nhrefn ei ddarllen cynlluniedig defosiynol, Ganiad Solomon; a dyma daro wrth yr hanes am y ferch wedi ymneilltuo i’w hystafell am y nos. Fe’i heneiniasai’i hun â pheraroglau, ac aethai o’r neilltu. Yna, dôi curiad ar y drws. Ei chariad oedd yno yn hiraethu am ddod ati. Petruso ’wnâi hi heb ateb ar unwaith. Ni weithredai. A dyma ef o’r diwedd yn cilio. Sylweddolai hi bellach mai go ofer fu’r persawr i gyd. Roedd hi wedi methu ag ymateb yn ddiymdroi. Roedd ganddi esgusodion, bid siŵr. Onid oedd ennaint ar draws ei dwylo? Onid oedd angen ymolchi? Nid atebodd y drws onid oedd yn rhy hwyr, a’r carwr wedi ffoi. Ond hebdo ef, yr oedd holl baraffernalia’i bywyd yn seithug. Un cyfle a gafodd hi. Nis cymerodd.

Tynnwyd myfyrdodau unig Len yn sydyn heddiw i fwewl. Daeth yn ôl i’r ddaear. Cnoc, cnoc ar y drws. Helen oedd yno yn ei chadair olwynion.

‘Helen! Oes rhywbeth yn bod?’

‘Oes.’

‘Beth sy? Ga-i dy helpu di i mewn?’

‘Mae ’na rywbeth annisgwyl wedi digwydd fel y gelli di’i ddisgwyl.’

‘Rwyt ti wedi colli dy liw.’

‘Colli fy limpyn dwi.’

‘Dere. Gymri di banaid?’

‘John sy, wedi cyrraedd.’

‘Aros funud. Wedi cyrraedd? John? Pa John? Nid o Awstralia... na!’

‘O Awstralia. Y brenin John, yn ei wallgofrwydd sobr.’

‘John? Beth mae’n wneud fan hyn?’

‘Wedi ’nilyn i, o bethau’r byd, wedi dod ar yn ôl i.’

‘Ti! Yma? O Awstralia? John! Fan hyn? Pam ? Sut?’

‘Daeth e i’r tŷ neithiwr. John o bawb. Mae’r dyn yn wallgo. Roedd e’n curo ar y drws ddau o’r gloch y bore.’

‘Fan hyn?’

‘Neithiwr diwethaf. Curo fel dyn gwyllt. Rown innau’n cysgu dan waelod y môr.’

‘John! Beth sy ar y dyn? Fan hyn! Oes rhywbeth o’i le? Ydy pawb yn iawn ’cw? Alis?’

‘Dim ond hiraeth arno, meddai fe.’

‘Hiraeth! Am beth? ... Ar John! Na!’

‘Oes. Alla-i ddim para, meddai fe.’

‘Y creadur croc! Beth ddwedaist ti?’

‘Does dim rhaid i neb fyw os nad yn nhw eisiau. Hiwmanydd Oes Newydd dwi. Hiwmanydd gyda chwafers.’

‘Beth ddwedodd e?’

‘Dwi’n fodlon *arafu*, meddai fe.’

‘Arafu! Oes rhywbeth rhyngoch chi te?’

‘Dyw pethau fel hyn ddim yn gallu digwydd yn glau, meddai fe.’

‘Pethau fel beth? Beth sy ar y dyn? O Awstralia! Fan hyn yn Llanbiblig. Dyw e ddim ...? Na. Dyw e ddim wedi syrthio mewn..., ydy e?’

‘Does gan y dyn ddim o’r ddawn, ddim o’r gallu cynhenid i wybod beth yw’r fath nwydd.’

‘Arafu, meddai fe? Y creadur!’

‘Ie, arafu. Arafu, meddwn i hefyd, o’r gorau, arafu fel mae Castell Caerafon wedi arafu. Arafu nes bod iorwg yn dringo drosot ti o’th gyrn i’th gorun. Arafu nes bod glaw’r canrifoedd yn disodli’r cerrig a’r Comisiwn Henebion wedi dod i osod hysbysfwrdd dwyieithog ar dy drwyn.’

‘A sut hwyl gafodd e ar yr awgrym?’

‘Rown i’n gwybod y byddet ti’n rhoi gobaith i fi meddai fe...’

‘Gobaith?’

‘Dim ond pum can mlynedd, ebychai fe. Gobaith iaith fach mewn cefnfor o Saesneg meddwn i.’

‘Pa ymateb gest ti i hynny?’

‘Rhywle arall te, unrhyw le arall, ond dechrau yn awr, ddwedodd e wrtho i. Byth! Byth bythoedd pys ’te! meddwn i. Down i ddim am glywed ei wynt e, down i ddim am weld blewyn o’i ben, down i ddim eisiau sylweddoli fod ei ên ar gael ... Paid â gadael i neb sôn sill hyd yn oed am ei gysgod e. Ddim am ei angladd e chwaith.’

‘Roet ti’n ddiennaid.’

‘Ddim yn ddigon diennaid.’ Ymataliodd hi. Sobrodd. ‘Ond pwy dw-i, dwedwch, i wrthod *cariad*? Beth dw-i? Fi! Beth gallwn i’i ddweud? Mae rhai pethau’n amhosib o ddywedadwy.’

‘Mae popeth yn amhosib. Mae bodolaeth ei hun yn amhosib i wyddonwyr. A threfn. A hunaniaeth.’

‘Ond *cariad*!’

‘Gwneud yr amhosib yn arferol yw cyfrinach y dimensiwn gwybodus.’

‘Pwy dwi? A phwy yw e? Os oes eisiau symud dau fynydd i’w cael nhw’n nesaf at ei gilydd, pam na wnaiff e ddechrau gyda rhywbeth bach rhwydd fel Cader Idris a’r Wyddfa?’

‘Ble mae e nawr te?’

‘Ar y criws eto siŵr o fod. Ar y cnap yng Nghaerafon.’

‘A thithau?’

‘Unlle. Yn feddw, efallai, wedi yfed galwyni o sobrwydd.’

‘Ddaw e’n ôl?’

‘Ddaw e byth *yn ôl* ond i synnwyr. Does dim yn ôl arall. Dim mynedfa i unman arall.’

‘Elli di fod yn siŵr?’

‘Fe saetha-i fe. Ddwedais-i wrtho.’

‘Ond beth wnaiff-e?’

‘Codi yn y bore, wedi’i saethu’n deidi.’

‘Druan ohonot ti, Helen.’

‘Beth wna innau te?’

‘Codi yn y bore ... Cymryd dy frecwast?’

‘Ddaw e’n ôl?’

‘Bosib. Mae hynny’n dibynnu ... ar ... hiraeth ...’ meddai Len.

‘Pa hiraeth?’ holodd hi.

‘Dy hiraeth di.’

13

Aeth Helen adref yn fwy cysurus yn ei diffyg hiraeth wedi rhannu’i baich â bod arall. Pendronodd Len am ychydig ar ei hôl. Penderfynodd ef gerdded cyn noswyllo ar hyd glan Llyn Llygad Piblig drachefn er mwyn gadael i’w lygaid ei hun anwesu’r manau cyfarwydd.

Ond allai fe ddim meddwl am neb am awr ond Helen, ac unigrwydd Helen.

Oedai ar ganol diofal gam.

Mwyniant cynnes annisgwyl yn y gwyll oedd taro wrth gwningen, a syllu ar ei sioncrwydd trwsogl a’i llygaid nerfus wrth iddi hel ei phertrwydd o sbonc i sbonc o’r golwg. Llamai fel pe bai’n cario sachaid araf ar ei chefn, hanner troedfedd ffordd yna, hanner troedfedd ffordd arall. Mi wyddai ef ei thrafferth.

Plannai ei edrych yn awr yn harddwch y llechweddau tywyll. Oedai ei lygaid fel gwefusau dros y dail, yn y cyflychwyr. Y pethau olaf hyn a oedd o’i gwmpas ym mhob man. Cyd-gasglai ef hwy ar frys. A cheisiai ddefnyddio’r olygfa weddilliol hon yn awr fel achlysur y cusan olaf gan ei galon ar fodolaeth y ddaear.

Yna, clustymwrandawai’n fanwl. Ar draws distawrwydd yr olygfa hon clywai guriad Maxine ar ddôr ei galon. Mor eneiniog oedd ei ffyddlondeb o hyd. A’i ffydd hi heno o bosib hyd yn oed yn niwedd pethau.

Ni sylweddolasai Len ynghynt fel yr oedd ei emosiynau bellach, megis iorwg drosto, iorwg dros ei gastell, gymaint ynghlwm o gylch boncyff Maxine hefyd. ‘Dy ffydd di,’ murmurai’r awyr wrtho ef.

Treuliai’r diwrnod felly mewn pendrondod. Methai â meddwl yn glir o hyd am fawr ddim ond am Helen a John a’u helbul a’u gwyll ill dau, a dyma Maxine yn taro ar eu traws yn anhymig arferol. A methai’r noson honno â chilio i’w wâl tan ddau o’r gloch fore trannoeth. Yn wir, nid oedd o’r braidd wedi ymsefydlu yn ei wely pan glywai guro eto ar ei ddrws.

Curo megis gan yr anwylyd o Lys Solomon. Curo hiraethus, eneiniog. Curo gan ryfeddod ei galon.

Codai’n syth bin. Ni allai fforddio ei chadw i aros. Roedd ei hanwyldeb yn gorddio.

Dau blismon oedd yno. Mynnent ddod i mewn. A’i holi. Galwedigaeth oedd yr heddlu a



oedd yn hoffi'r nos. Ble'r oedd *ef* wedi bod, y noson honno? Beth roedd *ef* wedi bod yn ei wneud â'r tywyllwch?

Casglu ei feddyliau.

Edrychai Len arnynt yn syn. Roeddent fel pendro mewn siwtiau duon.

A oedd rhywun arall wedi ymweld ag ef a allai dystio am ei symudiadau? A oedd e'n nabod Jo Lowell? A oedd wedi bod yn agos i Bant-y-bugail yn ddiweddar?

Beth dych chi'n ei ofyn, ddyn? Pant-y-bugail! Prin ei fod yn gwybod am y lle.

Ymwithient o le i le yn ei ymennydd ac yn y tŷ. Delwai yntau o'u blaen mewn anneall. Dywedent fod caniatâd iddo gael cyfreithiwr yn bresennol. A gaent chwilio'i wardrob heb warant? Wrth gwrs. Pa ddillad? Pa sgidiau yr oedd wedi'u gwisgo heno? A gaent fynd â'r rheini i wneud archwiliad fforensig? Caent, caent.

Syllai anghrediniaeth Len arnynt. O'r diwedd, yn bŵl, yn flinderus, gofynnai ef iddynt beth oedd yn bod. Pa drosedd roedden nhw'n ceisio'i archwilio?

'Cam-drin plant.'

'Beth!'

'Paedophilia.'

'Dwi'n deall yr iaith honno yn burion. Maleiseg ynte?'

'Ym Mhant-y-bugail. Ar y caeau. Gwrachod. Rhyw seremonïau paganaidd ffiائد. Dawnsiau. Gwyrdroadau rhywiol. Yr Oes Newydd. Doedd dim sôn am Faleisia, Dai, nac oedd?'

'O! Ac rych chi'n amau fod golwg tipyn o ddawnsiwr paganaidd fel 'na arna i?'

'Dŷn ni'n siecio pawb.'

'Pawb!'

'Pawb a allai fod â diddordeb yn y lein yna.'

'O! debyg iawn.'

Roedd nod ar ei dalcen. Doedd dim diwedd, felly, dim dianc. Doedd ei orffennol ddim wedi cilio. Am byth fe'i hamgylchid ef gan amheuaeth pobl eraill. A chan ei 'ddiddordeb'.

'Wel, mae croeso ichi fynd ag unrhyw ddilladach neu unrhyw sgidiau o'm heiddo i. Os galla-i'ch helpu, fe'i gwnaf. Ond ofni dwi na dwi ddim wedi bod ar gyfyl Pant-y-bugail ers tair blynedd hir. Na dim arall "yn y lein" yna.'

Dadlennodd y cwbl a wyddai am unrhyw sôn a glywsai ynghylch yr ocwlt yn y gymdogaeth, ond gan ystyfnig guddio enw Helen am ei fod yn gwbl sicr ei bod hi'n hollol

amherthnasol. Holent am gyfrolau roedd ef ei hun wedi'u darllen. Gofynasant am gael cadw dwy oedd ar ei silffoedd. *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry a *Cyfarwyddwr Priodas*, William Williams. Cyfeiriodd wedyn at bregeth roedd ef wedi'i thraddodi yn rhybuddio am yr ocwlt a'r 'Oes Newydd' ddeunaw mis ynghynt. Oedd: roedd e'n ffeilio pob dim yn y lein yna. Roedd e'n cadw'i holl nodiadau pregeth mewn cabinet, a'r cyfan wedi'i ddyddio'n daclus a'i ddsbarthu yn ôl y lleoliad yn y Beibl. Gwnâi les iddynt ei siecio.

'A'ch ffrindiau?'

Roedd enw a diddordebau Helen yn hofran eto ar flaen ei dafod.

'Neb.'

Beth oedd y cerflun bach Tsheineaidd oedd ar ben ei gwprdd llestri? A oedd hynny yn y lein yna?

Anrheg a roddwyd gan un o'i braidd.

Pwy?

Mrs Winni Evans, Glyn-hobi.

Sut ych chi'n sillafu 'hobi'? Oedd hi'n fyw o hyd? Allai hi dystio amdano?

Gallai.

Oedd unrhyw gysylltiadau â'r ocwlt?

Dim.

A'r Oes Newydd?

Dim.

'Beth am y ffiguryn ar bwys drws y ffrynt?'

Disgynnai chwys a distawrwydd drosto. 'A! Rych chi wedi 'nal i nawr.'

Buont gydag ef am awr ac ugain munud. Yna, gadawsant.

Ni cheisiodd Len ddychwelyd i'w wâl. Troes ei feddwl o'r newydd at Arglwydd y cloffion a'r ffolion a'r gweigion, a'r hen ddynion budr, a'r bobl hynny a wnâi gamgymeriad. Ac nid oedd yn y fan yna namyn diddanwch, diddanwch bob man y cydiai ynddo. Roedd hyn yn rhy rwydd. Ac eto, o leiaf roedd yn wir. Roedd Hwnnw'n mynd i'r lleoedd odiaf, i ddod o hyd i'r bobl odiaf.

Cododd ei ben, gymaint ag a oedd ar ôl. Beth yfflon oedd 'na y tro hwn?

Curai ychydig o gesair ar ei ffenest. Curent yn ysgafn i ddechrau fel petaent yn ferched ifainc llechwraidd eisiau dod i mewn ato o Lys Solomon, yn ysgafn ysgafn. Yna, cynyddent yn ei glustiau. Fel llanciau cryf gwrywlllyd cynyddent. Nid ceisio nesáu ato yr oedd y cesair

o gwbl nawr. Traed oeddent yn ffoi. Ffoent yn daer, roedd gwylltineb eu hofn yn ffyrnig ledled y ffenest, ni allent ddianc mewn pryd. Deuent yn eu hôl, sut bynnag, y bwganod hyn, a hyrddient eu hing yn wyllt drachefn yn erbyn y gwydr cas. I mewn y mynnid dod. I mewn rhag nos, rhag y dydd dwl; ffoi ac ymguddio a dod yn ei ôl.

Cesair mân. A dim byd.

Roedd pryder yn ei blagio bellach. Clywsai fel y gallai heddlu chwarae â'r dillad neu â'r sgidiau, plannu gau dystiolaeth tan rithio afrealedd. Fforensig? Dim trafferth. Pan fyddent yn hollol dawel eu meddyliau'u bod wedi cael gafael ar y troseddwr dilys, a phan oedd tipyn o bwysau oddi uchod am iddynt ddod i ganlyniadau buan, hawdd deall ambell un mewn glas a awyddai am gymhwyso rhyw fymryn. Dim ond ceisio dod i ben â'u gwaith yr oeddent wedi'r cwbl, er mwyn y cyhoedd, a hynny mewn amgylchiadau anodd ddigon, gyda'r Wasg yn gwasgu.

Ac eto, nid oedd am i neb adfywio marwor diflas amgylchiadau'i dipyn trosedd blaenorol, os trosedd hefyd. Nid oedd ganddo ymddiried chwaith y byddai'r ditectifs na'r llys wedyn yn ei drin yn fanwl onest.

Bu'r ugeinfed ganrif wrthi ar ei hyd yn distrywio'r berthynas deyrngar a arferai fod o bryd i'w gilydd rhwng heddlu a'r cyhoedd. Felly y drylliwyd rhwng gwryw a benyw, rhwng plant a rhieni, drwy'i droi'n chwalfa a drylliadaeth yn hytrach nag undod haelfrydig. Collwyd yr wrogaeth rigolaidd. Enillwyd trefn lai na'r Drefn. 'Pethau' a oedd wedi gyrru pobl i gornel. Ac wrth orseddu 'Pethau', caed math o ddeddfoldeb dibwrpas. Trefn heb ras.

Eto, trefn oedd yr un pryd, yn ddiau: rhaid oedd cynnal trefn. A rhaid oedd iddo yntau weddio dros gyfraith.

#### 14

Ryw ddwy awr a hanner wedyn clywodd Len stŵr ysgafn tu allan i'r tŷ. Peswch. Roedd y tywydd yn oer. Brysiodd at ffenest y parlwr. Ac yno, gydag un ohonynt yn cario baner ac arni'r sgrechair 'Bradwr Crist!', safai twr crwn o ddynionach a gwrageddos a hyd yn oed plantos o'r pentref yn syndod o dawel.

Doedd neb yn yngan dim. Dim strancio, dim gweiddi na gwrthdystio llafar. Dim ond sefyll mewn difrifwch. Gwrthdystwyr Cymru a'i phla; a'u ple i bobl eraill wneud rhywbeth. Dyma nhw, ac Alwyn Brown unwaith eto yn eu canol, yntau wedi dychwelyd i borfeydd ei hen ragfarnau. Daethant hyd at ei lidiart heb fentro ymhellach, ac yr oedd eu hwynebau'n

gochlyd a'u llygaid yn bŵl. Gallai Hogarth neu Dürer fod wedi cael hwyl braf yn eu delweddu. Adwaenai Len hwy oll, y siaradwyr blodeuog blin ymhlith ei gilydd.

Roedd Bessie Jennings yno ar egwyddor. Er mor encilgar ydoedd ynghanol y bagad, fe'i lledai'i hun yn fwy egwyddorol nag arfer. Chwenychai warchod y protestwyr i gyd dan ei hadenydd, a dymunai i'r protestwyr warchod rhai ardaloedd ohoni hi dan eu hadenydd hwythau. Yno, yn ogystal, roedd Erfyl Mathias Hughes heb ddod i brotestio, ond wedi crwydro acw drwy ddryswch yr ugeinfed ganrif heb unlle i fynd, a dod o hyd i rywrai eraill ar yr un perwyl; dacw Winnie Keating, un o'r hil gyfarwydd honno y bu ef yn gweini arni fwy neu lai'n feunyddiol am ddeunaw mis ryw bedair blynedd yn ôl; Peggy Cohen wedyn druan a'i gŵr o dan ei chesail; a Twm Adams y llwyddodd Len i ddod o hyd i arian gan wahanol aelodau i gynorthwyo'i fab pan ddaliwyd hwnnw'n ddisiwrin mewn salwch yn Ffrainc adeg gwyliau, doedd Mr Adams ddim am ymhonni ei fod yn foisolwr, yr oedd wrth gwrs yn erbyn llofruddiaeth, godineb, a phethau felly, ond doedd e ddim am fod yn ddogmatig ynghylch y peth; a Grahame Deicyn, fel y disgwyliai pawb, a llu o rai eraill, llawer y bu ef o bryd i'w gilydd yn gymwynasgar tuag atynt, bron orielaid o'i weithredoedd gwasanaethgar drwy gydol y blynyddoedd diwethaf, roedden nhw yno yn lliaws llywaeth yn dathlu-euogfarnu ei gwmp. A phawb oll yn annaturiol o dawel. Ei ffrwythau ef.

Roedd gweld eu cyrff tawel afreal acw, yn fedlam di-sŵn ar draws y bore bach, yn gyfog yn ei ffroenau. Syllai'n ddiagramgyffred ar eu talcennau wedi'u gwelwi gan y wawr. Roeddent mor hen â siom, mor oer ag angof, trwynau cysgodol a grebachai gan ei olwg ef, a gruddiau wedi'u heneiddio gan wyll. Yn ofer y'i perswadiai'i hun nad eu gwedduster duwiol yn unig a'u gwnâi mor annerbyniol. Yn ofer y dadleuai ynddo'i hun y gallai fod haelfrydedd hefyd ar waith ar loriau eraill yn eu heneidiau. Hedai hwnnw o gylch y bondo ambell waith yn gwneud iawn am y tipyn ffwdan yma yn y seler.

Crynai ei afalfreuant o fewn ei lwnc, fel lludw rhewllyd, wrth syllu arnynt.

Diau fod yr elfen o 'blant' yn y clebr diweddar wedi dod â phelydryn o dywyllwch i galon y gymdogaeth. Plant! Doedd dim bai arnynt hwy wrth gwrs. Diniwed yw datganiadau plant. Os oedd plantos yn cael cam mor ffaidd â hyn, rhaid bod eu gweinidog wedi cyrraedd y gwaelodion eithaf. Mae'n siŵr fod gweithwyr cymdeithasol yn gwybod eu pethau yn hyn o gyhuddiad. Mae'n wir fod gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr ac mewn rhyw encilion anhygyrch yn yr Alban wedi meithrin cryn grebwyll yn ddiweddar. Ond Cymry oedd y tystion hyn yma nawr. Doedd gan y Cymry ddim gormod o ddychymyg, diolch i'r drefn,

gwlad y menig llwydion, gyda phawb yn nabod ei gilydd ac yn mynd i'r Steddfod neu i Gigs Cymdeithas yr Iaith; ac os oedd yna ragdybiau ar waith, bysai'r rheini o leiaf yn cydymdeimlo'n barchus â safle a sefyllfa gweinidog yr efengyl.

Ciliodd ef yn swta oerllyd i ystafell gefn y tŷ. Suddodd ar ei liniau tawedog. Ymledodd ar ei wastad ar hyd y llawr ar ei fol. Ei hoff safle. Geuddrych oedd pob barn a oedd ganddo amdano'i hun. Gorwedddai'i wyneb ar y ddaear yn agos, a'i drwyn yn y carped amhersawr.

Dyma ef yn ôl yng Nghymru, a llygredd ei gysylltiadau'i hun yn dod yn fwyfwy byw iddo. 'Dim ond cyflawnder wnaiff y tro yn awr, Arglwydd. Rhaid i Ti, fy Iesu, dim ond Ti dy hunan, fod ym mhob twll a chornel ohono-i, a'th ysbryd yn amddiffynfa rhag hunan-dosturi.'

Bu'n myfyrio yn ddiniwed naïf felly ar ei fol nes i'r cythrwbl dileferydd droi'n dangnefedd addolgar maith, tangnefedd a'i gorchuddiai fel cwthwm cynnes. A hunodd ef yn ddwfn ddwys ar ei waethaf yn y diogelwch hwnnw. Caeodd ei amrannau amdano ymhen hir a hwyr yn y fan a'r lle, ac aros a wnaeth ar hyd y dydd fel pe na bai'n bodoli.

Cnoc ar ddrws y gegin yng nghefn y tŷ ym mhellterau'i gwsg a'i dihunodd.

Y bore bach.

Norris, ysgrifennydd y capel oedd yno: 'Fi sy 'ma,' meddai hwnnw gan wenu'n glên. 'Dod ar fy mhen fy hun, liw nos. Nid ar ran y diaconiaid. Clywed am yr helbul diwetha. Meddwl rhoi gair bach o gyngor gwrthrychol ... cyn bod y teimladau'n codi'n gryfach ymhlith y gynulleidfa a'r diaconiaid eraill. Chi'n gwybod,... mae hi ar y ffordd.'

'Hi?'

'Ffrind sy 'ma. Fyswn i ddim yn hoffi bod siars yn dod yn eich gwahodd chi i ymadael. Meddwl rown i ... wel... gwyddoch chi,... fi sy'n dod nawr, ar ran neb, dim ond fel ffrind, hen ffrind, hen edmygwr cynnes ... Meddwl rown i y gallai fod yn rhwyddach i chi ... Chi'n gwybod ... Mr Llwyd bach, does neb yn licio cael y sac.'

'Neb?'

'Mae rhai lleoedd yn llai rhyddfrydig na'i gilydd. Tipyn yn henffasiwn yw hi ffordd hyn. Ta beth, mae damweiniau'n digwydd, rych chi wedi bod yn anlwcus, dyna i gyd, un peth ar ôl y llall. Mae hi fel petai amgylchiadau'n manteisio ar wendid. Chi'n gwybod.'

Nis gwyddai Len. Ni châi fawr o hwyl ar gofio'r gweddill chwaith. Paldaruai'r gŵr truenus yn ei flaen. Nid oedd Len yn sicr sut yr oedd ei hun wedi ymateb, ai cytuno â rhai sentimentau ynteu anghytuno. Ymlusgodd i'r gwely o'r ffordd i chwilio am y wal.

Roedd balchder y cawcian yn ei ganghennau'n sych fel brain. Gwyddai y ddi'r gymdogaeth oll i gredu'r celwyddau hyn. Chwerddid dan y byrddau. Buasai busneswyr beunosol y Talbot yn brodio'r baldordd. Hyn, a dim arall, a ganfyddai pawb.

Dyfeisid jôcs gormodieithol gan wragedd yn Swyddfa'r Post i geisio'i ddelweddu ef. Er mai chwedlau oedd y rhain, ni allai ef wadu nad oedd dim oll yn ei gymeriad a haeddai barch. Yr oedd yn llwyr deilwng o faw, wrth reswm, pe na bai ond oherwydd ei fod ambell waith yn fflamio y tu mewn i'w amddiffyn ei hun. Math o frolio yw pob amddiffyniad.

Ond cysgodd ef yno mor felodramatig â chwymp dail hydref.

## 15

Wedi codi mewn dwys weddi fore trannoeth, tua hanner awr wedi saith, dyma newydd arall. Am rai munudau, ysgydwyd ef, anghofiodd yn gyfan gwbl am yr holl helynt hon. Ffoniwyd ato gan un o'i gynulleidfa i'w hysbysu fod Helen Eston wedi cael damwain. Dallwyd ei hymennydd ... Damwain! Helen! Ei tharo hi gan gar liw'r tywyllwch yn y lôn gul rhwng pentref Llanbiblig a fferm Pant-y-bugail y noson cynt. Helen! Yn fwriadol, medden nhw. Rhuthrwyd â hi i Ysbyty Cyffredinol Caerafon, mewn coma.

'Rhwng Llanbiblig a ...?'

Pant-y-bugail!

Coma!

Hi? Oedd hi wedi bod i fyny yno wedi'r cyfan tybed? Yr ocwlt. Helen! Dyma faes o ddiddordeb amlwg iddi. Ond cam-drin plant! Mater hollol wahanol oedd hynna.

Beth bynnag, pryder am ei chyflwr a lanwai fryd Len. Taflu'r ffôn i'w nyth. Rhedeg o'r tŷ, gyrru draw ar ei union i Gaerafon. Dros y mynydd carlamai'r tai i gwrdd ag ef. Helen! Camu i'r ward ati, brysio at ei gwâl, ei chael. Yno heb yr un stŵr hysbys o'i deutu y gorweddai hi, yn llonydd fel gwely. Roedd yn fechan, yn wal o welw, ac yn hollol anymwybodol. Roedd cysyniad yr haul yn ei gwallt ysgafn ar y gobennydd. Roedd pinc a rhoslas a gwyngalch yn casglu o gylch ei phen disymud fel petalau chwyth ar waelod coeden. Mor denau oedd hi yno ymhlith y petalau hyn. Melynfrown oedd ei chroen am y breichiau tenau, ychydig yn grych. Ymddangosai ymylon ei breichiau ychydig allan o'r blancedi, yn anfwriadus, fel ceinciau di-risgl di-ddail a fuasai mewn tân rywle rywbyrd ... ar ryw noson ddierth a thywyll efallai. Fel hunllef. Chwythasai'r fflamau drwy'i brigau a'u

gadael yn noeth ac yn ologedig am awr wedi awr, a lledgodai'r ceinciau gweddill hyn yn awr allan i'r awyr yn amddifad, codent yn fwganus fel golygfa-wedi-brwydr rhwng cyrff. Golygfa oedd honno heb fod neb yn rhodianna oddi amgylch yno ond y gwastadedd ei hun yn wag anaele, heblaw am y tipyn stympiau coed digrif hyn ac awyrgylch o lwydni dibwrpas ...

'Helen.' Nid atebodd. 'Helen.' Cododd tosturi ynddo fel ton o'i gylla i'w lwnc. 'Fi sy 'ma. Ffrind Wili. Fi, Len. Ffrind.'

Siglai Len ei ben mewn trueni mud. Llithrai'i galon allan ati yn y fan yna. Ac eto, yr un pryd, yn gymysg â'r pryder hwn mynnai'i euogrwydd, y bygythiad oedd o du'r gyfraith ac o du'r gymdeithas a'r pwysau emosiynol a'r ofn, yr holl annibendod a oedd yn smalio bod yn fywyd iddo ar y pryd, mynnai'r cwbl sathru yn awr ar draws ei deimladau o dosturi at Helen.

'Helen, Helen, wyt ti'n cofio'r tân yn Awstralia?' Mynnai'i bryderon hunan-ganolog ymyrryd â phob cydymdeimlo. Rywfodd methai ef â thosturio ati'n unplyg fel y dylai. Mynnai'i hunanoldeb hurt ei hun ei sarnu i gyd. Ymgywilyddiai o'r herwydd.

'Helen fach.' Oedd hi wedi bod yn ponsio hefo'r ocwlt ym Mhant-y-bugail wedi'r cwbl? 'Helen, wyt ti'n gallu 'nghlywed i?'

Doedd y meddygon ddim yn tybied iddi gael llawer o niwed. Ni allent ddeall pam roedd hi mewn coma o hyd. Lluchiasid hi allan o'i chadair a thrwy'r clawdd. Ar ryw olwg buasai'r gadair yn beth amddiffynfa iddi. Taro'i phen wnaeth hi, mae'n rhaid. Ond yn ôl y cleisiau, allai hi ddim bod yn ddifrifol iawn.

'Helen, ateba 'mechan i. Helen! Dere'n ôl aton ni.'

Roedd ei chleisiau gweladwy mor arwynebol. Yn ôl gyrrwr celwyddog y car, roedd e'n cripiant yn eithafol o araf. Roedd ei oleuadau'n ddigon o rybudd. Ond dod yn ei ôl o bicnic gyda ffrindiau roedd ef o'r tu ôl i Bant-y-bugail, ac ni sylwai ar fanion.

A oedd ef wedi bod yn yfed?

Dim ateb. 'A'r tân?'

'Helen! Helen, dihuna, wyt ti'n cofio'r llyn?'

Arhosai Len a siarad, holi a stilio, ond yn dawel. Heb ddim ymateb. Doedd dim pwynt aros.

Ar gychwyn yn ei ôl yr eildro yr oedd Len Llwyd i'r ysbyty i ymweld â Helen pan ddychwelodd y ditectifs. Dod i'w restio y tro hwn yr oeddent. Roeddent eisoes wedi restio Jo a Jean Lovell, Marged Evans, a Shimyn ac Eiddwen ap Williams O.B.E. (hynny yw,

roedd ganddi hawl i fynd i mewn i'r Falklands am ddim). Y dyrfa wedi'i thro'i'n unigolion. Cyhuddid hwy bob un o amryfal droseddau, megis cam-drin plant, tarfu ar yr heddwch, ac anwedduster cyhoeddus. Yr oedd yr heddlu am eu cynnull oll yng Nghaerafon ynghyd â'r plantos o dystion nas enwid, i holi eu perfeddion mewn ystafelloedd gwahân cyfagos.

Hyn oedd yr hanes yn drwch drwy'r pentref pan gyrhaeddodd Maxine hithau yn ei hôl o Gaer-wynt, neu o Gaer-Wynt-Efallai. Roedd y wlad yn syfrdan. Cafodd Len ei ryddhau dros dro yn ôl i libart ei Fans.

Eto, roedd yna un llanc a fuasai'n bresennol yn y dawnsio yno ar y mynydd na ddaeth i'r golwg hyd yn awr. Gallai hwnnw fod wedi datguddio'n ddiymdroi na fuasai Len i fyny yno o gwbl. Eithr pallodd. Bu'n llwfr. Bu'n ddialgar. Gwyddai fod y diniwed yn cael ei gyhuddo. A gadawai ef hwnnw yn ei bydew. Nid estynnai'r un bys. Yr oedd arno ofn am ei groen ei hun, efallai ofn beth a allai ddigwydd, ofn dychmygion di-ddal y plant. Alwyn Brown oedd y tyst llai na theilwng hwnnw. Nid pwdu a wnaethai oherwydd y rhagfarn hurt amhosibl yn erbyn chwarae ar y Sul yn unig, nid o fileindra dial yn syml; ond yn awr oherwydd bod cachgieidd-dra amrwd yn gafaelyd ynddo. Fesul tamaid, wrth iddo deimlo gloes tuag at Len, dechreuai'i ragfarnau besgi. Collai'i falais bob amhurdeb. Roedd ei euogrwydd ei hun yn yr helbul hwn yn ei wyrdroi'n chwithig.

'Allwn-i ddim credu 'nghlustiau,' meddai Maxine wedi'i chynhyrfu. Roedd rhyw dant wedi torri y tu mewn iddi. 'Rhai bach.'

Safai hi o flaen Len yn awr, yn syfrdan. 'Maxine.'

'Ond sut gallech chi?'

Crynodd ef yn ddisymwth wrth ei geiriau. 'Fi!'

'Ond plant!' ebychai hi.

'Dych chi, Maxine, o bawb, byth yn credu am foment ...'

'Eich bod yn euog? Mae 'na ormod o ddamweiniau wedi bod. Mae un yn naturiol — ond pla! On'd yw euogrwydd yn gasgliad naturiol? Mae pawb oll, mae'r heddlu'n dweud eich bod yn euog. Mae'n drwch drwy'r pentre. Ac on'd yw hi'n ffitio?'

Edrychai ef arni fel pe bai'n syllu i lawr siafft pwll glo, i lawr yn ddiderfyn: allai hyn ddim bod yn wir: Maxine yn ei amau.

'Len Llwyd. 'Y nghariad ofer i,' meddai hi wedi'i drysu.

Dyma'r siom isaf iddo ef. Megis iddi hi. Bu hi ers tro, chwarae teg iddi, yn ceisio defnyddio'i dychymyg i'w esgusodi. Roedd hi wedi ei hen dwyllo'i hun mai diniwed oedd



ef mewn cyfeiriadau eraill, blêr efallai ond diniwed, dro ar ôl tro. Yna, ... yn awr, ... y tro syrffedus hwn roedd y bwlch hwn yn y gwrthglawdd yn eithafol o oreglur. Rhuthrai'r dyfroedd nwydus a'r dyfodol neidiol i mewn yn ddirugaredd. Dryllid tyrau'i breuddwydion glân. Syrthiai colofnau fan yma a minaredau fan draw. Âi ei siom yn galed. Roedd ei gobeithion oll yn deilchion dan y llif, a'r llif wedi ffurfio llyn dros ei hadeiladau mirain i gyd. Roedd hi'n feddal galed. 'Rhai mân.' Cymru!

'Ond Maxine.'

Doedd hi ddim yn ei nabod. 'Peidiwch â'm hondio i fan hyn.'

'Ond Maxine, merch annwyl i.'

'On'd yw hi'n ffitio?'

'Ffitio!'

'Dwi mor enbyd o siomedig.'

'Ond Maxine.'

'Dim un *ond*, ddwedais i. Dim *ac nac os* ...'

'Does bosib.'

'Wedi taenu brad ... plant.'

'Byth Maxine.'

'Y mradychu i. Bradychu plant. A bradychu'r ffydd. Rown i wedi meddwl y gorau amdanoch chi. Rown i wedi bwrw 'ngolwg heibio i bob gwiriondeb o'r blaen. Rown i wedi maddau.'

'Maddau!'

'Own: wedi cyflawni'r gamp Gristnogol afrwydd honno. Own. Pam lai? Wedi maddau, wrth gwrs 'mod i wedi maddau. Oes rhywbeth o'i le ar hynny? Rown i wedi'i anwybyddu a cheisio'i anghofio. Cyfrif mai ffolineb hurt ar y pryd oedd yr hen beth 'na o'r blaen. Ond Len, hyn! Hyn! ...' O'r diwedd, cynhesai hi at blaid y gelyn. 'Machgen annwyl i. Plant!' Roedd ei chrediniaeth ynddo wedi'i hollti hyd y gwraidd o'r diwedd. 'Plant!' Roedd hi eisoes wedi'i adael ef.

'Dych chi byth yn coelio'r cyhuddiad hwn?'

'Pam dod i'ch duryn yn y cafn hwnnw o hyd? Beth sy'n bod arnoch chi ddyn? Beth yw'r gwendid melltgedig 'ma? Dwedwch y gwir am dro, bob tro! Y gwir, dyna dwi'i eisiau. Gweinidog! Gyda phlant! Mae'r peth yn rhemp.'

'Does bosib ar ôl yr ymddiried fu rhyngon ni'n dau ...'

‘Dyna dw innau’n ddweud. Hyn nawr!’

‘Dych chi byth yn credu’r twyll yna?’

‘Allwn i byth eto ymddiried ynoch chi.’

‘Ond Maxine, ni, dau, un, yn ffrindiau yn yr Arglwydd.’

‘Byth! Allwn i byth edrych i’ch llygaid heb weld hyn.’

‘Pam ’y nghyfaill i?’

‘Bob tro y bydda-i’n eich gweld chi, mi fydda-i’n dychmygu hyn ... Plant! ... Bydda-i’n eich dychmygu chi’n ymdrybaeddu mewn budreddi. Meddylwch. A’r heddlu! Eto!’

‘Dych chi’n gwybod sut mae’r heddlu.’

‘Alla-i byth feddwl amdanoch chi nawr ar wahân i hyn. Plant! Dyna’r diwedd.’ Enciliai hi ychydig megis rhag sawr sur. ‘Alla-i ddim o’ch gweld chi.’

Ni chofiai Len pryd y teimlasai’r fath ddolur agored o’r blaen. Roedd-hi wedi’i glwyfo i’r byw coch. Roedd hyn yn waeth iddo na chyhuddiad yr heddlu ei hun, yn waeth na’r Wasg, yn waeth na’i gymdogion. Roedd hyn yn fwy dolurus ysigol na’i drosedd dybiedig yn y toiled gynt, yn waeth na’r HIV gadarnhaol, yn waeth na’r amheuon ynghylch ei berthynas ef a Wili, yn waeth o lawer wrth gwrs na Bessie Williams druan. Diffyg ymddiriedaeth noeth a dicter sydyn a chywilyddus ... a Maxine.

Yna, dychwelodd hi am bedair munud eto. ‘Dych chi’n gwybod beth mae hyn yn ei olygu i’n perthynas ni’n dau?’ murmurai hi. Roedd hynny iddo ef bellach yn dyngedfennol.

Pam yr oedd hyn yn digwydd iddo ef? ‘Does gynnon ni ddim perthynas, Maxine. Ond fues i ddim,’ murmurai ef yn brotestiol naïf, ‘ar gyfyl y lle.’

‘Peidiwch â siarad â fi mwy,’ meddai Maxine yn ofalus.

‘Ond ...’

‘Dwi ddim yn gysurus yn eich cwmni,’ meddai hi, a’r gofalon yn dwysáu. ‘Dim sill. Does dim byd rhyngon-ni mwyach. Fu dim rhyngon-ni erioed. All dim byd fod rhyngon-ni byth. Bydd rhaid imi gyrchu’n ôl i Awstralia, yn ddiymdroi... A chithau’n meiddio gresynu wrth lanc yn chwarae ar y Sul.’

‘Dyma’r diwedd felly. Digon teg...’

‘Gadael Cymru o’r newydd. A diolch i’r drefn am hynny.’ Roedd hi’n synnwyr cyffredin hyd ei fÿl.

‘Maxine!’

‘A mynd allan i Dde Cymru Newydd gall a hen, yn ôl, lle mae’r awyr yn hen agored o

leia. I'r fan lle y mae'r cyrff yn hoffus.'

'A gadael pawb a phopeth.'

'Dwi wedi cael digon. Does dim byd i fi fan hyn mwyach.' Ymbwyllodd hi ychydig. Ond roedd ei llygaid wedi caledu. Roedd Cymru'n hunllef newydd iddi.

Pa mor fuan y gallai hi hedfan oddi yma?

Ar un adeg, ie hyd yn oed yn ddiweddar, bu ef yn treiglo fel tynged drwy'i gwythiennau hi. Ond ceulodd ef yn galed ar wahân bellach. Cronnai'n dew ac ymdrwchuso ac ymdroi ac aros. A bellach roedd llwnc cul y wythïen a arweiniai i mewn iddi yn tagu'n sych. Gwaedda'r wythïen honno'n groch, ond ni allai redeg drwyddi mwy.

'Mae arna-i ofn,' meddai hi, 'fod yna hen gamddeall.' Roedd hi fel pe bai hi am derfynu popeth ynddi'i hun yn ogystal ag ynddo ef.

'Oes,' meddai yntau â phendantrwydd tawel. Trawodd y gair olaf ef fel cledr llaw ar draws ei rudd. 'Alla-i byth ond dymuno Duw'n rhwydd ichi, Maxine.'

Cymerodd hi anadl hir. 'Bues i'n hygoelus iawn. Rown i'n rhy barod i lyncu popeth. Dych chi'n deall yn sefyllfa i. Hyd yn oed cyn imi ddod i Gymru, dyna'r helbul ynghylch deisyf ac arddangos mewn toiled. Wel, dyna hi, fechgyn, rown i'n gallu coelio mai celwydd oedd hynny. Neu ddigwyddiad disylwedd. Ond roedd rhyw sawr yn gordoi'r cyfan. Wedyn, y drafferth gyda Bessie Jennings. A'i chyhuddiadau lliwgar hi. Mi wn i am hen ferched. O'r gorau. Ond Wili wedyn, a'r holl donnau aflan o ddrwgdybiaeth a oedd yn hongian o gwmpas corun y crwt truenus hwnnw. Yna'r berthynas ryfedd rhyngoch chi a Helen Eston. Fe fues i'n amyneddgar dros ben gyda hynny, yn fwy nag amyneddgar. Ond, welwch chi Len, y mae'r crochan yn codi nes goferu un tro yn ormod. A dyna sy wedi digwydd y tro hwn. Plant mân! Dyna ddigon byth i rywun fel fi. Yr Arswyd, Len Llwyd. Pidoffilia! Digon yw llond bol.'

Roedd hi wedi'i amau rywfaint drwy gydol yr amser, efallai, meddai hi. Mwg a tân, medden nhw, tân a mwg. Ac roedden nhw yn llygad eu lle y tro hwn o leiaf. Allai hi ddim ymddiried mwyach. Erbyn y dyddiau goleuedig hyn, meddyliai, onid oedd gweinidogion yn *rhy* enwog am eu gwyradau rhywiol? Fe âi'r duedd gyda'r iwniform rywsut. Yr oedd yn tarddu o'u rhwystredigaeth a'u hawydd esoterig i gerdded ar ddibyn amharchusrwydd. Ac roedd hyn oll yn rhan bellach o'i hamheuron ysigol hi ei hun.

Byddai hi'n falch i droi'i chefn arno am byth, byddai. Fe a'i holl broblemau. Golchi'i dwylo bellach. Gwnaethai gamgymeriad wrth ddod yma, a gwelai hynny yn awr. Roedd yn

bryd iddi ffoi.

Câi Len yntau'i ddadrithiad. Ac o glywed ei geiriau yn awr, chwalwyd llawer o'r ychydig ymddiriedaeth mewn pobl a oedd ar ôl ganddo. Sylweddolai Len fod y wraig hon a oedd mor anghyfrifol ei dychmygion yn amau'r ffansiön gwaethaf ... Ond cynrychiolai hi'r un pryd yr harddwch a allasai fod wedi egino yn ei galon.

'Mae'n wir ddrwg 'da fi,' meddai ef fel glaswelltyn sathredig.

'Ac mae'n enbyd o ddrwg gen innau.' Roedd hi'n ymddiheuro o hyd; ac eto, doedd hi ddim. Roedd hi wedi gorffen. 'Mae'n wir ddrwg gen i,' ychwanegai hi.

Sylweddolai Len yn awr yn ddisymwth nad oedd erioed wedi'i charu hyd y gwaelod. Allasai fe byth. Doedd e ddim yn ei nabad. Na hithau'n ei nabad e. Gwag fu'r cwbl. Wedi'r cwbl, efallai, oni bai mai chwarae oedd ystyr y cwbl a ddigwyddasai gyda hon, ni allasai'i ffansiön ef yn Awstralia fod wedi gogwyddo'n ysgafn, fel y lled gredai ef y gallasai bron â'i wneud, i gyfeiriad Helen. Doedd dim sylfaen i'r un berthynas byth â neb.

Caeodd hi'r drws yn ei meddwl yn glep.

Tybed a oedd ef wedi'i dynghedu i fod yn arwynebol fewnblyg bob amser gyda phawb? Tybed ai unigrwydd oedd ei ran? Methiant oedd ef fel person. Bellach, syllai ef i mewn iddo'i hun, ac nid oedd yn gweld yno ddim a hoffai.

Ac felly hithau. Ymddatodai'r rhithiau i gyd yn ei golwg hi mwyach. Nid oedd ei gariad ef wedi bodoli iddi o ddifri erioed ond mewn breuddwyd. Rhaid oedd iddi hi ddechrau o'r newydd. Symud ymlaen fysai orau. Symud yn ôl. Symud mewn cylch fyddai hobi bywyd.

Edrychai Len yn syn arni. Eto, doedd ef ddim yn syn ychwaith. Roedd ei wyneb ei hun am foment wedi colli pob arlliw o fyw, y llygaid llonydd, y gruddiau lluniaidd wedi suddo, a'i ên yn llac reit, fel pyped yn bentwr llipa o groen a breichiau a phen diymadferth ar glawr bocs.

Ymlusgai hi'n ôl i'w gwesty yn ei chyflwr dadrithiedig. Eisteddai hi yno wedi ymlâdd mewn cadair freichiau. Ni allai wneud dim oll ond syllu'n bwl o'i blaen. Roedd y bywyd y breuddwydiasai amdano ynghynt yn cael ei roi yn ôl yn y cwpwrdd.

Craffai yno ar y darlun ar y wal gyferbyn. Yr oedd hwnnw yn un o'r lluniau bwganaidd hynny lle y bydd yr artist wedi newid ei feddwl, ac wedi ailbaentio dros y paentio cyntaf. Drwy'r paent o hyd yno gellid canfod awgrymiadau o'r edifarhau ar ganol y cynfas; neu ynteu yr oedd yr artist ar y pryd yn dlawd ac yn brin o gynfasau, ac wedi aildefnyddio hwn o'r newydd ar gyfer delwedd arall. Y tu ôl i wisg lachar goch y ferch ifanc yr oedd yna afon

lwydlas a physgod yn pigo drwy'r wyneb. Y tu ôl i'r goeden yr oedd yna ŵr ifanc tal fel pe bai'n ymguddio yn y canghennau. A dacw ar y chwith hen wreigen dawdd y tu ôl i'r babell honno yr oedd y ferch gochwisg eisoes wedi dod allan ohoni.

Felly y ceir cysgodion y tu ôl i olwg y bobl oll yr ŷm yn eu nabod. Ac felly hefyd siomedigaeth.

Gwledydd o fath oedd y naill a'r llall o'r lluniau cydgyffyrddol hyn nad oeddent erioed wedi llwyddo i ddod o hyd i'w lleisiau'u hunain yn derfynol. Ond roedd yr artist hwn rywfodd wedyn wedi cael ei ail gyfle. Doedd e ddim wedi bodloni ar fethiant. Defnyddiasai'r un cynfas o'r newydd yn fuddugoliaethus amwys. Ac ailweithiodd ddarlun llawn ac aeddfed a ffres dros yr un cyntaf.

Eto, maes y gad rywbyrd fysai cynfas o'r fath, mae'n rhaid; a dwy genhedlaeth, dau fywyd yn brwydro â'i gilydd arno, darlun yn ymladd â gwrthddarlun, crefydd â chrefydd. Ond yr oedd yna hen ochneidiau sibrydus, a gellid eu clywed, o bell, eithr yn gynnes hefyd; yn fethiannus, ac eto yn bodoli mewn haenau. Yna, cododd ei ben: rhodiodd mwynder Maxinaidd yn ddi-ail tuag ato. Arhosodd ef o'i blaen hi. Roedd ei thraed yn chwil. Estynnodd hi'n sydyn glatsien ysgafn ond penderfynol ar ei foch... fel rheg, fel cusan. Ni symudodd ef. Clatsien debyg i'r un a roesai hi gynt i Menna, un fwynaidd wyllt.

Gwgodd hi arno yng nghanrifoedd ei siom.

Ymysgydwodd hi allan yn siarp. Bywyd wedi'i dagu gan fywyd oedd yma. Diwedd swta ar ei breuddwyd am Len. Diwedd ar Gymru. Diwedd ar yr hyn 'fu hi.

Dyma glep, felly, a gwg, ac anneall. Heb oedi. Mynnai ymwadu â'r hunan dwyll. Rhaid oedd alltudio pob afrealedd ar frys. Trodd heb air.

Cymerodd hi'r ehediad nesaf i Awstralia, gan ymrwymo i ddechrau'i darlun newydd yno ar gyfnas newydd sbon danlli grai ar unwaith fan yna, am byth, ymhell.

Ychydig o ddyddiau wedyn, daethpwyd â phawb oll o'r cyhuddedigion o flaen llys yr ynadon. Dadlennwyd fod y dystiolaeth ffrensig yn dangos yn ddiamheuol fod yna laid o Bant-y-bugail ar sgidiau ac ar waelod trowsus Len Llwyd. Dim dwywaith. Llaid yw llaid. Roedd hyn o leiaf yn torri'i alibi nad oedd ef wedi bod ar gyfyl y lle, er bod pawb arall o'r cwmni yn gwadu'n unfryd na fu ef yno, ac ambell un yn meiddio awgrymu y gallasai'r heddlu fod wedi ymyrryd â'r dillad cyn iddynt fynd i'r archwiliad ffrensig. Ond pan oedd

yr heddlu yn sicr o'u dyn, ni chaent anhawster i ddod o hyd i brawf. Sicrhawyd felly fod yna ddigon o dystiolaeth i ddwyn achos maes o law yn Llys y Goron yn ei erbyn. Cafwyd meichiau drosto gan yr Esgob, ar yr amod nad âi i gwmni pobl ifainc. Gollyngwyd ef. A chafodd fynd i'w wâl gartref wedyn.

Ond hun ni ddôi i'w amrant heno ... am hydoedd.

Huno a wnaeth er hynny ymhen tipyn. Wedi cydio mewn edefyn o gwsg, gwnaeth ŵyl ohono. Cysgu a breuddwydio. Breuddwydio a drysu am oriau ac oriau. Drysu a throsi ynghylch y gormodedd o fywyd a ddaethai ar ei warthaf eisoes. Roedd cysur wedi ymadael. Roedd Maxine wedi ymadael, er iddi adael rhai o'i breuddwydion, a'r bennod honno yn ei fywyd wedi cau'n glep; ond nid heb adael hefyd ofynnod go greulon fel cliw mewn trosedd yno ar ei hôl.

Nid *forte* Len oedd breuddwydio. Ac wedi diuno a chofio ychydig o'r delweddau, roedd anghyefindra'r dreftadaeth honno yn ei anesmwytho. Atgofion ymlynol oedd breuddwydion. Fel yr arwyddion tywydd cefn gwlad ym myd natur, olion oeddent o'r tywydd a oedd eisoes wedi digwydd, yn esgus mai argoelion am y dyfodol oeddent. Felly i ni i gyd. Chwaraeent yn gysgodol o'n blaen fel camra fideo'r teimpladau a gawsem ac a rithiasem ynghynt rywbyrd; bob amser gan ymaflyd yn y gorffennol cyndyn, a thynnu'r meddyliau hynny, y carai ymadael â hwy, rhag ymadael wedyn.

Heno, yno, roedd ei freuddwyd rywfodd yn rhy ragweladwy. Diddychymyg oedd, hyd yn oed yn ei gwsg.

Gwelai Len yno ymerodres fawreddog yn debyg i Maxine mewn llong gynt, a byddin lon o'i gwŷr gyda hi, a Chynan ac Adeon; eithr oherwydd y nifer o filwyr, yr oedd y llong od hon a berthynai i'r oesoedd gynt yn suddo ar ei ffordd i Awstralia; yn ddiamheuaeth, graddol ddiplannai dan y tonnau; a doedd dim yn tycio. Doedd yna ddim cylchoedd achub yn y môr o'u cwmpas. Doedd dim llong ddieithr ar bwys. Dim styllen nawf. Suddo a wnâi'r llong oll a'r criw oll mewn cefnfor coch a maith a phenderfynol. Heb neb yn cyrraedd y cyfandir arall.

Pam yr ŷm ni'n teithio? Onid i ddod o hyd i'r un sydd y tu ôl i'r llawer, yr anwel y tu ôl i'r gweledig, y rheol y tu ôl i ryddid, a'r presennol y tu ôl i'r gorffennol?

Dihuno a wnâi Len o'r diwedd. Nid oedd yn eithriadol o falch i ddihuno y tro hwn, gan ei fod bellach yn gorfod wynebu realiti tywydd go iawn. Dihunai felly i felan. Roedd nudden chwyslyd dew o'i amgylch yn yr ystafell, ac roedd rhyw deimlad o fethu-â-dianc ac o

gyndynrwydd plwm yn ei lethu. Tyrrai'r waliau a'r dodrefn oll fel ynadon am ei ben.

Ble yr âi ef mwyach?

Pwy byth a dorrai air ag ef o hyn ymlaen?

Ryw hanner canllath o'r Mans, mewn cysgod cileisteddai trempyn yn y clawdd. Buwyd bron â chyflymu cerddediad wrth fynd heibio iddo. Sylwai Len ei fod yn canu megis dan ei anadl. Canai hen gân ysmala a fu'n bur boblogaidd ar un adeg ar y ffin rhwng y ddwy sir:

Mae gennyf iâr a chlamp o geiliog,

Hefyd gywen felen gopog.

Rwyf mewn ffansi mawr i'th garu,

Pe cawn lonydd gan besychu.

*Ffal-di-ral-ffal-di-ridl-ral.*

Llais gwichlyd, cras oedd ganddo. Ond ni chodai ei ben byth. Pesychai beth; ac i Len, yr oedd yn debyg i grwth allan-o-diwn yn cael ei chwarae'n gynnil mewn atig llychlyd gan feudwy unig:

Mae gennyf stwc, mae gennyf hidlydd,

Mae gennyf fuddai fechan newydd.

Cardotyn oedd ef yn sicr wedi crwydro dros y bont, pont Mair a oedd yn ffin rhwng y siroedd, ac yn canu'n ôl yn awr i gyfeiriad yr afon, a honno'n canu'n ôl ato ef ei thonnau mawnoglyd:

Mae gennyf ffansi fawr i'th garu,

Pe cawn lonydd gan y diogi.

*Ffal-di-ral-ffal-di-ridl-ral.*

Estynnai ef law yn ddioglyd tuag at Len wrth iddo basio, heb godi'i ben o hyd, a gollyngai Len heb ostwng ei ben, ychydig o ddarnau pres yn nwrn syn y truan.

'Bendith Duw a Mair arnoch, syr,' meddai'r trempyn mewn acen Wyddelig.

Âi meddwl Len yn ôl at Fair. Ati hi o bawb. At ei gwrthodiad tawel cynnar ond penderfynol hi ohono.

Mor wahanol i Maxine oedd Mair, ac eto roedd y ddwy wedi dod i'r un casgliad seithug. Roedd ef wedi gwylid Mair yn ddicra ddigon yn Awstralia. Daliai'n hawddgar odiaeth o hyd. Gwylaidd oedd ei golwg. Ond Mair newydd oedd yno; amhersonol a braidd yn bell. Y munudau hyn, tueddai ef mwyach i'w chymysgu â Maxine. Y ffŵl! 'Dwi ddim eisiau gwneud dim mwy â chi, Len Llwyd.' Ai Mair ynteu Maxine a ynganai hynny? Nid arhosai

bellach ddigon o egni serchiadol ym Mair i ailennyn hoffter penodol. Eto, ar ryw olwg, Mair, y Fair bell honno yno, honno yr oedd yn ei charu o hyd efallai, neu ddarnau o Fair, cyfnodau o Fair, ond gyda chariad dibenderfyniad ac ofer, gyda chariad na ddôl byth i fwcwl. Drosodd i gyd. Mair gyda'i hamharodrwydd i freuddwydio'n afrealidd oedd yna, a heb ddim o ramantiaeth anghyfrifol Maxine. Mair a'i sefydlogrwydd negyddol araul clasurol, wedi aros yn Awstralia. Hi oedd yn iawn. Aros 'ddylem ni i gyd.

Defnyddio atgofion am Fair yr oedd i wrthweithio'r hiraeth am Maxine.

Bellach roedd ei obaith ym Maxine wedi ymadael rywsut rywfaint gyda hi, a hithau ar ei ffordd yn ei hôl i Awstralia, yn siomedig ac yn benisel. Fe'i tynghedwyd ef i greu delwedd o seithugrwydd Maxine.

Roedd hi wedi'i dadrithio. Nid am y tro cyntaf. Ymadawodd Maxine, heb ymweld drachefn i ffarwelio â Len. Ymadawodd yn fonheddig ac yn hyderus ac yn fwyn, ond â'i chefn yn galed tuag at Gymru.

Y fath gefn! Maxine, wedi'r cwbl, oedd yr un a ddaethai yma, nid Mair; a daethai yma i feddiannu'r gwirionedd. Heb ei gael ef fel yr erfyniai, aeth hi'n ei hôl druan yn gefnsyth waglaw. Roedd hi wedi'i chwerwi gan siom. Dyna holl drwch ei chariad.

Profai ymadawiad Maxine heddiw yn brofedigaeth lem i Len. Y Faxine unigryw. Buasai hi rywfodd am gyfnod yn fath o fam iddo yn ogystal ag yn wraig, yn ferch yn ogystal ag yn gyfeilles. Ac roedd ef wedi'i llofruddio hi'n seicolegol. Arhosai hi yn lwmpyn caled gwaedlyd yn awr o'i fewn o hyd.

Wrth iddi ymadael yn y trêen mewn unigedd tua'r maes awyr, yr oedd Maxine yn llond ei chroen o ddadrithiad Cymreig. Nwydd cyffredin. Trist yw trêen, yn enwedig ynghefn gwlad Cymru.

Meddyliai-hi am ei mis mêl gynt gyda Thomas pryd nad oedd dim daionus yn amhosibl. Meddyliai sut yr aent ill dau gynt gyda'i gilydd, ar gefn ceffylau gydag un ceffyl pwn drwy'r Prysge yn Awstralia, yr Awstralia ddiniwed honno am ddiwrnodau gwryfol bwygilydd heb ganfod neb. Dyna'r lle y marchogent ddydd ar ôl dydd heb yr un dyn yn llychwino pridd eu daear. Roedd popeth yn hudo. Roedd hyn ymhell cyn gwybod bod Len ar gael. A'r machludoedd Awstralaidd peniwaered yn chwythu o'r sêr dros eu pabell, a'r sêr ambell hwyrnos yn pyncio'n ddigymell bennill prudd a fu'n bur boblogaidd gartref ar un adeg ar y ffin rhwng y ddwy sir yn ôl yng Nghymru:

O f'anwylyd, cyfod frwynen,



Ac ymafael yn ei deupen;  
Yn ei hanner tor hi'n union  
Fel y torraist ti fy nghalon.

Er ei bod yn gwybod fod y peth yn gyfan gwbl amhosibl roeddent fel pe baent y funud hurt honno mewn gwlad lle na fuasai neb wedi bod erioed o'r blaen. Felly y bu ei mis mêl hithau gynt, yn hurt ac yn wryfol ac yn unig.

A dyma'r lle roedd Maxine heddiw yn yr awyren ar ei ffordd adref o Gymru i'r Awstralia honno, o Gymru ddadrithiol gwyliau'i hieuenctid. Roedd popeth yn drefnedig. Dim herwgipwyr, ysywaeth, tebyg i'r rhai a ddychmygasai ynghynt. O Gymru'i breuddwydion, o Gymru'i gobeithion, o Gymru'i rhyddid a'i chyflawniad, yn toddi tuag at gyrff Awstralia sech, Awstralia gynhwynol ei henaint, mor ddiarffordd dawel. Ni chafwyd yr un ffrwydrad arall rhyngddi a Len cyn ymadael. Ni fu na thirlithrad na daeargryn. Prin y bu iddynt weld ei gilydd. Dim ond diflannu aflêr, heb ffarwelio'n daclus; roedd hi wedi syllu i mewn i ddyfnaf dibyn llygaid ei chariad a darganfod nad oedd dim yno. Ac nid ei theimladau a oedd wedi'u toddi yn y fan yna, yr oedd y bydysawd i gyd wedi soddi mewn gwagle, traed trwm, fel pe bai'n colli ar ei ymwybod yn llwyr o dan anesthetig diaroglau.

Dim ond gwarth.

Roedd hi'n chwerw. Iddi hi yr oedd Len am ysbaid wedi cynrychioli rhyw lendid solet a gofiai yn ei hieuenctid. Mae'n wir iddi gefnu ar hynny unwaith o'r blaen; ond cawsai ail gyfle. A'r tro hwn roedd hi wedi bod yn siŵr y gallai ddod o hyd i orffwysfa i'w chalon. Ond chwalwyd y cwbl.

Ac ar yr un diwrnod penodol hwn pryd yr ymadawodd Maxine, ond heb yn wybod iddi hi, wele Helen hithau yn dadebru yn ei hôl. Dod allan o'r coma megis o wy. Gwichian. Sylodd ei gwich o'i chwmpas yn chwilfrydig drwy'r plu. Buasai Len gyda hi ychydig cyn iddi ddadlewygu. Dychwelodd drachefn pan gafodd alwad i'w hysbysu drwy'r ffôn ei bod yn ymwybodol.

Paid â bod ar frys o fath yn y byd i siarad, Helen. Gorffwys sy'n bwysig, merch i. Does dim angen dweud na gwneud dim. Ymadfer.

Tipyn yn ddryslyd oedd ei meddwl. Niwlog oedd y cof. Oedd, roedd hi wedi bod ym Mhant-y-bugail. Gyda chamra fideo.

Pwy oedd yno? Gofynnai iddi'i hun.

Doedd hi ddim yn cofio.

Oeddwn i yno? Fi? ... Doedd dim angen iddi ddweud dim ... Bydd yn dawel nawr.

Doedd hi ddim yn cofio.

Beth oedden nhw'n wneud?

Doedd hi ddim yn cofio. Rhywbeth i'w wneud â'r ocwlt, mae'n siŵr. Dyna hi. Dyna pam roedd hi wedi ymuno â nhw. 'Dwi ddim yn cofio, dwi'n 'ddweud. Tipyn o hwyl, siŵr o fod.'

Oedd plant yno? Na, paid â bod ar frys i ateb.

Oedd.

Oedd *hi* wedi cymryd rhan?

Nac oedd, doedd bosib. Oedd. Na: doedd hi ddim yn cofio.

'Y fideo. Dyna hi!' ebychai. Roedd hi wedi bod yno i dynnu llun fideo o'r achlysur ... Paid â theimlo pwysau i siarad. Ond ble oedd y camra fideo yn awr? Rhaid ei fod dros y clawdd yn y lle y'i bwriwyd hi gan rym y ddamwain, on'd oedd?

Cyrchai Len ar unwaith. Pysurai i fyny ar hyd y lôn i Bant-y-bugail. Brysio dros y llidiart: ffwdan yno, ffwdan yn gymorth i beidio â meddwl yn orddwys ble'r oedd yn mynd. Ble'r oedd yn peidio â mynd? Chwilio ar hyd y clawdd. Dim. Chwilenna nerth ei ewinedd ar bwys crugyn o gerrig, tusw o frwyn yn yr union fan lle y bwriwyd Helen Eston. Dim. Chwilio ar hyd y ffordd y tu allan. Yna, yn ôl â'i wynt yn ei ddwrn i'r cae. Dim; wedyn, yno ar y llawr, yn wir! Yno er gwaethaf ymweliad yr heddlu! Yno er gwaethaf y tywydd! Nid mwy o ddim. Yno ynghanol ychydig o gyrs talgryf a bag plastig! Ie yno yn wir yn y diddim du cyfforddus yr oedd camra fideo Helen heb ddim niwed.

Helen!

Cipio'r camra hwnnw mewn dwylo crynedig. Ffrystio i lawr i orsaf yr heddlu yng Nghaerafon gyda'r dystiolaeth fuddugoliaethus. Rhoi'r fideo yn y peiriant. Gwylied gyda'i gilydd; dau dditectif du a gwyn gyda Len Llwyd; y delweddau panoramig a chlòs, y gwisgoedd, y ddawns, y plant, y cwbl, y prawf. Y prawf?

Trawsffurfiwyd y sefyllfa yn brawf. Wrth iddo edrych ar y fideo yn y fan yna, — ac oni bai fod yr oedolion trwsgl hyn ar y ffilm yn perfformio'u dawns amaturaid, ffug seremonïol ac eithafol o flêr er mwyn creu argraff hwyliog ar y plant, — gallasai wylo'n chwerw. 'Hm!' meddai un o'r ditectifs.

Gweddnewidiwyd ystyr. Hwyl hurt a sbort annaeorol oedd y prawf. Chwarddai ei galon yn galonnog. Doedd dim gwyrddodau. Roedd eu dillad gwyrddion, bugeiliol, ffug, yn hollol anghymen ac yn rhy lac nes eu bod bron yn syrthio wrth geisio osgoi'r cynffonnau.

Diniweidrwydd obsesiynol benbwygilydd. Pobl mewn oed yn chwarae bod yn blant. Plant yn chwarae bod yn blant. Ffug hefyd oedd y chwyrlio gan eu breichiau wrth iddynt ddowcio â'u pennau, topi, siglo'u morddwydydd, hyrddio'u hadenydd, nyddu'u hesgryn yn wallgof, — hei ho holi holi — a thrwy wydrau'u chwerthin gwyn chwifio'u gyddfau tua'r fam-ddaear. I lawr, i lawr. Dawns ffug. Tipyn o hwyl heulog. Am hurtrwydd! Ellyllon yn prancio fel fflamau. Dim byd rhywiol. Gwawdluniau o gythreuliaid cloff. Oes Newydd amaturaidd. Chwaraewyd fflangellu'r plant a oedd yn chwarae math o Fari Lwyd. Chwerthin. Hm! Dadrithiwyd pob amheuaeth ym meddwl yr heddlu. Hm! Doedden nhw ddim eisiau pwyso'n ormodol ar y prawf fforensig y tro hwn... Anghofiwn am y cwbl... bron... 'Hm!' canent yn gytgan anhapus gyda'i gilydd.

Pawb yn mynd adref.

Nid oewlt go iawn oedd hyn. Chwarae oedd hi. Chwarae naif fu'r cyfan. Roedd y cwbl mor enbydus o ddiniwed. Mae'n wir bod yna bedwar o blant yno. Mae'n wir bod yno'n bresennol bawb o'r oedolion a arestiwyd, ac eithrio Len Llwyd a gyrrwr y car a oedd wedi taro Helen, ynghyd â'i ddau gyfaill. Gwir fod un o'r dynion wedi tynnu'i grys. Alwyn. Roedd Alwyn Brown yno hefyd, ac nid arestiwyd mohono ef wedyn gan neb. Gwir fod yno dân, a dawnsio o gylch y tân, ac ysgwyd dwylo a thaflu dolïau i mewn i'r fflamau. Gwir fod pawb bron yn gwisgo dillad gwyrddion hirllaes. Gwir hefyd fod tipyn o wiriondeb a llawer iawn o rialtwch dwl. Roedd llond y lle o'r gwir. Ond doedd dim noethlymunder o fath yn y byd, dim anwedduster llancaidd, dim ymyrryd â'r plant. Bois bach! Mwynhau'r sbri anaeddfed a wnâi'r plantos. Dawnsio a chwerthin yn wyllt sbortlyd ddilyffethair a wnâi'r oedolion. Nid oewlt go iawn oedd hyn. Beth oedd yn bod ar bobl? Chwarae Oes Newydd henebol yr oedden nhw. Roedd Helen wedi mynd yno'n unswydd i wneud cofnod mewn llun digrif o'r cyfan, wedi tybied ar gam eu bod am ddathlu hen wylmabsant. O bosib y câi ambell rigwm traddodiadol. Canwyd peth o waith Elvis. Rhaid ei bod wedi dod oddi acw'n siomedig tost. Ond roedd ei ffilm yn ddi-hysbydd fanwl ac yn ysblennydd o awdurdodol i Len, ac yntau yn chwerthin i gyd. Pan welodd hi'r ffilm drosti'i hun ychydig yn ddiweddarach, daeth y cwbl yn ôl iddi. Cofiodd y cyfan gan bwyll, bob manylyn distadl gwyn. Wrth gwrs, nad oedd Len Llwyd ddim yno'n bresennol ar y pryd. Pe buasai Len yno, oni fyddai hi wedi dod yn ôl gydag ef yn y car, gan mai efô fyddai'r unig un ymhlith y cwmni y byddai'n ei nabod?

'Helen! Gem! Rych chi'n em!'

Iddi hi doedd bod yn em ddim yn bwysig; ond roedd bod yn ddefnyddiol yn gryn dipyn mwy o gaffaeliad.

‘Rych chi wedi’n rhyddhau i,’ meddai fe. Roedd hynny hefyd iddi yn fraw. ‘Wedi adfer yn enw da i, gymaint o garpiau ag oedd ar ôl,’ chwarddai. ‘Wedi ’ngosod i’n ôl yn y gymdeithas.’ Roedd hi wrth ei bodd.

‘Ddim yn ddrwg i fenyw ar ei chefn,’ atebai hi yn ei halias gemyddol newydd.

‘Na. Rych chi wedi bwrw amheuan hefyd ar yr holl gamgyhuddo yn ’y ngorffennol.’

‘Mae’r haul ar fryn heddiw te, yn swyddogol.’

‘Mae ’na belydryn eciwmenaid.’ Yr oedd ef yn gafael yn ei llaw. Disgynnai normalrwydd fel glaw rhyngddynt. Gallent siarad â’i gilydd fel bodau dynol. ‘Gyda llaw,’ holai ef, ‘oes ’na ragor o hanes John?’

‘Adre, am wn i. Aeth e adre’n ddisymwth ... fel y daeth. Wedais i wrtho ’mod i wedi datgelu’r sefyllfa i chi, a’ch bod am drafod y mater gydag e. Ofn pregeth oedd arno. Diflannodd fel mwg. Mae yna werth mewn pregeth o hyd...Ond beth am Faxine?’

A, ie, Maxine. Druan ohoni. Beth am ei hamheuan a’i diffyg ymddiriedaeth hi? Teimlai Len drosti dosturi. ‘Druan o Faxine.’

‘Ie, druan bach ohoni,’ meddai Helen.

Yn yr awyren glinigol wedi mynd yr oedd hi, wedi ymadael â’i giamocs ef, wedi cefnu ar Gymru a’i baw a’i bywyd. Roedd hi bellach yn adennill byd synhwyrol ar drywydd hemisffêr arall. Yn yr un awyren â John. John ofer ac anghall. A hwnnw yn ei bwd.

Gadawyd Len felly i siarad yno gyda Helen. I fod ac i gwmnïa gyda Helen. Ac wrth sylweddoli hynny’n awr, ac yntau rywfodd wedi’i achub ganddi, gwawriodd ar Len hefyd nid yn unig nad oedd yn ‘caru’ hon chwaith yn awr, ond nad oedd erioed wedi’i charu namyn fel ffrind ac na allai byth ei charu fel arall. Gwenai.

Dieithriaid oeddent i’w gilydd.

Gwenai Helen hithau yn dirion yn awr wrth syllu arno. Roedd hi o’r eiliad gyntaf y gwelodd hi ef erioed wedi synied amdano ei fod e’n dŵr eglwys heb glychau; potelaid o siampaen heb gorcyn yn sefyll ers mis rhwng pâr o sgidiau tennis chwaraewr â chryd cymalau arno; fel eirinen grychedig wedi cael ffliw ac wedi syrthio i lyn sychedig yn yr anialwch Awstralaidd.

Unig oedd Helen i fod. Ffrind unig. Unig oedd Len i fod. Breuddwyd unig. Byr ysgafn gystudd i bawb. Bu i’w drên araf o fywyd fel pe bai am foment aros gynt yn ei gorsaf hi.

Yng nghyffordd Maxine. Gorsaf fenywaidd, ddrafftio. Tynnodd yr orsaf oer honno i ffwrdd bellach, heb gilolwg yn ôl, gan adael y trê. Ond am ychydig o eiliadau hwyrach, fel pe buasai'n cael cipolwg ar ansicrwydd llipa, gorsaf fu hi i'w drê a arafodd yno. Gorsaf fyddai hi o hyd, ond nid i'w drê ef yn unig, eithr i lu o drenau eraill, dieithriaid iddo ef. Roedd hiraeth tost arno am Maxine. O na bai pob teithio yn syml fel hyn.

Cerbydau gwag a oedd gan lawer o drafnidiaeth yr ardaloedd gwledig hyn. On'd oedd llawer o'r gorsafoedd hyn yn bur debyg i'w gilydd? Yr un paent yn gymwys, yr un drafftiau ar yr un plattform, yr un hysbysebion, yr un peiriannau siocled gwag wedi aros yno ers cyfnod melysach, yr un papurau ar werth. Roedd cyrff y cloddiau cedyrn yn drwchus ym mhen draw'r orsaf, sylweddolai Len hyn oll yn araf ar y dechrau, wrth iddo yntau gyflymu yn ei feddwl tuag at y maes awyr. O'r orsaf i'r derfynfa awyrennau. Dyna fyddai tynged ei daith olaf yntau cyn bo hir.

Yn awr byddai'r awyren ddu y tu mewn iddo wedi cychwyn ac yntau'n cael ei rwygo wrth iddo esgyn oddi wrthi, cyflymu, ac o'r tu ôl iddo yn rhith yn cilio ac yn toddi yn nhwneli'r rheilffordd ac yn yr awyr lân roedd y gorffennol diffoddedig wag — hyhi ac yntau hefyd wedi cychwyn a chyd-ffoi, o leiaf i leoedd gwahanol. Heb iddo syflyd yr un llathen o'r un lle...

Dilewyd Maxine yn ei fywyd gan fywyd. Aethai hi o'r diwedd oddi wrtho i realedd Awstralia wag. 'Anghofiwn y cwbl' oedd ei chyswynair hi. Ac arhosodd ef i gofio'i ffolineb ei hun.

Llyfai Maxine hithau ei gwefusau'n chwerwdost wrth feddwl bellach am Fair ac am Sydney ac am Awstralia. Roedd y blas pell a'r awyren yn ddieithr ond yn cysuro. Ychydig yn hallt-sur fyddent ... Ond roedd y dyfrhau yn y genau yn awgrym eu bod oll acw yn cyflymu tuag ati. Ac wrth iddi edrych yn ôl yn awr a'i bryd ar y cyfandir deheuol acw fel hyn, ni allai lai na themlo ychydig yn debyg i wraig Lot. Roedd wedi dianc yn brydlon. Roedd hi wedi gwneud camgymeriad wrth fynd i Gymru, a 'wiw iddi droi'n ôl mwyach. Doedd hi ddim am fod yn golofn o halen ar ganol yr awyren. Eisteddai yn y sê nesaf am yr eil â John, yr holl ffordd adref, heb i'r naill yngan sill wrth y llall.

'Mae pawb yn gwneud pethau rhyfedd,' murmurai Len gartref. 'Mi wnaeth Maxine hithau ei rhyfeddbeth y tro hwn eto. Felly finnau, lawer tro. Druan ohonon ni. Mae hynny drosodd bellach. Fe'n magwyd ni oll mewn rhyfeddod. Mae popeth drosodd ... Anadlu sy raid yr awyr felys sydd eto ar gael, a gwneud y gorau y gallwn bellach ohoni.'

Edrychai Helen a Len ar ei gilydd mwyach fel petaent bron yn deall ei gilydd. Doedd yr un o'r ddau ar ôl yn disgwyl dim gan y llall. Ni allent fyth fod yn gariadus. Gwyddai Len na allai'r ferch baganaidd, ddiymadferth hon byth fod yn ddim mwy na chyfeilles iddo. Ni allai ef, yn ei glefyd, fod yn amgen na chyfaill iddi hi. Wili ac Awstralia oedd eu tir cyffredin. Cydiai ef yn ei llaw yn hyderus dirion o'r newydd felly. Gwyddai hithau nad oedd disgwyl i hwn chwaith nac i neb arall ymserchu o ddifri ynndi mwyach fel y gwnâi pobl normal. Yr oedd pawb yn wleidyddol gywir, ond yr oedd yna reswm ym mhopeth. Yr oedd ei disgwyliadau carwriaethol megis merddwr, fel y dylent fod. Yr oeddent ill dau felly'n fyw, ac yn fyw dawel am nad oedd ganddynt rywfodd ddim i'w ofni y naill gan y llall, na dim i'w amau, dim i'w ddisgwyl, dim i'w obeithio chwaith. Ac eto, gallent eistedd ar bwys ei gilydd, fel pethau effro, a pharchu'i gilydd; ac roedd hynny'n fath o dangnefedd taclus.

Ond, y funud sobor yna, wrth i Len wasgu'i llaw, yn dadol, yn amhersonol, yn gynnes gyffredin, teimlai Helen ei bod wedi cael ei dal yn amwys. Roedd hi wedi suddo yng nghledd ei law. Doedd hi ddim wedi ymylu ar ildio ynghynt. Onid oedd yna rybudd yn hysbysu ar draws ei thalcen — Dim meddalwch? Byth? Châi'i dychymyg byth roi lle i faldod. Fel y bu'r fflamau yng nghoedwigoedd Awstralia yn amlygu'u harddwch yn hagrach yn y bôn, felly y ffansiôn yn ei chorff hi. Difaterwch ysol oedd ei noddfa. A dyna'r lle y perthynai. Câi fodlonrwydd mewn sobrwydd myfyriol. Ymbalfalai'i holl fodolaeth yn awr am ddringo allan o law Len, cyn gynted byth ag y gallai, ond heb ymadael ag ef rywfodd byth. Yr oedd ef yn fwy na ffrind.

Ceir cysur i bobl pan na fydd dim byd yn dod o hyd i ddim byd. Ni byddant y pryd hyn yn gofyn fawr ddim. Cloff a methodig yw eu bywydau, heb ddim i'w gynnig. Eu geiriau a'u dwylo'n wagedd hyfryd, eu hyder a'u pennau'n ffolineb. Er eu bod ar dir y byw, y maent fel beddau dienw.

A sylweddolai'r ddau, Helen a Len, fod hyn yn wir yn yr achos hwn. Ac o'r herwydd ymddygent mor groyw galed â phlant. Edrychent ar ei gilydd, a gwenu. Chwerthin ychydig wedyn yn anghelfydd ac yn ddi-rythm am iddynt fod ar y gwaelodion gyda'i gilydd o'r blaen, am iddynt fod dan y dŵr yn wir, ac am eu bod yn awr wedi arnofio i'r wyneb heb feddiannu'i gilydd, ac am fod yna goed yn siglo canghennau a babanod a dydd Sul, a gwllith ar dalcen, ac am fod yna ddwylo a sêr, a phlant heb eu treisio, ac am fod mynwentydd yn ddistaw a mynyddoedd gan Gymru, ac, i Len, am fod pobl, rhai pobl — megis y Duw cariadus ei hun — yn dragwyddol ogoneddus, yn bersonol dragwyddol.

Dyma nhw: y pagan a'r Cristion, felly, dau efrydd. Yn gytŷn. Yn Llanbiblig. Nid lle i'w fychanu oedd Llanbiblig. Roedd mwy o Hanes ar waith yn Llanbiblig mewn un awr nag y gellid ei adrodd mewn oes gyfan — mwy o feddyliau ac o deimladau yn digwydd mewn un pen moel, mwy o feicrobau mewn un coluddyn, mwy o amrywiadau gwres mewn un awel, mwy o bethau'n absennol hyd yn oed fel na ddylid eu disgwyl mewn llyfr Hanes boddhaol byth. Doedd dim syndod fod llyfrau Hanes weithiau mor ddethol hirwyntog.

Dyngarwch yn unig fu diddordeb Len a Helen yn ei gilydd, wrth gwrs. Cydnabod normal, cyllell-a-fforc, bob dydd, dim dwli, dyna a fu rhyngddynt. Yn ôl y gyrrai ef yn awr felly o'r ysbyty ar ei ben ei hun tua'r Mans, ac eto'n llawn dop o areuledd fel pe bai newydd ei olchi. Ymestynnai yno yn unig ar ei wely. Gwenai fel pe bai'i lun yn cael ei dynnu gan gamra fideo. A rhywfodd teimlai hyd ei groen yn fwy byw nag a deimlasai ers tro.

Mae pawb oll yn cymryd yn ganiataol, rywsut, eu bod yn fyw. Dyma'r fframwaith diymwybod disylw. Wrth ddeffro yn y bore yr ydym yn derbyn ein bywyd fel arfer heb sylwi arno. Fel yna y mae i fod. Dyna'r lle y'i gadewais i fe. Syfrdanai gwallt Len, sut bynnag, yn awr ei fod yn ymwybod â gweld a chlywed ac anadlu a bod yn gorff bywiol bob eiliad, fel pe na baent i fod, ac eto fel pe baent ar ddarfod. Yr oedd yn glustdenau i holl annigwyddiadaeth gorwedd. Diolch, diolch, meddai ynddo'i hun am y manylion yn ei aelodau. Diolchai am iddo gael ei garcharu gan burdeb croen byw.

Penderfynodd mai dyma'r priodol amser bellach i ganu'n iach i'w braidd: dilyn awgrym Norris, ysgrifennydd ei gapel, ac ymadael. Gyda llechen gymharol lân. Gadael y pentref yn weddol ddiymdroi. 'Dyna fuasai ddoethaf, Mr Llwyd.' Hir y buasai'n styfnigo. Ond clensiwyd realaeth amdano bellach drwy weddi. Ymadael ar yr uchelderau, yn ddiniweityn megis wedi'i eni iddynt o'r newydd. Ac eto, câi'r praidd dipyn o drafferth i sbio yn llygaid eu bugail.

Sylweddolasai pobl y pentref ers tro, wrth ei weld ar ei rawd a chyfarfod ag ef fel pe bai am y tro olaf yn annhymig, gymaint brys a oedd arnynt. Ymddiddorent weithiau acw mewn boda cyfareddol yng nghornel bella'r cwmwl acw pan ddôl Len heibio ar y ffordd. Os oedd yna reidrwydd i'w cyfarch, llwyddent i wneud hynny heb adael i'w golygon din-droi yn anghwrtais yn ei olygon ef. A'i gymwynasau ar hyd y blynyddoedd, ei ymroddiad, ei ddoniau, ei gariad: yr oedd y cymylau stribedig uwchben yn adrodd am hynny oll acw efallai — ond gellid eu hepgor i gyd am heddiw, nid oedd eu hangen, fe ellid goroesi hebddynt mwyach.

Llawenhâi ef am ei fod yn cael ymadael mewn mesur o lendid.

‘Len Llwyd, rwyt ti’n werth dy bwysau mewn plwm,’ meddai wrtho’i hun tan chwerthin. Ond roedd plwm wedi mynd yn rhy ddrud erbyn hyn.

Dyma ddiwedd ar act felly. Gallai Len ymadael â’r llwyfan bellach, yn gymharol ysgafn ei gydwybod, heb fod yn hunan-gyfiawn ond heb ymddiriedaeth yn ei gyd-actorion chwaith, ac eto mewn cariad â phawb a phopeth oherwydd eu cyd-anghenion. Gallai hyd yn oed chwerthin am ben y ddrama.

Dyma’r Sul yn ddisyfyd arno.

Y Sul hwn felly y bwriadai fynegi wrth ei braidd ei benderfyniad, a ffarwelio’n gynnil. Datguddiai’i fwriad iddynt cyn dechrau’r bregeth. Ac yna, trôï at Ddiarhebion xiv, 32, a phregethai—gan osgoi hunangyfiawnhau cymaint byth ag y medrai — ar yr adnod: ‘Y drygionus a yrrir ymaith yn ei ddrygioni; ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw.’

Ond arswyd y byd, ddaeth neb oll yno. Pan gyrhaeddodd y capel am wyth munud i ddeg, doedd neb arall wedi ymddangos. Gwenai am ei ben ei hun: gwenai ynddo ef ei hun. Deg o’r gloch: neb eto. Ai dyma’r dull ganddynt felly o wrthdystio? A oeddent eto heb glywed am ei ddieuogrwydd? A oedd ef hefyd, yn y bregeth y bwriadai ei thraddodi, wedi ceisio’i gyfiawnhau’i hun mewn modd balch? Am adnod anaddas! Am bum munud wedi deg dyma nhw’n lled ddiferu i mewn fesul un, fesul dau, fesul pedwar, bob un yn dywyll ei drem, pob un heb syllu ar ei gilydd, heb neb yn ciledrych arno ef, fel pe baent yn edifarhau ynghylch eu dyfod. Sylweddolodd yn union deg cyn esgyn i’r pwlpudd ei fod wrth ddewis yr adnod wedi’i ddadwneud ei hun. Roedd yna ormod o falchder o hyd ynddo, gormod o hunan amddiffyn.

‘Len Llwyd,’ meddai rhyngddo ag ef ei hun, ‘rhy falch wyt ti. *Cyfiawn*, yn wir!’

Roedd ef eisoes wedi esgyn i’r pwlpudd. Ond cyn yngan sill, cyn bwrw golwg ar draws ei bobol, dyma ŵr ifanc cyfarwydd yn codi yn y gynulleidfa. Alwyn Brown ydoedd. Siaradai’n dawel ond yn benderfynol heb weiddi, gan geisio ymddangos yn gwrtais. Ni allai Len ddirnad ei eiriau i gyd. Fe’i deallid er hynny yn weddol ddiamwys ac nid yn anfodlon gan y rhelyw.

‘Fe esgusodwch fi, Mr Llwyd. Dwi’n codi fel hyn er mwyn cofnodi’n syber ein hanhapusrwydd dwfn. Dwi’n credu ’mod i’n llefaru ar ran nifer helaeth yn y gynulleidfa. Dŷn ni’n teimlo gwagle creulon yn y canol, fel stumog wag.’

Doedd y crwt ddim wedi clywed y newyddion diweddaraf, felly. Bu allan o’r ardal am ddau ddiwrnod. Hefyd aethai’r holl ‘droseddwyr’ diniwed adref mewn cywilydd, yn



chwenychu anghofio, heb hysbysu'r gymdogaeth ond yn gynnwl. I Len, yn ei bwlpuad a'i fudandod a'i siom, un waedd hir oedd lleferydd Alwyn er tawled, heb fwlch rhwng y geiriau. Un ebychiad o ddieter dieuog yn treiglo'n syber drwy'r corau ac yn taro'r ffenestri lliw a'r gofeb i'r bechgyn yn y rhyfel. Ac fel pob cri o gynddaredd, ni ddywedai'n ddi-sŵn namyn 'Help!'

Gwnâi'r gweinidog ei orau glas i barhau. Ond synhwyrri fod yr holl gynulleidfa yn tawel bleidio gwrthdystiad Alwyn Brown. A oedd neb wedi clywed yr hysbysrwydd diweddaraf — ei fod yn ddiuog? Neb oll. Gwenai Len arnynt yn goeg.

Ceisiai gau'i glustiau, a dechrau arni o'r newydd. Ond llefarai'r gŵr ifanc o hyd rhwng ei ddannedd a'i frawddegau caled fel cerrig: 'Siarad rydw i fel un o'r tystion, tystion Pant-y-bugail.' 'Diolch am eich gonestrwydd, Alwyn.' Roedd hyn yn anhygoel. 'Siarad am un a ddylai fod yn esiampl i bawb, am un a ddylai dywynnu'n ddelfryd yn ein plith, un y dylai pob dydd fod yn Sul iddo.' Bylchid brawddegau'r crwt gan seibiau angeuol brudd. Roedd hyn yn annealladwy, gan gyflymed y teithiai sion anffodus fel arfer. Rhaid na wyddai'r crwt ddim oll am y datblygiad newydd. Roedd yn anodd credu hyn. Nid oedd neb wedi gollwng o'r cwd brawf y fideo a'r dieuogrwydd. Doedd newyddion da ddim yn ddeunydd rhwydd i'w lledu. Yr oedd ef a'r holl gynulleidfa'n dal i dybied bod Len ar fai, felly. Ac yn noeth borcyn yn eu ffolineb. Oerodd Len Llwyd yn araf o flaen ei gyd-Gymry. Sylweddolai beth oedd wedi digwydd. Canfyddai'n llawn natur yr ymosodiad distaw hwn. Doedd dim ots am y gwir. Roedd y gynulleidfa yn dymuno ymwahanu rhagddo. Doedd Alwyn Brown yn gwneud dim llai na'i lofruddio yn gyhoeddus. Roedd y gynulleidfa o hyd yno'n dymuno coleddu'r gred yn ei euogrwydd. Boed felly. Parhau a wnâi'r gŵr ifanc, ond yn ddistawach byth, dan ei anadl fel ffyrnigrwydd mygedig. Ni allai Len ei glywed na'i ddeall mwyach. 'Ond ble'r ewch chi ddyn? Pwy gymerith chi? Oes unrhyw gyfandir? Yr Antartig? Llynnoedd lludw'r lleuad? Fyddech chi'n addas i fynd i blith unrhyw gymdeithas wâr y tu yma i'r Congo? Pwy dorrai air â chi? Y bechgyn ifainc yn y clwb plant, dwedwch? A! Dyna wledd. Y gweddwon? Yr hen ddynion?... Neb. Does neb a garai i'r awyr o'i amgylch gael ei halogi un smicyn gan anadl eich presenoldeb.' Llais a chyhuddiad a chondemniad Alwyn Brown a rowndiai'r capel. Sibrwd hyn yr oedd y bachgen bellach y tu hwnt i glyw. Llygadai'r gweinidog yr wynebaw gwag oll. O lygad i lygad. Llygadai ef Alwyn Brown wedi tewi ond yn dal i sefyll. O res i res roedd y bobl i gyd yno wedi cau yn ei erbyn bellach. Ffred Williams; Norris; Alwyn Brown; o gornel i gornel. Waliau oll. Hufen meddwl Cymru.

A gwyddai Len Llwyd hyd ei fêr fod yna dalp o'i fywyd yn y fan hon yn diweddu. Doedd ef ddim am geisio'i gyfiawnhau'i hun. Dyma'r diwrnod a apwyntiwyd ar gyfer ymadael, a dathlu. Nid oedd y gwirionedd yn corddi'r bobl nac yn corddi'r ugeinfed ganrif. Caeodd ef y Beibl. Boed felly. Cerddodd yn ddi-wên ar hyd yr eil yno o gam i gam ac allan o ddistawrwydd araf y tŷ cwrdd. Dylai ef fod wedi cael ei losgi yn nhân y goedwig gynt. Ar stanc. Tybiai mai hyn yn awr oedd y diwedd, a hyn yn sicr oedd y diwedd i rai pethau. Ym marn y gymdogaeth yr oedd wedi hen dderbyn ei haeddiant. Celwyddgi oedd ef o flaen y byd, celwyddgi maswedus. Doedd neb yn barod i lyncu'r stori gelwydd golau ynghylch damwain acrobatig pryd y llwyddasai ef i gymysgu ei waed ef â gwaed y crwt. Gwyddai pawb sut un oedd ef. Yr oedd yr 'achos' — onid oedd? — wedi'i gau. A bu ymyrryd â phlant, eu treisio hwy yn wir, yn warth anfaddeuol a chofiadwy. Mi gâi ei wobr. A diau y ddi'r gymdogaeth maes o law yn ôl ar ei hechel wedi iddo lithro o'r golwg yn daclus. Dichon y caent weinidog mwy cytbwys a llai cynefin â thoiledau pan gaed ei gefn yn derfynol, o leiaf tra oedd rhyw obaith i gynnal eu hachos hwy a'r gwirionedd am flwyddyn neu ddwy eto mewn lle di-sôn-amdano fel hyn.

\*

\*

\*

Dechreuodd hel ei fywyd at ei gilydd er mwyn ymadael.

Pan fu ef yn llanc gynnau, doedd Amser ddim wedi cymryd Len o ddifrif. Peth hylifol ac amaturaidd fu amser, o ran anianawd. Peth a ddô i ymweld ag ef yn gyson, a'i heglu hi. Symudai'i gorff yn ddjarwybod drwy amser o ddoe i heddiw, heb ddim yn digwydd ar gof a chadw. Ac eto, cofnodai'r cwbl rywsut o fewn ei gorff. Roedd amser dan ei drwyn y pryd hynny, erbyn hyn, wedi'i bacio ef mewn ces, funud ar ben munud.

'Hamddena di-sut fu sylwedd yr hyn oll a wnawn i gynt pan own i'n fachgen. Heulwen a gaed yn dylifo o orwel i orwel. Pan own i'n treiglo allan i'r stryd heb ddim i'w wneud, gallwn droi i'r dde neu i'r chwith ni waeth pa un, a'r heulwen yno'n barod yn 'y mhoced. Hamddena hefyd fu peidio â defnyddio'r amser hwnnw i oedi'n iach. Ond y pryd hynny yr oedd amser ei hun yn canu'n iach yn hwyliog. Symud, i mi, heb gyfeiriad terfynedig o fath yn y byd fu hamddena. Neu beidio â symud. Prin bod yna glocliau. Heddiw, mae'r clocliau'n dweud 'plyg', efallai, a does fawr o dro cyn inni oll ymgreinio. Aeth Amser felly yn alaethus gydwybodol drefnus. Aeth hamddena hefyd yn sarhad ar Amser. Trueni bod yr hen beth mor chwannog i gofio'i fod yn meddwl busnes mwyach. Ond yma mi aeth

pob amser prysur a phob amser hamdden rywsut i'r un gwellt. Ymddatodai'r ddau i'r llawr yn ganrifoedd llwyd a llegach, wedi methu â chyrraedd ei bwrpas. Trueni hefyd na allwn wastraffu amser yn iach.'

17

Ar ôl i'w gynulleidfa fynegi'i hewyllys yn y modd diamheuol hwn, ac i Len synfyfyrio o gylch y cythrwfl am ddwyawr gartref, dyma'i frawd, Bertyn, yn ymrithio i'r golwg, heb guro, yn y Mans.

Syfrdanwyd Len wrth weld pwy oedd yno. Nid ... Neb llai na'i frawd hynaf afradlon.

'Clywed dy fod mewn dŵr twym.'

'Rhyw sgeintiad.'

'Bedydd drwy drochiad glywais i.'

'Mae'n mynd gyda'r swydd i rywrai.'

'Wel, dim ond galw wnes i i ddweud ... wel ...' Ac yna, hofranai'r gweddill o'i ddweud yn llai pendifaddau. Eisteddai'r pagan gerbron y gweinidog yn ddiymadferth. Gwenai Len yntau at y fath rwystredigaeth. 'Rwyd ti'n arfer dallt y dalltings,' meddai.

'Wel, ydw. Y crefyddwyr 'na, dy dipyn praidd, y criw duwiol cythrwrm 'na sydd 'da ti rownd dy figyrnau ...'

'Ie, ie.'

'Os wyt ti eisiau'u gadael nhw am sbel, ffoi o'u golwg, cael llonydd rhag parch a phethau anfeidrol felly, dere 'lan ata-i i ganol pechod. Does neb arall yn meiddio dod. Cei ychydig o synnwyr cyffredin. Cei ddwy stafell glyd ddigarped ar y llofft ma's o'r ffordd. Llond lle o amharchusrwydd iach. Dere ata i. Ddaw neb ar dy gyfyl.'

'Mae'n swnio'n ddeniadol. Fy siort i o dwll.'

'Dda 'da fi mo'r steics yna.'

'Rwyd ti'n eu nabod nhw'n burion, felly. Mae peth persbectif wrth sbio o'r fan 'na oddi ar yr ucheldir.'

'Yr hyn sy 'da fi yn erbyn pobol capel yw — does 'da nhw ddim bola.'

'Dwyt ti ddim yn meddwl taw ymateb tipyn yn fuarthol yw peth fel 'ny.'

Gwenai'r pagan. Ond nid ymataliai ddim yn ei benderfyniad. 'Edrych ar y ffordd maen nhw'n aroglu dy berfedd di nawr.'

'Gwrandda. Does dim byd rhwyddach na lladd ar gapeli yn yr ugeinfed ganrif. Wedi'r holl

frad a'r mynychu-capel gredu. Chwarae plant yw ffoi.'

'Maen nhw'n tomi ar dy drwyn di bachan. Maen nhw'n waeth na'r moch sy gen i acw.'

'I mi, yr hyn sy'n syfrdan yw'r mymrynnau dieithr o ddifrifwch sy ar ôl.'

'Sdim bola 'da nhw.'

'O'r gorau. Ond mae'r ymlusgo i'r cwrdd serch hynny, ti'n gwybod, yn gallu bod yn fath o gripian ar fola tua'r gwaddod gwir.'

'Iâr yw'r eglwys, a chlwy'r marchogion arni, yn rhedeg o gylch y clos ar ôl torri ...'

'Na, na na,' protestiai Len.

'Eilunaddolwyr ceidwadaeth.'

'Na. Heb ymweld â phen y mynydd, efallai. Ond bola o fath hefyd. A hyd yn oed credinwyr yn wyneb gwacter ein dyddiau ni. Yn nannedd y propaganda, a'r llw.'

'Annynol y cythraul ddwedwn i. Peth ffwdan ynghylch llenwi gwydrau pop, dyna dwi'n 'gofio... a Rhyw, dyna'u hobsesiwn nhw. Am y pethau eraill, y pethau llechwyrus — malais, cenfigen, casineb, sdim ots am bethach fel 'ny. Ond pop a boncio! A! Dyna wledd.' Sipiai'i ffroenau'r awyr.

'Wel! Beth bynnag am dy wers hanes di am ddirwest diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, diolch i ti, Bertyn. Mae'n donig dy weld di bob amser, hen sowldiwr. Teulu, ti'n gwybod. Ti'n cofio?'

'Wel, mae 'na ddwy ystafell deuluol wag 'co.'

Ond bythefnos wedyn, er iddo symud yn ddiseremoni allan o'r ardal, cyn belled â'r ochr draw i Gaerafon, dychwelodd Len i geisio casglu llyfrau yn y Mans. Ar y pryd roedd hi'n bwrw glaw fel pe bai'n mewnforio Stiniog o fewn ambell erw gyfochrog o Iwerydd. Prin bod Len yn sylweddoli fod yna ffordd o'i flaen wrth iddo yrru'n ôl o Gaerafon i Lanbiblig. Caeai'r storm ddisyfyd o'i amgylch fel rhan o'r dodrefn. Doedd ef ddim yn gallu cofio erioed gawod mor bregethwrol hirwyntog. Ymfurfiai fel twnnel o'i ddeutu, a'r rhaffau dŵr yn hongian glymu o'i gwmpas; eiliai, curai'r diferion yn wyllt ddisymwth ar ffenest y car, ac ni allai'r sychwr winsgrin gyflawni'i briod waith. Arafai Len nes ymron â stopio, a phalfalu yn ei flaen fel pe buasai'n canu piano mewn niwl trwchus preifat; cyneuai olau y tu blaen a'r tu ôl, mewn twnnel hir ac amheronol yr âi dow dow mwyach; yn ddiymdroi yr oedd pob car arall wedi diflannu o'r ffordd, symudai'i gar ei hun yn ei flaen yn garcus benderfynol ar flaenau'i draed drwy'r twnnel dyfrol; yna, ar ochr ddiflannol yr hewl, fel esgid wedi syrthio bant, tan gysgodi o dan weddillion coeden yn gwbl ofer oherwydd gwylltineb y curlaw, wele

ffigur. Canfyddai Len lun unig. Dyn ifanc wedi'i wlychu at ei fêr. Stopiodd. Agorodd Len fymryn ar y ffenestr. Cynigiai bás i'r llanc anhysbys. A'r pryd hynny fe'i hadnabu.

Alwyn ... Alwyn Brown.

Dringodd hwnnw i'r car yn dawedog, heb osgoi'r cyfle. Yr oedd yn siwps. Eisteddai ar ochenaid o ryddhad. Cyfeiriai'i drem tuag ymlaen. Ni cheisiai gydnabod bodolaeth Len. A chychwynnodd Len y car rhagddo o'r newydd. Ni thorrai am ychydig o funudau, am ormod o funudau, am hydoedd dilyffethair, air. Yna, dwedai Len, 'Mae'n dda mai Noa yw d'enw di.'

Nid atebai'r llanc am beth amser. Ac yna, ebychai: 'Mi'i clywais i. Mae 'da fi ymddiheurad ofnadw.'

'Nac oes, nac oes.'

'Oes. Bues i'n meddwl am ddod draw. Ers amser dwi wedi bod yn chwilio am ddigon o wyneb. Dwi newydd glywed. Rown i'n ddall ... hurt.'

'Sut?'

'Yn methu meddwl.'

'Dw innau wedi cael ambell anhawster weithiau.' Ond roedd Len yn reit werthfawrogol, er ei fod yn gyfarwydd ag ymddiheuriadau preifat o'r fath ynghylch materion cyhoeddus. Ond ifanc oedd Alwyn.

'Ydyn ... dwi ddim yn gallu amgyffred ... Mae 'da fi ymddiheurad ta beth.'

'Ddim o gwbl.'

'Oes. Dwi wedi bod yn ymdroi o'r blaen. Ond yn rhy falch.'

'Twt!'

'Fe glywais i ragor o hanes Pant-y-bugail. Ac am yr hyn wnaeth yr heddlu. Rown i 'na ...'

'Petaen ni i gyd yn ymddiheuro am bob dim sy'n mynd o'i le, — petawn i — bydden ni wrthi'n ddi-stop o hyn tan ddiwedd ein hoes o leia.'

Stopiai Len y car y tu allan i gartref Alwyn Brown. Ond doedd y crwt ddim yn barod i ddisgyn ar unwaith.

'Pan gawn ni'n clwyfo — dych chi wedi sylwi — dyn ni'n ymddwyn,' meddai hwnnw, 'yn llai na nobl. Ond does dim esgus.'

'Mae clwyf yn dallu'r golwg.'

'Ac mae'r dallineb hwnnw wedyn yn clwyfo drachefn.'

‘Nid ti oet ti, Alwyn.’

‘Neu efallai mai’r gwir fi oedd hwnnw drwy’r amser.’

‘Na: mae hwnnw wedi dod allan ’nawr. Ti fyddi di o hyn ymlaen. Does dim tebyg i edifeirwch am olchi’r car.’ Roedd y glaw’n dal i yrru, a’r car yn ei ddioddef yn dawel. ‘Mae’n rhyfedd,’ meddai Len. ‘Mae cawod drom fel hon yn gallu gwahanu pobl, pawb yn ei dyddyn ei hun; ond mae’n gallu’n hyrddio ni at ein gilydd hefyd.’

18

‘Alla-i ddim dy ddeall, Maxine,’ meddai Mair. Roedd hi a Maxine bellach, yn ôl yn Awstralia, wedi clywed y newyddion diweddaraf o Gymru ynghylch rhyddhad Len. Roedd y ddwy felly’n gwybod y manylion am ddatblygiadau Pant-y-bugail. ‘Ac eto, mi alla i dy ddeall. Dŷn ni byth yn dysgu digon am faddeuant. Dyna hanfod pob cyfeillgarwch. Dŷn ni byth yn disgwyl llechen lân.’

‘Fi. Dwi’n dysgu dim oll.’

‘Na fi.’

‘Wedi lluchio’r cwbl lot,’ ychwanegai Maxine o ddwyster ei chalon. ‘Mewn bryntni.’

‘Ond gelli di fynd yn ôl ato. Tafla dy falchder i’r cŵn, ferch. Cer yn d’ôl.’

‘Na! Dyma’n haeddiant i. Wedi dod o hyd i drysor mewn maes,’ meddai Maxine fel pe bai’n adrodd ei hadnod, ‘wedi’i gaffael a’i guddio, a llawenhau amdano,.. yr hon sy’n mynd ymaith wedyn ac yn gadael y maes hwnnw fel pe na bai’n bod.’

‘Yn d’ôl te ferch, yn nannedd dy falchder.’ Roedd Mair yn awr yn siarad yn gyflymach na’i harfer.

‘Na: dwi ddim yn haeddu mynd yn ôl. Byth.’

‘Rhy falch?’

‘Methiant i faddau: dyna fu, dyna yw yn *forte* i. Gormod o hunan. Dyna oedd yn bod. Dyna sy’n bod. Dyna fydd yn bod ... Dwi wedi cael ’y nghyfle. Methu ymostwng. Dyna fethiant pob carwriaeth glwc. Methu â chydabod ein bod ni’n cael ein dodrefnu â chamgymeriadau, ac eto nad rheina yw diwedd y byd. A dyna fethiant sicr ’y ngharu seithug sâl i.’

‘Mi elli di ailgydio o’r newydd ferch. Wrth gwrs gelli.’

‘Byth. Dim sosej o siawns. Ar ôl imi’i adael e fel ’na ar y clwt. Ie ar adeg ei angen, ei fradychu fe, poeri’n ysbrydol arno, pan oedd fwyaf o eisiau cynhaliaeth ar y creadur!’

‘Wrth gwrs gelli.’

‘Ac nawr beth dŷn ni’n ei weld? Wnaeth yr hen grwt ddim oll o’i le.’

‘Ond fe wyddet ti yn d’esgyrn na wnâi e byth ddim difrifol o’i le.’

‘Ei adael e. Dyna wnes i. Y dwpsen dipsi. Ei daflu fe, fel hen hosan. Beth oedd arna-i, dwed?’

‘Yr un peth ag sy arnat ti nawr. Dim sleisen o synnwyr cyffredin.’

‘Methu â maddau. A maddau wedyn hyd faddau. Maddau saith waith seithwaith, dyna yw cariad.’

‘Mae pawb yn gwneud camsyniadau.’

‘Fi yw’r bencampwraig.’

‘Gad iddo fe gael cyfle i rasio heibio i ti nawr. Cer, ferch. Paid â bod yn falch.’

‘Caffael trysor o’r tu fewn i ’nwrn. Alla-i ddim meddwl sbecian ar ddim arall.’

‘Paid â gogordroi ’te ferch. Cer.’

‘Taflu trysor. Dan draed ... Na; alla-i byth ei gasglu fe’n ôl.’

Gwylltiodd Mair ryw ychydig: ‘Cer yn d’ôl te, ferch, ar dy fol yfory nesaf.’

‘Na, Mair. Mae e wedi gweld drwyddo-i. Mae e yn llygad ei le. Dwi’n wag.’

‘Cer.’

‘Dyna ddigwyddodd i ’mhriodas gyntaf i hefyd — roedden ni’n dau yn methu’n lân ag ymddiried yn ein gilydd. Y ddau ohonon ni’n rhy filain falch i faddau. Ddim pwysu ar ein gilydd.’

‘Gwaseidd-dra yw hynny, i mi.’

‘Ac mi fethais.’

‘Clyw, Maxine.’

‘Na, Mair. Dwi’n gwybod.’

‘Clyw am eiliad.’

‘Drwy gyd-blygu mae caru bob amser. Mae pawb call yn pregethu hyn ... Ac eto, allwn i byth. Dim clem.’

‘Mae amser yn lleddfu pob dim.’

‘Dwi wedi’i sarhau e’n ysbrydol.’

‘Cer yn d’ôl ato, ar dy ben yr wythnos hon te ferch. Ailgydia yn d’obeithion, heb oedi.’

Ond gwyddai Mair yn burion bur yn nyfnder ei choluddion fod ei hailadrodd huawdl oll yn ofer. A gwyddai Maxine hithau nad oedd o’i blaen mwyach o ddydd i ddydd, o fis i fis,

ond cwmnïaeth Mair a chychwyn i'r Prysg am dro, ac ymweld â thŷ opera Sydney, ac ymdroi yn y Gymdeithas Gymreig a'r côr, rhoi sgwt i'r tŷ, bwyty Doyle, darllen Stendhal gyda'r nos, helpu yn Oxfam, a lladd lladd lladd amser nes ei fod yn gelain gorn ... bodoli (i bob pwrpas) yn weddw wylofus wag, ar ôl, yn yr amser coll.

'Dwi'n rhy foliog falch,' meddai drosodd wrthi'i hun.

Felly, ac felly yn unig y cafwyd sgwrs allanol a mewdol Maxine yn fuan ac yn anwedus undonog ar ôl dychwelyd i fythol dir Awstralia. Gwthiasai'r bad i'r dwfn mewn bywyd, a thwll ynddo. Ambell waith fe âi am dro drwy'r strydoedd yn Sydney. A chan bwyll ymgollai yn ei hen feddyliau amhosibl, yn ei breuddwydion gwirion cysurus. Wrth iddi grwydro wedyn mewn amgylchfyd pur wahanol, yn y wlad o gylch Sydney, ymhell o'r tai, heibio i'r llwyni mwyar, a'r gwrychoedd synhwyrus, a chroesi ambell nant dros y cerrig sarn, a gwylid y pibyddion, gallai ddeffro o'i thrymgwsg, ddi'n ôl gan bwyll yn ôl i'r strydoedd a'r cyrff a chanfod popeth mor ddiriaethol ddiddig â diflastod. Doedd hi ddim hyd yn hyn wedi gallu sefydlu'r un ffin yn union rhwng y realiti a'r hyn a wyddai ei fod yn wir.

Cofiai Maxine yn y man un bore bach llai afreal na'i gilydd, yn fuan wedyn, fel roedd y cymylau gwyn yr hwyrnos cynt wedi bod mor isel dros y tir uchel yn y dref a'r tai odanynt mor dywyll, mor ddu, nes iddi synied bod amlinell gwaelod y cymylau yn ddanheddog. Hynny yw, yn lle edrych o safbwynt y tai at y cymylau, edrychai o safbwynt y cymylau at y tai. Trosglwyddai ffin y tai i fod yn ffin i'r cymylau. Y cymylau oedd ei man cychwyn wrth graffu ar fywyd, a'r tai eu hunain a gollodd eu sylwedd. Collasant i gyd bob gair,... efallai. Teimlai mai hyn o bosib oedd y safle-gwylid hirddisgwylidig y bu'n chwilio amdano. Oni ddylai hi wneud hyn yn amlach? Am byth.

Rhyfedd hefyd. Efallai mai syllu o gyfeiriad y cymylau 'ddylai fod yn safle realistig i bawb.

Gallai gerddetian felly yn freuddwydiol heb gymryd pryd o fwyd drwy gydol y dydd. Dychwelai gyda'r nos, agor y drws, a llymeitain yr unigrwydd yno hyd y gwaddod. Caeai'r waliau amdani. Safai ar ganol y gegin, ac udo: 'Len!' Tywalltai'i theimladau mïerog tuag i fyny. Yna y gollyngai, i lawr pren y gegin, nâd annynol. 'Len! Len!' nes bod y cwpanau yn dirgrynu. Rhydd oedd hi yno, ochneidiai, heb fod yno; ond roedd yn suddo o dan bwysau'i rhyddid unig. Gwaeddai. Holltai. Wylai. Roedd hi ar goll mewn iselder. 'Dwi'n casáu'r gwaed sy'n cwrso o gylch 'y nghorff.'

Eto, buasai o leiaf, am un egwyl annealladwy yn ei bywyd, dros ymyl y gorwel acw.



Cawsai flasu buddugoliaeth am dro, un tro. Ac yno hefyd fe gafodd hi'r gorflwch. Y gorflwch cysegredig. Do. Ond wedi llygadu'r llestr lân acw ni allai'i dwylo ymaflyd ynddi gan freued oedd. Gorflwch nudden oedd, ac roedd ei bysedd yn rhy drwsogl o lawer i afael yn sicr ynddo. Syrthiodd. Drylliiodd yn deilchion. Do. Daethai breuddwyd a realedd yn wŷr a gwraig iddi bron, yno. Ac yn awr roedd hi'n ôl. Ar ei phen ei hun. Yn ôl yn y man cychwyn, a'i breuddwyd wedi'i chwalu'n ysgyrion.

'Siom fu dy Gymru di te?' meddai Mair, yn rhannol osodiad, yn rhannol atebiad i gwestiwn nas gofynnodd.

'Anodd gen i gredu imi erioed fod ar gyfyl y lle,' meddai Maxine yn freuddwydiol.

'Dwi'n deall hynny i'r dim.'

'Na; elli di byth.'

'Hyd yn oed i fi yma, ar ôl aeonau o ymadawiad, mae'r hen le fel carreg yn f'esgid.'

'Na. Fues i erioed yno,' taerai Maxine.

'Doeddet ti ddim yn teimlo tynfa dy wreiddiau?'

'Doedd Cymru ddim yn bod i fi cyn ifi fynd 'na. Dyna oedd yr anfantais. A dyw hi ddim yn bod yn awr. Rown i wedi'i golchi hi o'm cyfansoddiad, cyn troi'r tap hwnnw yn ei flaen. Ddaeth dim dŵr. Fues i ddim mewn lle go iawn.'

Ond atolwg, beth yn y byd yr oedd yn ei olygu? Ai bod pob bywyd wedi pylu?

Doedd Mair ddim yn gallu'i choelio, ac nid am y tro cyntaf. Ac eto, cenfigennai rywfodd tuag at Maxine, hyd yn oed am y rhithiau bregus hyn. Roedd gan honno o leiaf freuddwydion, ac yr oedd i freuddwydion felly eu golud. Gan Mair ei hun nid arhosai ond broc sych di-siâp, dernynnach hwnt a thraw o ewyn, ar draethau'i chof ynghyd â'r synnwyr cyffredin difaol. Ac â'r dernynnach hyn yr adeiladai'i diwrnodau.

Ni chredasai Mair erioed y buasai byth yn cenfigennu wrth Maxine. Ond felly erbyn hyn y'i gwnâi. Eiddigeddai hyd yn oed wrth ei gwibdaith ddiweddar, er mor siomedig oedd honno. Eiddigeddai hyd yn oed wrth obaith ac afrealedd awgrymus ei breuddwydion posibl. Eiddigeddai wrth ei chysonderau mewn ffansi ysgafn liw dydd. Gallai hon ymneilltuo.

Ac eto, nid oedd Mair erioed yn ei byw wedi breuddwydio fel y cyfryw yn uniongyrchol am Len. Efallai mai absenoldeb cariad oedd absenoldeb breuddwyd. Bu ef yno ar rith ymerawdwr. Ond nid Len ei hun ydoedd, y parchusyn ffôl. O'r herwydd nid oedd dim ailadrodd yn bosibl o'r hyn na fu, ddim hyd yn oed ailadrodd drwy freuddwyd. Nid oedd Len felly yn un o'r delweddau defnyddiadwy ar waliau'i bywyd. Pe ddi ef byth yn ei ôl,

gwyddai nad ati hi y ddi. Ni allai hi byth fod yn llawn o Len.

Ond am Maxine, ni wnâi honno mwyach bob nos namyn breuddwydio am farwolaeth Len. Heb neb gydag ef. Gadawsai hi ef yn ei angau.

Y tro cyntaf y gwelai Mair Maxine wedi iddi ddychwelyd i Awstralia, roedd Mair yn ei gardd o hyd yng nghanol y taclusrwydd. Disgynasai Maxine ar y lle er mwyn chwilio am gysur. Sut y gallodd Mair gael yr amser nawr i gadw ffrwyn ar y lle, a hithau mor brysur gyda'i helusennau, nis deallai Maxine. Ond y fan yna yr oedd hi, ac amser y byd ganddi, a gwareiddiad y blodau a'r llwyni, y llwybrau a'r lawnt, yn ddisgybledig ddiwylliedig o'i chylch. Ymddangosai'r wybren ar y pryd yn hynod o gymen, bob cwmwl yn ei le wedi gwisgo tei, yr haul yn loyw ysgafn a'i wyneb wedi'i olchi a'i fochau'n disgleinio, a'r adar oll yn cynganeddu heb fod yr un yn gwneud mwy o feiau gwaharddedig na'i gilydd. Diolch wrth gwrs am areuledd Mair. Mair y normalrwydd amhosibl.

Dyma le i feddwl Maxine stopio.

Bellach, ddi penderfyniad newydd sbon iddi. 'Dwi am symud fan hyn i lawr i ganol Sydney,' cyhoeddai o fewn oriau ar ôl iddynt gyfarfod.

'Aton ni? I grombil y ddinas ddiffaith?'

'I fod ar dy bwys di. I ddi newydd enfawr. Pam lai? Ailsefydlu mewn cysur cyfleus.'

'Pam?' holai Mair wedi'i drysu.

'Bywyd newydd. Wynebu'r realiti. Cwmni. Does dim croeso? Dechrau byd newydd os nad oes gen ti blaned fwy cymer wrth law.'

'Ond colli'r wlad, yr elfen wledig rydd. A finnau ers tro wedi hen synied y buasai'n iachach i fi symud o'r canol i fod yn nes atat ti.'

'Maestref yw'r wlad oll. Gwledigrwydd gwneud.'

'Gwneud!'

'Yng nghynffon yr ugeinfed ganrif, tipyn o hunan-dwyll yw pob rhanbarth gwledig. Chwarae bod yn rhywbeth rywbeth heblaw dinas, dyna dasg maestref.'

'Ond beth am y gwacter dinesig mae pawb yn gwybod amdano?'

'Mae gen i awydd i ymgaledu mewn gwacter o'r fath. A bodoli.'

'Beth am y nos, beth am y cyffuriau afradlon er enghraifft?'

'Rhaid derbyn y garw gyda'r ...'

'Trais? Yr Aids? Cyffuriau? Pornograffwaith?'

'Bywyd fel y mae.'

‘Wynebu’r oes wag felly gyda goddefgarwch!’

‘Nid gyda goddefgarwch. Ond peidio â thyrchu ynddo’n annethol. A pheidio â’n twyllo’n hun ynglŷn ag ef nad yw e ddim yn bod.’

‘Does dim rhagor o freuddwydion, felly, ar wahân, ar ben tomen rhamantiaeth i fod yn dy ddyfodol di?’

‘Ddim rhithyn o freuddwyd. Ôl-foderniaeth ddibwrpas afreal oedd peth felly. Mae’n bryd ifi aeddfedu, dysgu gwahaniaethu rhwng gwerth a di-werth, rhwng gau a gwir.’

‘Ymlaen tua’r realedd dilychwin felly! Ond yn atodiad i’th wres canolog o hyd o bosib? Dal i gael tân-glo henffasiwn hefyd ambell dro efallai? Adeg Nadolig o bosib?’ mentrai Mair.

‘Wel ie, does dim rhaid bod yn gwbl ymarferol. A hepian rywfaint o’i flaen efallai fel y gwnaiff hen-bobl sy heb ormod ar eu cydwybod.’

‘Gwell iti gadw dy gydwybod,’ meddai Mair.

Nid adwaenai Mair Faxine o ddifri iawn o hyd. Gwyddai erioed am ei breuddwydion wrth gwrs, am ei hunan-ramant, am ei chelwyddau. Ni allai lai yn wir, ni allai neb lai; testun rhialtwch oedd. Ond tybiai ar gam o hyd i raddau fod ei chefnidir a’i magwraeth ddiiddinas yn hysbys syml. Daliai i’w chysylltu er ei gwaethaf â’r Gymru wledig: Maxine Wledig. Gan bwyll, dros flynyddoedd eu hadnabyddiaeth yr oedd Mair wedi dod i gasgliad go gadarn fod Maxine druan, yn gam neu’n gymwys, yn hanu hefyd rywfodd neu’i gilydd o’r un ardal â hi ei hun yn yr henwlad. Dyna fath o fyth a adeiladesai Maxine iddi’i hun. Dyna’n wir ei honiad: roedden-nhw’n ‘chwirydd’ Cymreig o fath er na welsai erioed moni o fewn yr union amgylchfyd yna. Adwaenai Maxine enwau’r lleoedd yng nghyffiniau Caerafon yn bur dda. Gwyddai am rai o bobl enwocaf y fro. Ai ei gwyliau yng Nghymru a gyfrifai am hyn? Bu hi yno am gyfnod go hir. Yr oedd yn gyfarwydd â’r ffyrdd a’r diwydiant lleol. Ac wrth gwrs, yr oedd wedi sôn lawer am hyn oll, gan ei lleoli’i hun yn ei hieuenctid yng nghanol hyn i gyd. Yn Gymraes wneud. Hawdd wrth gwrs oedd deall sut y collasai’r dafodiaith i raddau. Onid oedd hi, Mair, hefyd wedi ystwytho yn ei pharabl?

Mewn gwirionedd, heb ei ddatgelu i Fair erioed yn blwmp, ond fel y gwyddai pawb yn burion, Awstraliad grai gron o’r groth oedd Maxine. Anwariad helaeth o’i chrud. Dechreusasai ymddiddori yng Nghymru fel hobi sentimental. Math o ffansi oedd, breuddwyd, — fel yr oedd ei chymeriad hi ei hun. Er iddi adeiladu Maxine arall ohoni hi ei hun, ffug oedd honno. *Dymuno* bod yn Gymraes a wnaethai. Mewn gwirionedd, Awstraliad

ramantus fu hi, felly, erioed go iawn ac ar wyliau siawns ambell waith mewn ‘henwlad’ anhysbys. Syllai ar Ewrob o bell drwy sbectol binc. Roedd hi wedi ymhoffi yng Nghymru wrth gwrs yn ifanc, wedi ymweld lawer tro i fwrw gwyliau, wedi gwneud ambell gyfeilles a chyfaill hoff, wedi meddiannu’r iaith hyd yn oed a darllen ei llenyddiaeth. Roedd ganddi achau gwasgaredig yno hyd yn oed. Yr enwau lleoedd a’i denodd hi’n ôl yn gyntaf, o bosib. Wedyn, dechreuai gasglu cerdiau post a lluniau o olygfeydd yng Nghymru. Bu’n gohebu gyda merch yng nghyffiniau Caerafon am rai blynyddoedd. Bu hi droeon yn aros yng nghyffiniau Caerafon, a hynny flwyddyn ar ôl blwyddyn am fisoedd bwygilydd ar y tro. Bu’r gyfeilles ohebol yn ôl yn Awstralia gyda hi nes iddi farw’n sydyn yn bump ar hugain oed.

Ac yna, dechreuodd Maxine freuddwydio. Dechreuai wau ffansiön pellach amdani’i hun fel Cymraes. Cymry a ysgogai’r breuddwydion hyn. Ei ffrindiau yng Nghymru. Hoffter y Cymry o frolio ac o ladd arnynt hwy eu hunain. Cymru hanes fu peth o’r broblem, a’i hanes ei hun yn anad dim. Nid Awstraliad moni mwyach. Cymraes wedi mudo oedd hi i’r hen gyfandir clasurol. Chwaraeai’r rhan. Gwir fod ambell un arall o’i theulu wedi mudo tua’r un pryd ag y dychmygai hi. Yr oedd (yn ei Chymreictod ffansiönol) hyd yn oed yn meddu ar fodryb o Gymraes yn Awstralia. Dechreuai’r hanes hwn dreiglo yn gymhlethach gymhlethach. A phesgai cymeriad Maxine wrth iddi adeiladu estyniad i’w buchedd ddiramant. Mwynhâi blethu’r ddelweddaeth. Ac roedd goddefgarwch amheus ond haelfrydig Mair a’r Gymdeithas Gymraeg yn gyfeiliant purion i’r gwiriondeb oll.

Doedd hi ddim yma nac acw. Felly y bydd trefedigaethau.

Syllai Maxine yn awr i’r drych uwch y bwrdd-wisgo cyn iddi noswyllo. Roedd hi’n falch i fod yn ots. Rhwbiai’i harleisiau fel dewines yn rhwbio lamp. A ddôï’r wir Maxine i’r fei byth? A’i gwaredo. Pwy oedd honno? Beth oedd ei hystyr hi? Ni chodai’r un jini o’i gwagle go iawn. A murmurai yn ei meddwl: ‘Dau unigedd bach yn clebran â’i gilydd ar draws cefnforoedd. Awstralia’r cyrff a Chymru’r ysbryd marw. Oes ’na unrhyw wynt a gludith y lleisiau unig hyn at ei gilydd ata i? Neu ydyn ni wedi’n condemnio i rewi,... ti fan acw a fi fan yma? Dau unigedd yn crynu mewn petruster ar benrhynnau, yn syllu allan i’r gwyll; a’r ddau unigedd hyll hyn yn gweiddi am help. Unigedd y weddw fan hyn, unigedd y dibriod llwfr acw. A rhyngon ni’n dau bob amser, y tonnau’n curo’u heiliadau, eu canrifoedd.

\* \* \*

Yn sydyn, fel hyrddio dŵr oer yn ei hwyneb, meddai Mair wrthi un diwrnod, ‘Dych chi ddim yr un fath o Gristion â Len.’

Roedd hyn yn gyhuddiad od. Beth oedd ar y ferch? Roedd yn gyhuddiad o du Mair: mwy o gyhuddiad uniongyrchol iddi oedd y gymhariaeth â Len. Beth roedd yn ei feddwl?

‘Wrth gwrs ’y mod i. Rych chi naill ai’n Gristion, neu dych chi ddim.’

‘Dwi ddim yn gallu rhoi ’mys ar y peth: mae yna rywbeth yn wahanol yn y ffordd rych chi’n Gristion. Rych chi’n fwy tebyg i fi: doeddech chi’ch dau ddim yn gymharus.’

Âi Maxine yn ôl i’w thŷ, a phendroni. Roedd hi’n coleddu’r un credoau â Len. Cofiai iddi gael profiad gynt. O fath. Fe newidiwyd ei meddwl, a hyd yn oed ei buchedd. Ai hyn oedd yn bod? Roedd hi’n siŵr ei bod yn cael yr un teimladau â Len ynghylch Duw.

Ond bellach bu hi’n fwy creulon ati’i hun nag y bu o’r blaen. A oedd hyn oll wedi bod yn arwynebol? Ai addurniadau ac nid strwythur yn ei bywyd oedd ei chred? Ai breuddwyd fu ei hysbryd ei hun? Dechreuai bendroni yn awr, ddim yn gymaint am fod yn gymharus â Len, ond am fod yn gymharus â’r Anweledig. Po fwyaf yr adolygai’i diolchgarwch i Hwnnw, mwyaf y trôl’i golygon megis o reddf oddi wrth Len. Roedd hi wedi bod yn benthyc’i buchedd feunyddiol oddi wrth bwysau’r gymdeithas. Yn awr, dechreuai chwilio ewylllys a dymuniadau’r Un arall hwn. Roedd hi wedi bod yn ceisio bodloni Len. Carasai fod yn Gristion. Ac yn awr, ei huchelgais oedd anrhydeddu’r Un anweledig. A dechreuai hyn ei meddiannu. Dyma oedd cyhuddiad anghymharus Len, ei bod wedi gadael iddi’i hun ac i Len feddiannu’i chariad a’i dealltwriaeth a’i hymddygiad heb ystyried ystyr gyflawn yr Un arall hwnnw. Unig oedd hi, mae’n rhaid. Neu dwp.

Ymladdai hi â hi ei hun, rhag i’r crefu cydwybod hyn a’r credu calon hyn droi’n freuddwyd. Beth oedd y peth hwnnw y tu mewn iddi a boenai am bethau?

Ychydig o ddiwrnodau wedyn, yn sydyn daeth Maxine wyneb yn wyneb â Menna. Dyna’r lle yr oedd hi yn y dref ar bwys siop Oxfam. Yn glamp o synnwyr cyffredin, tan ymlwybro tuag ati, doedd dim dianc i’r naill nac i’r llall. Gwyddai Menna hithau beth oedd o’i blaen: amryweb ar yr un trywydd ag arfer. Ac felly, er mwyn achub y blaen ar anocheledd sgwrs Maxine, ebychai, ‘Hylô Maxine, croeso’n ôl i Farbaria. Wyt ti wedi cael unrhyw freuddwydion gogleisiol yn ddiweddar?’

‘M!’ meddyliai Maxine am y fenyw hon o’i blaen, - Un peth yn unig ’allai roi’r fath hyder i rywun: sef bod yn berchen balch ar glamp o ddiffyg dychymyg.

Yn union ar ôl gollwng ei chwestiwn, teimlai Menna, yn y rhew hir a lithrai ar draws gruddiau Maxine ei bod wedi gwthio maen tramgwydd yn ôl ar fysedd ei thraed hi ei hun.

‘Dim un rhithyn o freuddwyd, cofia,’ meddai Maxine. ‘Beth wedi’r cwbl yw

breuddwyd?’

‘Taw, rwyd ti’n dechrau rhyw arferion go amheus wedi bod yn y topiau ’na.’

Gwenai Maxine yn fwyn, ac yn raddol fe droes ei gwenau’n chwerthin tawel. ‘Wyddost ti, Menna, jôcs yw breuddwydion i gyd. Dyna un peth ’ddysgais i yng Nghymru. Collais i’r arfer.’

Edrychai Menna arni bron mewn braw fel pe bai hon wedi bradychu'i holl egwyddorion.. Oedd hon yn diffrïo’i thrysorau mwyaf? Ai gwadu’i haniau ei hun yr oedd hi? Ac yna holai mewn chwilfrydedd anghrediniol: ‘Dwyt ti byth yn cefnu mor anystyriol ar dy gymeriad dy hun? Wyt ti mor sinigaidd, dywed? Wedi’r holl flynyddoedd drwgdybus o fwynhad?’

‘Chwarae bod yn sinigaidd, o leiaf, dyna dwi am ’wneud. Breuddwydio sinigiaeth efallai.’ Ceisiai Maxine chwerthin, ond methai.

Doedd Menna’n deall dim ohoni. ‘Gwisgo mwgwd gwahanol, dyna yw hi, gei di weld,’ datganai honno. ‘Ac fe gwypmth y cwbl arnat ti eto ryw ddiwrnod.’

‘Mae’r mygydau i gyd wedi cwmpo eisoes.’ Ac yna yn araf, ac yn greulon o agored, ‘O dan y mwgwd, merch ifanc fu ’na, wedi briwsioni’i chalon, cred di fi, merch ifanc wedi’i brifo’n sbwriel, y gainc yn las, y blagur arni wedi’i rhwygo ac yn hongian yn erbyn y boncyff, ac yn erbyn gwynt digon sythlyd, yn sothach i gyd.’

Roedd y fath gyffes yn rhy gryf annisgwyl i Menna. Safai’n syn. Roedd hi fel pe bai Maxine am blastro’i hedifeirwch ar y waliau o’i deutu. Ond roedd yna ddifrifwch yno.

‘Wnes i erioed sylweddoli, mae arna-i ofn. Mae’n ddrwg gen i, Maxine.’

Gwawriodd ar Maxine fod Menna hithau’n gallu cydymdeimlo’n anghysurus o gywir wedi’r cwbl; ac ymddiheuro o bethau’r byd: gallodd Maxine ei chlywed ei hun yn dweud math o ddiolch. Ac yn gwenu.

‘Ond paid â dweud wrth neb. Dyna’n cyfrinach ni’n dwy.’

Doedd gan Maxine ddim oll ar ôl mwyach. Ac efallai mai ystyr hynny oedd ei bod wedi darganfod cryn dipyn o’r newydd amdani’i hun. Roedd hi hyd yn oed wedi dadlennu’i chalon gerbron Menna o bawb. Ac roedd honno wedi ymateb. Roedd hi’n noeth hyd at begwn y de... Unig oedd pob llathen o’r ffordd o’i blaen. Ac yr oedd yn benderfynol nad oedd hunan-dosturi yn mynd i ymhoni ar hyd y llwybr hwnnw. Gwyddai’n siŵr fod yna filiynau tebyg iddi, a miliynau mwy yn y seler, yn waeth eu byd na hi, heb neb oll yn adnabod ei gilydd am nad oedd yr adnoddau maddeuant yn ddigon iddynt.

Gwenai hi’n chwerw drachefn yn ei gwely y noson honno. Na, na, meddai, gan hwtran y

breuddwydion i ffwrdd — dyna'r diwedd. Cerwch. Roedd chwys drosti. Ymlafniai ar ei heistedd: sbio o'i chwmpas. Roedd y sioe drosodd. Cerwch, y pydron.

Gan bwyll, allan o'r ffansiön seithug yna yr oedd ei hymwybod wedi ymwithio ar ei gwrcwd. Roedd hi'n sylweddoli'n realaidd unwaith drachefn mai hel hud llewyn ffyliaid y buasai hi. Gwenai'n ddadrithiedig, ond nid yn gwbl chwerw. Rhan o'r erledigaeth fwyn fu ei breuddwydion wedi'r cwbl. Syrthiai ar ei bai felly yn y gymysgfa hon o fyd. Gyda'i gweithredoedd effro a'i gobeithion seithug roedd ei breuddwydion hwythau benbwygilydd wedi'i thwylo.

Ac yma mwyach, yn Antarcig ei myfyrion, yr arhosai hi. Roedd hi'n bell o bob Cymru.

Yma yr arhosai. Yma yr arhosodd. Heb fynd i unman. Ymhen ychydig o fisoedd o hyd, felly, nid esgorwyd ar odid ddim newydd. Yr un un un yn awr o hyd oedd ymfodloniad neu anfodlonrwydd Maxine ar y camgymeriad a wnaethai, yn un â'r rhan ohoni a gyrhaeddodd yn ôl. Sefydlodd wacter. Yr un prudd-der cudd. Yr un marweidd-dra ysbrydol. Yfai o hyd yr un anfeidrol goffi. Syllai am fisoedd mwyach ar draws yr un anfeidrol afon o hyd at yr un anfeidrol Fae Watson.

Edrychai Mair yn amheus ddigon ar ei ffrind, 'Oes 'na wir angof i neb ohonon ni? Wyt ti'n dal i deimlo'n chwithig ac yn hiraethus am Len? Rwyt ti mor brudd, Maxine.'

'Twt! Pa amser sy gen i i edifarhau? Mae gen i flodau i'w chwynnu, a'r ffenestri i'w glanhau, a'r gath, a'r papurau i'w darllen — O'r newyddion pêr! — a'r siopau. Capel hyd yn oed... Gyda'r fath fywyd mor gyfoethog lawn, — ffwl owt — pa gost edifeirwch, Mair fach?'

'Hiraethu?'

'Hiraethu am ddyd marw, am rith sy ar farw? Am freuddwyd oes yr iâ? Sut? Hiraethu am wlad nad yw'n bod, neu am un nad yw'n ceisio bod? Pa wahaniaeth? Pa hwyl byth fyddai chwilenna yn y galon am yr hyn sy'n anymarferol?'

'Rwyt ti wedi cyflwyno dy feddwl i grwydro'n ôl ac ymlaen felly, yn iach ymhlith labyrinthau.'

'Ydw. A dwi wedi bodloni blino'n siwps. Wyt ti'n 'y meio i felly? On'd wi wedi cyrraedd yr amser yma i eistedd gyda'm ffrindiau a chwerthin am yr hen oferedd, a holi am y rhai ifainc a'u hoferedd hwythau yfory?'

'Dwyt ti byth yn sinig Maxine? Neu wyt ti'n dechrau dychmygu dy g'lwyddau 'to?'

'Na, fues i erioed yn sinig. Rwyt ti'n 'y nabod i. Realydd rhonc, hyd ewinedd pinc bysedd

'y nhraed!'

'Dyna own i'n feddwl.'

'Ac dwi'n rhy hen mwyach i godi'r egni i fod yn sinig. Pell ydw i, a gwybod 'mod i'n bell.'

'Wyt ti'n meddwl fod y llyfr wedi'i gau felly?'

'Gwybod ei fod e wedi'i hen gau, ydy, yn saff yn ôl ar y silff. Neb arall eisiau'i fenthyca. Daeth yn bryd bellach i'w dynnu'n ôl o'i gylchrediad, ailfalu'r papur ac ailwampio'r tudalennau i gyd. Mae'r cynllwyn a'r cymeriadau wedi dirwyn i ben. Mae gen i waith tipyn mwy ffrwythlon i'w wneud. Fel cysgu. Ailgylchu ffrwythau cysgu.'

\* \* \*

Syllai hi ar wyneb y cloc yn lolfa Mair gyda gwir gasineb. Ni welsai erioed yr un wep mor hyll. Roedd yna bobl nad oedd amser yn golygu dim oll iddyn nhw. Roedden nhw'n hamddena o gwmpas heddiw, a dyna fe: 'heddiw'. Dros ymyl y bad ag ef. Un llwchyn arall. A dacw ef yn hwylio heibio, yn cilio bòb-bòb yn y tonnau pellhaol. Cyn chwarter awr yr oedd heddiw wedi ymuno â'r gorwel, a gorwel arall wedi dod. Roedd hwnnw'n bwrw'i bedair awr ar hugain, bòb-bòb medden nhw, ond doedd hi ddim yn credu dim ohonyn 'nhw'. Ddim heddiw. Ddim yfory chwaith.

Sefyll a wnâi amser o'i chwmpas mewn gwirionedd rhyngddi hi a Len ambell waith fel brics, fel muriau, ambell waith fel coed disymud, didrugaredd, bythol-wyrdd. Darparai gysur iddi a pheth aflonyddwch. Ond gwyddai fod yr atalfeydd hyn a oedd mor bendant y tu allan iddi ar hyn o bryd, yn y fan a'r lle, hefyd yn treiddio i mewn iddi, ac yn raddol yn adeiladu preswylfa galed o'i mewn. A phawb yn chwarae byw. A'r dinasoedd difesur yn ysu'r wlad. Ac yn ffenestri'r tŷ roedd yr haul yn arnofio, yn falch ac yn ddigon urddasol yn ei ffordd brofiadol ei hun, i ffwrdd.

\* \* \*

A'r un pryd, draw draw yng Nghymru a thiroedd Japan, yr oedd boreau'n gwneud eu gwaith arferol ac yn hau'r un cwestiynau. Cododd Helen hithau yn yr henwlad un bore, ac ar y llawr wrth ddrws y ffrynt cafwyd epistol o'r ynys bell.

*Fy annwyl Helen,*

*Mae'n rhaid imi sgrifennu atat ti i adrodd am hwyl a helynt John (Shaw) alias*



*O'Vergall. Chredi di ddim.*

*Ni wn a ddywedodd ef beth oedd rhan o'r gwiriondeb a oedd arno. Daeth ef ata-i yma i sgysio neithiwr ac i agor ei galon, a chefais olwg newydd arno wrth gerdded i mewn. Er pan ymunodd â'n cibwts ni ers talwm, tydi, Helen, (iddo ef), o holl ddiniweitiaid sobor y blaned hon, fu'r maen tramgwydd. Ond roedd yna un boen bigog yn ei ben ef yn arbennig. Mi ddweda-i wrthot ti'n sydyn. Ymadawodd ef â Limerick chwap ar ôl marwolaeth ei fam er mwyn ymfudo yma i Strailia. Gwraig gloff fu hi ar hyd ei hoes, ac yn ystod y misoedd olaf bu hi'n barhaol orweiddiog. John fu'n gweini arni fan yma. Ar ôl iddi ddarfod, doedd dim amdani ond iddo ffoi mor bell ag y gallai. Ond roedd yna sgytiad yn disgwyl amdano. O ran pryd a gwedd, yn ei fryd ef, roedd ei fam yn union debyg i ti, yr un ffunud, o leiaf pan oedd hi'n iau. Roedd hi wedi'i hawntio fe. Allai fe ddim credu'r peth, **mor debyg oeddet ti.** Yr un lais oedd ganddi er nad yr un acen wrth gwrs. I John pan gwrddodd â thi yr oedd y tebygrwydd hwnnw nid yn unig yn ddychrynus, yr oedd yn fath o fygythiad. Ac yn gyfrinach, wrth gwrs. Dyna'r gwreiddyn. Fe'i cynhyrfai hyd ddagrau bron heb iddo'i sylweddoli chwaethach dadansoddi pam. Hyd yn ddiweddar nid oedd wedi gallu dygymod o gwbl â marwolaeth ei fam am y rheswm dy fod di fel petaet ti'n ei hatgyfodi. Ni allai ddweud wrth neb am hyn.*

*Newidiodd hynny oll ar ôl ei siwrnai seithug i Gymru. Daeth yn ei ôl, yn ŵr siomedig newydd. Dywedodd hyn oll i mi, a'i lygaid yn wlithog, fel y bydd gwrywod, cefais olwg ddadlennol ar ei bigogrwydd. Rown i'n teimlo trueni ofnadwy drosto. Sylweddolwn mor archolledig fu ef, mor archolledig yw ef. Rywfodd bu'n preswyllo yn Strailia a'r un pryd yn Limerick. Wyt ti'n gwybod am brofiad felly? Nid tan ar ôl iddo ddod yn ei ôl o Gymru, wedi dy weld di yr un poerad â'i fam, ond yn ei wrthod ef, y llwyddodd o'r diwedd i fod yn John Shaw ac i raddol ailymaflyd yn yr hunaniaeth a fu'n eiddo iddo cyn colli'i fam. Newidiodd ei enw'n ôl. Mabwysiadodd O'Vergall. Wyt ti'n gallu deall peth felly? Adroddai hyn oll wrthyf — bu wrthi am oriau — ac yna diolchodd i mi. Am beth, doedd gen i ddim clem. Efallai'i fod ef wedi llenwi'i gyfanrwydd wrth wacáu ei gwd, fel dau hemisffêr yn asio wrth ei gilydd ar un glob ac yn darganfod ei gilydd — hylô, fel 'na, — dwy afon yn ymgolli i'r un môr yn un Aber, fel dwi'n dy gofio di yn sôn am rai afonydd yng Nghymru, Cleddau a Chleddau, Dwyfor a Dwyfach, Gwendraeth Fach a Gwendraeth Fawr, Rheidol ac Ystwyth. Beth bynnag, cyn iddo fynd yn ei ôl i'w gut neithiwr (neu'r bore 'ma yn hytrach), gafaelodd yn fy nwylo a'u gwasgu. Dotiai fel yna am hanner munud, yn drist. Beth yw ystyr hynny oll,*

*Helen fach, does gen i ddim llefeleth. Beth bynnag, tybiais y dylwn sgrifennu atat. Credaf fy mod wedi bod yn gysur o fath iddo. Efallai imi lenwi bwlch iddo am dro. Mae clustiau hefyd yn gallu peri hoffter efallai: chustiau gwrandawgar dwi'n feddwl.*

*Llawer o gariad,  
Alis*

19

Wedi iddi ddod ati'i hun yn ei chynefin naturiol yn Hemisffêr y De, dechreuai Maxine ail-fyw, os byw yw codi yn y bore. Roedd ganddi o leiaf bellach lwybr tarmacedig i'w droedio. Roedd hi'n nes i ganol y ddinas. Roedd hynny'n fanteisiol. Roedd y gorwelion yn y fan yma'n llai llychlyd. Daethai'n ôl i ailgydio mewn patrwm anarferol o normal. Trigai hi bellach o fewn ergyd carreg feddal i'w ffrind Mair. Beth arall oedd mewn bywyd?

Gwerthasai'i hen dŷ; ac ynghyd â'r tŷ, rai o'r atgofion. Roedd y rheini'n ddigon rhad: methai â dod o hyd i rai ohonynt. Sylweddolai mai anadliadau llwyd a chwythai hi yma mwyach, heb ddim arall, y rhain fyddai'i bywyd beunyddiol. Ar ben roedd y breuddwydio anghyfrifol gynt. 'Ddiwedd synnwyr, wele ffarwél.'

Synnwyr! Crynodd wrth ddeintio'r fath air.

'Hyn heb ddim arall,' meddyliai.

Dyma bendantrwydd ar gerdded felly, ar gerdded gyda'r amser. Yma yn Awstralia y câi fwynhau'i buchedd ryddieithol o hyn ymlaen. Gwyddai i'r dim sut y byddai honno'n cael ei darllen, ie yn llythrennol heddiw, ac am weddill ei hoes. Rywfodd ynghynt doedd hi ddim wedi llwyddo i gau llyfr cynnil ei chanol-oed. Gwnaeth hynny bellach gydag arddeliad sobr.

O ganlyniad roedd pob peth yn addawol ac yn anaddawol. I bob golwg, agorai dudalen newydd sbon, heb fod yn or-afaelgar. Ac wele hyd-ddo bobl newydd, ffyrdd newydd, digwyddiadau newydd, ar yr un hen gyfandir. Eto, rywfodd hefyd, o'r diwedd, braidd yn rhy newydd oedd posibiliadau'r plot mewn cynefin rhy gynefin.

'Hyn heb ddim arall.' Roedd hynny o leiaf yn glir. Digon o amser rhydd.

Ond rywfodd, er gwaetha'r goruwch-benderfyniadau, daethai hi'n llai bywiog. Syrthiai'r misoedd amdani fel amdo, heb sylwi'u bod hwy'n arafu mwyach. Suddai fesul modfedd i batrwm o fodloni ar rigol. Drosodd roedd y ffrwythlondeb cynt, ddydd ar ôl dydd, ganrif ar ôl cyfarwydd ganrif. Sychid ei breuddwydion megis lleithdir mewn diffeithwch. Dyma'i byd. Doedd ganddynt mwyach ddim gwreiddiau. Ond nid digon o hamdden.

Hiraethai am y cipolwg hwnnw a gawsai yn ddiweddar ar ddimensiwn mwy grasusol. Ond ciliodd hyd yn oed hynny eto am ychydig. Doedd ganddi ddim ysbryd hyd yn oed.

Un tro bob chwemis y byddai hi'n profi breuddwyd erbyn hyn. Roedd honno'n fath o ailchwarae hen ffilm yr ymerawdwr dros y môr. Ond bellach, roedd hi'n fwy eidetig am fod yr ymerawdwr hwnnw wedi dod yn fwy lleoledig ac yn berson ffeithiol mwy penodol. Ymddangosai'n fwy anghyraeddadwy o'r herwydd. Dyfal donciai'r freuddwyd hynafol honno, funud ar ôl munud fwyn, awr ar ôl mwynaid awr, drwy dwneli'i chwsg ac ar hyd coridorau'i hiraeth. Ac yna, stop. Bu farw honno hefyd, y freuddwyd (hynny yw). Roedd wedi cilio. Ac wrth adael iddi gilio lladdasai Maxine bob breuddwyd arall a allai fod. Gymaint fu'r enciliad nes bod ganddi ymdeimlad ei bod hithau hefyd wedi peidio â bod.

Hyd yn hyn buasai'n canlyn yr ymerawdwr hwnnw yn ddyfal ffyddlon. Yn awr am y tro cyntaf, wedi ymwrthod ag ef, roedd hi fel pe bai wedi ymwrthod â breuddwydio fel y cyfryw. Dichon fod bywyd newydd yn ei hanes wedi gwawrio. A diolch am hynny.

Un diwrnod hir, safai yn y ffenest fel cleren las a oedd wedi disgyrchu o'r goleuni i'r gegin. Ni ddaethai yno yn fwriadus i wylid dim, dim ond i guro'n ysgafn ar y tipyn gwydr. Eto, er ei gwaethaf ei hun, gwylid o'r byd hwnnw o'r tu allan i'r gwydr a wnâi, tan edrych i mewn. Gwawriodd arni'n sydyn: — am y ddwy hen ferch gyferbyn a ymddeolasai bymtheng mlynedd yn ôl, a'r ysgolfeistr a'i wraig y drws nesaf iddynt, hwythau hefyd wedi ymddeol, a'r gŵr gweddw a ddychwelasai o Seland Newydd, a'r perchen papur-newydd a oedd wedi ildio'i le i'w feibion, ac ymlaen ac ymlaen — mai hen bobl ddarfodedig fewnblyg oeddent oll yn eu saithdegau. A hi. Byw roedd hi mewn cymdogaeth geriatrig, yn Awstralia, mewn hen fyd bychan crin ar gyfandir newydd a oedd heb ddysgu byw yn ifanc, hyd at y dyfnderoedd hen.

Wrth gwrs, golygai hynny eu bod oll gymaint yn fwy 'aeddfe'd', fel y dywedir am bobl ddiddrwg ddidda. Celfydd o ddof oeddent hefyd, ond eu bod heb sylweddoli hynny. Cofiai fel yr oedd hi wedi penderfynu gynt nad ildiai byth ei gwylltineb meddwl i neb. Ond 'lwyddodd hi ddim i gadw'r adduned yn ddigon hir chwaith.

Dichon mai hen bobol yn unig a allai fforddio morgeisiau tai mewn cymdogaeth o fath hon. Dichon mai hen bobol yn unig a fynnai'u fforddio, ta beth. Ac yn y bôn, dichon mai henoed bellach oedd biau'r holl gyfandir ifanc mwyach. Ieuenctid oedd y sŵn; yr henoed oedd y sylwedd.

Pe dilynid hi mwyach i'r manau distaw yn ei buchedd, fe ellid ei chanfod o bosib ar ei

gliniau'n chwynnu ambell waith, eithr tan syllu yn achlysurol i mewn i'r pridd yn ddiddelwedd, heb dynnu'r un chwynnyn sengl am awr bwygilydd rhag ofn gwneud niwed iddo. Neu gwelid hi ar dro yn araf ddringo'r grisiau, gan grwydro'r lloffydd o'r naill i'r llall heb wneud dim yno ond crwydro i ffroeni'r awyr yn syrffedus, nes na allai lai na siarad mewn ambell gornel mewn modd fel na allai ond gwyfyn ei chlywed.

A syrthiai'r gaeafau hwythau amdani fel amdo. Un, dau, tri. Methiant breuddwydiol ffôl oedd hi fan yma bellach. Un cynnig a gawsai erioed gan y llaw anweledig gynt. A'i gwrthod a wnaethai. Ddylai hi erioed fod wedi ymadael ag Awstralia. Dyma hi'n ôl yn arogli awyr Hemisffêr Ddeheuol a'i chael yn boenus o normal i'w ffroenau blinedig llwyd.

\* \* \*

Drwy ddamwain od o hyfryd a sleifai ar ei gwarthaf — un o'r math hwnnw o ddamwain a allai ddigwydd mewn nofel efallai; ond byth, ni buasai byth yn ei disgwyl mewn buchedd go iawn, — dyma hi'n cyfarfod ar ganol croesfa bedestriaid â Charles neu Thomas, neu bwy bynnag — Pearse. Ei chyn-wr dieithr o anghredadwy. Chwarddai'r ddau'n llaes, fel ped adwaenent ei gilydd, fel pe baent yn bod o'r diwedd. Troes ef a cherddetian yn ôl gyda hi at y palmant y cychwynnai hi oddi wrtho. Cawsant le cornel mewn coffe cyfagos. Chwarddent eilwaith. Roedd yn brofiad trist. Yng nghwrs y sgwrs nerfus dyma ef yn crybwyll ei fod mewn cawdel ar y pryd oherwydd fod ei gynorthwywraig hynaf wedi gorfod cymryd egwyl mamolaeth a hithau'n bump a deugain oed. Chwarddasant. O fewn deng munud roedden-nhw uwchben paned nid yn unig wedi trefnu i Faxine ymgymryd â'i hen swydd, dros dro, ond yr oedd ef hefyd wedi'i gwahodd hi i'r tŷ i gyfarfod â'i wraig; ac yr oedd Maxine hithau wedi sobr adrodd wrthynt rai o'r anturiaethau a ddaethai i'w rhan yn y cyfnod diweddar, a'r fath le oedd Cymru a'r anifeiliaid a'r coed a dyfai yno, wedi'u brodio ychydig bach lleiaf mae'n wir, ond nid yn fwy nag y disgwyliasai neb. Buont yn chwervthin am y peth.

Doedd dim chwervder.

Drannoeth, o naw tan bump roedd hi'n ôl yn ei gwaith, yn wirfoddol. Dros dro, meddai. Roedd yn barchus drachefn, yn anrhydeddus, — hyd yn oed yn llwyd. Roedd hi'n ôl yn bendant yn Awstralia ac yn llond ei chroen o'i phethau. Roedd yr hunllef hen ac estron ac anghredadwy drosodd. Gallai fyw yn awr wrth ddesg. O naw tan bump fel pawb sylweddol hir, gallai ymbalfalu tuag at normalrwydd mawrhydig i'r graddau hynny y gallasai Maxine byth fod yn normal, o ddydd i feunyddiol ddydd, o wythnos i dangnefeddus wythnos.

Syrthiai'r canrifoedd amdani fel amwsg cofgolofn ddymunedig ar sgwâr ei bywyd. Tebyg mai fel hyn y byddai hi mwyach yn derfynol.

Efallai...Ysgatfydd... Oni bai bod Helen ar gael!

Helen oedd yno ar y ffôn. Cyn i Maxine gychwyn i'r Swyddfa yn y bore.

'Wel am syndod braf,' ebychai Maxine. 'Helen! Sut hwyl sy?'

'Len sy.'

Safai Maxine. Trodd y tudalennau dan ei llaw yn eu hôl dan gorwynt. Rhedai ffrwd ar draws gleiniau'i chefn.

Len!

Trôi'r presennol newydd sad sefydlog yn fwy o gorwynt yn ei meddwl yn sydyn: Mair a Charles ac Awstralia a phegwn y De. Yn awr roedd ei swydd a'i normalrwydd a'r canrifoedd oll yn angof: troent hwythau fel pwll dro oll dan ei llaw. Cwmpodd Cymru amdani. Ble'r oedd hi? Beth oedd hi'n 'wneud y fan yma? Len!

'Beth?'

'Yn wael. Yn wael dros ben. Y pla. Aids. Mae'r peth wedi datblygu. Mae ef mewn poen. Rown i'n meddwl y dylech chi gael gwybod.'

Tair blynedd ar wahân, a hyn oedd pen draw'r rhigol.

Rhoddodd Maxine y ffôn yn ei ôl fel arch yn ei dwll daearol yn benderfynol. Newidiodd yn benderfynol ei llopanau am esgidiau. Gwisgo ei chôt yn benderfynol. Troi'r gath allan i'r ardd. Troi'r dŵr bant. Diffodd y thermostâd. Diffodd y gwresogyddion. Nodyn i'r dyn llaeth. Nodyn i fachgen y papurau. Ffonio'r swyddfa. Ffonio'r llythyrdy. Cloi drws y cefn a'i folltio. Mynd allan drwy ddrws y ffrynt. Cloi drws y ffrynt. Cyrchodd i'r gymdogaeth agos i weld Mair.

'Dwi'n mynd, Mair.'

'Mynd! Wyt. Pryd?'

'Yr awyren gynta ga-i. Gofala am y gath.'

'Dwi wedi bod yn ei ddisgwyl.'

'Fe yw f'ysgyfaint i: fe sy'n f'anadlu i.'

'Dwyt ti erioed wedi dod yn d'ôl yma mewn gwirionedd.'

'Na.'

'Wnaiff-e ddim dy briodi di, a dyna ni ... oherwydd ... nid efô 'fyddet ti'n briodi.'

'Na. Efallai. Ond does dim pwrpas heb ddyfodol,' meddai Maxine. 'A gobaith amhosib

yw dyfodol heddiw. Dyna'r lle mae *yntau*'n sefyll hefyd.'

'Rhamantu rwyd ti.' Gwenai Mair yn glên.

'Iawn. Peth felly yw bod yn gyfan. Dwi'n breuddwydio bob dydd 'mod i'n gallu breuddwydio. Nid baw a hoelion yw peth felly. Ond gobaith hefyd. Dychymyg... Yfory.'

'Rwyd ti wedi llunio rhyw fath o ddelwedd ohono, Maxine. Dyna'r gwir. Ond rwyd ti'n gwybod hynny. Mae honno'n bell iawn oddi wrtho fe. A honno yw dy gariad. All-e byth mynd i gwllwm felly. Ond mae'n ddyn da.'

'Ydy. Ie, fe yw'r ddelwedd, iawn, ond y mae i bob delwedd ei sylwedd llythrennol hefyd. Rŷn ni i gyd yn fwy cymysg nag y tybiwn i gynt.'

'Mae'r realiti fan yma o'r diwedd wedi mynd yn rhy afreal iti. Mwgwd yw'r cwbl erbyn hyn.'

'Ydy. Mae'r dychymyg hwnnw hefyd yn rhan ohono-i. I mi, mae hynny'n fwy gwir ac yn fwy real.'

'Yn y pen draw,' meddai Mair yn brudd, 'mewn priodas, fel ymhobman arall, mae yna chwithdodau. Rŷn ni'n byw mewn cymysgfa. Os byw hefyd. Un o gelanedd marwanedig yr ugeinfed ganrif yw priodas. A dyw hi ddim tamaid o help i neb ymdroi mewn breuddwyd felly yn rhy hir.'

'Ond mi all yr hyn 'elwi *di*'n realiti yn yr hen Awstralia fod yn ddifywyd, yn oer, yn fathemategol. Mae hyn hefyd yn afreal i ni.'

'Na,' mynnai Mair. 'Ffaith. Mae e'n ormod o ffaith. Ond y ffaith yn afreal i bawb ohonon ni.'

'Ond ffaith sy'n darfod. Dychmygol yw pob gorffennol newydd fu hyn. Alla-i ddim mynd yn ddigon clau. Dwi eisiau priodi'r cwbl ohono fel y mae, y ffaith, y freuddwyd, yr anobaith dynol a'r gobaith hen, y cwbl. Priodas fawr yng Nghymru. Dwi'n mynd.'

'Ond fydd dim dathlu am byth. Cofia hynny. Mae peth felly'n diflannu mewn tusw o fwg.'

'Dwi eisiau priodi'r mwg hefyd. Dwi'n mynd. Ti nawr sy eisiau f'atal i, Mair. Mae hynny'n annheilwng.'

'Nid fi sy'n dy rwystro di o gwbl. Ond cofia: yn y diwedd rhaid inni i gyd gofio bod 'na realedd.'

Arafodd Maxine. 'Nid y freuddwyd yn unig yw hi y tro hwn. Ond y bwlch. Ei fwllch e a'm bwlch i. Y ffaith sy'n darfod. Yn wir i ti, dyna'r unig reswm dwi eisiau mynd. Y bwlch

'adewais i. Dyna'r ffaith. Paid a'm rhwystro i. Pobl yn ni i gyd, sy wedi'n geni mewn bwlch.'

Cydiodd Mair yn ei dwylo. 'Dwi'n deall o'r diwedd, Maxine. Dwi'n gwir ddeall dy awydd di. Ac mae'r cymhelliad y tro hwn yn gwbl gywir, fy ffrind annwyl annwyl i.'

'Mi ddo-i'n f'ôl, — yma — ond does gen i ddim affliw o syniad pa bryd. Gyda'r ffaith mae'n rhaid imi fod mwyach am ryw ychydig.'

'Wel, wrth gwrs. Dyna yw cariad.' Edrychai'r ddwy ar ei gilydd fel petaent yn ffarwelio â bywyd.

'A dwi am weddïo *gydag ef*,' meddai Maxine gyda therfynoldeb annisgwyl.

\* \* \*

Dychwelyd i Gymru a wnâi Maxine, megis i wlad dywyll a ymladdai'n bur gwla yn erbyn y golau. Dychwelyd i Gymru, mewn math o gerbyd breuddwydiol i ddechrau, wedi dadrithio'i dadrithiad am y wlad honno.

Eithr nid heb sylweddoli maint ei cholled ar hyd y bedlam yr ymadawodd ag Awstralia. Cydnabyddai fod y fenyw a ddaethai'n ôl i'r wlad fawr honno ychydig o flynyddoedd ynghynt wedi dychwelyd yn fwy arwynebol nag y dylai fod. Ond doedd hi ddim yn barod i ddiarddel honno mwyach. Dirmygai'i ffolinebau a'i delwedd flêr, ond gan wenu am ei phen. Fe afaelsai o'r newydd yn Awstralia, mae'n wir, fel pe bai'n datrys pos. Aeth hithau'n bôs ei hun. Bellach, doedd hi ddim yn grac fod rhagluniaeth wedi'i harwain yn ôl i Awstralia dros dro. Cawsai gyfle yno i edifarhau. Cawsai gyfle i ofyn am faddeuant gan ei chyn-wr, a chan wraig hwnnw. Gan Mair. Gan Menna hyd yn oed. Gan Awstralia oll. Roedd rhannau yn y cylch cyfan wedi dod yn ôl i'w lle. Cawsai ei chyn-wr yntau hefyd, ofyn am faddeuant ganddi hi. Cawsai hi gyfle i ailgydio am y tro mewn swydd helpfawr ym mhrif swyddfa ei chyn-wr. A bu'n ddiamheuol lwyddiannus unwaith eto yn y fan yna, ac yn gymorth nid di-arwyddocâd iddo am dro byr. Gweithredu symbolaidd oll oedd hyn efallai.

Cawsai felly ymddiheuro i hemisffêr gyfan ar ran hemisffêr gyfan.

Yn awr, datodwyd yr hen drafferthion. Datodwyd ei bywyd. Roedd ganddi alwedigaeth fwy terfynol. Dechreuai hi ddychmygu'r siwrnai o'i blaen a sobrach trywydd.

Pan gyrhaeddai'n ôl maes o law yng Nghymru, gwybyddai Maxine mai ofer fuasai'r siwrnai hon yng ngolwg pawb yno. Ond fyddai dim ots. Ni byddai'n gwbl sicr sut y câi afael ar Len. Eithr fe'i câi'n ddiymdroi. Sut yr ymagwedda ef? Byddai'r dyn wedi cilio o'r ardal mae'n siwr i ysbyty llai diarffordd. Gallai hi holi Helen. Na, meddyliai, doedd hi ddim am

gyfarfod â neb arall am ychydig o ddiwrnodau. Dim ond Len. Pobol, nid pethau, fu'r gelynyon erioed, yn enwedig yn elynion i Len: perthnasau, cyfeillion, aelodau. Wrth symud o'r naill i'r llall ni chawsai yn unman nac un amser fawr o atgyfnerthiad. Ni allai ddibynnu ar neb. Roedd yn dal yn argyhoeddedig y byddai ef bellach, yn ddealladwy, wedi ffoi'n lân o'r ardal. Fe gâi hi afael arno ar ei hunion er hynny, ei hunan. Mewn tref gyfagos? Heddiw, câi. Troi'i meddwl o gwmpas ail gyfarfod breuddwydiol. Yr oedd hi eisoes yn breuddwydio'r anweledig, yn cnawdoli'r niwl.

(Fi sy 'ma, ... , Maxine. Menyw ydw-i heb yr un rhinwedd ond 'mod i'n eich caru.)

Ataliai'r pendroni. Tybed onid callach wedi'r cwbl fyddai cael gafael o leiaf ar Helen? Ar unwaith. Hi a fynasai'i gwysio yno. Hi a wyddai'i hanes diweddar ef. Ond beth oedd perthynas y ddau erbyn hyn? Tybed a fyddai honno'n barod i gydweithredu ymhellach na rhoi gwybod yn ffeithiol dros y ffôn? Roedd hi'n ei ofni, dyna'r gwir.

Taranai'r cwbl drwy'i meddwl mwyach wrth iddi gasglu'i ches at ei gilydd.

Heb iddo ef adael cyfeiriad iddi, heb ymgysylltu â neb, byddai Len o bosib wedi chwalu'i drywydd rhag i neb ei ddilyn. Onid llithro allan o'i falchder ei hun, allan o'r capel, o'r pentref, o'i bywyd hi, onid dyna fysai'i nod ...? Mynd o'r neilltu i ymdawelu a darfod mewn cornel? Beth oedd arni? Byddai'n rhaid iddi stilio Helen wrth gwrs. Yna, âi ymlaen at Len. Doedd dim osgoi Helen.

(Fi yw Maxine. Dwi wedi dod.)

Ble mae e?

Gwyddai Maxine ymlaen llaw i Len gael ei ddiarddel i bob pwrpas ac yn gwbl answyddogol o'r capel, hyd yn oed os mai drwy embaras neu amryfusedd y bu; a phendronasai ai ystyr hynny oedd ei esgymuno o'r gymdogaeth. Beth oedd ar bobol? Dywedwyd hynny wrthi ar ôl iddi ymadael, ond clywai hefyd ei fod yn dadlau nad oedd dim bai arnyn *nhw*.

(Dyma fi wedi dod. Dwi wedi rhoi'r gorau i'r breuddwydio mwyach. Dwi'n addo. Mae'r dyddiau yna drosodd, Len. Cymer fi, derbyn fi.)

Dyna'r modd y pendronai hi ymlaen llaw.

Cafodd ei thocyn. Roedd hi ar ei hawyren. Nid diddanwch ffuglenol gan y Dwyrain Canol a geid y tro hwn. Dim tân gwyllt. Dim syrcau. Dim drylliau. Cafwyd taith hwylus o anniddorol i Heathrow. Bu hi mewn trênn anniddorol wedyn. Rywsut yn ôl yr oedd hi; wele hi'n ôl yn Llanbiblig yn gwbl ryddieithol anniddorol.



Roedd hi'n bwrw glaw.

\*

\*

\*

Pan gyrhaeddodd, chwenychai barhad i'r tipyn anniddordeb hwn, chwenychai ymdroi, methai â dod o hyd i ysbyty Len yn ebrwydd. Er mwyn cyrchu ato, yr oedd ganddi lwybr mwy trofaus. Brysiai i dŷ Helen. Dyma gyfle i bledio'i hachos. Achos? Sut y gallai Helen ei deall hi? Roedd hi'n nerfus.

'Mi allai fe ... fychanu fy serch,' cwynai Maxine.

'Lol. Dwi erioed wedi'i weld e'n bychanu neb na dim.'

'Gallai.'

'Mae yntau hefyd yn syml ei serch,' datganai Helen.

'Dych chi byth yn credu y gall e 'ngharu i am yr hyn ydw i?'

'Gall, dyna'r unig ffordd. Pam dych chi'n gofyn?'

'Dwi'n methu â dianc.'

'Rhag beth?'

'Rhag cymhlethdod 'y mreuddwydion. Mae'r hen bethau'n gwneud dwli o fywyd.' Ymddangosai Maxine mor ddiymadferth gerbron Helen nes i Helen ymdeimlo'n aflednais o athletig. 'Dwi'n tueddu i ddelfrydu popeth,' ebychai Maxine.

'Dim ond ichi fod yn Maxine, mynd yn eich angen, yn eich gwiriondeb ... Ewch fel yr ych chi.'

'Fy angen i?'

'Dim arall.'

'Fel hyn?'

'Fel neb arall.'

'Allech *chithau* ...?'

'Beth?'

'Egluro iddo. Codi fy ochr i. Pleidio'r achos rywsut. Esbonio iddo ymlaen llaw, ymddiheuro drosto-i. Dweud 'mod i wedi bod yn wirion. Mae pawb yn gwneud camgymeriadau.'

'Ewch chi. Nawr. Mae e'n barod.'

'Does gen i ddim hyder.'

'Mae hynny o'ch plaid chi.'

'Sut?'

‘Maxine, does dim byd y galla-i ’ddweud ’all gystadlu â’ch angen chi. Ewch. Mae gynnoch chi fwy o botensial i garu na phawb ohonon ni gyda’n gilydd — Mair, fi, Len, pawb. Mae ’na gariad mawr ’da chi draw ’na rywle.’

‘Dwi am weddio *gydag ef*. Dwi ddim am iddo deimlo trueni.’

‘Rhywbeth i’w garu yw angen. Ewch yn hollol ddihyder fel yna, yn gyfan gwbl ddiymadferth, â’ch dwylo’n gwbl wag: gallech chi ennill y cwbl wedyn. Ewch, ferch.’

‘Wyddoch chi, Helen: chi mae’n garu.’ Syfrdanwyd Helen. Ond roedd Maxine yn bendant am fod yn onest. ‘Bues i fel malwoden cyn sylweddoli hynny’n llawn. Ond mae’r teimlyddion erbyn hyn yn cyhoeddi’n ddigon croyw imi: caru -- chi mae’n garu. Credwch chi fi. Sylwais i ar yr arwyddion o’r dechrau.’

‘Dwli. Rwtsh. Sothach.’

‘Dych chi ddim wedi synhwyro’r ffordd ...?’

‘Pa ffordd?’

‘Wel! y ffordd mae’n delwi arnoch chi.’

‘Does dim ffordd... Colig. Dyna sy arno fe.’

‘Ie ...’ Crwydrai meddwl Maxine i lawr ar frys at goesau’r ferch o’i blaen. ‘Mae rhywun fel chi yn meddu ar apêl go gyhyrog i ddyn.’

Syfrdanwyd Helen eto. Roedd y gosodiad, digon difeddwl ac uniongyrchol ac anniplomatig o du Maxine, bron yn greulon. Yr *oedd* yn greulon ac yn nodweddiadol ddifeddwl. ‘Fel fi! Ai dyna’r cwbl sy gen i?’ Teimlai’n ddig at Maxine.

Ond âi honno yn ddifeddwl ac yn nerfus benderfynol yn ei blaen. ‘Maddeuwch imi. Ond,’ parhâi Maxine, ‘man a man inni gyffesu nabod Len. Chi mae’n garu. Chi ... Dych chi ddim wedi sylwi ar y modd mae’n goleuo wrth fod ar eich pwys chi. Pan fydd e’n cyffwrdd â chi’n ddamweiniol, dych chi ddim wedi sylwi ar guriad yr adenydd? Yr awydd i hedfan. Atoch chi mae’n cynhesu, Helen, nid ata i. Credwch fi.’

‘Amhosib.’

‘Does dim dwywaith. Dyna pam na allwn i fynd ato’n syth heddiw.’

‘Yna, does gynnoch chi ddim gwir adnabyddiaeth te. Dim clem. Wyddoch chi, Maxine, pe bai e’n gorfod dewis rhyngon ni’n dwy, dewis heddiw, neu ddoe, neu yfory, o’i wirfodd glân, dewis, — oes gynnoch chi unrhyw amgyffred ar bwy y disgynnai’r coelbren, wyddoch chi rywbeth amdano fe, p’run ddewisai fe? ... Atebwch yn onest.’

‘Fi?’

‘Chi yn holl arswyd hardd y bydysawd.’

‘Ond sut? Pam?’

‘Mwy o angen o lawer. Mwy cloff o beth wmbredd,’ meddai Helen. ‘Len yw Len. Mae’n gallu gweld. Nid tosturi yw hyn. Dyna ran hanfodol o’i gariad ... Ewch fel yr ych chi.

‘Allwn i byth.’

‘Dyna’r unig ffordd ... Heb ddim arall. Ewch ato fe, ar eich union fel yr ych chi. Yr angen sy ynoch chi yw ei angen e.’

‘Byddai hynny’n chwithig.’

‘Mae’n llesol i’ch balchder ... Mae e’n mwynhau’ch caru chi. Mae e’n nofio’n braf y foment yma yn yr annibendod i gyd. Cerwch y gwirionyn. Cerwch....’

## 20

Felly y bu i Maxine gyrraedd y Gymru hon. Felly yn y fan yna yr ailddarganfu Helen. Wedyn Ysbyty Caerafon. Wedyn ystafell Len. Wedyn yno roedd hi. Nid oedd yn siŵr sut. Ni allai olrhain y camre oll. Wedyn roedd y cwbl wedi digwydd fel pe bai yr ochr arall i’r wybren. Wedyn, fe’i clywai’i hun yn siarad.

‘Len!’

‘Sut?’

O’i flaen, yn ei fryd ef, roedd hi’n ddynwarediad nid cwbl aflwyddiannus o ryfeddod. ‘Len, dwi wedi dod.’ Roedd hi wedi dod adre.

‘O ble?’ Edrychai ef arni’n ddieithr wanllyd megis ar greadures newydd. Creadures newydd oedd hi. Roedd hi yno, yn blaned anhysbys arall. Tybed a oedd yna olion bywyd arni?

‘Dwi yma, gyda chi.’

‘Ddylsech chi ddim.’

‘Ond beth arall?’

‘Pam?’

‘Chi.’

‘Hyn ...’ protestiodd ef yn llesg. ‘Mae’n rhaid i bawb wneud yr ymarferiad hwn rywdro. Dyma sy gen innau erbyn hyn.’

‘Dwi yma, Len. Ga-i edrych arnoch chi â’m llygaid cryn.’

‘Llygaid daeargryn, ddwedwn i. Does dim byd gwreiddiol yn y tipyn cyrch hyn sy o’r blaen i, Maxine. Mae ’mryd i eisoes ar bryd rhywun rhagorach na ni’n dau.’

‘A finnau gyda chi.’

‘Does dim baich. Fe gawn ni fod gyda’n gilydd.’

‘Aids sy arna-i, lond ’y mherfedd, ferch. Miwsig yr ugeinfed ganrif. Aria wen y gwacter. Neu symffoni bengaead.’ Roedd ei lais yn llesg.

‘Dwi’n gwybod y cwbl.’

‘Cryndod o’n cyfnod, wedi’i sgrifennu ar ddiwedd ei chwedl hir-alaethus: amddifadrwydd, y pwrpas wedi’i ddifodi’n dwt. Dyna sy gen i. Lond nihiliaeth yr hunan unig a greais i.’

‘Ond mi fyddwn gyda’n gilydd, Len. Ti. Fi.’ Ti, ddwedodd hi. Roedd hi’n ei dio.

‘Nid *unig* mohono-i byth ’nghariad i. Nid dyna’r broblem,’ meddai ef yn fusgrell. Mae’r lle acw, mae’r lle ’ma eisoes yn orlawn, diolch i’r drefn.’

‘Nid d’unigrwydd di sy mewn golwg. Ond f’unigrwydd i.’

‘Dwi’n teimlo’n drybeilig o flinedig. Dyna sy waetha. Dyw’r chwyddiant yn y chwarennau, dan ’y ngheseiliau, yn ’y ’ngwddw, yn fawr o beth, na’r dolur rhydd diderfyn ’ma chwaith. Ac o ran colli pwysau, rhyw bymtheg pwys mewn deufis, wnaiff hynny ddim ond lles os ydw i’n mynd i rasio ar draws cymylau. Ond yr hen wendid blinedig ’ma, dyna sy. Mae’n tueddu i ysigo’r ras.’

‘Gall hynny fod yn fantais,’ sibrydai hi.

Agorai ef ei lygaid wrth y tipyn doethinebu hwn. ‘M!’ cytunai.

‘Diolchwch am wendid.’ Roedd hi’n ôl gyda’r ‘chi’, ond datgan yr oedd hi i bawb.

‘Rwyd ti’n hardd, Maxine,’ meddai ef yn sydyn; ac yna caesai’i lygaid, ac roedd ei wyneb esgrynog main yn dangnefeddus fwyn. Roedd yna smotiau pinc a phorffor wedi ymffurfio ar ei groen, yn arbennig o gylch ei amrannau fel pe bai ef wedi bod yn paffio â rhywun. Roedden nhw’n galed fel cleisiau neu bothellod gwaed. Anadlai’n stacato, ac o bryd i’w gilydd pesychai’n sych ac yn galed.

‘Dyna ni,’ meddai hi. ‘Cysgu rwyd ti eisiau?’

‘Prin.’ Cafwyd egwyl o dawelwch cytûn. Yno roedden nhw, y ddau gyda’i gilydd ac roedd hynny’n ddigon, yntau â’i lygaid ynghau, hithau â’i llygaid yn ei anwesu. ‘Prin,’ meddai ef eto. ‘Fyddai unrhyw freuddwyd ddim yn cystadlu â’r ddiriaeth hon.’

‘Roedd hyn oll eisoes wedi’i arfaethu, wedi digwydd ers canrifoedd.’

‘Oedd. Ym meddwl y Mawredd ei hun,’ meddai fe. Nid oedd wedi datod ei lygaid ers tro.

‘A fi. Dod oedd rhaid, i mi, on’ d oedd? Oes golwg dod damweiniol arna i?’

Agorai ef ei lygaid yn araf. ‘O gylch y llygaid, efallai.’ Gwenai. ‘Dwi’n ddigon balch, hyd yn oed os dwi’n boendod iti. Dwi’n anghyfrinachol falch.’

‘Mi ga-i gadw llygad arnat ti nawr ta beth. Mi wela-i na wnei di ddim rhagor o ddrygioni. Fydd hynny ddim yn ddamwain.’

‘Bydd mawr angen sbo.’

‘Wnei di weddïo gyda mi, Len?’

‘Gwnaf, wrth gwrs. Mae’r croeso i ni yn selog. Caiff Ef weddïo drwom ni...’ Cydiai ef yn ei dwylo. ‘Does dim angen gofyn am ddim byd. Dim ond moliannu.’

‘Diolch,’ meddai Maxine. A phlygai’r ddau eu pennau fel petaent am wasgu holl ddiolch y Greadigaeth drwy’u bysedd am holl ogoniant bodolaeth a pherthynas, a nefoedd. Hyn oedd eu gweddi 'dywalltwyd ar y llawr. ‘Wyt ti’n credu, Len Llwyd, wyt ti’n ystyried o ddiffri ein bod ni’n dau yn agos, yn bur agos rywfodd at ein gilydd — ym meddwl y Crëwr?’

‘Ond prin dy fod di’n ’y nabod i,’ mynnai ef.

‘Pwy sy’n nabod pwy? Ga-i dy gyflwyno di?’

‘Yn frawd a chwaer siŵr o fod,’ meddai ef.

‘Sut?’

‘Ti a fi, ein hagosrwydd.’

‘Ust, dim byd nes?’ holai hi’n daer.

‘Allen ni byth fod. Ddim ar y ddaear hon.’

‘Ond on’ d wyt ti’n synied efallai, lan ’fan ’na yn Ei feddwl Ef o bosib, ein bod ni eisoes yn *dipyn* o gariadon hefyd? Yn weddol agos efallai?’

Codai ei ben, a syllai ei chwilfrydedd drwyddi. ‘Na ... Wel ... O ydyn, digon tebyg.’ Roedd ef yn gwenu fel giât. ‘Ef sy’n caru drwon ni, rhyngon ni.’

‘Ac os cariadon ... yna ...’

‘Na. Dwi’n deall beth sy ’da ti, Maxine fach. Rwyd ti’n debyg i’r fel roedd Mam yn gwmws. Yn arbennig pan wyt ti’n cynllwynio. Byth yn gallu cuddio’i hawgrymiadau. Sgidiau hoelion ar draws dychymyg rhywun. Clip-clop dros y lle i gyd. Clyw Maxine. Os ca-i fy ffordd, fydd dim rhaid iti din-droi fan yma’n hir. Cei di dreiglo’n ôl i wlad sy gallach i fyw ...’

‘Ti. Dwi wedi dod yma er dy fwyn di, am byth.’ Roedd hi wedi dod adref.

‘Mae’r byth yna’n mynd i fod wythnos neu ddwy’n fwy cwta nag arfer.’

‘Dod yma i’th feddiannu dwi wedi’i wneud.’

‘Meddiannu?’

‘Dim llai. Mae hi’n flwyddyn naid. Ac mae’n rhaid cael yr *esgob* i weinyddu’r gwarth.’

‘Na. Neb! Ddim gan Bill, yn sicr, ddim â brenhines Lloegr yn ben ar ei eglwys!’

‘Oes. Y gorau! Bydd yn achlysur ymerodrol i ni.’

‘Na. Bill? I fi, a finnau’n Annibynnwr digymrodedd! Byth!’

‘Neb llai. I’n gwneud ni’n gyfreithlon. Liciet ti fod yn gyfreithlon o’r diwedd? Yn y ffordd fwyaf seremonïol a fyddai’n briodol i Biwritaniaid.’

‘Fan yma?’

‘Cyn gynted ag y gallwn. Mor anweddus ag y gallwn ni. Y pnawn ’ma, ddwedwn ni.’

‘Rargian fenyw. Ti neu fi sy’n hel breuddwydion?’

‘Ti, neb arall ... Nawr, busnes ... Wyt ti’n mynd i ofyn imi?’

‘*Aros funud.*’ Yr oedd yn anfeidrol o lesg. Roedd hyn oll mor eithafol anweddus.

‘Dim *aros*. Dwi’n *neidio* ym mherfedd y flwyddyn hon. Does dim amser i hel dail. Busnes. Dwi wedi’i ofyn. Dwi’n disgwyl ateb. A hynny ar ddiwedd y ganrif hon, yr alaethus ugeinfed ganrif.’ Cwta oedd hi, ac yn meddwl busnes.

‘Beth?’

‘Ateb. Beth arall sy’n dilyn cwestiwn?’

‘Ebychnod, i’r math yna o gwestiwn. A thragwyddoldeb o saib.’

‘Dwi’n aros.’

‘Ond i beth, Maxine?’

‘Ateb wrth gwrs.’

‘Beth yw’r pwynt? Dwi’n gelain gorn. Wyt ti am ddringo i lawr i mewn i’*m* herthyl bedd i? Mae’r peth yn fygythiol anweddus.’

‘Fues i erioed mor anfeidrol weddus yn ’y myw.’

‘Breuddwydio rwyt ti ferch. Hen arferiad bethma.’

‘A’r ateb?’

‘Distawrwydd.’

‘Clyw. Mae’r peiriant breuddwydion eisoes wedi’i gracio, Len bach. Chei di byth glywed yr un freuddwyd arall gen i mwyach, ta faint o ddistawrwydd ’weithi di. Dim mwyach.’ O’r diwedd roedd hi’n nesáu at y ddiriaeth. ‘Mae breuddwydion ar ben. Dwi’n ffaith.’

‘Thâl hynny ddim. Cracio dy beiriant! Paid â dweud hynny. Breuddwydion? Maen nhw’n rhan o’th fod di. Byddet ti’n peidio â bod.’

‘Arwydd o aeddfedrwydd yw anghofio breuddwydio,’ meddai hi gan swancio ychydig.

‘Clyw Maxine, y sbrintreg felltennog. Cred di neu beidio. Ymbaratoi dwi, nerth ’y nhraed, fan hyn ar ’nghefn. Gogwyddo fy meddwl tuag at ’y Nghrëwr a ’Ngwardwr. Canolbwyntio. Ymgolli... Does gen i ddim cynnig, felly, i aflonyddwch. Ddim ’da ti, na ddim ’da neb... Dwi’n falch ei wala iti ddod wrth gwrs. Dwi’n gwerthfawrogi hynny’n fwy nag y galla-i byth ddweud... Ond dyma’r gwir croyw loyw: mae’n rhaid imi roi ’mryd ar bynciau eraill, yn araul, yn ymddiriedus, ar un pwnc llosg, ymwybod â’m Cydymaith anweledig. Nid Bill felly, nid Helen, nid Mair, ac nid ti fy ffrind hoff hyfryd i. Dwi’n cerdded ar hyd twnnel.’ Roedd ei lais erbyn hyn yn aflednais o lesg.

Yn ei wendid, roedd ei frawddegau’n ei chludo fel cerhyntoedd hwnt a thraw gyda rhyw wth achlysurol cryfach na dim a brofasai o’r blaen. Ceisiai hi agor ei hwyliau’i hun ond methai, a llifai’n anorthrech tua’r creigiau anwel islaw.

‘Fe gerdda i ran o’r ffordd gyda thi,’ murmurai hi, ‘yn swyddogol. Y pynciau eraill ’na sy’n egluro’r pynciau fan hyn.’

‘Hyn yw ’ngwaith i nawr te. Canolbwyntio ar y golau draw fan ’na.’

‘Paid â brysio: dyw ’mywyd innau ddim ar ben chwaith. Mae’n rhaid imi wireddu ’mreuddwyd innau gynt.’

‘Chei di ddim, Maxine, mae arna-i ofn. Dyma un na chei ...’

‘Caf,’ meddai hi eto’n sydyn benderfynol. Onid ef fu gwrthrych pob breuddwyd a gawsai hi erioed, y ffŵl hwn?

Ymdrechai Len yn awr i godi ar un penelin, chwythai a bustachai ychydig. Llithrai ei benelin dano. Ymdrechai ef yn ôl i adennill y safle. Ond rhaid oedd ildio.

Ond bu rhamant bob amser yn rhwystr ac yn eu gyrru ar wahân. Mae’n debyg bod pob celwydd, ta pa mor arwynebol neu liwgar y bo, yn tanseilio synnwyr ac yn rhwygo cymdeithas. ‘Does dim oll yn dod o freuddwydion. Dim ond rhoi pethau i mewn iddyn nhw ’wnawn ni,’ murmurai ef yn gadarn o wan.

‘Ddim gyda ’mreuddwydion i. Mae ganddyn nhw fath o annibyniaeth afreolus. A nhw sy’n rhoi pethau i mi.’

‘Mae’n rhaid iti amgyffred fod blaen y bad hwn eisoes yn trwyno i’r daith, i daith arall, yn barod i’r dwfn du, gwyn.’

'Dw innau gyda thi.'

'Clyw, Maxine. Badau undyn yw'r rhain.'

'Dau. Badau deuddyn am y tro. Dwi'n dod gyda thi, hyd at y lan gyntaf.'

Teimlent yn feiddgar gytûn er eu gwaethaf. Gwyddent eu bod yn gwrthryfela yn erbyn y relativrwydd anneallus a'r amddifadu ffasiynol a'r trais confensiynol a'r afradlonedd a geid drwy gydol canrif fu dan y fath ormes proselytio. Gwenent yno fel llanc a llances.

'Gwranda, does 'da ti na fi ddim amser i ddadlau,' meddai ef.

'Does dim byd pellach o'm meddwl i chwaith na chynnal dadl. O'i flaen Ef, Len Llwyd, 'y Nuw i a'th Dduw di, Pennaeth cariadon, dwi'n rhoi fy llw sobr nad a-i ddim oddi yma, wna-i ddim rhoi llonydd i ti, wna-i ddim cysgu na dihuono nes iti addo'n gywir yn y fan hon fod 'y mreuddwyd i'n mynd i gael ei gwireddu ar y dot y tro hwn.'

'Rwyd ti'n hardd, Maxine,' ebychai ef wrthi. 'Gawn ni aros yn ffrindiau,' meddai fe. 'Fel 'na. Dyw hyn ddim yn ymarferol, ti'n gwybod.'

'Sut?'

'Siarad am *freuddwyd* rwyd ti. Does dim ystyr i'r peth. Byddai Bill yn cyfri'r cwbl yn wiriondeb gwyllt. Does dim amser i'r peth. Ac i beth? Dwi'n ddyn marw.'

'Ddim cant-y-cant. A hyn-y-hyn y cant yn ni i gyd. Pan ei di drosodd at Frenin y Bratiau dwi am iti gael dy gyhoeddi'n wêr i mi, gant-y-cant. Dihuna, ddyn.'

'Does 'na ddim gwra na ...'

'Dyna pwy fyddi di yno wrth ddal y trêrn yn yr orsaf hon. Gwêr Maxine. Nid breuddwyd Maxine. Gwêr caled diddwli.'

'Mae gen i Oleuni cryf acw, nawr.'

'Os bydd E'n galw cofrestr, ... cei di ateb: pechadur wedi'i gadw drwy ras ... a gwêr Maxine. Hyd at y terfyn. Dyna pwy fyddi di nawr, wedi dod adref.'

'Ond na ... mae'n rhaid imi gael tawelwch...'

Caeai ef ei lygaid, ond ni chaeai hi ei cheg. 'Does dim tawelwch i'w gael nes cyflawni'r cwbl.'

'Ond Maxine, trugaredd ferch. Hegla hi, 'nghariad i. Gwely angau yw hyn i fod, nid gwely cyplu. Ac nid gwely i glebran.'

'Mae gen innau fath o fuchedd hefyd; yn gweiddi am gael ei chyflawni.'

Edrychai ef arni'n ddiymadferth. O'i phriodi, byddai fe'n gadael ei nod ar ei thalcen yn ddieisiau. Byddai hi am byth wedyn yn ddarostyngedig gysylltiedig â'i gywilydd ef. Fe'i



condemniai ef hi i berthynas â'i enw ef. 'Rwyf ti'n druenus o odidog, Maxine. Ond mae gen i briodas arall.'

Eto, pe na phriodai ef hi, beth wedyn? Onid amddifadai ef hi ar y funud olaf felly rhag cyflawni'i hiraeth, megis rhieni i filwr tan-oedran yn y rhyfel diwethaf yn gorfod rhoi caniatâd i'w crwt briodi mewn anaeddfedrwydd, cyn iddo ymadael am faes y gad, gan wybod y gallai mai dyna fyddai'r cais olaf a gyflwynai ef byth iddynt? Dyna'r rhodd olaf a oedd gan Len i'w chynnig ac nid oedd yn costio dim.

\* \* \*

Yna, gan bwyll, yn araf, hithau, ar draws y glob estynnai hi ei breichiau ato o hemisffêr i hemisffêr, o begwn i begwn. Edrychai ef yn syn. Estynnai hi allan ac allan tuag ato ef. Ac yntau ati hi.

'Maxine,' meddai ef yn blwmp ac yn blaen. 'Rwyf ti'n freuddwyd.'

'O'r diwedd,' murmurai hi'n isel. 'Diolch.'

'O'r diwedd,' murmurai yntau'n ffôl. O hyn allan byddai'i fywyd ef a hi ar ffyn baglau a ddawnsiai, ill dau ar ddi-hun. 'A fyset ti'n mentro 'nghusanu i?' gofynnai ef.

'Efallai y byswn, ac efallai na fyswn,' meddai hi.

'Wel p'un?' holai ef.

'Fi sydd i fod i ofyn pethau felly,' ceintachai hi gan gogio anfodlonrwydd.

Daeth hi'n agos ato yn awr â'i hwyneb, ac yr oedd cudyn o'i gwallt wedi syrthio ar draws ei fochgern fel seren wib. Roedd ei hwyneb fel afal-daffi yn nofio ar wyneb y dŵr mewn padell, ac yntau'n blentyn a'i ddwylo y tu ôl i'w gefn yn ceisio'i chnoi. Nofiai hi'n ôl oddi wrtho. Roedd hi'n ceisio'i gynnau ef. Ac nid oedd dim a ddymunai ef y funud honno'n fwy na throchi'i ben ymhell o dan y dŵr, a'i glustiau hyd ei wddf nes bod pob mymryn o anadl yn cael ei ffrwydro allan ar ddi-hun. A'r afal yno'n ffaith.

'Mae Duw mor garedig,' diolchai Maxine. 'Efô 'wnaeth y diwrnod hwn.'

Dechreuai hi gilchwerthin y mymryn lleiaf fel merch un ar ddeg oed. Dymunai ymddiheuro. Yn ystafell y claf roedd yna ddiddanwch ffyliaid. Estynnai ef ei law at ddrôr yn y cwpwrdd-gwely, a chwerthin ychydig, cyn belled ag y caniatâi'i lesgedd. Yr oedd ef yn cynnig perlau'i fam iddi yn awr. Wrth eu trosglwyddo i Maxine, yr oedd ef hefyd yn trosglwyddo'i fam, neu o leiaf ryddid rhag ei fam. 'I ti ac i'n plant,' meddai fe.

Codai'i chwerthin hi ymhellach, er ei waethaf, yn anwedus o groch yn ystafell y claf. Dôl nyrs i bipian ar beth oedd yn digwydd. Gwridai'n ddyfnach o'r herwydd. 'Gwell

wynebu'r Esgob rywbyrd,' meddai Maxine, 'er mwyn dy wneud yn ddynd gonest.'

Edrychai ef arni ynghanol ei chwerthin. Gwenai ef. A throdd yntau hefyd yn awr i gilchwerthin yn wanllyd. Rhoddai hi'i breichiau yn gynnes am emau'i esgyrn. A chan bwyll gwridai hi'n ddyfnach, ddyfnach.

Y tu allan i'r ystafell hon yr oedd bywyd yn pefrio. Llamai sudd drwy aelodau plant wrth chwarae. Corddai traffig. Gwaeddai'r gwaed yn labyrinthau serchog y strydoedd cefn. Llewyrchai cyfoeth iechyd effro fel meini gwerthfawr yn ffenestri'r siopau. Byd cras arall ydoedd ar gerdded. Roedd hi'n wanwyn. Ond y tu mewn i'r ystafell dawel dywyll hon, A! dyna fyd, yno fe geid golud trymach. Dau oedd yma, dyna'r cwbl. Ac roedd y ddau'n gyfanswm pur enfawr.

Ni chafwyd erioed gytundeb priodas a asiwyd hyd yn oed yn nyddiau gwerthu priodasferched, a gyflawnwyd gyda llai o ddewis rhydd. Yr oedd y ddau bosibilrwydd yn eglur ac yn syml i Maxine; ar y naill law, yr oedd *rhaid* iddi briodi, ar y llall ni allai beidio. Pa ddewis a allai fod yn decach? 'Pwy fysai'n meddwl y byddai menyw o'm hoedran i yn *gorfod* priodi?' Magwyd hi yn y penderfyniad o gael y llawenydd o fod ar y blaen i wrywod, hyd yn oed ped aberthai bob gwynfyd arall yn sgil yr ymdrech. Ac fe gollodd. Priodai freuddwyd, heb geisio ond gorchfygiad yn ystafell y claf. Ac yntau'r un modd. Ffrydiai dafnau o ysmaldod gorfoleddus drwy gorneli'u dau ymennydd.

'Chredi di ddim o hyn,' meddai hi.

'Beth?'

'Breuddwydion ... Dwi ddim yn credu imi freuddwydio un tro ers dros awr.'

'Cwilydd arnat ti ... Paid â rhoi'r gorau, er mwyn dyn. Pwy fyddet ti wedyn?'

\*

\*

\*

Cafwyd trwydded arbennig i weinyddu'r briodas yn yr ysbyty. Pan glywodd Mair ar y ffôn gan ei ffrind am fwriad Maxine a Len, roedd ei gorfoledd yn ddidwyll longyfarchus.

'Dwi'n ffonio,' meddai Maxine, 'er mwyn rhoi cyfle iti'n llongyfarch ni.'

'Rhoi cyfle, ynteu erfyn?'

'Awgrym.'

'Dwyt ti ddim yn tybied fod awgrymu o'r fath yn erfyn am gerydd?'

'Sut?'

'Sut mae Len yn ymdopi drwy'r cwbl?' holai Mair, o chwilfrydedd yn fwy nag

oherwydd dim arall.

‘Yn plygu tua’r cwlwm, ac elli di ddim amau cwlwm.’

‘Dwyt ti ddim yn synied mai gwell ei adael ym myd amheuson, a pheidio ag amlhau clymau ar adeg fel hyn?’ holai Mair yn chwareus.

‘Ar ôl y cwlwm cryf. Plant yn sicr! Gorwyrion, bobl bach.’

‘Sut mae Len te?’

‘Yn ddiiddig o wan yn ystafell y claf.’

‘On’ d oes arno ormod o wendid hyd yn oed i feddwl am betheuach fel hyn?’

‘Gormod o wendidau rwyt ti’n feddwl.’

‘Wel?’

‘Maen nhw fel medalau ar draws ei fryst.’

‘Felly, o’r gorau te, dwi’n dy longyfarch di.’

‘Eich llongyfarch *chi*. Nid ti. Ni!’

‘Llongyfarchion ‘te i’r teulu oll i gyd.’ Nid anwylodd clustiau Mair erioed y fath wên.’

‘Dyna rown i’n gofyn amdano, nid gofyn caniatâd.’

‘Chi te ... eich dau. Rwyt ti’n gwneud i’r ddau ohonoch swnio fel tyrfa aruthr.’

‘Byddin ddifedur yr Iachawdwriaeth, o leiaf, yn martsio tua’r deffro hir, a’r medalau bondigrybwyll yn fflachio yn yr awel.’

Gartref, yn Awstralia, rhoddodd Mair y ffôn yn ei nyth lond wyau, a gwên anferth yn trechu’i bochau er bod yna gorddi od o hiraethus yn mynnu lle y tu ôl i’w llygaid. Ni sibrydai ddim am ei bwriadau’i hun, ond aeth yn syth i’r maes awyr. Nid syn i Maxine ei gweld yn cyrraedd Llanbiblig dri ddiwrnod wedyn, yn llond ei gwallt o wenau a chwerthin gwynlas yn prancio dros ei hysgwyddau a’i breichiau. Bu’n gryn help i leddfu nerfusrwydd Maxine erbyn y dydd mawr.

Cafodd Mair fraw wrth weld esgyrn a chroen enciliedig Len, serch hynny. Y llygaid suddedig mawr. Y croen di-gnawd. Yn ystod y diwrnodau cyn iddi gyrraedd cafwyd bod math go brin o ganser arno, sef Sarcoma Kaposi. Ond rywfodd doedd y newydd hwnnw ddim wedi profi’n syndod iddo.

Pan gyfarfu Mair ag ef roedd e’n swil. Âi ei lygaid ar goll wrth iddi chwilio amdanynt. Âi hithau ar eu hól fel ci-defaid. Ond yr oedd ei olygon yn swatio’n ôl i ryw berth. Gymaint o esgyrn oedd yn y golwg ganddo nes bod paradwys yn dechrau sengi drostynt eisoes megis dros gerrig-sarn. Eto, wrth i rywun syllu ar Len, ymddangosai y byddai’r llwybr drosto’n o

garegog tua'r allor.

Llwyddai Maxine hithau i anwybyddu pob anhawster ac i grynhoi'i bryd ar ymbaratoi i'r diwrnod aruchel. Bu Mair hithau yn gryn gymorth yn y gorchwyl tyngedfennol o wisgo. Pansai Maxine o amgylch pawb, ymroddai, ymffidlai fel pe bai holl dynged y wlad yn dibynnu ar gael y plyg hwn a'r addurn arall o fewn cyfran o gentimedr i'r union le ar y dilledyn. Er amllder a hyd ei hymweliadau melodïaidd ag ef, yn ystod y ffwdan a'r ffair ddiweddar, ffoniodd 'Bill yr Esgob' ar ran taerineb Len o'r ysbyty i westy'r Talbot sawl tro, i holi Maxine am lwyddiant y paratoadau. Prysurdeb rhagluniaeth a feddiannai amynedd pob un mewn ansicrwydd hyfryd am ddiwrnod neu ddau. Dyma yn awr orsaf orfodol rhwng heddiw a rhyw yfory hir tesog ond golau.

## 21

Y diwrnod yn union cyn y briodas, a phawb yn colli'u lleisiau drwy gydol yr oriau ymweld, sef rhwng dau ac wyth yr hwyr, tra oedd dieithriaid trwm (ym mryd Maxine) yn llusgo'u bodolaeth luddedig heibio i waelod gwely Len fel brawddegau amlgymalog toili, eisteddai Maxine yn gynnwl wrth yr erchwyn. Eisteddai yno fel pryfyn a gurai ar ffenest, ond drwy gydol yr amser hwnnw, cysgu y bu ef ac eithrio am ryw orig chwâl yma ac acw ar draws y dydd, roedd rhywun neu'i gilydd yn gyd-bresennol yno'n wastad, ac ni châi na Maxine na Len gyfle personol i dorri gair â'i gilydd, curai'i meddyliau hi'n ysgafn ar ei ffenest ef er hynny fel glaw Mawrth, gorweddai ef yno fel clwtyn. Am bum munud i wyth, am y tro cyntaf, yn ysgafnach hyd yn oed na gwyfyn, dyma'r tywydd yn codi. Roedd y naill a'r llall o'r diwedd yn cael monopoli o ganfod ei gilydd. Edrychai Len gyda difrifwch mawr ar Faxine, ac ebychai ef yn brin ei anadl: 'Elli di ddweud y gwir wrtho i.'

Anwylai'i lygaid yn araf ei hysgwyddau, ei breichiau, yn dyner â'u bysedd gwyrdd.

Pen mawr digrif oedd ei eiddo ef, ynghyd â chorff heb fod yn gorff digon sylweddol: ychydig o gymhlethdod felly. Roedd ei olwg yn y gwely yn ei hatgoffa hi am fogsito. Wrth ei ochr, stondin lamp geometraidd tenau o groen yn dal glôb crwn o olau gwelw. Ond lamp real oedd hwnnw, fel ei ben. Pensiliau breichiau nad oedd ganddynt mo'r nerth dychymyg i sgrifennu dim. A throstynt absenoldeb cnawd fel papur saim y gellid ceisio canfod yr esgryn drwyddo. Ond stondin golau oedd y cwbl, a'r golau hwnnw yn ei ben yn awr a anwylai'i ddarpar-wraig. Goleuni oedd mewn bro arall. Yna, dihunodd ef ychydig.

Murmurai eto'n ddygn: 'Elli di ddweud y gwir?'

Crynai Maxine ychydig yn ôl ei harfer wrth dreulio'r gair chwithig hwnnw: 'Rwyd ti'n gofyn pethau mawr.'

'Ond oni elli di am un tro yn dy oes anturiaethus ymddihatru o'r rhamant yna i gyd a siarad o'r galon?'

'Rwyd ti'n gwybod pwy rwyd ti'n ymddiddan â hi, Len Llwyd.'

'Mae'r rhamantu yna yn od o atyniadol, wrth gwrs. Dwi'n gallu chwerthin. Dwi'n gallu anwylo. Ond mae gen i gwestiwn difri. Pam, Maxine, rwyd ti'n mynnu priodi hwn? Ai tosturi?'

Ni allai hi ateb y fath ymholiad ymosodol. Sut y gallai hi gwmpasu'r gwirionedd ond mewn mil o gyfrolau? 'Ti, cred di neu beidio, fy narpar-w'r, yw fy nhypyn *delfryd*. Popeth, pob un peth a freuddwydiais erioed, pob gobaith, nhw sy yn y gwely bach 'na o'm blaen i y funud yma. Mae delfryd yn beth annifyr o real.'

'Dyna'r rheswm?'

'Dim arall,' meddai hi.

'A!' ebychai ef yn siomedig.

'Dy syberwyd di, dy wareidd-dra, dyna i mi yw'r Gymru Gymraeg y bûm i'n hiraethu amdani erioed.'

'Ai dyna'r *cwbl*?'

'Nid gormodieithu yw fy *forte* i. Dwyd ti ddim yn sylweddoli cymaint rwyd ti'n ei olygu i mi. Ti biau'r ceinder a'r haelfrydedd sy'n perthyn i'r Gymru a ddylai fod.'

'Ond ... paid â bod yn fawreddog.'

'Ti yw'r ateb i bob cwestiwn. A fynna-i ddim bod yn fawreddog. Rwyd ti wedi dod allan o'r gorffennol, a chroesi'r canrifoedd chwithig o israddoldeb yn y wlad. Rwyd ti'n well na Chymru...Na, paid ag ymyrryd.'

Yna fe gafwyd saib annifyr. 'Maxine, rwyd ti'n gyfan gwbl amhosib ... Mae'n rhaid i fi dynnu'n ôl.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Alla-i byth gyrraedd uchelderau dy briodi di, Maxine wirion. Mae'n rhy real.'

'Paid â dweud hynny'n awr. Dy Oleuni di yw hynny o obaith sy gen i i ddeall.'

'Na alla, 'morwyn ffein i, rwyd ti'n priodi'r un anghywir. Mae'n rhaid 'mod i wedi dy dwyllo di. Does gen i ddim maniffesto i'r "oes a ddêl" yn dy wladwriaeth di.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Fan hyn dwi'n ei gweld hi. Gwyrdroad o foi. Hyn yw'r gwir. Roedd yr heddlu'n llawer nes ati na thi. Alla i byth dy briodi *di*. Trosiad neu beidio.'

'Ond ti yw popeth daearol.'

'Nage. Nid popeth i neb dwi. Alla-i byth gyflawni dy obaith di na gobaith neb. Hyn dwi. Hyn. Claf. Fesul un dŷn ni'n cyrchu'r Goleuni.'

'Wel?'

'Llwyd dwi. Llwyd a'i len wedi'i dynnu drosto. Dwi ddim yn cynrychioli neb ond y rhecsyn arbennig llwyd hwn. Ac elli di ddim pleidleisio dros hwn, nid dyna rwyt ti'n synied sy o dy flaen di. Efallai y bydd rhywun arall yn dy helpu, ond nid y peth hwn.'

'Ond dwi'n gwybod hyn i gyd.'

'Na, dwyt ti ddim yn gwybod hyn. Nid symbol mono-i.'

'Len.'

'Dwyt ti erioed wedi gwybod hyn, Maxine.'

'Len,' udai hi. 'Ofynnaist ti imi d'esbonio di. Alla-i byth.'

'Chwilio y buost ti ers blynyddoedd am anifail nad oedd e ddim yn bod. Unicorn. Ffenics. Methiant yw hwnnw. All e ddim trigo yn Llanbiblig. Os wyt ti'n mynd i 'mhriodi i, yna priodi methiant di-waith rwyt ti'n 'wneud, merch i, methiant a gwenwyn di-waith.'

'Len,' sibrydai hi. 'Fy Len i wyt ti, dim arall.'

'O barch at fy ffydd a'm gwybodaeth, mae'n rhaid i'r holl dwyll 'ma ddod i ben. Sbwriel... Len Llwyd, dyna ydw i. Na, na, na. Ymerawdwr pechod wedi bod yn hela haul.'

'Gwn i. Len!'

'Tyn yn ôl ar unwaith ...'

Edrychai Maxine yn syfrdanyn allanol, gymaint yn awr ar goll ag roedd hi'n bosibl i lond cwdyn o freuddwydion.... Cafwyd saib arall. 'Rho ddiwrnod arall i fi,' murmurai hi.

'Diwrnod?'

'Tan yfory,' meddai hi gan wenu.

'Dwi am i *ti* dynnu'n ôl nawr. Dy fraint di yw hi. Dwi ddim am dy sarhau drwy dy wrthod di mewn unrhyw fodd.'

'Dwi'n gwybod hynny.'

'Ond does dim rhamantu i fod, dim ymostwng i ddelfryd, dim merthyrdod na thosturi, dim trosiad chwaith, dim ond ...'

'Dim ond busnes. Dim ond setlo cownt â 'mreuddwydion. Dim ond synnwyr cyffredin,'

meddai Maxine, gyda pheth anhawster. ‘A hanes. Len! Breuddwyd yn ffaith.’

‘Mae hynny’n mynd braidd yn eithafol, on’d yw hi? Synnwyr Cyffredin ynghyd â hanes?’

‘Synnwyr cyffredin a phob synnwyr arall. Yfory. A dwi am i ti gofio un peth, Len Llwyd: fy angen ofnadwy i, y bwlch anferth yn fy mol, yr eisiau ysol. Paid â meddwl amdanat dy hun. Mi fydd yn rhan o’r ateb.’ Ond ni ddeallodd ef mo’r wên siomedig.

Carent ei gilydd yn fwy nag y sylweddolent. ‘Plyg am funud fach,’ meddai ef gan wenu.

Plygodd hi. Roedd ei gusan yn cyffwrdd â’i genau, ond nid mewn modd i’w meddiannu. Moesymgrymiad mwyn o gusan ydoedd. Roedd y ddeuddyn fel petaent wedi penlinio o fewn y gusan, ac wedi gwrando ar ei gilydd, wedi ymdeimlo ag asio myfyriol ei gilydd. Ac yr oedd ef wedi canu’n iach iddi.

Ffarwelio a wnaeth hithau, bid siŵr, yn ddidwyll; ond ffarwel ydoedd am ychydig o oriau’n unig. Daeth y wawr yn anochel o’r diwedd. Do. A gwawr oedd a arddangosai wendid corfforol aruthr Len. Rhecsyn diddim oedd ef, gweddus i sychu llawr yr ysbyty lle’r oeddid wedi cyfogi ychydig. Ni wyddai odid ddim am wahaniaeth rhwng Ydw a Nadw.

Bill o bawb oedd y cyntaf i gyrraedd, gyda’i wraig. Ceisiai godi Len ychydig ar ei eistedd. Ond roedd yn rhy wan. Erbyn i Faxine gyrraedd, yr oedd llygaid Len ynghau a’i gorff yn gwbl lonydd. Maxine a âi i mewn ato, yn ail i Bill a’i wraig Joyce, ac ar y blaen i’r gwesteion eraill ar flaenau’u traed. Syllai Bill o gwmpas yn ddiymadferth. Doedd dim syflyd ar gorff yr un hwn a oedd yn orweiddiog. Doedd Len ddim mewn stad i gofio dim o’i awgrym i Faxine y noson cynt. Roedd gwrthod yn gofyn gormod o ymdrech. Rhagdybiai’i lonyddwch fod y bod hwnnw a frysiai tuag ato o’r dyfodol, y bod a frysiai at bawb ohonom ac at Len yn anad neb heddiw, yn nes nes ato o hyd.

Roedd yn ysigol o lesg. Aeth yn ôl i gysgu.

Ni allai corff marw fod yn wannach, ‘Oeth pwynt ichi fynd ymlaen?’ holai’r Esgob yn urddasol thibrydlyd.

‘Byddai’n anwedduth braidd,’ meddai Joyce ei wraig yn fwy thibrydlyd byth.

‘Dyw e ddim yn lleth iddo’i hun.’

Codai Len ei amrannau’n llesg. Roedd yn siomedig, ac yn anfodlon ar Bill. Gwelai ef Faxine. ‘Baragón!’ meddai. Roedd ei sgwrs y diwrnod ynghynt wedi sgrialu o’r golwg.

‘Dwi yma, Len,’ meddai hi. ‘Dw i’n gwybod yr ateb. Rown i’n gwybod drwy’r amser pam dw i am dy briodi di.’ Crynai ei amrannau ychydig. ‘Dw i am dy briodi am fod yna

barhad i gariad.’ Gwenodd Len: roedd hi wedi’i gweld hi.

Cyrhaeddai rhai eraill o’r gwesteion. Ond syllent ar amrannau caeedig Len fel petaent ar ddorau bolltiedig.

‘Allwn ni ddim mynd ymlaen os nad yw’r priodfab yn dod, fachgen,’ meddai Arthur Jones gan syllu’n ddiobaith ar Len. Y Parchedig Arthur Jones oedd y gweinidog gyda’r Bedyddwyr y trefnasai Maxine iddo weinyddu’r briodas yn lle Bill am ei fod yn llai ffurfiol o bosib. A byddai ystwythder anffurfioldeb yn hanfodol. Ar ei bwys ef yr oedd ei wraig, ac yna Bertyn, brawd hynaf Len, a Bill a Joyce a Helen. Roedd Mair heb gyrraedd o hyd am ryw reswm.

Ymystwriai Len. Ciledrychai drwy agen fechan yn ymofyngar ar Maxine er mwyn archwilio’i hymateb i’w ddadleuon gwachul y noson cynt. Roedd hi’n edrych fel pe na chodasai’r un ymofyn amhosibl erioed, neu fod y byd oll yn fodlon ar yr hyn a ddwedai hi. Roedd ei wrthwynebiadau ffwdanus ef oll wedi’u datod. ‘Mae e wedi cyrraedd,’ murmurai tan fentro gwên. Ni chlywai neb.

Roedd hi wedi dychwelyd adref ato ef. Ond yn bwysicach, roeddent wedi dychwelyd at ei gilydd. Daethent i wir adnabod tawelwch ei gilydd fel y daw eraill i adnabod peswch ei gilydd. Sylweddolent yr un pryd nad oedd na’r naill na’r llall wedi bod yn gwbl fyw cyn iddynt ddod yn ôl at ei gilydd fel hyn yn y gwaelod.

‘Gwell hanner priodi na pheidio â phriodi o gwbl,’ murmurai Len, yn ddiglywed. Ac yna llewygai. Doedd dim un syflyd ar ei gyfyl. Edrychai Maxine arno’n bryderus.

‘Ydy e’n ...?’

‘Ydw,’ murmurai ef yn egwan. Ac agorai un llygad tua Maxine. Roedd hwnnw yn gyfuniad o olau coch a golau melyn: doedd ’na ddim gwyrdd yn y golwg. ‘Baragón!’ murmurai’i wên eto. Yr oedd ef mor wan â gwyfyn. Chwythai’r powdr oddi ar ei adenydd i’w ffroenau oll. ‘Ydw,’ murmurai Len eto. ‘Ydw.’

Sibrydai Len yn erfyniol ysgafn, ‘Maxine.’ Gostyngai hi ei chlust yn agos at ei geg. A pharhâi ef ei sibrdw heb fod neb ond hwy ill dau yn clywed. ‘Maxine, dwyt ti ddim yn credu’n bod ni’n ei gwthio hi’n rhy bell? Ti’n gwybod, erbyn cyrraedd fan hyn, mae tri chwarter ohono-i eisoes yn trigo mewn man arall. Alla-i ddim meddwl am neb ond Priod arall, mae arna-i ofn. Mae ’ngolygon i’n hoelio ar y golau ym mhen draw’r twnnel. Dim ond Ef dwi’n gallu’i weld. On’d ydy hynny’n weddus?’

‘Dyna sy orau.’



‘Dw-i wedi gwerthu ’nhŷ fan hyn, dim ond mân gelfi sy ar ôl. I’w rhoi ar gefn y drol doredig. A’u gadael wedyn o flaen y porth.’

‘Mewn oes fel yr un bresennol, does dim tebyg i briodas ffyddlon tan ddiwedd y prynhawn,’ meddai hi gan wenu. ‘Mae peth siawns i ni’n dau fod yn eithriadau i’r oes.’

Cydiai Bill ym mraich Maxine. ‘Ddylen ni ddim bwrw ymlaen,’ protestiai’n bropor sibrydlyd. ‘Doeth gan y dyn ddim clem beth thy’n digwydd.’ Trôï wedyn at Arthur Jones. ‘Fyddai hi ddim yn well gohirio?’

‘Tan bryd? Y flwyddyn nesaf? Y ganrif nesaf?’

‘Wel.’

‘Oes ’na rywun wŷr unrhyw rwystr,’ holai Arthur, ‘paham na allwn uno’r ddeuddyn hyn?’

Roedd corff Len yn gwbl ddisymud. Tonnai’r carthenni drosto-dano fel llyn bach hafaidd. Ymddygai’r cwbl o’i weddillion braidd yn amhriodol groesawgar, ar amser fel hyn. Croesawai hyd yn oed lygaid Maxine yn fwy nag y cyfaddefai hi.

‘Oeth’, meddai Bill wedi cael ei lais o’r diwedd, ‘pob rhwythtr — thynnwyr cyffredin, ymarferoldeb, ythtyr thylfaenol priodi o gwbl — rhyw fân rwythtrau felly.’ Teimlai’r esgob wg pawb wedi disgyn arno y funud honno, ac meddai’n ddiymadferth ac yn drwsogl: ‘Mae hyn yn amhothib. Ond ymlaen â chi.’

Dyma oedd yr amser priodol i’r forwyn briodas gyrraedd. Dyma Fair o’r diwedd yn mentro hebrwng ei hwyneb i mewn i’r ward yn betrus. Roedd hi wedi bod yn chwydu uwchben y toiled ers hanner awr cyn dod. Fel mam ddisgwylgar. Crwydrai ei llygaid dros y gwely dieithr. Codai Len un amrant yn llipa: ‘Mi wyddwn i,’ meddai fe heb fod neb yn ei glywed. Ond roedd agor yr amrant fel lluchio drws ar agor.

‘Dwyt ti ddim yn dychmygu y gallwn i aros o ’ma Len Llwyd.’

‘Na.’

‘A thithau’n cipio fy ffrind orau.’

‘O’r braidd.’

Nesâi Mair at y gwely. Syllai’n bryderus ar y talcen cadarn hwnnw, ar weddillion y bochau, ar y clustiau goramlwg oherwydd gwywo’r cnawd yn ei wddwg. Bu bron iddi blygu drosto yn y fan a’r lle i hawlio’r cusan a oedd yn lled-addewid iddi ers blynyddoedd pys, y cusan ar ei esgyrn gwyn, y cusan ar ei wefusau porffor. Ond ymataliai gan fod un arall bellach wedi etifeddu’r hawl honno.

Pan welsai Mair Len y bore hwn roedd hi wedi ymbaratoi ar gyfer ei weld yn wahanol, hyd yn oed yn wannach na'r diwrnodau cynt. Disgwyliasai y buasai salwch wedi erydu tipyn arno bob dydd. Ac yn wir, roedd yn waeth na'r disgwyl. Suddasai'i fochau am yr asgwrn. *Alter ego* oedd. Ond nid oedd hi'n barod am y prif gyfnewidiad. Ac yna, sylweddolai. Er gwaetha'r gwywo erchyll, yr oedd ei brydwedd wedi ymdebygu fwyfwy i brydwedd Maxine ei hun o gylch y llygaid, yng nghorneli ei enau, fel pe bai breuddwyd honno amdano wedi'i dynnu ef o ran golwg yn nesnes ati hi. Atynasai Maxine Len i mewn i fowld ei chysyniad penderfynol o freuddwydiol ei hun amdano.

'Oni ddylen ni adael llonydd iddo?' mynnai'r esgob eto mor anesmwyth ag erioed.

Crychai talcen Len. Nid ynganai ddim. Roedd dafnau chwys fel mwclis am ei lygaid.

'On'd yw hi'n anwedduth tarfu ar ei drawth yn ythod y munudau cythegredig hyn?'

'Ac yntau wedi aros bron trigain mlynedd am yr achlysur hwn?' meddai Mair.

'Dwi'n deall hynny; ond y thtraen, y gwendid.'

'Pwy sy'n rhoi'r ferch hon?'

'Fi,' meddai Mair.

'Fi,' meddai Bertyn yn awdurdodol, fel y bydd gwrywod.

'Fyddai hynny ddim yn anarferol?' holai Bill gan droi at Bertyn. 'Brawd y priodfab?'

'Gobeithio'i fod e,' meddai Bertyn.

'Clywch,' meddai Mair, 'dwi wedi dod yr holl ffordd o Awstralia yn unswydd i roi hon.'

'A dwi wedi dod yr holl ffordd o'r ochr arall i ragfarn. Fi sy wedi dod bellaf.'

'Gwell i mi ei rhoi hi te,' meddai'r esgob.

'Taw pwy sy'n ei rhoi hi,' meddai'r gweinidog, 'dyma hi ... ar blât. Wedi glanio, wedi cael ei rhoi'n ddiogel ei gwala gan ragluniaeth.'

'Rho dy law i mi Mair,' murmurai Len heb agor ei geg, Casanofa'r esgryn.

'Gwell i ti orffwys nawr, meddai Mair gan estyn ei braich.

'Mi ddisgwyliais gryn amser i gydio yn y llaw fechan honno,' meddai ef fel math o absenoldeb. 'Pwy sy 'ma?'

'Dy ffrind Bill, dy frawd, dy wraig i fod, Arthur, Megan gwraig Arthur, Joyce, Helen, rŷn ni i gyd yma. Mae'n barti mawr.'

'Diolch,' meddai hynny a oedd ohono.

'Ydw i'n cael ei gusanu, Maxine?' holai Mair yn od o annhymig.

‘Wyt, ond nid yn rhy angerddol. Pigad bach.’

A phlygodd Mair: gosod cusan ar ei lygaid, gosod un arall ar ei wefusau sych.

‘Rhy hwyr,’ gwenai Maxine.

‘Ti yn awr, Maxine.’

‘Len!’ ebychai hi a’i gusanu sawl gwaith dros ei wyneb.

‘Mewn pryd,’ meddai Len yn anhyglyw.

‘Ie Len,’ meddai hi heb ei ddeall.

Tua hanner nos ydoedd ar gusanau ym mynwent y ward.

Gafaelai Len yn dynnach yn llaw Maxine. Bellach, rhyngddyn nhw yr oedd yna gynghanedd ystyr.

‘Caru’r gorau yw dy y garu di’n llawn,’ murmurai ef.

‘Adnabod yr Uwch yw adnabod pob is,’ atebai hi.

‘Mae eithiau mwy o drefn,’ meddai’r Esgob yn bendant. ‘Anghydfurfwyr!’ ebychai dan ei anadl.

‘Gwell imi ailddechrau,’ meddai Arthur. ‘Mae’r gynulleidfa i gyd wedi cyrraedd. A’r briodferch hawddgar a gosgeiddig.’

‘A gwryfol,’ meddai Maxine, hithau’n anhyglyw hefyd.

‘A hyd yn oed y priodfab gorfoleddus,’ murmurai Len gan gynhyrfu am eiliad. ‘A’i wynt yn ei ddwrn.’

‘Dyma’r breuddwydion yn dod at ei gilydd felly,’ meddai Mair yn dawel, hithau y tu hwnt i glyw neb drachefn.

Cil-sbiai Len arni. Sylweddolai fod Mair hithau wedi bod yn byw, drwy flynyddoedd o absenoldeb, ynghladd mewn cwsg difreuddwyd. Ond roedd ef yn rhy wan i wenu. Yn sydyn, teimlai’i du mewn yn ysigo’n fwy byth. ‘Ydw,’ meddai fe.

Ac yna ailddechreuai Arthur ar ei barabl ac ymlwybro yn ei flaen ar hyd llwybr go gyfarwydd.

‘Leonard Gwenogfryn Llywelfryn Llwyd. A gymeri di y ferch hon yn wraig briod i ti ...’ Ac yn y blaen.

‘Maxine Pearse ... A gymeri di y mab hwn yn wŕ priod iti’ ... Ac yn y blaen.

‘Yna rhodded y mab fodrwy am bedwerydd bys llaw aswy’r ferch ...’ Ac yn y blaen. Ac yn y blaen.

‘Gadewch imi gymryd llun o’r briodas,’ meddai Mair.

Closiai Maxine yn nes byth at lun Len.

O'r braidd erbyn hyn fod y gŵr yn ymwybodol o gwbl. Cydiai Bertyn yn ei law, gan roi'r fodrwy ynnddi, a'i chodi a'i gosod am fys estynedig Maxine. Roedd y gwely cystudd erbyn hyn fel llyn llonydd, fel Llyn Llygad Piblig. Roedd y tân eisoes wedi peidio yn y dŵr. Yn ei led-gwsg lled-farwolaeth, edrychai Len yn gyflym ddall drwy'r lluniau llonydd yn yr albwm o'i flaen. Oes arall, byd arall, bywyd arall. Allan o'r llyn yr oedd tawelwch fel goleuni ysgafn yn codi'n araf o fysedd ei draed i fyny dros ei benliniau.

'Ddim eto ... gant y cant,' meddai fe, yn gwbl ddi-lais.

Beth oedd e'n feddwl?

Yna, cofiai Maxine fel yr oedd ef wedi crybwyll ambell dro mor ogoneddus fyddai i ddau garu gant y cant. Er pwysiced oedd atyniad corfforol, dyweder, yr oedd peth felly yn enbydus o dlawd: deg y cant yn unig ydoedd. Nid oedd atyniad felly yn ddigon heb gyfeillgarwch, heb barchedigaeth ac ymostyngiad, heb garedigrwydd ac ymddiriedaeth a rhyfeddod. Clywsai hi hen hen bregeth ganddo hyd syrffed am amddifadrwydd yr ugeinfed ganrif. Nid oedd gan 'Ryw' o fath yr ugeinfed ganrif namyn cloffni annigonol dros dro. Nid ymestynnai i'w lawn dwf. Sarhad amddifad ydoedd mor fynych. Ni wyddai ond yr addurniadau heb y dyfnderoedd aeddfed yn ogystal â'r uchelderau. Ac eto yr oedd yno.

'Yn gymaint â bod Leonard Gwenogfryn Llwyd a Maxine Pearse wedi ymgyfamodi â'i gilydd mewn ...' meddai'r gweinidog, ar gyhoeddi'n hyderus fod priodas y ddeuddyn yn ddilys odiaeth. Ond cyn iddo orffen ei frawddeg, 'Cant Maxine!' anadlai Len fel tagfa, ac yn y murmur hyglyw hwnnw cronnwyd anwylo bywyd cyfan. Llwyddai ef i gelu dirdyniad ei gyhyrau.

'... mewn priodas, yr wyf felly ...'

'*Fe* — Maxine yn y cwlwm eithaf!' ddi'r rhith ochenaid awchus yna drachefn oddi wrtho ond hyd yn oed yn llai nag o'r blaen, ac yna peidio. Peidiodd yr holl ystafell. Peidiasai.

'Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,' meddai'r gweinidog. Ond peidiasai'r anadl oll. Roedd Len wedi rhyw fath o fynd oddi yno heb fod y gweinidog yn ei gloi'n daclus. Roedd ei bendramwnwgl o wythiennau a'i helbul o aelodau wedi datod. Doedd dim problem. Ni allodd y gweinidog fynd yn ei flaen. Yr oedd hwn ger ei fron wedi peidio. Edrychent ar ei gilydd. Edrychent ar Len. Ni chafodd Bill gyfle i weddio.

Cododd Arthur ei ben, 'Mae e ...'

‘Doedden ni ddim mewn pryd. ‘Orffennwyd mo’r briodas,’ meddai Maxine yn ddiobaith. ‘Glywsoch chi beth ddwedodd e ... Fe!’

Teimlai Bill guriad calon y claf. Wrth ei arddwrn, wrth ei wddf. Gwrandawodd yn awdurdodol am ei anadl. Cododd un amrant yn ddoeth. Teimlodd ei galon a chyhoeddi’n araf ddwys, ‘Mae’i ysbryd wedi ymadael, ffrindiau.’ Buasai Len ar ben cyn i’r gweinidog gael cyfle i ddatgan yn benodol derfynol eu bod yn ŵr a gwraig. Doedd y gwasanaeth ddim yn gyflawn. Roedd y seremoni heb ei chwblhau.

Daeth Nyrs yno. Profodd ei guriad darfodededig, siglodd ei phen.

Cafwyd egwyl. Cafwyd ochenaid hir. Cafwyd llif. Bu pawb, heb symud, yn gwingo. Mor drwm fu pawb yn anadlu.

‘Buon ni’n rhy hwyr,’ dywedodd Maxine eto yn ei dagrau fel pe bai’r gwaelod wedi’i rwygo allan o’i byd. Bu ei chylla’n wylo. ‘Mae wedi mynd. Na, Len, na.’

‘Na,’ dywedodd y gweinidog yn fwy awdurdodol.

‘Do, methon ni. Fe aeth e cyn inni orffen.’

‘Na,’ meddai’r gweinidog drachefn.

‘Fy Len i,’ dywedodd Maxine. Gwasgodd ato. Cydiodd ynddo. Cododd hi ei ben a’i ysgwyddau ati. Anwesodd ef, mor real yno. (Anniddigodd yr esgob.) Ond roedd hi’n ffoli arno. Ei gyfeillgarwch. Ei ymostyngiad. Ei gorff. Ei garedigrwydd. Ei ryfeddod. A llifai’i galar ohoni mewn gwichiadau mân fel ast fach y sathrwyd arni ac a giciodd i gornel. Ochai hi. Siglai o’r naill ochr i’r llall wrth gofleidio’r corpws llipa. Roedd hi wedi’i ddarganfod ef. Cusanai’i dalcen. Awchai’i fochau.

Yna, sythai, codai hi fel pe bai’i chorff ei hun wedi llifo allan ohoni.

‘Mae popeth yn iawn,’ meddai’r gweinidog anghydfurfiol. ‘Duw sy’n rhwymo yn y llw. Nid fi. Nid geiriau’r gwasanaeth hyd yn oed. Yr adduned. Dyna’r briodas. Rhoi calon i galon o flaen tystion dan fendith Duw. Fe’ch priodwyd chi cyn i fi ddechrau. Yn ddiogel ddigon. Ac fe gafodd hwn bellach y Goleuni i gyd.’

‘Ond *clymu’r* briodas yn dwt mewn gwasanaeth cyflawn? O Len.’

‘Do. *Fe’ch* priodwyd chi yn ddiogel ddilys. Dwi’n cyhoeddi hynny. Nid ’y ngeiriau i sy’n troi’r arwydd yn sylwedd. Chi sy’n priodi. Nid fi. Disgrifio ffaith yw fy swydd i. Duw sy’n ’wneud i’r rhai sy’n ymdyngheду i’w gilydd. A dwi’n cyhoeddi hynny nawr.’

Roedd yr esgob yn edrych yn anesmwyth.

‘Run fath â dod yn Gristion gyda ni,’ meddai’r gweinidog. ‘Gyda ni’r *Bedyddwyr*, fel

gyda chi'r *Annibynwyr*, peth y mae Duw'n ei wneud, nid y gweinidog, yw priodi, fel nad gwaith unrhyw eglwys gyfundrefnus na swyddog yw llunio aelod.'

Anniddigai'r esgob.

'Duw sy'n gwneud y pethau pwysig. Dim ond sôn amdanyn nhw dŷn ni'n 'wneud.'

Gwgai llygaid yr esgob.

'Calon newydd, y pryd hynny a'r fan yna, heddiw, galon mewn calon. Gwaith Duw i gyd.'

'Felly rŷn ni'n wŷr ac yn wraig *gadarn*. O Len, fy Len i.'

'Ydych, gan y Clymwr Mawr.'

'Cant y cant. O Len, 'y ngŵr.' Ei hymddiriedaeth hi, ei anwyldeb ef.

'Ydych, yn ddiogel. Llongyfarchiadau Maxine.'

'Mi ga-i gyhoeddi hyn yn awr, ga-i, yn y papurau lleol, yn y papurau cenedlaethol?' holai Maxine.

'Cewch,' meddai Arthur, 'dros y rhyngwe.'

'Ac mi ga-i 'ngalw'n Mrs Llwyd am weddill fy oes.'

'Cewch ym mhobman.'

'Nid yng ngolwg y wladwriaeth,' meddai Bill.

'Twt, twt. Dihirod yw'r rheina i gyd ta beth,' meddai Berthyn. 'Dyw'r rheina ddim yn cyfri.'

'Ond yn go iawn,' ategai Arthur gyda hyder.

'Ond beth am y llofnodi? Beth am yr arwyddo seciwlar gwladol?'

'Dim. Hyn sy'n cyfri. Deuddyn yn derbyn calonnau'i gilydd.' Dyna ddiwedd ar y ddadl.

'Fy Len i,' meddai Maxine wrth ei weddillion hoff.

'Yn go iawn, mae'n burion, yn dechnegol felly, mae'n debyg,' meddai'r Esgob o'r diwedd yn edifeiriol garedig gan ymfodloni ar sefyllfa astrus, a chyda holl awdurdod Caergaint a Chyngor Eglwysi'r Byd a Chytûn a'r farn gyhoeddus y tu ôl iddo. 'Chi sy'n dweud,' meddai wrth y gweinidog. 'Tipyn o ffwdan seciwlar yw'r llofnodi gwladol efallai. Ar gyfer pobl y dreth incwm.'

'Mrs Llwyd, wedi'i chyfannu,' meddai hi.

Cydiai hi o'r newydd yn llaw arw ac oer Len. Plygu drosto a'i gusanu. Roedd y dagrau'n ysgubo dros y flanced. Nid oedd hi eto wedi galaru. Nid galar go iawn oedd hyn. Cyn i'r gwae darddu o'i mynwes, cyn iddi fynegi'i dolur yn glywadwy. Ymataliai. Rhaid

oedd cael gwybod yn fewnol pwy oedd hi a sicrhau fod dymuniad Len wedi'i gyflawni. 'Ac mae'n ddilys?' Daliai'i hanadl. Syfrdanwyd hi. Tonnodd ei thrallod yn awr i fyny o'i mynwes. O'r gwaelodion taer. Ubai heb sŵn. Nid eto, nid eto. Ochneidiai'i henaid. Rhaid oedd iddi ymatal fan hyn o hyd. 'Y Gras a'r Ddeddf,' meddai hi.

'Mae'r cyplysiad yn syml. Fel y mae cydio Brenin y Gogoniant a'i eglwys yn un yn rhywbeth tu hwnt i neb ddyn i'w wneud, felly gŵr a gwraig,' meddai Arthur gyda'r Beibl yn ddyrchafedig yn ei law. 'Y Gogoniant ei hun, neb llai sy'n gwneud y peth hwn. Dim ond cydnabod yr hyn 'wnaeth ef eisoes yn eich llw chi i'ch gilydd, dim ond cyhoeddi ar ôl y digwyddiad, felly, dyna'r cwbl dw innau'n ei wneud.'

'Fe gas e ei wraig yn grwn, te. Do, yn ddiogel ei wala,' meddai Mair yn dawel.

'Does dim angen dim arall, yn sicr ddim Cofrestrydd, ddim plaid na deddf gwlad, meddai Bertyn.'

Doedd neb yn gwybod beth i'w ddweud. Aeth Bertyn, brawd Len, at y ffenestr a'i hagog — annigonol oedd edrych drwyddi. Y ffermwr ynddo a geisiai ollwng yr awyr iach i mewn neu'r awyr fwl allan.

'A finnau 'ngŵr,' meddai Maxine yn fuddugoliaethus drist. 'Y gweddillion gogoneddus hyn yw ngŵr i,' meddai'n rhyfygus. Ar ei wyneb hardd yr oedd crychau i gyd wedi diflannu, er bod yna gysgod o wên arno. Roedd golwg ei gŵr yn debyg i fachgen drygionus newydd gyflawni rhyw wrhydri na ddylai fod wedi'i wneud. 'Ac mae'n ŵr go iawn, nid ffansi, nid breuddwyd. Dw-i wedi cael y gwir. Rŷn ni'n deulu ... Mrs Llwyd!'

O'r braidd fod y fath lawenydd erioed wedi cyfarfod yr un pryd â chymaint o realiti dirdynnol, heb fod neb yn gwybod beth i'w wneud.

Trodd Maxine at Bill: 'Wel Bill, dyma lawenydd chwithig iawn mewn trychineb. Beth dych chi'n feddwl?'

'Fuoch chi'n weddol agoth. Chawthoch chi ddim o'r Cariad llawn, efallai, y Cariad cytbwyth amlochrog y gwyddoch chi ei fod ef ar gael. Ond buoch chi'n agothach na llawer. Efallai'n agothach na neb.'

Wedyn, trodd Maxine at y gweinidog a'i priodasai; trodd at Mair. Gwenai. Safai'n ôl. Daliai yn nwylo Mair.

Murmurai hi: 'Esgusodwch fi.' Edrychodd y ddau arni'n chwilfrydig ac yna at ei gilydd. Ymwybyddai hi â phob llygad arni. Teimlai glawstroffobia'r dyrfa. Ciliodd hi wedyn o'r neilltu i'w galar preifat. Ciliai i ystafell y merched. Yr oedd am fod ar ei phen ei hun

gyda'i gŵr. Yno.

'Gwell imi beidio â'i dilyn,' meddai Mair. Ar ei phen ei hun yn y fan yna, tywalltai Maxine ei thrallod i'r awyr, ei dagrau a'i diolchgarwch. 'Len, Len.'

Roedd popeth mor sicr yn awr, yno yn ystafell y merched. Mewn lle dirmygedig felly y dechreusent, ac mewn mynwent bellach y caent efallai eu mis mêl cytûn, cydorwedd ymhlith y beddau. Er ei waethaf, angladd ei fam ef yno mewn rhyw ffordd eironig fu eu neithior hwy. Bellach, o leiaf, mewn dimensiwn newydd, caent rywfodd adnabod bendith dawel ei gilydd.

## 22

### RUHEPUNKT

Cafodd Maxine cyn bo hir ei bod yn sefyll eto ar lan Llyn Piblig, a'r ystyr oll bellach wedi dwyn tangnefedd i'w hysbryd. Roedd rhith o wên ar draws ei galar wedi llithro'n sefydlog i gefn ei llygaid. Hi mwyach oedd gweddw Len. Ac roedd hi wedi rhannu'i farwolaeth ag ef yn ei hing a'i llawenydd.

Gorwedda'i breuddwydion yn awr yn eu rhacs o'i deutu. Ond dyna pwy oedd hi, gweddw Len yn solet ac yn sad. Gwyddai Llanbiblig i gyd hyn, ac yntau wedi darfod: gwyddent oll — hyd yn oed os oedd hynny o dan orchudd gwên — ei fod wedi bod yn ŵr iddi. Câl hithau fynd yn ôl i Awstralia'n gyfan pe dymunai, yn weddw ddilys real. Câl fynd i rywle rywle, wedi datod llawer o'i gorffennol ei hun ac wedi dwyn chwerthin i galon un gŵr glân yng nghyfnod llwytaf ei fywyd. Yn ymyl ei bedd ei hun y bu hi, wedi profi cyflawnder penodol fel y gwnaethai yntau yn yr un fan. Dyma efallai fysai'r lle gorau i bawb briodi, meddai hi wrthi'i hun gan ei phryfocio'i hun yn llym, 'yn ymyl ffin.'

'Ond, dyna ni ... i ni'n dau yn y diwedd ulw, mi gafwyd priodas mewn gwirionedd gant y cant.' A dyna ran fawr o'i thangnefedd.

Drannoeth y digwyddiad rhyfedd hwnnw, dihunodd Maxine yn y Talbot. Roedd fel pe bai ar ganol y broses o lanio ar ddaear newydd. Edrychai o'i hamgylch. Na; doedd 'na ddim anghyffredin o ddieithr yno. Roedd yr ystafell yn y Talbot yn union fel y bu hi wythnos ynghynt. Doedd dim terfynfa maes awyr yno ar gyfer mynd adref, na'r plastig, na'r awyrgylch clinigol fel pe bai'n paratoi ar gyfer llawdriniaeth. Dim ond y bwrdd gwisgo ar bwys y ffenestr. Y cloc ar ganol y silff ben tân. Y ffiriliau ar ymyl gorchudd y gwely. Digyfnawid oedd popeth o bwys yn y byd benbwygilydd.



Beth a arhosai nawr?

Roedd hi'n drwgdybio, ac yn sicrach nag y buasai erioed yn ei byw, mai breuddwydio a wnaethai wedi'r cyfan. Breuddwydiasai iddi groesi'r môr lawer o flynyddoedd yn ôl, nid at ei hymerawdwr, ond at Len Llwyd. Priodasant, do. A Mrs Llwyd oedd hi mwyach. Mrs Llwyd ledled y fro fysai hi. Gwyddai hi hynny. Bu yntau farw. Ffaith oedd hynny. Ac nid oedd hyn namyn estyniad mwy diriaethol o'r breuddwydio syml solet hwnnw. Llwyd: dyna'i henw; ond nid dyna'r cwbl.

Ei hoffi neu beidio, roedd hi er ei gwaethaf wedi dysgu wynebu ffeithiau eraill bellach. Roedd gofyn iddi adeiladu strwythur newydd o fewn fframwaith amser. Fe fuasai yna hen Faxine, yr oedd yn argyhoeddedig o hynny, a lithrasai i ffwrdd. Nid breuddwyd heddiw oedd tristwch digymrodedd yr un newydd. Dyma, bellach, graster daear, yn alarus, ond nid yn unplyg alarus. Dôl dyddiau, wythnosau, a misoedd anhysbys â'u dealltwriaeth newydd.

Yn feddyliol, dechreuai hi ymsefydlu'n bwyllog yn y pentref. Rhoddodd fath o fuchedd at ei gilydd. Prynodd hi hen dŷ Meri Defis. Caed to twt uwch ei phen.

Âi allan am dro cyflym. 'Prynhawn da, Mrs Llwyd.' Dôl yn ei hôl i Lanbiblig. Dyma'i lle. Na; âi hi byth yn ôl i Awstralia mwyach. Daethai hi ymlaen bellach at fro Len. Ond dôl rywsut yn ôl hefyd i'w thŷ gwag ei hun o gam i gam myfyriol. Ai fel hyn y byddai hi mwyach? Gwacter am dymor? Na: ni allai aros yn llonydd yn y lle hwnnw chwaith, rywsut. Na, doedd Len ddim yma o ddifri. Ni wiw breuddwydio amdano. Yr oedd bywyd newydd yma. Gadawyd hi gyda hi ei hun ynghyd â'i holl amgylchiadau'n ei hamgau, ar ei phen ei hunan fach felly, yn y bydysawd. Hon, y fenyw hon, hon yn crwydro'n foel o gylch y tŷ, o ystafell i ystafell yn chwilio amdani hi ei hun, dyna oedd ar ôl iddi. Y fraich hon, y droed hon. Heb freuddwyd. O bell ar y gorwel drwy'r ffenestr synhwyrri fod yna rai cysgodion a âi heibio o un i un. Ond yn y gwylly gwallus hwn y'i cedwid hi yma yn awr mewn dimensiwn newydd.

Sobrodd.

'A-i allan am dro drachefn.' Roedd eisiau wynebu'r sefyllfa newydd. 'Mae'n rhaid imi wneud rhywbeth o hyn.' Byddai hynny'n fath o harddwch: bod yn effro yng nghanol yr hewl ac wynebu'r diamheuol o'r newydd. Dyma fywyd beunyddiol yng Nghymru mwyach. Mynd allan a wnâi hi gan wybod fod yr hewl ar gael yn y fan yna, a heb graffu, fod arni smotiau sylweddol o laid, ac olion olew, fod yna bobl yma ac acw. A bod ei chariad hi, ei gŵr, wedi trengi ac yn disgwyl amdani yn y fynwent acw, wedi ffarwelio ond heb ymadael yn llwyr â

hi, ond heb fod heb fywyd. A'i weddw ef oedd hi.

Ar y ffordd gwelodd fwy o bobl yn Llanbiblig nag sy'n arfer bod ar ben yr hewl — Bessie Jennings, Alwyn Brown, Peggie Cohen, Grahame Deicyn, Jane Thomas, Beth Nessah, Twm Adams, Syd Wiliams, bron yn orymdaith fanerog eithr heb faneri. 'Prynhawn da, Mrs Llwyd.'

Oedd rhywbeth yn digwydd heddiw?

Dim ond hi. 'Mrs Llwyd!'

Fe'i cafodd ei hun yn anfwriadus, ond yn benodol ar bwys y llyn unwaith eto. Yn ei meddwl, bu hi erioed yn bwhwman rhwng tân a llyn: cafwyd rhyw fath o ymddiddan ar waith o hyd. Weithiau byddai'r tân Awstralaidd ynndi yn ysgwyd ei ben ffyrnig, ond dro arall gorweddai tangnefedd y llyn Cymreig fan yma ar ei thraws yn gydwybodol ei defodau. Ar ei hyd ac o'i hamgylch, roedd y dyfroedd yn ffurfiol dawel eu crychiadau swil y tu mewn. Y rhain oedd yr elfennau a'i hawntiai byth ac y *dymunai* iddynt ei hawntio. Mor gyfareddol oedd y tangnefedd hwn.

Cofiai wrth gwrs am y tân y profasai Len ei farwor yn Awstralia, y tân a oedd wedi goleuo'r cyfandir i gyd iddynt, math o gannwyll yn glanhau'r tywyllwch diderfyn. Tân barbaraidd dros dro fu hwnnw. Ac eto, yr oedd yna ddŵr go iawn yn y fan yna hefyd.

Ond na: dyma'i chartref mwyach, fan hyn yn awr yng Nghymru yng nghanol y cymysgedd hwn rhwng y dŵr a'r tân. Dyma'r lle i benderfyniad. Hi oedd cynrychiolydd Len yma. Cynrychiolai hi'r teulu. Nid ymadawai i ddychwelyd i Awstralia byth mwy. Yma y byddai hi'n weddw i Len: acw ni buasai ond yn Faxine y freuddwydreg. Dyma'i lle hi, yn ei bentref ef, gyda'r atgofion difreuddwyd trist am ei wendidau ef a'i anghenion ef, a'i enw drwg ef ar hyd a lled y gymdogaeth yn gryf ar ffurf edifeirwch. A'i bobl ef fyddai'i phobl hi mwyach. Y pentref hunangyfiawn hwn oedd ei phentref hi gyda'i ragfarnau a'i arwyneboldeb a'i anwreiddioldeb edifeiriol. Aros wnâi hi yma i fyw fan hyn yn Llanbiblig weddill ei hoes, heb Len, heb fawr o barch gan eraill chwaith mae'n siŵr, bron fel petai'n breuddwydio, eto heb freuddwydion, ond yn hapus ac yn amyneddgar gariadus, gan wybod fod hyn yn sylwedd, a'i bod hi o hyd mewn cariad, yma yn y wlad hon.

Ac felly, nid aeth Mrs Llwyd yn ei hôl i fyw yn Awstralia. Bu iddi ymweld â'r cyfandir hwnnw yn bytiog bob rhyw dri-chwe mis. I daro cis. Daliai ati i ohebu â'i ffrind Mair. Ond wrth reswm, heb fod wyneb yn wyneb, ni allai'r cyfeillgarwch hwnnw lai na phellhau ychydig dros y blynyddoedd. Yma yr arhosodd hi. Ymsefydlodd. Darfu'r crechwenu.

Daethai o hyd i'w chynefin. Cariad sy'n ennill cynefin.

Menna, acw, ar ryw olwg a enillasai, felly, efallai. Menna druan. Hi a gafodd Mair yno. Ni warafunai Maxine hynny. Dechreusai Maxine o bell hoffi Menna. Ni allai lai na chydrynied â hi rywsut.

Wrth gwrs, ni allai hi lai na tharo wrth Helen ambell dro hefyd yn olwynio o gwmpas y pentref. Helen yma: Helen acw. Eithr ni lwyddodd honno byth i ddod yn ail i Fair. Roedd Helen yn meddu ar lai o ddelfrydau na Mair. Roedd yn llai mwyn. Soniai Maxine ambell waith wrthi am ddyfnder ei hapusrwydd; a chredai Helen wrth gwrs, fel Mair o'i blaen, er mai celwydd oedd y cwbl, mai celwydd difalais oedd. Coelïai Helen yn y bôn — yn wahanol i Mair — mai buddiol fuasai pe bai Maxine yn cael ei dadrithio a'i dadlennu gan seicoddadansoddwr dyweder er mwyn wynebu bywyd a'i drychineb fel yr oedd. Roedd Helen hefyd yn gïamster am feddyginiaeth amgen. Ond drwy drugaredd ymatalïai Maxine rhag pwyso arni i sylweddoli'i hunan-dwyll yn rhy eglur.

Na, nid Mair, nid Helen a oedd gyda hi mwyach. Ond Len. Ei gynefin ef oedd ei chynefin hi. Nid cydymostwng yn unig a wnaethent, ond cydymddyrchafu. Ym mhob man.

Onid dyna bwrpas priodi? Fan hon yn y fro arbennig hon, er mewn cryn amharch, llwyddai Maxine gyda help diymollwng Len i wneud llawer o gymwynasau digon cuddiedig i rai hen ac afiach, i rai unig a phrofedigaethus. Wedi'r cyfan, yr oedd hi'n meddu ar yr wybodaeth sicr iddi un tro, yn y gorffennol na ddôï byth yn ôl yn yr un ffordd, am ysbaid, ddechrau caru a pharchu un person arbennig arall hyd yr eithaf ulw. Nid oedd erioed wedi credu fod y fath eithafrwydd caru ar gael. Enillasai un y bu ganddi hiraeth a gwybodaeth ddilys amdano yn y fan hon. Cafodd gymar diriaethol a charedig i ddodrefnu'i hatgofion. Yma y safai hi mwyach yn gerflun i goffâu'r cariad a gafwyd ac a geid o hyd yn y lle hwn. Hi ar ryw olwg oedd gwraig y gweinidog o hyd, ac ef oedd ei gŵr hi. Profasai'r uchelderau meddwol i gyd. Fe'u seliwyd ill dau yn y cyfamod. Gwyddai fod Duw wedi cyfarfod â hi a Len, wrth iddynt gydymostwng i'r sofraniaeth ddwyfol. Braint gweddw dangnefeddus yw hiraeth iach. Roedd gorfoledd i hon ambell waith yn gallu tagu'i llwnc.

Felly, ac felly'n union, y gellid disgwyl y buasai bywyd gyda help cyhyrog Len yn dirwyn ymlaen yn ddigyfnewid drist-araul tan y diwedd ulw. Tyfai'i hysbryd, felly, o dan ei fugeiliaeth a'i wasanaeth parhaus. Ond roedd yna epilog; Ew! Oedd. Digwyddodd un tro annisgwyl arall ryw ddwy flynedd ar ôl marwolaeth Len.

Dechreuai enw 'Meri Defis' rywfodd, cyn-berchen y cartref newydd a brynasai Maxine,

yn anragweladwy hollol godi'n ddamweiniol yng ngŵydd Maxine mewn sgwrs gyda hwn a'r llall. Buasai'r enw hwnnw am gyfnod fel cysgod, yn gynnil gwta ond yn gyndyn, yn dilyn Maxine o ymddiddan i ymddiddan. Ar yr ymylon y'i crybwyllid hi, heb fod yn fwriadol. Ond roedd hi yno. Defis, Meri. Cerddai'r enw rywfodd ychydig o gamau y tu ôl iddi. Cysgod ydoedd a guddiai o'r golwg pan drôï Maxine yn sydyn i'w dala hi. Mewn corneli brysiog byddai Maxine yn llwybro heibio i'r sôn amdani, yn anweledig bron, eto yno. Roedd Maxine wedi anghofio'n lân amdani am gyfnod hir, y llun enigmatig yna a godasai yn fuan ar ôl iddi gyrraedd Llanbiblig ynghynt. Yn sgwrs pobl eraill, sut bynnag, yr oedd llun Meri Defis mwyach yn canlyn Maxine o hyd. Symudasai llun honno yn ddiweddar allan o'r ardal yn gorfforol, mae'n wir, heb ddychwelyd. Ac amherthnasol, eironig efallai, tynged broffwydol o bosib, oedd ei bod hi, Maxine, wedi meddiannu ei chartref, ac wedi troedio ei hen ystafelloedd. Eithr yn awr mynnai rhyw fath o bresenoldeb neu enwi rhithiol felly ei chanlyn yn y cof a chau o'r newydd amdani. 'Dwi'n cofio Meri Defis yn gwneud fel a'r fel,' meddai rhywun wrthi'n ddisymwth un diwrnod. Neu hawliai rhywun arall, 'Meri Defis wnaeth y paentiad yna yn y dafarn.' Ac yn y blaen. Materion cwbl ddibwys, ond yr hen enw 'na dro ar ôl tro, yn gylch crwn bwganus.

Un diwrnod, sut bynnag, a hithau bellach wedi ymsefydlu yn hen dŷ Meri Defis ers rhai misoedd, (o leiaf yn y tŷ lle y bu Meri'n byw cyn y perchnogion diwethaf), daeth Ffred Williams heibio i weld Maxine. 'Hawddamor ddieithryn,' meddai hi wrtho'n chwareus. Bellach, gwibiog a chymharol ddi-sgwrs fu eu cyfathreb yn y capel.

'Neges anghyffredin sy gen i,' meddai fe. 'Wyt ti'n cofio Meri Defis?'

'Ydw, debyg iawn. Dwi'n cwrdd â'i henw bob dydd. Bwgan go gyndyn yw hi.'

'Wrth gwrs,' meddai Ffred Williams gan syllu o'i ddeutu. 'Ei lluniau hi sy'n dal ar y waliau. Ei hen gartref hi.'

'Ym mhob ystafell.'

Pam yr oedd ef o bawb wedi dod ati? A sôn am honno? Doedd bosib fod ganddo ryw ddiddordeb personol ynddi hi, Maxine, nac ym Meri Defis.

'Meri Defis?' meddai hi. Pam Meri Defis?' Gwyddai hi am Meri Defis yn burion, wrth gwrs. Onid oedd hi'n hawlio ac yn llenwi tŷ honno bellach â'i hiraeth beunyddiol am wr? Honno oedd y cysgod a fu'n fath o *alter ego* iddi yn ei dilyn i bobman pan ddaeth yn ôl i Lanbiblig ar y dechrau, a'r un a'i hawntiai ac a'i hatgoffai amdani'i hun o hyd, rywsut, yr un ddirgel, ac yn awr fel pe bai'n gyrru cerbyd swnllyd ieuentid angofiadwy i mewn i ganol ei

llonyddwch newydd. Honno a fu'n fath o ddelfryd hefyd neu o gariad gobeithiedig ofer i Wili druan gynt. Ond yr un anochel a ddiplannodd oedd hi mwyach. Ei llun ei hun wedi dod a mynd. Darfu hi o'r golwg, yn ddisymwth hollt, ac ni chlywodd odid neb beth a ddaeth ohoni. Hynny a'i diffiniau hi nawr. Ond roedd hi, Maxine, rywfodd wedi aros yn ffyddlon i'w hatgof amdani yn ddiarwybod. Ai am yr union reswm hwnnw, os yn ddiwybod iddi, yr oedd hi wedi pwrcau'i hen amgylchfyd hi efallai?

'Mae hi'n gofyn amdanat ti.'

'Amdana i!'

'Nid yn unig yn gofyn sut wyt ti, ond yn erfyn am iti fynd draw i'w gweld hi am dro.'

'Beth sy wedi digwydd iddi? Ble mae hi nawr?'

'Aeth hi, mae'n debyg, i ddysgu mewn ysgol gynradd; Pentre-arth; ryw ddeng milltir ar hugain i'r gogledd-ddwyrain o Gaerafon. Ac yno yr arhosodd. Ymguddiodd fel petai. Doedd neb yn yr ardal hon yn gwybod fawr amdani. A bwrw ymlaen â'i phaentio wnaeth hi. Wyt ti'n cofio, bu hi'n fath o athrawes i Wili. Yn ddiweddar, bu rhai fu'n ymweld â'r ardal honno yn cario neges ati ar ran yr eglwys.'

'Ond pam fi? Beth sy'n bod nawr? Prin 'mod i'n ei nabod hi.'

'Mae hi'n wael iawn. Wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith ers tro. Mae'n gaeth i'w thŷ ym Mhentre-arth.'

'Ond pam fi? O'r braidd mod i'n ffrind iddi.'

'Dwi ddim yn deall. Ond gofynnodd yn benodol am dy weld. Roedd hi'n awyddus ofnadwy rywsut. Tybed a allet ti alw i'w gweld hi?'

Mewn penbleth, trefnai Maxine yn ddiymdroi i gyrchu draw i Bentre-arth. Os oedd 'na angen rhyw gymwynas ar y ferch, wel, doedd gan Maxine fawr i'w wneud o ddydd i ddydd. Ceisiai eisoes wneud peth siopa dros Bessie Jennings a oedd bellach yn methu â mynd allan o'r pentref i gyrchu'r archfarchnad i nôl ambell beth pwysig yn sydyn; helpai gyda thrysoryddiaeth yr eglwys hefyd; ymunai'n barchus yn y côr; a Chymorth Cristnogol wrth gwrs, o barch i'w hatgofion am Mair. A daliai Maxine yn wraig i'r diweddar barchedig Len Llwyd. Roedd honno'n swydd lawn-amser chwithig i freuddwydwraig. Bu hi'n talu nawdd i addysg merch amddifad yng Nghenia o barch eto i'w hen ffrind Awstralaidd Mair ac i Len. Ond roedd ganddi hi hen ddigon o amser ar ei dwylo o hyd. Len oedd ei phrif gwmni. Byw gyda'r marw yr oedd hi. A dyma'r un 'farw' hon yn holi amdani.

'Mae 'da fi esboniad sy'n ddyledus,' meddai Meri Defis wrth agor y drws iddi. 'Diolch

lawer i chi am ddod.’

‘O?’ yn llawn chwilfrydedd.

‘Cyffes, yn wir. Len Llwyd, eich gŵr, yw’r ddolen gydiol, fel y gallech ddychmygu. Fe fues i’n ei garu,’ meddai’n sydyn.

‘Caru!’

‘Down i ddim yn gariad go iawn iddo, wrth gwrs. Ond rown i wedi gwirioni arno. Hynny yw, o bell. O bell, bell. Yn anhysbys ddall o bell.’

‘Pell! Ffuantus yw caru felly.’

‘Welodd e ddim. O’r braidd iddo sylwi ’mod i ar gael. Rhaid ei fod e’n ugain mlynedd yn hŷn na fi. Roedd y cwbl yn amhosibl. Doedd e’n gwybod dim. Ond teimlwn reidrwydd rywsut i’w gyffesu i chi.’

Roedd Meri felly wedi llygadu Len yn hir gariadus ffôl, yn ddiâu. Ond ni bu yna’r un ymateb coch y delyn ganddo yntau i’w llygaid gwyrdd hi. Dyhead oedd hi nas aeddfedwyd. Mater o genedlaethau gwahanol oedd hyn o bosib. Roedd hi’n anferthol iau nag ef. Eto, pan ddaethai Maxine hithau i’r pentref am y tro cyntaf, yn ddieithryn syfrdan ac annisgwyl, sylwodd greddfau Meri ar y trydan rhyngddynt yn syth, cyn y naill a’r llall. Roedd yna wifrau hefyd. Tyfodd eiddigedd ym Meri. Ond eiddigedd cwrtais ac ystyriol oedd, eiddigedd taclus a gofalus. Cwmpodd ei chalon. Rhaid fu iddi sicio hyn o berthynas bosibl newydd. Rhaid fyddai archwilio’n hydeiml heb i neb ei hamau. Bu hi’n cadw gwyliaidwriaeth, felly, o bell, o agos. Bu hi’n canlyn Maxine. Doedd yna ddim byd yn y peth. Ac eto roedd ’na rywbeth yno, oedd, llawer. Ac o’r diwedd, wedi’r tyrchu a’r stilio a’r ymdrybaeddu, cilio fu rhan Meri. Aeth yn gysgod. Gwyddai mai dyna y mynnai Cariad iddi ei wneud. Ni allai aros yng nghwmni trydan o’r fath ymhellach. Ac ymneilltuodd. Cafodd swydd amgenach, ryw ddeng milltir ar hugain i ffwrdd. Digon pell, ond nid y tu hwnt i glyw. Ac ymsefydlodd yn benderfynol, yn ddiwyd, ac yn eiddigeddus o garedig mewn henferchrwydd caled: methu fyddai’i buchedd mwyach, marathon o weithio a phaentio, o gofio ac o salwch. Megis gweddw.

‘Roeddwn i’n meddwl ei fod ef yn rhyfeddol hollol,’ meddai Meri, yn syml ac yn ddiwyll gwta.

‘Yr *oedd* yn rhyfeddol. Y *mae* yn rhyfeddol.’

‘Ond gwyddwn mai chi oedd ei lawenydd ef. Bu’n rhaid imi sicrhau yn f’ymwybod fy hun mai chi oedd yr un. Dyna a gyfrifai am y canlyn dwl. Roedd ef wedi bod yn disgwyl am

rywun. Roedd hynny'n amlwg. A chi oedd yr un yna. Nid fi wedi'r cwbl. Roeddech chi wedi cael eich cynllunio iddo. Roeddech chi'n nes at ei oed. Chi oedd ei freuddwyd. Rhaid fu i mi gael dweud hyn oll wrthoch chi. Rych chi'n haeddu cyffes fel hyn. Len Llwyd oedd y rheswm yn y diwedd pam yr ymadewais i â'r ardal. Cysgod gwelw oeddwn i y pryd hynny, nid sylwedd. A thipyn o gysgod ydw i o hyd, ond o bell. Ie, yn ffuantus o bell. Ond dw innau'n profi gweddwdod.'

Roedd Meri'n falch i gael dweud hyn. Roedd Maxine yn anesmwyth o hapus i'w chlywed.

Dechreuodd cyfnod newydd yn hanes Maxine gyda hyn.

Bu hi draw yn ymweld â Meri yn bur aml o hyn ymlaen — yn wythnosol i ddechrau, yna ddwywaith yr wythnos. Daeth y ddwy yn ffrindiau llethol o agos. Mam adnabod yw ymarfer. Byddent yn sgysio am Len: yn adeiladu ei hanes o ddarnau. Wedyn, ddi tŷ ar werth ryw ganllath oddi wrth dŷ Meri. Sylweddolai Maxine fod y cariad od rhyngddynt wedi tyfu'n anfesuradwy. Er nad oedd angen symud i mewn i goleddu Meri na'i chynorthwyo, yr oedd tŷ cyfagos fel hyn yn hynod o gyfleus. Mudodd Maxine, yn syml, am fod eu clychau'n cyd-ganu. Un tro, ar ei phen ei hun, cyn symud at Meri, uwchben ei choffi un bore, wrth bendroni am y cyfnewidiad annisgwyl hwn yn ei buchedd, cododd Maxine ar ei thraed, a chodi ei chwpanaid o goffi, a chodi ei llais yn seremonïol, 'I ti, Len Llwyd, rwy'n gwneud hyn i ti.' Ymadawodd â Llanbiblig, er bod ei breuddwydion bellach am Len yn lletach. Peidiodd â chwarae rhan goeg gweddw'r gweinidog, er iddi gadw'i haelodaeth yn yr eglwys, a'i mynychu'n ffyddlon. Gwyddai yn awr lawnder cariad — at Len, at Mair, at Menna, ie at Meri — ac at yr Anweledig. Cyfeilles Meri fuasai hefyd mwyach, nid gweddw i'r gorffennol. Roedd y ddwy ffrind yn gwbl wahanol i'w gilydd. Gyda chynnydd yr MS, deuai Meri gyda'r blynyddoedd yn fwy annibynnol ei hymarweddiad. Ac eto, yn y diwedd craciodd hyn. A bu'n rhaid iddi ddibynnu ar Maxine. Cysgod fel petai oedd hi oherwydd y ddibyniaeth a dyfasai rywsut arni am Maxine. Fel nad oedd dim gormes heb israddoldeb, felly doedd dim cariad llawn ychwaith heb gyd-ymostyngiad. Daethant yn wir gyfeillesau cariadus er hynny. Heb droi'n lesbiaid yn ôl disgwyliadau bythwyrdd gogleisiol yr ugeinfed ganrif, ufuddhaent i'w gilydd. Symudodd Maxine yn nes at y cynhesrwydd benywaidd arall a'i harweiniai'n agosach hefyd tuag at Len. Cafwyd math o gylch crwn.

Gallent hyd yn oed gweryla, fel y bydd cariadon yn cweryla. Ac felly, oherwydd pwysau'r blynyddoedd, fe âi rhai o ddyletswyddau Maxine yn drymach drymach beunydd.

Câi ei bod yn ei cheryddu'i hun am deimlo'n anffodlon weithiau. Eto, fe'i gyrrid hi gan hoffter a pharch a serch a chyfeillgarwch a charedigrwydd. Ymostyngai'n angerddol i Meri. Roedd pob cariad breuddwydiol wedi'i hen chwalu mwyach. Mewn dyletswyddau glanweithdra, wrth ymgodymu â phwysau corff, o fewn undonedd dideimlad y berthynas ddiriaethol rhwng dau berson a oedd yn adnabod ei gilydd yn dda, fe'i disgyblai'i hun yn llym. Ewyllysiai garu-weithredu fel y gwnaethai Len. Teimlai hefyd ddyfnderoedd cariad naturiol a rhydd na chawsai erioed mo'r cyfle i'w datblygu gyda Len. A chaethiwed teg.

Yn ddiau, cartref diddewis, cartref diffyg ewyllys yw breuddwyd. Tŷ yw mewn lle y mae teimlad yn rhentu'r deall. Ond yn achos Maxine bellach, roedd ei deall hi wedi esgor ar deimlad, a'r teimlad hwnnw wedi ffrwytho ac aeddfedu mewn ewyllys. Ciliodd y rhamantiaeth i raddau helaeth, ac yna'n gyfan gwbl, a chafodd hi gariad glân gweithredu yn niwedd ei hoes. Ynghyd â chariad parhaol newydd sbon mewn cyn-wr, ac mewn uniaethu.

Nid syn efallai mai Meri Defis, yr un hon ar yr ymylon, yr *alter ego* o bawb, wedi'r adnabyddiaeth o Len gan Maxine, oedd yr un a'i hyfforddodd hi ac a'i diddyfnodd hi'n ddiarwybod yn y profiad newydd hwnnw. Yr oedd gwreiddiau Meri'n ddyfnach yn yr ardal. Yn wir, ni buasai erioed y tu allan i Gymru, ddim hyd yn oed i wlad mor agos â Lloegr. Gweai ei theyrngarwch a'i hadnabyddiaeth dros dwyn a thyno cymdogol. Dysgai Maxine, oblegid y profiad newydd hwn, ymlyniad. Dysgodd Meri i Maxine ei bod o'r diwedd wedi dod adref. Carodd Maxine Meri fel ei charu hi ei hun. Wrth ddysgu llawnder cariad rhaid i bob un, — felly y bu i Maxine o leiaf, — ddysgu bod pob un arall yn y byd ben bwygilydd yn *alter ago*. Roedd pawb yn gysgod i'w gilydd. Clywai waedd gyfyng rheidrwydd y tlotyn a'r dieithryn colledig. Cafodd Maxine, felly, y fraint brin honno o symud i mewn i gyfnod rhyfedd a bron yn arallfydol yn ei hanes. Y cyfnod olaf. Dyna'r pryd y bu i glwyf a harddwch gyda'i gilydd ysgogi ei mwynhad o gariad. A doedd hi, ers tro, wyneb yn wyneb â hyn, ddim hyd yn oed wedi'i hyfforddi mewn breuddwydion o'r math real hwn.

Gwyddent ill dwy hiraeth gwahanol ei gilydd; ac eto yn ei gilydd, caent fwy nag atgofion tebyg. Yr oedd gwybod am berthynas un ac un wedi trwchuso'u profiad yn nimensiwn yr ysbryd.

Ambell waith piciai Maxine o'r neilltu i syllu ar lun ei phriodas bondigrybwyll, ar silff yn y gegin. Gofalai Meri y prydiau hynny am beidio ag ymyrryd. Roedd tawelwch Maxine o'r neilltu yn consurio bywyd. 'Gair mor garedig fu caru' murmurai hi y tu hwnt i glyw ei ffrind. 'Buais i'n benderfynol o ddibynnu arno. Doedd 'na ddim gwrido ganddo fe, na chen



innau, ynghylch gwasanaeth nac ynghylch byd ffansi. O na bai pobun ar y ddaear yn cael, am un awr o leiaf yn ystod eu hoes dwt, yr ymddiried hyfryd hwn. Y gwirioni harddwch hwn. O! yr amhosib. Y gwybod purdeb. Yr adnabod sy'n goferu. A synnu, synnu, fel dw innau'n synnu...am un awr...fod y fath beth yn ymarferol weddus. Ac yn llawnder annealladwy i rywun. Pe baen nhw'n gwybod hyn, oni fyddai'r tir oll o'n deutu yn chwerthin? Allai fe ddim llai.' Dywedodd Maxine hyn heb fod yn hydeiml ynghylch ymateb Meri; ond ni phroffai honno ddim eiddigedd. Dôi Meri at ei ffrind, a'i chusanu.

Ar un bore Sadwrn, sylwodd Meri nid yn unig fod yr oergell bron yn wag, ond y rhewgell hefyd. Aethant i'r dref, Maxine, gyda Meri yn ei sgil yn ei chadair olwynion, yn chwilio am bopeth am dair awr, yn llysiâu, yn siocledi, yn llyfrau yn llyfrgell y dref, a thrwy'r amser yn clebran gyda'i gilydd, rhwng torth o fara brith a chreision yd, gyda'i gilydd yn siarad, a sgidiau newydd i Maxine, hidlyddion dŵr, cyrtenni gwyn i'r toiled, orennau, anrheg i Aled, siarad, heb sylwi braidd ar y siopau. Ar ôl tair awr fer, cafodd y ddwy eu bod wedi ymlâdd. Ac aeth Maxine i eistedd ar fainc hir gyda Meri wrth ei hochr ym Mharc y Castell, wedi bwrw'u plwc, heb ddigon o egni i yngan dim mwy, dim ond syllu yn eu blaenau heb bendroni, a dwy wraig ifanc yn nesaf atynt yn y man wrthi'n clebran yn ddi-baid. Dwy hollol ddiertth iddynt.

Dwy wraig ganol-oed o ifanc. Parabla'i'r rheini yn eu blaenau heb ddim i'w ddweud – eu gwŷr i ddechrau, fel roeddent wedi mynd yn anghofus, yr angen i wneud yr ardd, misdimanners gwleidyddion Llundain, cymdogion, yn gwbl anniddorol, rhaglenni teledu, ac yna o'r diwedd, y tywydd, yn wacter huawdl, hylwydd, hwylus, ac fel yr oedd wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac yn eu blaenau, dim oll. Ac yna, sylwodd Meri fel sythwelediad, a Maxine hithau, beth yn union a oedd wedi digwydd. Doedd y naill a'r llall o'r ddwy ifanc ar eu pwys, wrth siarad, yn holl fynydd ei siarad, ddim yn dweud dim oll. Y cwbl a wnaent oedd bod gyda'i gilydd. Rhwbient eu geiriau yn ei gilydd. Roedd eu sŵn yn caru'i gilydd. Wedyn, dechreuai'r dalaf o'r ddwy sôn am freuddwyd a gawsai'n ddiweddar. Breuddwyd hollol ddi-glem oedd, ac roedd honno'n gwau drwyddynt a throstynt. Y cwbl a wnaent ac a ddymunent oedd sicrhau bod eu seiniau yn ymhyfrydu yn ei gilydd, yn ymhoffi yn yr awyr, yn cyfarfod, yn trosiadol gofleidio'i gilydd, yn rhedeg, yn ymdroelli, ddawns drwy glebr, glebr drwy ddawns, nid oeddent am ddweud dim yn arbennig, frawddeg am frawddeg yn annwyl yn bodoli y naill yng nghwmni'r llall, geiriau'n edrych yn ddiddos ddi-bwynt ar ei gilydd, tan weld popeth yn ddall, yn gwenu, yn ymgynhesu, heb ddim sylwedd,

ond yn ddiddig braf, ac yn eu blaen, yn eu blaen, byth, byth, heb adwy byth yn un man. Ac eto, heb ddweud dim, yr oeddent yn dweud popeth.

‘Wyt ti’n gweld beth dwi’n weld?’ sibrydai gwên Meri rhwng hisian ei dannedd.

‘Wyt ti’n clywed beth dwi’n glywed?’ sibrydai Maxine hithau heb fod eithaf mor gynnil. Dechreuai honno wedyn chwerthin yn ysgafn, yn euog, snwffian chwerthin fel pe bai’n ceisio’i thagu’i hun.

A snwffiodd Meri hithau’n ddieuog gytûn a thawel. ‘Ni!’ meddai dan ei hanadl. Roedd y ddwy ifanc yn ddirprwyo iddynt hwy. Roedd eu cyd-snwffian yn gwau drwy’i gilydd, yn mygu difyrrwch brau, yn dyfnhau. Yna, yn sydyn wedyn, ffrwydrodd y ddwy wyliedyddes hynaf yn ddiymadferth, ceisiodd eu chwerthin redeg i ffwrdd i guddio, bwrstiasant yn eu chwerthin yn ddiymddiheurad drwy’r glannau, llifasant drwy’r parc. Tawodd y ddwy arall wrth eu hochr, heb droi atynt, heb ond craffu yn eu blaenau, yn fud, yn drwsgl, mewn syfrdandod ac embaras. Ond ni allai Maxine ei rheoli ei hun, cilsyllai Meri arni wrth ymuno fwy byth yn y rhialtwch. Roedd eu chwerthin ill dwy yn ymhyfrydu yn ei gilydd, yn pryfocio mwy o chwerthin, yn ymdroelli’n agos, yn ymgynhesu, taflent y chwerthin dros y castell yn dalpau rhydd, hyrddient eu bywydau fel peli eira at wynebau’i gilydd, am eu clustiau, ar eu hysgwyddau, dros eu gwallt, rholiai’u chwerthiun ar y llawr, roeddent yn diferu dros ei gilydd, wedi’u cuddio gan chwerthin gwyn, gwyn, yn caru’n braf yn yr awyr iach heb feiddio edrych ar ei gilydd, na chwaith ar y ddwy syfrdan o ddiideall wrth eu hochr. Cododd y ddwy hynny a oedd yn nesaf atynt heb yngan dim, heb syllu arnynt, a cherdded yn urddasol i ffwrdd.

Roedd hynny’n gymorth, ac yn embaras.

‘Wyt ti’n gwybod beth ddysgais i yn y diwedd gyda Len?’ meddai Maxine wedi sobri, yn annaturiol o bwyllog. ‘Rown i wedi bod yn ceisio amgyffred, yn arbennig yn y diwedd, beth oedd y cariad ’ma fu rhyngon ni ar y pryd. Beth oedd y cylch crwn. Rown i’n gweld llawer o’i rinweddau — aberth, cyfeillgarwch, atyniad corfforol, pob math o bethau. Ac yna, yn ei wendid, fe welais i’n ddisyfyd un peth arall rown i wedi bod yn ymbalfalu amdano oddi ar y dechrau. Fe welais i hyfrydwch gwendid. Dysgais i’i garu e yn arswydus o syml fel yr oedd. Wyt ti’n gallu deall hynny? Yn ei lesgedd, yn ei ddiymadferthedd, yn ei ddiddymdra bron. Nid ei geisio fel y dylai fod: ei fusnes ef ei hun oedd hynny. Ond ei dderbyn, yn ffaith, yn ei fwllch. A dyna Meri, yr yn ninnau’n dwy’n ceisio ei wneud gyda’n gilydd nawr. Dyna sy’n cymathu breuddwydion. Dyna yw bod yn gysgodion.’

Aethent adref yn araf deg.

Wedi baglu lawer ar draws tipyn o hunan-dwyll o fathau amryfal, wedi ambell gaff gwag newydd i gyfeiriad afrealedd, cyneuid gofal Maxine yn fynych yn awr gan y baw normal o'i chwmpas — fel yr oedd — , gan ei chwifio glanhau a'r paratoi pryder. Dyfnhaodd hi o ddydd i ddydd hyd yn oed drwy ambell aberth. Dôi Meri hithau yn fodd iddi synhwyro gollyngdod. Dysgent hyd yn oed yn amlach rheolaidd anghydsynied yn bwyllog gariadus. Rywfodd daethai breuddwydion Maxine hithau yn gysur iddi, bellach, yma ym Mhentre-arth yn anad unlle. Daethai Meri'n ddirprwy dilys i Len: dirprwyon ydym ni i gyd. Daethant o hyd i berthynas ddofn ddiagramgyffred. Gwendid yn plethu drwy wendid.

Ac eto, wrth gyd-syllu un noson i dân glo afieithus yn y lolfa, dyma Maxine yn gofyn tan sibrwd wrth Meri, nid o anfodlonrwydd nac o ddadrith, ond o wir chwilfrydedd: 'Ond mae yna fwy na hyn i gariad, on'd oes 'na? Mwy na'n cariad ni'n dwy at ein gilydd, on'd oes 'na? Mae yna ddaear gyfan drachefn ar ôl on'd oes. A mwy byth hyd yn oed na hynny i gyd on'd oes?' A dysgodd hi i Meri am hynny. Dysgodd i Meri am y cariad a oedd yn gudd ac am y tro yn anghyraeddadwy. Roedd Maxine wedi dod adref yn derfynol.

Eto, nid oedd hi wedi aberthu a cholli'n gyfan gwbl ei breuddwydion. Yn ystod y blynyddoedd hyn, byddai ambell waith yn crwydro'r tŷ ac yn hel bwganod byw. Crwydrai hithau'i hun fel bwgan, o ystafell i ystafell, ac yn arbennig ar y grisiau: tua'r gwaelod fe gyfarfyddai â hwy drachefn — Len yn eistedd ar ei hoff stepyn, yn grwn ac yn garedig, ac yn gwenu amdani hi, Wili yn crio fel baban a'i seiniau'n treisio'r nenfwd; Mair yn wybodus o fud yn ei gwylid hi; Charles; Helen; yr oeddent i gyd yno. Fe gaed yno rai pobl ddifyr hefyd nad oeddent fel pe bai wedi ymhoffi ynddynt erioed; ond yr oedd y rheini hwythau yn rhan ohoni bellach, y methiannau cyndyn yn fwy na neb weithiau.

Ac yna, dôi hi'n ôl at Meri. Ac ni wnaent ill dwy — heb fath o gymhelliad yn y byd — ond chwerthin. Dim ond chwerthin, gan estyn dwylo unig at ei gilydd.

[Nodyn Eglurhaol gan yr awdur: Wrth lunio'r hanes hwn, defnyddid yn helaeth ddyddiaduron Maxine. Bu'r blynyddoedd 1988 a 1994 yn arbennig o ffrwythlon, yn ogystal â gohebiaeth faith (a rwymwyd) rhyngddi a Mair, yn enwedig llythyrau 74, ac 81-91. Cedwir

y dogfennau perthnasol yn y blychau priodol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Er mai dychmygol yw'r cymeriadau (a'r lleoedd) yn y chwedl hon, nid felly'r digwyddiadau. Mae'r rheina'n gwbl ddilys. Ag un eithriad yn unig (ynghyd â'i gysylltiadau). Ni bu'r Parchedig Len Llwyd erioed yn Awstralia. Rhan o freuddwyd Maxine ei hun fu'r cyfnod hwnnw. Y cyfandir hwnnw, i'w darpar wŵr, Len, a gynrychiolai amser o wrthgilio ac o iselder ysbryd pur egr yn ei hanes wedi marwolaeth ei fam, a chyn iddo ef a Maxine gyfarfod o'r newydd yn ôl yng Nghymru. Dyna o leiaf oedd esboniad Maxine o'r cyfnod: ei chyfaddefiad yn ei nodiadau. Ond hi fyddai'r olaf i fod yn gwbl sicr ynghylch cywirdeb dehongliad felly.

Breuddwyd fu ambell un o'r helbulon a gafodd Len wedyn hefyd ym meddyliau Maxine, rhaid cyfaddef, yn enwedig pan oedd a wnelent â Helen. Mae'n debyg, yn y bôn, na fu neb erioed a freuddwydiai gyda'r fath ddiwylledd â Maxine. Er nad addefai hi mo hynny i neb, credai mai parhad di-dor fu cwsg ac effro iddi hi erioed. A math o ymwarded liw nos iddi fu'r breuddwydion hyn, yn ddiau, ffordd i ddatrys problemau, – fel i'r byd i gyd, mae'n debyg.]